

BT 901

.D52

Copy 1



BT 901

.D52

Copy 1




Class BT 901

Book D 52

PRESENTED BY

John K. W.

Very much used



David Brains
Gen. Dr.
Brother John
Braine

ANIANYDDIAETH SEFYLLFA DDYFODOL.

GAN

THOMAS DICK, LL.D.
VV

CYFIEITHIEDIG GAN RICHARD PARRY.

GWRECSAM:

ABGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN R. HUGHES A'I FAB.

[Printed 1848]

BTA 01
D 52

Gift
Mrs. L. Evans
1927

31

AT

THOMAS CHALMERS, D.D.,

DIWEDDAR DDYSGAWDWR ATHONIAETH FOESOL YN MHRIF-ATHROFA ST. ANDRIAS,
AC WEDI HYNY DYSGAWDWR DUWINYDDAETH YN ATHROFA EDINBURGH.

SYR,

Wrth gyflwyno y gyfrol hon i chwi, yn yr hon yr amcenir cymeryd golygiad cyffredin ar Athrawiaeth Sefyllfa Ddyfodol, fel y mae i'w hamlygu oddiwrth wyddoriaeth a datguddiad,—yr oedd genyf fwriad uwch mewn golwg, wrth ymgysgodi dan eich noddedd, na'r ffurf arferol o anerch un o'gyrhaeddiadau uchel mewn llythyriant.

Yn yr holl sefyllfaoedd ac y mae dwyfol Ragluniaeth wedi eich galw i weinyddu, yr ydych wedi profi eich hun yn noddwr gwresog i bob peth sydd dda—pob peth a berthyn i ddedwyddwch presenol a thragwyddol dynolryw; ac y mae eich clod wedi adsain o'r naill ben o'r wlad i'r llall, fel prif amdiffynwr y grefydd Gristionogol,—athrawiaethau yr hon y mae eich llais a'ch ysgrifell wedi gwneud cymaint er eu hegluro.

Y mae eich ysgrifiadau yn rhoddi tystiolaeth ddigonol i'r byd am eich difrifoldeb, eich bywiogrwydd, a'ch ymdrech diflino er gwellhau cyflwr moesol a chrefyddol dynolryw—ymdrech nad ydyw yn cael ei leihau drwy unrhyw wahaniaeth golygiadau a fyddo gan y rhai y cydweithredwch â hwy, pan y byddo yr amcan mawr i ledaenu gwybodaeth a dedwyddwch dros wyneb yr holl ddaear.

Y mae eich cyd-ddygiad â mi yn yr adnabyddiaeth bŷr a gefais yn bersonol o honoch, a'ch cymeradwyaeth o fy llafur, wrth geisio cysylltu Gwyddoriaeth â Chrefydd, yn fy nghynal i obeithio, os ydyw y golygiadau a gymerais ar y testyn hwn, i ryw raddau yn cyd-daro â'r eiddoch eich hun, y bydd i chwi gefnogi fy ymdrech gostyngedig i chwalu y rhagfarnau a fynwesir yn mysg llawer o Gristionogion da, mewn perthynas i'r duedd fuddiol sydd mewn arddangos fod gwyddorion y *byd presenol* yn gymhwysiadwy at amgylchiadau a pherthynasau *yr hwn a ddaw*.

Ar fod i chwi gael hir oes i fod yn amddiffynydd gwir Gristionogaeth—ac yn fendith ac addurn i'ch gwlaid—ac i fod yn hyfforddwr gwresog i'r rhai sydd wedi eu gosod i gefnogi ei phrif ddaioni; ac ar fod i chwi, yn ddiball, fwynhau yr hyfrydwch sydd yn cyfodi oddiar ymwybodolrwydd o barch a chymeradwyaeth y doeth a'r duwiol, ydyw gweddi ddiffuant,

SIR,

.Eich gwasanaethwr ffyddlon,

THOMAS DICK.

BROUGHTY FERRY, GER DUNDEE,

Rhag. 28, 1827.

ANERCHIAD AT Y DARLLENWYR.

Y MAE yn ddywenydd genyf gyflwyno y gyfrol hon, o waith yr enwog Dr. Dick, ar ATHRAWIAETH SEFYLLFA DDYFODOL, i'ch sylw, yn ei gwisg Gymreig. Y mae y testyn yn ddyddorol, ac wedi ei olrhain yn eglur. Y mae yn bwnc a fu yn wrthrych ymholiad holl ddoethion y byd Cristionogol a Phaganaiadd. Y mae yr awydd sydd ar ddyn iadael rhyw goffadwriaeth am ei enw ar ei ol, yn naturiol yn ei godi i sylw.— Dengys fod gwyddorion y byd hwn yn gymhwysiadwy at amgylchiadau yr hwn a ddaw; a bod yr amlygiadau a wneir o ogoniant y Creawdwr, mewn naturiaeth, wedi eu bwriadu i daflu goleuni ar ei lywodraeth foesol; ac ar y modd y mae pob peth yn cael eu goruwch-reoli, er derchafiad ei ogoniant ei hun, a daioni y rhai sydd yn ei garu. Y mae yr athrawiaeth am fodolaeth Awdwr natur, a llywydd cyffredinol y byd, yn wirionedd ac a gredir yn sefydlog yn ein plith, fel nad rhaid i neb anerch y cyffredin o'n cenedl, fel pe byddai a wnelement â anffyddwyr neu amheuwyr. Yr un modd y gellir dywedyd am yr egwyddorion o dragwyddol barhad a chyfrifoldeb dyn,—a bod gwobr a chosp yn y byd dyfodol, mewn cysylltiad â da a drwg yn y byd hwn, fel dybenion yn llywodraeth foesol Duw, ac sydd yn rheol gyffredinol i bob dyn er ffurfio ei gymeriad fel creadur cyfrifol; eto nid yw hyny yn lleihau dim ar yr angenrheidrwydd sydd o'u hegluro yn mhellach, er ein cadarnhau yn y gwirionedd presenol.

Nid oes, ond odid, yr un dyn ystyriol ar y ddaear, nad ydyw yr ymofyniadau canlynol wedi llanw ei fynwes lawer pryd,
“*Pa beth yw dyn? o ba le y daeth? i ba le y mae yn myned?*”
Ni allodd goleuni natur, na dysgeidiaeth y byd hwn, erioed roddi atebion boddhâol i'r holiadau pwysfawr hyn. Y man pellaf y gallwyd teithio wrth arweiniad rheswm heb gynorthwy datguddiad, ydoedd afon angau. Ni thywynodd llusern

goleuni natur erioed ond pelydr gwelw iawn hyd i'r ochr draw i'r llen. Byddai y ganwyll ddisgleiriaf a lewyrchodd mewn natur erioed, bob amser yn diffodd gydag y byddid yn taro y troed wrth y "mynyddau tywyll," ac yn dynesu at "ymyl y dŵr," ac ni byddai gan yr athronydd penaf, wedi ei holl olrheiniadau, ond sefyll ar làn y bedd, gan waeddi, "Gŵr a fydd marw, ac a dorir ymaith, a dyn a drenga, a pha le y mae?" Ond y mae "bywyd ac anlygredigaeth wedi eu dwyn i oleuni trwy yr efengyl," ac y mae atebion boddhâol i'r ymofyniadau pwysig uchod, wedi eu datguddio yn ngair y gwirionedd. Un o'r prif ystyriaethau a ddengys werth Cristionogaeth ydyw yr eglurhad a ddyry ar ddyfodiant, a'r esboniad a rydd ei horaclau ar y modd y mae i ni "gael ein gwneud yn gymhwys i gael rhân o etifeddiaeth y saint yn y goleuni."

Y mae dau eithafnod neillduol ac y mae dynion yn agored i ymollwng iddynt; a hyny ydyw, llithro i ddifaterwch ac anystyriaeth am eu diwedd, ar un llaw, a rhedeg i ormod o bryder a chywreingarwch, am gael gwybod mwy nac a ddatguddiwyd, ar y llaw arall. Y mae ymadroddion yr Ysgrythyr yn darlunio ein cyflwr presenol yn y byd hwn, fel sefyllfa barotcawl ar gyfer byd arall. Nid yw *holl* amgylchiadau y byd tragwyddol wedi eu hamlygu yn fanwl i ni eto; ac ni byddai ein galluoedd presenol yn ddigonol i dderbyn y fath amlygiadau. Y mae cymaint o olygfeydd "y byd a ddaw," wedi eu hegluro i ni, ac sydd yn ofynol er ein cyfarwyddo yn ein holl ddyledswyddau, fel prawfolion ar gyfer "gwlad well." Y mae cymaint o ogoniant y nef, a thrueni uffern, wedi eu dadlenu, ac sydd yn angenrheidiol er ein dysgu i gyrchu at y naill, ac i osgoi y llall. "Nid amlygwyd i ni eto beth a fyddwn, ond ni a wyddom, pan yr ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo," ac y mae y rheswm am y modd y bydd i hyny gymeryd lle, wedi ei gyhoeddi, sef mai trwy nerthol weithrediad "yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, gan ei wneuthur yn gyffelyb i'w gorff gogoneddus ef." Y mae pob peth oedd ddiffygol yn nghasgliadau gwyddoriaeth, wedi eu cwblhau yn sicrwydd datguddiad. Y mae Gair Duw yn dangos y bydd cyrph wedi eu cymhwys i breswylwyr y sefyllfa ddyfodol, ac y mae yn amlwg y byddant yn dra gwanhanol i'r peth ydynt yn awr; ac wedi eu cyfaddasu at y cyfnewidiad cyflwr sydd yn eu haros. Y mae corph pob creadur yn cael ei gymhwys i sefyllfa y byddo i fyw ynnddi; a

phan y newidir ei sefyllfa, rhaid bod rhyw gyfnewidiad cyfatebol ar ei gorff. Pan y byddo creadur yn symud ei sefyllfa o'r dwfr i'r ddaear, neu o'r ddaear i'r awyr, rhaid i'w gorff fyned dan gyfnewidiad, a'i cymhwysa ar gyfer newidiad ei sefyllfa. Pan y byddo yr abwydyn sydd yn y ddaear, yn cyfnewid i fod yn wybedyn yn yr awyr, y mae cyfansoddiad ei gorff yn myned dan gyfnewidiad priodol i'w amgylchiad. Felly, yr un modd, gan nad yw y corff dynol, yn ei ansawdd bresenol, yn gymhwys at fwynhau dedwyddwch y nef, "rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb." Er na amlygwyd i ni eto pa beth a fydd natur y cyfnewidiad, na pha raddau o unrhywdeb a fydd yn nefnyddiad hanfodol y corff, eto y mae yn amlwg na bydd dim yn y cyfnewidiad, a atalia i neb ei adnabod ei hun, nac i fod yn ymwybodol mai yr un a fydd y pryd hwnnw, ac a ydyw yn bresenol, mwy nac y mae ein cyfnewidiad yn y byd hwn, o fabandod i wrolaeth, ac o wrolaeth i henaint, yn achos o unrhyw amheuaeth am ein personau yn awr. Er na allwn ddirnaiad yn bresenol pa beth fydd ansawdd corff ysprydotol, eto dysgir i ni yn eglur y bydd y cyfnewidiad "er gwell," ac y bydd ei ffurfiad yn tra rhagori ar yr hyn ydyw yn awr, gan "na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw, ac nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth." Y mae y corff presenol yn dwyn "delw y daearol," ond bydd y corff ysprydotol "yn gyffelyb i'w gorff gogoneddus ef." Gwelwyd graddau o ogoniad corff Crist yn ei weddnewidiad ar y mynydd santaidd, ac y mae yn amlwg y bydd trawsffurfiad cyrph y saint, yn eu tebygu, mewn rhyw raddau, i'w Harglwydd mawr ei hun.

Y mae gwirioneddau Cristionogaeth yn ddigon eglur i'r gwerinwr, ac yn ddigon ddwfn-dreiddiol i'r athronydd. Y mae dirgelwch yn ngoruchwyliaethau gras, yn gystal ac yn nhrefniadau natur. Y mae yr anffyddiwr yn gwrthod y naill, o herwydd hyny, ac yn gorfod addef y llall, er hyny. Pa fodd bynag, "y mae cadarn sail Duw yn sefyll." Y gwahaniaeth rhynghddo ef a'r cristion ydyw, tra y mae y ddau yn cyddeithio tu a'r glyn, ac yn prysuro at yr un bedd, fod un yn gwrthod y ganwyll a'r ffon, ac yn ymddiried yn ei dybiau ei hun, a'r llall yn dewis cael eu help wrth fyned yn mlaen. Ar yr anffyddiwr y gorffwys y gwrthbrawf, neu y dasg o brofi nad yw dyn yn anfarwol; o blegid y mae hyny yn ddyledswydd

ar bob dyn a godo yn erbyn yr hyn a addefir yn gyffredinol gan bawb. Y mae yn ddigon amlwg i ni am ba beth bynag sydd mewn bod yn awr, y gall barhau i fod felly; oni ellir dwyn y rhesymau cryfaf i'r gwrthwyneb. A ydyw yn debygol y bydd i'r fath beiriant cywrain a'r corph dynol gael ei ddi-fodi yn ngharchar y bedd? Os nad ydyw, onid yw yn naturiol i ni gasglu y bydd iddo, nid yn unig barhau mewn bôd, ond hefyd i ymadnewyddu ar ffurf ragorach? "Pa beth? ai anghredadwy y bernir genych chwi y cyfyd Duw y meirw?" Rhaid fod rhyw ddyben yn adeiladaeth palas mor ardderchog a'r corph dynol, amgen nac i'w droi yn adfeiliau yn ninystri y bedd! Ai i ymgysgu â'r llwch y rhoddwyd prydferthwch i'r gwynebpryd, treiddgarwch i'r llygaid, a pharabl i'r genau? Ai nid oedd yr un dyben uwch mewn golwg, nac yn fwy teilwng o ddoethineb a daioni y Crewr, wrth roddi nerth i'r aelodau, cywreindeb i'r dwylaw, a chyflymder i'r traed, na'u trosglwyddo i gydfalurio â'r pridd yn "nhir tywyllwch fel y fagddu, a chyfod angau heb drefn?" Tra y mae y creaduriaid direswm yn gweithredu wrth reddf, ac yn cyrhaedd y perffeithrwydd priodol i'w hanian ar unwaith, y mae yn natur dyn fyned rhagddo, ac ymwella byth! Ac onid yw ei ffurfiad cynhyddol yn wylt o'i fod wedi ei fwriadu at sefyllfa uwch. Y mae yn ddiau y bydd i angau ddatod, a'r bedd lygru y corph, ond ni allant ei ddistrywio. Y mae ei gyfansoddiad ermigawl i fyned dan gyfnewidiad, a'i ddefnyddiau i gael eu dadgysodi, eto y mae yr oruchwyliaeth wedi ei hamcanu, er iddo adymffurfio ar drefniant rhagorach a mwy cyd-weddol â chyflym ysgogiadau y meddwl. Ac onid ellir dywedyd yn gyffelyb am gynydd yr enaid? Y mae y corph yn agored i lawr o gyfnewidiadau yn awr, ond y mae yr enaid yn aros yr un, ac heb ei nweidio mewn un gradd. Hyd yn oed pan y byddo y babell ddaearol yn dadfeilio, bydd yr yspryd yn ymwisgo â bywiogrwydd adnewyddol,—pan y byddo y "tŷ o glai" yn cael ei dynu i lawr, bydd yr enaid yn gallu ymgodi at Dduw yr hwn a'i rhoes! Onid yw hyn yn brawf tebygol cryf y gall yr enaid weithredu yn annibynol ar y corph presenol wedi y datodiad yn angau, ac na ellir ei ddistrywio byth? A ydyw yn debygol y bydd i'w holl olrheiniadau éang, ei gyrhaeddiadau helaeth, a'i alluoedd cryfion, gael ei gollwng i ddifodiant ar unwaith? A oes rhyw reswm dros i ni gredu, y bydd i'r enaid dealgar gael ei droi yn wag-

nod o fythol gwsg? A oes rhyw argoelion fod y Creawdwr wedi ffurfio y disgwyliadau sydd ynddo am fodolaeth tu draw i'r bedd, i'r unig ddyben o'i boenydio â siomedigaeth? Os felly, priodol iawn a fyddai gofyn eto, "Pa ham y crëaist blant dynion yn ofer?" Na, nid felly y mae pethau yn bod. Y mae yr enaid yn sefyll uwchlwm anmhariaeth, er holl gyfnewidiadau y corph, yn ei adeiladaeth gan natur, ei ddadfeiliad gan henaint, a'i ddatodiad gan angau! Nid yw dyn hyd yma wedi gweled ond "rhanau o'i ffyrdd ef,"—nid yw wedi darllen ond y ddalen gyntaf o blygion ei "fawr amryw ddoethineb," na gweled ond gweithredoedd dechreuoel "rhagorol fawredd ei nerth," na chael ond yr olwg flaenaf ar drysorau "anchwiliadwy olud ei ras ef." Y mae efe eto "yn disgwyl y mabwysiad, sef prynedigaeth y corph."

Mor ddyledus, gan hyny, ydym i Gristionogaeth, am ei dar-ganfyddiadau gwerthfawr, sydd yn porträedu ger bron ein llygaid, adgyfodiad y corph a'r byd ysprydol. Y mae pob cymhorth a gafwyd trwy wyddoriaeth ddynol, a'r amlygiaidau o gogoniant y Creawdwr a ddatgenir yn y greadigaeth, yn werthfawr iawn, ac ni all yr holl arwyddion o ddyben a bwriad a welir drwyddyt oll, lai na dangos llaw y bwriad yd, gan waeddi yn ddigon hyglyw i bawb, "Tydi, Arglwydd, yn y dechreuaed a sylfaenaist y ddaear, a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd!" Eto, er hyn i gyd, datguddiad oedd ein hathrawni at Grist, "yn yr Hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed, sef maddeuant pechodau," ac a'n dysgodd ni i wybod mai "Efe yw yr adgyfodiad a'r bywyd." Yma y mae dirgel-wch yr athrawiaeth wedi ei wneud yn hysbys. Y mae y tywyllwch a'r niwl wedi ei symud, fel yr ydym, trwy ddrych yr Ysgrythyrau, yn gallu canfod bryniau anfarwoldeb o "ddyffryn y dagrau," a gwlad yr addewid, o flinder y daith. Yma y mae y lleni yn cael eu symud ar unwaith, ac yr ydym yn clywed llef yr yr arch-angel ac udgorn Duw—yma y dangosir i ni yr orsedd yn cael ei sefydlu, y barnwr yn eistedd, y meirw yn cyfodi, y clorian yn cael ei ddal, y llyfrau yn cael eu hagoryd, a'r ddedryd yn cael ei thraddodi; ie, yma yr ydym yn gallu tremio ar drueni usfern a gogoniant y nef!

Y mae pob awdwr a ddygo oleuni ymarferol ar y testyn pwysig hwn, yn sicr o wasanaethu ei genhedaeth. Y mae y pwnc yn ei ystyriaethau arddansoddol, wedi cael ei drafod yn gampus gan Locke, a Butler, a Paley, ac eraill; ond wedi ei

osod allan mewn dull nes at alluoedd y cyffredin, yn ei berthynasau ymarferol gan Dr. Dick; a dyma y peth sydd arnom ei eisiau. Y mae y gyfrol hon yn dangos ei fod wedi ymgynghori â phob gwaith o wir werth, ac wedi cael modd i osod y pwnc allan gydag eglurdeb, hyfrydwch, ac adeilad-aeth. Y mae pob penod o hono yn gryno ac yn gynhwys-fawr—yn y profion o sefyllfa ddyfodol, oddiwrth oleuni natur a datguddiad—ar y cysylltiad sydd rhwng gwyddoriaeth â sefyllfa ddyfodol—ar y cynorthwyon a rydd darganfyddiadau gwyddoriaeth i ni, er ffurio dirnadaeth am gynydd gwastadol y nefolion mewn gwybodaeth a dedwyddwch—ac ar y cymhwysderau moesol sydd yn ofynol er mwynhau dedwyddwch y nef. Ac y mae rhyw fawrfrydigrwydd a haelfrydedd yn elfen naturiol, sydd yn rhedeg drwy ei holl ysgrifiadau, ac

Nid oes genyf ond cyflwyno y cyfiethiad i sylw fy nghyd-wladwyr yn y wisg ddysyml, ac y mae wedi ymddangos ynnddi. Y nôd a gadwyd mewn golwg wrth ei ysgrifenu ydoedd, ar iddo fod mor rhydd ac y caniatâi cyfieithiad, ac mor llythrenol ac y caniatâi rhwyddineb. Tynodd sylw yr holl gyhoedd-iadau Cymreig o'r bron, y rhai yr oedd eu hadolygiadau yn dra ffafriol. Dymunwn gyflwyno y gwaith i sylw y genhedl-aeth ieuangc, yn neillduol fel llyfr priodol i godi archwaeth at fyfyrdodau adeiladol; ac at y cyhoedd yn gyffredinol, fel ysgol i godi y meddwl oddiar wrthrychau natur at Awdwr naturiaeth ei hun, ac ar yr un pryd, i'n harwain oll i "gredu, a chyfarch, a chyfaddef, mai dïeithriaid a phererinion ydym ar y ddaear," ac i "chwenych gwlaid well, hyny ydyw, un nefol"

RICHARD PARRY.

CONWAY, Mai 20, 1848.

C Y N W Y S I A D.

RHAN I.

RHAGDRAITH.—Pwysigrwydd yr ymofyniad sydd yn per-	Tudal.
thyn i wirioneddolrwydd Sefyllfa Ddyfodol—Ynfydrwydd	
y difaterwch sydd yn nghylch y pwnc hwn	17—20

PENNOD I.

PROFIION AM SEFYLLFA DDYFODOL ODDIWRTH OLEUNI NATUR	21—117
DOSPARTH I.—Ar y Grediniaeth Gyffredinol y mae Athrawiaeth Anfarwoldeb wedi ei gael yn mhob Oes	22—30
Barn y Groegiaid, Rhufeiniaid, Aiphtiaid, Scythiaid, &c.—	
Athrawiaethau Zoroaster	22, 23
Am Plato a Socrates	23, 24
Cyfeiriadau y Beirdd boreuol	24, 25
Barnau trigolion y <i>Society Isles</i> a'r <i>Friendly Islands</i> , pobl New Zealand, y Samoiedians, y Kalmuc Tartars, y Birmans, y Japanese, yr Africanaid, ac Indiaid America, &c.	25—28
Grym Athrawiaeth Anfarwoldeb yn cael ei dynu oddiwrth y syniadau hyn	28—30
DOSPARTH II.—Ar y Dymuniad am Sefyllfa Ddyfodol sydd wedi ei blanu yn y Meddwl Dynol	31—38
Y ffait hon yn cael ei hegluro trwy amryw enghreifftiau Dymuniad am Enwogrwydd wedi marw	31—33
Dymuniad am Anfarwoldeb yn fwyaf gwresog mewn Meddyliau Diwylliédig	33, 34
Grym y Dadl a gesglir oddiwrth y ffeithiau hyn	34, 35
Ofnau a Rhagdybiau mewn perthynas i Ddyfodianiant	35—37
Athrawiaeth Anfarwoldeb yn dangos ymddygiad y Creawdwr yn gyson âg ef ei hun	37, 38
DOSPARTH III.—Ar Alluoedd Deallgar Dyn, a'r awydd cryf am Wybodaeth sydd wedi ei blanu yn y Meddwl Dynol	38—50
Dymuniad am Wybodaeth yn naturiol i bob creadur rhesymol	38, 39
Rhesymau pa ham na byddai yn fwy gwresog	39—41
Arucheledd a nerth y Galluoedd Deallgar	42—44
Y Cof—ei ddefnyddioldeb	45, 46
Enghreifftiau o'r gwellhad y mae yn alluog o hono	46, 47
Rheswm dros Sefyllfa Ddyfodol, seiliedig ar yr ystyriaethau hyn	47—50

		Tudal.
DOSPARTH IV.— <i>Ar y mestyniad parhaus y Meddwl at berfeithrwydd</i>	...	50—53
Na ellir gosod terfyn i olrheiniadau y Deall	...	50
Talfyriad o Addison	...	50—53
DOSPARTH V.— <i>Ar y cylch diderfyn o olygiad sydd yn ymagor i'r Galluoedd Dynol trwy eithafoedd éangder a pharhad</i>	...	53—61
Anfeidroedd y Bydysawd	...	53—55
Bwriad y Duwdod wrth gyfarwyddo Meddwl Dyn yn llwybr darganfyddiad	...	55
Dymuniadau yn cael eu cyffroi trwy y Golygfeydd Diderfyn a arddengys y Bydysawd	...	55
Olrheiniadau yn cael eu cynyg mewn perthynas i Fydoedd eraill	...	55—57
Dyn wedi ei gynysgaeddu à Galluoedd er cyrhaedd cylch anherfynol o Wybodaeth mewn perthynas i Ryfeddodau y Greadigaeth	...	57, 58
Natur gyfyngedig ei Wybodaeth bresenol	...	58, 59
Y Bydysawd wedi ei fwriadu i arddangos y Perffeithderau Dwyfol, ac i roddi boddhad i Fodau Deallgar	...	59, 60
Na siomir Dymuniadau yr Enaid	...	60, 61
Casgliadau oddiwrth y gosodiadau hyn	...	61
DOSPARTH VI.— <i>Ar Alluoedd Moesol Dyn</i>	...	62—71
Arucheledd y Galluoedd hyn yn cael eu hegluro—Regulus, Phocion, Cyrus, Scipio, Aristides, &c.	...	63, 64
Paul, Howard, Sharpe, &c.	...	64—66
Rheswm seiliedig ar y Galluoedd Moesol	...	66, 67
Trefniant o Haelfrydedd yn myned yn mlaen trwy y Bydysawd trwy gyfrwng Creaduriaid Deallgar	...	67—69
Crynodeb o'r Rhesymau a gesglir oddiwrth Alluoedd Moesol a Deallgar Dyn	...	69—71
DOSPARTH VII.— <i>Ar Amgyfredion a Rhagdybiau y Meddwl pan y byddo dan ddylanwad cnöadau Cydwybod</i>	...	72—77
Enghreiftiau o ddwysbigiad a dychrynfeydd Cydwybod euog —Belsasser, Tiberius, Antiochus Epiphanes, Herod, Philip II., Siarl IX., Richard III., Bessus, Hobbes, &c.	...	72—76
Casgliadau oddiwrth y ffeithiau hyn	...	76, 77
DOSPARTH VIII.— <i>Ar Sefyllfa annhorefus y Byd Moesol, yn ei gymariaeth à threfn réolaidd y Byd Naturiol</i>	...	78—88
Cysondeb a Threfn Natur—yn y Nefoedd—y Ddaear—y Trefniant Anifeilaidd, &c.	...	78—80
Annhrefn yn y Byd Moesol—Dinystri gan Alexander, Alaric, Tamarlane, Jenghiz Khan, &c.	...	80, 81
Am y Gothiaid, Vandaliaid, Huns, &c.	...	82
Golygfeydd o Ddistryw a Difrod	...	82, 83

Tudal.

Sefyllfa bresenol y Byd Moesol a Gwladyseddol yn Asia, Africa, Ewrob, ac America	83—86
Rheswm seiliedig ar yr Annhrefn hwn	87, 88
DOSPARTH IX.—Ar Ddosparthiad Anngyfartal Gwobrwyon a Chospau yn y Sefyllfa Bresenol ...					
	88—96
Enghreifftiau o Ddosparthiad Anngydraddol Gwobrau	...				88—90
Y Waldensiaid, Protestaniaid Ffraingc, yn nheyrnasiad Louis XIV.—Erlidigaethau yn Lloegr, y Netherlands, Llofruddiaeth yn Iwerddon, Ali Pacha, &c.	90—92
Grym y Dadl a dynir oddiwrth hyn	92—95
Syniadau Moesol wedi eu planu mewn Dyn	95, 96
DOSPARTH X.—Ar yr Anngysondeb o dybied y bydd i'r Egwyddor Feddylgar sydd mewn Dyn byth gael ei dileu ...					
	96—101
Newidiadau yn y Trefniant Naturol, ond yr un enghraifft o Ddifodiant	96—98
Trawsffurfiad Gwybed	98, 99
Ystyriaethau sydd yn profi Parhad y Meddwl	99, 100
Casgliadau oddiwrth y Testyn hwn	100, 10 ¹
DOSPARTH XI.—Ar yr Ystyriaethau prudd a'r Canlyniadau gwyrthun cynwysedig mewn Gwadiad o Sefyllfa Ddyfodol ...					
	101—117
Gwadiad o Sefyllfa Ddyfodol yn cuddio holl Natur Dyn, a Dyben ei Fodolaeth mewn Tywyllwch annhreiddiadwy—Golygfeydd Natur—Llywodraeth Foesol Duw—y Dioddefiadau y mae Dyn yn agored iddynt—Priodoleddau y Creawdwyr—ac yn atal y Meddwl yn ei olrheiniadau am y Gwirionedd	101—108
Dadl dros Sefyllfa Ddyfodol, seiliedig ar y fath ystyriaethau	108—110
Crynodeb yr ymresymadau	111
Eu grym yn nghyd	112
Nad yw Egwyddorion Annuwiaeth, o angenrheidrwydd, yn cau allan y posiblwydd o Sefyllfa Ddyfodol	112
Yr argraphiadau a ddylai yr ystyriaethau hyn adael ar y Meddwl	112—115
Rheswm yr Awdwr am adael heibio y Dadl seiliedig ar Annefnyddioldeb yr Enaid	115—117

PENNOD II.

PROFIION O SEFYLLFA DDYFODOL ODDIWRTH DDWYFOL DDAT-					
GUDDIAD
	118—127
Sefyllfa Ddyfodol wedi ei datguddio i'r Iuddewon	119—121
Pa ham na byddai wedi cael cyfeirio ati yn fynychach yn yr Hen Destament	121, 122
Profion oddiwrth Ysgrefeniadau y Testament Newydd	123—126
Yr Adgyfodiad—Cynneddfau y Corph adgyfodedig	126, 127
<i>Ar y Dylanwad ymarferol a ddylai Athrawiaeth Sefyllfa Ddyfodol ei gael ar ein Serchiadau a'n Hymddygiadau</i>	127—133

RHAN II.

	Tudal.
AR GYSYLTTIAD GWYDDORIAETH A SEFYLLFA DDYFODOL	134—188
Y Rhagfarnau sydd yn y byd mewn perthynas i'r pwnc ...	134—137
<i>Dyben Olrheiniad Gwyddoriaethol</i>	137—139
Gwrthrychau ar ba rai y mae y Nefolion yn myfyrio ...	140, 141
<i>Eangder y Dinystr Cyffredinol</i>	141, 142
Eglurhad ar y Cyfeiriadau Ysgrythyrol at y pwnc ...	142—144
Sefydlogrwydd a Pharhad y Greadigaeth Ddefnyddiol ...	144—146
Dychymygion Prydyddion mewn perthynas i'r pwnc ...	146—148
Rhagfynegiadau am newidion yn nhrefniant Natur ...	148—150
Perthynasau cyffredinol y Bydysawd	150—152
<i>Gwyddorion a feithrinir mewn Sefyllfa Ddyfodol</i>	153—175
<i>Rhifyddiaeth</i> , ei gwrthrych—Defnyddioldeb Rhifnodau, a'u cysylltiadau—Egluriadau o'r Ysgrythyr	153—156
<i>Rhif a Mesur</i> , eu defnyddioldeb—Angylion yn wybodus o Egwyddorion y Gwyddorau hyn—y Creawdwr wedi gosod i lawr Sylfaeni y Gwyddorion hyn yn ei Weithredoedd	156—159
<i>Seryddiaeth</i> , ei gwrthrych—yn dangos maes éang o fyfyrdd	159—161
Y Nefoedd yn ffurfio prif ran yr Ymerodraeth Ddwysfol—Egluriadau o'r Ysgrythyr	161, 162
Cylch terfynol ein Gwybodaeth bresenol ar y pwnc ...	162, 163
Gohebiaeth Bodau uwch mewn perthynas i'r Bydysawd ...	163, 164
Y Testyn yn anhysbyddadwy	164, 165
<i>Athroniaeth Naturiol</i> , ei gwrthrych a'i darganfyddiadau ...	165—167
Yn dadlenu y Priodoleddau Dwyfol	167
Eangder digonol i'w holrheiniad yn y Byd Ddyfodol ...	168, 169
<i>Fferylliaeth</i>	169
<i>Difyniaeth ac Anian-ddysg</i> , eu gwrthrychau—Rhyfeddodau yn ffurfiad Dyn—Yr Adgyfodiad	170—172
<i>Hanesiaeth</i> , yn cynwys Adgofion o Ffyrrdd Rhagluniaeth—ein Hanwybodaeth am lawer o ffeithiau pwysig mewn Hanesyddiaeth—hanes Angylion a Bodau Deallgar eraill	172—174
Cysylltiad gwahanol Ganghenau Gwyddoriaeth	174, 175
<i>Lleoldeb y Nef</i>	176
Y gwahanol syniadau a ellir eu ffurfio ar y pwnc ...	176
Gwyddorion yn gymhwysiadol yn mhob amgylchiad y gellir ei dybio	177, 178
Celfyddydau a Gwyddorion na byddant yn cael eu meithrin	178
Galluoedd Meddylgar Trigolion y Nef	178
Ardderchawgrwydd y Cynneddfau Meddyliol mewn gwahanol bersonau.— <i>Pascal, Martianus Capella, Crichton, Gassendi, Horrox, Grotius, Newton, Baratier</i>	178—181
Na bydd i'n Gwybodaeth yn y Nef gael ei leihau ...	181, 182
Graddau mewn Gwybodaeth yn mysgr Trigolion y Nef—“graddau mewn gogoniant”—Sylwadau Cyffredinol ...	182—185
Ystyriaethau diwedd-glöawl	185, 186
Gwrthddadleuon yn cael en dyrys u	186—188

RHAN III.

Tudal.

AR Y CYNORTHWYON A RYDD DARGANFYDDIADAU GWY-DDORIAETH ER EIN GALLUOGI I FFURFIO DIRNADAETH AM GYNYDD GWASTADOL Y NEFOLION MEWN GWYBOD-AETH A DEDWYDDWCH	189—246
Nodiadau Arweiniol—Ystyriaethau aneglur a disail am or-uchwylion y Nef	189—191
Pa un a fydd y testyn o Brynedigaeth Dyn yn dwyn holl sylw y gwaredigion	191
Ei Ddirgelion—Dosraniad y ffeithiau mwyaf cyhoeddus	191—194
Dynoliaeth ogoneddigid Crist	194, 195
Gwrthrychau myfyrdod yn y Nef	195, 196
Cysawdau y Planedau a'r Ser	196—199
Nifer Bydoedd yn y Bydysawd <i>gweledig</i>	199, 200
Dangosiad o Olygfeydd y Greadigaeth	200
Ffurflau defnyddiol	200, 201
<i>Amrywiaeth diderfyn o Olygfeydd</i> a ellir eu dwyn yn mlaen drwy ychydig o ddeddfau cyffredinol	201, 202
Amrywiaeth yn y Byd Anifeilaidd, Hydyfol, a Mwnyddol —ac yn Nghysawd yr Haul	202—204
Creaduriaid Ermigol a Deallgar— <i>Graddau Dealltwriaeth—Galluoedd y graddau uwchaf o Greaduriaid</i>	204—206
Priodoliaethau Angylion	206—208
Gwisgiad Bodau Nefol— <i>Gwisgiad defnyddiol Angylion</i>	208—210
Amrywiaeth Synhwyrau	210—212
Y prif orchwylion yn HANESIAETH Bydoedd eraill—Eu Trefniadau <i>Moesol</i> , &c.	212—216
Egluriadau o'r Ysgrythyr	216, 217
Y modd y bydd hysbysiaeth yn cael ei gyflwyno ar y cyfrwyw bynciau	217, 218
Y GWARELWR—Darlithiau ar Hanesiaeth Foesol Bydoedd eraill—Enghreifftiau mewn perthynas i ddau fyd gwa-hanol	218—224
Talfyriad o Dr. Watts (nodyn,)	224
Bydoedd yn perthyn i Gysawd yr Haul,—Eu hynodion, newidiadau, amrywiaeth Golygfeydd	224—227
Y Greadigaeth yn cyrhaedd yn mhellach na chylch golygiad Dyn	227—229
Ymerodraeth yr Hollalluog yn ddiderfyn i olwg Creaduriaid Meidrol—Creadigaethau newyddion	229—231
GORSEDD DUW	231, 232
Prif Ddinas y Bydysawd	232, 233
Sylwadau Seryddol yn egluro y testyn	233, 234
Dim llai na'r syniadau aruchelaf am <i>éangder</i> y Bydysawd yn gydweddol a'r drychfeddl am Fôd Anfeidrol	234, 235
Y golygiadau blaenorol yn cael eu cadarnhau gan Ddat-guddiad, ac yn agor maes myfyrdod hynod mewn perthynas i'r Duwdod, a Golygfeydd Dyfodiant	235—237
Gwrthrychau myfyrdod yn y Byd Nefol	237—240

	Tudal.
Yr hyn a fydd yn ffurfio un ran o <i>Drueni y Drygionus</i> yn y	
Byd a ddaw	240, 241
Sefyllfa Foesol y Drygionus yn y Byd hwnnw	241, 242
Achosion Trueni	242
Natur annherfynol Cariad Duw	242
Crynodeb o Destyna'u yn cael eu hegluro	242, 243
Cysondeb Gwyddoriaeth â Datguddiad	243
Gwerth yr Enaid Dynol	243, 244
Pwysigrwydd Tragwyddol Dynged Dyn, a'r ffolineb o es- geuluso talu sylw at hyny	244—246

RHAN IV.

AR Y CYMHWYSDERAU MOESOL GOFYNOL ER MWYNHAU	
DEDWYDDWCH Y BYD DYFODOL	247—280
Golygiadau cyfeiliornus mewn perthynas i'r pwnc hwn	247, 248
Yr hyn sydd yn ofynol er mwynhau Dedwyddwch	248
Anystyriaeth y cyffredin o Ddynolryw mewn perthynas i'w Hachosion Tragwyddol	248, 249
Sylfaen Dedwyddwch Dyfodol	249, 250
Cariad at Dduw, ei sail, ei resymoldeb, a'i gynneddffau	250—252
Cariad at Ddyn, ei sail a'i rwymedigaeth ...	252, 253
Cariad at Angylion	253, 254
Yr angenrheidrwydd am y Serch hwn fel cymhwysder i'r Nef	254, 255
Gostyngieiddrwydd , ei resymoldeb—yn gydffurfiol â Sefyllfa Dyn	255—257
Gostyngieiddrwydd yn ffurfio rhan o Gymeriad yr Efengyl	257—259
Ffolineb Balchder	259, 260
Haelfrydedd Ymarferol	261, 262
Gweinidogaeth Angylion	262—264
Effeithiau Drygnawsedd	264
Cymdeithas y Nef	265—267
Enghreifftiau o Ddrygnawsedd—Antiochus Epiphanes—y Tyrciad—y Normaniaid	268—273
Enghreifftiau o lygredigaeth—Buonaparte—Lord Byron	273—276
Enghraift o 'Deithiau Cochrane'	276, 277
Trueni yn codi oddiar gyfeillach Cymeriadau drygnawsaidd	277
Effeithiau Drygnawsedd	277—280
Casgliadau cyffredinol	270

ATTODIAD.

Llythyr Mr. Shepherd at Arglwydd Byron	281—283
Atebiad ei Arglwyddiaeth—Ei syniadau diweddaf mewn perthynas i Grefydd a Thragwyddoldeb	283—286
Barn Napoleon ar Foesgarwch y Testament Newydd	286, 287

ANIANYDDIAETH SEFYLLEA DDYFODOL.

RHAN I.

PROFIION O SEFYLLEA DDYFODOL.

RHAGDRAITH.

Y MAE y darluniadau cynwysedig yn Rhanau II. a III. o'r gwaith hwn wedi eu bwriadu yn benaf er mwyn dangos y cysylltiad sydd rhwng gwyddoriaeth â golygfeydd byd dyfodol, a'r cynorthwyon a rydd ei darganfyddiadau er ein galluogi i ffurfio rhyw ddirnadaeth am *gynydd parhâol* ei breswylwyr mewn gwybodaeth a dedwyddwch. Mi a ymdrechaf, yn y Rhan Gyntaf hon, i arddangos golygfa gryno o rai o'r *tystiolaethau* hyn y sydd yn profi anfarwoldeb yr enaid, a sefyllfa dragwyddol dyn.

Y mae hyn yn ymofyniad llawer mwy dyddorol a phwysig na dim arall sydd yn dyfod o fewn cylch olrheiniad y meddwl dynol. Yn nesaf at y Bôd o Dduw y gorffwysa yr athrawiaeth am anfarwoldeb dyn ar sylfaen crefydd, a phob rhagolygiad a all ein cysuro yn ngwlad ein pererindod. Pe symudid o'r meddwl y gred am fodolaeth rhagllaw, a gobaith anfarwoldeb, yna deuai crefydd yn gysgod, bywyd yn freuddwyd, a dynesiad angau yn olygfa o dywyllwch ac anobaith. Ar y gofyniad byr hwn, "A ydyw dyn yn anfarwol, neu ai nid yw?" y dibyna pob peth sydd werthfawr mewn gwyddoriaeth, mewn moesau, ac mewn duwinyddiaeth, a phob peth sydd fwyaf pwysig i ddyn fel bôd cymdeithasgar, ac fel creadur deallgar, rhesymol a chyfrifol. Os ydyw ef wedi ei fwriadu i fodolaeth fythol, rhaid fod pwysigrwydd dirfawr yn gyssylltiedig â'i holl serchiadau, ei weithrediadau, a'i ymchwiliadau presenol! a rhaid ei fod o anfeidrol bwys eu bod wedi eu cyfarwyddo yn y fath ffordd ac a dueddo i'w arwain ef yr

mlaen mewn diogelwch i wynfydedigrwydd y byd dyfodol. Ond os cyfyngir ei holl fywyd o fewn cylch ychydig o flynyddau a brysurant heibio, y mae dyn yn ymddangos fel chwedl, yn wrthrych annealladwy yn y greadigaeth, y mae y bywyd dynol fel dirgelwch, y byd yn olygfa o ddyryswch, a rhinwedd fel rhyw ddrychiolaeth, a'r Creawdwr ei hun fel Bôd dibwyll, a'i holl gynlluniau a'i drefniadau yn gymysgedd aneglur i gyd.

Y mae gormod o achos i gredu fod y difaterwch sydd mor gyffredin at grefydd, yn enwedig yn mysg y rhai sydd wedi eu codi ychydig uwchlaw y werin anwybodus, a'r tueddiadau llygredig a'r ymarferion niweidiol a achosir drwy hyn, mewn graddau mawr oherwydd diffyg *argyhoeddiad cyflawn* am wirioneddolrwydd sefyllfa ddyfodol, neu o achos rhyw *amheuon* a wibiant drwy y meddwl mewn perthynas i'r pwnc pwysig hwn. Nid oes yr un dyn pa mor ddisylw bynag y byddo ar rwymedigaethau crefydd, a all gwbl foddloni ei feddwel ei hun, neu feddyliau rhai eraill, nad yw y syniad am fyd dyfodol yn ddim amgen na dychymyg. Yn y gwrthwyneb, bydd i'r ystyriaeth am y posibl rwydd, a hyd yn oed tebygolrwydd y gwirionedd am barhad tragwyddol dyn, fynu ei le ar ryw amserau, ar feddyliau y rhai mwyaf anystyriol a halogedig. Eto y mae yn destyn syndod i'w feddwel gyda'r fath esmwyrthder a difaterwch y mae lluaws o'r desgrifiad hwn yn gallu ymlithro i wared gyda ffrwd amser, dan yr ansicrwydd dwys pa un a diriant hwy yn nghysgodion dihanfodedd, ai yn ardaloeedd gwynfyd, ai yn mroydd tragwyddol wae. Dywed un ysgrifenydd Ffrengig enwog, "Nad oes rhyngom ni a'r tri chyfnod, neu y sefyllfaoedd hyn, yr un cyfrwng o ataliad wedi ei osod ond bywyd yn unig, y peth mwyaf egwan o fewn holl naturiaeth; ac yn ddiau, gan nad yw dedwyddwch y nef wedi ei fwriadu i'r rhai a amheuant a oes ganddynt ran anfarwol i'w fwynhau, nid oes gan y cyfryw ddim wedi ei adael iddynt ond y dynged druenus o ddihanfodiad neu uffern. Nid oes yr un ystyriaeth a all fod yn fwy gwirioneddol na hwn, gan nad oes yr un a mwy o ddychryn yn perthyn iddo. Pe gosodem ein wyneb fel callestr i edrych ar ein cyflwr, a cheisio dynwared y gwrion oreu y gallom, eto gwelwn yma y canlyniad sydd yn aros y bywyd hyfrydaf ar y ddaear! Nid yw ond gwagedd i ddynion droi ymaith eu meddwl oddiwrth y bythol-fyd hwn sydd yn eu haros, fel pe byddent yn alluog i'w ddistrywio drwy wrthod rhoddi lle iddo yn eu tybiaethau. Y mae

yn aros ar eu meddwl *er eu gwaethaf*; y mae yn eu canlyn heb eu sylw; a bydd angau, yr hwn sydd i dynu y llen oddiarano, yn fuan, yn sier o'u gwasgu i'r angenrheidrwydd galarus o fod yn fythol ddim, neu ynte yn dragwyddol druenus."

Byddai trafod testyn mor ddyddorol a phwysig gydag ys-gafnader neu ddifaterwch—byddai arfer holl alluoedd yr enaid yn olrheiniad gwrthrychau, y bydd i ychydig flynyddoedd yn y man pellaf, eu cipio ymaith o'u gafael am byth,—a pheidio treulio un awr ddifrifol, mewn myfyrdod ar yr hyn a ddichon ddilyn yr olygfa bresenol o fodolaeth, neu mewn ymdrech am gael allan ryw oleuni i symud ymaith yr amheuon a ddichon aros uwchben yr ymofyniad pwysig hwn, a thaflu dirmyg a sarhad ar y rhai a fynent eu cyfarwyddo yn yr olrheiniad difrifol, nid yn unig yn ffolineb ac ynfydrwydd, ond hefyd yn eithafion gwendid a gwallgorwydd. Y mae yn groes i bob egwyddor ar ba un y gweithreda dynion rhesymol, mewn perthynas i achosion y byd presenol. I sierhau elw masnach fanteisiol, neu er mwyn arbed colli cyfoeth neu anrhyydedd, nid yw yn ormod gan ddyn yn aml roddi pob gewyn ar egni, pob cynneddf mewn ymdrech, boddoni i golli ei gwsg, ymos-twng dan luaws o wasgfeuon, anturio wyneb yr elfenau cyn-ddeiriog, a gorchfygu peryglon yr eigion mawr. Ie, bydd yn aml wedi ei orlenwi a theimladau anobeithiol ar yr anghfleus-derau lleiaf, a threulia wythnosau a misoedd cyfain, mewn tristwch a gofid o herwydd rhyw sarhad dychymygol, neu o blegid colled o ychydig bunoedd, tra ar yr un pryd yr erys yn holol ddifater, ac heb y cyffro lleiaf yn nghyleh golygfeydd dieithr byd tragwyddol, a'r perygl o fythol drueni ac y mae yn agored iddo. Y mae y fath ymddygiad, a'r eyfryw dueddiadau, y rhai a ddangosir yn rhy fynych gan filoedd o'r rhai a welir yn achlysurol yn ein cynulliadau crefyddol, yn holol annglyson â chyfarwyddiadau pwyll a synwyr cyffredin, a phob peth a ddylai hynodi creadur rhesymol a chyfrifol.

Pan yr edrychwn yn ol i anoddyfn y bythol-fyd hwnw sydd wedi myned heibio eisoes—pan edrychwn yn mlaen i eangder anfesurol, a dyfnderoedd anmhlymiadwy y bythol-fyd dyfodol—pan yr edrychwn ar *Amser*, a'i holl flynyddau cylchynol, yn ymddangos fel pwynnt ar wyneb yr eigion eang a diderfyn—pan yr ystyriom bellderau dirfawr y bydysawd, â pha rai yr ydym yn cael ein cylchynu, a'r bydoedd dirifedi a orweddant yn wasgaiedig yn mhob ffordd trwy lwybrau anfesuradwy

creadigaeth—pan yr ystyriom y gall ein bodolaeth, fel creaduriaid meddylgar, gyd-redeg âg oesau diderfyn; ac y gallwn barhau yn nghanol chwyldroadau y byd dragwyddol, mewn ardaloedd yn yr eangder o bellder anfesuradwy oddiwrth ein preswylfod bresenol, a chymdeithasu gyda graddau eraill o fodau deallgar, a symud drwy olygfeydd a newidiadau newyddion mewn bydoedd pellenig—a phan yr ystyriom y gall ein perthynas ag amser gael ei derfynu, a'n cysylltiad a'r byd dragwyddol ddechreu o fewn ystod ychydig fisoeedd neu flynyddau, nen cyn ag y byddo i'r haul arddangos un cylchdro arall o amgylch y ddaear,—nid oes yr un ymofyniad a all ymddangos mor bwysig a dyddorol, a'r hyn a arweinia i ben-derfyniad yn nghylch ein sefyllfa ddyfodol a thragwyddol, ac am y cyflwr sydd yn ein haros y tu draw i'r bedd. Byddai parhau yn ddiofal am bwysigrwydd y fath ymofyniad, ac yn ddideimlad at y rhagolygoniad ar y canlyniad, i'r hwn y gall arwain—tra yr ydwm yn teimlo yn fywiog at achosion dibwys, a helyntion bychain y bywyd hwn, yn arddangos yr hurtrwydd, yr annglysondeb, a'r gwendid mwyaf annglyfrifol.

Y dyn y byddo ei galon yn sychedu ar ol gwybodaeth a gwynfyd sylweddol, yr hwn y byddo ei serchiadau wedi ym-sefydlu ar Awdwr ei fodolaeth, ac a fyddo yn ymhyfrydu mewn myfyrio ar ei gymeriad a'i briodoleddau, ac edrych i mewn gyda phleser i bob ymofyniad sydd yn tueddu i daflu goleuni ar olygfa y bywyd dyfodol. Efe a bwysa bob ystyriaeth yn anmhleidgar, ac a ddeil afael ar bob ymresymiad gyda hyfrydwch, drwy yr hyn y gall llawn argyhoeddiad am ei gyflwr anfarwol gael ei argraphu yn anniléadwy ar ei feddwl; ac efe a ymdrecha i gysuro ei enaid yn nghanol trallodion y byd marwol hwn, a'r ystyriaeth, “pan y byddo i'w ddaearol dŷ o'r babell hon gael ei ddatod, fod iddo adeilad gan Dduw, sef tŷ, nid o waith llaw, dragwyddol yn y nefoedd.”

Wrth egluro y tystiolaethau am sefyllfa ddyfodol, *yn gyntaf*, mi a osodaf ger bron rai o'r profion ag y mae Rheswm, neu oleuni natur yn eu datgan am sefyllfa dragwyddol dyn—ac *yn ail*, y rhai hyn y ddysgir oddiwrth Ddatguddiad.

PENNOD I.

PROFION AM SEFYLLFA DDYFODOL ODDIWRTH
OLEUNI NATUR

Y MAE y tystiolaethau a ddengys goleuni rheswm am sefyllfa ddyfodol, er nad ydynt mor eglur a phenderfynol a'r rhai a dynir oddiwrth y Dadguddiad Dwyfol, eto yn deilwng o ystyriaeth ddifrifol pob un ac yr erys yn ei feddwl yr amheuaeth lleiaf ar y pwnc pwysig hwn. Y mae yr argyhoeddiad a dueddant i'w ddwyn, pan eu pwyser gyda sylw priodol, yn ddigonol iadael pob dyn yn ddiesgus a fyno gellwair ag achos ei gyflwr dyfodol, ac nad ystyrio ddim am ei berthynas a'r byd tragicwyddol. Er fod y Duwdod yn anweledig i lygaid marwol, eto y mae ei fodolaeth a'i berfffeithderau yn cael eu harddangos yn ddigon eglur trwy ei weithrediadau gweledig, ac ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddi-dyst i'w haelfrydedd yn mhob oes, "gan roddi gwlaw o'r nefoedd, a thymhorau ffwrwythlawn, a llenwi ein calonau â lluniaeth ac â llawenydd." Yn gyffelyb i hyn, er nad yw sylweddau y byd dyfodol yn weledig i'r lygaid naturiol, eto y mae y galluoedd a pha rai y mae dyn wedi ei gynysgaeddu, pan yr arferer hwy yn briodol, ar yr holl olygfeydd naturiol a moesol a ddengys y byd hwn iddo, yn ddigonol i brofi i'r radd uwchaf o debygolrwydd, os nid hollol sicrwydd, nad yw ei barhad a chylch ei weithrediad yn gyfyngedig i derfynau culion y byd presenol, ond eu bod yn dal perthynas â bodolaeth ddyfodol a thrwgwyddol. Wrth egluro y testyn hwn, mi a osgöaf yr ystyriaeth am lawer o'r rhesymau arddansoddawl hyny, a gesglir gan Athronwyr a Duwinyddion, yn nghylch annefnyddiolaeth yr enaid dynol, ac mi a gyfyngaf fy hun yn benaf at yr ystyriaethau cyffredin sydd yn nghyraedd galluoedd pawb, ac efallai sydd yn fwy argyhoeddiadol nac ymofniadau cywrain dwfn dreiddiol dynion o feddyliau arddansoddgar.

DOSPARTH I.—AR Y GREDINIAETH GYFFREDINOL, AG Y MAE ATHRAWIAETH ANFARWOLDEB WEDI EI GAEL YN MHOB OES.

Y mae bod yr athrawiaeth hon wedi cael ei chredu yn gyffredinol yn mysyng pob cenedl, ar bob pryd, yn ffurfio prawf tebygol am anfarwoldeb dyn.

Yr oedd y golygiad o fod y rhan feddylgar o ddyn yn anfarwol yn cael ei gredu gan yr Aiphtiaid gynt, a chan y Persiaid, y Pheniciaid, y Scythiaid, y Celtiaid, y Derwyddon, a'r Assyriaid, gan y dynion doethaf a hynotaf yn mhllith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, a chan bron bob cenedl a llwyth boreuol, ag y mae eu hanes wedi cyraedd hyd ein hamser ni. Y mae yn wir fod y syniadau a feddai llawer o honynt am olygfeydd y byd dyfodol yn dra thywyll ac anmherffaith; eto yr oeddynt oll yn derbyn y golygiad nad oedd angau yn distrywio yr enaid rhesymol, ond yr oeddynt yn barnu ei fod yn cael ei gyflwyno i ryw sefyllfa o fodolaeth newydd ac anadnabyddus. Yr oedd yr hen Scythiaid yn barnu nad oedd angau yn ddim amgen na newidiad preswylfod; ac yr oedd plaid y Magia yn Babilonia, Media, Assyria, a Persia, yn addef yr athrawiaeth o dragwyddol wobr a chosp. Yr athrawiaethau a ddysgid gan yr ail Zoroaster, oedd yn byw yn amser Darïus, ydoedd, “Fod un Bôd Goruchel, annibynol, a hunan-hanfodol er tragwyddoldeb; fod dau angel dano, un yn angel y goleuni, yr hwn yw awdwr pob daioni; a'r llall yn angel y tywyllwch, yr hwn yw awdwr pob drwg: eu bod mewn ymrysonfa barhaus a'u gilydd; mai lle y byddo angel y goleuni yn gorchfygu, yno y mae daioni yn teyrnasu; ac mai y lle y byddo angel y tywyllwch yn ffynu, yno y mae drwg yn cymeryd lle; fod yr ymdrech hwn i barhau hyd ddiweddu y byd, ac yna y bydd adgyfodiad cyffredinol a dydd barn, pan y bydd i bawb dderbyn taledigaeth gyfiawn, yn ol eu gweithredoedd. Ac ar ol hyny y bydd i angel y tywyllwch a'i ddisgyblion fyned i fydd arall o'r eiddynt eu hunain, lle y dioddefant mewn tragedyddol dywyllwch y gospedigaeth am eu gweithredoedd drwg; a chaiff yr angel goleuni a'i ddisgyblion hefyd fyned i fydd o'r eiddynt hwythau, lle y derbyniant, mewn tragedyddol oleuni, y wobr ddyledus am eu gweithredoedd da; ac ar ol hyny y bydd iddynt barhau ar wahân oddiwrth eu gilydd yn

dragwyddol, ac - na chymysga goleuni â thywylwch byth mwy."* Y mae y gweddillion o'r blaid hon, sydd yn wasgar-edig dros Persia ac India, yn dal yr un athrawiaethau, yn ddiwahaniaeth hyd y dydd hwn.

Y mae yn ddigon hysbys fod Plato, Socrates, ac athronwyr Groegaidd eraill, yn dal athrawiaeth anfarwoldeb yr enaid. Mewn traith o gylch-ymddiddan rhagorol a elwir, "The Phædon," y mae Plato yn darlunio Socrates, ychydig cyn ei farwolaeth, yn cael ei gylchynu gan nifer o athronwyr, ac yn traethu wrthynt ar y rhesymau sydd yn profi dragwyddol dynged dyn. "Pan y byddo'r meirw," medd efe, "yn ymgylarfod yn nghynullfan yr eneidiau ymadawedig, i ba le y caint eu harwain gan eu hangel, hwy a fernir oll. Y rhai hyny a fyddo wedi treulio eu bywyd heb fod yn droseddwyr mawr, nac yn gwbl ddiniweid chwaith, a anfonir i le y dioddefant boenau cyfatebol i'w colliadau, hyd nes y byddont wedi eu puro a'u glanhau oddiwrth eu heuogrwydd, ac wedi hyny caint eu hadferu i ryddid, a derbyn eu gwobr am y gweithredoedd da a wnaethant yn y corph. Y rhai hyny a fernir yn anfeddygyniaethol, o herwydd maint eu trosedduau, bydd i'r Dynged farwol a basia ddedryd arnynt, eu hyrddio i Tartarus, o'r lle ni chânt ymadael byth mwy. Y rhai hyny a ganfyddir yn euog o droseddau tra mawr, ond a fyddont yn deilwng o fadd-euant, y rhai a fyddont wedi cyflawni gweithredoedd ysgeler yn mhoethder cynnddaredd yn erbyn tad neu fam, neu a fyddo wedi lladd eraill mewn nwyd gyffelyb, ond wedi edifarhau ar ol hyny, a ddioddefant yr un gosbedigaeth a'r rhai diweddaf, ond am amser yn unig, hyd na byddo iddynt drwy weddieu ac erfyniau gael maddeuant gan y rhai y byddont wedi eu niweidio. Ond y rhai a fyddo wedi treulio eu bywyd mewn ymddygiadau tra dichlynaidd, a dderbynir i ardaloedd pur uchod, lle y byddant byw heb eu cyrph, yn dragwyddol, mewn parhad o hyfrydwch a llawenydd annhraethadwy." Oddiwrth yr ystyriaethau hyn, y mae Socrates yn tynu casgliad, "Os ydyw yr enaid yn anfarwol, y dylai gael ei hyfforddi gyda gofal neillduol, nid yn unig at yr hyn a alwn yn dymhor bywyd, ond hefyd at yr hyn sydd yn ein haros, sef dragwyddoldeb; a gallai y diofalwch lleiaf gyda hyn, gael ei ddilyn â chanlyniadau di-ddiwedd. Pe byddai angau yn ddatodiad

* Rollin's Ancient History, vol. ii.

gorphenol bodolaeth, byddai y rhai drygionus yn enillwyr drwy hyny, drwy gael ymwared ar unwaith oddiwrth eu cyrph, eu heneidiau, a'u drygau oll; ond gan fod yr enaid yn anfarwol, nid oes ganddo yr un modd i ymryddhau oddiwrth ei ddrygau, na dim diogelwch iddo ei hun, ond trwy ddyfod yn wir dda ac yn wir ddoeth; o blegid ni ddwg ddim gydag ef oddiyma, ond ei weithredoedd da neu ddrwg, ei rinweddau neu ei ddrygau yn unig; y rhai sydd yn gyffredin yn canlyn yn ol natur yr addysg a gaffo un, ag sydd yn achos o dragwyddol ddedwyddwch neu drueni." Wedi cynal yr ymddiddanion hyn gyda ei gyfeillion, efe a arosodd yn ddistaw am enyd, ac yna a yfodd yr oll o'r cwpan gwenwynig a baratoisid iddo, gyda thawelwch rhyfeddol, a chyda golwg mor fodhaol ag sydd yn anhawdd ei ddarlunio, fel un a fyddai ar newid bywyd byr a thrallodus, ami fodolaeth wynfydedig a thragwyddol.

Y mae y darluniadau a'r cyfeiriadau sydd yn ysgrifau y Beirdd boreuol yn brawf eglur fod y farn am anfarwoldeb yr enaid yn gred gyffredinol yn yr amser yr ysgrifenasant, ac yn mysg y cenhedloedd at ba rai yr oeddynt yn ysgrifenu. Y mae yr hanes a rydd Homer am ddisgyniad Ulysses i uffern, a'i ddarluniad o Minos yn y cysgodion isod yn gweinyddu eyfiawnder i'r meirw oedd wedi ymgynull yn lluoedd o amgylch ei frawdle ef, ac yn cyhoeddi barnau digyfnewid, oedd yn penderfynu eu tynged dragwyddol, yn profi eu bod yn credu fod rhinweddau yn cael eu gwobrwyd, a throseddau yn cael eu cospi mewn cyflwr arall o fodolaeth. Y mae awdlau Ovid a Virgil yn cynwys amryw ddarluniadau, yn mha rai y mae yr un golygiadau yn cael eu mynegi. Y mae eu barn am gosp ddyfodol yn cael ei gosod allan yn y desgrifiad a roddant am *Ixion*, yr hwn a gylymid wrth olwyn, ac a droid o amgylech yn barhaus gyda chiyflymdra mawr—am *Tantalus*, yr hwn, am y wledd ffiaidd a wnelsai i'r duwiau, a osodwyd mewn dwîr hyd at yr ên, ag afalau yn crogi hyd ymyl ei wefusau, ac yntau heb allu plygu at y naill i'w ddisychedu ei hun, nac estyn at y lleill i ddiwallu ei angen mawr—am *ddeg a deugain Merched Danu*, y rhai, am lofruddiaeth farbaraidd eu gwŷr mewn un noswaith, a gollfarnwyd i uffern, i lanw celwrn â dwfr, a hwnnw yn llawn o dyllau, ac yn gollwng y cwbl o hono eyn gynted ag y tywelltid iddo—am *Sisyphus*, yr hwn, am ei ladradau, a osodwyd i dreiglo maen mawr i fynu gallt ar ochr bryn serth,

yr hwn, gydag y byddai wrth y pen uchaf, a syrthiai i wared yn ddisymwth, ac felly yn barhaus yn gorfod adnewyddu ei lafur—ac am *Tityus*, yr hwn a ddedfrydwyd i fwltur gael ym-borthi ar ei ysgyfaint a'i ymysgaroedd, ac a oedd, er hyny, yn tyfu ac yn cynhyddu fel yr oeddynt yn cael eu treulio. Y mae eu syniadau am ddedwyddwch dyfodol yn cael eu cynwys yn y darluniadau a rodrent am erddi Hesper, a maesydd Elysia, lle y mae eneidiau y rhai rhinweddol yn gorwedd yn ddiogel oddiwrth bob perygl, ac yn mwynhau gwynfyd parhaus heb neb i'w haflonyddu.

Ac fel yr oedd y cenhedloedd cyntefig yn cydnabod athrawiaeth sefyllfa ddyfodol, felly nid oes bron yr un genedl na llwyth o ddynolryw yn bresenol, pa mor farbaraidd a diddysg bynag y byddont, nad yw yr un golygiadau yn cael eu credu ganddynt. Y mae trigolion y *Society Isles* yn credu, nid yn unig fod sefyllfa o fywyd ymwybodol wedi angau, ond hefyd o raddau mewn rhagoroldeb a dedwyddwch, yn ol fel y byddo dynion wedi boddhau yr *Eatora*, neu y Duwdod, tra yr oedd-ynt ar y ddaear. Y mae penaethiaid y *Friendly Islands* yn credu yn anfarwoldeb yr enaid, yr hwn y dywedant ei fod yn angau yn cael ei gyflwyno mewn cwch, ac yn mordwyo yn gyflym i wlad bell a elwir Doobludah, yr hon a ddarlungiant yn gyffelyb i baradwys Mahomet,—nad yw y rhai a drosglwyddir yno yn marw mwyach, ond eu bod yn gwredda yn hyfryd ar ffrythau pennaf eu tir naturiol, o ba rai y mae y cartref dedwydd yn orlawn. Y mae trigolion *New Zealand* yn credu, ar y trydydd dydd wedi claddu dyn, fod y galon yn ymwahanu oddiwrth y corph, a bod yr ymwahaniad hwn yn cael ei ragamlygu drwy awel o wynt yn gyffredin, gan ryw dduwddod sydd yn gwibio uwchben y bedd, fel rhybudd am ei ddynesiad, ac yna ei fod yn ei gludo ymaith i'r cymylau. Y maent yn credu fod enaid dyn ag y byddo ei gnawd wedi ei ddistrywio gan y gelyn, wedi ei ddedfrydu i dâñ gwastadol, tra y mae enaid y dyn yr achubwyd ei gorff o ddwylaw ei leiddiaid, ac eneidiau y rhai oll a fyddont feirw o angau naturiol, yn esgyn fry i drigfanau y duwiau. Y mae trigolion y *Pelew Islands*, yn ol yr hanes a roddai Cadben Wilson, yn credu mewn un Bôd Goruchaf, ac mewn sefyllfa ddyfodol o wobr a chosp, er nad oes ganddynt ond ychydig arferion a defodau crefyddol. Yn nghrefydd y *Kalmic Tartars*, y mae athrawiaeth sefyllfa ddyfodol yn bwnc uchel iawn. Credant fod uffern wedi ei sefydlu

yn y fro ganol, rhwng nef a daear, ac y maent yn gosod eu diaflaiad allan gyda phob math o agweddau dychrynllyd, â golygiad du a gwirthun, gyda phenau geifr, a llewod, ac uncorniaid. Tybiant fod Lamas santaidd, sydd wedi enill budd-ygoliaeth ar eu holl nwydau, wedi myned yn uniongyrchol i'r nef, lle y mwynhant berffaith orphwysdra, ac yr unant mewn dwyfol addoliad. Y mae *Samoiedians* Tartary Ogledol yn credu fod un Bôd Goruchaf, mai efe yw ein trugarog Dad cyffredinol, ac y gwobrwyd efe y rhai sydd yn byw yn rhinweddol yn y byd hwn, â sefyllfa ddedwydd rhagllaw. Y mae y *Birmans* yn credu yn nhrawsfudiadeneid iau; ac wedi hyny, golygant y bydd i'r rhai sydd yn wreiddiol ddrwg gael eu dedfrydu i gospedigaeth barhaus, ac y bydd i'r rhai da fwynhau tragwyddol ddedwyddwch ar fynydd a alwant Meru.

Ymddengys fod yr amrywiol lwythau sydd yn cyfaneddu yn nghyfandir Affrica, cyn belled ag y deallwn eu daliadau crefyddol, yn cydnabod yr athrawiaeth o sefyllfa ddyfodol. "Yr oeddwn i yn ymddiddan yn ddiweddar ar y pwnc hwn," meddai Mr. Addison, yn un o'i Spectators, "gyda dyn dysgedig yr hwn oedd yn dra adnabyddus o drigolion y parthau mwyaf gorllewinol o Affrica. Dywedai wrthyf ei fod wrth ymddiddan a llawer yn y wlad hono, wedi deall mai eu tyb am ddedwyddwch sefyllfa ddyfodol yw hyn—y bydd pob peth a ddymunir yno i gael ei gwblhau yn uniongyrchol. Yr ydym yn canfod, meddant, fod ein heneidiau o'r fath natur, fel y maent yn galw am amrywiaeth, ac na allant gael hyfrydwch gwastadol yn yr un gwirthrychau. Bydd i'r Bôd Goruchaf gan hyny, foddhau yr archwaeth at ddedwyddwch y mae efe wedi ei blanu yn enaid dyn, trwy gyfodi i fynu o bryd i bryd bob mwyniant a all y natur ddynol ei ddymuno. Pe dymunem fod mewn llwyni a deildai, yn mysg ffrydiau rhedegog neu gwympiad dyfroedd, canfyddem ein hunain yn uniongyrchol yn y fath le. Pe yr hoffem gael ein difyr uâ cherddoriaeth a pheroriaeth seiniau, bydd y gyd-gân yn sicr o godi ar ein cyfer wrth ein hewylls, a'r holl ardal o amgylch yn adsain gan gynghanedd. Mewn gair, bydd i bob dymuniad gael ei lanw a mwynhad, a pha beth bynag y cyfarwydda tueddiad dyn ef ato, a fydd yn bresenol gydag ef." Y mae y Negroes, a thrigolion eraill canolbarth Affrica, yn ol yr hanes a rydd Mr. Park, yn credu fod un Goruchel Reolwr, ac yn disgwyl rhagllaw gael myned i sefyllfa o ddedwyddwch neu drueni. Y mae

Gallas Abyssinia; er eu bod yn gwrthod yr athrawiaeth o gospedigaeth ddyfodol, eto yn addef athrawiaeth dyfodiant. Y mae y Mandingoies, y Jaloffs, y Feloops, y Foulahs, y Moors, a'r holl lwythau eraill sydd yn cofleidio y gred Fahometanaidd, yn cydnabod yr athrawiaeth am anfarwoldeb yr enaid, a gwobr dyfodol mewn paradwys nefol. Y mae brodorion Dahomy yn addef yr un peth, a chan hyny y mae yn arferiad cyffredin gan benaeth y wlad hono anfon hanes pob dygwyddiad hynod i'w gyn-dadau, drwy gyflwyno y genadwri i bwy bynag a ddygwyddo fod yn agos ato ar y pryd, ac yna gor-chymyna dori ei ben ef ymaith yn uniongyrchol, fel y gwas-anaetho fel negesydd i gyfleo yr hanes i fyd yr ysprydoedd.*

Dywadir fod y Persiaid yn gadael un ran o'r beddau yn agored oddiar y gred y bydd i'r meirw gael eu hadferu i fywyd, a chael ymweliad gan angylion, y rhai a'u harweiniant i'w sefyllfaeodd priodol yn y byd dyfodol. Oddiar yr unrhyw dyb y mae miloedd o wragedd gweddwon yr Hindoos yn aberthu eu hunain yn flynyddol ar danllwyth claddedigaeth eu gwyr trengedig, yn y gobaith o gael cyd-fwynhau â hwy dedwyddwch sydd mewn bywyd dyfodol. Y mae y Japanese yn credu fod eneidiau dynion ac anifeiliaid yn anfarwol fel eu gilydd; fod dosbarthiad cyfiawn o wobrau a chosbau yn cymeryd lle wedi angau, a bod eneidiau y rhai drygionus yn cael eu traws-fudo i gyrph anifeiliaid, ac yn y diwedd, os byddant wedi ymddiwygio, y dychwelir hwy i'r ffurf ddynol yn ol.† Oddiar yr argyhoeddiad am wirioneddolrwydd byd dyfodol, y mae Arabiaid Wahabee yn ystyried fod galaru dros y meirw yn bechadurus, y rhai, meddant, sydd yn mwynhau dedwyddwch gyda Mahomet yn mharadwys; ac y mae trigolion Java yn gwneud llawer o wleddoedd ar farwolaeth eu cyfeillion a'u perthynasau, er coffadwriaeth am eu mynediad i fyd o hapusrwydd. Y mae Indiaid America Ogledol yn credu fod afon lydan tu hwnt i fynyddoedd pellaf eu gwlaid; a bro eang tu draw i'r afon; fod byd o ddyfroedd yr ochr arall i'r wlad hono; fod mil o ynysoedd yn y dyfroedd hynny, llawn o goed a ffrydian dwfr, a mil o deirw gwyltigion a deng mil o geirw yn pori ar y bryniau, ac yn pesgi yn y dyffrynoedd. Pan y byddont farw, y maent yn credu y bydd i'r Yspryd Mawr eu harwain i wlad yr eneidiau.

* M'Leod's Voyages to Africa, 1820, p. 64.

+ Thunberg's Travels.

Felly ymddengys fod, nid yn unig yr athronwyr boreuol, a'r cenhedloedd mwyaf gwaraidd sydd yn bresenol yn preswylio ar y ddaear, wedi cydnabod athrawiaeth anfarwoldeb dyn, ond fod hyd yn oed y llwythau mwyaf gwylt ac anwaraidd yn cadarnhau eu meddyliau yn y rhag-olwg ar angau, gyda gobaith am ddedwyddwch cyfartal i'w dymuniadau, yn yr ardaloedd tu draw i'r bedd.

“ Yr Indiad tlawd, er t'wylled ydyw ef,
 Wel Dduw'n y cwmwl, a'r ystorum gref,
 Heb dyssg na dawn i godi'i feddwl fry
 At lwybrau'r ser, yn teithio'r wybren sy,—
 Er hynh rhoes naturiaeth iddo'n awr
 Obaith am nef tu hwnt i'r bryniau mawr—
 Rhyw fydd sydd well yn nghyngod llwyn gerllaw,
 Rhyw ynys deg yn mynwes moroedd draw,
 Eu gwlad eu hun i'w caethion yno g'air.
 Heb ellyll blin, heb Gristion sercha'r aur,—
 Gan feddwl ffoi i wlad uwch wybren faith,
 A chwmni'r ei i'w loni ar y daith.”—POPE.

Yn mhllith y llwythau lluosog ac amrywiol sydd yn wasgar-dig dros wahanol ardaloedd y ddaear, nad ydynt yn cytuno bron ar yr un pwnc o gredo grefyddol, eto ydynt yn perffaith gydweled yn eu cydnabyddiad o Fôd Goruchel Deallgar, ac yn y farn o fod yr enaid yn parhau ar ol datodiad y corph. Ac, fel y sylwai Cicero gynt, “ Y mae cydsyniad yr holl genhedloedd i fod yn mhob peth i ddeddfau natur, a'u gwrth-wynebu, ydyw gwrthwynebu llais Duw.” Ni allwn o'r braidd dybied, yn gyson a'r priodoleddau dwyfol, y gallai cyfeiliornad ar bwnc o'r fath bwys i ddynolryw gael ei dderbyn yn gyffredinol gan holl genhedloedd yr holl oesau, ac y byddai i Dduw ei hun oddef byd o fodau rhesymol trwy'r holl genhedlaethau gael eu cludo ymaith gan dwyll, a chael eu poen-ydio â gobaith heb yr un sail iddo trwy holl naturiaeth, ac a fyddo yn groes i'w lywodraeth foesol. Y mae yn wir fod llawer o'r syniadau y cyfeiriais atynt yn awr, a llawer eraill sydd yn mhllith llwythau anwaraidd dynolryw, mewn perthynas i gyflwr yr eneidiau dignawd, a natur dedwyddwch dyfodol, yn dra chyfeiliornus ac anmherffaith ; eto y maent oll yn cydnabod y gwirionedd pwysig hwn, nad yw angau yn ddinystr i'r enaid rhesymol, a bod dyn wedi ei drefnu at fodolaeth

anfarwol. Gellid yn hawdd roddi cyfrif am eu golygiadau anghywir hwy mewn perthynas i wobr a chosp mewn byd dyfodol, oddiwrth yr ystyriaeth o'r ddirlnadaeth anmherffaith y maent wedi ei ffurfio am y Bôd Dwyfol, ac am egwyddorion ei lywodraeth foesol; oddiwrth eu hanwybodaeth am y prif egwyddorion a'r deddfau moesol hyny, wrth ba rai y mae yr Ifollalluog yn rheoli y greadigaeth resymol; oddiwrth y drych-feddyliau cyfeiliornus yr arweiniwyd hwy i'w dal am natur dedwyddwch sylweddol; oddiwrth yr arferion creulon a gwrtiun a berthyn i drefniant coelgrefydd Baganaidd; oddiwrth y tywyllwch meddwl sydd wedi gordoi dynolryw er cwypdyn; ac oddiwrth y tuediadau a'r serchiadau llygredig sydd yn hynodi y llwythau anwaraidd, ar y rhai na thywynodd goleuni Datguddiad erioed.

I ba achos bynag y mae y gred gyffredinol hon am fodolaeth ddyfodol i gael ei holrhain—pa un ai i draddediad cyffredinol wedi ei dderbyn oddiwrth rïeni cyntaf dynolryw; i syniad mewnol wedi ei argraffu yn wreiddiol ar enaid dyn; i ddatguddiad Dwyfol wedi ei ordaenu a'i drosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall, neu i gasaliadau rheswm dynol—y mae yn ffurfio prawf tebygol cryf, ac ymresymiad cadarn o blaid y gosodiad yr ydym yn awr yn amcanu ei brofi. Os ydyw i gael ei olrhain yn ol at rïeni cyntaf dynolryw, rhaid ei ystyried fel un o'r gwirioneddau hyny a gydnabyddid gan ddyn yn ei sefyllfa o ddiniweidrwydd, pan yr oedd ei serchiadau yn bur a'i ddealltwriaeth wedi ei sicrhau yn erbyn twyll a chyfeiliornad. Os ydyw yn olygiad a argraphwyd yn wreiddiol ar yr enaid gan law y Creawdwr, rhaid ein bod yn gwneud cam a deddf natur pan y dibrisiwn ei awgrymiadau, neu y cynhygiom wrthwynebu grym ei dystiolaeth. Os dylid ei ystyried fel un yn dyfod yn wreiddiol oddiwrth ddatguddiad, yna rhaid ei fod yn cyd-daro â gwirioneddau y Tystiolaethau Dwyfol, yn y rhai y mae "bywyd ac anlygredigaeth wedi ei dwyn i oleuni." Ac os golygir ef fel un o gasgliadau rheswm naturiol, yr ydym yn cael ein gadael yn ddiesgus, pan y beiddiwn dywyllu y dystiolaeth neu basio heibio i'r canlyniadau pwysig a gynnwys. Fel y mae cydsyniad yr holl genhedloedd wedi cael ei ystyried yn gyffredinol fel rheswm cryf i brofi Bôd Duw, felly y dylid ystyried fod cred gyffredinol dynolryw yn athrawiaeth scfyllfa ddyfodol, fel prawf tebygol cadarn, wedi ei sylfaenu ar wirionedd pur. Y mae y meddwl dynol wedi ei ffurfio yn

y fath fod fel pan ei gadawer i'w alluoedd diragfarn ei hun, y mae o angenrheidrwydd yn casglu fod un Bôd Deallgar Goruchel oddiwrth hanfodiad defnydd a threfn y byd defnyddiol; ac oddiwrth natur y galluoedd dynol, a phriodoliaethau moesol Duw, y mae yn cael ei arwain bron yn anffaeledig i gasglu fod bodolaeth ddyfodol yn angenrheidiol, mewn trefn i ddiwallu dymuniadau diderfyn yr enaid dynol, ac er am-diffyn doethineb ac uniondeb Llywodraethwr moesol y byd. Y mae y ddau brif wirionedd hyn sydd yn ffurfio sylfaen pob crefydd, a phob peth sydd o bwys i ddyn fel creadur-deallgar, wedi eu cyd-wau â chred dduwinyddol pob cenhedl; yn mhob achos o'r bron lle yr amheuir y naill y gwedir y llall, fel y gellid ystyried athrawiaeth anfarwoldeb dyn fel yn gorhwys ar yr un sylfaen a'r Bôd o Dduw.

Rhaid addef, mae'n wir, y gwelwyd unigolion lawer gwaith, yn mhob oes a geisient amheu neu wadu y gwirionedd hwn. Ond nid yw yr amgylchiad hwnw yn ffurfio yr un gwrthwyn-ebiad teg i rym yr ymresymiad yr wyf yn awr yn cyfeirio ato. Obliged nid yw nifer y cyfryw ond ychydig iawn i'w cydmaru a'r cyffredin o ddynolryw; ac y mae eu tybiau yn gyffredin ar y pwnc hwn wedi dechreu, naill ai trwy anwybodaeth gwirfoddol, gwagawydd am hynodrwydd, ac o ymddangosiad yn ddoethach nac ofnau y werin; neu trwy ymollwng i rwysg o ddrygioni ac annuwioldeb, yr hyn a'u harweinia i ddymuno, a phe byddai bosibl, i gredu nad os na chosp na gwobr tu draw i'r bedd. Os ymddengys yn beth dieithr ac annaturiol fod dyn yn dymuno bod ei enaid yn farwol, y mae Hierocles yn rhoddi y gwir reswm am hyny, "Y mae ar ddyn drygionus," medd efe, "ofn ei Farnwr, a chan hyny dymuna ar fod i'w enaid a'i gorff ddarfod yn nghyd yn angau, yn hytrach nac ymddangos ger bron brawdle Duw." Pe byddai i nifer o ynyfydion ystyried yn addas iddynt dynu eu llygaid ymaith rhag teimlo effaith goleuni, fel y dywedir fod yr Athronydd Democritus wedi gwneud, ni ffurfiai hyny ymresymiad i brofi fod y gweddill o'r holl fyd yn ddeillion. A phe byddai i ychydig o amheuwyr a rhai halogedig ymdrechu i dywyllu llygaid eu dealltwriaeth, trwy dwyll-ddadlyddiaeth a phen-ryddid, ni allai hyny atal y goleuni rheswm rydd yn dadlenu golygfeydd byd dyfodol rhag disgleirio ar y gweddill o ddynolryw, neu ffurfio y rhesymiad gwanaf i brofi anghywirdeb yr athrawiaeth a wadant.

DOSPARTH II.—AR Y DYMUNIAD AM SEFYLLFA DDYFODOL
SYDD WEDI EI BLANU YN Y MEDDWL DYNOL.

Y mae y dymuniadau cryfion a diorphwys hynny am fodolaeth a mwynhad dyfodol, ag sydd wedi eu planu yn enaid dyn, yn brawf tebygol cadarn ei fod yn meddianu ar natur anfarwol.

Nid oes yr un Bôd dynol yn teimlo cyflawn foddlonrwydd yn ei fwyniant presenol. Y mae y meddwl yn wastadol ar aden, yn ymestyn at gyrhaeddiadau newyddion, at wrthrychau newyddion, a phe byddai posibl, am raddau uwch o ddedwyddwch nag y mae y moment presenol yn gallu ei fforddio. Pa mor ddymunol bynag y gall unrhyw fwyniant neillduol fod am dro, y mae yn colli ei flas yn fuan, ac yn egru i'r chwaeth deallgar yn gyflym. Felly y mae yr holl awydd gwancus a welir yn mhliith pob graddau am amrywiaeth difyrwch perthynol i'r corph a'r meddwl. Y mae i'w ganfod yn yr awydd treiddgar sydd am newyddiant, am hanesion rhyfeddol, am arddangos-iadau prydferth ac ysplenydd, ac am newyddion am orchwylion dilynol y dydd. Oddiyma y tardd yr awydd am ddarllen y newyddiaduron gan bob gradd a allont eu cyrhaedd. Pa mor hynod a tharawiadol bynag y byddo yr hanesion a gofnodir heddyw, bydd awydd am hysbysiadau newyddion wedi ei gyffroi cyn y foru. Yn mhliith yr amrywiol wrthrychau sydd yn tynu sylw dyddiol, yn mysg yr amrywiaeth hanesion y byddo ysgrif'enwyr y newyddiaduron wedi eu casglu yn ofalus er boddio chwaeth pawb, ac yn nghanol y golygfeydd dy-chymygol a ddarlungia y Newyddwr a'r Bardd—"ni ddigonir y llygad a gweled na'r glust a chlywed." Edrycher ar ddeisifyadau anniwalladwy y cybydd yn casglu cyfoeth, a bywyd diorphwys y chwyddedig yn ei ymofyniad am anrhyydedd ac enwogrwydd, a chanfyddwn hyn yn amlwg. Dyma yr achos o'r awydd mawr sydd ar yr anianydd yn ei olrheiniad o'r naill ddarganfyddiad i'r llall, heb byth gyrraedd nod gorphwysdra, nac eistedd i lawr yn foddlon ar yr hyn a fyddo wedi ei gael allan. Pan y darganfyddodd Archimedes y ffordd i wybod am raddau cydmariaethol yr aur a'r arian oedd yn nghorion Hiero, a foddlonodd efe ar y wybodaeth newydd hono? Na ddo. Aeth y perlewyg a deimlodd ar y pryd, pan y neidiodd

allan o'r ymolchfa, ac y rhedodd yn noeth drwy heolydd Syracuse, gan waeddi, "Mi a'i canfyddais, mi a'i canfyddais," hebio yn fuan i roddi lle i'w feddwl ymwrthio yn mlaen at ymchwiliadau newyddion. Pan y cafodd Newton allan ddeddf tyniad cyffredinol, a phan y darganfyddodd Franklin mai yr un peth ydyw y mellt a'r tân elfenol, a theimlo y llawenydd oedd yn naturiol i'w gyffroi ar y pryd, a ddarfu iddynt hwy arafu yn eu camrau ar ffordd darganfyddiadau gwyddoriaethol, neu eistedd i lawr yn foddlon ar yr olrheiniau a wnaed? Na ddo. Yr oedd un darganfyddiad yn cyffroi awydd am un arall, ac ni therfynodd eu hymchwiliadau ond gyda'u heinioes. Wedi i Alexander arwain ei fyddinoedd buddygol dros Persia, Babylonia, Syria, yr Aifft, ac India, ac wedi iddo orchfygu y rhan fwyaf o'r byd adnabyddus, a eisteddodd efe i lawr mewn heddwch, a mwynhau ffrwyth ei oruchafiaeth? Na ddo. Yr oedd ei awydd byth ar ol ymgyrchau newyddion, a theithiau newyddion, yn barhaus a diorphwys; yr oedd ei uchelgais yn codi hyd wallgofrwydd: a phan y dywedodd yr athronydd Anaxarchus wrtho fod lluaws dirifedi o fydoedd, yr oedd ef yn wylo wrth feddwl fod ei fuddugoliaethau yn gyfyngedig i un.

Y mae y dymuniadau diorphwys a diddiwedd hyn i'w canfod yn cynhyrfu mynwesau dynion o bob cenhedl, ac o bob gradd a sefyllfa mewn bywyd. Os esgynwn at deyrngadeiriau twysigion, os rhodiwn trwy balasau gwleidyddion a llyswyr, ac os tremiwn i drigfanau tlodi ac angen, os ymgymysgw a phrydyddion ac athronwyr, gyda chelfyddydwyr, trafnidwyr, gweithwyr, gwledigion, a chardotwyr, os edrychwn ar olygydd prysur a thrafferthus y ddinas eang, y pentref tawel, neu y bwthyn unig sydd yn ochr yr anialwch distaw—canfyddwn yn mhob sefyllfa, ac yn mhllith pob graddau, ddylion yn llawn awydd a dymuniadau am ddedwyddwch, y rhai na all pob mwyniant presenol eu boddhau, ac nad oes yr un gwrthrych o fewn terfynau amser a all eu cwbl ddigoni. Pa un bynag a ddewiswn, ai ymfoddioni mewn anwybodaeth, ai olrhain llwybrau doethineb—i ymdroi mewn segurdod, ai arfer ein galluoedd gweithgar gydag egni—ai ymgymysgu gyda bodau cymdeithasgar, ai ffoi i neillduaeth llonyddwch—yr ydym yn teimlo gwagle yn y meddwl, yr hwn nas gall dim sydd o'n hamgylch ei lanw. Gwedi dibrisio y pethau a aethant hebio, ac heb ymddigoni yn y pethau sydd, y mae

enaid dyn yn ymyledda ar y gobaith am fwynhad, yr hwn nis profodd eto.

“ Mae gobaith dyn ar darddiad fel bythol ffrwd yn d'od,
Nid ydyw'n wynfydedig, mae'i wynfyd *eto i fod*;
Mae'r enaid yn anesnwyth, yn gaeth o'i gartre'n mhell,
Yn estyn yn ei awydd am fwyniant byd sydd well.”

Bod dymuniad am anfarwoldeb yn beth cyffredin a naturiol i bob dyn a ymddengys yn eglur oddiwrth amrywiaeth o weithredoedd, y rhai y byddai yn anhawdd rhoddi cyfrif am danynt ar yr un egwyddor arall, ac y mae yn profi fod y meddwl yn teimlo yn ymwybodol o'i dragwyddol dynged. Pa beth ond hyny a all fod yr achos o'r pryder sydd mewn dynion am eu cymeriad, a'r awydd sydd ynddynt am sicrhau eu henwau rhag syrthio i dir angof, ond bod i'w henwogrwydd barhau wedi iddynt hwy ddisgyn i'r bedd? I ddiogelu yr amcan hwn, ac i foddhau y fath ddymuniad, y mae Beirdd, Areithwyr, a Haneswyr wedi cael eu cefnogi a'u gwobrwyd er argannol eu gweithredoedd; y mae côf-golofnau o farmor a phres wedi cael eu hadeiladu i arddangos eu personau, a cherfiadau wedi eu tori yn y graig i gyflwyno tystiolaeth o'u gorchestion i genhedlaethau dyfodol. Y mae pilerau uchel, bwâau buddygoliaethol, carneddau amlwg, temlau gwychion, palasau, a beddrodau, wedi eu codi i dragwyddoli eu clod, ac megis i'w cadw yn fyw yn ngolwg eu holafiaid trwy holl oesau dyfodol amser. Ond os ydyw yr enaid wedi ei ragfwriadu i ddinistr yn awr angau, paham y byddai dyn mor bryderus yn nghylch yr hyn a ddigwydd, neu yr hyn na ddigwydd rhagllaw, pan y byddo efe wedi ei drosglwyddo i ddiddymdra, a'i ddêol am byth allan o greadigaeth Duw? Ni all fod ganddo ef yr un teimlad yn nghylch unrhyw ddamwain a all gymeryd lle yn myd y rhai byw, pan y byddo efe wedi cael ei ddileu oddiar wyneb y greadigaeth, ac y byddo y wrechionen olaf o ddealltwriaeth a feddai wedi ei ddifffodd mewn tragwyddol nos. Os bydd neb wedi ei holol argyhoeddi fod y bedd yn rhoddi terfyn holol ar ei fodolaeth, yr unig ymddygiad *cysion* iddo, pan y canfyddo ei holl ddymuniadau a'i ddysgwyliau daearol wedi eu siomi, fyddo i ruthro i freichiau angau, a rhyddhau ei hunan ar unwaith oddiwrth yr holl ddrygau cyssylltiedig a'i fodolaeth. Ond yr ydym yn canfod y

rhan fwyaf o lawer o ddynolryw, er yr holl ddrygau y maent yn agored iddynt, yn ymlyn u yn egniol wrth eu bodolaeth farwol, ac yn edrych yn mlaen gyda graddau o obaith sicr at derfyn eu trallodion.

“Mae'n well ganddynt oddef y drygau a wyddant,
Na rhedeg i wyneb y rhai na's adwaenant.”

Mi a feddyliwn nad oes yr un dyn o synwyr cyffredin a all daflu ymaith yn hollol bob teimlad yn nghylch ei enw ar ol marw, ac am y damweiniau a ddigwyddant ar ol ei farwolaeth. Ac os ydyw y gosodiad hwn yn gywir, y mae yn dangos yn eglur, nid yn unig nad ydyw ef yn *ewyllysio*, ond hefyd nad yw yn *tybied* y bydd i'w fodolaeth gael ei ddiffod yn dragwyddol yn angau. Yr oedd y meddwl am gael eu dynoethi ar ol marw, yn gadael y fath argraph effeithiol ar feddyliau morwynion Milesia, fel yr atalid hwy i roddi terfyn ar ea bywydau drwy hyny, wedi i bob ymresymiad arall fethu.* Y mae y dymuniad am fodolaeth—ac am fodolaeth, ar yr hwn na byddo terfyn, yn ymddangos fel sylfaen ein holl ddymuniadau, a'r holl gynnlluniau a ffurfiau mewn bywyd. Ni all fod dihanfodedd yn wrthrych dymuniad i yr un creadur rhesymol. Yr ydym yn dymuno rhywbeth sydd *wirioneddol*, rhywbeth sydd yn gyssylltiedig â *hapusrwydd* neu *fwynhad*, ond nid oes gan ddihanfodedd unrhyw wrthrych nac achos yn perthyn iddo. Pan y byddo dyn drygionus dan ymwybyddiaeth o euogrwydd, yn ymfoddhau mewn dymuniad am gael ei ddiffodi ar ol angau, nid yw yn gwneud hyny am fod diddymdra *yn ddo ei hun yn wrthrych dymunol*, ond dewisai hyny yn hytrach am ei fod y lleiaf o ddau ddrwg; gwell fyddai ganddo gael ei ddileu allan o'r greadigaeth na dioddef y gosp ddyledus iddo am ei bechoda'u mewn byd tragwyddol.

Gellid sylwi yn mhellach, fod y dymuniad am anfarwoldeb, pa mor gryfed bynag y gall fod mewn meddyliau cyffredin, yn dyfod yn fwy disblaer a gwresog fyth, yn ol y graddau y

* “Yr wylf yn erfyn ar ddynion, er mwyn Duw, (medd Hale) os cyfyd yn eu meddwl rywbyrd unrhyw ddymuniad neu awydd am i eraill ddywedyd yn dda am eu hangau, ar fod iddynt y pryd hwnnw ystyried yn ddifrifol, pa un a ydyw y fath syniad yn tarddu oddiwrth yspryd sydd i barhau yn yspryd gwesti iddo adael ei breswylfol daearol, ai ynte yn hytrach oddiwrth yspryd daearol, fel tarth na all weithredu, na meddwl, na dymuno, neu ofni pethau tu draw i'w barhad.”

byddo y dealltwriaeth wedi ei wrteithio a'i eangu, ac yn ol y cyfartaledd ag y byddo yr enaid yn esgyn yn uwch uwch mewn rhinwedd a rhagoroldeb moesol. Y mae yn ffurfio cy-mhelliad cryf at weithredoedd o enwogrwydd, a thrugaredd, a rhai cyhoeddus, haelfrydig, a dyngarol, a'r cyfryw ag a fyddo yn tueddu at wellhad meddyliol a dedwyddwch cenhedlaethau dyfodol. Dyma yr achos paham yr oedd y dynion mwyaf disglaer yn y byd paganaidd, y beirdd a'r areithwyr, y moesgarwyr a'r athronwyr boreuol wedi tanio eu meddyliau a'r syniad am anfarwoldeb, a llawer o honynt wedi gallu herio angau ei hun yn ddiofn, dan yr argyhoeddiad nad ydoedd yn ddim amgen na chenhadwr i anfon eu hysprydoedd i ardal-oedd bythol wynfyd. Pan y fföes Demosthenes i noddfa am gysgod rhag llidiogrwydd Antipater, yr hwn oedd wedi anfon Archias i'w gyrchu trwy orfod, a phan yr addawodd Archias ar ei anrhydedd na chollai ei fywyd os gwnai ei ymddangosiad personol yn wirfoddol—“Na atto Duw,” eb efe, “wedi i mi glywed Xenocrates a Plato yn ymresymu mor ysprydol am anfarwoldeb yr enaid, fod i mi ddewis bywyd o warth a dirmyg yn lle marwolaeth anrhydeddus.” Yr oedd hyd yn oed y rhai hynny nad oedd ynt wedi eu cwbl argyhoeddi am athrawiaeth anfarwoldeb, yn nghanol eu holl amheuon a'u tybiau ar y pwnc, yn *gwir ddyrnuno ar iddo droi allan yn wirionedd yn y diwedd*, ac ychydig, os yr un o honynt, oedd yn ei holol wadu. Oddiar ddylanwad yr ystyriaeth am “y pethau ni welir, sydd yn dragwyddol,” y cyflawnodd y gwroniaid Cristionogol eu gweithredoedd rhagorol hwy. Aethant i gyfarfod peryglon ac erlidigaethau o bob math, “profedigaethau trwy watwar, a fflangellau, ie, trwy rwymau hefyd a charchar;” daethant yn fuddygol drwy boenydiau yr arteithglwyd ac o ganol y fflamau ysc! ; gorchfygasant bob anhawsder yn eu hymdreichiadau haelfrydig er cyfranu bendithion i'w cyddynion, aethant trwy gynddaredd yr elfenau, teithiasant fôr a thir, llwybrasant hyd hinsoddau pellenig gwledydd y cenhedloedd, i'r dyben o ddangos i'r trigolion tywyll y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd tragwyddol. Ac nid oedd yn ormod ganddynt aberthu eu bywydau eu hunain, gan eu bod yn “*chwenych gwlad well*,” o herwydd fod yn ddiogel ganddynt y byddai i angau eu cyflwyno i fwynhau ‘tragwyddol bwys gogoniant.’”

Wrth hynny, gan yr ymddengys fod y dymuniad am an-

farwoldeb yn deimlad cyffredin mewn dynion, fod yr enaid yn wastadol yn edrych yn mlaen at fwynhad o ryw ddaioni dyfodol, a chan fod y dymuniad hwn wedi bod yn gymhelliad i'r gweithredoedd mwyaf haelfrydig a gorchestol, ar ba egwyddor y mae rhoddi cyfrif am dano ?

“ O b'le y tardd y gobaith serchus hwn,
 Y teimlad hoff, a'r hiraeth dyfal sydd
 Am anfarwoldeb ? Neu, o b'le y tardd
 Y dirgel ofn, a'r dychryn mewnol sydd
 Rhag syrthio eto 'n ddim ? Yr enaid, p'am
 Y cilia'n ol, y cryn rhag dinystr byth ? ” ADDISON.

O ba le y tardd yr angen a deimlwn yn nghanol y fath amrywiaeth o wrthrychau sydd yn ein cylchynu ? O ba le y cyfyd y diflasrwydd sydd yn canlyn pob mwynhad mor fuan ? Paham na allem byth beidio a dymuno rhywbeth rhagorach na dim yr ydym wedi ei feddianu eto ? Ni ellir rhoddi ateb boddhaol i'r cyfryw ymofyniadau, os yw ein pařhad i gael ei gyfyngu o fewn terfynau amser, ac os dileir ni allan o'r greadigaeth, pan y rhoddir ein pebillion daearol i orwedd yn y llwch. Y mae y dymuniadau at ba rai y cyfeiriais yn awr yn ymdangos fel rhan hanfodol o'r cyfansoddiad dynol, ac o ganlyniad wedi eu planu yn ein natur gan law y Creawdwr, ac wrth hyny, rhaid i ni dybied, naill ai y boddheir y dymuniad am anfarwoldeb, neu ynte fod y Creawdwr yn ymhyfrydu mewn poenydio ei greaduriaid â gobeithion a dysgwyliadau a ddiwedrant mewn tragwyddol siomedigaeth. Byddai cydnabod yr olaf yn anghyson a'r syniad rhesymol a allwn ei ffurfio am briodoleddau moesol y Duwdod. Byddai yn anghyson a'i *wirionedd*; oblegid y byddai meithrin gobeithion na fwriedid byth eu cwblhau yn nodwediadol o dwyllwr, ac felly yn groes i bob dirnadaeth a allwn ei ffurfio am ymddygiad “Duw y gwirionedd.” Byddai yn anghyson a'i *uniondeb*; oblegid y mae pob darluniad o'r fath yn cynwys gweithred o aunghfiaunder tu ag at y neb a fyddo yn cael ei boenydio felly. Byddai yn anghyson a'i *ddoethineb*; oblegid y golyga na byddai ganddo yr un moddion i lywodraethu y greadigaeth ddeallgar, ond y cyfryw ag a dueddo i fagu gobeithion ac ofnau yn meddyliau ei ddeiliaid rhesymol. Byddai yn anghyson a'i *haelfrydedd*; oblegid fel “ y mae y dymuniad a

gwblheir yn felus i'r enaid," felly y mae gobaith twyllodrus yn dwyn trueni. Eto, y mae haelfrydedd y Duwdod yn mhob golygiad arall yn cael ei arddangos yn y modd mwyaf rhyfedol yn holl drefniadau y byd naturiol, ac at bob graddau o fodau teimladol.

Yr hyn a grybwyllyd yn awr, mewn perthynas i ddymuniad a gobaith, a ellir ei gymhwys o mor briodol at yr *ofnau* a'r rhagdybiau hyny a gyfodant yn fynych yn y meddwl mewn perthynas i gospedigaethau byd dyfodol. Ni ellir tybied am Fôd perffaith mewn haelfrydedd, yr ewyllysia efe drallodi ei greaduriaid deallgar, a chwerwi eu bywyd âg ymddangosiadau arswydol, am y rhai na byddai y sail leiaf. Ond os nad oes yr un sefyllfa o wobr na chosp tu draw i'r bedd, y mae y dy-muniadau hyny am barhad anfarwol, y rhai a ymddengys ar y cyntaf fel yn dyrchafu dyn uwchlaw trigolion y ddaear, yn ei weithredol ddarostwng islaw anifeiliaid y maes, sydd yn crwydro drwy y goedwig a'r ddôl, a'u prif fwynhad, gyda phorfeydd yr anialwch. Y maent yn effro at fwyniant presenol, ond heb ddim rhag-dybiau am a ddaw; y maent yn teimlo poen presenol, ond nid oes un lle i gredu eu bod hwy byth yn cael eu poenydio âg ofnau a rhag-dybiau am gosp ddyfodol. Y maent yn foddlon ar yr erwig âg y mae Natur wedi eu cynysgaeddu â hwy; ymddangosant yn gwbl ddigonol ar grwydro y maesydd ac ymborthi ar y llysiau; nid oes eisiau gosod yr un ataliad ar eu dymuniad, ac y mae eu hawydd yn cael ei gwblhau; a'r hyn a'u boddhâodd ddoe a'u boddhâ y foru, heb gael eu blino gan ddymuniad am bethau newydd ac amrywiol. Y maent yn byw yn gwbl rydd oddiwrth y gofal a'r pryder diddiwedd sydd yn anesmwytho plant dynion, ac ni cheisiant byth fyned dros y terfyn a osododd naturiaeth iddynt. "Y mae y wenhynen lafurus yn adeiladu ei chelloedd cyfleus, ond nid yw byth yn breuddwyddio am godi bwäau buddygol, neu gofadeiliau i addurno ei dinas gwyr." O herwydd anwybodaeth am ddyfodian, y maent yn treiglo o fywyd i farwolaeth mor ddifater ag y maent o wyliadwriaeth i hûn, neu o lafur i orphwysdra. Ond y mae dyn yn nghanol ei holl fwynhad a'r rhagolygiadau sydd yn ei gylchynu yn ymdeimlo yn anesmwyth ac annigonol, o herwydd ei fod yn sychedu am ddedwyddwch tragwyddol ei barhad. Y mae ei obeithion a'i ddymuniadau yn estyn dros derfynau amser, a phob nôd a allwn ei ośod i barhad, ac yn symud yn mlaen yn ddiorphwys

drwy fythol-fyd diderfyn. Ac os ydyw i gael ei dori ymaith am byth oddiwrth bob gweithrediad pan y syrthio ei gorff i'r bedd, mor druenus iddo ydyw y dybiaeth am i dragwyddol derfyn gael ei roddi ar ei holl fwynhad ar ol agor rhagolygiad am anfarwoldeb o'i flaen!

Pa fodd, gan hyny, y gallwn roddi cyfrif am yr anngydfod hwn? pa fodd yr ymddengys yr holl anngysonderau yn gytunol? Yn mha oleuni y gallwn ddarlungo ymddygiad y Creawdwr fel y byddo iddo ymddangos yn gyson ag ef ei hun? Nid oes ond un casgliad a allwn ei dynu, mewn cysondeb â phriodoliaethau moesol Duw, yr hyn a ddadrys y dirgelwch o fod dyn wedi ei gynysgaeddu â dymuniadau diderfyn, ac eto wedi ei gyfyngu i barhad byr a therfynol yn y byd presenol; a hyny yw—mai nid y byd hwn ydyw ein cartref gorphenol, ond mai un arweiniol ydyw i sefyllfa o fodolaeth fwy gogoneddus a sefydlog, lle y bydd dymuniadau meddyliau rhinweddol yn cael eu perffaith foddhau, a'u gobeithion eu cwbl gyflawni. Nis gallaf weled fod yr un casgliad arall i'w dynu, heb wadu, nid yn unig *gymeriad moesol* y Duwdod, ond hyd yn oed ei *fodolaeth*.

DOSPARTH III.—AR ALLUOEDD DEALLGAR DYN, A'R AWYDD CRYF AM WYBODAETH SYDD WEDI EI BLANU YN Y MEDDWL DYNOL.

Y mae yr egwyddor o gywreingarwch, neu yr awydd cryf am wybodaeth sydd wedi ei blanu yn meddwl dyn, a'r gallu-oedd deallgar ardderchog â pha rai y mae efe wedi ei gynysgaeddu er ei gyrhaedd, yn dystiolaethau a phrofion o'i anfarwol dynged.

Er y gall yr ymresymiad hwn gael ei ystyried gan rai yn unig fel cangen o'r un blaenorol, eto gallai na byddai yn anfuddiol, er mwyn argraphiad, ei ystyried ar wahân, gan y dyga yn mlaen resymau ac egluriadau gwahanol i'r rhai a grybwyllyd yn awr.

Y mae dymuniad am wybodaeth yn beth naturiol i bob creadur rhesymol, ac yn ymddangos fel rhan hanfodol o gyfansoddiad y meddwl dynol. Y mae i'w ganfod yn sefyllfa

gyntaf ei weithrediad, ac y mae ganddo ddylanwad cryf ar symudiadau a mwynhad yr ieuatinge. Dangos er tir-ddarluu prydferth i blentyn fel yr ymddangosai iddo trwy ddrych-beiriant, ac fe'i mawr foddheir a'r olygfa. Dangos er un arall a thrydydd iddo gwahanol, y naill ar ol y llall, ac fe gynhydda ei hyfrydwch yn fwy; a bydd ei ddymuniad yn cryfhau yn barhaus am weled arluniau o wrthrychau newyddion ac am-rywiol; ac ni ddigonir ei gywreingarwch, ond trwy ddilyniad parhaus o olygfeydd a gwrthrychau a fyddo yn tueddu i eangu cylch ei wybodaeth a galluoedd ei feddwl. Oddiwrth hyn y tardd yr awydd treiddgar sydd yn yr ieuatinge am weled arddangosfaoedd, golygfeydd, gorymdeithiau, a dangosiadau cyhoeddus o bob math, a'r hyfrydwch a fydd ganddynt wrth deithio o'r naill olygfa i'r llall. Dyma yr achos o'r hyfrydwch sydd gan deithwyr i groesi mynyddau yr Alps i weled golygfeydd natur, a thros foroedd ac eigion, a disgyn i ogofeydd tywyll tanddaearol, neu ddringo i grib y mynyddau tanllyd, er maint y blinderau a'r peryglon y byddont yn agored iddynt.

“ Am hyn y rhoes rhagluniaeth hael y Nef,
 Yn mynwes pay'b y dymuniadau cryf
 Am bob gwrthrychau hynod sydd, er dwyn
 Pob un, trwy lafur maith, i olrhain trwy'r
 Trysorau dirgel sydd, i lanw'n bryd
 Yn mynwes eang y Gwirionedd'mawr. —————

Am hyn y fi'r yr heriod hyf
 O freichiau 'i fam, er maint ei galar prudd.
 I deithio 'r hinsawdd pell; a'r doeth ei fryd
 A gyll ei gwsg, heb ofni tawch y nôs
 I eistedd uwch y ganwyll ddwl; ac fel
 Y teithia 'r forwyn gyda chamrau swyn
 Drwy anial hir, rhyw syn chwedleuon hen
 O fore hyd brydnawn.” ————— AKENSIDE.

Os ydyw y dymuniad am wybodaeth yn ymddangos yn llai gwresog yn y tymor yn ol o'r bywyd, mewn rhai amgylchiadau, y mae hyny yn cael ei achosi mewn graddau mawr o herwydd ein dygiad i fynu, a'r egwyddorion gau ar ba rai yr arferwn hyfforddi y meddwl ieuengaidd. Nid yw ein haddysgiaidau arweiniol, yn gyffredin, yn gosod ger bron yr ieuatinge ond ychydig yn ychwaneg nag *agoriad* gwybodaeth, yn lle *gwybodaeth ei hun*. Yr ydym yn eu harwain at loriau teml

gwyddoriaeth, ond heb gynyg arddangos ei thrySORau iddynt. Yr ydym yn ystyried yn ddigonol i ni allu dysgu iddynt acenu lluaws o seiniau ac ymadroddion, fel llam-chwareu, i ba rai nad ydynt yn cysylltu unrhyw ystyr, tra yr ydym yn ymatal, heb gyflwyno *drychfeildyliau* eglur a dealladwy iddynt. Yr ydym yn llwytho eu côf ag ymadroddion celfyddgar, a gosodiadau nad ydynt yn eu deall, tra y mae gwirthrychau gwyddoriaeth sylweddol yn cael eu cadw yn ofalus oddiwrth lygad eu teimlad, a llygaid eu deallwriaeth. Yn lle eu harwain ar hyd grisiau graddol, yn sefyllfa gyntaf eu llafur, dros olygfeydd ardderchog, prydferth, ac amrywiol Natur a Dadguddiad, lle y mae bron bob gwirthrych yn dueddol i enill sylw, a chodi mawrhad, yr ydym yn eu dyrys u a chwestiynau annealladwy rheolau gramadegol, cywreindeb arddansoddol, a ieithoedd meirwon, gyda gwialenodiau a cheryddon, ac argofion annifyr, sydd yn gyffredin yn creu casineb yn eu meddwl at bob peth sydd a'r enw dysgeidiaeth arno, a hyny cyn y byddont yn adnabyddus o'r pethau yn y rhai y mae gwir wybodaeth yn gynwysedig. Eto, er cymaint ydyw y moddion anmhriodol a arferir wrth geisio hyfforddi eu meddwl ieuengaidd, y mae yn anmhosibl dileu y dymuniad am wybodaeth o'r meddwl dynol. Pan y cyflwynir gwybodaeth sylweddol i'r meddwl mewn ffordd briodol ac enillgar, bydd, nid yn unig yn hyfryd-wel, ond hefyd yn cael ei ddilyn a gwresogrwydd gan bawb na byddo eu galluoedd wedi hollol suddo i bydew llygredigaeth. Rhodder i ddyn, pa mor anwybodus a diddysg bynag y byddo, y fantais i ddeall manylion Daearyddiaeth, gyda rhyfeddodau yr eigion, a'r afonydd lluosog sydd yn treiglo yn barhaus i'r dyfnderau, gyda'r rhesau penuchel o fynyddoedd sydd yn ymestyn ar hyd y cyfandiroedd, ac yn saethu eu penau i'r cymylau, gyda'r mynyddau tanllyd, y corwyntoedd, y dyfr-bistyll, a'r golygfeydd arddwysion a phrydferth sydd yn addurno gwahanol hinsoddau y ddaear—gyda'r llwythau dirif o fodau bywiol sydd yn cyfaneddu ar eu hwyneb, ac arferion a defodau y bobl sydd yn byw arnynt,—ac efe a deimlai awydd cryf i wybod pob peth arall perthynol i'r pwnc hwn, gan estyn ei ymchwiliadau yn mlaen gyda bywiogrwydd cyn bellid ac y byddo ei fodion a'i gyfleusderau yn caniatâu. Hysbyser ef am rai o'r ffeithiau hynotaf mewn hanesiaeth foreuol a diweddar, ac efe a deimla awydd i wybod pob peth o bwys a ddigwyddodd yn haneson y byd er dechreuad amser.

Dadlener iddo rai o'r darganfyddiadau a wnaed am gyfansoddiad yr awyrgylch, am wefryddiaeth, am dyniad yr hylifau elfenol, am y cyfnewidiadau fferyllawl, a'r gweithredion sydd yn myned yn mlaen yn barhaus yn y byd anifeilaidd, llysienuol, a mwynyddol, a chyffroir ei gywreingarwch yn fwy fyth i dreiddio yn mhellach i ddirgelion natur. Cyfeirier ei olwg at eangder y ffurfaen, dyweder wrtho am faintiolaeth yr haul a'r planedau, eu cyflymder rhyfeddol yn rhedeg drwy cylchdeithiau, ac am nifer diderfyn a phellder anfesurol y ser, ac efe a sycheda mewn awydd am hyfforddiad manylach mewn perthynas i gyrph mawrion y bydysawd, ac efe a deimla hyfrydwch wrth glywed am ddarganfyddiadau newyddion yn ardaloedd anchwiliedig y greadigaeth.

Nid wyf yn gwybod am yr un amgylchiad yn yr hwn y cyflwynwyd gwybodaeth o'r natur yma mewn modd rhesymol, eglur, a dengar, ac na chafodd ei dderbyn gyda graddau o bleser, a chyda dymuniad cryf am wneud ymchwiliadau pell-ach i ryfeddodau Doethineb a Gallu creadigol. Ymddengys cyfansoddiad gwreiddiol y meddwl dynol y fath ag y mae yn cael ei foddhau yn naturiol gyda phob peth sydd yn rhoddi mantais i ymarfer â'i alluoedd, ac a fyddo yn tueddu i hel-aethu cylch ei weithrediad. Y mae yn wir fod y dymuniad am wybodaeth mewn rhai dynion yn ymddangos fel pe byddai wedi ei bylu, os nid ei ddileu, fel nad ymddangosant nemawr uwch yn eu golygiadau na'r dosparth iselaf o'r creaduriaid synhwyrgar. Ond nid yw hyn yn digwydd, ond yn unig yn yr amgylchiadau ag y byddo y galluoedd deallgar wedi eu marweiddio a'u caledu gan segurdod a chnawdolrwydd. Y mae y cyfryw yn gwneud eu goreu i wrthweithio tueddiadau gwreiddiol eu natur; ac eto, hyd yn oed yn yr amgylchiadau gwaethaf o'r natur hwn, ni bydd y dymuniad gwreiddiol wedi ei gwbl ddifodi cyhyd ag y parhao y synhwyrau i gyflawni eu swyddau. Oblgid ni welir y dyn mwyaf anifeilaidd byth wedi ei wneud yn holol amddifad o'r egwyddor o gywreingarwch pan y byddo unrhyw wrthrych o hynodrwydd yn cael ei gynyg i'w sylw. Ar y cyfryw achlysur bydd egwyddorion gwreiddiol ei gyfansoddiad yn sicr o gael ei gyffroi i weithrediad, ac efe a deimla ryw raddau o syndod a hyfrydwch fel y creaduriaid eraill yn gyffredinol.

A fel y mae gan ddyn ddymuniad naturiol am wybodaeth a hyfrydwch ynddo, felly y mae cfe wedi ei gynysgaeddu a

chynheddfau ardderchog a galluoedd deallol eang, er ei alluogi i'w gyrhaedd a'i drysori. Y mae ei synhwyr o olwg yn neillduol yn ymddangos yn cymeryd cylch eangach o wrthrychau na'r un creadur synhwyrgar arall. Tra y mae cylch edrychiad rhai o'r anifeiliaid iselaf yn cael ei gyfyngu o fewn ychydig latheni neu fodfeddi o fesur, gall llygad dyn dremio ar unwaith dros ddarn helaeth o wlad, a threiddio hyd yn oed i ardaloedd y bydoedd pellenig. I'r synhwyr hwn yr ydym yn ddyledus am ein gwybodaeth am y gwrthrychau aruchelaf a all feddianu y sylw, ac am y meddylddrychau a gyrhaeddwn am eangder diderfyn creadigaeth. A thra y mae wedi ei gymhwys o at olrhain ysgogiadau y bydoedd mawrion sydd yn treiglo mewn pellder o fil o filiynau o filltiroedd, y mae wedi ei ffurfio fel y gallo ei gynorthwyo hefyd, gyda chymhorth celfyddyd, i ardremio dros y lluaws afried o fodau bywiol sydd yn poblogi diferyn o ddwfr. Y mae ei holl alluojedd eraill wedi eu trefnu yn gyffelyb, er estyn terfynau ei wybodaeth, a'i alluogi i gyflwyno ei feddyliau i eraill, ac i rwyddhau y ffordd i gyfnewid golygiadau rhwng meddyliau creaduriaid rhesymol o gyfansoddiad tebyg i'r eiddo ei hun.

Y mae ei ddealltwriaeth yn alluog i gynhwys amrywiaeth o syniadau a meddylddrychau mewn perthynas i'r gwrthrychau dirifedi a genfydd ei synhwyrau allanol. Megis yr amrywiol wyddoriaethau y mae efe wedi eu meithrin, y darganfyddiadau aruchel y mae ef wedi eu gwneud, a'r dyfeisiadau ardderchog a ddygodd i oleuni. Trwy ei alluojedd deallgar y mae ef wedi olrhain y ddaear yn ei holl amrywiaeth o dir a dwfr, y cyfandiroedd, yr ynysedd, a'r eigion; ac wedi cael allan ei maint, ei phwys, ei hagweddiad, a'i hysgogiadau; ac wedi olrhain ei rhanau mewnol—wedi disgyn i waelod ei moroedd—wedi trefnu a dosparthu ei llysiau dirifedi, y mŵn a'r anifeiliaid a gynhwys; ac wedi dosranu yr awyrgylch anweledig, a'r hwn y mae yn cael ei chylchynu; ac wedi chwilio allan yr egwyddorion elfenol, o ba rai y mae yn cael ei chyfansoddi—wedi cael allan natur y taranau, a meistroli y mellt yn eu llwybr—wedi dirnad y deddfau wrth ba rai y mae y planedau yn cael rheoli eu llwybrau—wedi pwys o crynswm anferth y bydoedd pellenig; penderfynu eu maintioli a'u pellder; ac wedi olrhain ardaloedd y bydysawd anweledig i lygad noeth, y rhai y mae eu pellder uwchlwm pob cyfrifiad a dirnadaeth dynol. Y mae y gwyddoriaethau aruchel o Ddaear-fesuriaeth, Mesur-

iaeth-trionglau, Praff-fesuriaeth, Dylisiaeth, ac Alsawdd, a changhenau eraill Rhif a Mesur, a'u cymhwysiad at ddybenion Morwriaeth a Daearyddiaeth, yn dangos craffder ei ddealltwriaeth, a'i allu i arganfod deddfau ysgogiad y cyrph wybr-enol, amser eu cylch-droad, eu diffygion, a'r pellder yn yr hwn y maent wedi eu gosod oddiwrth ein palas is-loerawrl ni, ac yn dangos nerth a threiddgarwch y galluoedd â pha rai y mae efe wedi ei ddonio.

Trwy gynorthwy yr offerynau a'r manteision a ddyfeisiodd ei alluoedd myfyrgar gall gludo symau anferth dros y môr, dynodi yn gywir y seyllfa yn yr hwn y byddo ar unrhyw amser, pan y byddo ar daith ar ei wyneb, cyfeirio ei ffordd gydag ymylon dilwybr drwy donau y dyfnader mawr; gall gyfnewid swm o *agerdd* i allu celfyddydol, er llusgo gwagenau ar hyd y ffyrdd, a llongau mawrion gyda chyflymder yn erbyn y cymlawdd a'r gwynt; a hyd yn oed drosglwyddo ei hun trwy yr awyr denau uwchlaw ardaloedd y cymylau. Gall olrhain y bydoedd anweledig a fyddo wedi croni mewn pwll llygredig, a dwyn eu preswylwyr dieithr a lluosog i oleu dydd; a'r munyd nesaf gall dreiddio i ardaloedd y bydysawd hyd bellder anfesurol, a myfyrio ar y mynyddoedd a'r dyffrynoedd, y creigiau a'r gwastadedd sydd yn addurno golygfeydd y bydoedd cylchynol. Gall dynu defnydd anweledig allan o delpyn o lô, trwy yr hwn y medr gynnu mewn moment o'r braidd y goleuni mwyaf disglaer trwy bob parth o ddinas fawr a phoblog—gall wahanu yr elfen dan oddiwrth yr awyr anweledig, er gwneud i'r gareg galetaf a'r adwyn trymaf doddi fel cwyr gan ei rym mawr; gall droi melt yr wybren i wasanaethu ei ddybenion, a holli y creigiau yn deilchion man. Gall godi dinas ysblenydd, wedi ei haddurno â cholofnau uchel, a phalasau, a themlau, mewn man lle nad oedd o'r blaen ond fel anialwch mawr, neu forfa gwlyb, a gall wneud i'r "anialwch a'r annghyfaneddle lawenychu, a'r diffaethwch i darddu a blodeuo fel rhosyn." Gall gyflwyno ei feddyliau a'i olygiadau mewn ychydig oriau i ddeg can mil o'i gyd-greaduriaid; ac mewn ychydig wythnosau i'r holl fyd gwareiddiedig; ac wedi ei farwolaeth gall daenu hyfforddiadau pwysig yn mhliith dynolryw, trwy genhedlaethau dilynol. Mewn gair, gall edrych yn ol, a threiglo drwy yr haneson hypnotaf a ddigwyddasant er dechreuad y byd; gall ardremio dros olygiad presenol pethau dros y byd yn mysgrif pob cenedl;

gall dreiddio dros derfynau pob peth sydd yn weledig o len y nef, a theithio yn mysg cyssawdau a bydoedd anadnabyddus ag sydd wedi eu gwasgaru drwy ardaloedd diderfyn creadigaeth, a gall gyfeirio ei gamrau dros derfynau amser, a myned rhagddo drwy olygfeydd prydferth ac aruchel y byd a ddaw, yr hwn “nis gwelodd llygad,” trwy oesoedd dirifedi tragwyddoldeb.

Y fath luaws anfeidrol o ddrychfeddyliau ar y pynciau hyn oedd raid i feddwly fath un âg ARGWYDD BACON gynhwys! llygad meddyliol yr hwn a olrheiniai holl gylch gwyddoriaeth ddynol, ac a ddangosodd y llwybr drwy yr hwn y gellid dwyn pob gwybodaeth i berffeithrwydd! Mor aruchel ac amrywiaethol yr oedd raid bod cylch olrheiniad meddwl yr anfarwol NEWTON! deall mawr yr hwn a ymddangosai fel pe buasai yn gafael am holl drefniant eang Natur yn gyffredinol, yr hwn a bwysai sylweddau anferth y planedau, ac a ddadlenai y deddfau wrth y rhai y rheolir eu hamrywiol arddangosiadau ac y cyfarwyddir eu holl ysgogiadau.

“Gallasai ef, tra ar y belen hon,
 Lle llafur dyn, yn nghlysgod niwl a llwch,—
 Trwy ddeddf Ysgogiad ganfod dirgel law
 Rhagluniaeth nef, yn cyson weithio drwy
 Yr osail eang hon.—
 —A'i olwg craf, yn tremio 'i gylch yr haul
 Y gwelai yn nerth Tyniad gyda grym
 Dysgyrchiad, oll yn symud yn eu trefn.
 —Ar edyn eilwaith gwibiai 'n gyflym drwy 'r
 Eangder pell; pob seren ddengys nos
 Y gaua'n glir, ar len yr wybren lâs,
 Gan dywallt ar y llygad noeth, neu i'r
 Drych-beiriant mawr, ar ei ddynesiad ef,
 Ddisgleiriai 'n hauliau oll; canolbwyt byw
 Bob un, i ryw gyfundrefn deg.”—————

Y mae meddyliau y fath ddynion a Socrates, Plato, Archimedes, Locke, Boyle, La Place, a'u cyffelyb, yn dangos helaethder y dealltwriaeth dynol, y cylch eang o ystyriaeth ag y mae yn alluog i'w olrhain, a'r nifer diderfyn o feddyl-ddrychau a all eu cynhwys. Ac y mae pob dyn y byddo ei alluoedd mewn trefn briodol, wedi ei gynysgaeddu a galluoedd meddwl cyffelyb, ac yn gymhwys i dderbyn hyfforddiant mewn graddau cyfartal o ran rhagoriaethau deallgar.

Ac fel y mae dyn wedi ei ddonio a galluoedd meddyliol eang er *cyrhaeddyd* gwybodaeth, felly y mae wedi ei gynysg-aeddu a chynheddffau ardderchog *er cadw*, neu *drysori yn nghyd* yn ei ddeall y wybodaeth a gyrhaeddo. Y mae wedi ei ddonio a gallu y *Côf*, trwy yr hwn y gall gynal ei ddrychfeddyliau am wrthrychau a dirnadaeth o bethau a fu, gyd ag ymwy-bodolrwydd fod y gwrthrychau neu y pethau a gofir o'r blaen yn wirioneddol a phresenol. Heb y gallu hwn ni byddai yn bosibl i ni fyned gam yn mlaen yn llwybr gwellhad meddyliol. Pe byddai i'r hysbysiaeth a dderbyniwn yn wreiddiol drwy gyfrwng y synhwyrau ddarford y moment y symudid y gwrth-rychau o'n golwg, gadewid ni mor ddiffygiol o wybodaeth a phe buasem heb gael ein bod. Ond, trwy allu y côf, yr ydym yn medru cynull yn nghyd, megis mewn ystordy, y rhan fwyaf, os did y cyfan o'r meddyliau, y syniadau, rhesymau, a dirnadaeth a fyddom wedi eu *cyrhaeddyd* yn flaenorol, a'u gwneud yn wasanaethgar i'n hymdrechiadau dyfodol at gyrhaeddiad gwybodaeth. Ac y mae yn debygol y gallai hyd yn oed yspryd dynol, yn yr ymarferiad egniol a'r galluoedd ag y mae efe yn awr wedi ei ddonio â hwy, fyned rhagddo trwy barhad diderfyn, gan ychwanegu beunydd at drysorfa ei wybodaeth, heb golli yr un o'r prif feddylldrychau, neu y graddau o hysbysiaeth a fyddo wedi ei *gyrhaeddyd* yn flaenorol.

Y mae gallu y côf i gynwys argraphiadau am bethau a fu, a'i gymhwysder at wellhad, yn llawer mwy nag y tybir yn gyffredin. Canfyddwyd y gallu hwn yn y fath raddau o berffeithrwydd mewn llawer o ddynion, yn yr oesau gynt yn gystal ag yn yr amserau diweddar, ag a gyffroi syndod braidd uwchlaw y gellid ei gredu. Dywedir am Seneca, y gallai adrodd dwy fil o wersi ar unwaith yn rheolaidd, a dechreu drachefn yn y ddiwedaf a'u hadrodd yn ol hyd y gyntaf, heb fethu yr un sill. Dywedir y gallai Cyrus alw pob un o'i filwyr lluosog wrth ei enw penodol ei hun. Cyneas, yr hwn a anfonwyd gan Pyrrhus i Senedd Rhufain ar genhadaeth, a adwaenai ac a gyfarchai yr holl Senedd wrth eu henw, a'r holl raddau o foneddion oedd yn Rhufain, dranoeth ar ol ei fynediad yno. Yr oedd Mithridates, yr hwn a lywodraethai dair-ar-hugain o genhedloedd o wahanol ieithoedd, yn alluog i ymddiddan a phob un o honynyt yn eu hiaith eu hun."* Y

* * Senec. Controvers. lib. 1. Pliny's Nat. Hist., etc.

mae un hen awdwr yn crybwyl am un Oritus, bachgen o Corsica, i'r hwn y cyflwynodd nifer mawr o enwau, synhwyrel a disynwyr, ac wrth ganfod y gallai adrodd y fath luaws o honyt heb fethu yr un, yn y drefn y gosodai hwy ger bron ei sylw, a'u lluosogodd i ddeugain mil; ac a ganfyddodd, er ei syndod, y gallai eu hadrodd o'r dechreu i'r diwedd, ac o'r diwedd i'r dechreu yn ol yn y drefn yr adrodded hwy iddo, bob un.

Bu amryw amgylchiadau diweddgar yn y rhai y dangoswyd galluoedd arbenig mewn adgofiant. Y mae Dr. Wallis, yn ei draith yn y "Philosophical Transactions," yn mynegi ei fod wedi olrhain *cube root* y rhifyn *tri*, hyd i ddeg-ar-hugain o ddegranau, trwy gymhorth ei gôf yn unig. Darllenodd Maglia Bethi yr holl lyfrau a gyhoeddwyd yn ei oes, a'r rhan fwyaf o'r rhai y gyhoeddwyd cyn hyny; ac fe allai, nid yn unig fynegi beth a gynhwysid yn ngwaith pob awdwr, ond gallai hefyd fynegi ar dafod leferydd y benod, y dosparth, a'r tu dalen yn mhob llyfr a ddarllenodd, ac adrodd geiriau yr awdwr ei hun mewn perthynas i unrhyw bwnc. Rhoddodd un gwr bonheddig fenthyg llaw-ysgrif hirfaith iddo a fwriadai ei chyhoeddi, er mwyn profi galluoedd ei gôf; ac wedi iddo ei dychwelyd, galwodd gydag ef, gan gymeryd arno ei fod wedi ei cholli, a ddymunai arno ysgrifenu cymaint ag a allai gofio o honi; pan, er ei syndod yr ysgrifenodd y cyfan o honi yn gywir, air am air, fel yr oedd yn yr ysgrif wreiddiol a fenthycasai iddo. Yr oedd M. Euler, diweddgar athronydd a chyfrifydd erwog, wedi colli ei olwg trwy fyfyrdod rhy ddybryd; ac wedi hyny, cyfansoddodd ei "Elements of Algebra," a gwaith arall ar "Anghydraddoldeb ysgogiad y planedau," oedd yn galw am gyfrifiadau dyrus a diderfyn, ond eto, a gyflawnodd trwy gymhorth ei gôf yn unig, er syndod a chymer-adwyaeth yr holl fyd athronyddol. Yr oedd ei gôf yn cadw pob drychfeddwel a gynhygid iddo trwy ddarllen neu fyfyrio; ac yr oedd ei alluoedd rhesymgar yn llawn mor gywir ac eang a'i gôf. Yr oedd yn ysgolhaig llënenyddol rhagorol, ac fe fedrai adrodd Æneid Virgil o'r dechreu i'r diwedd, a gallai fynegi y llinell gyntaf a'r olaf o bob tu dalen yn yr argraphiad a ddefnyddiai.* Bu'm yn ymddiddan â dyn a anesid yn ddall, yr hwn a allai adrodd yr oll o'r Hen Destament a'r Newydd

* Encyclopedia Britan. Art. Euler.

o'r dechreu i'r diwedd; ac nid hyny yn unig, ond gallai adrodd y benod a'r adnod a ofynid iddo y moment y crybwyllic am dani.

Felly ymddengys, nid yn unig fod dyn y feddianol ar ddy-muniad gwresog am wybodaeth, ond hefyd ei fod wedi ei gynysgaeddu a'r galluoedd deallo mwyaf treiddgar ac eang, yn gystal er cyrhaedd a thrysori gwybodaeth yn ei feddwl; galluoedd a ymddengys yn gymhwys at wellhad diderfyn yn y byd hwn; a'r casgliad cyfreithlon a ellir ei dynu oddiwrth hyn ydyw, y parhânt i gael eu harfer mewn gweithrediad di-orhwys trwy ystod diderfyn. Ac a ydyw yn bosibl meddwl mewn cysondeb â phriodoliaethau moesol y Duwdod, fod ymarferiad a'r cyfryw alluoedd wedi ei fwriadu i gael ei gyfyngu o fewn terfynau amser, ac o fewn cylch cyfyng y belen ddaearol?

"Mynega'n awr, a all yr enaid, sy'n
Feddianol ar y fath alluoedd dwi'n
Ac eang, gan ymledu yn barhaus,
Fod ddim yn amgen nag anadliaid chwaw
Ysprydion yn ymddawnio drwy eu rhod
Am dymor byr, ac yna syrthio i
Ddiddymdra bythol yn y gwagder mawr?"

Ni ellir tynu y fath gasgliad, tra y cydnabyddom y Duwdod yn feddianol ar ddaioni ar ddoethineb anffaeledig. Amcan Daioni ydyw boddhau y dymuniadau pur a gwresog hyny a blanodd yn yr enaid; a gwaith Doethineb ydyw cymhwys moddion at ddybenion. Ond pe buasai holl fedolaeth dynion wedi ei fwriadu i fod yn gyfyngedig i ryw ystod penodol o barhad, a ydyw yn rhesymol i dybied y buasai Anfeidrol Ddoethineb yn cynysgaeddu yr enaid dynol â galluoedd a chynheddffau mor rhagorol ac aruchel, a gwneud y fath ddarpariadau a threfniadau er cefnogi ei berfeithiad naturiol a moesol? Byddai cydsynio a'r fath dybiaeth yn ddiraddiad ar y Dwyfol ddoethineb a dealltwriaeth i fod yn is na chyfar-taledd â doethineb dyn, a phriodolid anmherffeithrwydd ac ynfydrwydd i'r Hwn sydd yn "Unig ddoeth Dduw." Oblgid yr ydym yn ei ystyried yn amlygiad o ffolineb yn wastadol yn ymddygiad dynion pan y cynllunioent beiriant eang a chywrain, yr hwn na etyb yr un dyben yn y byd, neu o

leiaf, yr un dyben cyfatebol a'r draul a'r llafur o'i adeiladu. Ac felly, os na phriodolwn wendid neu ddifyg bwriad i Greawdwr y byd, rhaid i ni addef na ddarfu iddo ef ffurfio enaid dyn at yr olygfa ddaearol hon yn *unig*, ond ei fod wedi ei amcanu at sefyll'a o wellhad gwastadol, a pharhad diderfyn.

Ymddengys y casgliad hwn yn eglurach eto, os ystyriwn yr holl gylch o drafferth a gofal, a'r caledi mawr i'r hyn y mae y rhan fwyaf o ddynolryw yn agored yn eu cyflwr presenol, yr hyn sydd yn rhwystr i lawn ymarferiad o'i alluoedd deallo, ar y gwrthrychau hyny ag sydd yn gydunol â'i ddymuniadau gwresog, a galluoedd ardderchog yr enaid dynol. Y mae amser y cyffredin o ddynolryw yn eu hamgylchiadau presenol yn y byd hwn, yn cael ei gymeryd i fynu i wrthweithio y drygau perthynol i'r cyflwr presenol, ac mewn gwneud darpariadau ar gyfer eu hangenion naturiol; ac o ganlyniad, y mae yn holol anmhosibl i'w dymuniad am wybodaeth gael ei gwblhau yn nghanol y gorchwylion a'r trafferthion perthynol i sefyllfa bresenol pethau. Os ystyriwn hefyd yr anhawsder o gyfarwyddo y meddwl mewn ymofyniad am wybodaeth sylweddol, a'r rhwystrau mynuch sydd yn ein cyfarfod yn ffordd ein hymofyniadau am y gwirionedd, yn nghanol opinynnau gwrthwynebol, manteision ymrysonol, a nwydau gwyrog dynion—os ystyriom anmherfeithder ein synhwyrau, a'r ffugiau i ba rai y maent yn ddarostyngedig—y rhagfarnau a'r nwydau sydd yn ein llithio i gyfeiliornad—mor barod ydym i gofleidio drychiolaeth disglaer yn lle gwirionedd sylweddol—ac mor hawdd ydyw i'n hysprydoedd gael eu llethu dan bwys dyfalwch yn ein hymchwiliadau meddyliol,—bydd yn hawdd ein hargyhoeddi nad oes yn y sefyllfa hon ddim lle i lawn ymarferiad o alluoedd y meddwl, ac na all y byd hwn fod yn ddim amgen na rhyw olygfa *baratoawl* ar gyfer uwch sefyllfa o fodolaeth. Heblaw hyn, hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyny ag y mwynheir pob mantais er cyrhaedd gwybodaeth—lle y byddo pob hamdden, cyfoeth, addysg, llyfrau, offerynau, a phob cynorthwyon oddiwrth bob cymdeithasau dysgedig, mewn cyssylltiad a'r doniau deallgar coethaf, mor egwan ydyw ymdrechiadau y rhai mwyaf treiddgar ac egniol eu meddwl, ac mor gul ydyw y terfynau yn mha rai y mae eu golygiadau wedi eu cyfyngu! Y mae yr athrylith mwyaf disglaer yn sefyll ar y man uwchaf y gall gwyddoriaeth ei

dderchafu, ac yn myfyrio ar olygfa ddiderfyn o wrthrychau a digwyddiadau, ond ni all efe obeithio byth am gyrhaedd adnabyddiaeth o honynt tra y byddo wedi ei gadwyno i lawr wrth derfynau y belen ddaearol hon. Y mae llygad ei feddwl yn canfod golygfa ddiderfyn ac amrywiaethol o wrthrychau, gweithrediadau, perthynasau, cyfnewidiadau, a chwyldroadau, uwchlaw terfynau pob peth ag sydd yn weledig i lygad naturiol : y mae yn cael cip-dremiad achlysurol ar wrthrychau a golygfeydd, y rhai a fuasai o'r blaen wedi eu cynwys mewn anheuaeth ac aneglurdeb ; y mae yn ymorchestu â golwg ei feddwl, ac yn ymestyn i gyrhaedd darganfyddiadau newyddion, y mae yn canfod rhyw agoriadau sydd yn cyfeirio ei olygiad i ororau anfeidroledd a thragwyddoliaeth—ond eto yn ddiorphwys ac anfoddhaol—yn canfod nad yw ei holl wybodaeth ond carpiog a darniog, neu fel rhyw lewyrchiadau gwelw yn nghanol y tywyllwch sydd yn ei gylchynu—y mae yn cael ei argyhoeddi fod ei holl alluoedd presenol yn rhy fyr ac egwan, a bod yn rhaid ei dderchafu i sefyllfa uwch, cyn y gall gwbl gyrhaedd y gwrthrychau mawreddog sydd yn gor-phwys yn guddiedig yn ardaloedd anolrheiniadwy anfeidroldeb. Y mae ei holl olygiadau presenol wedi eu cyfyngu o fewn cylch o ychydig filltiroedd, a'r cyfan sydd tu hwnt i hyny yn y gyfundrefn gyffredinol, yn estyn trwy y llwybrau anfesurol yn yr eangder diderfyn mewn tywyllwch ac an-sierwydd.

A ellir tybied, gan hyny, y bydd i enaid wedi ei ddonio a'r fath alluoedd ardderchog, yn medru teithio dros ardaloedd y greadigaeth, er agor golygiadau newydd yn mroydd diderfyn y gwirionedd sydd yn gorwedd o'i flaen, a gwerthfawrogi perffeithderau Llywydd y byd—enaid wedi ei danio â dymuniadau gwresog am wybodaeth, ac yn sychedu am ddarganfyddiadau newyddion o wirionedd, ac am orfawredd y Duwdod, heb ymddigoni ar ei gyrhaeddiadau presenol ac yn myfyrio ar yr olygfa anchwiliadwy sydd ger ei fron—gael ei fwrw ymaith o fodolaeth a suddo mewn diddymdra tragedywyddol, ar y moment ag y byddai ei alluoedd yn dechreu ymledu, pan y byddai ei ddymuniadau yn fwyaf gwresog, a phan y byddai golygfeydd anfeidroledd yn dechreu agor o flaen ei feddwl? Pe gellid caniatau y fath dybiaeth, byddai dyn y gwrthrych naturiaethol mwyaf aunghyfrifol yn yr holl fyôl; a'i fodolaeth yn ddirgelwch anmhlymiadwy ; ac ni byddai un

modd adnabyddus i gysoni ei sefyllfa a'i dynged â doethineb, uniondeb, a haelfrydedd y Creawdwr.*

DOSPARTH IV.—AR YMESTYNIAD PARHAUS Y MEDDWL AT BERFFEITHRWYDD.

Fel ychwanegiad at yr ymresymiad blaenorol, gellid dywedyd yr *ymddengys enaid dyn yn alluog o fyned rhagddo yn barhaus at berffeithrwydd deallol a moesol, ac o fwynhau dedwyddwch yn mhob sefyllfa o'i yrfa, heb byth gyrhaedd terfyn i'w ymdeithiau.* Nid ydym yn gallu canfod terfynau i olrheiniau y deall yn y byd hwn, ond y cyfryw ag sydd yn codi oddiar ei gysylltiad â chorff amrosgo, yr hwn sydd wedi ei gadwyno i wared, megis wrth bwynt neillduol yn niflawredd y greadigaeth. Y mae yn alluog o gyrhaedd graddau newydd o wybodaeth hyd derfyn olaf ei berthynas âg amser, uwch cyrhaeddiadau mewn rhinwedd, dymuniadau mwy gwresog am berffeithrwydd moesol; ac y mae anfeidroldeb y Creawdwr, a dirfawredd y greadigaeth ar yr hon y mae yn llywyddu, yn faes ag y gall ei olrhain dros byth, a chynulliad o wrthrychau, ar ba rai y dichon i'w alluoedd gael eu harfer yn barhaus, heb yr arwydd lleiaf iddo gyfarfod byth â therfyn i atal ei ymdeithiau meddyliol.

Gan na allaf egluro y testyn hwn mewn iaith fwy prydferth a nerthol nac a wnaed eisoes gan Draithodydd enwog, mi a gymeraf y rhyddid o ddifynu ei eiriau. “Pa fodd y gall byth fyned i feedwl dyn,” meddai yr ysgrifenydd rhagorol hwn, “dybied y bydd i'r enaid sydd yn alluog o'r fath ragoiaethau diderfyn, ac o dderbyn gwellhad adnewyddol dros

* Ymddengys foâ y fath ystyriaethau ag a ddygais yn mlaen yn awr wedi cael argraff bwysig ar feddyliau yr athonwyr boreuol. “Pan yr ystyriwyf,” medd Cicero, “fywiogrwydd rhyfeddol y meddwl, y fath adgof sydd ynddo am bethau a fu, a'r fath alluoedd i dreiddio i bethau dyfodol—pan y gwelwyf y fath nifer o gelfyddydau a gwyddoriaethau, a'r fath luaws o ddarganfyddiadau yn codi o honynt,—yr wyf yn credu yn ddiysgog na all natur ag sydd yn cynwys gymaint o bethau ynddi ei hun fod yn farwol.” Cicero *de Senectude*, cap. 21. Ac os ymddangosai y ddadl hon yn gref, hyd yn oed yn amser Cicero, pa beth a ddywedir yn awr pan y mae hi wedi derbyn adgyfnerthiad mawr drwy y celfyddydau, y gwyddoriaethau, y dyleisiadau a'r darganfyddiadau lluosog a wnaed yn yr oes yr ydym ni yn byw ynddi.

byth, syrthio ymaith yn ddim, gydag y byddo wedi ei greu? Ai yn ofer y gwnaed y galluoedd hyn? Y mae yr anifail yn cyrhaedd nod o berfffeithrwydd dros yr hwn nis gall byth fyned. Mewn ychydig o flynyddau y mae yn cyrhaedd pob rhagoriaeth a all ei dderbyn; a phe y byddai byw ddeng mil mwy, eto ni byddai ond y peth ydyw yn awr. Pe byddai i enaid dynol sefyll felly yn ei ragoriaethau, pe byddai ei allu-oedd wedi cynhyddu yn gyflawn, heb allu myned dim yn mhellach, mi a dybiwn y gallai syrthio ymaith i ddideimlad-rwydd, a disgyn ar unwaith i gyflwr o ddihanfodedd. Ond a allwn ni gredu y bydd i fôd meddylgar, sydd yn myned rhagddo yn barhaus mewn gwellhad, ac yn teithio o berfffeithrwydd i berfffeithrwydd, gydag y byddai wedi edrych o amgylch i waith y Creawdwr, a gwneud ychydig o ddarganfyddiadau o'i ddaioni, ei ddoethineb, a'i allu, gael ei ddis-trywio gydag y byddai yn cychwyn allan, ac yn nechreuad ei ymofyniadau?

“Ymddengys dyn felly, a'i ystyried yn ei sefyllfa bresenol, fel pe byddai wedi ei ddanfon i'r byd yn unig i genhedlu ei ryw. Y mae yn darparu olynnydd iddo ei hun, ac yna yn cilio o'i swydd, i roddi lle i un arall:—

Etifedd yr ei gyn-etifedd draw,
Fel tôn yn hyrddio tôn.”

Nid ymddengys ei fod wedi ei eni i fwynhau bywyd, ond i'w gyflwyno i eraill ar ei ol. Nid yw hyn yn anmhriodol i'w ystyried am yr anifeiliaid sydd wedi eu ffurio er ein gwasanaethu ni, ag a allant ateb eu dyben mewn bywyd byr. Y mae y prif-sidan wedi gwau ei wê, yn dodwy ei wyau, ac yn marw. Ond ni all dyn byth gymeryd i fewn ei gyflawn fesur o wybodaeth heb amser i blygu ei nwydau, sefydlu ei enaid mewn rhinwedd, a dyfod i fynu i berfffeithrwydd ei natur, cyn cael ei hyrddio ymaith oddiar yr esgynlawr. A wnae Bôd anfeidrol ddoeth y fath greaduriaid ardderchog at ddybenion mor wael? A ymhyfryda efe mewn ffurio y fath greaduriaid deallol anhymig, bodau rhesymol o fywyd mor fyr? A roddai efe dalentau i ni heb fod i'w hymarfer? galluoedd nad ydynt byth i gael eu boddhau? Pa fodd y gallwn ni ganfod y Doethineb sydd yn disgleirio yn ei holl weithredoedd yn

ffurfiad dyn, heb edrych ar y byd hwn fel maethle ar gyfer y nesaf? a chredu fod yr amrywiol genhedlaethau o greaduriaid rhesymol sydd yn codi i fynu ac yn colli o'r golwg, mewn dilyniad cyflym i barhau, i dderbyn egwyddorion cyntaf eu bodolaeth yma, ac wedi hyny i gael eu symud i hinsawdd mwy cyfeillgar, lle y gallant ymagor a blodeuo i dragwyddoldeb.

Nid oes, yn fy marn i, yr un ystyriaeth mwy dymunol na hyn mewn crefydd, sef am y gwellhad gwastadol a all yr enaid ei wneuthur yn yr ymestyniad at berfffeithrwydd ei natur, heb byth gyrhaedd ei derfyn. Y mae yn edrych ar yr enaid yn myned rhagddo o nerth i nerth, ystyried ei fod yn disgleirio byth mewn graddau adnewyddol o ogoniant, ac yn ymlewyrchu i dragwyddoldeb; y bydd yn ychwanegu rhinwedd at rinwedd, a gwybodaeth at wybodaeth, yn dwyn gydag ef rywbeth tra chydunol a'r ymgais sydd yn naturiol yn meddwl dyn. Ie, rhaid ei fod yn beth dymunol i olwg Duw ei hun weled y greadigaeth yn ymbrydferthu yn ei olwg yn barhaus, ac yn tynu yn nes ato ei hun mewn graddau mwy o debygrwydd iddo.

"Mi a debygwn fod yr ystyriaeth hwn am ymestyniad yspryd meidrol at berfffeithrwydd yn ddigonol i atal pob cenfigen mewn natur is, a phob dirmyg mewn natur uwch. Y mae y cerub hwnw sydd yn awr yn ymddangos fel duw wrth enaid dyn, yn gwybod yn burion y daw adeg o amgylch yn nhragwyddoldeb, pan y bydd yr enaid dynol mor berffaith ag ydyw ef yn awr: ie, pan yr edrycha i lawr ar y graddau hwnw o berfffeithrwydd yn gymaint ag y mae yn awr yn fyr o hono. Y mae yn wir, pa fwyaf y parhao natur i ymddyrrch-afu, a thrwy y moddion hwnw i gadw ei ragoriaeth a'i urddas yn ngraddfesurfa bodolaeth; ond y mae efe yn gwybod, mai po uwchaf y byddo y sefyllfa y saif ynddi yn awr, y bydd i'r natur is esgyn ato, ac ymddisgleirio yn yr un gradd o ogoniant.

"Gyda'r fath syndod a mawrhad y gallwn edrych i'n heneidiau ein hunain, lle y mae y fath drysorau cuddiedig o rinwedd a gwybodaeth, gyda ffynhonau anhysbyddadwy o berfffeithrwydd? Ni wyddom eto beth a fyddwn, ac ni ddaw i galon dyn byth ddirnad y gogoniant a fydd yn wastadol yn nghadw iddo. Y mae yr enaid o'i ystyried yn ei berthynas a'i Greawdwr, fel un o'r llinellau hyny yn nghelfyddyd rhif a mesur, a all nesau at linell arall am byth, ond eto heb ei

chyffwrdd; ac a oes unrhyw feddwl mor hyfryd, a'r ystyr-iaeth o honom ein hunain yn nesau yn barhaus at yr Hwn sydd, nid yn unig yn safon perffeithrwydd, ond dedwyddwch hefyd!"*

DOSPARTH V.—AR Y CYLCH DIDERFYN O OLYGIAD SYDD YN YMAGOR I'R GALLUOEDD DYNOL TRWY EITHAFOEDD EANGDER A PHARHAD.

Y mae y cylch annherfynol o olygiad sydd yn agored i'r dychymyg dynol trwy anfeidroedd cangder a pharhad, a'r wybodaeth yr ydym yn alluog i'w chyrhaedd mewn perthynas i ardaloedd pellenig y bydysawd, yn brawf tebygol, a thystiolaeth gadarn am dragwyddol dynged dyn.

Pe buasai y bydysawd yn gynwysedig yn unig o'r belen ar yr hon y preswyliwn ni, gyda'i pherthynasau, a phe na buasai yr eithafoedd sydd yn ei chylchynu yn ddim amgen na gwagder annherfynol, ni buasai yn ymddangos yn gymaint syndod i fodolaeth dyn derfynu yn y bedd. Gwedi ymdaith ar wyneb y belen ddaearol am bedwar ugain neu gan mlynedd, ac arolygu holl amrywiaeth ei gwyneb, wedi profi llawer o'r drygau naturiol a moesol cyssylltiedig a'i ffurfiad presenol, a phrofi fod "pob peth yn wagedd a gorhrymder yspryd," ac nad oedd yr un golygiad uwch, na chylch pellach i ymarferiad ei alluoedd i ymgynnyg i'w sylw, byddai yn barod i waeddi gyda Job, "Ffleiddiais einioes, ni fynwn fyw byth; paid â mi, canys oferedd yw fy nyddiau: dewisai fy enaid ymdagu âg angau yn hytrach na bywyd." Rhedeg drachefn dros yr un cylch o bleserau diles, a syllu yn wastadol ar yr un wrthrychau, o'r naill ganrif i'r llall, heb obaith mwynhad dyfodol, ni fforddiai yr un boddhad cyfartal â dynuniadau a galluoedd dyn. Pylai ei alluoedd, dinystrai ei ymadferth, attaliai yn barhaus ei ymestyniad at berffeithrwydd, ac ymwibiai yn ofer yn nghanol y gwagle mawr mewn ymofyniad am wrthrychau i gyffroi ei fywiogrwydd.

Ond, tu hwnt i derfynau yr olygfa ddaearol hon, y mae "golygfa eang a diderfyn yn gorwedd o'n blaen;" ac y mae

* *Spectator*, vol. ii.

goleuni cynhyddol gwyddoriaeth ddiweddar wedi ein galluogi i deithio i ardaloedd pellenig, ac i ddirnad graddau am rai o'u gwrthrychau goruchel ac ardderchog. O fewn terfynau cyf-undrefn yr haul, o'r hon y mae ein daear ni yn ffurfio rhan, darganfyddwyd naw-ar-hugain o blanedau, sydd yn cynwys crynswm o ddefnydd rhagor na dwy fil a phum cant o weithiau yn fwy na'r ddaear, heblaw y gwibser lluosog sydd yn teithio ardaloedd y planedau yn mhob ffordd, a phellder dir-fawr yr *Haul*, sydd fel bydysawd ynddo ei hun, ag sydd bum cant o weithiau yn fwy na'r ddaear a'r holl blanedau a'r ser gwibiog yn nghyd. Y mae y cyrph hyn yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn eu maintioli, eu pellder, a'u hysgog-iadau, ac yn y golygfeydd sydd yn amrywio eu harwyneb, a rhai o honynt yn cael eu cylchynu â'r gwrthrychau mwyaf ysblenydd a gogoneddus. Ymddangosant fel wedi eu dod-refnu â phob peth gofynol er cyfleusdra preswyliad bodau deallgar—yn alluog i gynwys poblogaeth fyddo lawer mil o weithiau yn fwy na'n daear ni, ac ydynt yn ddiau yn cael eu cyfaneddu gan afrifed o greaduriaid rhesymol. O fewn terfynau y gyfundrefn hon, caiff enaid dyn ddigon o le i lawn ymarferiad a'i holl alluoedd, ei gynheddfau, a'i fywiogrwydd, am ystod dilyniad cyfres o oesau.

Nid yw ein golygiadau am y bydysawd, pa fodd bynag, wedi eu cyfyngu i'r gyfundrefn, â'r hon y mae a wnelom ni yn benaf. Bernir, ar sail gadarn, fod pob seren sydd yn disgleirio yn ffurfafen y nef, yn *haul*, ac yn ganolbwyt i ryw gysawd fawreddog, debyg i'r eiddom ein hunain, ac efallai, yn cael eu cylchynu gan fydoedd eangach a disgleiriach na'r un o'r planedau y gallwn ni eu hardremio. Y mae yn agos i fil o'r cysawdau hyn yn amlwg i bob sylwedydd pan y cyfyd ei lygad ar noswaith glir y gauaf at eangder y nen. Tu draw i'r oll ag sydd yn weledig i lygad noeth y mae drych-beiriant cyffredin yn ein cynorthwyo i ganfod amryw filoedd yn ychwaneg. Gyda syll-wydr yn mwyhau yn gryfach, gellir canfod deng mil yn rhagor, sydd yn gorwedd yn wasgaredig mewn pellder anfesurol oddiwrth y rhai blaenaf. Gyda'r offerynau goreu ag y mae celfyddyd wedi ei ffurfio yn barod, canfyddwyd llawer o filiynau yn ngwahanol barthau y ffurfafen—heb adael un lle i amheuaeth nad oes canoedd o filiynau yn ychwaneg, y rhai na chenfydd llygad dyn byth mo honynt yn ei sefyllfa bresenol, yn wasgaredig trwy Iwybrau annher-

fynol creadigaeth. -Felly, ni ymddengys fod terfynau i olygfa Gallu Creadigol, nac i'r ymerodraeth eang dros yr hon y mae llywodraeth foesol yr Hollalluog yn cyrhaedd. Yn nghanol yr olygfa ddiderfyn hon o Ddoethineb a Hollalluogrwydd, y mae yn amlwg y gall yr enaid ymchwilio mewn llawn ymarferiad o'i holl alluoedd, dros oesau mor lluosog a dyferion y môr, heb byth daro wrth derfyn i atal ei ymdeithiau.

Yn awr, dylid sylwi yn ofalus, yn y lle cyntaf, fod Duw wedi cynsgaeddu meddwl dyn â'r galluoedd hyny, trwy y rhai y mae ef wedi ei wneud yn alluog i fesur maintioli y ddaear, a phellder y planedau, a gwneud yr holl ddarganfyddiadau eraill yr wyf yn awr yn cyfeirio atynt. Y mae ef wedi arwain y meddwl dynol, yn ffordd ei ragluniaeth, i ddi-lyniad o fyfyrion, ag sydd wedi parotoi y ffordd i'r dyfeisiadau hyny, trwy y rhai y mae mawredd ac eangder ei weithrediadau yn ardaloedd pellenig yr eithafedd mawr, wedi eu harddangos o flaen ein golwg. Ymddengys gan hyny, mai ei *ewyllys a'i furriad* ydoedd, ar fod gogoniant ei ymherodraeth yn mhelladerau y greadigaeth, mewn mesur, i gael ei ddadlenu i drigolion ein byd.

Yn mhellach, pan y byddo yr enaid unwaith wedi cael tremiad ar orfawredd ac eithafoedd creadigaeth, y mae yn teimlo yr *awydd cryfaf*, am gael symud y llen sydd yn awr yn gor-chuddio rhyngom ni a gororau pellaf y greadigaeth, ac i fyfyrion, mewn llai o bellder, ogoniant y bydoedd, y rhai y mae eu hauliau yn ymddangos i ni yn serenu o bell. Y mae mil o dybiau ac ymofyniadau yn ymgynyg i'r meddwl mewn perthynas i'r cysawdau a'r bydoedd sydd yn wasgaredig drwy yr eangder mawr. A ydyw yr holl belenau mawrion hyn wedi eu poblogi a phreswylwyr? a ydynt wedi eu cysylltu yn nghyd dan lywodraeth Duw, fel gwahanol ranau o untrefniant moesol? A ydyw eu preswylwyr yn greaduriaid deallgar pur, neu a ydynt yn agored i ymosodiad drygau naturiol a moesol? Pa fath raddau o uchder a dealltwriaeth sydd yn eu plith? Pa ohebiaeth a ddaliant â pharthau eraill yr ymerodraeth Ddwymfol? Pa ddarganfyddiadau a wnaethant hwy am berfieithaderau y Duwdod, ac am gynllun ei lywodraeth, ac am eangder ei deyrnas? Gyda pha fath gyrph y maent hwy yn gallu ymwneud â'r byd defnyddiol? Gyda pha fath erwig o ddirnadaeth, a pha fath alluoedd o ddeall y maent wedi eu cynsgaeddu? Pa alluoedd ac erwig gwahanol i'r eiddo dyn

sydd ganddynt, ac wrth ba ddeddfau y mae eu cyn-deithas-garwch yn cael ei reoli? A ydyw haelfrydedd a chariad yn wastadol yn disgleirio yn eu gwedd, ac a ydyw gor-lawenydd yn wastadol yn cynhesu eu calon? Pa alluoedd sydd ganddynt er cyflym ysgogiad? A ydynt wedi eu cyfyngu o fewn terfynau yr un byd, fel yr eiddom ni, neu a allant hwy ehedeg o'r naill fydd i'r llall ar adenydd seraph? Pa dir-ddarluniau pryd-ferth sydd yn addurno eu preswylfeydd? Pa ogonian nefol sydd yn cael ei ddal ger eu bron yn destynau eu myfyrdod yn wybren y nef? Pa arddangosiadau gweledig o bresenoldeb a gweithrediad y Creawdwr sydd yn cael ei ddatguddio iddynt? Trwy ba fodion y maent yn cael eu dwyn yn mlaen yn eu hymestyniad at berfeithrwydd deallo a moesol? Pa wyddoriaethau y maent yn eu dysgu—pa wrthrychau sydd yn dwyn eu prif sylw—yn mha ffurfliau arddwysaidd ac aruchel o addoliad y maent yn ymuno? Pa gyfnewidiadau neu chwyldroadau a gymerodd le yn eu plith? Pa orchwylion y mae eu haneson yn eu cofnodi? Pa olygfeydd o ogonian neu ddychryn sydd wedi eu dangos tuag at unrhyw gysawd neu dalaeth neillduol yn yr ymerodraeth eang? A ydyw pechod, afiechyd, a marwolaeth yn gwbl ddirlethr iddynt, ac a ydyw eu trigolion yn ymhyfrydu yn dragwyddol yn ardaloedd anfarwoldeb? Pa wybodaeth sydd ganddynt am gymeriad a chyflwr preswylwyr ein daear ni, ac am y gyfundrefn y mae hi yn rhan o honi? Pa *amrywiaeth* o fodau synhwyrgar a deallgar sydd i'w canfod yn ngwahanol gysawdau y byd mawr? Pa *wahaniaeth* golygfeydd allanol, uwchlaw dim a welodd llygad dyn, neu a all ei ddychymyg ddirnad, sydd yn cael eu harddangos trwy y bydoedd lluosog sydd yn cyfansoddi yr ymerodraeth fawr? Pa gysawdau sydd, a pha olygfeydd o allu creadigol sydd yn cael eu dangos yn yr ardal annherfynol sydd yn gorwedd tu draw i derfynau tremiad dyn? Tua pha adeg mewn parhad y daeth adeilad ardderchog y greadigaeth i fod cyntaf? Pa ddilyniant o grëdigaethau a gymerodd le er pan y daeth y byd defnyddiol gyntaf o law y Creawdwr Hollalluog? Pa fydoedd a bodau newyddion sydd yn dyfod i fod yn barhaus yn y gwagle mawr? A ydyw yr adeilad greuedig gadarn hon i barhau byth—ac i dderbyn ychwanegiadau newydd yn barhaus at ei phoblogaeth a'i gogonian, tra y byddo tragwyddoldeb yn treiglo yn mlaen? I'a beth ydyw y dyben penaf a gwblheir yn y cynulliad anfeidrol o fodau defnyddiol a deallgar, ac ai nid yw dyn byth

i gael gweled y golygfeydd hyn wedi eu dadlennu ychydig yn eglurach?

Gellid lluosogi ymofyniadau fel hyn yn ddiddiwedd, i'r rhai na ellir cael atebion boddhaol, tra y byddom yn ein sefyllfa bresenol. Y mae enaid dyn yn cael ei lanw â syndod a rhyfeddod, nes o'r braidd ei golli ei hun yn yr olygfa anfeidrol sydd yn cael ei harddangos o'i flaen,—ac y mae yn canfod ar unwaith, mewn trefn i gyrhaedd gwybodaeth gyflawn am gymeriad a phriodoleddau y Duwdod—i dreiddio i ddyfn-derau ei gynlluniau a'i weithrediadau—ac i fyfyrion ar lawn ogoniant ei ymerodraeth,—y byddai yn ofynol cael oesau o rifedi ser y nef; ac os nad oes yr un fodolaeth ddyfodol yn ei aros tu draw i'r bedd, fod ei ddymuniadau gwresog am wellhad a dedwyddwch cynhyddol, a'i obaith am ddyfod yn fwy adnabyddus o'r byd a'i Awdwr, i derfynu mewn bythol siomedigaeth.

Yn mhellach, y mae meddwl dyn, nid yn unig wedi ei gyffro â dymuniadau gwresog am amlygiad mwy cyflawn o ryfeddodau yr olygfa ddiderfyn hon, ond y mae hefyd wedi ei gynsgaedu â galluoedd er cyrhaedd cylch diderfyn o wybodaeth mewn perthynas i ardaloedd pellenig y byd, a phriodoliaethau ei Awdwr. Y rhai sydd wedi cymeryd yr ymdeithiau éangaf trwy faesydd gwyddoriaeth, ydynt yn canfod yn barhaus eu bod yn alluog i dderbyn gwybodaeth ychwanegol at yr hyn a gyrhaeddasant yn barod, ar bob testyn, ac i barhau eu hymofyniadau tu draw i gylch y gyfundrefn weledig, a thybied fod y moddion er ymchwiliad o fewn eu cyrhaedd. Pe byddai i enaid dyn gael ei drosglwyddo i fyd pellenig, er engrafft, i'r blaned *Sadurn*—pe caniateid iddo fyfyrion wrth ei bleser ar symudiadau rhyfeddol ei fodrwyau, ac amrywiol arddangosiadau naturiaethol ei leuadau; yr amrywiaeth o dir-ddarlluniau sydd yn addurno ei wyneb, a'r golygfeydd nefol a arddengys ei ffurfafen—pe byddai iddo ymgydubyddu a'i drigolion, dysgu y cyfreithiau wrth ba rai y mae ei drefn gymdeithasol yn cael ei rheoli, a'r gwyddoriaethau y maent yn eu dysgu, yr addoliad yn mha un y maent yn ymuno, a'r prif weithrediadau a'r dygwyddiadau ag y mae eu hanesion yn eu cofnodi,—ni chanfyddai fwy o anhawsder wrth gyrrhaedd a thrysori yn nghyd y fath hysbysiaeth, nac a wna yn awr wrth wrando hanes gan ymdeithydd, a gwybodaeth am arferion a defodau unrhyw lwyth anadnabyddus o ddynolryw, ac am natur y

terfynau daearyddol a feddianont. Pe byddai i genhadau angylaidd gael eu hanfon o fil o fydoedd, ar amserau dilynol, i'n byd ni, i ddarlunio golygfeydd naturiol a moesol, ac i draethu am y dilyniad o oruchwyliaethau priodol i bob byd —byddai lle digonol yn meddwl dyn i drysori yr holl hysbysiaeth, er maint y trysorau gwyddoriaethol a fyddai wedi eu crynhoi yn nghyd eisoes. Ni byddai i'r fath hysbysiaeth ddifodi dim o'r wybodaeth oedd genym yn flaenorol, nac atal ein mynediad rhagom yn ein hymchwiliadau parhaus. Ond yn y gwrthwyneb; éangai alluoedd y meddwl, bywiocâi y cyneheddfau, ac ychwanegai gyffroadau newyddion yn y gallu-oedd er ymroad. Ar sail y fath hysbysiaeth, gallai yr enaid olrhain golygiadau newyddion, ac arddangosiadau dieithr o Ddwylfol ddoethineb, dealtwriaeth, ac uniondeb, a chyrhaedd syniadau éangach am gymeriad Duw—yn union fel y gwneir, ar yr un pryd, oddiwrth fyfyriaeth ar y gwrthrychau, a'r goruchwyliaethau hyny sydd o fewn ein cyrhaedd. Ni ellir gosod terfyn i'r fath ymchwiliadau a chynydd deallol, os ydyw yr enaid wedi ei fwriadu i oroesi datodiad ei osail farwol. Nid oes eisieu dim ond ei osod mewn sefyllfa lle y caniateir i'w alluoedd ymeangu yn briodol, a'r man y byddo y rhwystrau naturiol a moesol sydd yn atal eu hymarferiad wedi eu cwbl symud ymaith.

Gellid sylwi yn mhellach, ar sail yr hyn a ddywedwyd, nad yw yr holl wybodaeth a ellir ei gyrhaedd yn y sefyllfa bresenol ond megis diferyn o'r môr, mewn cydmariaeth a'r "trysorau gwybodaeth a doethineb" a ellir eu cyrhaedd yn y byd tragicyddol. Gellid cydmaru cydraddoldeb y naill ar gyfer y llall, fel maintioli y ddaear ar gyfer yr holl fydoedd a'r cysawdau aneirif sydd yn cyfansoddi y bydysawd. Y mae dybenion, gwrthrychau, a golygfeydd mewn *amrywiaeth didderfyn* yn nhalaeth pellenig creadigaeth, fel y mae genym le i gredu, oddiwrth yr amrywiaeth sydd yn ein cysawd ddaearol ni, os ydyw pob byd yn cael ei boblogi gan wahanol rywiau, yn gwahaniaethu yn eu cyfansoddiad naturiol a'u golygiad allanol, os ydyw goruchwyliaethau y Creawdwr tuag at y preswylwyr y fath ag na amlygwyd i unrhyw fydd arall, os ydyw 'mawr amryw ddoethineb Duw' yn nhrefniad eu bywyd yn cael ei amlygu mewn ffordd nas amlygwyd i unrhyw ddos-parth o greaduriaid deallgar—ac mewn gair, os ydyw pob talaeth o'r greadigaeth yn amlygu *datguddiad neillduol* o'r

Duwod,—gallem benderfynu nad yw yr holl wybodaeth am Dduw, ei weithredoedd, a'i oruchwyliaethau, a ellir ei gyrrhaedd yn y bywyd hwn, ond megis llewyrch egwan canwyll mewn cydmariaeth â disgleirdeb goleuni yr haul ganol dydd. Y rhai sydd wedi gwneud yr ymchwiliadau éangaf a dyfnaf i ryfeddodau natur, ydyw y rhai sydd wedi eu hargyhoeddi fwyaf o'u hanwybodaeth eu hunain, ac am y maesydd diderfyn o wybodaeth sydd yn aros eto heb eu holrhain. Yr oedd Syr Isaac Newton wedi defnyddio y rhan fwyaf o'i oes yn rhai o'r ymchwiliadau ardderchocaf a all ddwyn sylw meddwl dyn, ac eto efe a ddywedodd ychydig cyn ei farwolaeth, "Nis gwn i pa beth a allaf ymddangos i'r byd, ond i mi fy hun yr wyf yn ymddangos fel bachgenyn yn chwareu ar lân y môr, ac yn difyr u fy hun, yn awr ac eilwaith, wrth ganfod ambell bledren neu gragen dlysach nac eraill, tra y mae eigion mawr gwirionedd yn gorwedd heb ei ddatguddio o'm blaen. Ac a ydyw yn rhesymol barnu, wedi cael cip-olwg ar drysorau diderfyn Dwysol wyddoriaeth i lewyrchu ar ei feddwl, nad ydyw ond i dreulio ychydig fisoeedd neu flynyddoedd mewn dymuniad a gohiriad pryderus, ac yna i gael ei ddiffodd am byth?

Gellid sylwi yn mhellach, mewn cysylltiad a'r sylwadau blaenorol—*fod yn rhaid fod creadigaeth y fath fydysawd éang wedi ei fwriadu yn benaf er arddangos priodoliaethau y Duwdod, ac er rhoddi boddhad a dedwyddwch i'r creaduriaid deallol a ffurfiodd.* Nid yw y Creawdwr yn sefyll mewn angen am gynulliad dirifedi o fydoedd, a graddau is o greaduriaid deallgar, mewn trefn i sicrhau neu ychwanegu ei ddedwyddwch. Yr oedd efe yn hanfodi *ei hunan* dros afrifed o oesau cyn creu y byd, ac yn anfeidrol wynfydedig mewn myfyriaeth ar ei dragwyddol ragoriaethau ei hun. Nid oes yr un rheswm arall, gan hyny, a ellir ei ddwyn yn mlaen am ffurfiad y byd, ond er boddhau ei greaduriaid rhesymol, ac fel y rhoddai arddangosiad o ogont anfeidrol ei natur i raddau diderfyn o greaduriaid deallgar. Ni all deng mil ddeng mil o weithiau o hauliau, gyda'u perthynasau ysblenydd o blanedau, gwibser, lleuadau a modrwyau, roddi yr un olygfa o newydd-deb er éangu na boddhau y Meddwl Tragwyddol, gan eu bod wedi hanfodi yn nghynlluniau a golygiadau y Duwdod, drwy yr oesau anngyfrifol oedd wedi myned heibio er tragwyddoldeb. Ac ni ffurfiodd efe y gweithredoedd hyn er gwellhad na hysbysiaeth *yr un bód*. Rhaid ynte fod adeiladaeth ardderchog y

hydysawd, gyda'u holl fwynhad naturiol a deallol, wedi eu bwriadu yn benaf er addysg a chyfleusdra bodau deallgar is, ac i fod yn wasanaethgar fel esgynlawr, ar yr hwn y byddai i alluoedd Dwyfol nerth a doethineb, a ffrydaiu Dwyfol hael-frydedd gael eu harddangos. Ac a allwn ni dybied fod y byd defnyddiol yn parhau, a'r meddyliau deallgar er mwyn pa rai y cafodd ei adeiladu, yn cael eu goddef i suddo i ddiddymiant?

Eto, *ni ellir addef, yn gyson a phriodoliaethau Duw, y bydd iddo gwbl siomi dymuniadau a gobeithion rhesymol yr enaid dynol, y rhai a blanodd ac a feithrinodd ef ei hun.* Os nad oes ganddo fwriad pellach o foddhau creaduriaid rhesymol, gydâg arddangosiad helaethach o anfeidroedd a gorfawredd ei weithredoedd, nid yw yn ymddangos yn debyg y goddefasai iddynt wneud y darganfyddiadau hyny sydd wedi eu dwyn i oleuni yn barod mewn perthynas i eangder a gogoniant ei ymerodraeth. Ni allesid gwneud y darganfyddiadau hyny heb ei oddefiad a'i gyfarwyddyd, neu heb y galluoedd a'r moddion hyny a ddarparodd efe ei hun. Gan hyny, wrth oddef i drigolion ein byd ni gael cip-olwg o bell ar olygfa ddiderfyn ei weithredoedd, rhaid ei fod wedi bwriadu cyffroi y dymuniadau gwresog hyny, y rhai a foddheir mewn byd dyfodol, fel dechreuad o'r dilyniad hyny o fyfyrddau a ddygir yn mlaen gyda brwd frydedd cynhyddol trwy dragwyddoldeb, hyd nes y byddom yn alluog i ganfod a chynhwys trefniadau a dyfeisiau, dybenion éang, a gwyrthiau Gallu a Doethineb, y rhai a arddangosir trwy bob part o'r gyfundrefn gyffredinol. Byddai tybied y gwnai y Creawdwr ddadlenu golygfa anghyflawn ac anmherffaith o ryfeddodau creadigaeth, a chyneu *hiraeth a dymuniad rhesymol* yn unig i'r dyben o *siomi a phoenyddio ein dysgwyliadau*, yn arddangos cymeriad moesol y Duwdod yn israddol i'r creadur marwol mwyaf halogedig. Byddai yn ddadl dros fath o *dwyll, cenfigen, a malais*, sydd yn hollol wrthwnebol i gymeriad Bôd anfeidrol ei haelfrydedd. Fel mai ei ddaioni oedd y brif egwyddor a'i cymhellodd i'n dwyn i fodolaeth, rhaid i ni ystyried ei ymddygiad yn anfeidrol bell oddiwrth bob peth ag sydd yn ymylu ar genfigen, malais, neu ddymuniad i boenyddio a *siomi gobeithion rhesymol* ei greaduriaid. Y mae ei gymeriad cyffredinol, fel y mae wedi ei amlygu yn ei weithredoedd, yn ein harwain i benderfynu, yn lle bod yn dueddol i boenyddio creaduriaid rhesymol a ffurfiodd, ei fod yn alluog ac ewyllsgar i wneud iddynt ac erddynt, 'y tu hwnt i bob peth yr

ydym ni yn eu dymuno, neu yn eu meddwl.' Pe buasai wedi bwriadau cyfyngu ein dymuniadau i fwynhad synhwyrgar yn y bywyd presenol, ni buasai ar breswylfod dyn angen dim yn ychwaneg o drefniad ac addurniad, nac sydd yn angenrheidiol i ffau y llew, neu loches y dywalgi, ac heb ddini amlygiad pellach o ardderchogrwydd ei ymerodraeth gael ei ddadlenu i'n golwg.

Felly, gan yr ymddengys fod y byd mawr wedi ei gyfoethogi â chysawdau dirifedi, éang ac anfesurol yn eu mawredd—gan fod Duw wedi cynsgaedd meddwl dyn â galluoedd drwy ba rai y mae efe wedi olrhain rhan o'r ardaloedd pellenig—gan fod yr enaid yn teimlo awydd gwresog i gael dadleniad llawnach o'i ardderchogrwydd a'i fawredd—gan ei fod wedi ei ddonio â galluoedd i dderbyn cynydd diderifyn mewn gwybodaeth ar y testyn hwn—gan nad yw yr holl wybodaeth a all ei gyrhaedd yn ei sefyllfa bresenol am weithrediadau a llywodraeth Duw ond megis dim, mewn cydmariaeth a'r golgyiadau a all y bythol-fyd eu hegluro—gan fod y bydysawd i'i ogoniant defnyddiol wedi eu bwriadu yn benaf er boddhau meddyliau deallgar—a chan ei fod yn eglur yn anghyson â chymeriad moesol y Duwdod i feithrin dymuniadau a disgwyl-iadau, y rhai a ddyrysa ac a sioma efe yn y diwedd,—ymddengys y canlyniad yn anocheladwy, *fod dyn wedi ei ragdrefnu i fodolaeth anfarwol*. Yn ystod parhad y cyflwr hwnw daw ei alluoedd i'w llawn éangder, a bydd digon o le i'w harfer ar fyrrd o wrthrychau a dygwyddiadau sydd yn awr wedi eu cysgodi â thywyllwch a dirgelwch. Bydd yn alluog i dreiddio yn fwy cyflawn i gynlluniau a gweithrediadau y Duwdod—i ganfod golygiadau newyddion am y Meddwl Tragwyddol, a dadblygion newydd o anfeidrol Ddoethineb a Bwriad, amlygiadau newydd o Hollalluogrwydd, Daioni, a Dealltwriaeth, —ac i gyrhaedd golygiad manylach ac éangach am briodoliaethau y Duwdod, ac am gysylltiadau, perthynasau, a dibyniad gwrthrychau yn y gyfundrefn naturiol a moesol éang hono, dros ba un y mae ei lywodraeth yn ymestyn.

DOSPARTH VI.—AR ALLUOEDD MOESOL DYN.

Y mae y galluoedd moesol ag y mae dyn wedi ei gynysgaeddu â hwy, yn brawf tebygol cryf o'i anfarwol dynged.

Y mae dyn wedi ei ffurfio at *weithrediad* yn gystal ag at fyfyrnod. I'r dyben hwn, y mae galluoedd, egwyddorion, greddfau, teimladau, a serchiadau, wedi eu cyd-blethu â'i gyfansoddiad; y rhai sydd yn gynorthwyol i'w gynydd mewn rhinwedd, ac yn ei gymhell i gefnogi dedwyddwech eraill. Y mae y galluoedd a'r egwyddorion gweithgar hyn, fel y deall, yn alluog o wellhad dirfawr drwy sylw ac ymarferiad, trwy brofion ac anhawsderau, a thrwy helaethiad ar ei olygiadau deallo. Y cyfryw ydynt y serchiadau mabol a brawdol; rhinwedd, cymhedrolder, uniondeb, haelfrydedd, cariad at gyfeillion a gwlaid, dyngarwch a haelfrydedd cyffredinol. Er mor llygredig y mae ein byd wedi bod, y mae llawer o engreifftiau tarawiadol o'r rhinweddau hyn wedi cael eu dangos mewn oesau cyntefig a diweddar, sydd yn amlygu nerth, éangder, ac arucheledd galluoedd moesol dyn.

Pan y gwelwn ddynion yn cael eu cymhell gan syniadau ardderchog, ac yn dangos rhinweddau uchel, ac yn cyflawni gweithredoedd rhagorol—yn dangos caredigrwydd a haelioni mewn amgylchiad o gyfyngder, a thawelwch a hyder yn nghanol anhawsderau a pheryglon—yn dymuno cyfoeth yn unig er mwyn ei gyfranu—yn parchu lleoedd o awdurdod ac anrhydedd yn unig er mwyn rhoddi drygau i lawr, gwobrwyd rhinwedd, a chefnogi llwyddiant eu gwlaid—yn goddef tlodi a chyfyngder gyda gwroldeb ardderchog—yn dioddef niweidiau a sarhad gydag amynedd ac ymostyngiad—yn atal dygasedd pan y byddo díal ar eu llaw—yn dangos hynawsedd a charedigrwydd at elynion ac athrodwyr—yn gorchfygu nwydau a dymuniadau annheilwng yn nghanol y profedigaethau cryfaf—yn ymostwng i boen a dirmyg er mwyn cefnogi llwyddiant cyfeillion a pherthynasau,—ac yn aberthu llonyddwch, anrhydedd, cyfoeth, ie, a bywyd ei hun, er daioni eu gwlaid, neu er dyrchafu manteision dynolryw,—yr ydym yn canfod yn y fath siamplau agweddau y meddwl dynol, sydd yn dangos ei urddas a'i ragoroldeb, ac yn arwydd eglur o'i fod wedi ei drefnu ar gyfer uwch golygfa o weithrediad a mwynhad.

Hyd yn oed yn hanesion y byd Paganaidd, yr ydym yn canfod rhai siamplau o'r fath rhinweddau disglaer. Yr ydym yn darllen am *Regulus* yn dioddef y poenydiau creulonaf, hyd angau ei hun, yn hytrach nac i'w eirwired gael ei gyhuddo, neu i'w ffyddlondeb i'w wlad gael ei amheu—am *Phocion* yn dioddef cynddaredd y lluaws oedd wedi creuloni, drwy eu hargyhoeddi am eu drygau, ac ymdrechu i gefnogi daioni ei wladwyr, ac a roddodd, fel ei orchymyn diweddfaf i'w fab, pan yr oedd yn myned i gael ei ddienyddio, “ar fod iddo anghofio pa mor ddrwg yr oedd yr Atheniaid wedi ymddwyn at ei dad,”—am *Cyrus*, yr hwn oedd yn meddu amynedd, cymhedrollder, calonogrwydd, mawrfrydigrwydd, a syniadau ardderchog; ac a ddefnyddiodd yr oll i gefnogi dedwyddwch ei bobl,—am *Scipio*, yn ymddygiadau yr hwn yr oedd caredigrwydd a haelioni, daioni, boneddigeiddrwydd, uniondeb, mawrfrydedd, a diweirdeb yn disgleirio yn ysblenydd—ac am *Damon a Pythias*, oedd wedi eu cylmu yn nghyd yn rhwymau cyfeillgarwch, y rhai nad allasai dychrynfeidd angau dirmygus mo'u datod. Ond o holl nodweddau y byd paganaidd, hynod am eu rhinwedd, ymddengys *Aristides* yn sefyll yn y gradd uwchaf. Yr oedd mawredd anarferol ei enaid (medd Rollin) yn ei godi i orchfygu pob nwyd. Yr cedd lles, pleser, ymgais, digofaint ac eiddigedd ynddo ef fel pe buasent yn cael eu gwisgo â chariad at rinwedd ac at ei wlad. Yr oedd teilyngdod eraill yn lle bod yn dramgydd, iddo ef yn dyfod fel yr eiddo ei hun, drwy ei gymeradwyaeth o honyn. Dygodd ef lywodraeth yr Atheniaid yn ddymunol i'w gelynion, drwy addfwynder, daioni, dynoliaeth, a chyflawnder. Yr oedd yr egwyddor ddihunangais a ddangosodd yn nhrefniad y trysorau cyhoeddus, a'i gydymdeimlad a thlodi, yr hwn a gariodd bron i ormodedd, yn rhinweddau sydd uwchlaw dim a arferir yn ein hoes ni, fel y maent yn ymddangos o'r braidd yn anghredadwy. Yr oedd ei ymddygiad a'i egwyddorion yn wastadol yn gyson, ac yr oedd yn gadarn yn ei ymgais gyda'r hyn a dybiai yn gyflawn; ac ni allai gyflawni y twyll lleiaf, neu gysgod o weniaeth, neu ffugiaeth, hyd yn oed mewn cellwair. Yr oedd ganddo y fath lywodraeth ar ei dymherau, fel y byddai yn wastadol yn gwneud aberth o'i les personol i ddaioni y cyhoedd. *Themistocles* oedd un o'r prif weithredwyr yn ei ddeoliad o Athen;—ond wedi ei alw yn ol, yr oedd yn ei gynorthwyo yn wastadol gyda'i gyngor a'i ddy-

lanwad; ac yr oedd yn llawen wrth godi clod ei elyn bob amser, gyda'r dyben o gefnogi daioni y cyffredin. Ac wedi hynny, pan y rhoddes dirmyg Themistocles gyfle manteisiol iddo ddial arno, yn lle ad-dalu y drwg a dderbyniodd oddi-wrtho, gwrthodai uno a'i elynion; gan fod mor bell oddiwrth orfoleddu yn ngwymp ei elyn, ag y byddai bryd arall oddi-wrth ofidio yn ei lwyddiant. Y mae y fath rinweddau yn dangos urddas a mawredd yn mhob meddwl y preswyllont ynddo, yr hyn sydd yn ymddangos yn anghydwedol â'r drychfeddwel o'i fod i ymadael byth â phob gweithrediad ar awr angau.

Ond y siamplau enwocaf o uchel rinwedd yw y rhai a ganfyddir yn mysg y rhai a restrasant eu hunain gydag achos Cristionogaeth. Yr oedd yr apostol Paul yn siampl enwog o bob peth sydd yn ardderchog, gwrol, caredig, a haelfrydus yn ymddygiad dyn. Yr oedd ei enaid wedi ei ysprydoli â sêl santaidd er cefnogi prif ddaioni dynolryw. Er cyflawni y dyben hwn, ymadawodd â chyfeillion a pherthynasau, a'i wlad enedigol, ac â phob peth ydoedd yn anwyl ganddo fel Iuddew neu Rufeiniwr, ac a roddodd ei hun yn agored i erlidigaethau a pheryglon o bob desgrifiad. Yn ystod ei lafur yn ei fywyd ymdrechgar, yr oedd "mewn teithiau yn fynych, yn mherwyglon llif-ddyfroedd; yn mheryglon lladron; yn mheryglon gan ei genedl ei hun; yn mheryglon gan y cenhedloedd; yn inheryglon yn y ddinas; yn mheryglon yn yr anialwch; yn mheryglon ar y môr; yn mheryglon brodyr gau; mewn llafur a lluded; mewn anhunedd yn fynych; mewn newyn a syched; mewn ymprydiau yn fynych; mewn anwyd a noethni," eto, nid oedd yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid oedd werthfawr ganddo ei einioes ei hun, os gallai orphen ei yrfa, a bod yn offerynol i gwblhau dedwyddwch personol a thragwyddol ei gyd-ddynion. Yn mhob adeg o'r cyfnod Cristionogol y mae nodweddau cyffelyb wedi codi, i arddangos gallu i hinwedd i fendithio'r byd. Y mae ein hoes a'n gwlad ni ein hunain wedi dangos lluaws o gymeriadau dyngarol, y rhai sydd wedi disgleirio fel goleuadau yn y byd moesol, ac wedi ymddwyn fel ymgeleddwyr yr hil ddynol. Y mae enwau Alfred, Penn, Barnard, Raikes, Neilde, Clarkson, Sharpe, Buxton, Wilberforce, Venning, a llawer eraill, yn gynnefin i bawb sydd i ryw radd yn hysbys o hanesion haelfrydedd. Bydd i'r ymdrech-iadau a wnaeth rhai o honynyt yn achos rhyddid, addysgiad yr

ieuatingc, esmwythiad trallodion y tlawd, yn ngwellhad cyflwr y carcharor, ac yn ngwirthwynebiad masnach atgas y caethweision, gael eu teimlo fel bendithion wedi eu cynysgaeddu ar ddynolryw trwy genhedlaethau dilynol, ac yn ddiau a gedwir mewn tragedyddol goffadwriaeth.

Ond yn mhllith holl gymeriadau dyngarol yr oesa aeth heibio, neu yr un bresenol, y mae llafur y diweddar Mr. Howard yn sefyll yn uwchaf. Cysegrodd y dyn rhagorol hwnw, oddiar egwyddor o haelfrydedd pur, y rhan fwyaf o'i oes weithgar i leihau trueni dynion yn mhob gwlad lle y teithiodd,—suddodd i ddyfnder y daear-gelloedd, rhoes ei hun yn agored i heintiau awyr ysbytai a charcharau, i'r dyben o wellau cyflwr yr anffodiog, ac i esmwytho dioddefiadau y carcharor galarus. Wrth ymdaith yn ei lafurus gariad, teithiodd dair gwaith trwy Ffraig, pedair gwaith trwy Germany, pum gwaith trwy Holland, dwy waith trwy Italy, unwaith trwy Ysbaen a Phortugal, ac hefyd trwy Denmark, Sweden, Rwsia, Poland, a rhan o ymerodraeth Twrci, gan olrhain ffiauau trueni, a chyfranu bendithion i ddynolryw, pa le bynag y canfyddid hwy.

“O wlad i wlad hyd bellter eitha'r byd,
 Lle triga dyn a mawr drueni'n nghyd,
 Tros dywod poeth, y dòn, a'r eira'n glau.
 Yr aeddfwyn HOWARD chwiliau gelloedd gwae.
 I waredd ãi, hyd risiau'r annedd lom,
 Lle rhwyga och, lle rhyna'r gadwyn drom,
 I'r ogof dolfn, lle llygra'r esgyrn rhydd,
 A'r carchar trist, lle'r adsain galar prudd;
 Lle nid oes bolli, i gyfaill suo'n fwyn,
 Na phelydr haul, nac awel iach i'w dwyn.
 —Fe droedai ef, heb barchu'r byd a'i bwys,
 Trwy lafur blin, peryglai'i ieched dwys;
 Arweiniai ef Gyflawnder teg i lawr,
 Os nid 'r rhyddhau, i lacio'r gadwyn fawr,
 Rhoi'r baban bach yn ol i freichiau'i fam,
 Rhyddhai ei gwr, a roed yn gaeth ar gam.
 —Symuda'n mlaen! ffyngau gyda'i blaau.
 Grwgnaча dieifi, dan ganmol a'i gashau.”—DARWIN.

Y mae y fath gymeriadau yn dangos profion o rageroldeb rhinwedd, a bywiogrwydd y meddwl dynol, ac am ei alluoedd i gyfranu at ddedwyddwch ei gydgreaduriaid rhesymol, hyd derfynau diddiwedd. Y mae genym hefyd yn ein hamser ein hunain, ddospeirth o ddynion, y rhai a adawsant eu cyfeillion a

gwlad eu genedigaeth, ac a aethant “hyd derfynau eitha'r ddaear,” i hinsoddau pellenig y barbariaid, gan anturio i berylgon rhew Labrador a Greenland, i boethder seriau Affrica, ac i wyneb ymosodiadau y llwythau anwar, i'r dyben o gyhoeddi iachawdwriaeth Duw, ac i helaethu dedwyddwch dynion o bob iaith a phob hinsawdd. Y mae rhai o honynt wedi teimlo eu meddwl yn cael ei ysprydoli âg eiddigedd ardderchog dros haelfrydedd cyffredinol, ac nid oedd dim ond anhawsderau naturiol anorchfygadwy a'u hataliai rhag teithio dros y byd i gyfranu bendithion i'r holl genhedloedd, pobloedd, a thafodau.

A allwn ni, gan hyny, ddychymygu, y bydd i alluoedd fel y rhai y cyfeiriai atynt yn awr—galluoedd ac sydd yn cymhwysol eu meddianwyr i ordaenu dedwyddwch hyd derfynau anfesurol, i greaduriaid deallgar a fyddo yn eu cylchynu—gael eu diffoddi am byth âg ergyd angau? ac na bydd iddynt, wedi ychydig o ymeginiad yn yr olygfa frau bresenol, byth arfer eu galluoedd mwy? Ymddengys hyn yn y gradd uwchaf yn annhebygol, os ystyriwn,—1. Y terfynau cyfyng o weithrediad ag y mae y cyffredin o ddynolryw wedi eu caethiwo iddynt yn eu sefyllfa bresenol. Y mae y rhan fwyaf o ddynion wedi eu caethiwo at lafur, ac y mae eu holl sylw o'r bron yn cael ei gymeryd i fynu mewn darparu ar gyfer eu teuluoedd, ac mewn teimlad pryderus dros eu cynhaliaeth a'u llwyddiant yn y byd, fel nad ydynt yn gallu rhoddi eu galluoedd moesol ar waith tu allan i gylch preswylfod y teulu a'u cymydogaeth nesaf. 2. Y mae y tymhor, yn yr hwn y gellir arfer y galluoedd mwyaf gweithgar yn dra byr. Nid yw galluoedd moesol dyn yn dyfod i'w llawn weithrediad hyd ganol-ddydd bywyd, —ac y mae yn dygwydd yn fynych gydag amgylchiad cymeriadau tra haelfrydus, gydag y bydd eu cynlluniau dyngarol wedi eu parotoi, fod angau yn dyfod yn mlaen, ac yn rhoddi terfyn ar eu holl lafur a'u bwriadau. 3. Y mae llawer o rwystrau naturiol yn y sefyllfa bresenol i atal gweithrediad y galluoedd moesol, hyd yn oed yn y meddyliau mwyaf dyngarol, mwyaf haelfrydig. Y mae yr angen am gyfoeth a dylanwad —yr afiechyd a'r gwendid sydd yn nychu y corph—y rhwystrau a deflir ar y ffordd drwy falais a chenfigen, a threfniadau gwleidyddol teyrnasoedd —yr anhawsder i dreiddio i ardaloedd y glôb, lle y preswylia dynolryw—a llawer o rwystrau eraill—yn atal llawn ymarferiad yr egni moesol sydd mewn meddyliau hael a gwrol, ac yn cyfyngu eu gweithrediadau i derfynau

bychain iawn. Ond, a allwn ni byth dybied, yn gyson â Dwyfol ddoethineb a haelfrydedd, fod Duw wedi planu galluoedd trugarog gweithgar, y rhai nad ydynt byth i fod mewn llawn ymarferiad, a bod y cymeriadau duwiol hyny sydd wedi ymddangos yn achlysuol ar esgynlawr y byd, i gael eu cadw byth heb ymddangos ar faes llafur, i ymhelaethu yn nghyflawn weithrediad eu galluoedd moesol drwy eu hymdaith anfarwol? Ni byddai addef y fath dybiaeth yn ddim amgen nac amheu ei Ddoethineb a'i Wybodaeth. Gwaith Doethineb ydyw cyfaddasu *moddion* at *dâybennion*, a chymhwys o galluoedd pob bôd at yr amgylchiad yn yr hwn y byddo i weithredu. Ond yma yr ydym yn canfod trefniant o alluoedd na ellir byth eu dwyn i lawn weithrediad yn y sefyllfa bresenol; gan hyny, os ydyw angau i roddi terfyn gorphenol i fywiogrwydd dyn, y mae y galluoedd nerthol â pha rai y mae wedi ei ddonio, wedi eu cyfranu yn ofer—ac arweinia ni i feedwl am Dduw, fel yn ddifygiol o Ddoethineb a Deall yn ei lywodraeth ar y creaduriaid rhesymol a ffurfiodd.

Ymddengys hyn, efallai, yn eglurach eto, os edrychwn ar yr ystyriaethau canlynol. Yr ydym yn canfod drwy yr holl fyd, arwyddion o drefniant o haelfrydedd cyffredinol. Y mae hyn i'w weled yn eglur mewn perthynas i'n daear ni, yn nilyniad dydd a nos; yn nghyfansoddiad yr awyrgylch; yn y golygfeydd prydferth a goruchel a ddelir o flaen ein llygaid yn mhob gwlaid; yn ngweithrediadau goleuni a gwres; yn yr hylifau gwefryddol; yn nisgleirdeb yr haul, a gogoniant yr wybren nosawl; yn erwig corph dyn, a'r amrywiol synhwyrau â pha rai y mae efe wedi ei gynysgaeddu; yn nghyfansoddiad cyffredinol y dosparthau mwnyddol a hydyfol, a phob elfen sydd yn ein cylchynu, at angen dyn a bodau synhwyrgar eraill; ac yn y darpariad digonol o ymborth a dïod sydd yn cael eu dosparthu yn flynyddol i bob gradd o greaduriaid bywiol. Yr ydym yn canfod arwyddion o'r un haelfrydedd yn y trefniadau cysylltiedig â bydoedd erailli; yn nghylchdröad y planedau ar eu hechelau; yn nghynnulliad y modrwyau a'r lleuadau sydd yn eu cylchynu, ac yn yr amrywiol offerynau, wrth ba rai y mae goleuni a gwres yn cael eu gwasgaru mewn cyfartaledd priodol i'r amrywiol fydoedd sydd yn ffurfio cysawd yr haul. Ac mewn cysawdau eraill, yn ardaloedd pellenig yr eangder, yr ydym yn canfod ei fod yn un o ddybenion mawr y Creawdwr i wasgaru goleuni a disgleirdeb drwy holl ardaloedd ei

ymerodraeth éang, i'r dyben i ddadlenu ei weithredoedd gogoneiddus i olwg lluaws diderfyn o greaduriaid rhesymol. Eto, er fod y trefniad hwn o haelfrydedd yn cael ei arddangos yn adeiladaeth gelfyddgar y byd, nid ymddengys y gellir cyrhaedd cyflawn ddedwyddwych heb *offerynoldeb haelfrydus creaduriaid rhesymol*. Y mae genym brofion digonol o hyn yn y byd yr ydym ni yn byw ynddo. Obliged, er fod daioni y Creawdwr yn cael ei amlygu drwy ei holl barthau, eto, y mae y rhan fwyaf o ddynolryw mewn sefyllfa o drueni, mwy neu lai; nid o herwydd fod yr un diffyg yn y darpariadau Dwyfol, ond o herwydd hunanoldeb, uchelgais, a malais dynion. Gyda'r bendithion y mae y Nef yn eu darparu o flwyddyn i flwyddyn, gallai holl boblogaeth ein daear ni, a mil o filiynau yn ychwaneg, gael cynhaliaeth ddigonol, a dedwyddwch helaeth wedi ei weini iddynt, pe byddai *haelfrydedd* yn nod uchel a chyffredinol yn nghymeriad dynolryw. Hyd yn oed yn y lleoedd hyny, na byddo ond ychydig o ddynion effro a haelfrydus yn ymeginio dros ddaioni cyffredinol, y mae cyfnewidiad rhyfeddol yn cymeryd lle yn gyflym yn nghyflwr cymdeithas. Y mae afiechyd, a thrueni, ac eisieu, yn froi ymaith ar eu dyfodiad i'r golwg,— y mae y tlodion yn cael eu diwallu, y truenus ei gynorthwyo, y carcharor ei ryddhau, a'r amddifad ei ymgeleddu, a chalon y weddw yn cael ei gwneud i ganu o lawenydd.

Yn awr, y mae genym bob rheswm i gasglu, fod *gweithrediadau moesol* mewn ymarferiad yn holl ymerodraeth Duw—fod haelfrydedd yn dangos ei ragoriaethau yn mysg trigolion y bydoedd pellenig—mai trwy gyfrwng cyd-garedigrwydd a serch, y mae llawenydd gwresog yn llanw calonau creaduriaid deallgar nefol. Obliged, ni allwn ni ddeall fod dedwyddwch yn unrhyw ran o'r greadigaeth, neu yn mhlith unrhyw ddosparth o greaduriaid rhesymol, lle na byddo cariad at y Creawdwr, ac at y naill y llall yn deimlad uchel a pharhaus.

Gan hyny, y mae yn rhesymol barnu, na bu y cymeriadau rhinweddol a dyngarol hyny a ymddangosasant yn ein byd ni, ond megys dan addysgiad am dymhor byr, er eu parotoi i'w symud i sefyllfa uwch o weithrediad, a bod eu galluoedd moesol, y rhai na ellid eu dwyn i'w llawn ymarferiad yn y byd hwn, wedi eu bwriadu i'w cymhwys, er ymgymysgu â chreaduriaid dealgar uwch, ac i gydweithredu â hwy i ddwyn yn mlaen y trefniant eang o haelfrydedd, at yr hwn y mae holl ddarpariadau y Creawdwr yn tueddu yn amlwg.

Gellid gofyn, gan-hyny, pa un a ymddengys debycaf i fod yn fwyaf cyson â galluoedd moesol dyn, â doethineb a daioni Duw, ai bod i'r fath gymeriadau rhagorol a Penn, G. Sharpe, Clarkson, Venning, Howard, a'r apostol Paul, gael eu deol yn dragwyddol o'r greadigaeth, neu ynte fod iddynt ymeangu mewn sefyllfa uwch o weithrediad a mwynhad, mewn man ag y caffo eu holl ymeginiad haelfrydus ddigon o le, a'r man y caffo pob blagur o rinwedd ddigon o fantais i ymgynhyddu? Os oes Duw, ac os ydyw doethineb, haelfrydedd, ac uniondeb, yn ffurfio rhan hanfodol o'i gymeriad, ni allwn amheu am foment, nad ydyw y cyfryw bersonau eto mewn bodolaeth, ac yr adymddangosant ar esgynlawr o weithrediad mwy ysblenydd yn ngolgygfeydd dyfodol tragicwyddoldeb.

Mi a derfynaf fy egluriadau ar yr ymresymiadau blaenorol, gyda'r dyfyniad canlynol o eiddo ysgrifenydd cywir ac enwog:

"Wrth olrhain natur a thynged unrhyw fôd, yr ydym yn ffurfio y farn sicraf oddiwrth ei *alluoedd gweithgar*, a helaethder a *therfynau* y cyfryw, wrth eu cydmaru a'r *sefyllfa*, neu y maes ar yr hwn y byddont yn cael eu hymarfer. Os ydyw y bôd hwn yn myned trwy wahanol sefyllfaoedd, neu faesydd o weithrediad, ac i ni ganfod dilyniad o alluoedd cymhwys at wahanol dymhorau ei ymdrech, yr ydym yn cagslu ei fod wedi ei fwriadu at y sefyllfaoedd dilynol hyny, ac felly yn ystysied ei natur yn alluog o fyned ar *gynhydd*. Os canfyddwn ddosparth o alluoedd ynddo, cyfaddas at sefyllfa arall, yn ychwanegol at y galluoedd gofynol at ei sefyllfa bresenol, yna ymddangosant yn afreidiol pe byddai iddo gael ei gyfyngu i'r un presenol, ag sydd yn gyfeiriol at un arall, a hwnnw yn gyflwr uwch; yr ydym yn casglu yn naturiol nad ydyw wedi ei fwriadu i aros yn ei sefyllfa bresenol, ond i fyned rhagddo at yr hwn ag y mae y galluoedd ychwanegol hyny wedi ei gyfaddasu. Fel hyn yr ydym yn dadlu nad yw yr *abwydyn*, yr hwn y mae ganddo edyn yn cael eu ffurfio, neu wedi eu ffurfio, a'r holl offerynau angenrheidiol at ehedeg, wedi cael ei drefnu i ymlusgo yn wastadol ar y llawr, neu i barhau yn ei gyflwr marw-aidd, gan lynnwr wrth y mur; ond ei fod wedi ei fwriadu, yn ei amser, i gymeryd ei ehedfan yn yr awyr. Heb y dynged bellach hon, ni byddai peiriant cywrain adenydd, a phob offer arall ond anfuddiol ac ofer.

"Yr un fath ymresymiad a ellid ei gymhwys o ddyn, tra y mae yn byw ar fath o fywyd hydyfol yn y groth. Y mae yn

cael ei ddonio, hyd yn oed yno, âg offerynau prydferth o ermig, llygaid, clustiau, a synhwyrau cywrain eraill, y rhai sydd yn derbyn maeth, y mae yn wir, ond eto, sydd megys wedi eu goblygu i fynu, heb yr un ymarferiad neu ddefnydd priodol, yn ei gaethiwed presenol. Tybiwn fod rhyw edrychyddeallgar, yr hwn na bu yr un cysylltiad rhyngddo â dyn erioed, na'r adnabyddiaeth lleiaf o helyntion dynion, i weled yr arddangosiad naturiaethol hwn; creadur wedi ei ffurfio yn y fath drefn, a'i osod mewn sefyllfa yn ymddangos yn anmhriodol i'r fath beirianwaith amrywiog; oni byddai raid iddo ymddyrys uchwchben ffurfiad mor amrywiaethol, a barnu y cyfan yn was-traff ar gelyfyyddyd a gorchestwaith clodadwy, ac yn gwbl ofer; neu wrth resymu mewn ffordd o ragolygiad, fod creadur wedi ei gynysgaeddu a'r fath alluoedd amrywiaethol, ond diorchwyl, wedi ei fwriadu at gyflwr uwch o weithrediad, yn yr hwn y byddai i'r cyfryw alluoedd dirgelaidd gael llawn chwareu? Yr amrywiaeth lluosog, eto, prydferth, cydweddol a chyfartal, a'r gwahanol ranau ac ermig y byddo wedi ei addurno â hwy, a'r cysylltiadau priodol ag, a'r dibyniad ar yr offerynau sydd yn derbyn bywyd a maeth, a ataliai iddo byth benderfynu fod y cyfan wedi ei eni o ddamwain, neu lafur bongleraidd rhyw gelyfyyddwr anfedrus; neu o leiaf a wnaid iddo arafu cyn traddodi y fath ddedfryd ryfygus. Ond os, tra y byddo efe yn ei sefyllfa hon o ansicrwydd, y tybiwn iddo weled y plentyn wedi ychydig o ymeginiadau, yn taflu ymaith ei lyfeth-eiriau, ac yn tori allan yn rhydd o'i garchar bychan tywyll i oleu dydd, ac yna yn dechreu dadblygu ei alluoedd caethiwus yn llonydd, yn anadlu yn yr awyr, yn tremio ar y goleuni, ac yn ymddigrifio mewn lluwiau, seiniau, a holl *amrywiaeth teg* natur—y mae ei amheuon yn cael eu chwalu yn uniongyrchol, ac y mae priodoldeb a rhagoroldeb y gwaith yn llewyrchu arno gyda chyflawn ddisgleirdeb, ac y mae holl ddirgelwch y sefyllfa gyntaf yn cael ei ddadlena yn agoriad yr olygfa newydd hon. Er nad ydyw y creadur yn yr *ail* sefyllfa hon, ond megys yn byw bywyd anifeilaidd, sef o ran synwyr ac archwaeth, eto trwy amrywiol brofion a sylwadau, y mae yn enill ymarferiad, a thrwy agoriad graddol galluoedd y *dychymyg*, y mae yn ymaddfedu at fywyd *uwch*, er ymarfer a'r gwaith o *fwrriad* ac *ymdebygiad*, a'r cyfryw ag y mae nerth a medr yn fwy gofynol atynt na threiddgarwch neu gyrhaeddiad barn. Yn yr adeg *resymol a deallol a ganlyn*, y mae ei *ddeall*,

yr hwn oedd yn ymlusgo mewn sefyllfa is, yn awr yn esgyn i raddau uwch; yn olrhain naturiaethau, yn barnu am berthynas pethau, yn ffurfio cynlluniau, yn tynu casgliadau oddiwrth yr hyn a fu, ac yn casglu am bethau dyfodol oddiwrth bethau a aethant heibio, yn gystal a'r pethau sydd. Trwy y dilyniad hwn o sefyllfaoedd, ac addysg cyfatebol, y mae yn tyfu i fynu o'r diwedd yn greadur *moesol, cymdeithasol, a gwleiddiol*. Dyma y sefyllfa ddiweddaf yn mha un y canfyddwn ef yn ei ymdaith farwol yn y byd hwn. Y mae y naill dymhor yn arweiniol at yr un canlynol; y mae pob bywyd yn faes o ymarferiad a gwellhad at y nesaf, yr hwn sydd uwch; bywyd yr *anelwig* ddefnydd at fywyd y *baban*, a bywyd y *baban* at fywyd y *plentyn*, a'r holl sefyllfaoedd iselaf ar gyfer y rhai uwch a rhagorach.

“Ond ai dyma sefyllfa ddiweddaf mynediad naturiaeth rhagddi? Ai dyma y lle pellaf y cyrhaedda, ac y dringa yn yr arddangosfa, ac yna gollwng y chwareuwr i ddiddymdra? Neu a ydyw efe yn ymddangos wedi ei gynysgaeddu â galluoedd ychwanegol, y rhai nad ydynt yn cael lle i'w llawn waith, hyd yn oed yn yr olygfa ddiweddaf hon, ac heb gyrraedd y perfeithrwydd hwnw, o'r hwn y maent yn alluog, ac felly yn cyfeirio at ryw sefyllfa uwch, yn yr hon y mae i wisgo a chynal cymeriad arall, mwy pwysig nac a gynhaliodd efe eto? Os oes y cyfryw mewn bod, oni allem ni gasglu oddiwrth debygoliaeth natur, neu yn yr un ffordd o ragdybiaeth ag o'r blaen, ei fod wedi ei fwriadu at y rhan ddilynol hono, ai fod i gael ei ddangos ar esgynlawr uwch a phwysicach, lle y caiff ei alluoedd rhagorach ymarferiad cyfatebol, a'i natur gyrraedd ei berffeithrwydd.”*

Wrth egluro yr ymresymiadau blaenorol, dangosais, fod dyn yn meddu dynuniadau, y rhai na ellir eu cwbl ddiwallu, a galluoedd moesol a deallgar, y rhai na ellir eu llawn arfer yn y byd hwn; ac o ganlyniad, fod genym yr un rheswm i gasglu ei fod wedi ei fwriadu i sefyllfa uwch o fodolaeth, ag a fyddai genym wrth edrych ar egwyddorion dechreuel llygaid a chlustiau yn yr *anelwig* ddefnydd yn y groth, ei fod wedi ei amcanu i dori allan o'i gaethiwed, ac i gael ei godi i fyd, yn yr hwn y bydd seiniau, goleuni, a lliwiau, yn rhoddi cyfleusdra manteisiol i'r ymarferiad o'r ermig hyn.

* Fordyce.

DOSPARTH VII.—AR AMGYFFREDION A RHAGDYBIAU Y MEDDWL PAN Y BYDDO DAN DDYLANWAD CNOADAU CYDWYBOD.

Gellid ystyried fod amgyffrediadau y meddwl, a'i ddisgwyl-iadau ofnadwy am ddyfodiant, pan y byddo dan ddylanwad celyn cydwybod, fel rhag-arwyddion o ad-daliad mewn byd arall.

Fel y mae dymuniadau diderfyn y meddwl dynol, a'r ym-
arferiad rhinweddol a'i alluoedd moesol, yn rhag-arwyddion
am sefyllfa ddyfodol o helaethach mwynhad, felly gellid ystyried fod y dychryniadau cydwybod, sydd yn fynych yn poenydio meddyliau y drygionus, yn rhag-fynegiadau o drueni a gwae dyfodol. Canys ymddengys mor rhesymol i ni gred u y derbynia gweithredoedd drwg y gosp ddyledus iddynt mewn byd i ddyfod, ag y bydd i weithredoedd da gael eu cymerad-wyo a'u gobrwy; o ganlyniad, yr ydym yn canfod fod yr holl genhedloedd a gredant mewn sefyllfa ddyfodol o ddedwydd-wch i'r cyfawn, wedi addef hefyd fod cospau dyfodol yn aros gweithredwyr anwiredd. Y mae gan bob dyn ryw deimlad moesol wedi ei gyd-blethu a'i natur, sydd yn ei gondemnio yn ddirgelaidd pan y cyflawno weithred ddrwg, hyd yn oed pan fyddo y trosedd yn anwybodus i'w gyd-ddynion, ac mewn sefyllfa ag a fyddo yn ei godi uwchlaw ofn cosp ddynol. Y mae llawer o ddynion wedi bod yn sefyllfaoedd uwchaf ac iselaf bywyd, y rhai a ddaliwyd â dychryniadau mewnol, heb un achos allanol o ragolwg ar gosp oddiwrth ddynion, ac wedi nychu dan boenau cyhuddiadau cydwybod, y rhai nad allasai swynion cerddoriaeth, na phob hyfrydwch arall a fedd plant dynion eu llonydu. Am wirionedd y gosodiad hwn, y mae cofnodau hanesyddiaeth yn rhoddi i ni siAMPLAU PWYSIG. Gall y rhai canlynol fod yn ddigonol fel engreifftiau :—

Pan yr oedd *Belsasar* yn ymfawrygu yn ei wledd annuwiol, gyda'i wragedd, ei ordderchadon, a'i fil enwogion, daew ymdangosiad y darn llaw dyn ar galchiad y pared gyferbyn ag ef, yn ei daflu i'r fath ddryrswch, nes yr oedd ei feddyliau yn ei ddychryn, gwregys ei lwynau yn ymddatod, a'i linau yn ymguro yn nghyd. Ni ellir barnu fod ei ddychryn dan y fath amgylchiadau yn codi oddiar ofn dyn, oblegyd yr oedd wedi ei gylchynu gan ei warcheidwaid a'i dywysogion, a holl

hyfrydwch eu cerddoriaeth a'r wledd ysblenydd. Ac nid allasai godi oddiar y gollfarn oedd yn yr ysgrifen ar y pared, oblegyd yr oedd y pryd hwnw yn anwybodus am yr ysgrifen a'i hystyr. Ond yr oedd yn ymwybodol o'r drygioni yr oedd yn euog o hono, ac o'r cysegr-yspail a'r hwn yr oedd yn ymfwythfoddio y pryd hwnw; a chan hyny, yr oedd yr ymdangosiad anarferol ar y pared yn cael ei ystyried fel rhag-arwydd ofnadwy oddiwrth y Bôd Hollalluog ac Anweledig, yr hwn yr oedd wedi ei ddigio.—Yr oedd *Tiberius*, un o'r ymerawdwyr Rhufeinig yn ormeswr gorthrymus a chreulon. Yr oedd bywyd ei bobol wedi dyfod yn ddigrifwch i'w dymer greulon. Ni byddai eu llofruddio yn ddigon ganddo, os na byddai eu hangeu yn boenydiol ac echrydus. Rhoes orchymyn ar un achlysur, am gyflafan gyffredinol i gael ei gwneud ar y rhai a gedwid yn y carchar, yn achos bradwriaeth *Sejanus* ei weinidog, ac yr oedd pentyrau o gyrph yn garneddi yn y lleoedd cyhoeddus. Yr oedd ei ddrygau dirgelaidd a'i anlladrwydd yn wastadol, ac yn echrys i bob teimlad o weddeidd-dra a rhinwedd. Eto yr oedd y gormeswr hwn, yn nghanol yr ymarferiad o'i awdurdod, er ei fod yn ystyried ei hun uwchlaw cael ei reoli gan unrhyw gyfraith, yn cael poen-ydio ei feddwl â dychryniadau ofnadwy. Dywedir i ni gan *Tacitus*, ei fod mewn llythyr at y Senedd, wedi agor archollion mewnol ei fynwes gyda'r fath ymadroddion o anobaith, ag a oedd yn cyffroi tosturi hyd yn oed y rhai oedd yn barhaus dan arswyd ei ormes.* Ni allasai rhagoriaeth ei sefyllfa fel ymerawdwr, na'r lleoedd dirgelaidd i'r rhai yr ymneillduai, ei amddiffyn rhag cyhuddiadau ei gydwybod, ond gorfyddai iddo ef ei hun gyfaddef ei fod yn dioddef y poenau meddwl hyny fel cospedigaeth am ei droseddau.—Yr oedd *Antiochus Epiphanes* yn orthrymwyr arall, hynod am ei greulonderau a'i annuwioldeb. Gwnaeth ymosodiad ar ddinas Jerusalem, ac arferodd y creulonderau mwyaf barbaraidd ar y trigolion; llofruddiodd ddeugain mil o honynt mewn tri diwrnod, ac yn y modd mwyaf annuwiol, halogodd deml ac addoliad Duw Israel. Yn fuan wedi hyny, pan yr oedd yn chwythu mell-dithion yn erbyn yr Iuddewon am adferu eu haddoliad cyntefig, ac yn bygwth dinystrio yr holl genedl, a gwneud Jeru-

* Tiberium non fortuna, non solitudines protegebant, quin tormenta pectoris suasque penas ipse frateretur, etc.—*Tacitus*.

salem yn gladdfa gyhoeddus i'r Iuddewon, daliwyd ef â phoen gofidus yn ei ranau mewnol, a phangfeydd dirfawr o'r geri, y rhai nad allasai unrhyw feddyginaeth mo'u llonyddu, "Cerddodd llyngyr o'i holl ranau, syrthiodd ei gnawd ymaith fel llygredigaeth, ac yr oedd ei arogl mor frwnt, fel y daeth yn anoddefol i'r holl fyddin, ac fel hyn y terfynodd ei fywyd annuwiol drwy farwolaeth druenus."* Dywed Polybius, tra yr oedd yn yr afiechyd hwn, ei fod yn cael ei boenydio â gwall-gofrwydd gwastadol, gan ddychymygu fod ellylon yn dynesu ato yn barhaus i edliw iddo ei droseddau. Adroddir hanesion cyffelyb am *Herod*, yr hwn a laddodd blant Bethlehem; am *Galerius Maximianus*, awdwr y ddegfed erlidigaeth yn erbyn y Cristionogion; am y truenus *Philip II.* o'r Yspaen; ac am amryw eraill ag y mae eu henwau yn hynod yn nghofnodau annuwioldeb a throsedd.

Dywedir am *Siarl IX.* o Ffraingc, yr hwn a orchymynodd lofruddiaeth echrydus Bartholemew, ac a gynorthwyodd yn y tywallt gwaed hwnnw, ei fod wedi hyny, â rhyw olygon cyn-deiriog iddo, a rhyw liw yn ei ruddiau na welwyd ei fath ganddo erioed o'r blaen;—na chysgai ond ychydig, a byth yn dawel; gan ddeffro yn fynych mewn poenydiau mawr, a gelwid am gerddoriaeth dyner er rhoddi gorhwydra iddo, ac o'r diwedd bu iddo drengu o farwolaeth ddihoenus, wedi bod dan y cnoadau mwyaf poenus mewn meddwl a chorff. Mynega D'Aubigne i ni am *Harri IV.* y dywedai yn fynych yn mysg ei gyfeillion penaf; yn mhen wyth niwrnod wedi llofruddiaeth St. Bartholomew, iddo weled nifer o gigfrain yn pigo ac yn crawcian ar balas y Louvre; bod *Siarl IX.* y noswaith hono, wedi iddo orwedd yn ei wely tua dwy awr, wedi neidio i fynu, a chodi gweision ei ystafell, a'u danfon allan i wrando y gruddfan mawr oedd yn yr awyr, ac yn mhlith pethau eraill, y lleisiau bygythiol cyn-deiriog, a'r cwbl yn debyg i'r hyn a glywid ar noswaith y gyflafan, a bod yr holl lefau amrywiol hyn, mor effeithiol, mor rhyfeddol, ac mor eglur fel y darfu i *Siarl* feddwl fcd gelynion y Montmorencies a'u pleidwyr wedi eu dychryn ac ymosod arnynt, ac anfonodd gatrod o warcheidwaid i atal cyflafan newydd. Y mae o'r braidd yn afreipiol mynegi, fod y newyddion o Paris wedi profi fod y dychymygion hyn oll yn gwbl ddisail,

* Rollin's Ancient History.

ac wedi eu creu yn unig gan gydwybod euog y brenhin, gyda chefnogaeth cofion byw y rhai oedd o'i amgylch am greulon-derau dydd St. Bartholomew.

Yr oedd y Brenhin *Richard III.* wedi iddo lofruddio ei neiaint brenhinol diniweid, yn cael ei boenydio yn ei gydwybod mor fawr, fel y dywedai Syr Thomas Moore, ar dystiolaeth boneddigion ei ystafell-wely, na chafodd na llonyddwch na heddwch ynddo ei hun, ond byddai yn wastadol mewn ofn gan ryw berygl dirfawr a dybiai fod yn agos ato. Ymdroellai ei lygaid o'r naill ochr i'r llall, gwisgai grys o lurig, a byddai yn wastadol a'i law ar ei ddagr, gan edrych mor greulon a phe byddai am daro. Ni cha'i lonydd i'w feddwl y dydd, ac ni allai orphwys y nos, ond yr oedd yn cael ei aflenyddu gan freuddwyddion dychrynllyd; neidiai o'i wely, a rhedai fel gwallgof-ddyn o amgylch ei ystafell.*

Y mae y cyflwr meddwl hwn wedi cael ei ddarlunio yn rhagorol, mewn cyfeiriad at amgylchiad arall, yn y llinellau canlynol gan Dryden.

“Yr ynad hwn ddisgwylia, yn mysg dy osgorff lu,
Dilyna’th ffordd i’r goron, drwy holi’r modd y bu,
Edliwia’th rwysg annuwiol, crochwaedda yn dy glust,
Och elyn! bradwr! llofrudd! fel anweledig dyst,
Awurdod gaed trwy ormes, ddwg olwg drist yn wir,
‘Wyr neb mai brenhin ydwyd, ond wrth dy boen a’th pur,
Mae arnat ofn y lluaws, ac arswydd bod dy hun,
Wrth eistedd ar yr orsedd, deori loesau blin.”

Yr oedd Bessus y Paeoniad wedi ei gyhuddo o natur ddrwg, am dynu nythaid o gywion adar tô i lawr, a'u lladd; atebodd yntau mai, “Oblegid nad oedd y pethau bach hyny byth yn peidio a'i guhuddo am ladd ei dad.” Yr oedd y tad-leiddiad hwn hyd hyny yn guddiedig ac anhysbys, ond gwnaeth cyn-ddaredd diałgar cydwybod ef yn adnabyddus drwyddo ei hun; yr hwn oedd i gyfawn ddioddef o'i herwydd. Yr amheuwr a'r haner-deist hynod hwnnw, Mr. Hobbes, awdwr y “Lefiathan,” oedd wedi bod yn foddion i wenwyno llawer o foneddigion ieuatinge, ac eraill, fel y cyfaddefodd Iarll Rochester gyda gofid dwys ar ei wely angau. Sylwyd gan y rhai oedd wedi craffu yn fanwl ar ei fywyd, “ei fod yn ei orchest yn gallu

* Stow's Annals, p. 450.

llefaru pethau dïeithr ac annheilwng am Dduw, ond yn ei lyfr-gell, yn y tywyllwch, ac yn ei ystyriaethau neillduol, dychryna i ger ei fron. Ni allai oddef cael ei adael yn unig mewn tŷ gwag. Ni allai, hyd yn oed yn ei hen ddyddiau, oddef yr un ymddiddan am angau, ac ymdrechай yn wastadol i gadw pob meddwl o'r fath draw. Ni allai oddef cysgu yn y tywyllwch, ac os dygwyddai i'r ganwyll ddiffodd yn y nos, deffroai mewn dychryn a chyffro,—arwydd digon amlwg na allai oddef ystyriaethau anobeithiol ei feddwl tywyll ac anial, ac na wyddai pa fodd i ddiffodd, na pha fodd i oddef goleuni "canwyll yr Arglwydd," o'i fewn. Dywedir iddo adael y byd yn anfoddog iawn, dan amgyffredion dychrynadwy am ddyfodiant cwbl dywyll.

"Poenydio'r enaid bythoedd a wna cydwybod ddrwg,
A'i fflangell anweledig, archollion llym a ddwg,
Fe all cyfreithiau celyd, roi'r tafod yn ei le,
Ond am y meddwl dirgel, pa ddeddf roi'r iddo fe?
Tydi dy hunan draetha, i'ch fynwes di dy hun,
Mae'th feiau, a'th Gydwybod, wna d' Uffern ddrwg ei llun."

Gellid dwyn yn mlaen luaws o esiamplau o awdurdod cydwybod yn cyffroi amgyffredion dychrynllyd am fydd arall, o gofnodau hanesyddiaeth foreuol a diweddar;—ac ni all fod amheuaeth y moment presenol, nad oes miloedd o ddynion bywiog, a'u meddwl wedi ei gymeryd i fynu yn nifaterwch cyffredinol y byd, ac yn proffesu nad ydynt yn gofalu dim am wirioneddau byd dyfodol, y rhai pe y dangosent eu teimladau mewnol yn agored, a addefant fod yr arswyd dirgel o daledigaeth dyfodol, yn ddrychiolaeth ag sydd yn ymwibio yn fynych drwyddynt, tra y byddont yn rhedeg trwy gylchoedd eu pleserau gwaharddedig, ac yn chwerwi eu mwyniant mwyaf dymunol.

Yn awr, pa fodd yr ydym i roddi cyfrif am ddychryniadau cydwybod, a'r rhag-dybiau pwysig am ddyfodiant, os nad oes bodolaeth tu draw i'r bedd—yn enwedig, pan feddyliom fod llawer o'r rhai sydd yn cael eu poenydio felly, wedi eu codi i sefyllfa o awdurdod a graddau, uwchlaw achos ofni cospedigaeth dyn? Os ydynt hwy wedi gallu cyflawni eu cynlluniau, boddloni eu nwydau, a diogelu eu personau a'u meddianau rhag pob perygl tymhorol, pa ham y teimlant ofn ac arswyd

yn yr olwg ar fydd arall? oblegid y mae pob anfoddlonrwydd yn y meddwl, o'r natur hwn, yn cynwys arswyd rhywbeth dyfodol. Ni byddai ganddynt achos i ofni, hyd yn oed yr Hollalluog ei hun, os nad yw ei ddigofiant yn estyn yn ddim pellach na'r byd hwn. Y maent yn canfod y byd naturiol a moesol yn symud rhagddo at ddeddfau gosodedig a digyfnewid. Ni welsant unrhyw wyrthiau o ddigofaint—ni bu yr un fraich Hollalluog yn weledig yn lluchio mellt o'r nef yn erbyn gweithredwyr anwired. Gwelsant mai yr un ddamwain sydd yn dygwydd i bawb, i'r cyflawn fel y drygionus, a bod angau yn ddrwg i'r hwn y mae yn rhaid iddynt blygu cynt neu hwyrach. Cyfarfuasant fyddinoedd gwrthwynebus gyda gwroldeb, a gwelsant holl echryslonrwydd rhyfel heb ddychrynu. Eto, yn eu hymneillduad dirgel, yn nghestyll eu fload, lle nad oedd yr un llygad ond llygad Duw arnynt, a'r lle nad oedd yr un ymosodiad arnynt yn cael ei dybio, eto yr oeddynt yn ofni eu cysgod, ac yn teimlo mil o ddychryniadau oddiwrth edliwiadau rhyw reolydd mewnol, nad allasant ddiango oddiarno. Ymddengys yr holl bethau hyn yn gwbl anesboniadwy, os nad oes yr un ad-daliad tu draw i'r bedd.

Yr ydym, gan hynny, yn cael ein harwain yn anocheladwy i'r canlyniad, mai llais Duw ydyw llais cydwybod, yn y fath achosion, yn cyhoeddi ei wrthwynebiad i weithredoedd drwg, a'r gosp y maent yn eu haeddu; a bod ei ragluniaeth yn llywyddu dros holl weithredoedd deiliaid moesol, ac yn rhoddi awgrymiadau am dynged ddyfodol yr ysprydoedd beilchion hynny sydd yn parhau yn gyndyn yn eu pechodau. Ac o ganlyniad, fel y mae tangnefedd a thawelwch meddyliau rhinweddol yn arwyddion o fwynhad rhagorach mewn bywyd dyfodol, felly gellid ystyried y dychryniadau hynny ag sydd yn awr yn dal yr annuwiol, fel dechreuad y truenia'r poenau hynny, y rhai a gyflawnir yn y byd a ddaw, i'r cyfryw ag sydd yn ychwanegu anedifeirwch at eu troseddau eraill.

DOSPARTII VIII.—AR SEFYLLFA ANNHREFNUS Y BYD MOESOL,
YN EI GYMRIAETH A THREFN REOLAIDD Y BYD NATURIOL.

Y mae cyflwr annhorefns y byd moesol, wrth ei gyferbynu â threfn reolaidd y byd defnyddiol, yn rhoddi prawf tebygol cryf fod sefyllfa arall, yn yr hwn y bydd i'r drygau moesol sydd yn awr gael eu gwastadhau.

Pan y cymerwn arolygiad cyffredinol ar adeiladaeth y bydysawd, neu pan y myfyriom yn fwy manwl ar unrhyw ran o'i drefniadau perthynasol, yr ydym yn canfod arwyddion o brydferthwch, trefn, a chysondeb yn cael eu dangos yn eglur. Y mae pob peth yn ymddangos yn ei le priodol ei hun, yn symud rhagddo mewn trefn ardderchog, ac yn cyflawni y dyben i'r hwn y mae wedi ei fwriadu. Yn nhrefn y planedau, y mae deddf at-dyniad i'w chanfod yn gweithredu mewn perffaith gyfartaleddi ongl y pellder, a'r onglau at amserau troadau y planedau o amgylch yr haul, mewn cywir gyfartaledd â chylch eu pellderau. Y mae pob corph yn y cysawd hwn yn cyflawni ei gylchdro priodol, yn berffaith yn ystod yr un amser, fel nad yw yn colli yr un mynyd mewn canrif o amser. Cafwyd troadau blynnyddol Jupiter allan, tua dau can mlynedd yn ol, a'u bod yn cael eu cyflawni mewn 4330 diwrnod, 14 awr, 27 mynyd, ac 11 eiliad, a'i gylchdro ar ei begynau mewn 9 awr, 56 mynyd; ac y mae y troadau hyn i'w canfod yn cael eu cyflawni eto yn gywir yn yr un amser. Y mae y ddaear yn cyflawni ei throadau dyddiol o'r naill ganrif i'r llall, gan ddwyn o amgylch gyfnewidiadau dilynol dydd a nos, yn berffaith yn yr un amser; sef 23 awr, 56 mynyd, a 4 eiliad. Trwy yr holl gysawd hwn, nid oes yr un o'r cyrph, o ba rai y mae yn cael ei gyfansoddi, yn sefyll dim yn ei ysgogiad, nac yn cilio dim o'i lwybr priodol ei hun. Nid oes yr un o honynyt yn dyrys y llall yn ei rodfa, nac yn ymyryd dim ag awdurdod lesol y grym at-dyniadol sydd iddynt, nac yn eu goleuni a'u gwres. Pe na buasai felly—pe buasai i'r ddaear sefyll yn ei hysgogiadau dyddiol, ac oedi taflu y wawr yn ei amser priodol—neu pe buasai i'r planedau daro y naill yn erbyn y llall, ac i redeg yn ddi reol trwy yr wybren, buasai trefniant Natur yn cael ei yru i ddyrysych, eu trigolion eu taflu i drueni, gyda cholli pob mwynhad. Ond o herwydd y drefn

sydd yn cael ei chadw, y mae y cyfan yn ymddangos i llygad rheswm fel arddangosiad gogoneiddus o brydferthwch a chysondeb, ac anfeidrol ddoethineb a bwriad.

Yr un modd, os edrychwn ar drefniadau ein cysawd ni—at newidiad y tymhorau, cylch y cymlawdd, rhediad yr afonydd, gweithrediadau y tarth, newidiadau dyddiol y gwynt, a threfn naturiol y llwythau anifeilaidd a thyfiadol—y mae yr un drefn gelfyddgar a chyson yn cael ei dangos. Yn ffurfiad ac ysgogiadau y corph dynol, y mae arddangosiad tarawiadol o drefn a phrydferthwch. Canoedd o ewynau o wahanol ffurfliau, canoedd o esgyrn yn eu gwahanol gysylltiadau; canoedd o lestri llaethol a dyfrol, a miloedd o wythienau a rhedweliau, y rhai sydd oll yn cydweithredu bob moment, mewn trefn i gynal bywyd a mwynhad. Y mae pob ermitig o synwyr wedi ei gyfaddasu yn rhagorol, i dderbyn argraphiad oddiwrth wrthrychau perthynol iddynt. Y mae y llygad wedi ei gymhwysio i dderbyn argraph goleuni, a goleuni wedi ei gyfaddasu at ffurfiad arbenig y llygad; y mae y glust wedi ei haddasu at sain, a chyfansoddiad yr awyr, a'i holl elfenau wedi eu cymhwyso at wneud argraph ar dabwrdd y glust. Hyd yn oed yn nghyfansoddiad yr abwydyn gwaelaf, yr ydym yn canfod cyfres o gymhwysderau, a threfniant o ermitig, nid llai eu cywreinideb na'r eiddo dyn; ac y mae cymaint o ofal i'w weled yn mhlygiad erafange, neu gysylltiad cymal, neu ffurfiad pluen, er ateb eu dyben priodol, a phe na buasai yr un gwrthrych arall, ar yr hwn y dangosai y Creawdwr ei ragoroldeb. Ac y mae yn deilwng o sylw, fod ein golygiadau ar gysondeb a threfn y byd defnyddiol yn dyfod i'n golwg yn fwy enwog a *boddhaol*, yn ol y graddau y cynhyddom wybodaeth am eu trefniadau. Pa un bynag a wnelom, ai olrhain gyda drychbeiriant, y cyrph hyny sydd yn wasgaredig trwy ardaloedd diderfyn yr éangder, neu fanwl-graffu, drwy gymhorth y chwydd-wydr, ar wrthrychau lleiaf natur, yr ydym yn canfod arwyddion o drefn, ac o beirianwaith a bwriad ardderchog, sydd yn cyffroi syndod a mawrhad yn mhob meddwl myfyrgar. Cyn dyfeisio y chwydd-wydr, buasai yn naturiol i ni gasglu fod pob peth tu allan i gylch golwg y llygad, yn anhhrefn i gyd, yn dryblith o ronynau heb fywyd na ffurf, na threfn; ond yr ydym yn awr yn canfod yn amlwg fod pob peth yn rheolaidd a chelfyddgar, hyd yn oed y llwch sydd ar aden y gloyn byw, pob gronyn gwahanol sydd yn anweledig

i'r llygad noeth, yn cynwys trefniad rheolaid o blu—fod yn llygad abwydyn bychan ddeng mil o belenau disglaer, wedi eu trefnu yn brydferth ar rwydwaith tryloew, o fewn cylch yr ugeinfed ran o fodfedd—a bod myrdd o fodau bywiol, anweledig i lygad noeth, gyda chyrrh wédi eu ffurfio mor gywrain, ac wedi eu cymhwysyo mor gyfaddas i'w sefyllfa â chyrrh dynion neu anifeiliad mwy. Felly, y mae holl osail y byd defnyddiol yn dangos golygfa o anfeidrol ddoethineb a deall, ac yn egluriad o drefn, prydferthwch a chyfartaledd. Y mae pob peth yn dwyn nôd o fwriad *haelfrydus*, ac yn tueddu i ddedwyddu creaduriaid synhwyrol.

Ar y llaw arall, pan y cymerwn olwg ar y byd moesol yn holl dymhorau ei hanesyddiaeth, yr ydym yn canfod drwy bob parth o hono o'r bron, y dyryswn mwyaf anesboniadwy; a golygfedd o anghysonderau gwrth-darawiadol, mewn hollol gyferbyniad a'r drefn sydd i'w gweled yn rhedeg drwy y byd defnyddiol. Pan y cymerwn ad-olwg ar sefyllfa foesol dynol-ryw drwy yr oesau a aethant heibio, pa beth a welwn ond golygfa gyffrous bradwriaeth, trachwant, anghyflawn, a dialedd—o ryfel, llofruddiaeth, dinystr, a thywallt gwaed; cenedl yn codi yn erbyn cenedl, un ymerodraeth yn ymosod yn erbyn un arall, gorthrymwyd yn arfer eu creulonterau barbaraidd, Coel-grefydd ac Eilun-addoliaeth yn suddo mil-oedd o ddynion; a rhes o greaduriaid anwar, a elwir *gwroniaid*, yn crwydro dros y byd, yn troi maesydd ffrwythlawn yn anialwch, yn llosgi trefydd a phentrefi, yn ysbeilio palasau a themlau, yn gorchuddio y ddaear â gwaed dynion, ac yn adeil-adu teyrngadeiriau ar adfeiliau cenhedloedd. *Yn y fan yma*, canfyddwn ryw *Alexander*, gyda byddinoedd lloosog yn gyru aradr dinystr trwy genhedloedd cylchynol, yn gwastadhaù dinasoedd a'r llwch, ac yn llofruddio eu trigolion diniweid, i'r dyben o foddhau ei uchelgais gwallgof, ac i gael ei arganmol fel gwron,—ac yn y *fan draw*, gwelwn ryw *Xerxes*, wedi ei danio â balchder a chwant am lywodraeth, yn arwain byddin o dair milïwn o wallgofiaid creulon i gael eu llofruddio gan y Groegiaid buddygol,—*yma* y gwelwn ryw *Alaric* gyda'i lwythau barbaraidd, yn distrywio gwledydd deheul Ewrob, yn dinystro cofadeiliau prydferthaf celfyddyd, yn ysbeilio prif-ddinas yr ymerodraeth Rufeinig, ac yn llanw yr heolydd a'r tai â gwaed y lladdedigion,—*acw* y gwelwn ryw *Tamarlane*, yn goresgyn Persia, India, ac ardaloedd eraill Asia, gan lofruddio

a dinystrio ar ei gyfer, ac yn dangos ei greulondeb yn ninystair neu bedair mil o ddynion mewn lladdfa ar unwaith, ac yn adeiladu eu cyrph gyda phriddfeini a chymrwd mewn mur. Ar un llaw, yr ydym yn canfod chwe miliwn o'r *Crusaders* yn teithio mewn cynddaredd gwallgof trwy barthau deheuol Ewrob, gan ddinystro pob peth yn eu ffordd, fel byddin o locustiaid, gan ddifetha Iuddewon ac Anffyddiaid, ac yn llofruddio trigolion Asia Orllewinol gyda bár uffernol. Ar y llaw arall, yr ydym yn canfod galluoedd dirifedi *Jenghiz Kan* yn goresgyn teyrnasoedd Asia Ddwyreiniol, dros 15 miliwn* o filldiroedd ysgwar, yn torfynylu 100,000 o garcharion ar unwaith, yn cynhyrfu y byd a'i arswyd, ac yn llwyr yru oddiar y ddaear bedair-miliwn ar-ddeg o ddynolryw. Ar un pryd, yr ydym yn canfod uchelgais ac eiddigedd *Marius a Sylla* yn berwi y Rhufeiniaid yn holl drueni rhyfel cartrefol, yn gwneud dinas Rhufain am bum diwrnod yn ddiluw o waed ei phreswylwyr, yn codi poenau ei seneddwyr ar bolion, ac yn llusgo eu chyrph i'r *Forum* i gael eu llarpio gan y cwn. Bryd arall, yr ydym yn canfod rhyw *Nero* yn mathru ar ddeddfau natur a chymdeithas, yn suddo i ddyfnderoedd ffieidd-dra a chreulonerau oedd yn ddigon i lanw y meddwl â dychryn, yn lladd ei wraig *Octavia*, a'i fam *Agrippina*, ac yn tafsiu sarnhad ar y Nefoedd a dynoliaeth, trwy dderchafu dïolchgarwch i'r duwiau ar gyflawniad ei droseddau; ac yn gosod Rhufain ar dàn, fel y gallai ddifyru ei hun â'r dychryn a'r anobaith cyffredinol a wnaed trwy y galansdra. Ar un pryd, yr ydym yn canfod y Gothiaid a'r Vandaliaid yn rhuthro fel gorlifiant mawr, ac yn gorchuddio o'r dwyrain i'r gorllewin, ac o'r gogledd i'r deau, ac yn ysgythr pob dernyn o waith addyssg a chelfyddyd o'i flaen, ac yn cigyddio pawb o fewn eu cyrhaedd, heb wahaniaethu rhyng oedran na rhyw, ac yn nodi eu llwybr âg ysbail, dinystri, a llofruddiaeth. Bryd arall, yr ydym yn gweled cenhadau dinas Rhufain yn llofruddio, heb wahan na thrugaredd, yr Albigensiad duwiol a diniweid, ac yn gosod eu cyrph fel golygfa o syndod a dychryn, tra yr oedd y Chwillys yn arteithio miloedd o ddynion duwiol a rhinweddol, ac yn tafsiu eu cyrph i'r fflamau.

Ar un tymhor o'r byd,† yr oedd yr holl ddaear o'r bron fel

* "Bernir fod buddygolinaethau Jenghiz Kan," medd Millot, "dros ddeunaw cant o leagues o'r dwyrain i'r gorllewin, a mil o'r debau i'r gogledd."—*Modern History. Vol. I.*

† Tua'r bumêd, y chweched, a'r seithfed ganrif.

un maes rhyfel mawr, yn yr hwn yr oedd yr holl hil ddynol, fel pe buasai yn bygwth cael eu llwyr ddinystro oddiar wyneb y ddaear. Yr oedd y Vandaliaid, yr Huns, Sarmatians, Alans a Suevi, yn rhwygo Gaul, Spaen, a Germany, a pharthau eraill o'r ymerodraeth Rufeinig, a'r Gothiaid yn ysbeilio Rhufain, ac yn gosod dinasoedd Italy yn wastadedd. Yr oedd y Saxoniaid a'r Angles yn goresgyn Brydain, ac yn dadymchwelyd llywodraeth y Rhufeiniaid. Yr oedd byddinoedd Justinian, a'r Huniaid, a'r Vandaliaid, yn dinystro Affrica, ac yn cigyddio dynion wrth y miliynau. Yr oedd holl fyddin-oedd Scythia yn rhuthro gyda chyffiro anwrthwynebol ar ymerodraeth Rhufain, ac yn dinystrio ei gwledydd, a bron a llwyr ddistrifywio ei phobl, pa le bynag yr elent. Yr oedd byddinoedd Persia yn dinystro Hierapolis, Aleppo, a'r dinasoedd o amgylch, ac yn eu troi yn lludw, ac yn goresgyn holl Asia, o'r Tigris hyd y Bosphorus. Yr oedd yr Arabiaid, dan Mahomet a'i olynwyr, yn estyn eu buddygoliaethau dros Syria, Palestina, Persia, ac India, ar yr ochr ddwyreiniol; a thros yr Aipht, Barbary, Yspaen, ac Ynysoedd Mor y Canoldir, tuair gorllewin; ac yn tori yn ddarnau a'r cleddyf holl elynion eu crefydd. Yn *Europ* yr oedd pob teyrnas wedi ei chynhyrfu hyd ei chanol; yn yr ymerodraeth Fahometanaidd yn *Asia*, yr oedd y Caliphs, y Sultans, a'r Emirs, mewn rhyfelgyrchoedd parhaus; yr oedd llywodraethau newyddion yn codi yn feunyddiol, ac yn gael eu dadymchwelyd bob dydd; ac yr oedd *Affrica* yn cael ei di-boblogi yn gyflym, ac yn prysuro at ddinystro barbariaeth.

Yn nghanol yr holl ymornest hwn oedd rhwng cenhedloedd a'u gilydd, pan yr oedd yr holl ddaear wedi dyfod yn un maes o chwildoadau gwaedlyd,—yr holl olygfeydd o drueni, dros y rhai y mînai haneswyr dynu gorchudd, rhag iddynt dros glwyddo siampl o annynoliaeth i'r oesau dilynol—yr oedd y taleithiau mwyaf ffrwythlawn a phoblog yn cael eu troi yn anialwch, wedi eu gordaeu âg adfeiliau pentrefi a dinasoedd —yr oedd pob peth wedi eu treulio a'u dystrywio gan greulondeb gelynol—yr oedd newyn yn rhwygo i'r fath raddau fel yr oedd y byw yn cael eu gorfodogi i ymborthi ar gyrph meirw eu cyd-ddinaswyr—yr oedd carcharorion yn cael eu dyfetha gan y creulondeb rhyfeddol, a pho mwyaf enwog y byddent, mwyaf barbaraidd y caent eu dirmygu—gadawyd dinasoedd heb drigiannydd byw—yr adeiladau cyhoeddus a

wrth safent y fflamau a gydraddwyd a'r llawr—dibrisiwyd pob celfyddyd a gwyddoriaeth—cynhyrfwyd yr ymerodraeth Rufeinig i'w chanol, a diddymwyd ei hawdurdod—yr oedd trachwant, anudonedd, casineb, bradwriaeth, a drwg ewyllys yn teyrnasu; a rhinwedd, haelfrydedd, a phob egwyddor foesol yn cael eu mathru dan draed.

Yr oedd y fath olygfeydd o ddinystr a diboblogiad yn cael eu dangos i raddau éang bron yn ddiorphwys drwy holl ystod hanesiaeth y byd. Oblgid nid yw dalenau yr hanesydd yn dangos nemawr amgen na chofnodau am fuddygoliaethwyr uchelfrydig yn dinystrio yn eu ffordd; ac am ormeswyr beilchion yn mathru ar iawnderau dynion, am ddinasoedd wedi eu troi yn garneddu, am wledydd wedi eu diboblogi, am lofruddiaethau yn cael eu cyflawni gyda chreulondeb uffernol, am genhedloedd yn ymguro yn erbyn eu gilydd, am ymerodraethau wedi eu distrywio, ac am rwysg cyffredinol anghyfiawnder, anfoesoldeb a throseddau. Y mae yr holl ffeithiau eraill a ddygyddasant yn hanesiaeth dynolryw, o'u cydmaru a'r hanes ar yr achosion hyn, yn cael eu hystyried gan yr hanesydd fel *coeg-chwareu*, yn arddangosfa fawr y byd, heb fod o'r braidd yn werth eu cofnodi.

Pe cymerem olwg ar sefyllfa y byd moesol fel y mae yn sefyll yn awr, canfyddem olygfa gyffelyb yn cael ei danges o flaen ein meddwl. Er nad yw y cysgodion o lygredigaeth sydd wedi eu gordauen mor dew a thywyll, na'u cynhyrfiadau mor aml ac echrys ac ydoedd gynt, eto y mae ansawdd pob cenedl dan y nef, yn dangos agweddu holol wrthwynebol i bob peth a ddisgwyliasem mewn byd o drefn, cysondeb, a chariad priodol. Pe tröem ein golwg tuag *Asia*, canfyddem y rhan fwyaf o bum can miliwn o ddynolryw yn nghanol berw gwleidyddol wedi eu suddo mewn drygioni, anwybodaeth, ac eilunaddoliaeth, ac yn gruddfan dan fflangell gormeswyr gor-thrymus. Yn Persia y mae creulondeb y rheolwyr wedi troi y rhan fwyaf o'r taleithiau mwyaf ffrwythblawn yn ddiffaethwch. Yn Twrci y mae creulondeb a thrachwant dieffig y *Grand Seignior* a'i *Bashaws* wedi trwytho glanau Groeg â gwaed y miloedd, ac wedi troi Palestina yn anialwch, a throi Syria, Armenia, a Kurdistan, yn olygfeydd o anghyfiawnder a thrueni. Yn China a Japan y mae yspryd balchder yn atal cyd-fasnach-aeth gyson gyda rhanau eraill y teulu dynol, ac yn cyflwyno hunanoldeb mewn gwaed oer i fynwesau eu trigolion, a dirmyg

at y cenhedloedd cylchynol. Trwy Tartary, Arabia, a Siberia, y mae y llwythau gwylltior llosgog yn crwydro yn barhaus drwy yr anialwch a'r coedwigoedd am eu hanrhaith, fel y mae teithwyr mewn perygl beunyddiol o gael eu hysbeilio, eu llofruddio, neu eu llusgo i gaethiwed. Os trown ein golwg tuag *Africa*, yr ydym yn canfod y natur ddynol wedi suddo i gyflwr dyfnach o drueni. Y mae taleithiau Barbary mewn ymrafaelion diorphwys, ac yn anrheithio cenhedloedd cymydogaethol ar fôr a thir. Y mae mân ormeswyr Dahomy, Benin, Ashantee, Congo, ac Angola, yn ymosod yn barhaus ar y llwythau cymydogaethol, ac yn llofruddio eu carcharorion mewn gwaed oer, ac yn addurno eu palasau â phenglogau dynion—tra y mae cenhedloedd anwar eraill mewn cysylltiad â llwythau gwareiddiedig yn dwyn yn mlaen drafnidiaeth mewn lladrata dynion a chaethwasanaeth, ag sydd wedi lliwio y cymeriad dynol â throsedd sydd yn ddigon o ddychryn i ddynoliaeth. Os trown ein golwg tuag *America*, canfyddwn mai rhyfeloedd ac ymryson ydyw prif orchwylion y llwythau brodorol, a bod dygasedd dieflig yn cael ei ddangos yn y poenydiau a osodant ar y carcharorion a gymerant mewn rhyfel, tra y mae gormes, anoddefgarwch, a chynhwrf gwleid-yddol yn cyffroi y rhan fwyaf o'r trigolion mwyaf gwaraidd. Os ardreiniw dros yr Archipelago Ddwyreiniol, a'r ynysoedd sydd yn wasgaredig dros y Môr Tawelog, canfyddwn dyrfaoedd dirfawr o ddynion, yn lle byw mewn undeb a hynawsedd, yn dangos y tueddiadau ffyrnidig tuag at eu gilydd, gan luchio meini, gwaewffyn, a phicellau at bob dyn dieithr a gynhygio dirio ar eu glenydd; yn offrymu ebyrth dynol i'w gau dduwiau, ac yn gwredda gyda hyfrydwch ar gnawd a gwaed eu gelynion.

Os trown ein golwg tuag *Ewrob*, y man tawelaf a gwareiddiaf ar y ddaear—hyd yn oed yma, canfyddwn luaws o arwyddion dyryswh gwladol ac annhhrefn moesol. Yn ystod y deng mlynedd-ar-hugain diweddaf, yr oedd pob cenedl o'r bron, yn y chwarter hwn o'r byd, wedi eu cynhyrfu hyd eu canol, ac wedi dyfod yn un olygfa o ymrysonau, chwyldroadau, a dillad wedi eu trochi mewn gwaed. Gwelsom Ffrainge wedi ei thaflu i gyflwr o orthrymder dan y benefigiant a gormes offeiriadol, yn llawn cythrwfl a dyryswh—ei sefydliadau hynafiaethol wedi eu dadymchwelyd, ei thywysogion a'i henwogion wedi eu deol o'i therfynau, a'i hanianyddion goreu yn gwmni i'r erwydyddion gwaethaf, ac yn meirw dan ergyd y gwddf-

beiriant. Gwelsom-ryw *Buonaparte* yn gwasarnu yn fuddygoliaethus ar genhedloedd yn garneddi lladdedig, yn gwasgaru "pentewynion, saethau, ac angau," ac yn peri cyffro cyffredinol y lle yr elai; yn dadymchwel llywodraethau, "yn newid amseroedd," yn bwrw teyrngadeiriau ymerawdwyr i'r llawr, ac yn gosod brenhinoedd i fynu wrth ei bleser. Gwelsom ei olynwyr wedi hyny yn ymdrechu i blethu cadwynau gormes am yddfau eu deiliaid, ac yn gyru y byd moesol yn ol i'r tywyllwch a orchuddiai y bobl yn nheyrnasiad Coelgrefydd Pabyddiaeth. Gwelsom Poland yn cael ei rhwygo yn ddarnau yn nghrafangau anfoddhaol Rwsia, Awstria, a Prwsia, a'i maesydd wedi eu cochi â gwaed, ei gwladgarwyr wedi eu llofruddio, a'i henw wedi ei ddileu o restr y cenhedloedd. Gwelsom Moscow yn goddaith yn ffiamau, ei heglwysydd a'i phalasau wedi eu dadymchwel yn adfeiliau, cyrph ei thrigolion wedi duo, yn cael eu cymysgu a'r carneddi, a'r ffordd i Smolensko wedi ei gorchuddio â darnau drylliedig o gerbydau, arfau a gwisgoedd wedi eu gwasgaru yn mhob modd, a'r miloedd trengedig wedi eu pentyru ar eu gilydd mewn cymysgfa annhorefus, yn nofio yn eu gwaed. Gwelsom ellyll rhyfel yn rhwygo yn Borodino, Austerlitz, y Tyrol, Wilna, Smolensko, Trafalgar, Camperdown, Eglau, Jena, La Vendee, Cadiz, Warsaw, Friedland, Talavera, Sebastian, Lutzen, Leipsic, a Waterloo, gan ddinystrio dinasoedd, diboblogi taleithiau, a chymysgu enawd meirch a gwartheg gyda'r miliynau gweddillion maledig o ddylion. Gwelsom Yspaen a Phortugal wedi eu taflu i gythrwfl a chyffro, ac yn olygfa o chwyldroadau gwaedlyd—Twrei yn ymosod mewn rhyfel yn erbyn crefydd a rhyddid—Groeg wedi ei goresgyn gan Fahometaniaid yn sychedu am waed, a'i glenydd a'i hynysoedd, yn sefyllfa yr ymrysonau mwyaf echrydus.

A pha beth a welwn *yn awr*, pan y taflwn olwg ar y cenhedloedd cylchynol? Gwelwn Rwsia yn gyru ei byddinoedd i ormesu ar derfynau Persia, er dynestr a llofruddiaeth—y *Grand Seignior* yn rheoli ei ddeiliaid â gwialen haiarn, ac yn addurno ei byrth â chanoedd o benau a chlustiau ei elynion,*

* Mewn hanes o Odessa, dyddiedig Awst 8, 1824, dywedid fod pum cant o benau a deuddeg cant o glustiau y Groegiaid, wedi eu hanfon gan y Cadben Pacha i Gaereystenyn, wedi cymeryd Ipsara, a'u gosod ar borth y palas, ar yr 20fed o Orphenaf, gyd a'r ysgrifenn ganlynol, "Y mae Duw wedi bêndithio arfau y Musselman, ac y mae gwrrthryfelwyr atgas Ipsara wedi cael eu llwyr ddeol oddiar wyneb y byd," &c. Ac ychwanegwyd, "Y mae yr *holl alluoedd* cyfeillgar wedi longyfarch y *Sublime Porte* ar y fuddygoliaeth."

tra y mae ei Brif-filwyr yn burlymio cyffroadau parhaus,—y mae y Groegiaid mewn ymdrech am eu rhyddid, ac yn cael eu cylchynu gan elynion gwaedlyd, a'u llofruddio heb drugaredd,—y mae Portugal yn un olygfa fawr o chwyldroadau mewnol —yr Yspaen dan reolaeth gormeswr gwagsaw, sydd yn cael ei farchog gan dwyll-offeiriadol; i fodhau ei awydd am awdurdod, y mae miloedd o ddynion wedi eu haberthu, a chanoedd o wladgarwyr enwog wedi eu deol o wlad eu genedigaeth—yr ydym yn gweled y Chwil-lys yn poenydio ei ebyrth an nedwydd; yr eglwys Rufeinig yn taranu ei melldithion yn erbyn pawb a wrthwyneba ei honiadau; a'r amrywiol bleidiau o Brotestaniaid mewn ymryson a dadleuon; a'r twysosigion a'r brenhinoedd ar y Cyfandir, *oll* wedi ymuno i wrthwynebu cynydd rhyddid, ac atal gwellhad y meddwl dynol.

Os deuwn yn nes adref, ac edrych ar y golygfeydd a ganyddwn bob dydd, pa beth a welwn? Golygfa gymysg o drafferth a dyryswn, yn yr hon y mae drygioni a dygasedd yn fwyaf amlwg, ac yn fynychaf yn fuddygoliaethus. Pan yr ystyriwn agwedd bresenol cymdeithas, ac y meddyliom am y tueddiadau a'r egwyddorion uchel sydd yn llywodraethu y rhan fwyaf o ddynolryw—y dymuniadau trachwantus diderfyn sydd yn ffynu, a'r moddion drygionus a thwylodrus a arferir er mwyn eu cyrhaedd yn aml—yr ymrysonau annaturiol sydd yn codi rhwng gwyr a gwragedd, tadau a phlant, brodyr a chwiorydd—yr eiddigedd sydd rhwng rhai o'r un gorchwyl a galwedigaeth a'u gilydd—y gelynbiaeth a'r cabledd a achosir drwy etholiadau—y baldordd, yr ymladd, a'r ymrafaelio sydd yn fynych yn ein heolydd, ein diod-dai, a'n gwest-dai; a'r lladradau, y chwiliéna, a'r llofruddiaeth sydd yn cael eu cyflawni bob dydd—pan yr ystyriom falchder a gormes y gwyr mawr, ac anymostyngiad dosparthau iselaf cymdeithas—pan y gwelom weddwon ac aniddifaid yn dioddef anghyfiawnder; y rhinweddol yn cael eu herlid a'u gorthrymu; y dynion goreu yn gwywo ymaith mewn tlodi ac angen; ynfydion, diriaid, a gormeswyr, yn gloddesta mewn cyfoeth a llawnder; gweithredoedd cariad yn ddisylw; troseddau yn ddigosp; a'r dynion gwaethaf yn cael eu dyrchafu i sefyllfaoedd o urddas ac anrhedd,—ni allwn lai nac addef fod y byd moesol yn dangos golygfa o anghysondeb ac annhhrefn ag sydd yn ddinystr i holl fwynhad synwyrol a meddyliol dyn.

Y fath, gan hyny, ydyw agweddau moesol y byd, a'r anphrefn sydd wedi parhau drwy bob cyfnod o'i hanesyddiaeth. Y mae yn eglur ddangos gwrth-gyferbyniad rhyfeddol a'r prydferthwch a'r cysondeb sydd yn cael ei ddangos drwy holl ranau y gyfundrefn ddefnyddiol—â symudiadau rheolaidd y planedau, dilyniad cyson dydd a nos, ac ymddangosiad y tymhorau; newidiadau y lleuad; llanw a thrai y môr; trefniadau cywrain y ffurfiad dynol; a chyfaddasrwydd cyson goleuni a gwres, awyr a dwfr, a'r amrywiol wrthrychau sydd yn y dosparth mwnyddol a hydyfol, ar gyfer angen a chysur y creaduriaid bywiol. Ac a allwn ni dybied am foment mai yr olygfa hon o annhrefn a chymysgedd oedd y dyben eithaf at yr hwn y crewyd y cysawd naturiol? A allwn ni dybied fod y ddaear yn cael ei gyru yn ei chylchrodau blynnyddol a dyddiol gan law Hollalluogrwydd—ei bod yn dangos prydferthion newydd bob gwanwyn, ac yn dwyn ei thrysorau y cynhauaf, ac yn dangos y fath dir-ddarluniau amrywiaethol a theg—fod yr haul yn tywallt ei oleuni ar y gororau, a'r lloer yn disgleirio cysgodion y nos, a'r ser yn addurno ffurfafen y nef, o'r naill genhedlaeth i'r llall, yn unig i'r dyben o roddi cysle i blaid o ladron, a gorthrymwyr, a llofruddion cenhedoedd gael crwydro dros wyneb y byd i'r dyben o ddisstrywio a lladd; fel y byddai i ormeswyr gael boddhau eu hawydd gwallgof, a drygioni i orchfygu, a rhinwedd i gael ei ddirmygu; fel y byddo i ddeddfau trefn foesol gael eu mathru dan draed, ac fel y byddai i genhedloedd dilynol dynolryw ymgymysgu yn y tryblith, a'r olygfa o anghysondeb am ychydig o flynyddoedd; ac yna suddo yn dragwyddol yn nghyngodion dihanfodedd? Eto, y fath gasgliad a fyddai raid i ni dynu, os nad oes sefyllfa ddyfodol, yn yr hwn y bydd i annhrefn presenol y byd moesol gael ei gywiro, a chynllun Dwyfol lywodraeth gael ei lawn egluro. Ac os addefir y casgliad hwn, pa fodd y gallwn ni ganfod, neu amddiffyn *doethineb* y Creawdwr, yn ei weinyddiadau moesol? Ni a'i cyfrifem yn ynfydrwydd mewn dyn a gynlluniai beiriant heb fod yn ateb yr un dyben, neu o leiaf, yr un dyben *da*, neu a fyddo yn cefnogi drygioni. A pha fodd y gallwn ochel priodoli y fath anmherfeithrwydd i'r Duwdod, os sefyllfa bresenol y byd moesol ydyw dyben eithaf ei hol drefniadau naturiol? Ond y mae ei ddoethineb wedi ei amlygn yn y modd mwyaf tarawiadol yn nghyngodion ddefnyddiol ei drefniadau, a berthynant i'r gyf-

undrefn ddefnyddiol; a rhaid barnu am Fôd yn meddianu ar ddeall anfeidrol, y byddai iddo weithredu mewn *cysondeb* âg ef ei hun. Ni allai efe ddangos doethineb yn y gyfundrefn ddefnyddiol, a ffolineb yn y trefniadau a berthyn i fyd y meddwl. Tybied yn wrthwyneb a fyddai ei ddiosg o'i berffeithderau moesol, a hyd yn oed amheu ei fodoliaeth.

Yr ydym yn cael ein harwain gan hyny, o angenrheidrwydd i gasglu, nad yw sefyllfa bresenol y byd moesol ond rhan fechan o gynllun eang llywodraeth foesol Duw,—dechreuad cyfres o oruchwyliaethau sydd i gael eu cwblhau mewn sefyllfa ddyfodol o fodolaeth, yn yr hwn y bydd i'w *ddoethineb*, yn gystal a'i holl briodoleddau eraill, gael eu cyflawn amlygu ger bron ei greaduriaid dealgar. Os addefir y casgliad hwn, y mae yn hawdd deall pa fodd y gellir unioni yr holl anghysonderau moesol sydd yn awr, mewn byd arall, ac adferu y greadigaeth ddeallgar i gysondeb a dedwyddwch; a pha fodd y bydd y goruchwyliaethau moesol hyny, sydd yn awr yn ymddangos yn dywyll a dirgel, i arddatgan Dwyfol Ddoethineb a Deall, wrth eu hystyried fel rhanau o un trefniant cyffredinol, sydd i gydreddeg â thragwyddoliaeth ei hun. Ond os gwedir hyn, y mae y byd moesol yn dangos i'n golwg gymsgedd, tryblith, a golygfa ddiderfyn o annhreftn anesboniadwy, heb yr un gobaith am ei adferu i gysondeb a threfn. Y mae ymddygiad y Duwdod yn ymddangos wedi ei orchuddio â thywyllwch annhreiddiadwy; ac ni ellir atal y casgliad o fod anmherfeithrwydd a ffolineb yn nodweddau yr Hollalluog—casgliad ag y mae y meddwl yn cilio yn ol mewn dychryn wrth ei dybio, ac na ellir ei addef byth gan unrhyw gredur rhesymol a gydnabyddo fod Dealltwriaeth Goruchel yn llywyddu dros amgylchiadau y byd mawr.

DOSPARTH IX.—AR DDOSPARTHIAD ANGHYFARTAL GWOBR
WYON A CHOSPAU YN Y SEFYLLFA BRESENOL.

Y mae dosparthiad anghydraddol gobrwyon a chospau yn y byd hwn, wrth eu hystyried yn eu cysylltiad â chyflawnder a phriodoliaethau eraill y Duwdod, yn ffurfio rheswm cryf arall dros athrawiaeth sefyllfa ddyfodol.

Addefir, i raddau penodol, fod “rhinwedd yn hunan wobrwyad, a drygioni yn hunan gosp.” Tuedd naturiol rhinwedd,

neu ufudd-dod i ddeddfau Duw, ydyw dwyn dedwyddwch ; a phe ei hymarferia yn gyffredinol, dygai y gradd uwchaf o ddedwyddwch ag y mae y natur ddynol, yn ei sefyllfa bresenol, yn alluog o'i fwynhau ; felly, tuedd naturiol drygioni yw dwyn trueni, a phe byddai yr arferiad o hono yn gyffredinol a pharhaus, caffai y byd ei droi yn gymdeithas o ddiasliaid, a phob math o ddedwyddwch ei ddeol o blith dynion am byth. Trwy gysylltu dedwyddwch wrth ufudd-dod i'w ddeddfau, a thrueni wrth y troseddiad o honynt, y mae Llywydd y byd yn *nhrefn gyffredinol* ei ragluniaeth, yn dangos uniondeb ei gymeriad, ac anmhleidgarwch ei ddarpariadau ar gyfer deiliaid ei lywodraeth.

Ond er fod y gosodiadau hyn yn wirionedd yn *nhrefn gyffredin* achosion dynolryw, y mae lluaws o amgylchiadau yn y rhai yr ymddangosai cyflawnader Duw, a didueddrwydd ei weinyddiadau yn agored i'w beio, pe y byd hwn fyddai unig le gwobr a chosp. Yr ydym yn canfod rhyw greadur truenus tlawd, yr hwn y byddo angen wedi ei yru i dori tŷ, er diwallu ei archwaeth newynog, neu i ddigoni teulu di-amddiffyn, yn cael ei lusgo at y crogbren, i ddioddef marwolaeth am ei drosedd. Yr ydym ar yr un pryd, yn gweled y gorthrymwr, wrth orchymyn yr hwn y byddo y ddedryd wedi cael ei gweinyddu, yr hwn a fyddo wedi ysbeilio taleithiau, a llofruddio miloedd o deuluoedd, ac wedi achosi dychryn ac anobaith cyffredinol lle yr elai, yn difyru ei hun yn nghanol ei gyfeillion mewn perffaith ddiogelwch oddiwrth bob cospedigaeth ddynol. Yn lle cael ei lwytho a llyffetheiriau a'i lusgo i ddaear-gell, i ddisgwyl mewn poen am gospedigaeth ei droseddau, y mae yn byw yn nghanol gloddest a gwychder ei balas, a'i holl gymydogion yn ymgais am ei ffiwr ; ei glod yn cael ei dderchafu gan areithwyr a beirdd ; hanes ei orchestion yn cael ei gerfio mewn pres a marmor ; a haneswyr yn barod i drosglwyddo ei enw i gehedlaethau dyfodol. Pa fodd y mae uniondeb y Dwyfol lywodraeth yn ymddangos yn y fath achosion, wrth oddef cosp annheilwng i gael ei gweinyddu ar y troseddwyr lleiaf, ac wrth bentyru mwyniant anhaeddianol ar yr adyn gwaethaf ?

Eto, yn mhob oes o'r byd o'r braidd, yr ydym yn gweled y dynion duwiolaf a mwyaf defnyddiol, yn dioddef y triniaethau mwyaf annheg a chreulawn, oddiar ddwylaw gormeswyr beilchion ac erlidwyr gwaedlyd. Gofynai gyfrolau i ddarlungo yr offer creulondeb a ddyfeisiwyd gan yr anghenfilod ellylaidd,

a'r poenydiau dirfawr a ddioddefodd gwrthrychau eu traïs ; tra yr oedd cyfiawnder megis yn cysgu ; a'r rhai a gyflawnent y troseddau yn ymogoneddu yn eu drygioni. Yr oedd y Waldensiaid, a breswylient rhwng llethrau noethion yr Alps, ar neillduaeth oddiwrth eraill, yn hynod am eu diuwieldeb a'u diwydrwydd, a phob rhinwedd moesol. Trwy eu llafur diflino, darfu iddynt wrteithio y tir, a'i barotoi at hadyd a phorfa. Yn ysdod dau cant a haner o flynyddoedd, cynhyddasant i ddeunaw mil o nifer, gan feddianu deg-ar-hugain o bentrefi, heb law treflanau bychain o waith eu dwylaw en hunain. Nid oedd ganddynt offeiriadon rheolaidd, nac unrhyw ddadleuon yn ngylch crefydd ; ac nid oedd achos am lysoedd cyfreithiol yn eu plith, oblegyd ni oddefai cariad brawdol iddynt fyned i gyfreithio. Addolent Dduw yn ol cyfarwyddyd eu cydwybodau, a rheolau ei air, ufuddhaent i orchymynion y gyfraith, gan fwynhau hyfrydwch cymdeithasol mewn serch-ogrwydd a chariad. Eto, daeth y bobl heddychol a rhagorol hyn yn ebyrth i'r erlidigaeth mwyaf creulawn a gwaedlyd. Yn y flwyddyn 1540, collfarnodd seneddol Provence bedwar-ar-bymtheg o honyn i gael eu llosgi am heresi ; eu coed i gael eu diwreiddio, a'u tai i gael eu chwalu yn gydwastad a'r llawr. Gwedi hyny codwyd erlidigaeth greulon yn erbyn yr holl bobl hynod hyn, ac anfonwyd byddin o greaduriaid anwar i gyflawni yr camcan uffernol. Dechreuodd y milwyr drwy lof-ruddio yr hen bobl, y gwragedd, a'r plant ; y rhai a allent ffot a ffoisant ; ac yna ymosodasant ar losgi eu tai, eu hysgubor iau, eu hyd, a'u holl feddianau. Yn nhref Cabriere, llofrudd-iwyd tri-ugain o wîr, a deg-ar-hugain o wragedd, y rhai a ymostyngent ar addewid o gael eu bywyd, ond heb drugaredd. Llusgywyd rhai gwragedd oedd wedi cymeryd eu noddfa mewn eglwys allan, a llosgywyd hwynt yn fyw. Darostyngwyd dau-ar-hugain o bentrefi yn lludw ; a dychwelwyd y fro lwyddianus a phoblog hono eilwaith yn ddiffaethwch unig. Eto, wedi cyflawni yr holl alanastra hyn, goddefwyd yr offeiriad beilchion a thrahaus, wrth gyfarwyddyd y rhai y codid yr erlidigaeth, i fyw mewn gwychder, ac i ymgodi ar draul darostwng ebyrth eu creulondeb, i loddesta mewn palasau, ac i fwythfoddio eu hunain yn yr afradlonedd mwyaf gwarthus. Os y byd hwn yn unig ydyw sefyllfa gwobr a chosp, pa fod y gallwn amddiffyn uniondeb yr Hollalluog yn y goruchwyliaethau hyn ?

Yn nheyrnasiad-Louis XIV., a thrwy orchymyn y gormeswr hwnw, trinid Protestaniaid Ffrainge gyda'r creulondeb mwyaf gwaradwyddus. Yspeiliwyd eu tai, darostyngwyd eu gwragedd a'u merched yn ngwydd eu llygaid, a gosodwyd y poenydiau mwyaf ofnadwy ar eu cyrph a allai malais ei ddychmygu. Y milwyr a anfonwyd i gyflawni y genhadaeth ofnadwy, a'u llusgasant yn erbyn gwallt eu penau, tynasant ymaith ewinedd eu bysedd a'u bodiau, pigasant eu cyrph noeth a nodwyddau, mygasant hwy yn y ffumerau â sypiau o wellt gwlyb, taflwyd hwy i danau, gan eu dal yno nes yr oeddynt bron y llosgi, eu gollwng i bydewau dwfr, eu suddo i byllau, gafael ynddynt â gefeiliau poethion, eu harcholli a chyllyll, eu curo a'u poenydio i farwolaeth yn y modd mwyaf creulon a di-drugaredd. Crogwyd rhai ar brenau, drylliwyd eraill ar olwynion, gadawyd y cyrph darniog heb eu claddu, neu cawsant eu taflu i lynau a thomenydd, a phob nôd o gasineb a dirmyg. Cymerodd Mareschal Montrevel ran gyhoeddus yn y gweithredoedd barbaraidd. Llosgodd bum cant o wîr, gwraggedd, a phlant, y rhai gynullasent yn nghyd mewn melin i weddio a chanu mawl. Torfynyglodd bedwar cant o'r dychweledigion ieuangc yn Montpelier, a boddwyd eu gwraggedd a'u plant yn yr afon, yn gyfagos i Aignes Morters. Eto, y gormeswr hwn, yn nghyd a'i weision, y rhai a gynorthwysant yn y gyflafan—yn lle dioddef cosp union cyfiawnder, a barhasant am ddeng-mlynedd-ar-hugain wedi hynny i loddesta yn holl rwysgfawredd brenhindod, gan gytuno ag amodau difrifol, a'u tori pan y mynai; ac yn honi iddo ei hun barch dwyfol; a'r haneswyr yn lle nodi ei goffadwriaeth â gwarth, yn enill iddo yr enw *Louis the Great*.

Gellid casglu mil o siamplau eraill cyffelyb oddiwrth gofnodau hanesyddiaeth ddiweddar, pe byddai yn angenrheidiol, er egluro y pwnc. Y creulonerau echrydus a wneid ar breswylwyr Protestanaidd y Netherlands, gan swyddogion Charles I. a Philip II. o Spaen, pryd y cigyddiwyd dros gan mil o wîr cyfrifol heb drugaredd, gan Ddugiaid Alva a Parma, am eu glyniad wrth grefydd y Diwygwyr—y llofruddiaethau echrydus a wnaed ar ddydd St. Bartholomew yn Paris, a thrwy holl daleithiau Ffrainge—erlidigaethau y Protestaniaid yn Lloegr yn amser teyrnasiad y Frenhines Mary, pan y goleuwyd tanau Smithfield i ysu cyrph y dynion duwiolaf a pharchusaf—llofruddiaeth y Gwyddelod yn amser Charles I., pan y

lladdwyd deugain mil o bobl ddiniweid, a hyny gyda phob math o greulondeb ffyrnig—yr erlidigaeth a ddioddefodd Presbyteriaid Scotland, pan y gyrwyd hwy o'u tai, ac yr heliwyd hwy fel anifeiliaid y mae, gan Claverhouse waedlyd a'i filwyr creulawn—y miloedd o ddynion rhinweddol a syrthiasant yn ebyrth i'r fflamau, ac i'r poenydiau creulawn a roed arnynt gan Chwil-lyswyr Yspauen, tra y goddefid i'w herlidwyr beilchion i loddesta ar ysbeiliau cenhedloedd—creulondderau atgas ymerawdwyr Mogyl yn eu rhyfeloedd gwaedlyd—y dinestr a gyflawnwyd gan y gormeswyr Persaidd—llofruddiaeth y Gardiotes, gan Ali Pacha, a thrigolion Scio, gan y Tyrciad ffyrnig,—nid ydynt ond ychydig hanesion o filoedd ag y mae cofnodau hanesyddiaeth yn eu mynegi, am ddynion yn dioddef y triniaethau mwyaf creulawn ac anghyflawn, tra yr oedd ei herlidwyr gorthrymus yn cael eu goddef i ddilyn eu gorchwylion dïeefig, heb deimlo y gosp gyflawn iddynt am eu troseddau. Pan y cymerom olwg ystyriol ar y cyfan o'r holl hanesion cysylltiedig a'r fath ffeithiau, yr ydym yn cael ein harwain yn naturiol i waeddi, "Pa ham y mae yr annuwiol yn byw, yn estyn ei ddyddiau, ac yn ymgadarnhau mewn nerth? Onid oes gwobr i'r cyflawn? ai nid oes cospedigaeth i weithredwyr anwired? ai nid oes Duw a farna ar y ddaear?" Ac yn wir, pe na byddai yr un ad-daliad tu draw i derfynau y bywyd presenol, byddai raid i ni addef un o'r ddau gasgliad canlynol, —naill, ai nid oes yr un Llywodraethwr Moesol ar y byd; neu, mai nid cyflawnder a barn yw trigfa ei orseddfaingc ef.

Pan y cymerwn olwg ar y byd moesol o'n hamgylch, fel y mae yn awr, y mae yr un canlyniad yn ymosod ar ein meddwl. Pan yr edrychom, ar un llaw, ar bleidiwr rhinweddol a chyflawn crefydd yn ymryson mewn tlodi a thrueni, yn cael ymddwyn tuag ato gyda dirmyg, ei erlid yn achos ei uniondeb a'i grefydd, distrywio ei fwyniant daearol, a'i gollfarnu i farwolaeth warthus; ac ar y llaw arall, pan y gwelom yr halogedig a'r gorthrymus, dirmygwr Duw a'i grefydd, yn treulio ei ddyddiau mewn llawnder ac afradlonrwydd, ac yn gweithio ei ddybenion halogedig yn mlaen, gan ysbeilio y weddw a'r amddifad o'u cysuron penaf—pan y gwelwn ragrith yn llwyddo yn ei gylluniau, a'r gonest a chywir yn cael ei esgeuluso a'i ddibrisio—dinestrwyr ein rhywogaeth yn cael eu llwytho â chyfoeth ac anrhyydedd, tra y mae bendithwyr dynolryw yn nychu ymaith mewn dinodedd a dirmyg—cnafaid ac ynfydion

yn cael eu derchafu i swyddau o urddas ac anrhydedd, a dynion cywir a gwybodus yn cael ymddwyn atynt gyda sarhad, a'u cadw allan o bob sylw—troseddwyr o'r lliw gwaethaf yn diange yn ddigosp, a gweithredoedd rhinweddol, rhy brin yn cael eu cydnabod—pan y canfyddwn ddynion ieuaiingc o rinwedd a deall yn cael eu tori i lawr yn more eu hoes, gydag y byddont yn dechreu bendithio y byd a'u llafur dyngarol; a gormeswyr a gorthrymwyr yn parhau yn bla ar gymdeithas, ac yn estyn eu hoes i henaint yn nghanol eu ffolineb a'u drygioni; dynion yn cael eu tori ymaith oddiwrth eu cyfeillion, a'u cartref naturiol, a'u troi i gaethiwed gwastadol, a'u darostwng yn is na gradd yr anifeiliaid, tra y mae eu gorthrymwyr yn herio cyfreithiau Duw a dyn, ac yn ymdroi mewn llawnder a gwastraff, ac yn llwyddo yn eu troseddau—pan y gwelwn un genedl wedi ei goleuo â llewyrch gwybodaeth, a'r llall wedi ei suddo mewn dygn dywyllwch; un yn mwynhau bendithion gwareiddiad a rhyddid, a'r llall yn gruddfan dan ffianell gormes, ac wedi ei chyflwyno i gaethiwed a rhwymau,—pan y myfyriom ar y fath ffeithiau trwy bob rhan o'r byd moesol, a allwn ni dybied am foment fod yr oruchwyliaeth Ddwylfol wedi ei chyfyngu i olygfa weledig pethau, ac na ddygir mo wir gymeriad dynion i oleuni, bod drygioni i aros yn dragwyddol guddiedig, ac nad yw y rhinweddau ardderchoccaf byth i dderbyn “cyflawn daledigaeth y gobrwy”? Addef y fath ganlyniadau a'n harweiniae ar unwaith i wadu doethineb, daioni, ac uniondeb Rheolwr y byd, neu i dybied y gellid dyrys u ei fwriadau haelfrydus gan ffolineb a drygioni dynion. Ond y mae y fath gasgliad yn gyfeiliornad mor wrthun ac eglur, fel y gellir datgan fod y golygiad cyferbyniol, sef sicrwydd sefyllfa ddyfodol, yn wirionedd *profedig*. Wrth hyny, pe na buasai genym yr un rheswm i'w ddwyn yn mlaen i gadarnhau yr athrawiaeth o daledigaeth mewn byd i ddyfod, buasai hyny yn unig yn ddigonol i ddwyn argyhoedd-iad i bob meddwl sydd yn cydnabod Bôd Deallgar Goruchel, ac y byddo ganddo olygiadau priodol ar y priodoliaethau sydd yn anhebgorol i'w harddangos yn ngweinyddiad ei lywodraeth foesol.

Pan unwaith yr addefir y casgliad hwn y mae pob dyrys u yn cael ei egluro, a phob anhawsder yn cael ei symud ag sydd yn codi yn naturiol yn y meddwl, pan y myfyriom ar sefyllfa annhhrefnus bresenol y byd moesol, a'r ymddangosiad sydd

yn ddo o ddosparthiad annheg ar wobr a chosp. Gwedi cael iawn olwg ar y gwirionedd pwysig hwn, ni raid i ni ryfeddu dim at gyfraniad anghyfartal o roddion Duw yn mysg amrywiol genhedloedd a llwythau dynolryw; gan nad ydynt eto ond megis wedi eu gosod yn sefyllfa gyntaf eu bodolaeth, a bod y byd tragicwyddol yn gyflawn o fanteision i gwblhau pob peth ar gyfer y diffygion a'r anghyfartaledd sydd yn awr. Nid oes yr un achos i ni ymlenwi â thrallod pan y canfyddwn yr ieuangc, duwiol a defnyddiol, yn cael ei dori i lawr yn nghanol ei ddyddiau, gan y bydd i'r blagur hwnw o rinwedd a ddechreui ymagor gyda'r fath bryderthwch yn y bywyd hwn, gael ymêangu eto, a dwyn rhagorach ffrwythau cyfiawnder yn y bywyd annherfynol. Ni byddai raid i ni ryfeddu dim pan y gwelom orthrymwyr a dynion halogedig yn llwyddo, a rhai rhagorol y ddaear yn cael eu mathru dan draed, gan yr arddengys y byd dyfodol olygfa o weinyddiad uniondeb, yn yr hwn y troir dagrau y cyfiawn yn llawenydd, a gorfoledd yr annuwiol yn ddyrysych a gwarth, ac y bydd pob un yn cael ei wobrwyd yn ol ei waith ei hun. Ni ddylem feichio ein meddwl â thybiau amheul yn nghylch doethineb ac uniondeb goruchwyliaethau Rhagluniaeth, gan fod llywodraeth foesol Duw yn estyn dros derfynau y byd hwn; ac y bydd i'w holl gymysgfa dywyll a dyrus gael eu dadlenu yn foddhäol yn ngoleuni y byd tragicwyddol.

"Y bythol gynnllun mawr

Gynhwysa bawb, gan uno'n berfaith oll,
Yn ol rhagolwg wrth ymledu'n mlaen,
I lygad Pwyll ymddengys yna'n glir.—
Pryd hyn y cenzfodd pawb yr achos pa'm
Bu gwir Deilyngod fyw yn nghudd dàn len,
A marw'n unig brudd. Pa fod bu rhan
Y da mewn chwerwder enaid yma'n byw,
A hithau'r weddw, a'i rhai bach dan loes,
Yn druan ac yn noeth; ac Afraid yn
Y llysoedd gwych, mewn dyfais i barhau
Yn llunon angen heb ei fod; pa ham
Y bu Gwirionedd pur, sy'n llentyn nef,
A Chymedroldeb deg, yn gwisgo nod
Dan fflangell lem Coel-grefydd; ie, pa ham
Do'i gofid dwys, y gelyn creulawn hwr,
I chwerwi'n gwynfyd oll. Chwi enwog rai,
Er trallod dwys, a sai'n anhyblyg iawn
Dân bwys y byd, goddefwch enyd bach,
A'r hyn na ellwch weled ond o ran.
Fal drwg o bell, a dderfydd eto'n llwyr;
Y stormydd geirwon tynhor Gauaf aint
Yn gyflym heibio mwya, a Gwanwyn teg
Diderfyn a gylchyna oll."—"Y Gauaf," gan THOMSON.

Fel hyn yr ymddengys, er fod Duw yn ffodd gyffredin ei ragluniaeth wedi cysylltu dedwyddwch wrth ufuod-dod i'w ddeddfau, a thrueni wrth y troseddiad o honyn, i'r dyben o ddangos uniondeb ei natur a'i gasineb at bechod—eto, ar yr un pryd, ei fod, mewn amrywiol amgylchiadau, wedi goddef i ddrygioni orchfygu, a rhinwedd gael ei erlid a'i orthrymu, er ein hargyhoeddi nad yw ei lywodraeth ar ddynion wedi ei gyfyngu i derfynau amser, ond ei fod yn ymestyn i'r byd dragwyddol, lle y bydd i drefniant ei weinyddiad moesol gael ei gwblhau, ei ddoethineb a'i uniondeb eu cyflawnhau, a ffyrdd dirgelaidd ei ragluniaeth eu cyflawn amlygus.

Gellid egluro yr ymresymiad hwn yn mhellach oddiwrth yr ystyriaeth o'r galluoedd moesol sydd wedi eu planu yn nghyfansoddiad dyn, y rhai sydd ganddynt holl rym y deddfau moesol sydd yn dyfod oddiwrth Lywydd y byd. Y mae y gwahaniaeth sydd rhwng da a drwg, a rhinwedd a throsedd, yn seiliedig ar natur pethau, ac a welir yn eglur gan bob deiliad deallgar, na byddo ei deimladau moesol wedi eu cwbl bylu gan ymarferiadau pechadurus. Pe byddai i ddyn honi nad oes dim gwahaniaeth rhwng uniondeb ac anghyfiawnder, cariad a chasineb, gwirionedd a thwyll—nad yw ond yr un peth i ni pa un a wnelom, ai bod yn ffyddlawn i gyfaill, ai ei fradychu i'w elynion; pa un a wnelo gweision, ai ymddwyn yn onest at eu meistriaid, ai eu hysbeilio o'u heiddo; pa un a wnelo llywodraethwyr, ai gorthrymu eu deiliaid, ai cefnogi eu daioni; a pha un a wnelo rhieni, ai meithrin eu plant gyda thynerwch, ai eu mygu yn y cryd—cyhoeddid y dyn hwnw ar unwaith gan bawb yn ynfyd ac yn wallgof, gan ei hwtio allan o gymdeithas. Y mae y gwahaniaeth rhwng y fath ymddygiadau yn dragwyddol a digyfnewid, ac y mae pob deiliad moesol wedi ei gynysgaeddu â galluoedd i'w ganfod. Gallwn ddewis cyflawni y naill fath o weithredoedd, ac ymgadw rhag y llall; gallwn gydsynio â llais cydwybod sydd yn ein hatal rhag y naill, ac yn ein cymhell at y llall; neu, ni a allwn wrthwynebu ei chymhelliadau, a gallwn farnu pa un a fyddo ein gweithredoedd yn haeddu gwobr neu gosp. Yn awr, os ydyw Duw wedi ein cynysgaeddu â galluoedd moesol i ganfod a gweithredu, a ydyw yn rhesymol i ni dybied nad ydyw o unrhyw bwys i ni pa un a wnelom ai ufuodhau ai anufuddhau i'r deddfau a luniodd efe? A allwn ni byth dybied ei fod Ef sydd yn llywyddu y byd yn Edrychydd di-

fater ar y gweithredoedd da neu ddrwg a fyddo yn cymeryd lle yn ei deyrnas? neu ei fod wedi gadael dyn yn gwbl ddíataliad i fyned yn ol ei dueddiadau, pa un bynag a fyddont ai da ai drwg? Os na ellir addef y fath dybiaeth, yna, o ganlyniad, rhaid fod dyn yn gyfrifol am ei ymddygiadau, a'i fod yn osodiad penodol yn y Llywodraeth Ddwylfol y dygir pob gweithred i farn, ac y cospir neu y gwobrwyir pob creadur yn ol ei weithredoedd. Ac os ymddengys, felffaith, nad yw y cyfryw ad-daliadau yn cael eu cyflawn weinyddu yn y sefyllfa bresenol, na dim gwahaniaeth gweledig yn cael ei wneuthur rhwng y cyflawn a'r drygionus, rhaid i ni addef y canlyniad, fod gweinyddiad cyflawn ac uniawn gwobr a chosp yn cael ei gadw i fydd arall, pan y gwneir gwahaniaeth gwelodig a thragwyddol rhygddyd, ac y bydd i'r holl greadigaeth ddeallgar weled yn amlwg fod gwahaniaeth rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw, a'r hwn nis gwasanaetho ef.

DOSPARTH X.—AR YR ANGHYSONDEB O DYBIED Y BYDD I'R EGWYDDOR FEDDYLGAR SYDD MEWN DYN BYTH GAEL EI DILEU.

Y mae yn hollol afresymol, os nid yn wrthun, i ni dybied y bydd i'r egwyddor feddylgar sydd mewn dyn gael ei difodi byth.

Cyn belled ag y mae ein gwybodaeth ni am y byd mawr yn cyrhaedd, nid ymddengys fod cymaint ag un dihanfodiad wedi cymeryd lle mewn unrhyw amgylchiad trwy yr holl fyd defnyddiol. Nid oes genym yr un achos i gredu fod yr un llwchyn, drwy yr holl afrifed bydoedd sydd yn yr éangder mawr, erioed wedi ei ddiddymu, ac na bydd y fath beth byth. Ymddengys yn dra thebygol oddiwrth amryw ystyriaethau fod gwaith creadigaeth yn myned rhagddo yn barhaus yn ardaloedd pellenig y byd, a bod y Creawdwr yn addurno y gwagleoedd yn yr éangder â bydoedd newydd, ac â graddau newyddion o greaduriaid deallgar; ac y mae yn rhesymol i ni farnu oddiwrth weithrediad diorphwys Ddwylfol Hollallog-rwydd, y bydd cysawdau newyddion yn cael eu dwyn i fodolaeth tra y treiglo oesau tragwyddol yn mlaen. Ond ni ddygyddodd yr un amgylchiad eto i unrhyw drefniant, neu

ran o ddefnydd, yn y nef nac ar y ddaear, gael ei droi i ddi-ddymdra. Y mae yn wir fod *cyfnewidiadau* yn cymeryd lle yn barhaus, yn ddirif, drwy bob rhan o naturiaeth. Y mae brychau yr Haul, gwregys Jupiter, wyneb y Lloer, modrwyau Sadwrn, a gwahanol barthau y nefoedd serenol, yn cyfnewid ac yn amrywio yn eu golygiad yn fynych. Ar y ddaear, y mae y mynyddau yn gostwng i'r llawr, ogofeydd yr eigion yn llanw i fynu, ynysoedd yn ymgodi o waelod y môr, ac yn suddo eilwaith i'r dyfnader; y mae yr eigion yn fynych yn symud ei derfynau, a'r coed, y planhigion, a'r yd, yn addurno llawer cymydogaeth a fu unwaith yn cael eu gorchuddio gan dònau y môr. Y mae daeargrynfäau wedi gwneud dinystr mynuch; mynyddau tanllyd wedi gorchuddio maesydd ffirwyth-lawn gyda chawodydd o'u llosg, a hyd yn oed y graig gadarn yn nghrombil y ddaear wedi plygu a rhwygo gan weithrediad rhyw allu mawr. Y mae yr awyrgylch anweledig hefyd yn myned dan gyfnewidiadau a chwyldroadau parhaus drwy gymysgiad a dadgysodiad ei helfenau, anadliaid anifeiliaid, gweithrediad y tarth, ymosodiad y gwynt, a dylanwad goleuni a gwres, a'r hylif gwefrol a thyniadol. Y mae y llysiau hefyd yn wastadol yn tyfu i fynu i'w maint, neu ynte yn syrthio i wywdra yn ol. Nid oes yr un tebygrwydd rhwng yr hadau a'r planhigion. Y mae yr hedyn bychan, heb fod y ddegfed ran o fodfedd o dryfesur, wedi pydru am enyd yn y pridd, yn taflu i fynu fonyff mwy ddeng mil o weithiau na'r tyfiad a fyddo wedi rhoddi bywyd iddo, ac y mae yn lledu ei gangau yn ddigon i fod yn gysgod i adar y nef. Y mae y llwythau bywiol hefyd mewn sefyllfa o gyfnewidiadau parhaus, naill ai o fabandod i ganol-oed, a henaint, neu o'r naill gyflwr o fodolaeth i'r llall. Y mae y lindys yn mlaenaf yn *wy*, yna yn ymlusgiad, ac eilwaith y mae yn myned dan gyfnewidiad nes dyfod yn bryfyn, wedi ei addurno â'r lliwiau mwyaf disglaer. Y mae y chwilen yn llechu yn y ddaear, lle y gesyd ei hwy, o'r hwn y mae yr eppil cyn hir yn ymlusgo yn gele, ac yn bwrw ei groen ymaith bob blwyddyn, ac ar y bedwaredd flwyddyn y mae yn tori allan o'r ddaear, yn lledu ei edyn, ac yn hwyliau mewn hyfrydwch yn awel y nef. Y mae yr anifeiliaid a'r llysiau yn ymgymysgu â'u gilydd yn rhyfedd drwy ddilyniant o gyfnewidiadau yn barhaus. Y mae yr anifail yn cynyrch maeth i'r llysiau, ac y mae amrywiol ranau yr anifail yn cael eu cyfansoddi o ddefnydd wedi ei dynu o'r llysiau.

Y mae gwlan y ddafad, corn y fuwch, danedd y llew, plu y paun, croen y carw—ie, hyd yn oed ein dwylaw a'n traed, ein llygaid a'n clustiau ni ein hunain, gyda pha rai yr ydym yn gweithio ac yn cerdded, yn gweled ac yn clywed, a'r gwaed coch sydd yn cylchredeg drwy ein gwythienau—oll yn tarddu o'r llysiau a'r planhigion a fu unwaith yn tyfu yn y maes, ag sydd yn arddangos yn llythyrenol wirionedd yr hen ddywediad, “Pob cnawd sydd wellt.”

Eto, er hyn i gyd, yn nghanol y cyfnewidiadau a'r ad-ffurf-iadau amrywiog a pharhaus hyn, nid oes yr un engraifft o ddihanfodedd wedi ymddangos erioed i lygad y craffaf ei olwg. Pan yr elo dernyn o'r glo dan gyfnewidiad llosgiad, y mae ei ffurf gyntaf yn colli o'r golwg, a'i wahanol ranau yn cael eu chwalu, ond y mae y defnyddiau o ba rai y byddo yn cael ei gyfansoddi eto ar gael. Y mae rhan yn cael ei droi yn wres, a rhan yn agerdd, yn fwg, *tar*, a llwch, ond y maent yn ymgysylltu â defnyddiau eraill yn fuan. Pan y byddo llysiau yn marw, neu yn cael eu dadgysodi gan y gwres neu yr oerni, y maent yn ymffurfio i'w helfenau dechreuol yn fuan, mewn gwres, goleuni, *hydrogen*, *oxygen*, a *carbon*, y rhai sydd yn myned oll i gysylltiadau newyddion, ac felly yn cynorthwyo i ddwyn yn mlaen ddybenion Rhagluniaeth mewn dosparthau eraill o'r greadigaeth. Ond y mae yr holl gyfnewidiadau hyn mor bell o filwrio yn erbyn yr athrawiaeth o barhad dyfodol dyn, fel y maent, mewn gwirionedd, yn brofion tebygol o'i anfarwol dynged. Obliged yn nghanol y cyfnewidiadau dilynol sydd yn myned yn mlaen drwy holl naturiaeth yn gyffredinol, yn eu holl ddosparthau, nid oes yr un llwchyn o ddefnydd yn colli, neu yn cael ei ddiddymu, ac felly y mae yn holol annhebygol y bydd i'r egwyddor feddylgar sydd mewn dyn gael ei distrywio drwy y cyfnewidiad sydd yn cymeryd lle arno ar foment ei ddatodiad. Efallai nad yw y cyfnewidiad hwnw, pa mor bwysig bynag y byddo i'r hwn a fyddo yn ei brofi, yn fwy rhyfeddol na dirgeledig na'r cyfnewidiad sydd yn cymeryd lle yn y gwahanol gyflyrau o fodolaeth ag y mae y prif yn agored iddynt. Y mae y creadur hwnw, fel y crybwylwyd eisoes, ar y cyntaf yn *ûy*, ac mor wahaniaethol yr ymddengys pan y delo yn ymlusgiad byw? Gwedi bod am beth amser yn y cyflwr hwnw y mae yn fuan yn dechreu huno, ac o'r diwedd yn marw, mewn ymddangosiad; y mae yn cael ei amdoi mewn bedd, ac yn ymddangos yn gwbl am-

ddfifad o fywyd a theimlad. Yn mhen amser penodol y mae yn cael ei adfywio drachefn, yn tori allan o'i gaethiwed, ac yn ymddangos mewn ffurf ardderchoccach; y mae yn lledu ei adenydd, ac yn marchog ar y gwynt, ac yn ymdaith yn yr awyr. Ac onid yw yn rhesymol i ni gredu, oddiwrth debygoliaeth natur, nad ydyw dyn yn ei sefyllfa bresenol, ond megis *elfenau dechreuoel* o'r hyn a fydd mewn sefyllfa o fywyd éangach rhagllaw? a phan y bydd i'r corph gael ei ddatod yn angau y bydd i'r enaid gymeryd ei ehediad awyrol i gyflwr nefol, a gwisgo anfarwoldeb, a dyfod yn "llawn llygad a chlust, a theimlad ysprydol?"

Wrth hyny, gan nad yw diddymiant yn un rhan o gynllun y Creawdwr yn y byd naturiol, a ydyw yn rhesymol i ni dybied fod trefniant o ddihanfodedd mewn dilyniad parhaus yn y byd meddylgar? fod Duw bob dydd yn creu miloedd o feddyliau, wedi eu donio â'r galluoedd éangaf, ac ar yr un pryd yn troi miloedd o'r rhai a grëodd yn flaenorol i dragwyddol ddistrywiad? A fydd i'r greadigaeth ddefnyddiol barhau yn nghanol ei hamrywiaeth o gyfnewidiadau, ac i'r creadur ardderchog hwn, *er mwyn yr hwn y crewyd y bydysawd*, gael ei dori ymaith yn ei fabandod, a'i drosglwyddo i dragwyddol angof? A ydyw yn gyson â rheswm cyffred n i addef y bydd i *ddefnydd* barhau yn hŵy na *meddwl*, yr hwn sydd yn rhoddi ysgogiad a phrydferthwch i bob golygfa ddefnyddiol? A gaiff adeiladau ardderchog St. Paul a St. Peter oroesi dinystri amser, ac arddangos eu cydweddiad hardd i genhedlaethau dilynol, tra y byddo Wren ac Angelo, y celfyddydwyr a'u cynlluniodd, wedi eu dychwel i gyflwr priddellau y daffryn? A gaiff "*Novum Organum*" Bacon, ac "*Optics*" a "*Principia*" Newton, dreiglo yn mlaen i oesau dyfodol, i ddabliyu eu hymchwiliadau rhyfeddol, tra y byddo y meddyliau disglaer a'u dygodd allan wedi eu goblygu i fynu yn nhywylwch bythol nos? Ymddengys yr anghysondeb mwyaf gwrthun mewn addef y fath ganlyniad. Ni byddai waeth i ni, o'r bron, gredu y byddai i'r byd hwn barhau yn ei drefn a'i harddwch presenol, serch i'w Greawdwr beidio a bod. "Tybied y byddai i'r Duwdod, wedi iddo gynal y byd i fynu drwy y fath wyrth o allu a doethineb ac a ddangoswyd eisoes drwy yr holl oesau a aeth heibio, ei ollwng i syrthio yn ddrylliau yn y diwedd, er cael mwynhau yr olygfa o weled yr adeilad yn gorwedd yn adfeiliau;" a fyddai y fath ddyben yn deilwng

o anfeidrol Ddoethineb, neu yn gyson â'r meddyliau a ddylem eu meithrin am y Bôd tragwyddol ac anghyfnewidiol ei natur, ag sydd yn meddu perffeithrwydd diderfyn? Ond tybier yn mhellach y bydd iddo *ddifodi* y *naturiaeth resymol*, er mwyn pa un y creodd y byd, a gadael yr adeilad ddefnyddiol eto i barhau, oni byddai hyny yn fwy anghyson fyth â phriodoliaethau Bôd o ddaioni a gwybodaeth annherfynol? Byddai dileu y rhan resymol o'r greadigaeth allan o fodolaeth, a chadw pentwr o anialwch i fynu, yn weithred mor anghyson, fel yr ydym yn teimlo y meddwyl yn arswydo rhag meithrin y fath dybiaeth am Greawdwr anfeidrol Ddoeth a Haelfrydig.

Yr ydym yn cael ein harwain, gan hyny, yn anocheladwy i dynu y casgliad canlynol, "Pan y byddo i'r corph gael ei ddatod, y bydd i'r egwyddor ysprydol sydd yn ei fywioccâu barhau i feddwl a gweithredu, naill ai mewn sefyllfa ar wahân oddiwrth y corph, neu mewn rhyw wisg ddefnyddiol sydd yn perthynu iddo, ag sydd yn ei ganlyn yn angau; neu ynte, y bydd iddo gael ei gadw gan Dad yr ysprydoedd i'r dyben o fywiogi corph eto mewn rhyw sefyllfa ddyfodol." Nid yw yr enaid yn cynwys unrhyw egwyddor o ddatodiad ynddo ei hun, gan mai sylwedd annefnyddiol a digymysg yw; a chan hyny, pe byddai i'r greadigaeth ddefnyddiol gael ei datod, a syrthio yn adfeiliau, eto, gall ei alluoedd ef barhau heb eu niweidio, a'i gynhuddfau "flodeuo mewn tragwyddol ieuengctyd,

Heb niweid mwy,
Yn nghanol rhyfel yr elfenau blin,
Yn nrylliad defnydd, ac yn ninstr llwyr
Y bydoedd mawr."

Ac nid yw y Creawdwr dan unrhyw anghenrheidrwydd i ddi-fodi yr enaid o eisieu modd i gynal ei alluoedd, neu o eisieu gwrthrychau i'w hymarfer arnynt, neu o eisieu lle i gynwys y bodau deallgar dirifedi sydd yn dyfod i fodolaeth yn barhaus; oblegid fod cylch yr eithafoedd anfeidrol yn sefyllfan gweithrediad ei Hollalluogrwydd, a dichon i'r Ymadferth galluog a ddygodd y fath filiwnau o gysawdau i fodolaeth mor hawdded eto gyfoethogi y byd â deng mil o filiwnau yn ychwaneg. Pe buasai angen lle i greadigaeth newydd, y mae digon o wagle i ddeng mil o fydoedd yn ychwaneg yn nghylch-rôd yr haul,

tra y byddai pellder o dros gant a phedwar ugain o filoedd o filltiroedd o wagle rhwng y bydoedd a'u gilydd ; a rhoddai yr eithafoedd anfesurol sydd rhwng ein cyfundrefn ni a'r ser nesaf atom ddigon o le i gylchdroadau miliynau o fydoedd. Gan hyny, er bod i bob enaid ar ei ymadawiad â'r corph i gael ei ddilladu â rhyw wisg ddefnyddiol, y mae lle digonol yn éangder y bydysawd, ac yn hollalluogrwydd y Crëwr, er llawn ymarferiad â'i holl alluoedd, ac at bob mwynhad gofynol er ei ddedwyddwch. Felly, pa olygiad bynag a gymerom ar enaid dyn, a pherffeithderau ei Greawdwr, ymddengys nid yn unig yn annhebygol, ond hefyd yn holol wrthun i dybied y bydd i'r wrechionen o ddealltwriaeth sydd mewn dyn byth gael ei diffodd.

DOSPARTH XI.—AR YRYSTYRIAETHAU PRUDD A'R CANLYN-IADAU GWRTHUN CYNWYSSEDIG MEWN GWADIAD O SEFYLLFA DDYFODOL.

Y mae gwadu athrawiaeth sefyllfa ddyfodol yn cynwys lluaws o ystyriaethau tywyll, a chanlyniadau anghyson.

Os gwrthodir athrawiaeth sefyllfa ddyfodol, y mae dyn yn ymddangos fel dychymyg, yn erthyl, neu anghenfil mewn natur, ei ffurfiad yn anesboniadwy, a dyben ei greadigaeth yn holol anchwiliadau ; y mae y byd moesol yn olygfa o ddyryswhch, a ffyrdd Rhagluniaeth yn dryblith annhreiddiadwy, a'r holl fydysawd yn drefniant éang, dirgeledig, ac anneall-adwy ; a'r Duwdod ei hun yn Fôd na ellir olrhain na deall ei briodoleddau na'i ddybenion.

Tybier, am foment, nad oes yr un fodoliaeth tu draw i'r bedd, ac yna, o ganlyniad, nad yw holl ddarganfyddiadau Datguddiad ond twyll ; ac ystyrir rhai o'r golygiadau trymlyd, a'r canlyniadau echrys, ag y mae y fath dybiau yn arwain iddynt. Mi a dybiaf fy hun yn sefyll mewn agwedd o fyfyrddod difrifol, ac mewn ymofyniad pryderus mewn perthynas i'r amrywiol wrthrychau a'r golygfeydd sydd yn fy nghylchynu, a'r dygwyddiadau a fyddo yn dwyn fy sylw wrth fyned heibio :—

Yn gyntaf oll, yr wyf yn edrych arnaf fy hun, ac yn ymofyn o ba le y daethum ? i ba le yr wyf yn myned ? gan bwy y'm dygwyd i fod ? o ba beth y cyfansoddwyd fy nghorph ?

beth yw natur fy synhwyrau? am yr egwyddor feddylgar a deimlwyf ynof? ac i ba ddyben y dygwyd fi i fodolaeth? Yr wyf yn canfod yn fy ngorph gywreindeb celfyddydol, na allaf ei ddirnad; yr wyf yn deall trwy brofiad fod fy ewyllys yn arfer cwbl lywodraeth ar fy aelodau, fel y mae fy nwylaw, fy nhraed, a'm breichiau, yn barod i ufuddhau i bob cyffröad, ac wrth arwydd lleiaf y dymuniad, fod fy ngorph yn ym-symud o'r naill le i'r llall. Yr wyf yn canfod fod cysylltiad agos rhwng fy meddwl a'm corph, a phob un yn cydweithredu y naill ar y llall, ond ni allaf fi ddirnad y modd y mae y gweithrediadau hyn yn cael eu dwyn yn mlaen. Yr wyf yn teimlo dymuniadau gwresog ynof am fwynhau pethau na chyrhaeddaf byth mo honiynt, a galluoedd at wybodaeth a gwellhad na chwblheir byth mo honiynt. Yr wyf yn ymdeimlo yn anesmwyth ac anfoddllawn, hyd yn oed yn nghanol pryd-ferthion natur, a phleserau y synhwyrau. Yr wyf yn ymofyn, o ba le y tardd yr awydd sydd ynof am fwyniant? Pa ham nad allaf ddarfod byth a dymuno am ychwanegiad at yr hyn yr ydwyf yn ei fwynhau yn awr? Beth yw yr achos fy mod yn diflasu mor fuan ar bob mwyniant cnawdol? a'r angen sydd arnaf, hyd yn oed yn nghanol llawnder? Byddaf yn ymofyn, pa ham y galwyd fi i fodolaeth ar yr adeg hon yn hytrach nac ar ryw amser arall yn y tragwyddoldeb a aeth heibio, neu yr hwn sydd yn dyfod? Pa ham y cadwynwyd fi wrth y gongl ddinod lion o'r greadigaeth, o'r hon yr wyf yn analluog i ymadael, yn nghanol yr éangderau mawrion, a'r bydoedd aneirif sydd yn fy nghylchynu? pa ham y dygwyd fi i fod yn Brydain, ac nid yn Papau, neu yn Zealand newydd? a pha ham y ffurfiwyd fi i gerdded yn uniawnsyth, ac nid i ymlusgo fel yr anifail? Ni allaf gael atebion i'r holl ymofyniadau hyn—y mae yr holl ddilyniant o amgylchiadau sydd yn gysylltiedig â'm bywyd, yn ymddangos wedi eu goblygu i fynu mewn tywyllwch a dirgelwch annhreiddiadwy? Am un peth yn unig yr wyf yn gwbl sier, sef y bydd i'r corph hwn, cyn hir, gael ei ddatod a'i gymysgu â'r llwch, a'm holl alluoedd deal'gar—fy nymuniadau a'm cymhwysderau at wybodaeth—gael eu tragwyddol ddinystrio yn y bedd. Byddaf yna wedi fy nychwelyd yn ddim, a byddaf fel pe na buaswn erioed, tra y bydd afrifed o fodau fel fy hunan yn neidio i fodolaeth, ac yn trengu yr un modd mewn dilyniad parhaus, trwy y tra-gwyddol fyd sydd i ddyfod.

Yr wyf yn edrych yn ol trwy yr oesau a aethant heibio—gwelaf bob peth wedi eu gorchuddio âg aneglurdeb, ac ni welaf unrhyw arwyddion o ddechreuad y gyfundrefn fawr sydd yn fy nghylchynu,—yr wyf yn estyn yn mlaen i'r bytholfyd, ond heb weled yr un arwydd o derfyn. Ymddengys pob peth fel yr oedd ynt o genhedlaeth i genhedlaeth, yn ddarostyngedig i'r un ysgogiadau, chwyldroadau, a chyfnewidiadau yn ddiwahân, heb unrhyw nodau eglur yn dangos dechreu na diweddu. Yr wyf yn edrych o amgylch ar y golygfeydd sydd ar y ddaear—gwelaf lawer o brydferthwch yn y tir-ddarlungau ffirwythlawn, a llawer o wrthrychau dan weithrediad manwl a chywraint. Yr wyf yn ymhyfrydu yn yr awyr iachus, ac yn cael fy swyno gan beroriaeth y llwyni, disgleirdeb yr haul, a lliwiau y greadigaeth. Ond yr ydwyt yn gweled golygfeydd eraill sydd yn creu dychryn a gwaes,—y dymestl, y rhyferthwy, a'r corwynt; awelon gwenwynig yr anialwch; y cwmwl brochus, a'r mellt fforchog,—y ddaeargrynn yn siglo tevrnasoedd, a'r mynydd tanllyd yn tywallt ei ffrydiau llosg o gylch ei odreu, ac yn gwneyd pentrefi a dinasoedd yn anghyfanedd. Mewn un man, gwelaf garneddi o adfeiliau natur yn ffurio mynyddau yr eiry, y llethroedd, a'r ogofeydd; mewn man arall, gwastadedd hirfaith o anialwch, a thywod diffrywth; ac mewn man arall, cyfran helaeth o'r ddaear yn olygfa o ddinestr, gan lyffetheiriau yr oesol iâ. Ni wn i pa farn i'w ffurio am fydd lle y mae cynnifer o brydferthion wedi eu cymysgu â'r fath wrthuni, a chymaint o bleser wedi ei gymysgu â chymaint o drallod, a golygfeydd o ddychryn—neu pa feddwl i'w feithrin am yr Hwn a'u ffurfiodd. Ond ni raid i mi roddi i mi fy hun y drafferth o ymholi i'r fath bynciau, o blegid y mae fy nhymor ar y ddaear yn fyr ac ansier, a phan y syrthiaf i freichiau angau, ni bydd yr un cysylltiad rhyngof fi a'r bydysawd mwy.

Wrth gymeryd adolygiad ar y byd moesol yn yr oesau a aeth heibio, cyn belled ag y mae hanesiaeth gywir yn rhoddi arweiniad, ni chanfyddaf nemawr amgen na gormes, dinestr, a llofruddiaeth—y cryf yn gorthrymu y gwan, y cyfoethog yn mathru y tlawd—lladron, ysbeilwyr, a llofruddion yn anrheithio tevrnasoedd, ac yn gwrteithio y ddaear â gwaed dynion. Gwelaf y rhinweddol a'r diniweid yn cael eu herlid, eu hysbeilio, a'u llofruddio, tra y mae y gormeswyr a'r gorthymwyr yn eu cerbydau gwychion, ac yn ymdroi yn nghanol

moethau palas. Ni allaf ganfod unrhyw gysondeb na threfn yn y fath olygfeydd, nac unrhyw arwydd o uniondeb a chyflawnder yn ngwahanol amgylchiadau dynolryw; oblegid os yw yr holl fodolaeth yn terfynu yn y bedd, yna, ni ellir gwobrwyd y dioddefydd rhinweddol, na chospi y gorthrymwr anghyfawn yn ol haediant ei droseddau. Ymddengys nad yw y lliaws o ddynolryw ond gwrthrychau damweiniau, deiliaid goithrwm, a chaethion uchelgais yr annuwiol; a'r byd moesol yn gymysgedd o elfenau gwrthwynebus, yn cael eu troi o amgylch fel y llwch gan y corwynt. Yr wyf yn clywed rhinwedd yn cael ei arganmol, a drygioni yn cael ei gondemnio. Ond, atolwg, pa beth ydyw rhinwedd? Cysgod, breuddwyd, enw gwag! Pa ham y dylwn ganlyn ar ol rhinwedd, os ydyw yn aflonyddu fy mhleserau, a pha ham y dylwn adael y drwg os ydyw yn dangos y ffordd i mi at fwyniant presenol? Doethineb i mi ydyw mwynhau bywyd tra y parhao fy nhymor byr—ac os ydyw cyfoeth yn help i mi at fwynhau dedwyddwch, pa ham y byddai raid i mi ofni eu casglu trwy dwyll, ac anudonedd, neu drais? Os ydyw pleser cnawdol yn ychwanegu at fy nedwyddwch, pa ham y byddai raid i mi ymatal oddiwrth feddwdod ac anlladrwydd, neu unrhyw arferiad arall a atebo fy nghyfleusdra, neu a foddhão fy nwydau, gan nad oes un gobaith i mi am ddim ond mwyniant presenol, ac nad oes dim cyfrifoldeb yn fy aros tu draw i'r bedd?

Yr wyf yn gweled fy hun yn agored i lawer o ddioddefiadau, a siomedigaethau, a thrallodion—i dlodi a dirmyg, i golli cyfeillion, a phoenau corphorol, a thrallod meddwl. Yr wyf yn cael fy mhoenydio yn fynych âg adgofion am yr hyn a aeth heibio, yn rheimplad pethau presenol, ac mewn arswyd am yr hyn a ddêl. Ond nid wyf yn canfod yr un gwrthrych i'w gyrhaedd, na'r un dyben i'w gyflawni, drwy ymostwng i'r gofidiau hyn. Yr wyf yn ymostwng yn unig er mwyn dioddef poen i ymgurio ymaith a phrysuro i'r bedd. Yr wyf yn glaf yn unig i ddihoeni dan faich ar wendid corphorol—yn draillodus a gorthrymedig yn unig i gael fy suddo dan drallodau a gofidiau yn ddyfnach; ac wedi fy ngorlwytho â gofalon ac anhawsderau yn unig i ymbarotoi at brofion newydd o berygl a dioddefaint. Nid oes yr un defnyn o gysur yn ymgymysgu â chwpan chwerw tralled; nid oes yr un cystudd yn cael ei felysu gan olygiad ar fydd gwell, o blegid fod llety oeraidd y bedd yn gosod rhwymyn ar fy ngolygiadau, a therfyn ar fy ofn a'm

gobaith. Pa fodd, gan hyny, y gallaf fod yn esmwyth dan fy nioddefiadau? pa fodd y gallaf ymgymodi â'r dynged sydd wedi eu trefnau? neu, pa fodd y gallaf olrhain haelfrydedd Bôd goruchel, yn goddef i mi gael fy ngofidio a'm poenydio heb yr un dyben? Ymdrechaf i'w goddef gyda phenderfyniad anobeithiol, yn unig o herwydd fy mod wedi fy ngeni dan angenrheiddrwydd i ddioddef poen a helbul, heb allu ym-warchod rhagddynt.

Yr wyf yn derchafu fy ngolwg i'r ardaloedd uwchben, ac yn myfyrio ar ddisgleirdeb y ser. Y fath luaws o hauliau, a chysawdau a bydoedd sydd yn neidio i'r golwg pan yr edrychaf ar y ffurfaen drwy y drychbeiriant! Mor afrifed yw eu nifer! mor anfesurol yw eu pellder! mor ddirfawr yw eu maint! mor ddisglaer yw eu gogoniant! mor aruchel yw eu symudiadau! Pan yr amcanwyf gynwys yr olygfa ryfeddol hon, y mae fy nychymyg yn ymddyrys, a fy nheimladau yn cael eu gorlenwi â syndod. Yr wyf yn syllu, yr wyf yn myfyrio, yr wyf yn teimlo dymuniad hiraethlawn am wybod rhywbeth yn ychwaneg am natur a thynged y bydoedd pell, ond y mae fy ngolwg yn cael ei rwymo mewn rhyw ardremiad cyffredinol, y mae fy ngalluoedd yn derfynol, a phan y ceisiwyf ehedeg ymaith i'r ardaloedd pellenig, yr wyf yn fy nghanfod fy hun wedi fy nghadwyno i wared, trwy rym anorfod, wrth y bellen derfynol, ar yr hon yr ydwyf yn preswylio. Pa ham, gan hyny, yr addurnwyd y nefoedd mor brydferth, ac y mae y fath orfawredd yn cael ei ddangos yn ei ffurfiad, a pha ham y daliwyd yr olygfa erioed o flaen fy meddwl, gan nad wyf byth i gael fy hyfforddi yn mhellach am y golygfeydd a ddadlena? Dichon mai dyma yr ardremiad diweddaf a gymeraf byth ar yr olygfa ardderchog, cyn cau fy llygaid mewn nos dragwyddol. "Pa ham y rhoddwyd goleuni i'r hwn sydd mewn trueni—i ddyn yr hwn y mae ei ffordd yn guddiedig, yr hwn y cauodd Duw arno?" Pe buaswn wedi fy nghau mewn daear-gell dywell, buasai fy nghyflwr yn fwy goddefol, ond yma yr ydwyf megis yn sefyll mewn palas ysblenydd, heb gysur na gobaith, gan ddisgwyl angau bob moment i derfynu fy ngologiadau; a phan y delo, bydd gogoniant y nef wedi ei ddiddymu am byth i mi.

Yr wyf yn gweled gwyddoriaeth yn éangu ei therfynau, a chelfyddydau yn myned rhagddynt at berffeithrwydd; yr wyf yn gweled nifer o sefydliadau yn cael eu ffurfio, ac yn

clywed darlithoedd ar athroniaeth yn cael eu traddodi er gwell-had dynolryw, ac yr wyf yn cael fy ngwahodd i gymeryd rhan yn y gorchwylion sydd a'u hamcan i ledaenu gwybodaeth yn mysg pob gradd. Ond pa ddefnydd ydyw gwybodaeth i greaduriaid sydd yn fuan i golli pob ymwybodoedd o fodolaeth? Y mae yn gofyn llawer o gamrau blin, a nosweithiau o anhunedd, er esgyn grisiau gwyddoriaeth; ac wedi cyraedd i'r pwynt uwchaf y cyrhaeddodd marwolion iddo erioed—yr ydym yn canfod fod eto ardaloedd uwch, y rhai nas gallwn byth estyn atynt; y mae ein traed yn llithro, ac yr ydym yn suddo i adfeiliau anadferadwy. Pe byddai ein cynydd mewn gwyddoriaeth yma yn arweiniol i olygfa ddyfodol o wybodaeth a mwynhad, byddai yn deilwng o'i ymofyn gan bob meddwl rhesymol, ond i greaduriaid sydd yn ansier pa un a fyddant mewn bod yn y bydysawd am ddiwrnod yn ychwaneg, y mae nid yn unig yn ofer, ond hefyd yn anghyson â'u mwynhad presenol. Oblegid, po leiaf o wybodaeth a fyddo gan-ynt am brydferthion natur, a pho mwyaf anifeilaidd ag anwybodus y byddont, lleiaf yn y byd a deimlant ar y moment, pan y byddont yn cael eu cyflwyno i ddiddymdra. Gadawer i'r cyffredin o ddynolryw, gan hynny, i foddio eu hunain yn y digrifwch a fynont, na aflenyydder hwy yn eu pleserau cnawdol, drwy gynyg yn ofer at eu hyfforddi mewn dealltwriaeth, gadawer iddynt fwyta, ac yfed, a gloddesta, canys y foru marw fyddant. Cymaint sydd yn ofynol ydyw, plethu cadwyni goromes am eu gwddf, i'w hatal rhag ymgynnyg at fwyniant y rhai sydd uwch na hwynt.

Mewn gair, yr ydwyt yn ymdrechu i ffurfio rhyw ddirnadaeth am briodoleddau yr Achos Mawr Anadnabyddus, yr hwn a ddygodd yr holl wrthrychau sydd o'm hamgylch i fod. Ond y mae fy meddyliau wedi ymddyrys yn nghanol tryblith o weithrediadau annealladwy sydd yn ymddangos yn wrthdarawiadol ac anghyson. Yr wyf yn canfod yn eglur fod Creawdwr y byd yn meddianu *gallu* diderfyn, ond ni welaf un rheswm i gasglu ei fod yn arfer doethineb anffaeledig, daioni annherfynol, a chyflawnwr anmhleidiol. Yr wyf yn canfod, mae yn wir, ryw arwyddion o ddoethineb yn nghyfansoddiad fy nghoroph, a'i wahanol ermig o synhwyrau; a daioni yn y dydd goleu, y tiroedd blodeuog, a'r dyffrynoedd ffrwythlawn; ond ni wn i pa fodd i gysoni hyn â rhaniau eraill o'i weithrediadau. Po fodd y gallaf fi gymhwyso y briodoledd o ddoeth-

ineb i Un sydd wedi planu dymuniad yn fy nghyfansoddiad, na foddheir mo hono byth, ac wedi fy nghynysgaeddu â gallu oedd moesol, na arferir mo honynt byth; a'r hwn sydd wedi goddef i'r byd moesol ymdroi mewn annhhrefn yn mhob oes? Ni allaf fi ganfod yr un amlygiad o'i haelfrydedd yn ei waith yn fy ngwneud yn agored i amrywiaeth o ofidiau a dioddefiadau, heb fod yn ateb yr un dyben heblaw fy ngofidio, a'm poenydio â gobeithion, a'm dychryn âg ofnau am fyd arall, y rhai nad ydynt byth i gael eu cwblhau, a thrwy daflu llen o ddirgelwch dros ei holl ddybenion a'i weithrediadau. Ac ni allaf ganfod dim yn debyg i uniondeb anmhleidgar yn nosparthiad ei ffafrau, oblegid fod siomedigaethau a gofidiau yn aros y cyflawn fel y drygionus, ac y mae y diniweid yn fynych yn cael ei gospi a'i warthrudo, tra y mae y dihiryn a'r afian yn cael ymfrostio yn eu troseddau. Cymaint ag a allaf fi ganfod yn eglur ydyw hyn, sef bod gweithrediad y Gallu Goruchel yn cael ei ddwyn yn mlaen wrth fympwy yn unig, ac nid wrth unrhyw egwyddor, ac yn cyflawni yr hyn na all byth enill serchawgrwydd gwresog, na sicrhau dedwyddwch gwastadol i greaduriaid rhesymol.

Y fath ydyw rhai o ystyriaethau pruddion creadur marwol anobeithiol, yr hwn nad yw ei ragolygiad yn estyn yn ddim pellach na'r bedd; a'r fath ydyw rhai o'r canlyniadau echrydus a gynhwysa gwadu sefyllfa ddyfodol. Y mae yn taflu llen o dywyllwch dros olygfeydd creadigaeth, ac yn goblygu dybenion lluniad dyn mewn dirgelwch anchwiliadwy,—y mae yn dangos y byd moesol yn dryblith o elfenau gwrthwynebol, heb fod yn ateb yr un dyben, ac heb fod dan lywyddiad unrhyw reolydd dealgar,—y mae yn dangos nad oes dim mwy o gysylltiad rhwng dynolryw a'u gilydd, nag a ffurfir gan amser a lle, a'u bod wedi eu creu yn unig at bleser cnawdol, a'u trefnu i drengu gyda'r anifail,—y mae yn dadymchwel sylfaen pob gweithrediad moesol, yn dileu y cymhelliadau cryfaf at rinwedd, ac yn agor llif-ddorau pob drygioni,—y mae yn symud angor gobaith ymaith o'r meddwl pryderus, ac yn dinystrio pob egwyddor sydd yn tuedd i gynal y meddwl dan brofédigaethau,—ac y mae yn taflu tawch oer ar bob ymgais tu ag at dderchafu dynolryw i urddas eu natur foesol a dealgar, ac yn tuedd i atal pob cynydd mewn gwyddoriaeth fuddiol,—y mae yn rhwystro y meddwl i chwilio a

mawrhau rhagoriaethau creadigaeth, ac yn cuddio adfeiliau natur sydd yn wasgaredig dros y byd mewn caddug dywyll-ach fyth,—y mae yn rhoddi terfyn ar bob gobaith am ddyfod yn fwy adnabyddus â gogoniant y ffurfafen, ac am gael gweled cynlluniau Rhagluniaeth wedi eu cwblhau,—y mae yn cuddio cymeriad y Duwdod mewn tywyllwch echrys, ac yn ei ysbeilio Ef o briodoliaethau anfeidrol ddoethineb, haelfrydedd ac uniondeb, ac yn ei adael heb fod nemawr amgen na gallu di-derfyn yn gweithredu heb yr un reol, ac heb fod er unrhyw ddaioni. Mewn gair, y mae yn dileu pob anogaeth i gyflawni pob gweithred ardderchog a haelionus, yn oeri serchiadau a theimladau tyneraf dynoliaeth, ac yn arwain i amheuaeth cyffredinol, yn tori ymaith bob gobaith am bob peth sydd yn tuedd i gysuro y teithiwr yn ei bererindod trwy y byd, ac nid yw yn gosod dim o flaen ei feddwl ond gwagle mawr, wedi ei orchuddio â thywyllwch dudew am byth.

Gan mai dyma y canlyniadau cableddus a gwrthun sydd yn tarddu o wadu athrawiaeth sefyllfa ddyfodol o daledigaeth—rhaid golygu y dyn a gredo y fath beth, nid yn unig yn hollol annheilwng o'r enw athronydd, ond hefyd o fod yn greadur rhesymol, ac fel un a anghredai beth wedi ei brofi, ac a lyncai bob anghysondeb, pa mor atgas bynag y byddo, os bydd yn cyd-daro a'i chwaeth a'i nwydau llygredig ei hun. Y mae y celfyddydwyr yn fynych yn egluro gwirionedd, drwy ddangos fod y peth gwrthwynebol yn anmhosibl, neu yn cynwys anghysondeb. Fel y mae *Euclid*, wrth egluro gwirionedd y pedwerydd gosodiad yn llyfr cyntaf ei Elfenau, drwy ddangos fod y gwrthwyneb yn cynwys yr anghysondeb amlwg hwn—“y gall dwy linell wastad gynhwys gwagle.” Y mae y ffordd hon o brofi gosodiad yn cael ei hystyried gan bob mesurydd yn llawn mor foddhäol a phenderfynol a'r ffordd *uniongyrchol* o brawf; oblegid rhaid fod y gwrthwyneb i dwyll yn wirionedd, a'r gwrthwyneb i wirionedd yn dwyll. Ac os ystyri'r y ffordd hon yn foddhäol mewn mesuriaeth, dylid ei hystyried mor benderfynol mewn ymresymiad moesol a duwinyddol. Er engrafft, os ydyw gwadu sefyllfa ddyfodol yn cynwys yr ystyriaeth nad yw Duw yn Fôd o uniondeb anmhleidgar, ac o berffaith ddoethineb a dnioni—er maint a ddangosir mewn natur o amlgygiadau y ddwy briodoedd olaf, rhaid i ni, naill ai addef athrawiaeth anfarwoldeb dyn, neu wadu fod Bôd Deallgar yn llywyddu dros achosion y byd. Oblegid, ni all

Bôd, heb y priodoliaethau hyn fod yn Dduw, na thueddu i lanw meddyliau deallgar â mwynhad a chariad, ond y mae yn ei ddangos fel rhywbeth tebyg i *dynged direol*, neu allu naturiol yn ysgogi symudiadau y greadigaeth yn gyffredinol, heb yr un cynllun, ac heb wahaniaethiad na dealltwriaeth. Ar yr un egwyddor (y *reducto ad absurdum*) yr ydym yn eguro troadau blynnyddol y ddaear o amgylch yr haul. Y mae symudiadau y planedau, fel eu gwelir oddiar y ddaear, yn ymddangos fel afreolaeth annhhrefnus, gwrthwyneb i bob peth a ddisgwyliem mewn cysawd wedi ei llunio yn brïodol. Ymddengys y cyrph hyn weithiau fel pe byddent yn symud yn ol, weithiau yn mlaen, ac weithiau yn sefyll yn sefydlog, ac yn dangos llwybrau hirgrwn mor ddyryslyd, fel na allem dybied mai Anfeidrol Ddoethineb a drefnodd y fath gysawd ddi-reol. Oddiwrth hyn y mae seryddwyr yn casglu, ar sail dda, *fod y ddaear yn gorff symudol*; ac nid oes neb byth yn amheu hyn, wedi unwaith ddeall y pwnc yn drwyndl; oblegid pan yr ystyriom fod ein daear ni yn troi o amgylch canolbwyt y cysawd mewn cysondeb a'r planedau eraill, y mae yr holl afreolaeth a dybid fod yn eu symudiadau yn cael ei egluro, ac y mae yr holl gysawd yn ymddangos yn drefn o berffaith brydferthwch, yn unol â'r farn a ddylem feithrin am ddoethineb a dealltwriaeth ei Hawdwr.

Yn yr un modd, y mae addef athrawiaeth sefyllfa ddyfodol yn rhoddi boddlonrwydd am yr afreolaeth a welir yn y byd moesol, ac y mae yn ateb fel allwedd i agor yr holl anhaws-derau a all godi yn y meddwl am uniondeb y llywodraeth Ddwylfol yn y sefyllfa bresenol. Yn wrthwynebol i ystyriaeth anobeithiol yr amheuwr, y mae yn derchafu y meddwl rhinweddol mewn gobairt bywiol, ac yn taflu goleuni dynunol ar olygfeydd creadigaeth, a thros holl barthau llywodraeth yr Hollalluog. Y mae yn arddangos y Duw Tragwyddol a Hunanfodawl fel gwrthrych o ardderchawgrwydd, mawredd a hawddgarwch anfeidrol, o ddoethineb digyfeiliorni, uniondeb anmhleidgar, a haelfrydedd diderfyn; yn llywyddu dros luaws o greaduriaid deallgar, wedi eu ffurio ar ei ddelw ei hun, ac yn eu rheoli wrth ddeddfau cyflawn ac uniawn, ac yn trefnu pob peth a'i law alluog a chywrain, ac yn cyfaddasu ei holl oruchwyliaethau er cefnogi dedwyddwch y byd moesol. Y mae yn lledu golygfa annherfynol ger ein bron, yn yr hwn y gobeithiwn-gael myfyrio ar gynllun ei Ragluniaeth yn ei holl

wrthrychau a'i amgylchiadau, lle yr amlygir gogoniant y pri-odoleddau Dwyfol, ac y bydd i alluoeddyd yn ymëangu yn barhaus, a gwrthrychau newyddion o brydferthwch a disgleirdeb gyfodi yn ddilynol i'r golwg mewn éangder annherfynol, a hynny yn ddi-ddiwedd. Y mae yn chwalu y cymylau sydd yn ymdaenu dros dynged presenol a dyfodol dyn, ac yn rhoddi cwbl foddlonrwydd am ei dremiadau hiraethlawn i ddyfodiant ag sydd yn naturiol iddo yn barhaus, a'i alluoedd deallgar éang, na ellir eu llawn arfer yn y bywyd hwn. Y mae yn dal allan y cymhelliadâu cryfaf i fywyd rhinweddol, i gyflawniad gweithredoedd da, ac i ledaeniaid gwybodaeth ddefnyddiol yn mhliith pob graddau o ddynolryw. Y mae yn rhoddi y cysur a'r cynhaliaeth cryfaf dan holl brofedigaethau y byd, ac yn rhoddi rheswm am yr achos o'r holl ddioddefiadau, i'r rhai yr ydym yn agored, fel anogaethau i rinwedd, ac fel y maent "yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni." Y mae yn rhoddi sail i obeithio y bydd i'r llen sydd yn awr yn cuddio rhyngom ag ardaloedd pellenig creadigaeth gael ei symud ymaith, ac y bydd i ffurfiad rhyfeddol y bydysawd, yn ei holl gyfartaledd ardderchog a'i drefniadau prydferth, gael eu dadlenu yn eglur i'n golwg. Y mae yn chwalu yr ofnau sydd yn naturiol yn cylchynu cenhadydd angau; ac yn taflu goleuni dros drigfanau tywyll y bedd. Y mae yn cysuro dyffryn cysgod angau, ac yn ei droi yn llwybr sydd yn arwain i fyd o berffeithrwydd a dedwyddwch, lle y bydd drwg moesol wedi ei ddifodi am byth, lle y tywna goleuni gwybodaeth gyda disgleirdeb ar yr yspryd pur; a'r lle y bydd rhinwedd nefol, sydd yn awr yn cael ei erlid a'i ddibrisio mor fynych, wedi cymeryd ei orfedd mewn teyrnas lonydd a thragwyddol.

Yn awr, gan fod gwadu sefyllfa ddyfodol yn cynwys y fath anhawsderau, a'r fath dybiau gwrthun a chabeddus, a bod addef yr athrawiaeth hon yn taflu goleuni dros yr holl dywyll-wch sydd yn ymdaenu dros y byd moesol, ac yn rhoddi agoriad er egluro hell ddirgelion y goruchwyliaethau Dwyfol, ac yn esbonio pob anhawsder mewn perthynas i sefyllfa bresenol dynolryw—rhaid ystyried yr athronydd hunandoeth hwnnw a wrthodo y gwirionedd pwysig hwn fel yn gweithredu yn hollol wrthwynebol i bob egwyddor o ymresymiad a addefa efe yn ei ymchwiliadau naturiol ac anianyddol, ac megis wedi penderfynu gwrthwynebu grym pob tystiolaeth ag a ellir ei dwyn yn mlaen fel prawf o'i dragwyddol barhad.

Fel hyn, yr wyf wedi ymdrechu, yn y dalenau blaenorol, i brofi ac egluro anfarwoldeb dyn, oddiar yr ystyriaeth o'r gred gyffredinol ag y mae yr athrawiaeth hon wedi ei gael yn mysg pob cenedl—y dymuniad am anfarwoldeb sydd wedi ei blani yn y fynwes ddynol—yr arwydd cryf am *wylodaeth*, a'r *galluoedd deallgar* éang, â pha rai y mae dyn wedi ei gynysgaeddu—y modd sydd ganddo i fyned yn *mlaen yn barhaus* at ddealltwriaeth a pherfeithrwydd moesol—y *cylch diderfyn o olygiad* sydd yn ymagor o flaen ei feddwl drwy *anfeidroedd* éangder a *pharhad*—y *galluoedd moesol* â pha rai y mae wedi ei ddonio er gweithrediad—*dychrynfeydd* a rhagolygiadau ei feddwl pan y byddo dan ddyylanwad anobaith—sefyllfa annhhrefnus y byd *moesol* wrth ei gyferbynu â threfn reolaidd y byd naturiol—*dosparthiad anghyfartal gwobr a chosp*, wrth ei olygu mewn cysylltiad âg uniondeb Duw—y *gwrthuni* o addef fod yr *egwyddor feddylgar* sydd dyn yn cael ei difodi—a'r *canlyniad cabeddus a gwrthun* a darddai o wrthod athrawiaeth gwobr a chosp mewn sefyllfa ddyfodol.

Efallai fod rhai o'r ymresymiadau hyn, o'u cymeryd yn *ungol ar wahan*, yn annigonol i gadarnhau yn gyflawn y gwirionedd am dragwyddol dynged dyn; eto, o'u cymeryd oll yn nghyd, y maent yn dwyn tystiolaeth anwrthwynebol i feddwl pob ymofnydd diduedd. Y maent oll yn taflu cyd-ddisgleirdeb y naill ar y llall; y maent yn cyd-sefyll mewn perffaith gysondeb â'u gilydd; y maent yn berffaith unol a'r golygiadau mwyaf dyrchafedig a allwn eu ffurfio am y Duwdod; y maent yn cyd-daro â syniadau y dynion doethaf a goreu a fu yn mhab oes; y maent yn dal cysylltiad â phob gwellhad a darganfyddiad yn y byd naturiol a moesol, ac y maent fel llinellau cylch-rôd, oll yn cyfeirio at yr un canolbwyt, ac yn arwain yn berffaith i'r un penderfyniad. Ymddengys yn nesaf peth i anmhosiblrywydd y gallai y fath gyd-gordiad, cysondeb, a dibyniad, sefyll yn nghanol cynnifer o osodiadau, heb fod eu sail ar wirionedd; a chan hyny, dylid eu hystyried, o'u cymeryd yn nghyd, fel yn dwyn grym *perffaith brau*. Y maent yn gorhwyys ar egwyddorion yr un ymresymiadau, wrth ba rai yr ydym yn profi y Bôd o Dduw, ac ni allaf fi ganfod yr un ffordd o osgoi'n nerth, ond trwy ddileu o'r meddwl bob ystyriaeth am y Bôd Goruchaf. Felly y gwelwn fod pethau yn gyffredinol, os nid bob amser, a bod pob cenedl sydd wedi cydnabod y Bôd o Dduw hefyd wedi cydnabod y

golygiad am sefyllfa ddyfodol o wobr a chosp. Y mae y ddau osodiad sylfaenol hyn mor gysylltiedig â'u gilydd, fel y mae y diweddaf yn dibynu mor hanfodol ar y cyntaf, ag y mae yn rhaid iddynt sefyll neu syrthio yn nghyd. Ac o ganlyniad, yr ydym yn canfod fod y dyn a gyndyn wrthodo yr athrawiaeth am sefyllfa ddyfodol, naill ai yn addef ei hun yn annuwiol hollol, neu ynte ei fod yn gweithredu yn gwbl fel y gwnai un a gredai nad oes yr un bodoliaeth gan y goruchel Lywydd Moesol.

Ond nid yw egwyddorion annuwiaeth ei hun, a gofleidir yn fynych gan ddynion drygionus i geisio llonyddu eu hofnau, yn ddigonol i symud ymaith bob rhagdybiau mewn perthynas i fodoliaeth rhagllaw. O blegid, os ydyw y byd wedi dyfod i fôd drwy dragwyddol ddilyniant o achosion ac effeithiau, ac angenrheirdwydd ddireol yn cysylltu gronynau defnydd yn nghyd drwy yr éangder mawr—pa beth a allai atal, yn nghanol y cysylltiadau diderfyn sydd yn codi oddiar ysgogiad parhaus, fod i ddynion gael eu creu, eu distrywio, a'u dwyn i fodolaeth, gyda'r un galluoedd, cynhuddfau, a pherthynasau, a'r rhai a berthynai iddynt yn eu sefyllfa flaenorol o fodolaeth? Ac er y gall miloedd neu filiynau o flynyddoedd basio rhwng y cyfnwediadau hyny, eto gallai yr ystod hwnw ymddangos mor fyr ac annirnadwy â'r parhad a êl heibio, tra y byddo ein galluoedd wedi eu colli mewn tawel hun. Nid yw yr ystyriaeth am anfeidroedd, eithafoedd, a dilyniant diderfyn o gyfnwediadau yn gwneud y fath dybiaeth yn hollol anmhosibl. Ond y fath ddyfodiant ofnadwy a fyddai raid i'r meddwl ddarlungo iddo ei hun yn y cyfryw amgylchiad! Pe byddai i ysgogiadau y bydysawd gael eu hachosi gan ddamwain, heb yr un gweithredydd deallgar yn eu cyfarwyddo, caem ein hymlid yn wastadol a'r disgwyliadau mwyaf ofnadwy. Gwelem ddelw angau, diddymiant, ac adgynhyrchiad yn cyfodi ger ein bron yn y ffurflau mwyaf dychrynllyd, a byddai yn annichonadwy i ni ganfod ar ba sail y mae gobaith a thynged creaduriaid rhesymol yn gorhwys. Byddem yn ansier, pa un a fyddai dynolryw wedi eu trefnu i gael eu dinystrio yn anadferadwy, neu a ydynt i gael ad-fodolaeth drwy weithrediad rhyw achos neu ddamwain anadnabyddus, mewn rhyw amser i ddyfod, a'u bod wedi eu cymhwysyo at boenau tragwyddol. Ni allai y drefn a'r tawelwch cydmariathol sydd yn awr, neu a fu mewn oesau a aethant heibio,

roddi yr un sail o obaith, na byddai i'r fath ganlyniadau gymeryd lle, oblegid nid yw holl chwildroadau amser, at y rhai y gallwn edrych yn ol, ond megis moment yn nghanol parhad annherfynol, ac nid yw y ddaear ond megis brycheuyn yn nghanol yr eangder mawr. Felly, trwy ystod oesau aneirif, gallai cyfnewidiadau, a chwildroadau, ac adffurfiadau gymeryd lle, y rhai a allai orchuddio yr holl greaduriaid rhesymol a fu erioed mewn tragwyddol drueni. Gan hyny, ymddengys na allai annuwiaeth ei hun, gyda'i holl gymysgedd o anghysonderau a gwirthuni, byth gysgodi ei phleidiwr rhag dychryniedau byd dyfodol anadnabyddus.

Ni wnaf ond sylwi yn mhellach ar y rhan hon o'm testyn,—er, pe byddai i'r ymresymiadau a grybwyllywyd ar anfarwoldeb dyn fod yn llai nerthol nac ydynt mewn gwirionedd, eto y dylent wneud argraph dwfn ar feddwl pob dyn ystyriol, er ei gyfarwyddo yn yr ymddygiadau ddylai ddilyn. Pe na bu-asent ond yn unig yn debygol—pe na buasai ynddynt ddim ychwaneg o rym nac a orbwysai y rhesymau gwrthwynebol, eto, byddai yn ddoethineb yn mhob dyn weithredu ar y dybiaeth o fod byd dyfodol mewn gwirionedd. Oblegid yn achosion cyffredin bywyd, ac hyd yn oed yn y gwyddoriaethau, y mae ein syniadau a'n hymddygiad yn cael eu penderfynu gan ddilyniad o bethau tebygol, a chyd-darawriad rhesymau yn gwneud i fynu y diffyg a fyddo am dystiolaeth fwy penderfynol, ar destynau na ellir eu holrhain i berffaith eglurdeb. Nid oes gan y trafnidwr, pan y pryno swm penodol o lwyddau, yr un dystiolaeth benderfynol y bydd i'r gwerthiant yn y diweddu droi yn lles; ond oddiar ystyriaeth o'r pris, natur y defnydd, ac amgylchiadau masnach, a'i ragolygiad uniongyrchol, y mae yn penderfynu ar y pryniant; a thrwy weithredu ar sail y fath debygoliaeth, y mae yn trefnu ei achosion, fel y maent yn diweddu er ei les a'i lwyddiant. Nid oes gan unrhyw athronydd resymau penderfynol i gynal haner y syniadau y mae wedi eu ffurfio mewn perthynas i achosion cymdeithas ddynol, a'r byd naturiol. Y mae ei gasgliadau perthynol i achosion y gwyntoedd, y taranau, a'r mellt, am rwygiadau mynyddau tanllyd, am natur goleuni, sain, gwefriddiaeth, a gweithrediadau eraill yn nhrefniant natur, wedi eu seilio ar y fath hyny o resymau a elwir yn *debygoliaeth natur*, yr hyn nad ydyw yn y diweddu yn ddim amgen na gradd uchel o debygolrwydd. Er hyny, nid yw yn teimlo unrhyw

ataliad i fyned rhagddo yn ei brofion a'i ymchwiliadau dan arweiniad y fath resymau, gan fod yn hyderus y bydd iddynt ei dywys yn y diwedd i ystafelloedd mwyaf mewnol teml gwirionedd; oblegid ni a wyddom fod darganfyddiadau disgleiriaf yr amseroedd diweddaraf, wedi dechreu mewn ymofyniadau a sylwadau a wnaed ar sail ymresymiad tebygoliaethol. Yr un modd gyda'r testyn pwysig dan sylw, dylem fod yn benderfynol yn ein golygiadau a'n hymddygiad, hyd yn oed gyda *thebygoliaeth*, er y byddai i'r ymresymiadau a ddygid yn mlaen adael y pwnc dan sylw i raddau heb ei benderfynu. Oblegid, os ydyw byd tragwyddol yn bod mewn gwirionedd, yr ydym nid yn unig yn cofleiddio cyfeiliornad wrth wrthod y drychfeddwol, ond yr ydym hefyd wrth weithredu yn gysor â'r syniadau cyfeiliornus yn gosod ein hunain yn y perygl o gyfarfod â'r canlyniadau mwyaf arswyadol. Gan hynny, pe na byddai sefyllfa ddyfodol, eto, ni allai y grediniaeth o hynny, gyda buchedd gyfatebol i'r gred, adael yr un effaith drwg ar ein meddyliau ni ein hunain, nac ar eraill chwaith. Yn y gwrthwyneb, rhoddai olygiad dymunol ar ein taith drwy y byd sydd yn llawn o ddrygau naturiol a moesol, ac adfywiad yr yspryd gwan-galonus, pan y byddai wedi ei orchuddio â'r siomedigaethau a'r trallodion sydd yn anocheladwy yn ein sefyllfa bresenol. Felly, gallem yn yr achos hwn ddefnyddio sylw un athronydd boreuol,* a dywedyd,—Os ydwyf yn camgymeryd wrth gredu fod eneidiau dynion yn anfarwol, eto yr wyf yn fy moddhau fy hun yn fy nghamgymeriad, a thra y byddwyf byw, ni fynwn i'r gred hon, yn mha un y mae genyf y fath hyfrydwch, gael ei chymeryd oddi arnaf. Ond os ydwyf i gael fy nifodi yn angau, fel y tybia rhai athronwyr manwl, nid oes arnaf ddim fon y chwardda y dynion doeth hynny, wedi eu difodi, ar fy nghyfeiliornad.

Ond os ydyw yr ymresymiadau a ddygwyd yn mlaen, nid yn unig yn dangos tebygolwydd, ond hefyd *sicrwydd diddadol*, neu o leiaf, rywbeth yn gyfagos i berffaith brawf—os ydyw y golygiad gwrthwynebol yn cynwys cyfres o anghysonderau, os ydyw yn taflu tywyllwch anobeithiol dros dynged dyn, a thros olygfeydd y bydysawd, ac os ydyw yn ysbeilio yr Hollalluog o briodoleddau mwyaf gogoneddus ei natur—nid oes geiriau digon nerthol i'w cael i ddarlunio ynfydrwydd ac

* Cicero.

anghysondeb y dyn, pa mor enwog bynag y byddo, yr hwn a fyddo wedi ymroddi i wrthwynebu pob argyhoeddiad, ac wedi penderfynu gweithredu fel pe na byddai y drychfeddwel am syd dyfodol yn ddim amgen na chwedl. Y mae treulio bywyd mewn holol ddifaterweh, a dibrisio golygfeydd y byd anwel-edig, a gorchfygu arswyd yr Hollalluog, a ddichon eto gael ei amlygu yn y sefyllfa hono—yn wyneb yr holl brofion e-dyin a all rheswm eu dwyn yn mlaen, nid yn unig yn groes i bob egwyddor o gallineb, ond hefyd yn uchder gwallgofrwydd. Rhaid gadael y cyfryw i gael eu cyffroi i ystyriaeth ya y diwedd gan yr argraphiadau dychrynllyd a ffamia ar eu meddwl, pan y caffont eu deol i'r cyflwr tragwyddol hwnw, ac y maent yn ei ddiystyr u yn awr, ac y byddant wedi canfod eu hunain ynddo wedi eu gosod ger bron brawdle y Barnwr diduedd a Hollalluog.

Yn mysg yr ystyriaethau a ddygwyd yn mlaen i brofi anfarwoldeb dyn, ni chymerais sylw o ymresymiad a arferir yn gyffredin gan rai ysgrifenwyr; sef yr hyn a sylfaenir ar *annefnyddiolaeth* yr euaid dynol. Ymateliais rhag cynyg ar unrhyw egluriadau ar y testyn hwn,—Yn 1. Oblegid fod y prawf o fod yr enaid yn annefnyddiol yn cynwys amrywiaeth o ymchwiliadau anianyddol, ac yn galw am atebion i amryw o wrthdybiau a godwyd yn ei erbyn, y rhai na wnaethent ddim ond tueddu at ddyrys darllenwyr o synwyr cyffredin. 2. O herwydd na allai yr athrawiaeth am annefnyddioldeb yr egwyddor feddylgar sydd mewn dyn, pa mor eglur bynag y gellid ei phrofi, ychwanegu dim at bwys yr ystyriaethau a ddygwyd yn mlaen eisoes, ac na allai ddangos unrhyw ymresymiad penderfynol dros anfarwoldeb yr enaid, o'i hystyried wrthi ei hun. Y mae yn arwain yn y diwedd at hyn yma,—os ydyw yr enaid yn sylwedd digymysgedd, ni all ddarfod wrth gael dadgysodi ei ranau; ac o ganlyniad, fe *all* fodoli mewn sefyllfa ar wahân, mewn cyflawn ymarferiad o'i allu-oedd, wedi i'r babell gorphorol gael ei datod. Ond nid yw ei anfarwoldeb i'w gasglu o angenrheirwydd, oddiwrth ei allu-oedd naturiol i fodoli mewn sefyllfa ar wahân oddiwrth y corph. Oblegid gallai y Bôd hwnw a'i creodd, pe dewisai, ei ollwng i ddiddymdra. Oblegid fod holl waith Duw, pa un bynag a fyddo ai defnyddiol a'i annefnyddiol, yn dibynu yn holol ar y gallu hwnw a rodde fodoliaeth iddynt ar y dechreu. Y mae ei anfarwoldob yn dibynu yn gwbl ar

ewyllys y Creawdwr ; heb allu cynhaliol yr hwn y suddai yr holl greadigaeth i'w diddymdra dechreuoel. Os gellir profi y bydd i Dduw arfer ei allu i ddiddymu yr enaid, yna byddai yn ofer i ni geisio profi ei fod wrth ei natur yn anfarwol. Ond pa un a *ewyllisia* Duw ddinystrio yr enaid yn angau, sydd yn gwestiwn holol wahanol i'r hyn a berthyn i'w natur, fel sylwedd annefnyddiol. Y mae yr holl gyfres o ymresym-iadau a eglurwyd yn y dalenau blaenorol, yn dangos dystiolaeth fodhaol, debygwyf, na bydd i'r Creawdwr byth ddi-didymu enaid dyn, ond ei fod wedi trefnu iddo barhau yn yr ymarferiad bywiog o'i holl alluoedd ardderchog i dragwyddoldeb.

Gan hyny, gwelwn nad yw o bwys yn y byd, wrth ystyried y rhesymau sydd yn profi ei dynged anfarwol, pa un a wnelom ai golygu yr enaid yn *ddefnyddiol*, neu yn sylwedd *annefnyddiol*. Tybier am foment, fy mod yn rhoddi y ddadl i fynu i'r amheuwr, sef, "bod yr enaid yn sylwedd defnyddiol, ac na all ymfodoli ond mewn *cysylltiad â chorff defnyddiol*," pa beth a enilla efe drwy yr addefiad ? Ni thynai ymaith yr un llwchyn o bwys y dystiolaeth a ddygwyd yn mlaen eisoes er profi anfarwoldeb dyn. Obliged os gallwn brofi fod Duw wedi dewis bod yr enaid yn anfarwol, ac wedi penderfynu arfer ei allu anfeidrol, mewn trefn i gynal ei alluoedd i barhau trwy fyd tragwyddol, byddai yn gwbl ofer iddo yn y diwedd allu profi nad ydyw yn anfarwol *yn ei natur*. Gall Efe, yr hwn a greodd enaid dyn, ac a'i cynsgaeddodd â galluoedd mor ardderchog, ei gynal i barhau drwy ystod diderfyn mewn mil o ffyrdd annirnadwy i ni. Os ydyw ffurf ddefnyddiol o allu ac ermig yn angenrheidiol iddo er ymarfer â'i alluoedd, gall efe naill ai ei wisgo â chorff awyrol y moment y datoder ei babell bresenol, neu ei gysylltu â ffurf gorphorol cywreiniach, mewn ardal arall o'r bydysawd, ac eto yn cyfateb i'r un a wisga yn awr. Obliged, er dim a wyddom ni i'r gwrthwyneb, gall fod rhyw drefniant defnyddiol pur, gyda'r hwn y byddo wedi ei hanfodol gysylltu, yn ei ganlyn ymaith yn angau, ac yn gwasanaethu fel cyfrwng, trwy yr hwn y gall gymdeithasu â'r byd gweledig. Hyd yn oed pe byddai i'w ymwybodolrwydd o fodolaeth gael ei ohirio am filoedd o flynyddoedd, gallai ei Greawdwr eilwaith ei wisgo â ffurf newydd o ermig, cyfaddas i'r cylch éang o ymarferiad y byddo wedi ei fwriadu ato ; a gellid gwneud y

tymor a elai heibio yn ystod ei hŷn, i ymddangos yn ddim hŵy nag ychydig o fomentau. Mewn gair, os ydyw Duw wedi cynal y byd naturiol hyd yma, ac yn ol pob tebygolrwydd y bydd iddo barhau i'w gadw mewn bod am byth, fel na bydd i'r un llwchyn sydd ynddo yn awr gael ei ddifodi mewn unrhyw amser dyfodol—dichon i'r un Gallu a Dealltwriaeth, gyda'r un hawsder, gynal yr egwyddor feddylgar sydd mewn dyn, pa beth bynag ydyw ei natur neu ei sylwedd, a pha mor amrywiaethol bynag y gallai y cyfnewidiadau a gymerai le arno fod. Os ydyw y Creawdwr yn alluog ac ewyllysgar i gynal yr yspryd rhesymol trwy barhad diderfyn; ac os ydyw ei ddoethineb, ei haelfrydedd, a'i uniondeb, yn galw am i hyny fod, y mae pob anhawsder sydd yn codi oddiwrth ei natur neu ei drefn o fodolaeth yn cael eu symud ymaith ar unwaith. Y mae yr ymresymiadau blaenorol dros sefyllfa ddyfodol, gan hyny, yr un mor gadarnhaol, pa un bynag ai yr ystyriom yr enaid fel sylwedd annefnyddiol pur, ai ynte yn ddim ond trefniad neillduol o ddefnydd; fel na all yr amheuwr sydd yn dal allan y drychfeddwl gwrthyn o ddefnyddioldeb meddwl, hyd yn oed ar y sail hono, byth wrthbrofi y gwirionedd am diagwyddol dynged dyn.

PENNOD II.

**PROFIION O SEFYLLFA DDYFODOL ODDIWRTH DDWYFOL
DDATGUDDIAD.**

Y MAE y tystiolaethau am sefyllfa ddyfodol, y rhai yr ym-drechasom i'w holrhain yn y dalenau blaenorol ar egwyddorion rheswm dynol, yn cael eu cadarnhau a'u hegluro yn ddigonol yn y Datguddiad a gynhwysir yn yr Ysgrythyrau Santaidd. Un o brif nodweddau y datguddiad hwnw ydyw, ei fod yn mhob pwnc yn perffaith gytuno â gwir reswm, ac âg egwyddorion synhwyr cyffredin. Yr oedd hyn yn naturiol i'w dybied; gan mai Duw ydyw awdwr y galluoedd ymresymgar, yn gystal â'r cyhoeddiadau cynhwysedig yn y gyfrol ysbrydoledig; ac y mae yr ystyriaeth hwn yn ffurfio ymresymiad tebygol eryf dros Ddwyfol awdurdod yr Ysgrythyrau, ac a ddylai ein cymhell i dderbyn gyda pharch a mawrhâd, y datguddiad sydd yn cadarnhau deddf natur, ag sydd yn gyd-unol â syniadau y dynion doethaf a goreu yn inhob oes. Pe byddai i ryw ymofnydd difrifol, a fyddai mewn amheuaeth ar y pwnc hwn, gael ei arwain i argyhoeddiad am wirioneddolrwydd ei dragwyddol dynged trwy y fath resymau ag a nodwyd yn blaenorol, byddai yn naturiol iddo gyfeirio at y Cofnodau Santaidd am hysbysiad llawnach ar y pwnc pwysig hwn: ac m'i byddai arnaf ddim ofn i neb barhau yn hir yn elyn i Ddatguddiad, pan y byddai cwbl argyhoeddiad am sefyllfa ddyfodol wedi ei ddwys argraffu ar ei feddwl. Os ydyw dyn wedi ei argyhoeddi ei fod yn sefyll bob moment ar ymyl byd dragwyddol, ni all lai na theinlo pryder am ymofyn am yr hysbysieth cywiraf a all ei gael mewn perthynas i'r byd sydd i ffurfio ei gartref dragwyddol; ac os ydyw yn hollol ddiopal a dideimlad yn yr achos hwn, y mae yn berffaith eglur nad ydyw dan argyhoeddiad trwyadl o wirioneddolrwydd y bywyd sydd i ddyfod

Y mae y Datguddiad Cristionogol wedi "dwyn bywyd ac anlygredigaeth i oleuni," nid yn gymaint am y sicrwydd unioingyrchol o'r gwirionedd am fod byd arall, ond yn benaf, fel y mae yn eglur ddangos natur a gorchwylion a cyflwr hwnw, ei barhad tragwyddol, y sylfaen ar ba un y gallwn ddisgwyl dedwyddwch ynddo, a'r tueddiadau a'r rhinweddau sydd yn ein cymhwys o er archwaethu ei ymarferiadau a'i fwyniant o hapusrwydd; ac yn neillduol fel y mae yn agor o flaen ein meddwl olygfa ogoneddus ar yr "*adgyfodiad oddiwrth y meirw*," ac ad-uniad yr enaid a'r corph yn nhrigfanau y nef.

Wrth egluro y testyn hwn, byddai yn gwbl afreidiol i mi ymhelaethu gyda manyldra. Tra y mae Dwyfol awdurdod yr Ysgrythyrau yn cael ei gydnabod, y mae amhell osodiad neu gyfeiriad yn ddigonol, pan y byddont yn eglur a dealladwy, er penderfynu sicrwydd unrhyw ffaith, neu wirionedd unrhyw athrawiaeth; gan hyny, ni wnaf nemawr yn ychwaneg na dwyn yn mlaen rai adnодau ag sydd yn dal perthynas â'r pwnc dan sylw, gyda rhai nodiadau achlysurol. Gan fod rhai wedi amheu y gosodiad, "fod yr athrawiaeth am sefyllfa ddyfodol yn hysbys i'r Iuddeon." Yn y lle cyntaf, dygaf ger bron rai adnодau ac ystyriaethau, i ddangos fod athrawiaeth anfarwoldeb yn cael ei chydnabod dan yr oruchwyliaeth Iuddewig yn gystal â'r un Gristionogol.

Fel y mae y grediniaeth am sefyllfa ddyfodol yn gorwheis wrth sylfaen crefydd, y mae yn anmhosibl tybied y gallai pobl, y rhai yr oedd yr Hollalluog wedi eu dewis i fod yn addolwyr iddo, ac yn geidwaid i'w ewyllys ddatguddiedig, fod wedi eu gadael yn anwybodus am y gwirionedd pwysig a sylfaenol hwn; a bod eu golygiadau wedi eu cyfyngu yn unig at olygfeydd prysur y byd presenol. "Ffydd," medd Paul yn ei Epistol at yr Hebreaid, "ydyw y disgwyliad hyderus am y pethau y gobeithir am danynt, a'r sicrwydd am y pethau anweledig."* Y mae yn cynwys crediniaeth o fôd Duw, ac am wobrwyon y bywyd sydd i ddyfod; oblegid fe ddywed yr un apostol, fod yn "Rhaid i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gred ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef." Wedi mynegi yr egwyddorion hyn, y mae yn nyned rhagddo i ddangos fod y patrierch boreuol yn cael eu bywiogi yn eu holl wasanaeth drwy eu hargyhoeddiad o wirion-

* Cyfeithiad Doddridge o Hebreaid xi. 1.

eddolrwydd byd dyfodol ac anweledig. Mewn perthynas i Abraham, y mae yn mynegi i ni, ei fod " yn disgwl am ddinas ac iddi sylfaeni, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." Ni chafodd y fath ddinas yn y Ganaan ddaearol, a rhaid i ni, gan hyny, dybied fod ei olygiadau yn cyfeirio at drigfanau parhäol tu draw i dêrfynau y byd presenol. Mewn perthynas i Moses, y mae yn dywedyd, o dan ei holl erledigaethau a'i drallodion, "ei fod yn ymwroli fel un yn gweled yr anwledig; canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy." Nid oedd y *gobrwy* hwnw yn gynwysedig mewn gwychder tymhorol, onid ê, cawsai ei fwynhau mewn mwy o ogoniant a sicrwydd yn yr Aipht fel mab merch Pharaoh; ac nid oedd yn gynwysedig mewn meddiant o Ganaan, o blegid ni chan-iatawyd iddo fyned i'r tir daionus hwnw. Rhaid, gan hyny, mai yr etifeddiaeth nefol ydoedd, at yr hon yr oedd llygad ffydd yn edrych yn mlaen, fel gwrthrych ei obaith gorfoleddus. Mewn perthynas i'r holl batrieirch eraill, y rhai y mae eu henwau yn sefyll yn uchel ar gofnodau Eglwys yr Hen Destament, y mae yn dywedyd eu bod yn "cyfaddef mai dieithri-iaid a phererinion oeddynt ar y ddaear," a'u bod yn "dangos yn eglur eu bod yn ceisio *gwlad well*, hyny ydyw, un nefol;" a bod y rhai a "ddirdynwyd," i'r dyben o'u cymhell i wadu eu crefydd, yn ymostwng dan eu dioddefiadau gyda pherffaith hyder, "heb dderbyn ymwared, *fel y gallent hwyl gael adgyfadriad gwell.*"

Yn unol â'r mynegiadau uchod, y mae y prophwydi mewn amrywiol ranau o'u hysgrifau, wedi llefaru yn benderfynol am eu disgwyliad am fywyd dyfodol, ac am y eysur a roddai iddynt o dan eu dioddefiadau. "Minau," medd y Salmydd, "a edrychaf ar dy wyneb mewn cyflawnder; Digonir fi, pan ddi-hunwys, â'th ddelw di." "Fy nghnawd a orphwys mewn gobaith; oblegid ni adewi fy enaid yn y bedd. Dangosi i mi lwybr bywyd; yn dy bresenoldeb y mae cyflawnder llawenydd, ac ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn wastadol." "Ie, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niweid; canys yr wyt ti gyda mi. Yn ddiau, daioni a thrugaredd a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd, *a phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragwydd.*" "Dyw a wared fy enaid oddiwrth y bedd; canys efe a'm derbyn i." "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi, ac ni ddymunwn neb ar y ddaear ond tydi. A'th gynghor y'm harweini, ac wedi hyny y'm cymeri i ogon-

iant. Fy nghnawd a'm calon sydd yn pallu, ond nerth fy nghanol a'm rhan yw Duw yn *dragwydd*.—Ni all dim fod yn eglurach, nac yn fwy penderfynol na'r fath ymadroddion. Os nad oedd gan y Salmydd grediniaeth mewn sefyllfa ddyfodol, na dim gobaith am fwynhau ei ddedwyddwch, wedi gorphen ei bererindod daearol, y mae ei iaith yn holol ddiystyr. Pa esboniad rhesymol a ellir ei roddi ar ymadroddion megis “preswylio yn nhŷ yr Arglwydd yn dragwydd,” wedi rhifo ei ddyddiau ar y ddaear; am “Jehovah yn rhan iddo yn dragwydd,” wedi i'w galon ballu ynddo, ac am ei “waredigiaeth o'r bedd,” a'i osodiad mewn meddiant o “ddigonoldeb llawenydd,” a “hyfrydwch tragwyddol,”—pe buasai ei olygiadau wedi eu caethiwo i derfynau culion a mesurau cyfyng Canaan ddaearol? Byddai y cyfryw ymadroddion yn fath o faldordd a gormodiaith holol anghyson â gwirionedd ysgrifennydd ysprydoledig.

Yr oedd Job, y cynllun nodedig hwnw o amynedd dan gystuddiau, yn cysuro ei yspryd ynganol ei brofedigaethau, a'r gobaith oedd ganddo am anfarwoldeb dedwydd. “Mi a wn,” medd efe, “fod fy Mhrynwyr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear, ac wedi fy nihuno, er i'r corph hwn gael ei ddifetha, eto caf weled Duw yn fy nghnawd.” Mewn amrywiol ranau eraill o ysgrifau y prophwydi, nid yn unig y mae sefyllfa ddyfodol, ond adgyfodiad o'r bedd, a gorchwylion pwysig dydd barn, yn cael eu mynegi yn amlwg, “Dy feirw a fyddant byw, fel fy nghorff i yr adgyfodant. Deffrowch a chenwch, preswylwyr y llwch, canys dy wlith sydd fel gwlith llysiau, a'r ddaear a rydd i fynu ei meirw.” “Gwna yn llawen, wr ieuangc, yn nyddiau dy ieuengetyd, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yn ngolwg dy lygaid; ond gwybydd, y geilw Duw di i'r farn am hyn oll.” Llawer o'r rhai sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffröant, rhai i fywyd tragwyddol, a rhai i warth a dirmyg tragwyddol. A'r doethion a ddisgleiriant fel goleuni y ffurfafen, a'r rhai a dröant lawer i gyflawnader a fyddant fel ser byth ac yn dragwydd.”

Un rheswm, yn mysig eraill, pa ham nad oedd athrawiaeth sefyllfa ddyfodol yn cael cyfeirio ati yn fynych, a'i hegluro yn fanwl yn yr Hen Destament, yn ddiamheu ydyw, ei fod yn wirionedd oedd yn cael ei ddeall mor dda, a'i gydnabod mor gyffredinol, ac mor hanfodol i grefydd, fel y buasai yn afreidiol ymhelaethu yn fanwl arno, neu ei ddwyn yn mlaen

fel darganfyddiad newydd. Y mae yr athrawiaeth hon yn cael ei chynwys yn ymadroddion yr Hen Destament mewn amryw fanau, pan nad oedd unrhyw gyfeiriad *uniongyrchol* yn cael ei wneud at fyd dyfodol, megis yn yr adnодau canlynol, "Myfi yw Duw dy dad, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob." (Exod. iii. 6.) Y mae ein Hiachawdwyr wedi ein dysgu i ystyried yr ymadroddion hyn, a'u cyffelyb, fel yn cynwys athrawiaeth bywyd dyfodol, "Canys nid yw Duw Dduw y rhai meirw, ond y rhai byw." Pe buasai y patrieirch santaidd, y rhai y mae eu h'enwau yn cael eu cofnodi yma gyda'r fath anrhydedd, wedi eu dychwelyd i sefyllfa priddellau y dyffryn, a phe na buasai eu rhan feddylgar mewn bodolaeth, ni buasai Jehovah yn arddel y fath berthynas uchel a bod yn Dduw i'r rhai yr oedd efe wedi eu gadael yn dragwyddol, ac wedi goddef iddynt suddo i ddihafodeedd. O ganlyniad, yr oedd Abraham, Isaac, a Jacob, yn fodau bywiol a deallgar mewn sefyllfa arall, pan y gwnaed yr hysbysiad hwn i Moses, wrth y berth oedd yn llosgi gan dân.— Yr oedd yr ymadrodd, "Ac efe a gasglwyd at ei bobl," yn cynwys golygiad cyffelyb. Yn Gen. xxv. dywedir, "Abraham a rodde i fyny yr yspryd, ac efe a *gasglwyd at ei bobl*." Nid yw yr ymadrodd hwn i'w ddeall fel yn golygu ei fod wedi ei gladdu gyda'i dadau, oblegid yr oedd tadau Abraham wedi eu claddu lawer o ganoedd o filltiroedd oddiwrth ogof Macbpelah, yn yr hon y claddwyd gweddillion marwol Abraham,—rhai o honynt yn nhir Caldea, a rhai yn ngwlad Mesopotamia, mewn pellder mawr o wlad Canaan. Rhaid gan hyny mai y gwir ystyr ydyw, ei fod wedi ei "gasglu" i gymanfa y rhai cyflawn, i gymdeithas fendigedig ysprydoedd cyffelyb iddo, hynod am eu duwioldeb, y rhai oedd wedi blaenu arno yn eu hymdaith i'r byd anweledig. Gan hyny, dywedai y Salmydd, "Na *chasgl* fy enaid gyda phechaduriaid." Ac y mae Job yn dywedyd, wrth ddarlungio trueni y drygionus, "Y cyfoethog a orwedd yn y bedd, ac *nichesglir ef*;" ac y mae y prophwyd wrth bersonoli y Gwareddwr, yn dywedyd, "Er na *chesglir* Israel, eto gogoneddus fyddaf yn ngolwg yr Ar-glwydd."

Y mae y sylwadau hyn yn ddigonol i ddangos fod athrawiaeth sefyllfa ddyfodol yn adnabyddus, ac yn cael ei chyd-nabod yn gyffredinol gan y patrieirch anrhydeddus, a'r enwogion eraill oedd yn byw dan yr oruchwyliaeth Iuddewig.

Nid amheuwyd erioed fod yr athrawiaeth hon yn cael ei harddangos yn y goléuni egluraf yn y Datguddiad *Cristionogol*, gan unrhyw blaid o grefyddwyr, na chan yr anffyddiaid eu hunain. Pa fodd bynag, nid yw athrawiaeth anfarwoldeb yn y datguddiad hwn byth yn cael cynyg ei brofi drwy ymresymiadau hirfaith, na thystiolaethau goruwch-naturiol, nac yn cael ei gosod allan fel darganfyddiad newydd. Y mae yn amlwg ei bod yn cael ei chymeryd yn ganiatâol, ac y mae yn achlysurol yn cael ei chyd-blethu â darlithoedd ein Hiachawdwr a'r apostolion, fel gwirionedd ag sydd yn gorwedd wrth sylfaen crefydd, ac na ddylid byth ei hameu am foment.— Wrth egluro y pwnc hwn, bydd yn ddigonol i ni ddyfynu ychydig o ymadroddion ysgrifennwyr y Testament Newydd.

Y mae Paul wrth edrych yn mlaen at ddatodiad ei babell ddaearol, yn dywedyd, yn ei enw ei hun, ac yn enw yr holl Gristionogion,—“ Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol, yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni; tra na byddom yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir; canys y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragwyddol. Canys ni a wyddom, os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddatodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragwyddol 'yn y nefoedd.' Pan yr oedd amser ei ymadawriad o'r corph gerllaw, dywedodd, “ Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd; o hyn allan y rhoddwyd coron cyflawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd y Barnwr cyflawn i mi yn y dydd hwnnw; ac nid i mi yn unig, ond i bawb a garant ei ymddangosiad ef.” Y mae yr apostol Pedr yn dywedyd, fod credinwyr wedi eu “ hadgenhedlu i obaith bywiol, i etifeddiaeth anllygredig, dihalogedig, a di-ddifflanedig, ac yn nghadw yn y nefoedd iddynt hwy.” “ Pan ymddangoso y Pen-bugail, y derbyniwn annifflanedig goron y gogoniant.” Y mae ein Hiachawdwr yn dywedyd, “ Yr ydwyf yn rhoddi iddynt *fywyl tragwyddol*, ac ni chyfrgollant byth.” “ Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfanau, pe amgen, mi a ddywed-aswn i chwi. Yr wyf yn myned i baratōi lle i chwi. Mi a ddeuaef drachefn ac a'ch cymeraf ataf fy hun, fel lle byddwyf fi, y byddoch chwithau hefyd gyda myfi.” Ac yn mhellach, “ Llawer a ddeuant o'r dwyrain ac o'r gorllewin, ac a eisteddant gydag Abraham, ac Isaac, a Jacob, yn rheyrnas nefoedd.” “ Yna y disgleiria y cyflawn fel yr haul yn nhernas fy Nhad.”

Tra y mae yr adnodau hyn a'r cyffelyb, yn arddangos yn eglur sierwydd byd tragwyddol, a dedwyddwch dyfodol y cyf-iawnion—y mae yr apostolion a'r efengylwyr, yn llawn mor eglur yn cadarnhau trueni dyfodol y drygionus, “Ni chaiff y rhai anghyflawn etifeddu teyrnas Dduw,” ond, “y rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragwyddol.” Yr Arglwydd Iesu a ddatguddir o'r nef, gyda'i angylion nerthol, a thân ffamllyd, i roddi dîal ar y sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i'r efengyl; y rhai a dderbyniant yn gospedigaeth, ddinystyr tragwyddol o olwg yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef.” “Ac yn niwed y byd, yr angylion a ddeuant allan, ac a ddidolant y drygionus oddiwrth y cyflawn, ac a'u bwriant i'r llyn o dâr, yno i wylofain a rhincian dannedd.” “Ond i'r ofnog, a'r digred, a'r llofruddion, a'r puteiniaid, a'r swyngyfareddwyr, a'r eilun-addolwyr, a'r holl gelwyddwyr, y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi o dâr a brwmsdan.” “Nid â i mewn i'r Jerusalem nefol ddim aflen, nac un gweithredwr anwired, nac un celwyddwr.”

Y mae y ffordd drwy ba un y mae modd cyrhaeddyd dedwyddwch yn y byd dyfodol, yn cael ei ddangos hefyd yn eglur, “Dawn Duw yw bywyd tragwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.” “Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol.” “A hon yw y dystiolaeth, roddi o hono ef i ni fywyd tragwyddol, a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef.” “Duw pob gras, yr hwn a'n galwodd ni i'w dragwyddol ogoniant trwy Iesu Grist,” Y mae tueddiadau y cyfryw a fendithir â'r dedwyddwch hwn, a'r dilyniad o weithrediadau sydd yn eu parotoi at fwynhad hapusrwydd bythol, yn cael eu darlunio hefyd yn eglur, “Pa beth bynag a haou dyn, hyny hefyd a fed efe. Yr hwn sydd yn hau i'r enawd, o'r enawd a fed lygredigaeth; a'r hwn sydd yn hau i'r Yspryd, o'r Yspryd a fed fywyd tragwyddol.” “Ir rhai sydd yn parhau yn gwneuthur daioni, a geisiant ogoniant, anrhyydedd, ac anllygredigaeth, y rhydd Duw wobr bywyd tragwyddol.” “Y pur o galon a welant Dduw.” “Yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw, sydd yn aros yn dragwydd.” “Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid â efe mwyach.” “Bendigedig yw y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo iddynt faint yn inhren y bywyd, ac a ânt i mewn trwy y pyrth i'r ddinas.”

Y mae natur y dedwyddwch nefol, a gorchwylion byd dyfodol yn cael eu nodi a'u hegluro yn achlysuol. Y mae sylfaen dedwyddwch yn y sefyllfa hono yn cael ei amlygu, fel yn gynwysedig o berffaith ryddid oddiwrth anmhuredd moesol, ac mewn cyrhaeddiad o berfffeithrwydd moesol. "Nid â neb sydd yn gweithredu anwiredd, na dim aflan i mewn trwy y pyrth i'r Jerusalem Newydd." "Crist Iesu a'i rhoddes ei hun dros yr eglwys, fel y santeiddiai efe hi, a'i glanhau, ac y gosodai efe hi iddo ei hun, yn eglwys ogoneddus, santaidd, a difeius." Y mae yr anrhyydedd sydd yn aros y ffyddloniaid yn cael ei alw yn "goron *cyflawnder*." Y mae yr etifeddiaeth, i'r hon y maent wedi eu parotöi, yn cael ei gosod allan yn "ddihalogedig" â llygredigaeth moesol; ac y mae yn "etifeddiaeth yn mhlith y rhai a santeiddiwyd." "Pan yr ymddangoso Crist ein bywyd ni," medd yr apostol Ioan, "*y byddwn gyffelyb iddo*," wedi ein haddurno a'r prydferthwch santeiddrwydd a ddangosodd efe ar y ddaear, fel ein siampl a'n cynllun ni. Y mae *gorchwylion* y byd hwnw yn cael eu dangos, fel yn gynwysedig mewn addoli Creawdwr y bydcedd, derchafu ei foliant, myfyrio ar ei waith, ac yn y gwasanaeth bywiog hwnw ag sydd yn tarddu o'r cariad puraf, ac hefyd yn helaethu cymdeithas a dedwyddwch creaduriaid rhesymol. "Ac mi a welais," medd Ioan, pan y dangoswyd golygfa ar y byd dyfodol iddo, "ac wele, dyrfa fawr, yr hon na ddichon neb ei rhifo, o bob cenedl, a llwythau, a phobloedd, ac ieithoedd, yn sefyll ger bron yr orseddfaingc, a cher bron yr Oen, wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion, a phalmwydd yn eu dwylaw, ac yn llefaru â llef uchel, gan ddywedyd, Iachawdwriaeth i'n Duw ni, yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen. Y fendith, a'r gogoniant, a'r doethineb, a'r diolch, a'r anrhyydedd, a'r gallu, a'r nerth, a fyddo i'n Duw ni yn oes oesoedd." Ac y mae yn amlwg fod myfyrio ar weithredoedd Duw yn rhan o wasanaeth trigolion y nef, oddiwrth olygfa a ddangoswyd i'r apostol mewn gweledigaeth arall, pan yr oedd y côr nefol yn cael ei ddarlungio, yn syrthio ger bron yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac yn dywedyd, "Teilwng wyt ti, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhyydedd, a gallu; o blegid ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent ac y crewyd hwynt." Y mae y fath fawrhad a moliant yn deimladau ag sydd yn codi yn naturiol oddiar eu hymchwiliadau ar ryfeddol weithredoedd Duw. Ac mewn cy-

syltiad â gwasanaeth y creaduriaid rhesymol santaidd hyn, y mae côr arall yn cael ei ddarlunio yn canu cân Moses, gwasanaethwr Duw, a chân yr Oen, gan ddywedyd, "Mawr a rhyfeddol yw dy weithredoedd, O Arglwydd Dduw Hollalluog, cywir a chyflawn yw dy ffyrdd, ti Frenhin y saint."

Y mae adgyfodiad y corph i fywyd anfarwol yn cael ei arddangos hefyd yn yr iaith egluraf a mwyaf penderfynol. Dyma un o ddarganfyddiadau neillduol Datguddiad; o blegid, er fod Paganiaid yr oesau boreuol wedi addef anfarwoldeb yr enaid yn gyffredinol, eto, nid ymddengys iddynt erioed ffurfio y dychymyg lleiaf y byddai i gyrph dynion, ar ol pydru yn y bedd, gael eu codi i fywyd drachefn; ac o herwydd hyny, pan gyhoeddodd Paul yr athrawiaeth i ddoethion Athen, galwent ef yn ofer siaradwr. Pa fodd bynag, y mae y gwirionedd pur a chysurol hwn yn cael ei egluro tu hwnt i bob amheuaeth gan y Gwaredwyr a'i apostolion,— "Y mae yr awr yn dyfod," medd yr Iesu, "pan y clywo pawb ar sydd yn y beddau leferydd Mab Duw, ac a ddeuant allan; y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; a'r rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn." "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd, a'r hwn a gred ynof fi, er iddo farw, a fydd byw." "Pa beth, ai anghredadwy y bernir genych chwi y cyfyd Duw y meirw?" "Gan edrych am yr Iachawdwr, yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yn gyffelyb i'r gorff gogoneddus ef, yn ol y nerthol weithrediad, trwy yr hwn y dichon iddo ddarostwng pob peth iddo ei hun." "Nyni oll a gyfnewidir mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf; canys yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodant yn anllygredig, a ninau a newidir." Y mae natur y cyfnewidiad hwn, a hanfod y corph ysprydol, yn cael ei ddarlungio yn fanwl gan Paul yn y bymthegfed bennod o'r Llythyr cyntaf at y Corinthiaid. "Efe a heuir," neu a drosglwyddir i'r bedd, "mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn *anllygredigaeth*," heb fod yn agored i wywdra, afiechyd, nac angau, ond yn anfarwol fel ei Greawdwr. "Efe a gyfodir mewn *Nerth*,"—wedi ei gynysgaeddu â nerth a bywiogrwydd a fydd yn anmhosibl iddo wanhai na threulio, ac wedi ei gymhwysol i ddilyn y meddwl yn ei ysgogiadau mwyaf gweithgar. "Efe a gyfodir mewn gogoniant,"—wedi ei gymhwysol i barhau mewn ieuengctyd a phrydferthwch anfarwol, ac wedi ei wisgo â gogoniant cyffelyb i'r hyn a ymddangosodd ar gorff Crist

pan y "llewyrchodd-ei wynebpryd fel yr haul, a'i ddillad cynwyned â'r eira." "Efe a gyfodir yn gorff *ysprydol*,"—wedi ei buro yn y graddau uwchaf ag y gall defnydd ei oddef, yn gyfaddas at y gweithgarwch mwyaf bywiog, a'r ysgogiadau mwyaf cyflym; ac wedi ei gynsgaeddus âg erwig dirnadaeth, mewn gradd uwch a pherfseithiach ei natur na'r hyn ag y mae efe wedi ei ddonio yn awr, ac wedi ei gyfaddasu fel cludiedydd (*vehicle*) i'r enaid yn ei holl wasanaeth nefol a'i olrheiniadau aruchel.

Dyma grynodeb byr o'r amlygiadau ag y mae y Datguddiad Cristionogol wedi ei wneud mewn perthynas i dragwyddol dynged dynolryw—testyn o bwysigrwydd anfeidrol i bob creadur rhesymol—testyn o arddwysedd a mawredd annirnadwy, ag sydd yn taflu pob gorchwylion pwysig eraill, a phob gwychder arall, i'r cysgod am byth—gwrthrych ag sydd wedi ei gyd-blethu â'n holl gynlluniau, ein holl orchwylion, a'n hachosion cymdeithasol, ac na ddylai byth gael ei ymlid e'n meddwl am foment. Mi a derfynaf, gan hyny, gyda'r dosparth hwn o'm testyn, gyda sylw neu ddau

AR Y DYLANWAD YMARFEROL A DDYLAI ATHRAWIAETH SEFYLLFA DDYFODOL EI GAEL AR EIN SERCHIADAU A'N HODYNGIADAU.

Pan yr edrychom o amgylch ar olygfeydd prysur bywyd dyn, ac yn neilduol pan y myfyriom ar y trafferthion a'r gwychder a welir mewn dinas boblog, ni allwn lai na barnu fod y rhan fwyaf o ddynolryw, ag sydd yn myned heibio o flaen ein golwg, yn ymddwyn fel pe byddai y byd hwn i fod yn gartref tragwyddol iddynt, ac fel pe na byddai yr un berthynas rhyngddynt a'r byd anweledig. Ymhyfrydu mewn boddhad cnawdol, enill awdurdod, cyfoeth, ac enwogrwydd, digoni eu gwagedd, ymddigrifio â darluniau dychymyg, ac arddangosiadau masweddol, pleserau chwareudai a gwâg olygfeydd, ac ymlid pob ystyriaeth am angau a thragwyddoldeb o'r meddwl, a ymddengys yn eu golwg fel dyben uwchaf a phenaf eu bywyd. Dyma ydyw y gwirionedd, nid yn unig am y rhai a addefant eu hunain yn "ddynion y byd," ag sydd yn amheu y'bôd o sefyllfa ddyfodol, ond am filoedd hefyd ag

a arferant fyned i leoedd o addoliad, ag a broffesant eu crediniaeth o wirioneddolwydd byd dyfodol. Y maent yn gwrando ar athrawiaeth bywŷd tragicyddol, a chosp ddyfodol, heb gy-maint â meddwl am y gwirionedd o honynt na'u pwysigrwydd, ond cyn gynted ag y deuant allan o "le y santaidd," ac ymgymysgu yn nghymdeithas y byd, a thrafferthion masnach; y mae pob argraff am y pethau anweledig yn cael ei ddileu oddiar eu meddyliau, fel pe na byddent ond breuddwyd neu ddrychiolaeth nos. Nid yw meithrin y galluoedd deallgar, ymestyn at ragoroldeb moesol, cyflwyno y galluoedd gweithgar at ogont y Creawdwr, a daioni dynolryw—nid yw byw fel dieithriaid a phererinion ar y ddaear, ac ystyried gogoniant y byd hwn fel golygfa yn prysuro ymaith, a chadw golwg gwastadol ar wrthrychau bywyd anfarwol, yn gymeriad ag sydd yn perthyn ond i ychydig nifer mewn cydmariaeth â'r lliaws sydd o'n hamgylch, y rhai a ystyrir gan eu cydradd fel creaduriaid isel ac anwybodus. Er fod angau yn gwneyd rhwygiadau dyddiol yn eu mysg—er fod eu cyfeillion a'u perthynasau, o flwyddyn i flwyddyn, yn disgyn i'r bedd—er fod beirdd ac areithwyr, tywysogion ac athronwyr, gwleidyddion a chwareuwyr, yn colli o'r golwg o blith y rhai byw yn wastadol—er fod afiechyd a chlefydau yn rhwygo o amgylch, ac yn trosglwyddo pob oedran i'r llwch, "y cadarn a'r rhyfelwr, y barnwr a'r hynafgwr, y celfyddydwr, a'r areithiwr hyawdl,"—eto, y maent yn dilyn llwybr anystyriaeth a gwagedd, fel pe byddai pob peth o'u hamgylch yn anghyfnewidiol, ac fel pe byddai eu mwynhad presenol i barhau byth.

Os ydyw y darluniad hwn yn gywir, gallem benderfynu nad oes gan y rhan fwyaf o ddynolryw yr un gred sefydlog yn ngwrthrychau byd dyfodol, a bod mwy na haner y rhai a broffesant eu parch i grefydd heb erioed gael dylanwadu ar eu hymddygiad cyffredin mwy na phe byddai yr ystyriaeth difrifol hwn yn ddim amgen na phwnc o ddychymyg, neu destyn "dadleuaeth amheuol." Y mae yn beth tra dieithr a rhyfeddol, yn nghanol y cyfnewidiadau dibaid ag sydd yn cymeryd lle o'n hamgylch, yn mhlith dynion, fod cynnifer mor anfynych yn edrych dim tu draw i'r bedd, y lle maent oll yn prysuro iddo, ac mor anaml y maent yn ymofyn dim am sierwydd a natur y sefyllfa, i'r hwn y mae cymlawdd amser wedi cludo cenhedlaethau blaenorol dynolryw. Pe byddai i ddyn ieuangc gael sicrhau iddo y byddai iddo yn

mhen dwy flynedd gael ei wneyd yn llywydd ar ryw ynys ffrwythlawn yn Môr yr India, lle y ca'i fwynhau pob pleser daearol a allai ei galon ddymuno,—ymglymai ei enaid yn naturiol â'r gobaith, chwiliai y darlunlenau er cael gwybodaeth am wir sefyllfan ei gartref dyfodol; gwnai bob ymofyniad gyda theithwyr a fyddai wedi ymweled â'r lle, neu a fyddai wedi bod heibio ei derfynau; darllenai gyda bywiogrwydd yr hanes a roddai daearyddwyr am olygfeydd naturiol y fan, am y tir a'r hinsawdd, y cynyrch a'r trigolion; a chyn ymadael, byddai yn ddigon gofalus am ddarparu pob peth gofynol ar gyfer ei fwyniant dyfodol. Pe byddai i ddyn gychwyn i daith y byddai raid iddo ei chwblhau, a bod ei fförd yn myned trwy diriogaeth peryglus, lle y byddai yn agored ar un llaw i syrthio bendramwnwgl i'r dwfn, ac ar y llaw arall i gael ei ddal gan lofruddion didrugaredd, byddai yn ddigon gofalus i edrych o'i amgylch bob cam, a byddai yn llawen ganddo gyfarfod âg ambell arweinydd i ddangos y ffordd iddo tuag at y lle a fyddai yn nôd ei daith. Ond mewn perthynas i fyld dyfodol anweledig, y mae rhyw ddifaterwch ac anystyriaeth anghyfrifol yn meddyliau dynion, ac nid difaterwch yn unig, ond yn fynych y mae eu penderfyniad i beidio gwrando ar ddim a ddyweder yn ei gylch. Byddai ymylu mewn ymddiddan ar y testyn o anfarwoldeb, mewn llawer man, i gael ei ystyried y peth nesaf i sarhad, ac ystyrid y dyn a gymerai y fath hyfdra fel rhodreswr rhagrithiol anwybodus. Mor anghyfrifol o ynfyd ac anioddefol ydyw y fath ymddygiad! yn neillduol pan y meddyliom y bydd y bobl hyny ag sydd mor ddibris pa un a suddant i agendor diddymdra, neu a ddisgynant i ardaloedd tragwyddol drueni, yn treulio dyddiau a nosweithiau mewn tralod ac anobaith, o herwydd colli rhyw bleser cnawdol, neu o blegid rhyw sarhad bychan, neu air ysgafn am eu henw neu eu hanrhyydedd!

Pe byddai yn angenrheidiol dwyn profion ychwanegol nad oes gan y rhan fwyaf o ddynion wir gred mewn sefyllfa ddyfodol, neu rywbeth sydd yn dra thebyg i hyny; nad oes gan yr athrawiaeth ddim dylanwad ar osgo cyffredin eu meddyliau a'u gweithredoedd, y mae arferion mwyafrif cyhoeddus eu bywyd yn rhoddi tystiolaeth digon eglur ar y gwirionedd galarus hwn. A wnai dyn, a fyddai yn credu yn ddiysgog ei fod yn ddeiliad byd tragwyddol, dreulio deg-a-deugain neu dri-ugaïn o flynyddau o'i fywyd, heb gymaint ag un ystyr-

iaeth ddifrifol yn nghylch y byd dyfodol anweledig, i'r hwn y mae i fyned yn fuan, ac heb wneuthur yr ymofyniad lleiaf yn nghylch ei natur a'i orchwylion? A lafurai efe o'r boreu hyd yr hwyr gyda gofal dibaid er casglu ychydig o drysorau anwadal, ac heb dreulio yr un awr byth mewn ystyriaeth pa baratöadau sydd yn ofynol ar gyfer bodoliaeth dragwyddol? A ddirmyga efe y llyfr sydd wedi dadlenu gogoniant a dychryniadau tragwyddoldeb, ac wedi dwyn "bywyd ac anllygredig-aeth i oleuni?" A wawdiai efe y dyn sydd yn ymofyn am y ffordd at ddedwydd anfarwoldeb, ac a gyfrifa efe yn elyn ddo yr hwn a ddymunai alw ei sylw at achosion byd anwel-edig? A ellir tybied fod y dyn hwnw yn credu fod coron gogoniant yn ei aros yn y nef, yr hwn y byddo holl sylw ei enaid yn cael ei gymeryd i fynu gan uchelgais, ac sydd yn sarnu ar bob egwyddor o gyflawnader a gwirionedd er mwyn enill rhyw swydd o elw ac anrhydedd? A all y rhieni hyn y fod yn credu "fod trysor yr hwn ni ddiflana" yn y nef, tra y maent hwy yn dysgu eu plant i feddwl mai enill *cyfoeth* neu ffafri y mawrion ydyw y gwrthrychau pwysicaf y gallant eu hymofyn? A all yr henafgwr gwageddol sydd a'i holl fryd ar bleserau fod yn ystyried ei hun megis ar ddibyn byd tra-gwyddol, ac eto ddifyru ei hun yn arferion ynfyd a diles yr oes, ac heb byth daflu ei olwg tu draw i'r bedd? A all y bydolddyn caled hwnw sydd yn cau ei glustiau oddiwrth y tlawd a'r anghenus, yr hwn sydd yn crafangu ei drysorau gyda'r fath egni, hyd yn oed yn ewinedd angau, gredu fod "taledigaeth y gobrwy" yn ei aros "yn adgyfodiad y rhai cyflawn?" A all y dyn hwnw fod dan argraff golygfeydd byd tragwyddol, y moment ar ol trosglwyddo perthynas i'r bedd, a fedro droseddu pob teimlad dynol a chyfeillgar, ac er mwynhau ychydig bunoedd a sylltau, ysbeilio y weddw a'r amddifad o bob mwyniant daearol? A all y gwenieithiwr hwnw sydd yn wastadol yn hela am swyddau a chyflogau, gan genfigenu wrth ei uwchafion, a'i fywyd yn ddilyniad o frad-wriaeth, anudonedd a thwyll, gredu fod yr "holl gelwyddwyr a'u rhan yn y llyn sydd yn llosgi o dâr a brwmsdan?" A all yr afradlon anystyriol hwnw gredu fod cospedigaeth ddyfodol ar weithredwyr anwiredd, yr hwn sydd yn rhedeg o'r naill ryseidd i'r llall, ac yn treulio ei amser mewn ffolineb a gwas-traff, a'i holl oes yn llawn o droseddau? Neu a allwn ni dybied fod yr offeiriad hwnw sydd yn sychedu yn barhaus am

dderchafiad, ac yn cneifio ei braidd yn ddidrugaredd, ac eto yn esgeuluso eu hyfforddi, ac mewn cyfreithiau yn barhaus o herwydd mân ddegymau, yn credi nad yw trysorau y byd hwn yn haeddu eu cydmaru â'r tragwyddol bwys gogoniant a ddatguddir i ni" yn y bywyd dyfodol? Y mae y fath ymddygiadau yn dangos yn eglur, pa broffes bynag a wnielo y fath gymeriadau, nad ydyw sylweddau y byd tragwyddol yn cael dim mwy o ddylanwad ymarferol ar eu meddyliau, na phe byddent yn eu hystyried yn ddim amgen na drychiolaethau disail a breuddwydion ofer.

Nid rhyw osodiad rhagdybiol ydyw athrawiaeth sefyllfa ddyfodol, fel testyn ymchwiliad arddansoddol, neu rywbeth i orphen rhyw drefniant anianyddol neu dduwinyddol. Y mae yn wirionedd o'r *pwys ymarferol* mwyaf, ac a ddylai fod wedi ei gyd-wau â holl restr ein meddyliau a'n gweithredoedd. Eto, pa nifer sydd, hyd yn oed o'r rhai a wisgant yr enw Cristionogol, sydd yn wastadol mewn dadleuon ymrysongar yn nghylch natur *ffydd*, ac erioed heb deimlo dylanwad y ffydd sydd yn "sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrywyd y pethau nid ydys yn eu gweled," ag sydd yn sylweddoli i'r meddwl ogoniant y byd anweledig, fel pe byddai yn bresenol. Os ydym yn credu athrawiaeth anfarwoldeb mewn gwirionedd, amlyga ei hun yn ein meddyliau, ein serchiadau, a'n gweithredoedd. *Arweinia ni i iawn brisio gwerth pob mwyniant daearol.* O blegid yn ngoleuni tragwyddoldeb y mae yr holl drafferthion bydol a gymer dynion arnynt eu hunain yn ymddangos fel gwagedd, ac y mae yr holl wrthrychau dis-glaer sydd yn tynu sylw y llygad fel cysgod yn myned heibio. Y mae golwg sylweddol ar sefyllfa dragwyddol yn cuddio y disgleirdeb a wêl dyn cnawdol ar wychder a gogoniant y byd hwn, ac yn dysgu fod y cyfan yn diflanu ac yn gwywo, ac y bydd i'r mwyniant daearol rhagoraf gael ei ddwyn oddiarnom yn fuan. O blegid ni allwn ddwyn gyda ni yr arwydd lleiaf o anrhydedd bydol, yr un ffyriling o'r trysorau, dim o'r meddianau ysblenydd, nac yr un linell o brydferthwch ein personau, i'r ardaloedd tu draw i'r bedd. *Bydd yn anogaeth i ni roddi ein serchiadau ar bethau sydd uchod, ac i ymhyfrydu mewn myfyrdodau nefol.* "Lle y byddo ein trysor, yno bydd ein calon hefyd." Trwy ymgodi yn uwch na hyfrydwch cnawdol, a therfynau cyfyng amser, y myfyriwn ar yr éang ardaloedd na welodd llygad, a myfyriwn yn ngoleuni rheswm a datgudd-

iad ar y golygfeydd o ddedwyddwch a mawredd a ymagorant ar yr yspryd dignawd pan y gollynga ei babell ddaearol i'r llwch. Fel Seneca, pan yr oedd yn myfyrio mewn dychymyg, ar fawredd a phrydferthwch ser y nef, ac yr edrycha i lawr gyda dibrisdod mawrfrydig ar y ddaear fel brycheuyn, o'r braidd yn weledig, gan ddywedyd, "Ai at y llecyn bychan aew y mae holl ddybenion mawrion a dymuniadau dynion wedi cael eu cyfyngu? Ai yn nghylch hwn y mae y fath aflonyddu cenhedloedd—y fath gyflafan, a'r fath ryfleoedd dinystriol? O ffolineb dynion twyllledig! pan y dychymygant am deyrnasoedd mawrion o fewn cylch llwchyn, pan y codant fyddinoedd i ranu *dernyn* o ddaear a'u cleddyfau! Y mae o'r bron, fel pe rhanai y morgrug eu tyrod yn daleithiau, a meddwl fod y maesydd yn gynnifer o deyrnasoedd, ac ymryson yn enbyd yn nghylch eu terfynau, a gorfoeddu yn eu buddugoliaeth wedi enill troedfedd o dir, fel talaeth newyddl at eu hymerodraeth." Y mae pob gogoniant daearol yn cymylu yn ymyl goleuni y nef, ac y mae y meddwl yn cael ei buio a'i dderchafu, pan y byddo llygad ffydd yn tremio i'r tu fewn i'r llen, ac yn canfod disgleirdeb nef y nefoedd.

Eilwaith, os ydym yn credu athrawiaeth anfarwoldeb, byddwn yn ofalus i ochel y pechodau hyny a'n dyga yn agored i drueni yn y byd dyfodol, ac i feithrin y teimladau a'r rhinweddau hyny a'n parotoa i fwynhau tragwyddol ddedwyddwch. Y mae gwahaniaeth hanfodol a thragwyddol rhwng rhinwedd a drygioni, pechod a santeiddrwydd; a bydd y gwahaniaeth wedi ei gyflawn arddangos yn y byd a ddaw. Yr hwn y mae ei fywyd yn oes o anwired, ac sydd wedi ymroddi i gyflawni "pob AFLENID yn un chwant," yn dyfod trwy y fath ymddygiad, "yn llestr digofaint, *wedi ei gymhwys i golledigaeth*;" ac yn ol natur pethau, nid oes modd diange rhag trueni yn y byd dyfodol, os bydd i'w fodolaeth barhau. Felly, yr hwn sydd wedi ymgylwyno i fywyd santaidd, yr hwn sydd yn caru ei Greawdwr gyda'i serch uwchaf, a'i gymydog fel ef ei hun, ag sydd yn ychwanegu at ei ffydd "rinwedd, gwybodaeth, cymedrollder, amynedd, caredigrwydd brawdol, a chariad," sydd yn cael ei gymhwys at gymundeb tragwyddol a Thad yr yspryd-oedd, ac at gymdeithas a'r bodau deallgar santaidd, sydd yn poblogi ei ymerodraeth eang. Eto, dylai y gred am fyd dyfodol ein cymhell i arferiad o *foddlonrwydd*, ac i *gymodi ein meddwl a'r holl drallodion a'r cystuddiau a drefna Rhagluniaethi*

i ni yn y byd hwn. - Obliged nid yw dioddefiadau yr amser presenol hwn, yn haeddu eu cyffelybu a'r gogoniant a ddat-guddir i ni." Os credwn fod y dilyniad o amgylchiadau sydd yn gysylltiedig a'n bywyd presenol yn cael eu rheoli gan An-seidrol Ddoethineb a Haelfrydedd, rhaid fod peth sydd yn ein cyfarfod yma yn dylanwadu yn neillduol ar y byd dyfodol, ac yn effeithio er ein parotoi i fwynhau y gwasanaeth ac i archwaethu yr hyfrydwch. Mewn gair, os cydnabyddwn y drychfeddwel am fywyd anfarwol, ni a ymdrechwn i ymosyn am olygiadau eglur ac eang, am ei natur, ei bleserau, a'i orchwylion. Ni foddlonwyn ar syniadau aneglur a dyryslyd am y dedwyddweli nefol; ond ni a ymdrechwn i ffurfio drych-fedylliau mor benderfynol a chryno ag y gellir, cyn belled ag y mae ein hamgylchiadau presenol yn caniatau. Ni a chwiliwn Oraclau Dwyfol Ddatguddiad, a darganfyddiadau gwyddoriaeth, ac a ymdrechwn i dynu oddiwrth y naill a'r llall, yr ystyriaethau uchelaf a allwn eu ffurfio am yr "etifeddiaeth anlygredig, a dihalogedig, a diddisflanedig, ag sydd yn nghadw yn y nefoedd i'r ffyddloniaid."

Mewn gair, os ydyw ein meddwl dan argraphiadau mor ddwys gan y testyn; ag y mae ei bwysigrwydd yn galw, ni a brofwn deimladau cyffelyb i'r rhai a effeithiwyd ar feddwl Hieronymus, pan y myfyriai ar ddatodiad y byd, ac ar olyg-feydd pwysig y farn ddiweddaf." Pa un bynag a wnelwyf a'i hwytai yfed, neu yn mha waith neu orchwyl bynag y byddwyf yn ymarfer y mae y llais arddwysaidd hwn, fel pe byddai yn seinio yn barhaus yn fy nghlystiau, 'Cyfodwch feirw, a deuwenh i farn.' Cynifer gwaith bynag y meddyliwyf am ddydd y farn, y mae fy nghalon yn crynu, a'm holl natur yn arswydo. Os bydd i mi fwynhau rhyw gyfran o bleserau y byd hwn, yr wyf yn penderfynu gwneud hyny yn y fath fodd ag na byddo i sylweddau difrifol y farn ddyfodol byth gael eu dileu oddiar fy meddwl."*

* Sive comedam, sive bibam, sive aliquid aliud faciam, semper vox illa in auribus meus sonare videtur: Surgite Mortui, et venite ad judicium. Quotius diem iudicii cogito, totus corde et corpore contremisco, Si qua enim presentis vitae est letitiae, ita agenda est, ut unquam, amaritudo futuri iudicii recedat a memoria.

RHAN II.

AR GYSYLTTIAD GWYDDORIAETH A SEFYLLFA DDYFODOL.

Y MAE cryn wrthwynebiad wedi ei wneud yn fynych gan lawer o'r rhai a fynent gael eu hystyried yn dduwiol, yn nghylch *gwagedd gwyddoriaeth ddynol*. Y mae llawer o dduwinyddion yn eu hysgrifiadau, ac yn eu cyhoeddiadau o'r areithfa, wedi ceisio addurno eu darlithoedd, a mawrhau gwirioneddau yr Ysgrythyr yn fynych, drwy eu cydmaru a'r hyn a ddewisant ei alw yn "drysorau llygradwy gwybodaeth wyddoriaethol." "Y mae y wybodaeth a dynwn o'r Ysgrythyrau," meddant, "yn abl i'n gwneuthyr yn ddoeth i iachawdwriaeth; ac y mae pob gwybodaeth arall, mewn cydmariaeth, yn ynydwyd. Fe beru y wybodaeth am Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, dros byth, ond y mae pob gwybodaeth ddynol i derfynu, ac a *dderfydd am byth, pan y delo y byd hwn i ben*. Y mae llawer yn dihoeni eu hunain wrth dreiddio i wyddoriaeth ddynol, tra nad ydyw yr oll a ddeillia iddynt oddiwrth hyny, yn ddim amgen na gwagedd a gorthrymder yspryd. Gall dynion ddyfod yn athrourwyr enwog, a thrysori pob math o wybodaeth ddynol, ac eto, fod yn dragwyddol golledig. Beth sydd a wnelom ni a'r planedau a'r ser, a pha un a ydynt wedi eu poblogi ai peidio? Ein pwnc ni ydyw talu sylw i iachawdwriaeth ein heneidiau."

Yn awr, er fod rhai o'r honiadau uchod a'r cyffelyb, wrth eu hesmwytho a'u hesbonio, i'w haddef fel gwirionedd, eto y mae y rhan fwyaf o honyn, a chanoedd o ymadroddion o'r fath, yn fwysaidd ac yn gyfeiliornus. Er hyny, pe yr addefid hwy oll yn wirionedd pur, pa effaith dda a all y mynuch adroddiad o'r fath gydmariaethau a chyferbyniadau, ei gael ar y cyffredin o'r bobl a anerchir felly, y rhai sydd eisoes yn rhy ddiawydd am ymestyn at wybodaeth gyffredinol—oni wnai iddynt ddychymygu ei fod yn ofer, a than rai amgylchiadau yn beryglus, i chwilio am unrhyw wybodaeth heblaw yr hyn

a geir yn *uniongyrchol* o'r Ysgrythyr? A pha beth ydyw y wybodaeth ag y mae y rhan fwyaf e'r rhai sydd yn mynychu y tai addoliad, wedi ei gael o gynhwysiad yr Oraclau Santaidd? Y mae yn rhy fynych, yr wyf yn ofni, yn dra arwynebol a thywyll, a hyny i raddau mawr, o herwydd eisiau ystyriaeth meddwl priodol, yr hyn ag y byddai i ychydig o lafur gyda gwyddoriaeth ddefnyddiol ei sicrhau.

Y mae y fath adroddiadau ag a grybwylais, yn amlwg yn codi oddiar raddau byr iawn o hysbysiaeth, ac oddiar gyfyngder cylch myfyrdod y cyfryw rai. Y mae yn ystyriaeth tra galarus fod neb, ac yn enwedig, pregethwyr yr efengyl, yn ymdrechu i guddio eu hanwybodaeth, drwy ddibrisio yr hyn yr addefant na ddarfu iddynt ei gyrhaedd erioed, a chan hyny, na allent ei ddeall na'i werthfawrogi. Y mae llawer o weinidogion crefyddol gwybodus ac ystyriol, wedi cael eu harwain trwy rym arferiad, i ddyfynu ymadroddion rhai eraill, ac i ddefnyddio dywediadau oedd yn tuedd i leihau defnyddioldeb gwybodaeth wyddoriaethol; ac eto yn gyffredin, y rhai hyny, sef y rhai mwyaf anwybodus, a'r rhai sydd wedi darllen a sylwi leiaf, ydyw y rhai mwyaf blaenllaw yn eu dedfryd ryfygus ar y pwnc hwn. Nid ydym yn canfod byth yn unrhyw ran o'r Cofnodau Santaidd, yr un gydmariaeth na chyferbyniaid o'r fath a nodais, ac ni chynhygiodd yr un o'r ysgrifennwyr ysprydoledig erioed osod *gair* Duw yn erbyn ei *weithredoedd*, ac ni feiddient atal dynion i fyfyrion ar ryfeddodau creadigaeth, oddiar y rheswm o fod hyny yn llai ei bwys na myfyrio yn y gair. Yn y gwrthwyneb, defnyddient bob cyfleusdra priodol i alw sylw at beirianwaith a threfn, ac at eangder a mawredd y byd gweledig; ac yr oedd eu teimladau crefyddol yn cael eu gwresogi gan y fath fyfyrddau. Gwedi i'r Salmydd orphen ei olrheiniad o wahanol barthau natur, fel y mae yn eu darlunio yn Psalm 104, y mae yn tori allan yn y teimladau canlynol: "Mor lluosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaethost hwynt oll mewn doethineb, llawn yw y ddaear o'r gyfoeth; y ddaear sydd yn llawn o'r drysorau; felly y mae y mor llydan. Gogoniant* yr Arglwydd sydd yn dragywydd; yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd. Canaf i'r Arglwydd tra fyddwyf byw, canaf i'm Duw tra fyddwyf." Oblegid y mae gweithredoedd gweledig Duw yn amlygu yr un

* Hyny yw,, arddangosiad y priodoliaethau dwyfol yn y greadigaeth, fel y mae cysylltiad yr ymadroddion yn dangos yn eglur.

priodoleddau hanfodol yn y Duwdod, ac am reolaeth ei ragluniaeth, a datguddiadau ei air. Ac un o brif ddybenion y gair hwnw ydyw cyfarwyddo dynion at fyfyrddod rhesymol a duwiol yn ei weithredoedd, ar y rhai y mae ei ogoniant wedi ei aml y gu yn ardderchog. Ac felly, y mae cynyg mawrhau gair Duw drwy ddiraddio ei weithredoedd, neu osod y naill yn erbyn y llall, yn ceisio gosod y Duwdod yn ei erbyn ei hun, ac atal dynion rhag offrwm y deyrnged o foliant ac addoliad sydd yn deilwng i'w enw. Y mae yn wirionedd, pa foddy bynag, fod yr athronydd yn fynych, wedi ystyried y greadigaeth fel peiriant yn gweithredu wrtho ei hun, ac yn annibynol. Y mae ef wedi rhodio drwy olygfeydd mawreddog creadigaeth, ac wedi olrhain y deddfau sydd yn llywodraethu ysgogiadau y cyrph wybrenol, a'r achosion sydd yn peri gwahanol arddangosiadau naturiaethol trefniant y byd hwn, ond heb offrwm y deyrnged o ddiolchgarwch a moliant ag sydd yn ddyledus i'r Achos Cyntaf, na phrofi y teimladau o addoliad a pharch, ag y mae y fath fyfyrddod yn tueddu i'w cyffroi. Ond nid yw yn llai gwirionedd fod y duweinydd hefyd, wedi teithio trwy faesydd datguddiad droiau, a myfyrio ar ei athrawiaethau, ei ffeithiau, a'i orchymynion moesol, ac ysgrifenu cyfrolau i amddiffyn ei darddiad nefol, ac i bleidio ei wirionedlau, yn erbyn haeriadau ei wadwyr ac er hyny heb deimlo y cariad aruchel at Dduw, a'r serch tuag at ei gymydog, ag a ofynir mor benodol gan yr Ysgrythyrau, a dangos hefyd mewn bywyd bob tueddiadau croes i'w orchymynion santaidd. Byddai ymresymiad wedi ei seilio ar annuwioldeb llawer a honant eu hunain yn athronwyr, i'n hatal i fyfyrio ar y byd naturiol, gan hyny, yn llawn mor rymus i'n hatal rhag myfyrio ar y datguddiad dwyfol, pan yr ystyriom fod llawer a broffesant eu hunain, fel rhai yn derbyn ei athrawiaethau, eto yn byw mewn holol elyniaeth i'w gyfarwyddiadau santaidd. Y mae y fath engreiftian yn dangos yn y naill amgylchiad fel y llall, fod dyn yn greadur tra egwan ac anghyson, ac yn rhy dueddol i anghofio ei Greawdwr, ac i grwydro oddiwrth wir ffynhonell dedwyddwch.

Mewn gwaith a elwir, " *Yr Athronydd Cristionogol*," yr wyf wedi ymdrechu i egluro y testyn yn helaeth, a dangos fod gan olrheiniad gwaith creadigaeth, dan arweiniad gwir wyddoriaeth, duedd i eangu ein dirnadaeth am allu, doethineb, hael-frydedd, ac arolygiaeth rhagluniaeth Duw; ac y gellir defnyddio yr amrywiol wyddoriaethau a dyfeisiadau celfyddyd, i

fod yn wasanaethgar er cefnogi dybenion gwir grefydd, ac er lledaenu ei dylanwad yn mlith y cenhedloedd.—Yn bresenol, mi a gyfyngaf fy ngolygiadau i'r ychydig nodiadau canlynol, er egluro y gosodiad hwn,—“Fod cysylltiad rhwng gwyddoriaeth â sefyllfa ddyfodol.”

Haeriad tywyll a *chyfeiliornus*, ar lawer golygiad, ydyw yr hyn a adroddwyd yn fynych ar y pwnc, sef—nad oes gan yr hyn a elwir gwybodaeth ddynol, neu y gwyddoriaethau, ddim cysylltiad a'n bodolaeth anfarwol, ac na byddant o un math o ddefnydd wedi y delo y byd hwn i ben. Y mae gwirionedd o bob math, yn dragwyddol a digyfnewid, ac o herwydd hyny, ni allwn dybied fod yn afresymol i ni farnu, na bydd egwyddorion sefydlog amryw o'r gwyddoriaethau yn sylfaen rhesymiad a gweithrediad yn y sefyllfa ddyfodol, yn gystal a'r un bresenol. Y mae y cyfanswm yn fwy nag y gall yr un o'i ranau fod; y mae tri ochr ongl mewn triongl yn gyfartal â dwy ongl uniawn; y mae ochrau triongl cyffredin y naill i'r llall yn gydraddol, fel y mae ochrau yr onglau cyferbyniol iddynt. Y mae y cyfryw osodiadau a llawer eraill cyffelyb, mor wirioneddol yn y nef ac ydynt ar y ddaear, ac fe ddichon eu bod yn wirioneddau mor ddefnyddiol yno ag ydynt yma gyda ni yn awr.

DYBEN OLRHEINIAD GWYDDORIAETHOL.

Mewn trefn i ochel cael ein camddeall, ac i arbed pob dyrswch meddwel ar y pwnc, efallai na byddai yn anmhriodol yn y lle cyntaf, i ni fanylu ac egluro beth a feddylir wrth y gair *Gwyddoriaeth*.

Gwyddoriaeth, yn yr ystyr gyffredin, a olyga, *wybodaeth* o bob desgrifiad; ac mewn ystyr gyfyngach, golyga, y fath hyny o wybodaeth ag a gyrrhaeddir yn benaf drwy ymarferiad a'r galluoedd dynol; ac mewn ystyr gyfyngach drachefn, golyga, y graddau celfyddgar hyny o wybodaeth ag sydd yn gynwys-edig mewn rheol a threfn;—megys daearfesuriaeth, rhifyddiaeth, alsawdd, athroniaeth naturiol, daearyddiaeth, seryddiaeth, fferylliaeth, mwnyddiaeth, a llysieuaueth. Yn y sylwadau canlynol, gellir cymeryd y gair yn y naill fodd neu y llall, ond yn neillduol yr olaf, yr hwn yw yr ystyr mwyaf pridol a chyffredin iddo.

Trwy gyfrwng olrheiniad gwyddoriaethol, y mae galluoedd y meddwl dynol wedi eu cryfhau a'u heangu yn rhyfeddol, ac y mae ein gwybodaeth am weithredoedd y Creawdwr wedi ymhelaethu yn fawr. Y mae gwyddoriaeth wedi ein galluogi i deithio o'r naill gyfandir i'r llall, a hwylio ein taith trwy yr eigion di-lwybr, ac i ardiemio dros yr amrywiol olygfeydd a ddengys wyneb y ddaear; y mae wedi ein dysgu i esgyn uwchlaw ardaloedd y cymylau, ac i dreiddio i goluddion y ddaear, ac i olrhain y cyfnewidiadau ag y mae y ddaear yn myned danynt er amser ei chreadigaeth. Y mae wedi agor o flaen ein golwg wybodaeth am natur a chyfansoddiad yr awyrgylch, a'r defnyddiau o ba rai y mae yn cael ei ffurfio, a'i ddylanwad er cynal tan, a fflam, a bywyd llysieuol ac anifeilaidd. Ar yr egwyddorion ag y mae gwyddoriaeth wedi ei sefydlu, yr ydym wedi ein galluogi i wybod pellder yr amrywiol gyrph nefol, i fesur eu maintioli, a deall amser eu troadau; a thrwy help yr offerynau a ddyfeisiodd, yr ydym yn medru cymeryd golwg nôs ar y bydoedd pellenig,—i fyfyrion ar ryfeddodau newyddion creadigaeth yn ardaloedd yr wybren, sydd yn gorwedd yn mhell tu hwnt i allu y llygad noeth i dremio iddynt,—ac i olrhain yr ardaloedd anweledig, lle y mae afrifed o fodau bywiol yn cael eu crynhoi o fewn cylch pwynnt gweledig.—O herwydd y fath ddarganfyddiadau, yr ydym wedi ein bendithio â modd i gael dirnadaeth eangach ac eglurach am nerth rhyfeddol Hollalluogrwydd, ac am ddyfnderodd anmhlymiadwy anfeidrol ddoethineb goruwchreolaeth rhagluniaeth Duw, ac am y gofal tadol a ddengys efe dros ei holl greaduriaid, ac am eangder diderfyn y deyrnas, ar yr hon y mae yn llywodraethu.

Y mae y galluoedd â pha rai y mae dyn wedi medru gwneud y darganfyddiadau a grybwylais, wedi eu planu yn ei gyfansoddiad gan law ei Greawdwr; ac y mae y *gwirthrychau*, ar y rhai y mae y galluoedd hyn i gael eu harfer, yn waith y Creawdwr; a pho mwyaf manwl y caffont eu chwilio, mwyaf effeithiol y dangosant ogoniant ei gymeriad a'i briodoeddau. Gan hyny, rhaid mai bwriad y Creawdwr ydyw, fod i ddyn arfer y galluoedd a dderbyniodd mewn ymchwiliadau gwyddoriaethol; onid ê, ni buasai yn ei gynysgaeddu a'r fath alluoedd, nac yn agor y fath ddalenau o'i ymerodraeth ger bron ei olwg. Nid yw olrheiniadau gwyddoriaethol gan hyny, yn ddim amgen nag ymchwiliad i gynlluniau a gweithredoedd y Bod tra-gwyddol, mewn trefn i ddadlenu priodoliaethau ei natur, rheol

ei ragluniaeth yn llywodraethiad ei greaduriaid, a'r deddfau wrth ba rai y mae yn trefnu ysgogiadau naturiaeth yn gyffredinol. Y mae yn wir, y dichon i lawer a alwant ei hunaiu yn athronwyr, fod heb gadw y dyben hwn mewn golwg wrth wneud eu hymchwiliadau. Gall fod rhai yn gweithredu oddiar yr egwyddor o gywreingarwch yn unig, neu er mwyn elw bydol, neu o awydd i enill enw yn mysg y dysgedigion, drwy y darganfyddiadau a ddygant i'r goleuni; a'r un modd y mae rhai duwinyddion yn gweithredu wrth fyfyrion ar drefniant Cristionogaeth. Ond er hyny, y mae y darganfyddiadau a wnaed gan y cyfryw, yn amlygiadau gwirioneddol o gynlluniau y Duwdod, ac yn agor o flaen y meddwl duwiolfrydig, olygiadau eangach ar allu, doethineb, a haelfrydedd yr Hwn "sydd yn rhyfeddol yn ei gyngor, ac yn ardderchog yn ei weithredoedd." Ein bai ni ein hunain ydyw, os na thynwn addysg briodol oddiwrth ymchwiliadau a darganfyddiadau anianyddiaeth; y mae hyny yn tarddu oddiar ddiffyg deall i wahaniaethu rhwng cynlluniau dynion â gweithredoedd Duw, a'r diffyg o'r parch, y gostyngeiddrwydd, a'r addoliad, a ddylai ganlyn ein holl fyfyrddodau ar naturiaeth. Y mae Gwyddoriaeth gan hyny, beth bynag a fyddo dyben dynion wrth ei chwilio, mewn gwirionedd yn golygu, *ymofyniad am Dduw*; myfyrdod angylion a bodau deallgar uwch ydyw; ac ni allwn dybied fod yr un bod santaidd drwy yr holl fydysawd, nad ydyw yn ymarfer mewn rhyw ffordd neu gilydd, a'r ymchwiliadau hyn, os na allwn feddwl fod creaduriaid rhesymol a moesol yn holol ddiystyr o amlygiad gogoniant Duw, ac yn holol ddiofal pa un a ydynt yn cynhyddu yn ngwybodaeth eu Creawdwr ai peidio.

GWRTHRYCHAU AR BA RAI Y MAE Y NEFOLION YN MYFYRIO.

Ni a ystyriwn yn awr, y gwrthrychau, ar y rhai y bydd galluoedd creaduriaid rhesymol nefol yn cael eu hymarfer, mewn ffordd o ymchwiliad.

Bydd i olygfa ardderchog naturiaeth yn gyffredinol—yr es-gynlawr mawreddog ar yr hwn y mae yr Hollalluog yn arddangos ei briodoliaethau gogoneddus i luaws dirifedi,—barhau yn

sylweddol fel y mae yn awr, wedi i'r holl gyfnewidiadau perthynol i'r ddaear hon gymeryd lle; a'r golygfeydd eang ac eglur sydd ar drefniant y byd, yn ei symudiadau, a'i ogoniant neillduol, y rhai a agorir y pryd hwnw i'w golwg, a fydd yn wrthrychau arferiad eu galluoedd, ac a ffurfia ran fawr o ddedwyddwch creaduriaid moesol adferedig

Gellir profi y bydd i drefniant cyffredinol naturaeth barhau yn debyg fel y mae yn awr, oddiwrth y rhesymau canlynol.

1. Oddiwrth *nifer a mawredd diderfyn* y cyrph sydd yn ei gyfansoddi. Y mae y greadigaeth yn ymddangos fel wedi ei haddurno â phelenau disglaer dirifedi, yn mhob ffordd y trown ein golwg, a'r rhai hyny yn gwasgaru cu goleuni o ardaloedd o bellder annirnadwy. Y mae yn agos i gan miliwn o honynnt yn weledig trwy y drych-beiriant cryfaf; ac y mae yn fwy na thebyg fod miloedd o filiynau eto beb eu canfod, tu hwnt i gyrhaedd trem y gwydrau goreu a ffurfiwyd, y rhai na all llygad dyn mo'u gweled tra y byddo ar y ddaear hon. Y mae yr holl gyrph ysblenydd hyn hefyd, o faintioli annychymyadwy, y rhai, mewn cydmariaeth a hwy, y mae ein daear ni yn colli i bwynt fel brycheuyn. Y mae yn debygol fod y lleiaf o honynnt yn gan mil mwy na'r ddaear y preswyliwn ni arni o leiaf.
2. Y mae yr holl gyrph hyn mewn *pellder anfesuradwy* oddiwrth y ddaear. Pe gallem ni redeg mewn taith, gyda chyflymder o ddeng mil o filltiroedd bob dydd, gofynai i ni fod fwy na phum miliwn o flynyddoedd cyn y cyrhaeddem y seren nesaf; ac y mae eraill sydd tu draw iddynt wedi eu gosod mewn ardaloedd mor bellenig, fel y mae y dychymyg yn boddi ac yn ymddyrys u wrth geisio ymestyn am yr eangder anfesurol sydd rhyngom a hwy. Gan fod y cyrph hyn yn weledig oddiwrth y fath bellder, y mae hyny yn profi eu bod o faintioli a disgleardeb dirfawr, a bod pob un o honynnt wedi eu bwriadu i ateb rhyw ddyben pwysig, yn eu gwahanol gylchoedd, teilwng o gynlluniau Bod o anfeidrol ddoethineb a daioni.
3. Nid oes gan yr holl gynulliad hwn o hauliau a bydoedd *ddin cysylltiad uniongyrchol* â threfniadau ein daear ni. Nid oes yr un o'r cyrph i gefol yn dal un cysylltiad na dylanwad uniongyrchol a'r ddaear, oddigerth yr haul a'r lloer, a nifer o'r planedau; felly ni ellir barnu fod y bydoedd pellaf hyny at ba rai y cyfeiriwyd, yn agored i'r drygau naturiol, ag y mae cwmpdyn wedi eu dwyn i'n byd ni; nac yn dal yr un berthynas ag unrhyw gyfnewidiad neu ddinestr a all gyfarfod y ddaear. Pe byddai i'r ddaear,

a'r hyn holl sydd ynnddi gael eu datod ; ie, pe byddai i'r haul ei hun a'r planedau sydd yn ei gylchynu gael eu gosod yn wenfflam, a'u dileu am byth o'r greadigaeth—byddai i'r lluaws cyrph mawrion sydd yn britho ardaloedd pellenig y byd, barhau i lewyrchu y gwagleodd gyda disgleirdeb annhreuliadwy.

EANGDER Y DINYSTR CYFFREDINOL.

Y mae yn amlwg oddiwrth yr ystyriaethau a grybwyllywyd yn awr, na bydd y cyfnewidiadau a ragfynegir sydd i gymeryd lle yn y gwenfflamiad cyffredinol, i ymestyn tu hwnt i derfynau ein daear ni, neu o'r hyn bellaf, dros derfynau trefniant yr haul. Nid oes yr un rheswm i benderfynu yr ymestynant yn ddini pellach na'r ddaear ei hun, a'r awyrgylch sydd yn ei chylchynu; oblegid yn gymaint ag mai at breswylwyr y ddaear hon y mae cyfeiriad yr oll o ddatguddiedigaethau yr Ysgrythyr, rhaid i ni olygu fod y cyfnewidiadau a ragfynegir a gymerant le ar ei threfn naturiol, yn niwedd goruchwyliaeth bresenol Rhagluniaeth, yn gyfyngedig i'r un cylch. Fel y dinystriwyd y byd gynt trwy y dwfr diluw, o herwydd pechod dyn, felly bydd i'r dinystr trwy dŵn gymeryd lle, o herwydd yr un achos; fel y byddo iddo gael ei buro oddiwrth effeithiau y *felldith* a gyhoeddwyd ar y ddaear o herwydd dyn, ac i gael ei adferu i'w drefn a'i brydferthwch dechreul. Ond nid oes y rheswm lleiaf i farnu oddiwrth yr Ysgrythyr, neu ffurfiad cyffredinol y bydysawd, y bydd i'r dinystr ymestyn dros y rhan hono o osail natur, a ddarostyngwyd dan effeithiau y felldith ; ac o ganlyniad y bydd wedi ei gyfyngu yn hollo i gyfnewidiadau penodol a gymer le ar gyfandiroedd, ynysoedd, a meroedd, yn ngwahanol barthau yr awyrgylch.

Dyma yr ystyr yn mha un y mae esbonwyr cywiraf yr Ysgrythyr yn gosod allan yr adnodau a gyfeiriant yn neiliduol at y testyn hwn. Y mae Dr. Guyse yn ei "Aralleiriad ar y Testament Newydd" yn esbonio 2 Pedr iii. 7, 12, yn union yn y golygiad hwn. "Pan y daw dydd gorphenol a phenderfynol yr Arglwydd Iesu,—bydd y *nefoedd awyrol* oll yn flam, ac i gael ei distrywio, a bydd i ddefnyddiau hanfodol yr awyrgylch, yn nghyd a'r ddaear a'r oll sydd ynnddi gael eu toddi yn nghyd gan ddirfawr wres, yn dryblith dyrys, cyffelyb i'r peth ydoedd

pan ei ffurfiwyd gyntaf." Ac mewn nodiad ar yr aralleiriad hwn y dywed, "Wrth y nefoedd y meddyllir y *nefoedd awyrol*, oblegid y mae y nefoedd a'r ddaear yn cael llefaru am danynt mewn cyferbyniad i'r eiddo yr hen fyd, yr hyn na allai olygu dim mwy na'r ddaear a'i hawyrgylch blaenorol, ansawdd parai a aeth dan gyfnewidiad mawr drwy y diluw."—"Wrth y *nefoedd a'r ddaear*, yn y cyfryw ymadroddion," medd y dysgedig Dr. Mede, "y dealer y gyfran hono o naturiaeth a ddarostyngwyd dan effeithiau y felldith, neu sydd yn cael ei breswylio gan elynion Crist; ac a gynhwysa y ddaear, y dwfr, a'r awyr, ond nid y cyrph nefol, y rhai sydd nid yn unig mewn pellder dirfawr oddiwrth y ddaear, ac nad ydyw hi ond megis brycheuyn o ran maintioli i'w chydmaru â hwy." Y mae Dr. Dwight mewn cyfeiriad at y testyn hwn yn mynegi yr un golygiad. "Y mae y geiriau, y *nefoedd a'r ddaear* (medd efe) yn iaith yr Iuddewon, yn golygu y bydysawd. Yn yr amgylchiad presenol, pa fodd bynag, (2 Pedr iii. 10, 12, 13.) ymddengys fod y geiriau yn cael eu harfer mewn golygiad cyfyngach, lle yr amlygir, y bydd i'r hyn a osodir allan yn y ddu air, gael eu hysu a'u datod. Dywedir i ni y bydd i'r amgylchiad rhyfeddol hwn gymeryd lle yn niwedd y farn fawr; ac ni roddir i ni yr un awgrymiad yn yr *Ysgrythyrau*, y bydd y farn yn cynwys neb ond dynion ac angylion."

Y mae yn amlwg oddiwrth yr ystyriaethau blaenorol, pan yr arfera yr ysgrifenwyr ysprydoledig y fath ymadroddion a'r rhai hyn,—"Y ser a syrthiant o'r nef"—"nerthoedd y nefoedd a ysgydwr"—"y nefoedd a aeth heibio fel plyg llyfr," nad ydynt i gael eu deall yn *llythrenol*, ond yn *ffugyrol*, a'u bod yn gosod allan, gyfnewidiadau, cyffroadau, a chwyldroadau yn y byd moesol. Pan y dywedir mewn cyfeiriad at ddatodiad y ddaear a'i hamgylchoedd, y bydd i'r nefoedd fyned heibio gyda thwrf, nid yw hyny yn anhawdd i'w ddirnad, gan ein bod yn awr yn adnabyddus o'r defnyddiau a'u ffurfiant. Y mae un egwyddor hanfodol o'r awyr yn cynwys fflam; a phe na byddai i'r defnydd hwn gael ei wrth-weithio gan ddefnydd arall, neu pe ei gollyngid i weithredu yn ol ei helfen ei hun, byddai y ddaear oll yn wenfflam o amgylch ar unwaith, yr hyn a osodai sylfaeni y mynyddoedd i ffaglu, ac a gylchynai yr eigion â fflam, ac a doddai, nid yn unig y glô, a'i coed, a defnyddiau ysol eraill, ond hefyd a losgai y defnyddiau calétaf o fewn natur i gyd. Pan y delo dinystri olaf y ddaear, y mae yn dra

thebygol y bydd i'r *oxygen a'r nitrogen*, neu ddwy elfen yr awyr, gael eu gwasgaru oddiwrth eu gilydd gan y Bôd Hollalluog, ac y mae yn hawdd deall, y moment y cymer y gwahaniad hwn le, y bydd gwrthdarawiad ofnadwy, ac y bydd y rhwygiadau mwyaf arswyodus yn rhuo trwy yr éangder o amgylch y ddaear, yr hwn a syfrdana y byd, ac a sigla y ddaear i'w sylfaeni. Fel y mae gwasgariad yr elfenau hyn ar gylch bychan, neu en dyfodiad i gyffwrdd â fflam, yn peri rhwygiad mawr,—pa faint mwy fydd y trwst dirfawr a gymer le, *pan y datoder yr holl awyrgylch ar unwaith*, ac y gwasgerir eu helfenau hanfodol, ac y gadewir hwy yn rhydd i redeg i'w dinystr naturiol. Bydd yn dwrf fel pe byddai naturiaeth yn holtti trwy ei chanol, ac yn cael ei ddilyn â fflam gyffredinol, yn ymledu dros dir a môr, ac yn olygfa ddychrynllyd, ac yn cwbl ateb i'r darluniad a roddir yn yr Ysgrythyd am yr olygfa ddifrifol.

Yn mhellach, pan y dywedir mewn cyfeiriad at yr amgylchiad hwn, "Y nefoedd a'r ddaear a aethant heibio," (Dat. xx 11,) nid ydym i olygu y bydd i fydoedd pellenig y bydysawd gael eu difodi, neu eu symud o'u lle, ond y bydd i'r holl drefniant perthynol i'r ddaear hon, gael ei daflu i gyffro ac annhrefn, ac y bydd i'r bydoedd nefol gael eu cysgodi allan o'r golwg, yn ninyst yr elfenau, fel y byddant yn ymddangos megis pe byddent wedi myned heibio. Byddai yr agwedd hon ar y bydoedd yn chwyldroi mewn cyflymder, i gael ei achosi pe byddai i'r Hollalluog atal ysgogiad dyddiol y ddaear mewn sydynrwydd (fel y mae yn debygol y gwna), neu ynte, pe byddai iddo gynhyddu cyflymder ei thróadau; parai hyny i'r bydoedd nefol ymddangos fel pe byddent wedi sefyll yn eu cylchoedd, neu eu taflu i gyffröad gwylt. Ac ymddangosai y bydoedd fel yn colli o'r golwg, pe byddai i'r ddaear adael ei sefyllfa bresenol yn mysg y planedau, neu gael ei hyrddio i barthau pellenig cysawd yr haul, neu tu allan i'w derfynau; ac felly ymddangosai yr haul ei hun fel yn ffoi ymaith yn brysur i wagder pell, nes colli yn raddol i fychander seren, ac o'r diwedd o'r golwg yn llwyr. Pa un a ydyw y tybiau hyn yn cyfateb yn gywir i drefniadau Dwyfol Ddoethineb mewn perthynas i'r dinystr cyffredinol, nid wyf yn cymeryd arnaf benderfynu. Ond yr wyf wedi eu mynegi er mwyn dangos fod yn hawdd deall y darluniadau ysgrythyrol am ddatodiad y ddaear a'i hamgylch-oedd; ac i ddangos y gellir eu cwblhau lieb fod yr un eyfnewidiad yn y bydysawd tu allan i derfynau y ddacar a'i hawyrgylch.

Byddai tybied, fel y gwna rhai, y bydd i holl adeilad y greadigaeth gael ei dinystrio yn chwilfriw, y bydd i'r ser yn llythyrenol syrthio o'u rhodau, ac y bydd i'r byd defnyddiol gael ei ddileu o fod, yn olygiad gwrthun, ac anghyson â rhediad cyffredinol yr Ysgrythyr, ac â chymeriad Duw, fel y mae yn rhyfedd meddwl fod y fath beth wedi dyfod i ddychymyg dyn erioed, a fyddo yn galw ei hun yn dduwinydd, neu yn bregethwr Cristionogol.* Cefais achlysur yn barod i sylwi nad oes yr un enghraipht o ddihanfodiad, neu gwbl ddinystri sylweddau defnyddiol, gan nad pa nifer o gyfnewidiadau a gymero le yn y bydysawd.† Nid oes genym yr un rheswm i gredu y bydd i'r cyfnewidiadau a gyferfydd ein daear ni, yn y dinystri cyffredinol, ddiweddu yn ei holl ddifodiad. Bydd y defnyddiau o ba rai y mae y ddaear a'i hawyrgylch wedi eu cyfansoddi, i barhau wedi newid ei threfniad presenol, ac yn ol pob tebygolrwydd, defnyddir hwy mewn trefniad newydd, wedi ei buro oddiwrth yr holl ddrygau naturiol sydd yn awr, i lewyrchu fel cofadail o Ddwylfol allu a doethineb trwy oesau diderfyn.

Yn unol â'r golygiadau hyn y mae yr Ysgrythyr yn arddangos sefydlogrwydd a pharhad y greadigaeth. Mewn adnod a goffawyd eisoes, y mae y Salmydd, wedi bod yn myfyrio ar olygfeydd y greadigaeth ddefnyddiol, yn datgan, mewn cyfeiriad at yr amlygiadau hyn o'r priodoliaethau Dwyfol, "Gogoniant yr Arglwydd a bery yn dragwydd, yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd." Y mae yr Apostol Pedr, wrth ddarlunio datodiad elfenau y ddaear, yn dangos parhad adeilad weledig natur, "Nefoedd newydd a

* Fel engraipht o'r dywediadau gwrthun ar y testyn hwn, a gyhoeddwyd o'r areithfa ac o'r wasg, y mae y talfyriad canlynol, a gymerwyd o gyfrol o bregethau a argraphwyd yn ddiweddar, yn ddigonol:—"Bydd udganiad y seithfed udgorn i daranu yn ddychrynllyd drwy yr awyr, ac i adsain o fydd i fyd, gan lanw yr èanger, ac yna ni bydd amser mwyach! Y mae y chwe' udgorn wedi udganu eisoes; pan y chwythir y seithfed, cymer cyfnewidiad holol le drwy yr holl grèadigaeth; datoda y byd èang yr ydym yn preswylio arno yn awr, ac ymgymysga â'r awyr brydferth uwchben, a'r haul, a'r lloer, a'r holl oleuadu fydd yn ffamio yn un dinystri cyffredinol; y cwbl a ánt hefibio fel niwl prysur, fel gweledigaeth breuddwyd nos, heb ddim o'u holion yn aros! Hyd yn oed Angau, y gelyn diweddaf, a ddinystir, ac ni bydd amser ei hun mwyach!" &c., &c. Pan y mae y fath faldordd fföl yn cael ei daranu yn nghlustiau dynion Cristionogol, nid yw yn rhyfedd fod eu drychfeddyliau ar y testyn hwn mor hynod o anghywir, a rhyfeddol o wrthun.

† Gwel Dosp. X. tu dalen 96.

daear newydd (medd efe) yr ydym ni, yn ol ei addewid ef, yn eu disgwyl." Y mae yr un gwirioneedd yn cael ei fynegi yn achlysurol mewn rhanau eraill o'r Ysgrythyr. Yn y prophwydoliaethau am y Messiah, a pharhad ei deyrnas, dywedir, "Ei enw a fydd byth, ei enw a bery *tra fyddo haul*." Y mae yr ymadroddion hyn yn dangos yn eglur na bydd i'r haul gael ei ddileu allan o'r greadigaeth, ond y bydd iddo barhau i gynal sefyllfa bwysig cyhyd ag y parhão y Gwareddwr a'i bobl. Dywedir hefyd, mewn cyfeiriad at yr un person gogoneddus, "Gwnaf i'w had ef barhau yn dragwydd, a'i orsedd fel *dyddiau y nef*;" yr hyn sydd yn dangos y bydd i'r nefoedd barhau cyhyd â llywodraeth Emmanuel. Mewn cyfeiriad at sefydlogrwydd a pharhad y goleuadau nefol, dywedir fod, "Jehovah wedi *parotoi ei ORSEDDFAINGC yn y nefoedd*." A phan y mae y Salmydd yn galw ar holl greaduriaid y byd i dderchafu moliant y Creawdwr, y mae yn dywedyd, mewn cyfeiriad at y cyrph nefol, "Molwch yr Arglwydd, haul a lleuad, molwch ef, ser y goleuni—Molianent enw yr Arglwydd; canys efe a orchymynodd, a hwy a grewyd; *gwnaeth iddynt barhau byth yn dragwydd; gosododd ddeddf, ac nis troseddir hi*."* Y mae yr ymadroddion hyn yn dangos yn amlwg, pa gyfnewidiadau bynag a gymer le mewn gwahanol gysawdau, y bydd y bydoedd hyn yn gyffredinol yn ffurfio golygfeydd ardderchog y bydysawd, ac y parhant yn sefydlog fel Gorsedd y Bôd Tragwyddol ei hun. Ond heb luosogi dyfyniadau, y mae y cyhoeddiad canlynol o eiddo Jehovah, trwy y prophwyd Jeremiah, yn benderfynol ar y pwnc: "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, yr hwn sydd yn rhoddi yr haul yn oleuni y dydd, defodau y lloer a'r ser yn oleuni y nos; Yr hwn sydd yn rhwygo y môr pan ruo ei donau; Arglwydd y lluoedd yw ei enw: *Os cilia y defodau hyny o'm gwydd i, medd yr Arglwydd*, yna had Israel a baid a bod yn genedl ger fy mron i yn dragwydd."† Y mae y geiriau hyn yn cynwys yn eglur, os parhâ y goleuadau hyn mewn bodolaeth, fod cyflawniad yr addewid ddwyfol yn cael ei sicrhau i holl had ysprydol Israel; ond pe byddai iddynt gael eu dileu o'r greadigaeth, neu ymsymud allan o wyddfod Jehovah, byddai dedwyddwch "gwaredigion yr Arglwydd," a'u perthynas âg ef fel ffynhonell eu cysuron,

* Gwel Salm Ixxii. 17; lxxxix. 36, &c.; ciii. 19: cxlviii. 3-7.

+ Jeremiah xxxi. 35, 36.

i golli yn dragwyd. Ac onid yw y goleuadau hyn wedi parhau yn eu sefyllfanau er pan gyhoeddwyd y rhagfynegiad hwn dros ystod rhagor na dwy fil o flynyddoedd? Ydynt, a pharhant eto i ddangos gogoniant eu Creawdwr tra y byddo oesau dirifedi yn treiglo yn mlaen. Gan hyny, y datgenir, mewn perthynas i "saint y Duw Goruchaf," "A'i ddoethion a lewyrchant fel disgleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a dröant lawer i gyfawnder, a *fyddant fel y ser byth ac yn dragwyd.*"

Mewn gair, pan yr ystyriom éangder diderfyn y ffurfafen serenog, a'r golygféydd ardderchog a ddengys, y rhai sydd yn cynhyddu yn barhaus yn eu gogoniant; a'r lluaws dirifedi o greaduriaid deallgar sydd yn ddiâu yn poblogi eu hardaloedd éang—pan yr ystyriom eu bod yn ffurio prif ran ymerodraeth y Bôd Tragwyddol, golygféydd mwyaf rhyfeddol ei weithrediadau, a'r amlygiadau hynotaf o'i allu a'i ddoethineb—byddai yn un o'r tybiau mwyaf gwrthun a ellid eu dychymyg, a'r mwyaf anghyson â phob drychfeddwyl ysgrifyrol a rhesymol ag a allwn ei ffurio am ddaioni a gwybodaeth y Duwdod, y byddai i wrthrychau ei lywodraeth éang, yn mha rai y mae ei briodoliaethau yn disgleirio mor ysblenydd, gael eu goddef i syrthio yn ddrylliau, neu suddo yn ddim. Gyda llawn cystal rheswm y gallem farnu y byddai i'r Creawdwr mawr ei hun beidio a bod, ag i'r éangder anfeidrol gael ei adael yn wagnod heb na defnydd na meddwl o'i fewn.

Os addefir fod yr ystyriaethau hyn yn gedynn, ac os na ellir dadymchwelyd y gosodiadau a ddygais ger bron ar seiliau ysgrifyrol a rhesymol, y mae llawer o'n pregethau a'n barddoniaeth, sydd yn proffesu eu bod yn rhoddi darluniad o olygféydd y "Dydd diweddaf," i'w hystyried yn cynwys math o faldordd sydd yn tueddu i ddyrys y meddwl, ac i goleddu syniadau anaddas am berffeithderau y Creawdwr, a'r trefniant doeth a ffurfiodd yn nghyfansoddiad y greadigaeth. Y mae un Bardd enwog, wrth ysgrifenu ar y testyn hwn, i'r dyben o osod grym yn ei ddarluniadau, yn tori allan yn y gormodiaith canlynol, pan yn cyfeirio at y nefoedd serenol:—

"Mor bell o ddwyrain i orllewin faith!—
Prin gall y llygad olrhain eitha'r daith!—
A thremio drwy yr asur derfyn sy',
Yn llwybrau dirfawr yr wybren fry,
Mor éang, fel nad yw y ddaear hon
Ond gronyn bach, wrth ei chydmaru, bron!"

Y miloedd sy'n addurno'r awyr las,
 Fel lampau aur, yn gwasgar goleu 'i maes,
 Mor fawr, mor gadarn, mor ardderchog y'nt!
 Teilwng o fythol oesau ar eu hynt!
Ond eto'r oll a gwym pant fel y dail,
A'r ddaear, fel yr wybren, gwymp o'i sail!
 Treng amser, a naturiaeth syrth i lawr,
Heb adael llwchyn, trwy'r èangder mawr..-
 A'r cyfan oll, un maith chwyldroad yw,
 'Does dim a ddeil o dan orseddfa Duw."

Eilwaith,

"Y llenni ffy, â dinystri dros y byd,
 Yr haul, y lloer, a'r ser a dawdd yn nghyd,-
 Aeth oll ar goll, pa olion mwyach sy'?
 Er teced oedd y peiriant unwaith fu."

Pe byddai i'r darluniadau uchod gael eu cyflawni, *ni byddai adgyfodiad y meirw yn ddichonadwy*—dychwelid y bydysawd yn wagnod èang—a byddai gogoniant gweledig y Creawdwr, trwy yr hyn y mae ei briodoliaethau yn cael eu cydnabod gan greaduriaid rhesymol terfynol, i gael eu gysgodi mewn tywyll-wch o dragwyddol nos. Nid oes gan ddarnau o brydyddiaeth o'r fath, pa mor fynych bynag y caffont eu hadrodd gan areithwyr gwresog, i roi grym yn eu darluniadau, yr un duedd amgen nac arwain y gwrandawyr i ddyryswn a chyfeiliornad, ac i'w hatal i fyfyrion yn ystyriol ar y golygfeydd a ragfynegir yn yr Ysgrythyr, ac i gyffroi gwawd yr anffyddwyr.

Yr unig ran o'r Ysgrythyr sydd yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, yn taro yn erbyn y gosodiad a roddais i lawr, sydd yn Salm cii. 25, 26. "Yn y dechreuad y seiliaist y ddaear; a'r nefoedd ydynt waith dy ddwylaw. Hwy a ddarfyddant, a thi a barhei; ie, hwy oll a heneiddiant fel dilledyn; fel gwisg y newidi di hwynt, a hwy a newidir." Y mae rhai esbonwyr, megis Mr. Pierce, ac eraill, yn barnu mai wrth y nefoedd a'r ddaear yn yr ymadroddion hyn, y golygir *llywodraethau*, neu *deyrnasoedd gwladol a chrefyddol*, fel y mae y geiriau i'w deall weithiau yn eu hystyr ffugyrol. Ond nid ymddengys mai hyn ydyw eu hystyr yn y fan hon. Wrth eu cymeryd yn eu golygiad llythyrenol, gallant fod yn cyfeirio at yr un gwrth-rychau a chyfnewidiadau, a'r hyn a olyga yr Apostol Pedr yn ei ail Epistol, pen. iii. 7, 10, a eglurwyd yn flaenorol, yn y rhai y cyfeirir at y ddaear a'r nefoedd awyrol yn eu chwyldroad yn niwedd amser. Ond pe tybiem fod y geiriau i'w

deall yn eu hystyr éangaf, fel yn dynodi *holl adeilad y byd naturiol*, ni byddai hyny mewn un modd yn gwanhau y gosodiad yr wylf yn ei gefnogi. Prif amcan yr adnodau hyn ydyw gosod allan dragwyddoliaeth ac anghyfnewidioldeb Duw, mewn cyferbyniad â natur gyfnewidiol bodau creuedig. Y mae pob defnydd yn agored i gyfnewid, ond nid yw cyfnewidiad yn golygu *dinestr* neu *ddihanfodedd*. Pan y dywedir, “fod y cyfawn yn *darfod*, ac nad yw neb yn gosod hyny at ei galon,” “a'r rhai sydd yn ymbellhau oddiwrth Dduw yn cael eu *distrwynio*,” nid ydym i ddeall fod y naill na'r llall yn cael eu dileu o fodolaeth. Felly, pan y dywedir fod y nefoedd a'r ddaear yn *darfod*, deallir am gyfnewidiad neu chwyldroad yn cymeryd lle, ac nid hollol ddinestr. Dywedir yn mhellach, “Ac megis gwisg y plygi di hwynt, &c.” Ymddengys fod hyn yn cael ei lefaru mewn cyfeiriad at arferiad sydd gan y Dwyreinwyr, yn mysg y mawrion, o newid eu dillad yn fynych, fel arwydd o barch; ac y mae yn dangos gyda'r fath rwyddineb a chyflawnder y gall y Bôd Dwyfel wneud cyfnewidiadau pwysig yn y greadigaeth. Gall beri cyfnewidiad a chwyldroad mewn bydoedd a chysawdau, mor hawdd ag y gall twywsog newid ei wisg neu ddiosg ei ddillad. Ond ni byddai ei waith yn cyfnewid unrhyw drefniant o'i ansawdd gyntefig, yn ddim amgen nac agor golygfeydd newyddion, ac amrywio ei oruchwyliaethau mewn perthynas i ansawdd neillduol ei greaduriaid. Ac nid yw yr ymadroddion dan sylw yn ein harwain i gasglu y bydd i'r cyfnewidiadau hyn gymeryd lle *ar yr un pryd*, ond yn hytrach ar wahanol amserau, trwy barhad diderfyn, yn ol cyngor ei ddoethineb ei hun.

Y mae genym dystiolaethau digonol yn mhob parth o natur, fod gwrthrychau defnyddiol yn agored i gyfnewidiau a dad-gysodiad. Y mae y ddaear y safwn arni felly; yr ydym yn gweled fod y pridd ar yr ucheldiroedd yn agored i gael ei dreiglo i lawr gan wyntoedd a gwlawogydd. Y mae ceulanau yn crynhoi ar enau yr afonydd, a bryniau yn codi yn nghanol y môr, er dychryn a rhwystr i'r morwyr. Yn mhob cloddfa, ac ar wyneb pob craig a llethr, yr ydym yn canfod arwyddion annhhrefn, ac effeithiau cyfnewidiadau blaenorol, a chyffröadau natur; ac o amgylch godreuon mynyddau tanllyd, yr ydym yn canfod dinasoedd wedi eu gorchuddio gan bentwr o'r golosg; gwinllanoedd a pherleni wedi eu dinystrio, a thiroedd ffrwythlawn wedi eu troi yn anialwch disathr. Y mae adystyr-

iaeth, yr un modd, yn dangos fod goleuadau y nef yn agored i gyfnewidiadau cyffelyb. Y mae deddf pwys a thyniad yn estyn ei dylanwad dros yr holl fydoedd nefol, ac yn tueddu, mewn ystod dilyniad o oesau, i dynu yr holl fydoedd éang yn un pentwr dirfawr yn nghyd; ac oni bai fod llaw Duw yn eu cadw yn eu rhodau, díau mai dyna fyddai y canlyniad, a dy-chwelid yr holl greadigaeth yn un cymysgedd o adfeiliau. Deallir fod llawer o'r ser yn agored i gyfnewidiadau parhaus, i amrywio yn eu disgleirdeb, i ymddangos ac i ymguddio ar droiau; tra y mae eraill a fu yn llewyrchu yn fwy ysblenydd, wedi colli o'r golwg yn raddol, heb fod eu lle yn yr wybren yn adnabyddus mwy. Y mae ser eraill oedd yn anadnabyddus yn yr oesau gynt, wedi ymddangos yn ddiweddar; ac y mae llawer man yn mhellder y ffurfafen i'w weled yn cynhyddu yn barhaus yn ei ddisgleirdeb. Y mae y ffeithiau hyn a'r cyffelyb yn arddangos cyfnewidiad a chwyldroad cymaint, os nid mwy na'r hyn a ragfynegir sydd i gymeryd lle ar y ddaear, pan y byddo i'w hawyrgylch gael ei ddatod, a'r elfenau gan wir wres doddi, fel y byddo i fyd newydd godi o'r adfeiliau. Y mae yn bosibl yn ystod parhad diderfyn, y bydd i'r holl gysawdau sydd yn awr, ar y naill bryd a'r arall, fyned dan gyfnewidiadau ac adffurfiau a fydd yn syndod i'r bydoedd deallgar, ac agor golygfeydd newyddion ardderch-occach o waith y Creawdwr yn y byd; ond eto bydd y cyfnewidiau yn gwbl wahanol i ddiddymiad neu holol ddinistr — a chwbl wahanol i'r drychfeddyliau a wisgir gan brydyddion pan y dywedant i ni "na adewir yr un llwchyn yn y gwagle mawr," ac na bydd daear nac wybren mwy." Nid oes genym yr un lle i farnu fod y ser hyny a ymddangosasant, un yn 1572, a'r llall yn 1604, ac a lewyrchent yn debyg i Gwener, ac a gollwyd wedi hyny o'r golwg, wedi cael eu diléu o'r greadigaeth. Dichon eu bod naill ai wedi eu cyfnewid o fod yn heuliau ffiamioig yn gyrph tywyll fel y planedau, ond eto yn aros yn yr un cylchoedd o'r éangder; neu efallai iddynt gael eu cludo ymaith mewn cyflym ysgogiad i ardal o'r byd, tu hwnt i'n golwg ni, neu ynte i ryw sefyllfa allan o gyrhaedd ein dirnadaeth a'n holrheiniad ni. Oblegid nid yw difodi gwrt hrychau yn un rhan o gynllun y Creawdwr; o leiaf, nid oes genym ni yr un prawf o'r fath beth, mewn unrhyw amgylchiad; ac y mae y drychfeddwli ynddo ei hun yn anghyson, ac yn groes i'r hyn a wyddom yn barod am gymeriad a gweithredoedd Duw.

Y mae y fath gyfnewidiadau, yn lle lleihau gogoniant gwel-edig y bydysawd, yn arddangos i olwg creaduriaid rhesymol, *amrywiaeth uwch o olygfa ardderchog*, na phe byddai i "bob peth barhau fel yr oeddynt o ddechreuaad y greadigaeth," ac y maent yn arddangos priodoliaethau Duw yn ngogoniant y greadigaeth. Tra y maent yn arddangos cyfnewidioldeb y creadur, ac anghyfnewidioldeb y Creawdwr, y maent yn rhoddi bywiogrwydd yn ngolygfeydd y greadigaeth, ac yn derchafu mawrhad a moliant lluaws dirifedi o greaduriaid rhesymol.

Oddiwrth yr ystyriaethau a grybwyllyd yn awr, gwelwn na bydd i'r amrywiol berthynasau sydd rhwng y cyrph nefol a'u gilydd fyned dan unrhyw gyfnewidiad o bwys drwy y chwyldroadau a all gymeryd lle ar y ddaear a'i hamgylchoedd; ac na bydd cyfnewidiad o bwys i gael eu wneud ar ansawdd y byd drwy y gweithrediadau a wneir ar y bydoedd wybrenol. Pa beth bynag a fydd natur y cyfryw gyfnewidiad, neu pa mor bwysig bynag y gall fod i'r trigolion, ni effeithia nemawr ar agwedd gyffredinol y byd. Er fod ser wedi colli o'r golwg yn y ffurfafen lawer gwaith, ac wedi myned dan chwyldroadau pwysig, eto y mae ymddangosiad wyneb yr wybren yn parhau yn gyffelyb yn mhob oes. Pe byddai i'n daear ni gael ei throsglwyddo gan mil o filiynau o filltiroedd o bellder oddiwrth ei sefyllfa bresenol, er hyny byddai agwedd gyffredinol a pherthynasau y bydoedd, a dull y gwahanol gyd-ser yn ymddangos ar y cyfan, yr un fath ag y maent yn awr, i olwg ein llygaid. Er enghraiph, byddai i gyd-ser *Orion* neu *Charles' Wain*, ymddangos yn yr un agwedd, a chyda'r un nifer o ser, a'r un berthynas â'r cyd-ser cymydogaethol iddynt, pe yr edrychid arnynt o bellder 1,000,000,000,000,000* o filltiroedd oddiwrth y ddaear, fel y maent i'w canfod yn awr.†

* Hyny ydyw, mil o *billions*; y mae *billion* yn ateb i gan mil o filiynau.

+ Ymddengys hyn yn holol amlwg i'r neb a ystyrio bellder dirfawr y ser oddiwrth y ddaear, a'r naill oddiwrth y llall. Yr ydym yn gwybod trwy brofiad nad yw newidiad lle yn ateb i 190 o filiynau o filltiroedd, neu dry-fesur cylch-blynnyddol y ddaear, yn peri yr un gwahaniaeth gweledig yn y nefoedd wybrenol; ac y mae yn amlwg na byddai ond yr un fath pe lluosogid y pellder hwnw ddeg can mil o weithiau. Y mae y seren nesaf, o leiaf yn 20 *billion* o filltiroedd o bellder; a'r ser pellaf yn llawer mil o *billions* o weithiau yn mhellach drachefn; gan hyny, ni byddai i sefyllfa cyrph wedi eu gwasgaru mor bell oddiwrth eu gilydd, ymddangos wedi newid nemawr drwy newidiad lle, yn cyfateb i fil o *billions* o bellder.

Byddai éangder, maintioli, perthynas lle, pwys a thyniad, grym tröadol, ag ysgogiadau cylchynol, i barhau yn y greadigaeth, pe byddai i ni gael ein symud i sefyllfa arall ac i ardal arall; o ganlyniad, bydd y *gwyddorion* seiliedig ar yr amrywiol berthynasau hyn, ac ar y deddfau sydd yn eu llywodraethu, i gael eu meithrin gan greaduriaid rhesymol, a'u dwyn yn mlaen i'r graddau hyny o berfffeithrwydd na allant ei gyrahaedd yn eu cyflwr presenol; os na bydd i ni dybied yr hyn sydd hollol anghyson a'r *Ysgrythyr*; sef y bydd ein gwybodaeth *yn fyrach* yn y byd a ddaw nag ydyw yn awr.

Er enghraifft, y mae y deddfau sydd yn llywodraethu y cyrph sydd yn cwympo, yr ymddangosiadau a achosir gan gyrph sydd yn symud yn y ffurfafen gyda graddau gwahanol o gyflymdra, symudiadau yr haul a'r ser, ac egwyddorion cyffredinol daearyddiaeth a seryddiaeth, ar y blaned Jupiter, neu ryw fyf cyffelyb, gydag ychydig eithriadau, agos yr un fath a'r hyn ydyw ar wyneb y ddaear,—yr hyn sydd amlwg oddiwrth grynder ei agweddiad, ei dröadau dyddiol a blynnyddol, oddiwrth yr ystyriaeth o fod pwys a thyniad yn cael ei reoli wrth yr un deddfau ar y corph hwnw, a bydoedd o'r fath, ag ydyw ar wyneb y ddaear neu y lloer. Y mae deddfau *gwelediad*, a natur *goleuni a lliwiau*, yr un fath drwy bob parth o'r greadigaeth sydd o fewn cylch ein sylw; ac nid oes genym yr un achos i gredu y bydd i ddeddfau cyffredinol y byd gael eu datod o blegid dyn, neu o herwydd unrhyw gyfnewidiau a all ddygwydd yn ei breswylfa bresenol, na'i sefyllfa ddyfodol. O blegid, yn ol geiriau athronydd enwog diweddar o'r Alban, "Y mae y goleuni, drwy yr hwn y mae y ser sefydlog yn weledig, yr un peth a'r hwn sydd yn ein galluogi i weled yr haul a'r planedau. Y mae yn symud gyda'r un cyflymder, fel yr ydym yn sylwi wrth gydmaru newidion y ser sefydlog a diffygadau lleuadau Jupiter. Y mae yn cael ei adlewyrchu wrth yr un deddfau. Y mae yn gynwysedig o'r un lliwiau. Ni ellir ffurfio yr un meddwl, gan hyny, am oleuni yr haul, nad ydyw yn gymhwysiadwy yr un modd at oleuni y ser sefydlog. Rhaid fod cyfrwng gwelediad yn cael gweithredu arno yr un modd yn y naill a'r llall, pa un bynag a dybiwn ei fod yn effeithiad o awyr, neu ollyngiad defnydd o'r corph llewyrchus hwnw." Gallwn benderfynu oddiwrth y ffeithiau hyn, fod egwyddorion sylfaenol gwyddoriaeth *gwelediad gwrthrychau* yn cael dylanwadu arnynt yr un modd yn yr ardaloedd

pellaf ag y gellir eu holrhain â'r drychbeiriant, ac yn ffurio rhan o'r wybodaeth hono sydd gan greaduriaid deallgar sydd yn cyfaneddu yn y cymydogaethau pell hyny o ymerodraeth y Creawdwr,—ond dylem gadw sylw yn wastadol ar y cyfnewidiau a'r amrywiaethau llêol hyny a raid ffurio gwahanol olygfeydd drwy y greadigaeth, ac mai yr un deddfau cyffredinol sydd yn llywodraethu y cyfan.

Y mae yr hyn a fynegwyd yn awr mewn perthynas i oleuni, pwys a thyniad, a'r gwahanol effeithiau ar ddefnydd, mor gymhwys at lawer o amgylchiadau eraill, a'r gwyddorion a ffurfiwyd arnynt, megis mewn perthynas i wasgiad ac ysgogiad hylifau, defnydd cyrph ysol, gwefryddiaeth a thyniad, a'r holl berthynasau mewn dadgysodiad a newidiad, sydd yn wrthrychau olrheiniad *fferyllawl*. O blegid yn y byd defnyddiol yn mhob man o'r gwagle, yn ol natur pethau, rhaid fod amrywiaeth gwrthrychau yn destynau olrheiniad y naturiaethwr, y fferyllydd, a'r athronydd, yn yr hyn y byddo doethineb a daioni y Duwdod yn cael ei amlygu yn barhaus. Y mae i bob cysawd ddefnyddiol, pa le bynag o'r éangder y byddo, ei maintoli a'i hagweddiad penodol; y mae wedi ei chyfansoddi o luaws dirifedi o fân ronynau, yn ol eu hamrywiol drefniadau; y mae iddo ffurf arwynebol a mewnl arbenig; y mae yn ddarostyngedig i symudiadau neillduol; y mae yn dal perthynas neillduol â'r cyrph a fyddo yn ei gylchynu; ac y mae wedi ei fwriadu i ateb ryw ddoeth ddybenion yn cyfateb i dragwyddol gynllun y Creawdwr. Nid oes yr un ran o drefniant defnyddiol ag sydd yn awr, neu a all fod eto, ond a raid eu hystyried yn y golygiad hwn. Yn awr, amcan pob creadur rhesymol, wrth ba enw bynag y caffo ei alw, pa un bynag ai athronydd, ai seryddwr, ai fferyllydd, a ddylai fod i olrhain y gwahanol wrthrychau hyn er canfod y dealtwriaeth, y doethineb, a'r haelfrydedd sydd yn ymddangos yn eu ffurfiad, ac felly i ddirlnad yn well am gynlluniau a phriodoliaethau y Creawdwr. Ond y mae y fath fyfyriaeth, o anghenrheidrwydd, yn cynwys meithriniad o'r gwyddorion hynny ag sydd yn ein galluogi i olrhain yn briodol, naill ai natur a pherthynas gwrthrychau defnyddiol, neu i ganfod dybenion clodfawr y Creawdwr doeth yn y gweithredoedd a gwblhawyd trwy ei anfeidrol allu.

GWYDDORION A FEITHRINIR MEWN SEFYLLFA DDYFODOL.

I'r dyben o egluro y testyn yn mhellach, mi a wnaf rai sylwadau byrion ar rai o'r gwyddoriaethau hynty a arferir yn y byd i ddyfod.

RHIFYDDIAETH.

Y mae Rhifyddiaeth, neu y wybodaeth am rifiedi, a'u ham-rywiol alluoedd a'u perthynasau, yn wyddor a raid ei deall i raddau mwy neu lai gan bob creadur rhesymol, lle bynag y byddo. Heb raddau o wybodaeth o hyn, ni ellid gwneud nemawr o orchest mewn olrheiniad ar weithredoedd Duw, ac er ffurfio dirnadaeth priodol am nifer ac amrywiaeth lluaws o fodau sydd o fewn terfynau ei ymerodraeth. Trwy gymhwysiad o wyddoriaeth rhifedi y cafwyd allan faintioli y ddaear, a phellder a maintioli llawer o'r cyrph nefol; cydmariaeth y naill ran ar gyfer y llall; bychander annirnadwy y mân ronynau sydd mewn awyr, a dwfr, a goleuni; a thrwy y wybodaeth hon y daethom i ddeall rhyw raddau am gyflymder rhyfeddol symudiadau y cyrph wybrenol yn eu cylchoedd. Y mae y bydysawd yn arddangos i'n golwg olygfa ar gyn-hulliad o wrthrychau, perthynasau, a symudiadau ag sydd yn galw am arferiad o'r holl wybodaeth a feddwn am rifiedi. Arddangosir i ni faintiolaeth mor rhyfeddol mewn èangder a phellder, fel y mae y meddwl yn gorfol galw allan ei holl allu mewn cyfrisiaeth, a'n holl wybodaeth am gyferbyniad, lluosogiad, a chydmariaeth; ac ychwanegu y naill ddirnadaeth am faintioli at y llall, mewn dilyniad maith, cyn y gallwn ddyfod yn agos i ffurfio drychfeddwl cywir am y fath wrthrychau mawreddog; ac wedi ein holl egni meddwl mewn cyfrifon a chydmariaethau, rhaid i ni foddloni yn aml ar gasgliadau anegiur ac anghyfiawn. Mewn perthynas i nifer ac amrywiaeth y gwrthrychau sydd yn y greadigaeth, y mae ein holl wybodaeth am rifiedi yn holol ddifygiol i gyfleo dim ag sydd yn agos i berffeithrwydd i'r meddwl. Y mae y nifer o gysawdau sydd yn y ffurfaen, yn weledig i ni trwy y drych-beiriant, yn cael eu cyfrif yn ddim llai na chan miliwn (100,000,000). Nid yw yn annhebygol fod yn ardaloedd yr

ëangder mawr, tu hwnt i derfynau y rhai hyn y oll, ddeng mil o gysawdau eraill ddeng miliwn o weithiau drosodd yn rhedeg drwy eu cylchoedd priodol. Ac y mae yn debyg fod o leiaf gant o fydoedd yn gysylltiedig â phob un o honyn.* Y mae yn debygol fod pob un o'r bydoedd a'r cysawdau hyn yn gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall mewn maintioli, disgleirdeb, a threfniad mewnol, yn y prydferthwch â'r hyn y maent wedi eu haddurno, ac yn ffurfiad y bodau sydd yn eu poblogi. Y mae lluosogrwydd anghyfrifol y bodau rhesymol sydd yn y greadigaeth yn ddrychfeddwl sydd yn cwbl orchfygu holl alluoedd dyn, a thu hwnt i fodion ffugyrau allu ei ddangos. Y mae hyd yn oed nifer gwrthrychau un byd tu hwnt i'n galluoedd ni eu cynwys. Mor fychan ydyw yr hyn a allwn gyfrif am belydr y goleuni sydd yn cael ei wasgaru yn barhaus o'r haul, ac yn syrthio ar ein daear ni; a chroesiad diddiwedd y gronynau hynny oddiar y naill wrthrych ar y llall, i'r dyben o roddi goleuni i bob edrychyd!—am y nifer annychymygdwy o fân-wrthrychau sydd yn nofio yn y dwfr ac yn echedeg yn yr awyr, ac yn llanw pob part o natur; am ronynau y tarth sydd yn chwareu yn yr awyrgylch; am y diferion dwfr sydd yn nghelloedd yr eigion; am y miliynau o greaduriaid sydd yn perthyn i bob math o lysiau, o ba rai y mae 50,000 o fathau wedi eu darganfod eisoes; ac am nifer y coed, y planhigion a'r blodau o bob rhyw sydd yn ymagor yn y greadigaeth; am y lluaws o greaduriaid eraill, ac am holl ddynolryw a ddygwyd i fod er dechreuad amser, ac a ddygir eto hyd na byddo amser mwyach! am amriwiaeth diderfyn yr ysgogiadau a threfniadau sydd yn y corph anifeilaidd, am y rhai y deallir fod pedair mil ar ddeg yn perthyn i esgyrn a gewynau corph dyn, heblaw y cysylltiadau perthynol i'r 60,000 o wahanol fathau o greaduriaid sydd eisoes yn adnabyddus yn y byd! am y cronellau dirif sydd yn llygaid gwahanol lwythau y pryfed a'r gwybed, 27,000 o ba rai a gyfrifwyd mewn un llygad! Ac os ydyw lluosogrwydd gwrthrychau un byd yn gorchfygu ein galluoedd a'n cyfrisiaeth, pa faint mwy y gwna yr amrywiaeth diderfyn sydd mewn miliynau o fydoedd! Ni all unrhyw greadur rhesymol meidrol, er helaethed y dichon i'w alluoedd rhifyddol fod, ffurfio dy-

* Y mae mwy na chant o gyrph, o wahanol faintioli, yn perthyn i gylch yr haul, i'r hwn y perthynwng ni, os cymerir i mewn y planedau dechreuol a chysylltiadol, yn nghyd a'r ser gwibiog.

chymyg priodol am olygfa y bydysawd éang, ac am briodol-eddau y Creawdwr, a gogoniant ei deyrnas.

Y mae yn amlwg, gan hyny, fod sylw creaduriaid uwch o ran eu galluoedd rhesymol, megis angylion a dynion gwaredigol, mewn sefyllfa ddyfodol, yn cael ei alw at wyddoriaeth rhifedi; os na thybiwn yr hyn sydd hollol groes i'r Ysgrythyr, y bydd ein gwybodaeth a'n galluoedd yn fyrach yn y sefyllfa hono nag yn awr. Dichon nad oes arnynt hwy ddim angen am gynorthwyon tebyg i'r hyn sydd genym ni, megis llechi, a phwyntyl, a ffugyrau, i'w cyfarwyddo yn eu rhifyddiaeth, neu i gadw eu cyfrifon ar gof. Dichon fod eu dull o rifo yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn cyflymder annychymygl i ni, drwy réol mor gywir na allant gyfeiliorni; ond eto, rhaid mai yr un egwyddorion cyffredinol ag sydd genym ni sydd yn eu cyfrifon hwy, yn ol natur pethau, yn eu holl olrheiniadau rhyfeddol.

Y mae yr Ysgrythyrau yn rhoddi i ni awgrymiadau achlys-urol am wrthrychau a golygfeydd sydd yn naturiol yn galw am gyfrisiaeth trigolion y nef. Pan gafodd Daniel y weledigaeth am yr "Hen Ddihenydd," yn eistedd ar yr orsedd, a'r llu gogoneddus yn ei gylchynu, ac yn prydferthu yr olygfa, "Mil o filoedd yn gweini iddo, a myrdd myrddiynau yn sefyll ger ei fron." Dywedir i ni yn yr wytihad Salm a thri-ugain, "Cerbydau Duw ydynt ugain mil, sef miloedd o angylion;" ac yn yr Epistol at yr Hebreaid, darllenwn am fyrrdiwn o angylion." Y mae yr Apostol Ioan, wrth adrodd i ni hanes yr olygfa a gafodd ar y byd nefol, yn dywedyd, "ac mi a edrychais ac a glywais megis llais llawer o angylion o amgylch yr orseddfaing, a'u rhifedi ydoedd fyrrd myrddiynau, a miloedd o filoedd." Eilwaith, "Gwedi hyny, mi a edrychais, ac wele dyrfa fawr, yr hon na ddichon neb ei rhifo, o bob cenhedloedd a llwythau, a phobl ac ieithoedd—a'r holl angylion a safasant o amgylch yr orsedd, ac a syrthiasant ar eu hwyn-ebau, ac a addolasant Dduw." Dyma yr ymadroddion cryfaf y mae yr ysgrifenwyr ysprydoledig yn eu harfer i osod allan luaws anghyfrifol o rifedi o wrthrychau; ac y maent yn ein harwain i gasglu y bydd cynhulliadau dirfawr yn y byd nefol i gael eu harddangos i'r golwg; ac o ganlyniad, y bydd yno olygfeydd diderfyn ar amgylchiadau cysylltiedig a'u personau, eu sefyllfa, a'u gwaith. Ac am hyny, pe na byddai y creaduriaid nefol yn adnabyddus o rifyddiaeth, edrychent ar olyg-

feydd o'r fath gyda dyryswn meddwl, yn lle ystyriaeth resymol; ac effeithiai arnynt yn debyg i'r hyn a deimlir gan y barbariaid gwyltian pan y canfyddont olygfeydd ysblenydd bywyd gwareiddiedig am y waith gyntaf erioed.

Anwybodaeth o allu rhifyddol, i raddau mawr, ydyw yr achos o'r anhawsder sydd i gyflwyno drychfeddyliau eglur am gyflymder, a phellder, a maintioli y bydoedd nefol, i'r werin. Dywedir i ni gan deithwyr fod rhai llwythau anwaraidd â'u gwybodaeth o rifyddiaeth mor fyr fel na allant rifo uwchlaw *cant*, a bod eraill heb un dychymyg am rifo uwchlaw *ugain*, neu am nifer bysedd eu dwylaw a'u traed. Tra y byddo y fath anwybodaeth am rifedi gan ddynion, y mae yn amlwg fod y cyfryw yn gwbl anghymwys i olrhain *amrywiol* weithrediadau y Creawdwr, a pherthynasau y greadigaeth. Y mae hyd yn oed y meddyliau mwyaf diwylliedig, tra y byddont yn anwybodus yn y testyn hwn, mewn anfantais i ffurfio dirnadaeth eglur am gynlluniau y Creawdwr, a'r gwahanol berthynasau sydd yn y bydysawd. Gwedi cynnefin ein meddwl â threfniadau rhifedi, gallwn ffurfio dychymyg lled gywir am *fil*, neu am *gan mil*; ond y mae yn amhëus pa un a oes genym ddrychfeddwel parod ac eglur am *filiun*, neu ddeg can mil. Ac os ydyw ein dirnadaeth am y cyfryw nifer yn anmherffaith, pa faint mwy diffygiol ydyw i gynhwys *mil o filiynau, biliynau, triliynau*, a *pêriliynau*, pan eu defnyddir i osod allan nifer neu bellter y bydoedd nefol? Y mae yn amlwg, gan hyny, fod gan greaduriaid o raddau uwch, a sefyllfa ragorach o fodolaeth, wybodaeth mwy cynhwysfawr am rifedi na dyn; ac o herwydd hyny, eu bod yn alluog i olrhain y greadigaeth gyda mwy o fanteision, ac i ffurfio golygiadau eglurach am ddybenion a gweithrediadau Dwyfol allu a doethineb.

RHIF A MESUR.

Y mae Rhif a Mesur, yn cynwys cylch ac ongl-fesuriaeth a changhenau eraill, yn ddosparth gwahanol o wyddoriaeth a arfeir gan greaduriaid uwch mewn sefyllfa ddyfodol. Golyga wyddor *maintioli*, a thraetha ar èangder a helaethder lléol, megis llinellau, arwynebion, sylweddau, &c. Y mae y gwirioneddau a eglura y wyddor hon yn dragwyddol a digyfnwid, ac yn gymhwysiadwy at amgylchiadau pob byd, pa le bynag

y byddo, ac yn mhob ystod o barhad tra byddo adeilad natur mewn bod. Drwy y gwirioneddau a ddengys y wyddor hon yr ydym yn gallu deall agweddiaid a mesur y ddaear, a chyfeirio ein ffordd o'r naill gyfandir i'r llall dros yr eigion dilwybr; dirnad pellder a maintoli yr haul a'r planedau, a'r deddfau a drefnodd yr Hollalluog i'w cadw yn eu cylchoedd, ac i reoli eu hysgogiadau; trwyddi yr ydym wedi cael ein galluogi i ffurfio drychfeddyliau cywir am bellder ac éangder dirfawr y nefeodd serenog. Trwy ei wybodaeth o wirioneddau y wyddor hon y gallodd Syr Isaac Newton ddirnad defnydd a chyfansoddiad goleuni, achosion newidiadau y môr, a threfn cysawd y planedau; a thrwyddi ein galluogir ninau i éangu ein golygiadau am fawredd y greadigaeth a phriodoliaethau ei Chreawdwyr.

Dichon y gall gwirioneddau y wyddoriaeth hon ymddangos i lawer un yn bethau dibwys, ac yn fwy o gywreindeb nac o les. Ymddangosai y pethau canlynol i amryw yn fwy o gywreindeb na gwir ddaioni, megis bod graddau *triongl*, "fel y mae ongl yr *hypotenuse* o driongl ochrau union, yn gyfartal âg onglau y ddwy ochr arall"—fod "tri ochr triongl yn cyfateb i ddwy ongl union"—a bod ochrau triongl cyffredin yn ateb eu gilydd fel y mae *sines* yr onglau cyferbyniol iddynt." Eto y mae y gwirioneddau hyn yn gynorthwyol i gael allan berthynasau y bydysawd, ac yn egluro y pynciau mwyaf pwysig perthynol iddynt. Ar sail y cyfryw osodiadau y deallir fod y lloer yn 240,000 o filltiroedd o bellder oddiwrth y ddaear; fod yr haul yn dri chant ar ddeg o filoedd o weithiau yn fwy na'r ddaear; fod y blaned Herschel wedi ei symud i'r pellder o ddeunaw can miliwn o filltiroedd; fod y seren nesaf yn bellach oddiwrthym ni na'r haul o ddau can mil o weithiau o leiaf. Pan y gwybyddir hyd unrhyw ochr o driongl, pa'r gymaint bynag y byddo, ac y byddo graddau ei onglau wedi eu cael allan, bydd yn hawdd deall hyd yr ochrau eraill: trwyddi yr ydym yn deall maint tryfesur y ddaear; ac o dan ba ongl yr ymddengys y tryfesur hwnw o'r lleuad; a gallwn wrth y gosodiadau hynny, trwy gyfrifiad hawdd, benderfynu hyd yr un a fyner o ddwy ochr arall y triongl hwnw, yr hyn a ddengys yn gywir bellder y lleuad.

Y mae genym bob mantais i gasglu fod angylion a chreaduriaid eraill uwch eu graddau, yn gweithredu wrth yr un egwyddoriol yn eu holrheiniau am bellder a

maintioli bydoedd mawrion y greadigaeth. Efallai na raid iddynt hwy wrth yr un manylder trafferthus yn eu cyfrifon ag sydd eisieu arnom ni, ac nad oes arnynt angen cynthorthwy yr offerynau a'r cylch-fesurau a arferwn ni. Dichon y gallant hwy gael allan bynciau dyfnion yn berffaith gywir heb eisieu y fath help; a dichon y gallant wneud y cyfrifon hwyaf i fynu mewn amrantiad; a thra yr ydym *ni* yn gorfol cyfyngu ein cyfrifon i linellau a thrionglau o ychydig o filoedd neu filiynau, efallai eu bod *hwy* yn alluog i ffurfio trionglau o hyd annychymygol ar *sail linellau* o lawer o filoedd o driliynau o filltiroedd o hyd. Dywedir i ni yn llyfr Daniel, "fod yr angel Gabriel wedi cael ei orchymyn i ehedeg yn fuan o'r nef, ac iddo gyrhaedd at y prophwyd yn nghylch amser yr aberth prydnhawnol." Y mae hyn yn dangos, nid yn unig fod yr angylion yn meddu ar alluoedd at ysgogiad cyflym, ond hefyd eu bod yn gydnabyddus â ffordd, a phellder, a sefyllfa y cyrph sydd yn ffurfio y bydysawd defnyddiol. Yr oedd y cenhadwr nefol hwn yn cychwyn o sefyllfa oedd yn mhell tu hwnt i derfynau ein cyfundrefn blanedawl ni, ac yr oedd raid iddo gyfeirio ei lwybr yn y ffordd hònac a'i dygai i fedru gwahaniaethu rhwng cylch-rôd y ddaear, a chylch-rôdau y planedau eraill, â'r man neillduol o'i chylch-rôd lle y symudai ar y pryd hwnnw; ac wedi dyfod i derfynau ein hawyrgylch ni, yr oedd raid iddo adnabod yr ardal neillduol yn yr hon yr oedd Daniel yn preswyllo, ac i gyfeirio ei ehediad yn gymhwys at y tŷ yn yr hwn yr oedd efe yn offrymu.—Yn awr, gan nad yw angylion yn hollwybodol nac yn hollbresenol, rhaid eu bod yn greaduriaid meidrol, ac yn meddu galluoedd *rhesymol*, ac, y mae yn debygol, wedi eu gwisgo â chyrph o ddefnydd pur,*—rhaid iddynt gymeryd eu *cyfarwyddo* yn y fath a-mgylchiadau gan eu galluoedd *rhesymol*, a'r moddion cyflym o ysgogiad â pha rai y maent wedi eu cynysgaeddu. Rhaid i'r fath deithiau gael eu trefnu wrth egwyddorion Rhif a Mesur neillduol; ac yr wyf wedi sylwi yn barod, fod yr egwyddorion hyn yn gymhwysiadwy yn mhob part o'r bydysawd, ac yn cael eu harfer, mewn modd mwy neu lai, gan bob creadur *rhesymol*.

Y mae y Creawdwr mawr ei hun wedi gosod i lawr sylfaeni gwyddorion Rhif a Mesur. Y mae ei weithredoedd yn gyn-

* Bydd gan yr Awdwr achlysur i egluro y gosodiad hwn yn mhellach yn Rhan III. o'r gwaith hwn.

wysedig o fydoedd a chylchoedd, o bob math a maintioli, mewn rhodau dirfawr, ac ysgogiadau cyflym. Y mae y cyrph hyn yn cael eu cludo o amgylch gwahanol ganol-bwyntiau, rhai yn gylchog, ac eraill yn hir-fwäol. Y maent yn cael eu gyru drwy eu cylchoedd mewn gwahanol raddau o gyflymder; ac ni ellir cael allan eu gwir ysgogiad, na chysondeb prydferth eu gwahanol gysawdau, heb arfer rhéol Rhif a Mesur wrth eu holrhain. Ymddangosai ysgogiadau y cyrph nefol i edrych-ydd annysgedig yn y wyddor hon yn ddyrysweh ac auhrefn, ac arweinid ef i benderfynu fod Creawdwr y byd yn ddifygiol mewn doethineb a dyben. Y mae gwyddor Rhif a Mesur yn cael ei dangos yn y gwahanol agweddau yn mha rai y ffurfir gemau, *chrystals*, a halenau, a chyrph eraill; ac yn nghelloedd cŵyr gwenyn, ac yn y gwahanol linellau a ddangosir yn ngwê y prif copyn, ac mewn llawer o wrthrychau naturiol. Yn awr, gan fod Duw wedi dangos elfenau y wyddoriaeth hon ger ein bron yn ei weithredoedd—gan ei fod wedi ein cynysgaeddu â galluoedd rhesymol i werthfawrogi a defnyddio yr elfenau hyn yn ein hymchwiliadau,—a chan na ellir deall doethineb, prydferthwch, a threfn ei weithredoedd, heb y cyfryw olrheiniadau—y mae yn amlwg ei fod wedi bwriadu i ddynion eu harfer yn eu myfyrion yn achlysurol, i'r dyben o chwilio dyfnderau ei ddoethineb, a gogoniant ei weithredoedd. Ac, yn gymaint a bod yr arferiad o'r wyddor hon yn dra chyfyng yn y byd presenol, rhaid fod yr arferiad helaethach o honi, fel llawer cangen arall, wedi ei gadw i'r byd dyfodol. Gan hyny, ni byddai tybied y bydd i'r fath fyfyrion ddarfod, a chael eu cwbl ddileu mewn sefyllfa ddyfodol, yn ddim amgen na meddwl, na bydd gweithredoedd Duw yn destyn myfyrdod yn y cyflwr hwnw, ac y bydd i'r gwaredigion yn y nef golli rhan o'u galluoedd rhesymol, a pharhau yn is eu cyrhaeddiadau na thrigolion y ddaear hyd yn oed yn eu cyflwr dirywiedig presenol.

SERYDDIAETH.

Y mae Seryddiaeth yn wyddoriaeth arall a arferir gan greaduriaid dealgar yn y byd dyfodol. Gwrthrych y wyddor hon ydyw, dangos pellder a maintoli y cyrph nefol, trefniad y cylchoedd a amlygant, y deddfau wrth ba rai y mae eu

symudiadau yn cael eu rheoli ; a natur a dyben y gwahanol gyrph disglaer a thywyll, o ba rai y mae y bydysawd wedi ei gyfansoddi. Dyma y wyddor ardderchoccaf o'r cyfan, yr hon sydd yn gosod ger ein bron y gwrthrychau mwyaf rhyfeddol a mawreddog,—pa un bynag a ystyriom ai eu maintioli dirfawr, disgleirdeb eu hymddangosiad, yr éangder diderfyn sydd yn eu cylchynu, y perthynasau ysblenydd sydd i rai o honynt, cyflymder eu hysgogiadau, a'r arddangosiad a roddant o hollalluogrwydd a gwybodaeth y Creawdwr. Trwy feithrin y wyddor hon yr éangir ein golygiadau am y greadigaeth, ac am yr olygfa ardderchog a egyr o'n blaen, a hyny tu hwnt i ddim a gyrraeddodd yr oesau gynt. Oddiwrth ddarganfyddiadau seryddiaeth, ymddengys nad yw ein daear ni ond megis brycheuyn yn éangder y bydysawd,—fod bydoedd mil mwy yn cael eu goleuo gan yr un haul sydd yn "llywodraethu y dydd,"—fod yr haul ei hun yn gorff llewyrchus dirfawr, cylchfesur yr hwn a gynhwysai fwy na deuddeg can mil o gyrph cymaint a'r ddaear—fod y ddaear a'i thrigolion yn cael eu cludo yn mlaen drwy ardaloedd y gwagle fil o filltiroedd bob mynyd—fod ysgogiadau rhai o'r cyrph sydd yn y bydysawd o rym a chyflymder uwchlaw pob dychymyg—a bod y greadigaeth, tu hwnt i gylch yr haul a'r planedau, wedi ei haddurno â miliynau o gyrph disglaer, yn wasgaredig trwy ardaloedd annherfynol na all y meddwl dynol eu cynhwys.

Y mae y gwrthrychau hyn yn faes éang o fyfyrddod i bob dosparth o greaduriaid deallgar, ac yn ddrych eglur yn yr hwn y gwelir adlewyrchiad o briodoliaethau Duw. Mor ychydig o'r bydysawd éang hwn a amlygwyd eto i'n golwg ni! Mewn perthynas i'r cyrph sydd yn cyfansoddi ein cyfundrefn blanedawl ni, ni wyddom ond am ychydig iawn o ffeithiau a pherthynasau. Am y ser sefydlog, nid ydym eto wedi cyrhaedd ond ychydig o syniadau aneglur am eu pellder a'u maintioli dirfawr. Mewn perthynas i'r *ser gwibiog*, ni wyddom ddim amgen na'u bod yn symud yn eu cylchoedd meithion a rhyfeddol, a'u bod yn cael eu gyru mewn cyflymder dirfawr, ac yn ymddangos ac yn cilio o'r golwg mewn amserau anmhenodol. Am y lluaws cysawdau, i'r rhai y mae y ser wedi eu dosparthu, ac am yr ysgogiadau perthynol i bob cysawd, ac am y berthynas sydd rhwng eu hysgogiadau â pheiriant cyffredinol y bydysawd ; am drefn yr amrywiol orgysawdau, sydd yn wasgaredig drwy yr éangder pellenig ;

am y bydoedd sydd yn gysylltiedig â'r ser; am y gwahanol raddau o greaduriaid sydd yn eu poblogi; am y cyfnewisyon a'r chwyldroadau sydd yn cymeryd lle yn ngwahanol barthau y bydysawd; am y creadigaethau newyddion sydd yn neiddio i fodolaeth; am y nifer o gyrrhwyd tywyll a all fod yn yr éanger; am y pellder i'r hwn y mae y byd defnyddiol yn cyrhaedd, ac am wahanol oruchwyliaethau yr Hollalluog tuag at yr amrywiol raddau o greaduriaid deallgar sydd yn poblogi y bydysawd éang. Yr ydym o'r bron mewn hollos dywyllwch am danynt, ac felly y bydd i ni barhau tra y byddom wedi ein cadwyno wrth y gongl ddinôd hon o'r greadigaeth. Bydd digon o le, gan hyny, yn y byd dyfodol, at ymchwiliadau pellach i'r testyn hwn, ac i éangu ein gwybodaeth am y golygfeydd gogoneddus hyny sydd yn awr mor bell allan o gyrrhaedd ein golwg naturiol, a chylch ymchwiliad dynol.

Y mae y nefoedd yn ffurfio prif ran yr ymerodraeth dduwyfol —nid yw ein daear ni, i'w chydmaru â'r rhai hyn, ond megis brycheuyn, a'r "holl genhedloedd ydynt megis diddym, ac megis llai na dim, ac fel gwagedd y cyfrifwyd hwynt" gan y Jehovah anfeidrol. Er mor éang y gall y byd hwn ymddangos i'r marwolion sydd yn ei breswylio, eto, dichon nad yw yn cael ei restru, ond yn mhllith y bydoedd lleiaf yn y greadigaeth; a phe byddai yn ugain mil o weithiau yn fwy na'r hyn ydyw, eto, ni byddai ond megis tywodyn i'w gydmaru âg anfeidroedd y greadigaeth; ac ni byddai yr holl ddamweiniau a gyfarfu a'i holl drigolion, ond fel helynt diwrnod yn hanesion y bythol-fyd. Trwy ardaloedd éang y ffurfafen yr amlygir Duw yn benaf, ac y mae ei gogoniant yn wrthrych myfyrdod afrifed o greaduriaid rhesymol. Yno y mae gogoniant noesol ei oruchwyliaethau, a mawredd ei weithredoedd yn cael eu dadlenu yn eu hamrywiaeth a'u disgleirdeb, i luaws dirifedi o greaduriaid rhesymol, dros y rhai y mae yn parhau i lywyddu. Dyma amcan y cyfeiriadau mynchy sydd gan yr ysgrifenwyr ysprydoledig at "y nefoedd," pan yr eglurant fawredd Duw a gogoniant ei deyrnas. "Holl dduwiau y cenhedloedd ydynt eulynod, ond yr Arglwydd a unaeth y nefoedd." "Yr Arglwydd a barotodd ei orseddfa yn y nefoedd, a'i frenhiniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth." "Trwy ei Yspryd yr addurnodd efe y nefoedd." "Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r ser, y rhai a ordeiniaist—pa beth yw dyn i ti i'w gofio? a mab dyn i ti ymweled âg ef?" "Y nefoedd,

ie, nefoedd y nefoedd ni allant dy gynhwys di." "Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd, a'u *holl lu hwynt trwy yspryd ei enau.*" "Y nefoedd a ddatganant ei gyflawnder ef." "Ein Duw ni sydd yn y nefoedd, efe a wnaeth yr hyn a fynodd ei ewyllys ei hun." "Y nefoedd a draethant dy ryfeddodau, O Arglwydd." "Dyrchafaf fy llygaid atat ti, O yr hun a breswyli yn y nefoedd." "Fel hyn y dywed yr Arglwydd ein Duw, Creawdydd y nefoedd a'u hestynydd." "Uchel ac anchwiliadwy yw y nefoedd." Fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly y mae ei drugaredd ef at y rhai a'i hofnant ef." Efe yw "Dyw y nefoedd,—yr hwn a ferchyg *nef y nefoedd*, y rhai oedd erioed; y *nefoedd* yw ei orseddfaingc, a'r ddaear yw lleithig ei draed ef." Wrth ddat-guddio ffolineb eulunaddolwyr, pan y mae dyfodiad y Messiah yn cael ei gyhoeddi, ac y mae anogaethau yn cael eu dal allan i gryfhau ffydd a gobaith y saint, y mae Jehofah yn cael ei arddangos fel y Bôd Hollalluog, yr hwn sydd yn "mesur y nefoedd a'i rychwant, yn eu taenu fel llen, ac yn dwyn ei luoedd allan trwy ei nerth." "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Creawdydd y nefoedd a'i hestynydd—Mi a'th osodaf yn gyfamod y bobl, ac yn oleuni i'r cenhedloedd."* "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, yr hwn a greodd y nefoedd—ni ddywedais wrth had Jacob, ceisiwch fi yn ofer," &c.† Y mae yr adnodau hyn, a chanoedd o'r cyffelyb, yn dangos yn eglur y dylem fyfyrion ar briodoliaethau Duw yn benaf, mewn cysylltiad a'r amlygiadau a roddir o honyt yn ffurfaen ei allu—dangosant mai y nefoedd ydyw y gyfran helaethaf o'i lywodraeth, a bod y gallu a'r doethineb a amlygir yn ffurfiad trefn llu y nef, yn gosod i lawr sylfaen sicr i obaith a llawenydd pobl Dduw.

I'r dyben o ffurffio dirnadaeth briodol am brydferthwch a mawredd y nefoedd, ac am ddoethineb yr Hwn sydd yn trefnu eu llu mawr hwynt, y mae yn ofynol deall rhai o ffeithiau ac egwyddorion seryddiaeth. Trefn y cyrph sydd yn ffurffio cysawd yr haul, a chysawdau eraill—rheol eu cylch-rôdau, eu pellder cydmariaethol, a threfn eu troadau—eu maintioli, eu dilyniad, eu cyflymder, a'r gwahanol olygfeydd a ymddengys ar eu gwyneb—trefniad a sefyllfa y gwahanol gyn-hulliadau o ser—am orgysawdau y ser a'r planedau—am y ser

* Isaiah xlvi. 5, 6.

+ Isaiah xlvi. 18, 19.

dwbl, triphlyg, ac amrywiaethol ; yn nghyd â lluaws o ffeithiau cyffredinol eraill sydd yn ofynol i'w gwybod, cyn y gall y meddwl dderbyn hysbysiaeth pellach mewn perthynas i ffurfriad y bydysawd.—Dichon fod yn angenrheidiol hefyd, hyd yn oed mewn sefyllfa uwch o fodolaeth, fod yn adnabyddus o bob cynhorthwy a ddyfeisiwyd er dwyn y gwrthrychau pellenig o fewn cyrhaedd golwg. Yr ydym yn gwybod trwy brosiad, yn ein sefyllfa bresenol, fod miliynau o ser wedi dyfod i'r golwg drwy gymhorth drychbeirianau, y rhai na allai y llygaid noeth byth eu canfod ; a lluaws o wrthrychau disglaer eraill. Bydd erwig gwelediad trigolion gwaredigol ein byd ni, yn yr adgyfodiad, yn ol pob tebygolrwydd, yn alluog i gymeryd golygiad llawer éangach na'r hyn a ellir ei wneyd yn awr. Dichon y byddant wedi eu donio â gallu-oedd i dreiddio i bellafoedd yr éangder yn mhell tu hwnt i rym y gwydrau cryfaf a feddwn ni, ac i eglur ganfod gwrthrychau o lawer o biliynau o filltiroedd o bellder. Eto, efallai y bydd arnynt hwythau eisieu help celfyddydol i gynorthwyo eu hermig naturiol, er syllu a myfyrio ar wrthrychau o bellder mwy drachefn. Ac er y gall y cyfryw gynorthwyon ragori ar ddim a feddwn ni, eto, yr un egwyddorion cyffredinol a raid fod yn eu ffurfiad. O blegid, fel y nodwyd eisoes, y mae y goleuni sydd yn tarddu o'r ser pellaf yn cynwys yr un lliwiau, ac yn adlewyrchu yn ol yr un deddfau, â'r goleuni sydd yn deillio o'r haul, ac sydd yn goleuo ein daear ni ; o ganlyniad, rhaid iddo weithredu ar erwig creaduriaid synhwyrgar, yn yr ardaloedd pellenig hyny, yn gyffelyb fel y gwna ar lygaid dyn.

Y mae yn dra thebygol y bydd graddau mawr o'n gwybodaeth am ardaloedd pellaf ymerodraeth Duw yn y sefyllfa ddyfodol, yn cael ei gyflwyno gan greaduriaid uwch, a fyddo wedi ymweled â'r gwahanol gysawdau gwasgaredig trwy y bydysawd, ac sydd wedi cyrhaedd hybysiaeth am eu hanesiaeth, a'u golygfeydd naturiol a moesol. Yr ydym yn cael ein dysgu yn yr Ysgrythyr, fod creaduriaid deallgar a all weithio eu ffordd mewn ychydig o amser o'r naill fyd i'r llall. Rhaid fod bodau felly, mewn ystod mil o ganriffoedd, wedi gwneyd teithiau éang trwy ardaloedd y greadigaeth, ac wedi cyrhaedd gwybodaeth helaeth am y golygfeydd mwyaf hynod a arddengys y bydysawd. Ac yn gymaint a'u bod wedi ymgymysgu yn achlysurol yn nghymdeithas dynion ar y ddaear, ac

wedi cyflwyno llawer cenadwri o'r nef i'n byd ni, y mae yn rhesymol i ni gredu y caint gyfeillach amlach gyda dynion cadwedig mewn sefyllfa ddyfodol, ac y cyflwynant iddynt y darganfyddiadau a gawsant mewn perthynas i drefn a mawredd ymerodraeth gyffredinol Duw. Ond ar yr un pryd, dylid sylwi yn fanwl, na byddai i'r fath newyddion gael eu deall na'u prisio, os na byddai y meddwl yn gydnabyddus â phrif ffeithiau ac egwyddorion dechreuel seryddiaeth. I'r dyben o fyned i mewn i yspryd yr amlygiadau hyny, y rhai a allai engyl neu arch-engyl eu cyflwyno mewn perthynas i gysawdau a bydoedd eraill, *rhaid i'r meddwl fod wedi ei barotoi drwy wybodaeth o'r egwyddorion hyny a gafwyd allan eisoes, ac am y darganfyddiadau hyny a wnaed yn barod, am drefniant y bydysawd.* Tybier fod nifer o drigolion brodorawl Holland Newydd, neu Van Dieman's Land, wedi ymgynull i wrando hanes y prif ddarganfyddiadau a wnaed gan Seryddwyr diweddar yn y nefoedd uchod—byddai yn anmhosibl cyflwyno i'w meddwl unrhyw olygiad eglur am brif ffeithiau y wyddor hon, o herwydd eu diffyg blaenorol o ddrychfeddyliau angenrheidiol er iawn ddeall y cyfryw hanesion. Yr un fath a fyddai ar ddynion mewn sefyllfa ddyfodol, gydag adroddiadau cenhadon angylaidd o'r bydoedd eraill, os byddai eu meddyliau heb yr un radd o wybodaeth am seryddiaeth yn barod. Efallai y dygid hwy i synu ac i ryfeddu fel y byddai yr hanesion yn cael eu mynegi, ond byddai eu meddyliau yn holol dywyll a dyryslyd, ac felly yn gwbl analluog i amgyffred y gwahanol amgylchiadau cysylltiedig â'r golygfeydd a ddar�unid, yn eu holl berthynasau, yn nghyd â'r amlygiadau a ddangosent arwyddion o gywreindeb a dyben ardderchog y Creawdwr.

Fel y mae y gwrthrychau a olrheinia seryddiaeth yn ddi-derfyn, y maent yn rhoddi testyn *dihysbydd* i fyfyrion arno i greaduriaid o raddau uwch, ac i ddynion wedi eu dyrchafu i sefyllfa uwch o fodolaeth. Gan mai gwrthrych seryddiaeth yw olrhain ffeithiau a pherthynasau priodol i holl gyrph mawrion y bydysawd, ni ellir byth ddyfod i ben i'w chwilio oll, os na thybiwn y gall meddwl meidrol ddyfod, mewn rhyw amser rhagllaw, yn alluog i gynhwys ac olrhain holl gynlluniau a gweithrediadau Creawdwr anfeidrol. Ond y mae yn amlwg fod hyn yn anmhosibl; o blegid "pwy wrth chwilio a all gael gafael ar Dduw? pwy a all gael yr Hollalluog allan i

berfffeithrwydd?" Gwedi i filiynau o ganriffoedd redeg eu cylchoedd drosodd, bydd golygfeydd newydd o fawredd yn tori allan, ac ardaloedd newyddion o greadigaeth yn ymagor, a graddau newydd o amlygiadau o ddwyfol allu a doethineb yn dyfod i'r golwg yn barhaus, yn destynau olrhainiad a leinw y meddwl â rhyfeddodau dros byth; o ganlyniad, ni bydd y wyddor hon wedi cyrhaedd hollol berfffeithrwydd, ond bydd ar gynydd a gwellhad parhaus trwy holl dreigliadau tragwydd oldeb. Prif amcan y bôdau nefol, wrth olrhain y cyfryw, fydd cynhyddu yn y wybodaeth am gariad Duw; ac yn ol fel y byddo eu golygiadau am ei ymerodraeth yn ymêangu, felly y bydd eu dirnadaeth am ei anfeidrol briodoliaethau, ac y bydd eu moliant a'u haddoliad yn derchafu yn fwy i'r Hwn sydd yn eistedd ar orseddfaingc y bydysawd, ac yn deilwng i dderbyn "gogoniant, anrhydedd, ac awdurdod" oddiwrth ei holl greaduriaid.

Felly, gan yr ymddengys fod seryddiaeth yn dangos y gwrthrychau mwyaf rhyfeddol ac aruchel—gan fod y gwrthrychau hyn yn tueddu i éangu ein meddyliau am y priodoliaethau Dwyfol—gan na ellir cael golygiadau eglur ar y gwrthrychau hyn heb raddau o wybodaeth mewn seryddiaeth—gan fod y nefoedd yn ffurfio prif ran ymerodraeth Duw—gan fod ein golygiadau presenol am fawredd ei ymerodraeth mor gyfyng a thywyll—gan na all hysbysiaeth ar y testyn hwn gael ei gyflwyno gan greaduriaid deallgar eraill er ei iawn ddeall, heb raddau o wybodaeth flaenorol o'r wyddor hon—a chan fod y cylch diderfyn o olygfeydd a egyr o'n blaen yn wrthrych myfyrdod diddiwedd, ac yn gymhelliadau o addoliad i greaduriaid santaidd, byddai yn wrthun i ni dybied y bydd i ddynion adferedig, mewn sefyllfa uwch o fodolaeth, barhau mewn anwybodaeth o'r testyn hwn, neu, na bydd i'w myfyrdod arno barhau drwy oesau y tragwyddoldeb mawr.

ATHRONIAETH NATURIOL.

Y mae Athroniaeth Naturiol yn wyddor arall, a fydd yn wrthrych sylw dynion cadwedig mewn sefyllfa ddyfodol.

Gwrthrych y wyddor hon ydyw, darlunio arddangosiadau naturiol y byd defnyddiol, ac egluro yr achos o honynt, ac olrhain y deddfau wrth ba rai y mae yr Hollalluog yn rheoli

gweithrediadau natur, a chwilio y celfyddgarwch rhyfeddol, a'r bwriad haelfrydus, a arddangosir yn nhrefn y bydysawd. Y mae yn cynwys olrheiniad o amrywiol arddangosiadau, achosion ac effeithiau yr holl gyrph sydd yn ein cylchynu, ac yn weledig i'n synhwyrau, megis goleuni, gwres, lliwiau, awyr, dwfr, seiniau, adseiniau; yr hylifau gwefryddol, cennlysg, glaw, eira, tarth, taranau, mellt, yr enfys, gwyntoedd, awyr-dâbau, y Goleuni Gogleddol, a gwrthrychau cyffelyb yn nhrefniant natur.

Oddiwrth y darganfyddiadau ymarferol a wnaed gan athronwyr, yr ydym wedi dyfod yn adnabyddus o amryw ffeithiau a gweithrediadau hynod yn nhrefn y bydysawd sydd yn arddangos gallu rhyfeddol y Creawdwr, ac yn tuedd i gyffroi ein mawrhad ar ddyfnderoedd ei ddoethineb a'i ddaioni. Yr ydym yn deall fod goleuni yn teithio oddiwrth yr haul, a chyrph llewyrchus eraill, mewn cyflymder cyfartal â 200,000 o filltiroedd bob *amrantiad*—fod pob pelydryn o oleuni gwyn yn cael ei gyfansoddi o holl lliwiau naturiaeth, wedi ymgymysgu mewn graddau penodol—nad yw yr amrywiaeth diderfyn o gysgodion lliwiau sydd yn addurno gwahanol dirddarluniau y ddaear yn y gwrthrychau eu hunain, ond yn y goleuni sydd yn syrthio arnynt—a bod miloedd o filiynau o belydr yn echedeg beunydd yn mhob ffordd, ac eto yn cyflwyno i bob llygad sydd yn agored i'w derbyn, ddarluniad eglur o'r gwrthrych oddiar ba rai y codant. Yr ydym yn deall fod yr awyrgylch sydd yn ein cylchynu yn gwasgu ar ein cyrph gyda phwysau cyfatebol i ddeng mil ar hugain o bwysau—ei fod yn cynwys elfenau tân a fflam—y byddai i gyfansoddiad penodol o honynt godi ein hyspryd i'r graddau uwchaf o bêr-lewvg, ac mewn graddau arall y parai ein dinystri uniongyrchol—ei fod yn ddarostyngedig i gael ei wasgu i ofod llai o 40,000 o weithiau na'i le naturiol—a bod graddau sain, bywyd anifeiliaid, a thyfiad llysiau, yn dibynu ar ei weithrediadau. Yr ydym yn deall fod hylif neillduol yn rhedeg drwy natur sydd yn alluog i roddi ergyd drwy y corph dynol, ac a ellir ei drosglwyddo dros fil o ddynion ar unwaith—fod yr hylif hwn yn symud mewn cyflymder annirnadwy—y gellir ei dynu o'r cymylau fel ffrwd o dâ—ei fod yn toddi gwyfyr haiarn, yn cynhyddu tarthiad hylifau, ei fod yn dinystrio at-dyniad y nodwydd; ac weithiau yn amlygu ei nerth yn y cymylau, mewn boltau tanllyd, ffiamau gwibiog, a mellt fforchog. Yr

ydym yn deall fod cyrph adar, pysgod, pedwar-carnolion, ac ednogod, o ran eu llygaid, eu traed, eu hadenydd, a'u holl aelodau, wedi eu ffurfio mewn cywreindeb rhyfeddol, fel y maent yn berffaith gymhwys at amrywiol angenrheidiau eu bodolaeth—eu bod yn gynhwysedig o ffurfau afrifed, er eu haddasu at eu dybenion amcanedig—a bod yr afang, y wen-hynen, y morgrugyn, a phryfaid eraill, yn trefnu eu trigfanau gyda holl gywreindeb celfyddgarwech rhif a mesur. Y mae y wenhynten yn neillduol, yn gweithio fel pe byddai yn hysbys o reolau uwchaf rhif a mesur, yr hyn a alwai am athrylith Newton i'w ddatguddio.—Mewn gair, y mae holl natur yn arddangos golygfa o ryfeddodau, y rhai, pan yr ystyri'r hwy yn briodol, sydd yn tueddu i èangu ein galluoedd, i buro ein serchiadau, ac i'n dwyn i fawrhau priodoliaethau Duw, a chynllun ei ragluniaeth.

Gellid ystyried Anianyddiaeth Naturiol hefyd fel caugen o grefydd natur a chrefydd datguddiad. Y mae yn symud y gorchedd, mewn rhan, sydd yn daenedig dros weithrediadau dirgelaidd natur, ac yn amlygu i'r golwg y rhyfeddodau sydd yn gorwedd yn guddiedig oddiwrth y cyffredin, "y rhai nid ystyriant waith yr Arglwydd, na gweithredoedd ei ddwylaw ef." Y mae yn ein galluogi i ddilyn ffyrdd yr Hollalluog yn ei symudiadau mawreddog, yn gystal a'i ddybenion manylaidd; o blegid ni allwn symud cam yn nheml natur dan arweiniad athroniaeth, lle na chanfyddwn arwyddion o'i ddoethineb a'i fwriad rhyfeddol, ac o'i haelfrydedd sydd yn ymledu at bob graddau o greaduriaid synhwyrgar. Y mae yn dangos i ni brydferthwch a daioni goruchwyliaethau Duw, ac yn profi mai cyflwyno dedwyddwch ydyw dyben uwchaf ei drefniadau gogoneddus drwy holl drefniant y byd naturiol. Y mae yn ein dysgu fod amrywiol weithrediadau natur yn cael eu dwyn yn mlaen drwy foddion uwchlwm gallu dynol, ac yn mhell tu hwnt i ddyfais meidrol i allu ei gynllunio. Y mae yn datguddio y deddfau hyny, wrth ba rai y mae Llywydd y byd yn rheoli ei deyrnas èang, ac yn cynal pob peth mewn pryd-ferthwch trwy yr holl oesau. Y mae felly yn ein cynorthwyo i gysegru yr holl fyddysawd yn un deml fawr, ac oddiar fyfyr-dod ar ei holl wrthrychau, i dderchafu ein meddyliau a'n lleisiau mewn cydnabyddiaeth o foliant i'r Hwn a "greodd bob peth, ac o herwydd ewyllys yr Hwn y maent ac y crewyd hwynt".

Bydd *lle digon helaeth* yn y byd dyfodol i arfer y wyddor hon i éangder diderfyn. Mewn perthynas i sefyllfa yspryd-oedd ymadawedig, wedi gadael y byd hwn, ychydig a wyddom eto yn gywir, am eu gwasanaeth, ac am raddau y cysylltiad a fydd rhngddynt a'r byd defnyddiol, a rhaid i ni ymdawelu mewn anwybodaeth o hyn, hyd oni chaffom ein harwain i'r byd dirgeledig hwnw. Ond eto, sicrheir i ni, wedi yr adgyf-odiad, y bydd i fyd *defnyddiol* gael ei barotoi yn breswylfol y cyflawnion, yn yr hwn y bydd eu perthynas a'r bydysawd gweledig yn llawer helaethach nac ydyw yn awr; a pha le bynag y byddo trefniant naturiol, bydd yno le i olrheiniadau naturiol, ac i ymarfer âg egwyddorion Athroniaeth Naturiol. Bydd i'r byd newydd hwn gael ei barotoi a'i drefnu gan Ddwylfol ddoethineb; ac o ganlyniad, arddengys olygfeydd o brydferthwch a mawredd, o drefniad rhyfeddol a bwriad haelfrydig. O blegid os ydyw y byd a breswyliwn yn awr, yn nghanol yr anurddiad a wnaeth pechod arno, yn dangos cymaint o brydferthwch ac arwyddion o gywreindeb, mwy o lawer y gallwn benderfynu fod y byd "yn yr hwn y mae cyflawnder yn cartrefu" yn orlawn o bob peth a foddha y llygad, y glust, a'r dychymyg, ac yr eglura "fawr amryw ddoethineb Duw"; ac y rhydd felly faes helaeth i'r olrheiniadau uwchaf mewn gwyddoriaeth. Bydd y byd hwnw, yn ddiau, yn arddangos amrywiaeth o wrthrychau a golygfeydd yn nghyd, cwbl wahanol i'r hyn a ganfyddwn ni yn awr, er bod yr un deddfau cyffredinol ag sydd yn llywodraethu trefniant y ddaear yn awr yn cael eu harfer yno, ac yr effeithiant i raddau yn gyffelyb i'r hyn a welwn o'n hamgylch; eto, gall y cyfryngau, trwy y rhai yr ysgoga goleuni, fod yn wahanol mewn ymddangosiad ar wrthrychau a adlewyrchant, a gallant achosi amrywiaeth o effeithiau rhyfeddol tu hwnt i ddim a ganfyddwn ni yn awr. Y mae gwyddor gwelediad, wrth agor o flaen ein llygaid natur goleuni a drychau, yn arddangos prydferthwch a rhyfeddodau, ac yn ein cynorthwyo i ganfod arwyddion o anfeidrol wybodaeth mewn perthynas i'r elfen hon tu hwnt i ddim a welodd yr oesau blaenorol. Ac o herwydd hyn, y mae genym reswm i gasglu y bydd elfen y goleuni, yn llaw yr Hollalluog, wrth drefnu bydoedd eraill, yn addas i'w chymhwys o filoedd o wrthrychau sydd yn anadnabyddus i ni yn awr, ac yr arddengys y gwrthrychau mwyaf gogoneddus. Dichon na bydd y fath beth â tharanau

a mellt, a goruchion tanllyd yn y byd dyfodol, ond y trefnir yr hylif gwefrol sydd yn achosi y fath ymddangosiadau, ac sydd yn rhedeg drwy holl naturiaeth, mewn ffordd holol wahanol; ac yn lle peri y fath gyffroadau dychrynllyd, y byddant yn dangos y fath olygfeydd a fydd yn hyfrydwch a mawrhad i deimlad yr enaid. Y mae yn bosibl y gall egwyddorion nerthol peirianau, megis trefniad melinau, cerbydau olwynog, suggedyddion, ac agerdd-beirianau, gael eu cymhwys o at ddybenion y byd dyfodol; ac fe ddichon y bydd iddynt gael eu haddasu at amryw ddybenion anadnabyddus eraill, priodol i natur y byd hwnw, a chymeriad a gwasanaeth ei drigolion.

Mewn achosion o'r fath ag y cyfeiriwyd atynt, a miloedd o'r cyffelyb, bydd yno ddigon o le i arfer egwyddorion gwyddoriaeth naturiol, a dygir miloedd o bethau i oleuni trwy alluoedd rhagorol trigolion y nef. Byddai haeru i'r gwrthwyneb, yn tybio, mewn effaith, fod trigolion y nef yn fyrach eu galluoedd, ac yn is eu dealltwriaeth na phreswylwyr y ddaear—fod eu gwybodaeth yn gyfyngach na'r eiddom ni—nad ydynt yn cynhyddu dim mewn cyrhaeddiadau moesol a deallgar, ac nad oes ganddynt ddim hyfrydwch mewn chwilio “gwaith yr Arglwydd, a gweithredoedd ei ddwylaw.”

Y mae yr hyn a fynegwyd yn awr, mewn perthynas i Athroniaeth Naturiol, mor addas i'w gymhwys o at wyddor Fferylliaeth. Amcan y wyddoriaeth hon ydyw cael allan egwyddorion dechreuel pob gwrthrych, yn eu hamrywiol ddefnyddiau a'u cysylltiadau, dull eu gweithrediad, a'u heffeithiad ar natur. Y mae ei darganfyddiadau, nid yn unig wedi dadlenu y gweithrediadau rhyfeddol sydd yn cael eu dwyn yn mlaen yn y dosparth anifeilaidd, llysieuol, a mŵnyddol, ond hefyd wedi arddangos amryw blygion o ddaioni a doethineb Duw yn dwyn o amgylch effeithiau rhyfeddol a phwysig drwy y moddion mwyaf dysymil. Rhaid fod egwyddorion y wyddor hon, gan hyn, yn gymhwysiadwy, lle bynag y byddo *defnydd mewn bod*, a than ba agweddiad neu drefn bynag yr ymddangoso; a chan fod yr holl fydoedd wedi eu cyfansoddi o *ddefnydd ffurfiadig* i amrywiol agweddau, rhaid y rhoddant le i olrheiniadau helaeth ar wyddor Fferylliaeth.

DIFYNIAETH AC ANIAN-DDYSG.

Y mae Difyniaeth ac Anian-ddysg yn destynau ac y mae yn rhesymol i ni gasglu a fydd yn dwyn sylw trigolion y nef yn achlysurol. Gwrthrych y gwyddorion hyn ydyw olrhain trefniant cyffredinol y corph anifeilaidd, ac yn neillduol, wahanol ranau y corph dynol. Trefniant ermigyddiaeth mewn cysylltiad â'r corph dynol ydyw y dernyn ardderchoccaf o beirianwaith y gall y meddwl fyfyrion arno—pa un bynag a ystyriom, ai lluaws dirifedi ac amrywiaeth ei ranau, a'r gwahanol swyddau a gyflawnant—y symudiadau prysur sydd yn barhâus drwy bob rhan o'r trefniant—nerth rhyfeddol y galon a'r cyhuriau—gweithrediadau treuliad ac anadliad—trefniant y gwythiau a'r rhedweliau—cymaliad yr esgyrn—ffurfiaid a ffordd y dyfr-naws—ymgangheniad y gwythienau—cylch-rediad y gwaed—y cyfnewidiau, y datodiad, a'r cyd-ffurfiaid rhyfeddol sydd yn myned yn mlaen yn wastadol—yr offer fferyllaidd sydd wedi eu cymhwysio at hyn yma—ermig y synhwyrau, trwy ba rai y delir cymundeb â'r byd allanol—cydweithrediad cyson yr holl ranau â gweithrediad yr elfenau cylchynol. Yr ydym yn deall, wrth ymchwiliadau anianyddion, fod dau gant a phump a deugain o esgyrn, wedi eu cyd-gymalu, ac i bob un o honi nt uwchlaw deugain o wahanol ysgogiadau a dybenion yn y corph dynol; a phedwar cant a chwech a deugain o gyhuriau o wahanol faint ac agweddiad, mewn cysylltiad â'r esgyrn, er rhoddi y gwahanol symudiadau i'r corph—fod dros gant o'r cyhuriau hyn mewn gweithrediad bob tro yr anadlwn—fod miloedd o wythiau a rhedweliau yn wasgaredig drwy bob rhan o'r trefniant rhyfedd—fod holl swm y gwaed yn rhuthro gyda nerth rhyfeddol trwy y llestri hyn, a thrwy y galon bedair gwaith âr ddeg bob awr—nad yw yr anadl yn ddim amgen na math o *gymysgedd*, yn yr hwn y mae *oxygen* yr awyr yn cael ei yfed gan y gwaed, ac yn gwasgaru gwres a grwm drwy y corph—fod yr ysgyfaint yn cael ei ffurfio o luaws dirifedi o fân geloedd neu lestri o wahanol agweddiad, yn llawn o awyr, a'r rhai hyn ym-gyflwyno i'w gilydd o bob ochr, a bod eu rhifedi, o leiaf, yn 1,700,000,000—fod dros dri chan mil o filiynau o fân dyllau yn chwarenu corph dyn canolig o faintioli, drwy y rhai y

mae y chwys yn colli yn barhaus—fod miloedd o bibellau llaethog a dyfraidd yn cyflwyno maeth i'r gwaed—fod y galon yn nghanol y trefniant, mewn grym cyhurol rhyfeddol, yn rhoddi chwech a phedwar ugain o filoedd o ergydion bob pedair awr ar hugain—a bod yr holl drefniant rhyfeddol hwn o beirianwaith, a chanoedd o swyddau eraill ynddo, anadraffuddus i ni, mewn gweithrediad parhaus, er ein cadw mewn bodolaeth, ac er sicrhau ein mwynhad.

Yr oedd y testyn hwn yn fynych yn wrthrych sylw y Salmydd duwiol. Olrheinai drefniant rhyfeddol y corph dynol, gyda llygad dealltwriaeth, o'r anelwig-ddefnydd yn y groth hyd ei gyflawn faintoli; ac wedi ei daro â syndod, wrth edrych ar y doethineb a'r daioni a amlygir yn ei ffurfiad, dyrchafai ei feddwl at Dduw mewn mawrhad. "Clodforaf di," medd efe, "canys rhyfedd ac ofnadwy y'm gwnaed, rhyfedd yw dy weithredoedd! Mor werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw! Mor fawr yw eu swm hwynt! Pe cyfrifwn hwynt, amlach ydynt na'r tywod."—Eto, er mor rhyfeddol ydyw y corph hwn yn ei ffurfiad, y mae yn agored i wywo, ac i gael ei ddatod yn fuan yn y bedd. Ond sicrheir i ni fod amser yn neshau, "pan y caiff pawb sy'n y beddau glywed lleferydd Mab Duw, ac y deuant allan." pan y bydd i'r corph llygradwy hwn, "wisgo *anllygredigaeth*," ac y bydd i'r hyn sydd yn cael ei hau mewn anmharch, "gael ei gyfodi mewn gogoniant." Os oedd y corph dynol, hyd yn oed yn ei sefyllfa bresenol o ddarostyngiad, yn cyffroi y fath deimladau o fawrhad yn meddwl y Salmydd duwiol, pa faint mwy y gwna pan y byddo wedi dyfod i fynu o dywyllwch a llygredigaeth, i gyfranogi o ogoniant bywyd *anfarwol*. Bydd ei alluoedd y pryd hwnnw wedi eu bywioccâu—pob tuedd datodiad wedi darfod—pob egwyddor afiechyd wedi eu difodi, a phob peth annymunol wedi ei atal byth. Gwedi ei wneud yn gyffelyb i gorff gogoneddus Crist, bydd ei brydferthwch yn ddisglaer, ei gyd-agweddiad yn berffaith, yr olwg arno yn ogoneddus, a'i ysgogiadau yn nerthol a hoew. Bydd ei erwig synhwyrgar wedi eu puro a'u gwellhau, a chylch eu gweithrediad wedi ymêangu. Bydd ei erwig clywed wedi ei addasu i fwynhau peroriaeth y nef, a'i olwg yn gymhwys i graffu ar y gwrthrychau lleiaf ac i dremio i ardaloedd pellaf y byd. Bydd ei synhwyrau at ddeall a dirnâd wedi eu hychwanegu, a'i alluoedd at symudiad wedi eu cryfhau, er ei alluogi i symud

mewn cyflymder rhyfeddol, o'r naill barth o ofod i'r llall, yn ol pob tebygolwydd, a hyny yn rhagori ar ddim a feddwyn yn awr. Y mae yn amlwg na bydd "y corph a fydd" ddim yn llai rhyfeddol yn ei drefniad, nac yn dangos llai o ddoethineb ei Wneuthurwr na'n corph marwol ni yn awr; ond yn y gwrthwyneb, rhaid i ni dybied, o angenrheidrwydd, y bydd ynddo filoedd o drefniadau cywrain, gwahanol i ddim a allwn ni ei ddychymygu yn awr, ac sydd yn hanfodol angenrheidiol yn ffurfiad corph wedi ei fwriadu i ANFARWOL barhad. Y mae chwilio a myfyrio ar drefniad Dwyfol ddoethineb ar y corph, trwy yr hyn y bydd elfenau afiechyd a marwolaeth wedi eu hatal rhag byth fyned i mewn iddo, a thrwy yr hyn y cedwir ef mewn mwyniant a nerth dros ystod oesau dirifedi, yn destyn ag y mae yn naturiol i ni gasglu a fydd yn rhan o fyfyrddodau y gwaredigion mewn byd dyfodol;—ac ni allwn lai na thybied y bydd y wybodaeth sydd genym yn awr am ryfeddodau y corph dynol, yn gymhwysder parotöawl er ein galluogi i ffurfio golygiad eglur ac éang am alluoedd, defnyddiau, ac offerynoldeb neillduol cyrph y saint wedi yr adgyfodiad.

HANESIAETH.

Cangen arall o fyfyrddod y saint yn y nef fydd Hanesiaeth. Y mae Hanesiaeth yn cynwys cofnodiad o ffeithiau a dygwyddiadau a fyddont wedi myned heibio; ac yn ein gwneud yn gydnabyddus â'r gweithrediadau a gymerasant le ganoedd neu filoedd o flynyddoedd cyn ein geni ni. Pan yr edrychir arno yn ei ystyr briodol, nid yw yn ddim amgen na hanes manwl o weithrediadau Dwyfol Ragluniaeth mewn perthynas i greaduriaid moesol yn y byd hwn. Y mae yn egluro cymeriad dynolryw, a'r llygredigaeth dwfn a chyffredinol i'r hwn y maent wedi suddo, ac yn arddangos uniondeb cymeriad Duw, a chyflawnder gweinyddiad ei lywodraeth foesol.

Bydd Hanesiaeth, gan hyny, yn ffurfio rhan uchel o fyfyrddodau trigolion y nef, fel y byddant megis defnyddiau i egluro ffyrdd Rhagluniaeth, ac i arddangos uniondeb Duw yn ei lywodraeth ar y byd. Ni allwn fyfyrlo yn awr, ond ar ychydig o weddillion gwasgaredig hanesiaeth dynolryw. Yr ydym yn holol anwybodus o hanesiaeth rhai cenhedloedd; ac y mae eraill, nad oes genym ond rhan anghyflawn o'u

hanes, a hyny yn gymysgedig â chwedlau a dychymygion. Nid oes genym yr un hanes cyflawn am unrhyw genedl, wedi ei chyfansoddi o wirioneddau pur; ac o ganlyniad, nid ydynt yn ddim amgen na chynnifer o fodrwyau gwasgaredig a drylliédig yn nghadwyn goruchwyliaethau Duw, ac nid ydym yn alluog i ardremio dros *holl* weithredoedd y Creawdwr tuag at ddynion, mewn un gyfres ddilynol, o greadigaeth y byd hyd yr amser presenol. Ni wyddom ddim yn gadarnháol am *ystod yr* amser ag y parháodd dyn yn ei gyflwr o ddiniweid-rwydd, nac am yr hyn a gymerodd le yn flaenorol i'w gwypm. Ac mor ychydig a wyddom am sefyllfa dynolryw, am y dy-gwyddiadau a'u cyfarfu, ac am y trefniadau gwladol a chref-yddol a fu drwy *ystod yr* un cant ar bymtheg o flynyddoedd o amser y creadigaeth hyd y diluw, er fod y byd y pryd hwnw yn fwy ffirwythlawn a phoblog nac y bu byth ar ol hyny? Mor ychydig a wyddom am sefyllfa dynolryw yn uniongyrch o flaen y diluw—am y golygfeydd dychrynllyd a fu dros y ddaear, pan yr agorwyd ffynhonau y dyfnder mawr, a rhaiadrau y nef,—ac am wrthguriad elfenau natur, pan y rhwygwyd creigiau cedyrn y ddaear, pan y dadymchwelwyd sylfeini y mynyddoedd, ac y trowyd holl wyneb y ddaear yn eigion cyffredinol? Mor ychydig yw yr hyn a wyddom am yr amgylchiadau a ganlynodd godiad graddol eilunaddoliaeth, ac am ddechreuaid yr ymerodraethau mawrion, i ba rai y mae y ddaear wedi ei rhanu? Mor ychydig yw yr hyn a wyddom, hyd yn oed am hanes y genedl Iuddewig ar ol caethiwed Babilon? I ba le y gwasgarwyd deg llwyth Israel i fysg y cenhedloedd, a pha ddamweiniau a'u cyfarfu, ac yn mha wlad y maent i'w cael? Yr ydym yn hollol anwybodus o hanes holl genhedloedd y byd (oddigerth yr Iuddewon yn unig) o amser y diluw hyd ddyddiau Hezeciah, ystod o agos i ddwy fil o flynyddoedd. Ac eto, drwy yr amser hirfaith hwnw, nid oedd Duw wedi anghofio y ddaear. Yr oedd ei oruchwyliaethau tuag at ei greaduriaid rhesymol yn myned yn mlaen yn barhaus; yr oedd ymerodraethau yn codi ac yn darford, un genhedlaeth yn myned ymaith, a chenhedlaeth arall yn dyfod, a miloedd ar filoedd o ddynolryw yn cael eu hysgubo i'r byd tragwyddol. Bydd y cyfyngau hyny yn hanesiaeth dynolryw, y rhai sydd yn cuddio y rhan fwyaf o oruchwyliaethau Duw o'n golwg, yn ddiau, yn cael eu llanw yn y byd tragwyddol, fel y ceir cymeryd golygiad éang a

chyffredinol ar y trefniadau Dwyfol yn eu holl gysylltiadau â phob cenedl ar y ddaear.

Ond nid hanes *dyn* ydyw yr unig destyn, yn y cylch hwn o wybodaeth, a fydd yn wrthrych sylw trigolion y nef. Y mae hanesiaeth *angylion*, eu galluoedd, eu cyfeillach, eu gwasanaeth, a'r moddion cymdeithasu sydd rhyngddynt â'u gilydd, a'u hamrywiol genhadaethau i fydoedd pellenig—y gorchwylion a gymerodd le yn eu cymdeithas—y chwyldroadau drwy ba rai y dichon eu bod wedi myned—hanes angylion cwympliedig—achos eu cwympl, a'r amgylchiadau a ganlynodd hynny—y cynlluniau a fu ganddynt gwedi hynny, a'r moddion drwy ba rai y cyflawnasant eu dyfais usfernol—bydd y pethau hynny sydd yn ffurfio rhan o'r Dwyfol oruchwyliaethau, yn destyn myfyrdod y “saint yn y goleuni.” Y mae y gorchudd wedi ei daenu dros lawer o oruchwyliaethau y Duwdod, ac y mae genym bob rheswm i gredu y bydd iddi gael ei thynu ymaith pan y delo yr hyn sydd berffaith, ac yr “adnabyddwn megis y'n hadweinir.” Y mae yn debygol hefyd y bydd i'r pethau mwyaf pwysig mewn perthynas i fydoedd eraill gael eu hamlygu i'w golwg. Hanes y gwahanol blanedau yn nghysawd yr haul, a'r rhai cysylltiedig â'r cysawdau eraill yn y bydysawd—amser eu creadigaeth a chymeriad eu preswylwyr, y cyfnewidiadau yr aethant drwyngddynt, gwahanol oruchwyliaethau Rhagluniaeth tuag atynt, a agorir ger bron y cadwedigion, er éangu eu meddwl am lywodraeth Duw. Deuant i gael golwg eglurach ac éangach ar gymeriad a phriodoliaethau Duw, trwy y cyfryw gymundeb, ac am uniondeb ei weinyddiadau, a'i “fawr amryw ddoethineb” yn yr amrywiol ffyrdd y llywodraetha ef wahanol daleithiau ei ymerodraeth éang. Dan argraph y golygiadau hyn, deuant i fawrhau ei lywodraeth, ac i uno yn “Nghân Moses, gwasanaethwr Duw, a chân yr Oen, gan ddywedyd, Mawr a rhyfedd yw dy weithredoedd, O Arglwydd Dduw Hollalluog! Cywir a chyflawn yw dy ffyrdd, ti Frenhin y saint.”

Yn awr, yr ydwyf wedi mynegi yn fyr, yn y dalenau blaenorol, am y prif ganghenau o wyddoriaeth a fydd yn wrthrych sylw y cyflawnion yn y byd dyfodol. Gallesid nodi amryw ddosparthiadau eraill o wybodaeth wyddoriaethol i'r un dyben;

ond fy amcan penaf ydoedd, i osod ger bron y darlenydd rai enghreiftiau, fel eglurhad ar fy nghosodiad cyffredinol, "fod perthynas rhwng gwyddoriaeth â'r byd dyfodol." Os addefir y bydd unrhyw wyddor yn y nef, bydd hyny yn cynwys addefiad fod y rhan fwyaf o honynt yno, os nid y cyfan o'r holl wyddorion hyny ag sydd yn dwyn trysorau gwybodaeth ddefnyddiol i oleuni, ac i gael eu harfer gan greaduriaid uwch. O blegid, y mae yr holl wyddorion defnyddiol yn dal perthynas â'u gilydd, fel y mae gwybodaeth o un dosparth yn hollol angenrheidiol er cael gwybodaeth eglur o'r llall. Y mae seryddiaeth yn rhagdybio gwybodaeth o rifyddiaeth, cylch-fesuriaeth, trionglaeth, a changenau eraill rhif a mesur. Y mae athroniaeth ymarferol yn tybio gwybodaeth ymarferol o hanesiaeth naturiol ac anian-ddyssg, ac yn dal agos gysylltiad â fferylliaeth, mŵnyddiaeth, a llysieuaeth; ac y mae difyniaeth ac anian-ddyssg yn tybio gwybodaeth o brif egwyddorion dyfr-bwysiant, awyryddiant, a gwelediant. Y mae elfenau y naill wyddor yn rhedeg i'r llall, ac yn ad-lewyrchu goleuni ar eu gilydd, fel nad oes gan yr holl wyddorion, o'u hystyried yn briodol, yn eu gwir oleuni, ond yr un gwrthrych mewn golwg; a hyny ydyw, cael allan y ffeithiau perthynol i'r bydysawd, eu cysylltiadau â'u perthynasau, a'r deddfau wrth ba rai y maent yn cael eu llywodraethu, yn nghyd a'r amlygiadau a ddangosant o allu, doethineb, a haelfrydedd y Creawdwr.

Mewn trefn i egluro y pwnc hwn yn mhellach, gellid gosod y sylwadau byrion canlynol ger bron. Y mae pawb sydd yn credu mewn Datguddiad yn addef,* "Y caiff pawb ar sydd yn y beddau eu hadgyfodi i fywyd," ar derfyn y goruchwyliaethau presenol perthynol i'r ddaear, a pha wahaniaeth bynag a fydd ar y cyrph wedi eu hadffurfio, rhagor yr hyn ydynt yn awr, byddant yn offerynau *defnyddiol*, wedi eu cynysgaeddus âg ermig synhwyrau, fel cyfrwng dirnadaeth i'r yspryd an-nefnyddiol. Ni allwn ni wybod yn mha fodd y bydd yr ysprydoedd dignawd yn edrych ar wrthrychau a pherthynasau defnyddiol, na pha fodd y defnyddiant y wybodaeth a

* Gydag eithriad o ddilynwyr Baron Swedenburg yn unig.

gawsant pan yr oeddynt mewn cysylltiad â hwy, hyd oni byddwn wedi ein gweithredol symud i'r sefyllfa wahanedig; gan hyny, nid yw y sylwadau hyn, na'r rhai a allwn eu crybwyl ar y pwnc, yn cael eu cyfeirio at sefyllfa *gyfringaidd* ysprydoedd dynion da. Nid yw y sefyllfa honno, pa beth bynag ydyw trefn meddwel a'r mwynhad ynddi, ond sefyllfa o anmherfeithrwydd, neu gyflwr annaturiol, ar ryw y:tyriaeth, os tybiwn nad yw yr yspryd mewn cysylltiad âg unrhyw wisg ddefnyddiol. Gan hyny, os addefir fod ysprydoedd y cyflawnion, ar ol yr adgyfodiad cyffredinol, i gael eu haduno â ffurf ddefnyddiol, rhaid addef hefyd y bydd iddynt ryw ddefnydd sylweddol i orphwys, neu ryw fyd defnyddiol i breswyllo ynddo. Y mae y gosodiad diweddaf hwn hefyd mor amlwg yn yr Ysgrythyr â'r cyntaf. O blegid, tra yr amlygir i ni y bydd i ranau elfenol y ddaear gael eu datod, sicrheir i ni ar yr un pryd y bydd i "nefoedd newydd a daear newydd" gael eu parotoi, yn y rhai "y bydd cyflawnnder yn cartrefu;" hyny ydyw, byddant wedi eu puro oddiwrth bob drygau naturiol a moesol, ac wedi eu haddasu at alluoedd y gwaredigion, mewn rhyw ran o'r bydysawd, yn breswylfa.

Mewn perthynas i sefyllfa *llêol*, ac amgylchiadau ein cartref dyfodol, nid ymddengys ond pedwar neu bump o dybiaethau. Naill ai, 1. Bydd i'r byd yr ydym ni yn preswylio ynddo gael ei ad-ffurfio wedi y dinystri cyffredinol, a'i drefnu fel lle priodol o breswylfod i'r gwaredigion:—neu, 2. Bydd i rai o'r bydoedd sydd yn awr mewn ardaloedd pellenig o'r èangder gael eu trefnu fel preswylfa barhaus y cyflawnion, i ba rai y cant eu symud:—neu, 3. Bydd i fyd newydd gael ei greu, wedi ei addasu at amgylchiadau y gwaredigion, a'i addurno â phob golygfa briodol, i arfer eu galluoedd adferedig:—neu 4. Caniateir i'r gwaredigion ymsymud o'r naill ardal neu fyd i'r llall, a'u cynysgaeddu â galluoedd priodol at hyny:—neu ynte, 5. Gwedi treulio rhyw gynnifer o oesau mewn rhyw fyd neillduol, i'r hwn y dygir hwy yn uniongyrchol wedi yr adgyfodiad, y bydd iddynt gael eu cludo i ardal arall o'r bydysawd i fyfyrion ar olygfeydd newyddion o allu a doethineb creadigol, ac wedi hyny eu symud, o bryd i bryd, trwy gyfres ddilynol o symudiadau, er mwyn cael golygfeydd èangach ar gyfoeth a gogoniant llywodraeth gyffredinol Duw.

Yn yr holl amgylchiadau hyn, pa dybiaeth bynag a gymer-adwyir fel y fwyaf tebygol, bydd y deddfau cyffredinol, wrth

ba rai y llywodraethir y bydysawd yn awr, a pherthynas gyffredinol y bydoedd mawrion â'u gilydd, yn parhau, ar y cyfan, yn ddigyfnewid; os na chofleidiwn y dyb wrthun honno, y bydd i holl osail ymerodraeth y Duwdod gael ei distrywio o achos ein byd ni, yr hwn, o'i gydmaru â holl drefniant y bydysawd, nad ydyw ond megis llwchyn yn nghanol ymerodraeth Duw. Byddai mor rhesymol i ni dybied y byddai i ymddygiad trigolion planed sydd yn cylchynu y seren *Sirius*, neu y dinystri a ddichon fod wedi cyfarfod y planedau Ceres, Pallas, Juno, a Vesta, fod yn gynwysedig ynddynt ddistrywiad ein daear ni.

Tybier am foment, y bydd i'r ddaear a breswyliwn gael ei glanhau oddiwrth bob drygau naturiol sydd yn awr, a myned dan drefniad newydd, er ei chymhwys o yn gartref creaduriaid santaidd mewn byd dyfodol. Ar y dybiaeth hon, ai ni byddai i berthynas gyffredinol pethau barhau yn y byd defnyddiol fel y mae yn awr? Byddai i èangder llydan y ffurfaen, a'r bydoedd a gynhwysa, arddangos yr un olwg a pherthynasau at eu gilydd ag a wnant yn awr. A thybied y byd newydd hwnw i fod o agweddiad crwn, fel yr ymddengys fod pob byd adnabyddus i ni, byddai perthynas neillduol rhwng eu cylchoedd yn croesi eu gilydd wrth onglau union, neu mewn rhyw gyfeiriad arall,—neu ynte rhwng cyhydedd a phlegynau, neu gyfochriad a chanol-ddydd, &c., fel y mae yn bresenol. Gallai osgo ei symudiad, tueddiad ei hechelau, ac amgylchiadau eraill, gael eu newid, a dangos amrywiaeth o olygfeydd gwahanol i'r hyn ydyw yn awr, eto, byddai i'r un egwyddorion cyffredinol barhau, mewn perthynas i ddaear-yddiaeth, seryddiaeth, rhifyddiaeth, cylchfesuriaeth, fferylliaeth, a pheirianwaith, y rhai sydd yn gymhwysiadau at yr amrywiol berthynasau sydd rhwng gwrthrychau defnyddiol pa le bynag y byddont; o ganlyniad, byddai i'r cyfryw wyddorion gael eu harfer, a'r egwyddorion ar ba rai y maent wedi eu hadeiladu i gael eu defnyddio, er y byddent mewn perfeithiach trefn yn y byd newydd hwnw nac yn bresenol. Rhaid, gan hyny, y bydd y gwyddorion a darddant oddiwrth y berthynas naturiol sydd rhwng gwrthrychau defnyddiol â'u gilydd, ac sydd yn tueddu i'n dysgu am ddoethineb a gallu Awdwr natur, i gael eu deall a'u harferyd yn y byd dyfodol, lle y mae ysprydoedd rhesymol wedi eu cysylltu â ffurf er-migol, ac yn dal perthynas â byd defnyddiol; ac o ganlyniad,

os nad yw egwyddorion sy'n faenol gwybodaeth wyddoriaethol i'w cyrhaddydd yn awr, v maent yn aros i'w dirnad mewn byd dyfodol.

Y mae y sylwadau hyn, gydag ychydig gyfnewidiad, yn gynnwisiadwy at y tybiaethau eraill, a ellir eu gwneud mewn perthynas i le ac amgylchiadau ein sefyllfa rhagllaw. Pe byddai perthynas gwrthrychau allanol a'u gilydd yno yn wahanol i'r peth ydynt yn awr, eto, byddai y wybodaeth hon yn hyfryd a defnyddiol i'r meddwl er cydmaru y naill a'r llall, ac i ganfod y modd y mae Dwyfol ddoethineb yn cael ei arddangos yn mhob math o fodolaeth a ddichon fod. Nid oes unrhyw sefyllfa o fodolaeth nad ydyw elfenau gwybodaeth wyddoriaethol yn gyfaddas iddi.

Y mae yn wir fod amryw wyddorion a chelfyddydau yn dal perthynas neillduol a'r byd hwn, na ellir barnu y byddant yn wrthrychau olrheiniad mewn sefyllfa ddyfodol o ddedwyddwch. Y mae dysgu *ieithoedd*, sydd yn ffurfio rhan uchel o sylw rhai a ddibrasant wyddorion dynol—olrheiniad meddyginaeth, fel celfyddyd ymarferol—cyfreithiau gwladol a dinesig—achyddiaeth a gwerthyddiaeth—rhyfel, hela, a physgota—celfyddyd gweithiad brethynau, llifo, &c.,—mewn gair, yr holl gelfyddydau a'r gwyddorion a godasant oddiar lygredigaeth ein natur i ddarfod o anghenrheidrwydd, fel pethau yn perthyn yn unig i gyflwr dirywiedig trigolion y ddaear, ac nad allant fod yn rhan o olygfa perffeithrwydd moesol. Ond am egwyddorion rhif a mesur, a gwirioneddau athroniaeth naturiol, seryddiaeth, daearyddiaeth, a'r cyffelyb, y mae yn amlwg y byddant i gael eu harfer fel rheol creaduriaid synhwyrol, sydd yn dal perthynas a'r byd naturiol. Dichon y bydd amryw wirioneddau eraill, sydd yn galw am lafur a chywreinrwydd i'w harfer yn awr i gael eu trafod yno gyda rhwyddineb. Os gallai athrylith, fel yr eiddo Syr Isaac Newton, ddirnad gosodiadau Euclid, ar yr olwg gyntaf, heb gymeryd y drafferth o fanylu, y mae yn rhesymol i ni gasglu y bydd yr holl anhawsderau sydd yn awr ar ffordd ein hymchwiliadau wedi eu symud ymaith, ac y bydd yr holl berthynasau yn eglur, ac yn hawdd i'w deall a'u cynhwys gyda chyflymder yn y byd dyfodol.

Y mae amryw engraeiphtiau wedi eu dangos o alluoedd ac éangder y meddwl dynol, hyd yn oed yn nghanol anhawsderau sefyllfa bresenol pethau. Gwelwyd hyn yn yr enwog *Pascal*,

yr hwn oedd mor hynod am ei dduwieldeb ac am ei alluoedd meddylgar. Darganfyddodd y rhan fwyaf o osodiadau llyfr cyntaf Euclid, cyn bod yn ddeuddeg oed, tra yr oedd ar yr un pryd yn olrhain yr ieithoedd, heb na llyfrau nac athraw, na chyn gwybod fod y fath lyfr a hwnw mewn bod; er syndod pob dyn adnabyddus mewn rhif a mesur. Gwnaeth rai prawfiadau a darganfyddiadau wedi hyny ar natur sain, ar bwysau yr awyr, ac ar wasgiad yr awyrgylch; a phan yr oedd yn un-ar-bymtheg oed, cyfansoddodd draethawd ar *Conic Sections*, yr hwn a ystyrid yn orchestol gan y prif ddysgedigion. Pan yr ydoedd yn bedair-ar-bymtheg oed, dyfeisiodd beiriant rhifyddol, drwy yr hwn y gellid gwneud cyfrifon meithion, heb gymhorth ysgrifell, na gwybodaeth o unrhyw reol mewn rhifyddiaeth,—a phan yr oedd yn bedair-ar-hugain oed, yr oedd wedi cyrhaedd medrusrwydd yn mhob cangen o wybodaeth ddynol, o'r bron, er bod ei sylw penaf ar bethau crefyddol yr un pryd.—Yr oedd yr enwog *Grotius*, pan nad oedd onid tair-ar-ddeg oed, sef blwyddyn wedi ei ddyfodiad i athrofa Leyden, yn alluog i fyned drwy wersi uchel mewn rhif a mesur, athoniaeth, a'r gyfraith, gyda chymeradwyaeth cyffredinol. Anturiodd yn bedair-ar-ddeg oed i ffurfio cynlluniau addysiadol oedd yn gofyn am alluoedd tra éang, y rhai a gyflawnodd gyda'r fath berfffeithrwydd ag a oedd yn syndod y byd llythryryddol. Yn yr oedran boreuol hwn, cyhoeddodd argraffiad o *Martianus Capella*, a chyflawnodd ei orchwyl yn y fath fodd ag a fuasai yn anrhydedd i ysgolheigion penaf ei oes. Aeth i'r swydd o ddadleuwr yn ddwy-ar-bymtheg oed, a gwnaeth ei amddiffyniad cyntaf yn Delf gyda'r boddlonrwydd mwyaf.—Yr oedd yr enwog *Crichton*, yr hwn a dderbyniodd ei addysg yn Perth a St. Andrews, erbyn cyrhaedd ei ugain mlwydd oed, yn fedrus mewn deg o ieithoedd, ac wedi myned trwy holl gylch y gwyddorion fel eu dealled ar y pryd hwnw. Bu mewn dadl unwaith yn Paris, yr hon a barhaodd am naw awr, yn mhresenoldeb tair mil o bobl, yn erbyn pedwar doethawr a haner cant o athrawon yr eglwys, a gorchfygodd ei holl wrthwynebwyr ar bob pwnc a osodid ger bron; ac er nad ydoedd wedi gwneud unrhyw barotoad ar gyfer yr ymrysonfa, daeth allan yn nghanol bloeddiadau o gymeradwyaeth.—Yr oedd *Gassendi*, athonyydd enwog o Ffraig, pan yn bedair oed, yn alluog i adrodd pregethau byrion, o'i gyfansoddiad ei hun; ac yn saith oed,

treuliai nosweithiau i syllu ar ysgogiadau y ser, am y rhai yr oedd wedi cyrhaedd cryn raddau o wybodaeth. Pan yr oedd yn un-ar-bymtheg oed, cafodd ei benodi yn broffeswr areithyddiaeth yn Digne; a phan y daeth yn bedair-ar-bymtheg, cafodd ei ethol yn broffesydd athroniaeth yn athrofa Aix. Yr oedd ei wybodaeth éang am rif a mesur wedi ei haddurno â gwybodaeth a serch neillduol at y Grefydd Gristionogol, a bywyd wedi ei ffurfio yn ol ei rheolau.—Y mae enw *Jeremiah Horrox* yn hynod yn haneson seryddiaeth; cyn cyrhaedd dwy-ar-bymtheg oed, yr oedd, drwy ei lafur ei hun, a chymhorth ychydig o awdwyr Lladin, wedi dyfod i wybodaeth éang o seryddiaeth a'r holl ganghenau perthynol iddi. Cyfansoddodd daflenau seryddol ei hun, a chywirodd waith amryw eraill oedd yn enwogion yr oes. Gwnaeth gyfrifiad manwl o groesiad y blaned Gwener dros wyneb yr haul, ac efe oedd y cyntaf a ganfyddodd hynny, yr hyn a ystyrrir yn bwnc tra phwysig yn y wyddoriaeth yn awr.—Gwnaeth Syr Isaac Newton, yr hwn y mae enwogrwydd ei athrynlith yn adnabyddus i'r holl fyd, ddarganfyddiadau mawrion mewn cylch-fesuriaeth; a gosododd i lawr sylfaeni ei "Principia" a'i "Optics" cyn cyrhaedd ei bedair-blwydd-ar-hugain oed, ac eto y mae y gweithiau hyn yn cynwys gwirioneddau ag sydd yn galw am alluoedd y celfyddydwyr cyfreiniaf i'w deall a'u defnyddio. Wrth ddysgu rhif a mesur, ni chymerai y drafferth o fyfyrlo cylch-fesuriaeth Euclid, yr hwn a ymddangosai yn rhy eglur iddo, fel yr oedd yn afreidiol iddo golli amser at hynny. Yr oedd cip-olwg ar ei gynhwysiad yn ddigon ganddo er gwnéud ei hun yn feistr ar y cyfan. Ac yn nghanol ei holl ymchwiliadau campus, ac yn mysg yr amrywiaeth llyfrau oedd yn ei gylchynu yn wastadol, y Bibl ydoedd prif wrthrych ei fyfyrddod; ac er y cwbl oll, yr oedd yn y diwedd mor hynod am ei addfwynder a'i wylder ag ydoedd am amrywiaeth ei wybodaethau a'i gyrhaeddiadau.—Yr oedd J. Philip Baratier, yr hwn a fu farw yn Halle, yn 1740, yn ugain mlwydd, wedi ei ddonio â galluoedd côf a meddwl anarferol. Pan yr oedd yn bump oed, deallai yr ieithoedd Groeg, Lladin, German, a French; a phan yr oedd yn naw oed, gallai gyfieithu unrhyw ran o'r Ysgrythyrau Hebraeg i'r Lladin, ac adrodd holl lyfr y Salmau yn Hebraeg; a chyn cyrhaedd ei ddeg oed, gwnaeth eiriadur Hebreig ar y geiriau mwyaf anhawdd, gyda llawer o nodiadau cywrain. Pan yn dair-ar-ddeg oed, cyhoeddodd,

mewn dwy gyfrol wythplyg, gyfieithiad o'r Hebraeg o "hanes teithiau Rabbi Benjamin yn Ewrob, Asia, ac Affrica," gyda nodiadau hanesyddol cywrain, yr hyn a gwblhæodd oll yn ystod pedwar mis o amser. Yn nghanol y llafur hwn, olrheiniai wyddor rhif a mesur, ac yn bedair-ar-ddeg oed, dyfeisiodd fod i fesur yr hydred ar y môr, yr hyn a ddangosai arwyddion o gryfder meddwl anghyffredin. Darllenai ugain o gyfrolau unplyg mawrion, gyda sylw manwl arnynt, yn ystod un gauaf.

Y mae y fath olrheiniadau cyflym ac éang yn dangos, fod y meddwl dynol yn alluog o amgyffrediad dirfawr; ac os gellir cyrhaedd y fath ragoriaethau amrywiaethol, hyd yn oed yn nghanol anfanteision y bywyd marwol hwn, pa faint mwy inanteisiol y gellir eu holrhain mewn sefyllfa lle y mae yr yspryd mewn cysylltiad â chorff anllygradwy, ac wedi ei gymhwysio i'w ganlyn yn ei holl ysgogiadau; ac yn y lle y bydd pob rhwystr moesol sydd yn awr yn atal ei fywiogrwydd wedi eu symud ymaith yn gwbl oll. Nid yw ehediadau yr athrylith uwchaf a fu erioed ar y ddaear i'w gydmaru âg ysgogiadau cyflym a golygiadau éang trigolion y nef, ond megis herciad abwydyn mewn cydmariaeth âg ehediad eryr. Wedi ei gynysgaeddu â galluoedd newydd cryfion, a digon o le i arfer y galluoedd hyny, dichon y gall olrhain llwybrau cuddiedig gweithrediadau natur, chwilio cylchoedd y bydoedd nefol yn eu rhodau pellenig, ac ardremio dros holl gadwyn y goruchwyliaethau moesol, nid yn unig mewn perthynas i ddynolryw, ond preswylwyr y bydoedd eraill hefyd oll.

Mi a derfynaf y rhan hon o'm testyn, gyda sylw neu ddau a dueddant i egluro a chadarnhau y nodiadau blaenorol.

Yn y lle cyntaf, gellid sylwi, na bydd i'n gwybodaeth yn y byd dyfodol gael ei leihau, ond ei gynhyddu i éangder di-derfyn. Y mae hyn yn cael ei fynegi yn yr Ysgrythyrau Santaidd, "Canys gweled yr ydym yr awrhon, trwy ddrych, mewn dameg, ond yna, wyneb yn wyneb. Yn awr yr adwaen o ran, ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir." (1 Cor. xiii. 12.) Y mae y geiriau hyn yn dangos, nid yn unig y bydd i'n gwybodaeth mewn byd dyfodol gael ei helaethu, ond hefyd y bydd wedi ei helaethu i eangder na allwn ni yn awr osod terfynau iddo. Ac os bydd i'n golygiadau deallgar gael eu cynhyddu yn ngwlad y goleuni, gallwn fod yn sicr y bydd i'r loll ganghenau hyny o wyddorion defnyddiol sydd yn ein

cynorthwyo i olrhain gweithredoedd yr Hollalluog, gael eu harfer, a'u dwyn i raddau uwch o berfffeithrwydd yno. O blegid bydd i'n galluoedd presenol, nid yn unig barhau mewn ymarferiad, ond hefyd gael eu cryfhau a'u hëangu, a chylch y gwrthrychau a fydd yn destynau myfyrdod gael ei helaethu yn ddiderfyn. Byddai tybied yn wahanol, yn cynwys tybiaeth y bydd i ddyn gael ei ddifeddanu o'i alluoedd deallgar, ac o'i gynheddfau rhesymol, pan yr elo o fewn terfynau y byd trawgwyddol.* Yn ein mynediad i'r byd hwnw, ni a gludwn ein holl alluoedd moesol a deallgar gyda ni, y rhai yr ydym yn awr yn ymwybodol o honynt, yn nghyd a'r holl ddrychfedd-vliau a gyrhaeddasm yn ein cyflwr presenol. Byddai y dychymyg o fod i'r galluoedd presenol gael eu *hanfodol* gyfnewid, ac y bydd i'n syniadau presenol golli, agos yr un peth â thybio y bydd i ddynion gael eu trawsffurfio i drefn newydd o fodolaeth, neu ynte gael eu gollwng i ddiddymiant, ar eu mynediad i'r byd anweledig. Ac os na ddinystir ein gwybodaeth bresenol yn angau, rhaid y bydd y wybodaeth honno yn sylfaen yr holl wellhad dyfodol a wneir, a'r holl ddarganfyddiadau a ddadlenir i'n golwg yn y sefyllfa dragwyddol.

Yn mhellach, y mae yn amlwg mai y golygiadau meddylgar uwch, a feddiana rhai dynion rhagor eraill, a ffuriant y prif wahaniaeth rhwng y gwaredigion â'u gilydd yn y sefyllfa nefol. Bydd y prif barotöad ar gyfer y nef yn gynwysedig yn nhueddiad adnewyddol y meddwl—yn yr ymarferiad llawn o gariad at Dduw, a'n cariad at yr holl greaduriaid santaidd, ac yn yr amrywiaeth o arferiadau i ba rai y mae yr egwydd-orion ardderchog hyn yn arwain. Pan y cyrhaeddo y saint i'r byd dedwydd hwnw, hwy a deimlant eu hunain oll yn gydradd;—fel y buant unwaith yn “blant digofaint megis eraill,” byddant yn awr wedi eu gwaredu “trwy werthfawr waed Crist,” ac wedi eu hadnewyddu trwy dylanwad Yspryd ei ras,—ac yn sefyll yn mherthynas brodyr yn Nghrist, “a

* Cafodd un hen weinidog Cymreig, tra yr oedd yn nghanol ei fyfyreriaeth, a'i wraig yn yr ystafell, ei afonyddu yn sydyn ganddi â chwestiwn a ofynai iddo, yr hwn nad atebwyd mor fodhaol ond yn anfynych—“John Evans,” ebai hi, “a ydych chwi yn tybied y byddwn yn adnabod ein gilydd yn y nef?” Atebai yntau yn ddibetrus, “Diameu y byddwn; a ydych chwi yn tybied y byddwn yn *ffolach* yno nac yr ydym yma?” Pe yr ystyriai y darllenyydd y bydd i'n gwybodaeth gael ei *ëangu*, ac nid ei gyfyngu yn y nef; neu mewn geiriau eraill, na byddwn yn *ffolach* yno nac yr ydym yma,” ni byddai yn anhawdd iddo gymeradwyo yr hyn a fynegais yn flaenorol ar y testyn hwn.

meibion a merched i'r Arglwydd Dduw Hollalluog," fel cyd-vanddeithion angylion, a brenhinoedd ac offeiriad i Dduw a Thad pawb oll. Ni allai y nef fod yn nef heb ymarferiad o dueddiadau santaidd, er uwched y gallai fod y preswylwyr wedi ymgryaedd mewn cynhydd gwybodaeth;—a bydd pawb a ddygir yn y diwedd i'r sefyllfa ddedwyd yn teimlo eu hunain yn dragwyddol ddyledus am eu breintiau a'u mwynhad i'r "Hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen a laddwyd, ac a'u prynodd i Dduw trwy ei waed." Eto, er hyn i gyd, bydd gwahaniaeth mawr, o leiaf ar y dechreu, yn éangder eu golygiadau meddyliol. Ni ellir golygu y byddant oll yn gyfartal yn yr ystyr hwn. Tybier fod caethwas o Negro wedi ei ddychwelyd yn ddiweddar at Gristionogaeth, a Christian o athronydd treiddgar, yn cael eu dwyn ar yr un pryd i'r byd tragwyddol, a ydyw yn rhesymol i ni gredu na byddai dim gwahaniaeth rhwng helaethrwydd eu golygiadau deallgar? Byddai y ddau yn teimlo eu gwaredigael oddiwrth bechod a thristwch, byddai iddynt gael eu llanw â syndod a mawrhad ar y golygfeydd newyddion a ymagorent ger eu bron, a byddai iddynt gael eu cyffroi â'r teimladau cryfaf o ostyngeiddrwydd a pharch; ond pe byddai i bob un o honynyt ddwyn gydag ef y gyfran hono o wybodaeth a gyrhaeddodd yn y bywyd hwn, byddai raid fod gwahaniaeth mawr yn nghynnwysiad eu cyrhaeddiadau, ac yn eu galluoedd deallgar; oddigerth i ni dybied y byddai cyfnewidiad gwyrthiol yn cael ei wneud ar feddwl y Negro, yr hwn yr oedd ei olygiadau meddylgar o'r blaen mor gyfyng. A byddai tybied fod i'r fath wyrth gael ei chyflawni ar bob dyn, nid yn unig yn wrthwyneb i bob peth a wyddom ni am weithrediadau cyffredinol y Duwdod, ond hefyd byddai yn ddinystri ar bob dyben a'n cymhellai yn awr i gynhyddu "yn ngwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwyr Iesu Grist," ac ar ein holl olygiadau am weithredoedd a goruchwyliaethau yr Hollalluog. Y mae yn ddiau y gallai y Negro mewn ystod nifer o oesoedd ddyfod yn gyfartal â'r athronydd yn éangder ei gyrhaeddiadau deallgar; ond ar y dechreu, y mae Ysgrythyr* a rheswm yn ein dysgu fod yn rhaid bod gwahaniaeth, oddigerth bod i'r deddfau sydd yn llywodraethu y byd deallgar gael eu cwbl gyfnewid. A allwn ni dybied am foment y byddai i ddyn anwybodus halogedig,

yr hwn a ddygwyd i edifeirwch, ac i wybodaeth y gwirionedd," ychydig oriau cyn ei fynediad i fydd yr ysprydoedd, gyrrhaedd gwybodaeth mor éang am Ddwylfol wirionedd â'r hyn a gyrrhaeddodd Owen, a Watts, a Doddridge, neu Dwight, yn yr un ystod o amser? neu y byddai i Hottentot heb ei ddwyn i wybodaeth am Gristionogaeth, ond er y mis diweddaf o'i fywyd, fyned i'r nef gyda golygiadau mor éang â Newton neu Boyle? Byddai y fath dybiaeth yn sarhad ar *ddoethineb* y Llywodraethwr Dwyfol; ac arweiniai ti i gasglu fod yr holl lafur a arferwyd gan y dynion disglaer y cyfeiriwyd atynt, er cynhyddu mewn gwybodaeth am bethau Dwyfol, yn holol afreidiol, ac yn ymylu ar wagedd.

Bydd golygiadau y saint yn y nef, nid yn unig yn gwahaniaethu o ran eu hëangder, ond bydd eu cariad at Dduw, a'r rhinweddau a'r grasau sydd yn tarddu o'r egwyddor honno, i leihau neu gynhyddu, neu i gael effeithio arnynt rywfodd gan sychander neu helaethder eu golygiadau dealgar. Os addefir, mai po fwyaf fydd ein gwybodaeth am Dduw, mwyaf fydd ein cariad tuag ato, ymddengys, o ganlyniad, mai yn ol y graddau o olygiadau amlwg a gyrrhaeddwn am weithredoedd Duw yn y greadigaeth, yn nhrefn Rhagluniaeth, ac yn nghynllun prynedigaeth, y bydd ein cariad a'n mwynhad o'i ragoriaethau yn cael eu hëangu. Yn yr ystyr hwn, bydd "y saint yn y goleuni," yn ymgynhyddu mewn santeiddrywydd trwy holl oesau tragwyddoldeb, er y byddant yn mwynhau dedwyddwch pur yn mhob ystod o barhad. Bydd pob gwyddor a feithrinant, a phob graddau a gynhyddant mewn gwellhad, yn eu galluogi i ddarganfod rhyw belydr newydd o ogoniant yn y cymeriad Dwyfol, yr hyn a dderchafa eu serchiadau at Dduw yn uwch uwch, nes eu dwyn yn berffeithiach ar ei ddelw foesol.

Y mae y gofyniad, "A fydd graddau mewn gogoniant yn y nef," wedi bod yn destyn ymchwiliad gan dduwinyddion lawer pryd. Gellid penderfynu y cwestiwn hwn yn hawdd, os oes rhyw bwys yn yr ystyriaethau a nodwyd yn awr. Cyn belled ag y mae gwahaniaeth rhwng bywiogrwydd a chryfder y galluoedd dealgar, ac yn helaethder y gwrthrychau a gynhwysant, cyn belled a hyn y gellir dywedyd bod "graddau mewn gogoniant;" ac y mae y rhagoroldeb hwn i'w olygu fel y wobr naturiol sydd yn canlyn iawn-arferiad o'n hamser a'n galluoedd ar y ddaear, er nad oes achos i dybied y bydd i'r gwahaniaeth hwn byth beri dim tebyg i genfigen rhyng-

ddynt, fel y dygwydda yn fynych yn ein sefyllfa bresenol. Yn y gwrthwyneb, gellir barnu y bydd iddo godi awydd santaidd am wellhau pob cynneddf, a meithrin pob cangen o wyddoriaeth nefol, er cynhyddu mewn gwybodaeth am Dduw. Mewn cadarnhad i'r golygiadau hyn, dywedir i ni yn yr Ysgrythyr fod y wobr a gyflwynid i'r gweision hyny yr ymddiriedwyd talentau iddynt, yn ol graddau yr iawn-ddefnydd a wnaethant o honyn; ac yn niwedd amser y bydd y saint yn ymddangos fel disgleirdeb y ffurfafen, canys "fel y mae y naill seren yn rhagori ar seren arall mewn gogoniant, felly y bydd adgyfodiad y meirw." Ac y mae y rheswm am y rhagoriaeth hwn yn cael ei fynegi gan Daniel y prophwyd, "Y rhai a ragorant mewn doethineb, a lewyrchant fel disgleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyflawnder a fyddant fel y ser yn dragwyd."

Os ydyw y sylwadau blaenorol yn sylfaenedig ar wirionedd, ymddengys, o ganlyniad, na ddylid ystyried *gwyddoriaeth ddynol* fel pe na byddai yn perthyn ond yn unig i'r byd presenol. Tueddai y fath olygiad er oeri ein gwresogrwydd yn olrheiniad gwybodaeth wyddoriaethol, ac i leihau ei werth yn ddirfawr. Y mae y neb a olrheinio wyddoriaeth fel gwrthrych o ragolygiaeth yn dal perthynas â'r bywyd byr yn y byd hwn yn unig, yn gweithredu oddiar ddybenion isel a chyfyng, ac ar ryw olygiad, heb fod ond ychydig gwell na'r dyn trachwantus, ac y mae ei holl serch yn cael ei gymeryd i fynu mewn casglu trysorau darfodedig y byd hwn. Dylai yr Athronydd Cristionogol, sydd yn olrhain perffeithderau a llywodraeth Duw yn holl wrthrychau ei ymchwiliad, ystyried ei lafur presenol fel dechreuad cylch o wellhad diderfyn—fel arweiniad i fwynhad o bleserau sefyllfa uwch o fodolaeth—ac yn rhoddi iddo gychwyniad mwy manteisiol i'r "wlad well," nac a ddaeth i ran y rhai sydd yn amddifad o'r cyfryw olygiadau. O blegid po mwyaf a ddeallwn yn awr am ryfeddodau anfeidrol allu, doethineb, a daioni, yn ngweithredoedd naturiol yr Hollalltiog, y mae yn amlwg mai mwyaf parod a fyddwn at fyfyrnodau helaethach mewn amser dyfodol, ac mai mwyaf fydd yr hyfrydwch a deimlwn wrth syllu ar y gwrthrychau a'r gweith-

rediadau hyny sydd yn awr yn guddiedig mewn tywyllwch, heb eu dadlenu i'n golwg.

Wrth osod y sylwadau blaenorol ger bron, yr wyf yn mhell oddiwrth feddwl ceisio penderfynu beth yw y trefniadau neillduol y mae yr Hollalluog wedi eu ffurfio mewn perthynas i'r cyflwr dyfodol, neu yr amgylchiadau neillduol a all fod mewn bydoedd eraill. Y mae y pethau hyny yn hollol tu hwnt i gylch ein hymgylchiad; gan hyny, rhaid i ni eu gadael mewn aneglurdeb tra byddom yn ein sefyllfa bresenol. Ond y mae egwyddorion a pherthynasau cyffredinol arbenig, sydd yn tarddu o angenrheidrwydd yn ol natur pethau, a raid eu hystyried yn gynwysedig mewn rhyw drefniadau neillduol a ellid eu ffurfio; ac at yr egwyddorion cyffredinol hyny yn unig yr wyf yn cyfeirio. Ac ni ddylid ystyried ei fod yn rhyfyg i ni geisio cael allan y cyfryw egwyddorion cyhoeddus, neu berthynas hanfodol pethau â'u gilydd. Y mae yn amlwg fod y Creawdwr wedi bwriadu i ni eu gwybod, gan ei fod wedi arddangos y fath luaws diderfyn o'i weithredoedd ger ein bron, ac wedi ein cynhysgaeddu â galluoedd cymhwys i olrhain eu mawredd â'u trefniadau, ac i chwilio allan y deddfau sydd yn rhëoli eu symudiadau, ac i ddirnad eu cysylltiad â'u dibyniad, yn nghyd a rhai o'r dybenion uchel a fwriadwyd iddynt.

Yr wyf yn ymwybodol y bydd gwrthwynebiad gan rai i'r hydn a fynegwyd yn awr mewn perthynas i olrheiniad gwyddoriaeth yn y byd nefol, gan y barnant fod y fath wybodaeth yn cael ei gyflwyno mewn sefyllfa ddyfodol yn ddifyfrwng, ac heb yr un math o addysgiad mewn ffordd uniongyrchol oddiwrth y Creawdwr ei hun. Ond er mynyched y gwneir y fath honiad, nid oes un sail iddo mewn unrhyw ran o'r Ysgrythyr, o'i hesbonio yn deg, ac y mae yn hollol groes i osodiadau egluraf rheswm. Y mae yn wrthwynebol i bob rhéol briodol y gwyddom am dani, drwy yr hon y dygir creaduriaid rhesymol i wybodaeth a dedwyddwch; golyga fod gwyrth barhâol yn cael ei dwyn yn mlaen—difodai yr angenrheidrwydd o arfer y deall—ac yn y diwedd, lleihai ddedwyddwch deiliaid deallgar. O blegid y mae rhan fawr

o ddedwyddwch creaduriaid deallgar meidrol yn codi oddiar gynydd graddol mewn gwybodaeth o wirionedd, drwy ymarferiad o'u galluoedd rhesymol. Pe byddai ein holl wybodaeth mewn sefyllfa ddyfodol i'w gael yn ddigyfrwng, neu trwy gyflwyniad gorwch-naturiol oddiwrth y Duwdod, byddai ein galluoedd rhesymol, ar lawer o gyfrifon, wedi eu rhoddi i ni yn ofer. Ymddengys mai un o brif ddybenion rhoddiad y doniau hyn ydoedd, fel y byddai i ni gael ein cyfarwyddo i chwilio am wybodaeth, ac i dynu addysgiadau oddiwrth olygfeydd y greadigaeth, er éangu ein meddwl yn raddol am gynlluniau a phriodoliaethau y Creawdwr. Nid oedd Adda yn sefyllfa ei ddiniweidrwydd (ac yr oedd ei sefyllfa yn y cyflwr hwnw, fel deiliad moesol, yn union yr un fath â sefyllfa dynion da yn y byd dyfodol, oddigerth ei fod yn agored i gwympo) yn adnabyddus ar y cyntaf, o bob gwrthrych yn y byd yr oedd ef wedi ei osod ynddo, a'u hamrywiol berthynasau â'u gilydd. Er engraipli, ni wyddai ddim am olygfeydd neillduol natur, fel yr oeddynt ar yr ochr gyferbyniol o'r ddaear i'r lle yr oedd ef wedi ei osod. Yr oedd yn rhaid iddo arfer ei synhwyrau, ei alluoedd rhesymgar ei hun, ei sylwadau a'i olrheiniadau ymarferol o amryw fath, cyn y gallai ddyfod yn gwbl adnabyddus o ffurfiad a threfn, a phrydferthwch ei breswylfod ddaearol. O blegid byddai tybied mai deiliad goddefol ydyw dyn, yn mhob sefyllfa, o bob argraph meddylol ac ymarferol, yn ei ddarostwng yn debyg i beiriant, ac yn wrthwynebiad i bob deddf sydd yn rhëoli gweithrediadau defnydd a meddwl trwy yr holl greadigaeth.

Yr ydym yn gwybod hefyd fod gwirionedd yn cael ei ddadlenu yn raddol i greaduriaid deallgar uwch na ni. Yr oedd mawr amryw ddoethineb Duw mewn perthynas i'r eglwys, a chynlluniau ei ras tuag at y Cenhedloedd, mewn graddau yn guddiedig oddiwrth yr angylion, hyd nes yr amlygwyd* y feithiau o farwolaeth ac adgyfodiad Crist, a phregethiad a gwyrthiau yr apostolion; ac o blegid hyny y dywedir mai "ar yr hyn bethau y maent yn chwenychu edrych," neu dremio gyda sylw ar ddirgeledigaethau prynedigaeth; yr hyn a ddengys yn eglur yr ymarferiad bywiog o'u galluoedd rhesymol a'u dealltwriaeth, a'u cynydd graddol mewn gwybodaeth o fwriadau a chynlluniau yr Hollalluog. Ac os ydyw cread-

* Ephesiaid iii. 5 -11.

uriaid uwch o ran eu galluoedd naturiol na dyn yn cyrhaedd gwybodaeth yn *raddol* drwy fyfrio ar y goruchwyliaethau Dwyfol, ac mewn ymarferiad o alluoedd eu meddwl, byddai yn afresymol i ni dybied y bydd i ddyn, hyd yn oed mewn sefyllfa uwch o fodolaeth, gyrhaedd ei holl wybodaeth ar unwaith, ac heb ymarfer â'r galluoedd naturiol â pha rai y mae wedi ei gynysgaeddu.

Mewn gair, pe byddai i'r saint yn y nef gyrhaedd eu holl wybodaeth yn gyflawn ar eu mynediad i ddedwyddwch, byddai raid i ni dybied eu bod wedi eu donio â galluoedd, nid yn unig yn rhagori ar y seraph uwchaf, ond hefyd ar alluoedd cyfagos at feddwl anfeidrol y Duwdod ei hun. O blegid y mae y cylch o ymchwiliad a osodir o flaen creaduriaid deallgar yn ddiderfyn, ac yn cyrhaedd dros holl wrthrychau a goruchwyliaethau moesol Duw trwy éangderau ei ymerodraeth anfeidrol. A phe y tybiem y byddai meddyliau meidrol yn alluog i gynwys y fath gylch o wrthrychau ar unwaith, byddai i egniad eu meddwl gael ei ddinystrio yn fuan, a'u dedwyddwch ei derfynu, o blegid na allent edrych yn mlaen at hel-aethiad pellach o'u golygiadau, nac ar ddilyniad gwrthrychau a gweithrediadau newyddion trwy holl oesau dyfodol tra-gwyddoldeb.

RHAN III.

AR Y CYNORTHWYON A RYDD DARGANFYDDIADAU GWYDDOR-IAETH ER EIN GALLUOGI I FFURFIO DIRNADAETH AM GYNYDD GWASTADOL Y NEFOLION MEWN GWYBODAETH A DEDWYDDWCH.

Y MAE llawer o syniadau yn iyd ac anghywir wedi cael eu dal, hyd yn oed yn y byd Cristionogol, am y byd a ddaw ac ymarferiadau a mwynhad ei drigolion. Sicrheir i ni fod sylfaen y dedwyddwch sydd i'w fwynhau yn y byd hwnw yn gorffwys ar absenoldeb pob drwg, a chyrhaeddiad o berfeithrwydd moesol—fod yn rhaid i bob egwyddor lygredig gael ei dinystrio, a'r serchiadau gael eu puro, cyn y gallwn fwynhau “etifeddiaeth y saint yn y goleuni.”—Y mae yr egwyddorion hyn wedi cael eu harddangos yn eglur yn yr Ysgrythyrau, y rhai sydd mewn perffaith gysondeb â rheswm, ac a gydnabyddir yn gyffredinol gan holl bleidiau y byd crefyddol. Ond y mae y rhan fwyaf o Gristionogion yn boddloni ar y drychfeddyliau mwyaf disail ac anghywir am ddedwyddwch y nef; ac yn ymddiddan ac ysgrifenu mor ddibris yn ei gylch, mewn modd nad yw yn cyflwyno unrhyw ddirnadaeth rhesymol am ystyriaethau a gwasanaeth aruchel creaduriaid meddylgar nefol. Yn lle casglu y meddyliau a fwriedid oddiwrth iaith gydmariaethol yr Ysgrythyr, y maent yn ymdrechu i estyn a changhenu y ffugyrau a arferwyd gan yr Ysgrifenwyr Santaidd, gan bentyr u cyffelybiaeth ar gyffelybiaeth, ac ymadrodd ar ymadrodd, a chymysgu lluaws o ddrychfeddyliau dyrus, nes y mae y darlun a osodir allan ger bron y meddwl yn debyg i dryblith disglaer, neu awyr-dân gwreichionog. Y mae y gair *Gogoniant* a'r cyffelyb, wedi eu trafod fil o weithiau drosodd, i ddarlungio y sefyllfa nefol;—

y gwaredigion yn cael eu desgrifio fel un gynulleidfa fawr, uwchlaw yr awyr weledig, wedi eu haddurno â "choronau serenog," yn yfed o "ffynhonau grisialaidd," ac yn gwneud i "eithafion y nef adsain" gan eu huchel ganiadau. Y mae y Gwaredwr ei hun wedi cael ei ddarlungio yn sefyll fel delw yn y nefoedd, uwchlaw y dyrfa, wedi ei goroni â gemau, a'i gylchynu â goleuni ysblenydd, a thyrfa fawr y nef yn syllu yn *ddiorphwys* arno, fel llu o edrychwyr yn craffu ar ysgogiadau awyren, neu oruch-dân disglaer. Y mae y fath ddarlungiadau yn wrthwynebol i'r drychfeddyliau a *fwrriedid eu cyflwyno* yn iaith gydmariaethol Ysprydoliaeth, pe yr edrychid arnynt wedi eu diosg o'i haddurniadau. Ni allant gyfleo ond dirnadaeth anghywir am y gwasanaeth sydd yn y sefyllfa nefol, ac y maent yn tueddu i ddyrys y dychymyg, ac i "dywyllu cyngor âg ymadroddion heb wybodaeth."

O blegid hyn, y mae llawer o wrandawyr anffyddiog wedi cael eu harwain i benderfynu nad yw Nef y Cristion yn wrthrych i'w ddymuno; ac y maent yn fynych wedi cyhoeddi na "theimlant hwy yr un hyfrydwch mewn bod wedi eu bythol grogi mewn sefyllfa awyrol, yn parhaus ganu Salmau ac emynau i'r Bôd tragwyddol,"—y mae y drychfeddwel hwn am y nef yn cael ei gyfleo yn rhy fynych trwy y darlungiadau gweigion a disail a wneir o ymarferiadau a gwasanaeth y byd dyfodol.

Y mae perthynas agos rhwng gair Duw a'i weithredoedd; y maent yn adlewyrchu cyd-ddisgleirdeb ar eu gilydd; ac y mae y darganfyddiadau a wnaed drwy y naill, yn tueddu i éangu ein meddyliau, a chyfarwyddo ein hystyriaethau at y datguddiadau cynwysedig yn y llall. Heb ystyried yr amlygiediadau aruchel am y Duwdod a welir yn y greadigaeth, rhaid fyddai i'n golygiadau am ddedwyddwch y nef fod yn dywyll a dyryslyd, a'n gobaith am fwynhad *gwastadol* yn y sefyllfa ddyfodol fod yn egwan. Ymddengys oddiwrth gyfansoddiad y meddwl dynol, fod yn ofynol fod gwrthrychau *newyddion*, a chylch dilynol o fyfyrnodau yn ymagor yn barhaus o flaen y meddwl, er cael mwynhad o ddedwyddwch diball, heb na blinder na gofid. Byddai adolygiadau parhaus ar yr un gwrthrychau, pa mor uchel bynag y byddont ynddynt eu hunain, a pha mor hynod bynag y gallont fod wedi cael eu teimlo ar brydiau blaenorol, yn annigonol i roddi boddhad gwastadol i feddyliau wedi eu cynsgaeddu â galluoedd éang,

er treiddio trwy ddyfnderau ac éangder y greadigaeth. Ond nid yw holl wrthrychau y byd hwn a'i derfynau, a'r holl ddamweiniau a gofnodwyd mewn hanesiaeth grefyddol a gwladol, yn destynau digonol i lanw meddyliau y gwaredigion am filiwn o oesau; a llawer llai ar gyfer bodoliaeth o barhad diderfyn. Rhaid y bydd i ddiliniad o wrthrychau a goruchwyliaethau moesol, éangach na dim sydd mewn cysylltiad â'r ddaear hon, ddwyn sylw "ysprydoedd y cyflawnion a berfeithiwyd," drwy ystod chwyldroadau oesau bythol, tuag at i'w galluoedd gael eu boddhau a'u hëangu, fel y byddo i olygiadau newyddion am gymeriad Duw gael eu dadlenu, ac fel y byddo iddynt fwynhan dedwyddwch parhaus mewn myfyrdod ar ei briodoliaethau dros byth.

Y mae yn wir fod rhai wedi hòni, "y bydd dirgeledigaethau prynedigaeth yn rhoddi digon o le i ymchwiliadau dedwydd y saint i dragwyddoldeb." Addefir yn rhwydd y bydd myfyr-dodau ar y priodoliaethau Dwyfol, fel y maent wedi eu hamlygu yn iachawdwriaeth dyn, a'r ffeithiau rhyfeddol sydd yn perthyn i'r oruchwyliaeth honno, yn gymysgedig â holl ymarferiadau eraill y gwaredigion. Tra y byddo eu galluoedd deallgar yn treiddio drwy ymerodraeth yr Hwn sydd yn eistedd ar orsedd gyffredinol natur, ni anghofiant byth mo'r cariad a'u "dygodd o dywyllwch i oleuni," ac o ddyfnderoedd trueni i lewyrch tragwyddol ddydd. Bydd eu mawl a'u diolch yn esgyn i Dad y gogoniant, ac i'r Oen a laddwyd, yn *dragwydd*.—Ond ar yr un pryd, ni ellir golygu y bydd cylch y gwrthrychau cynwysedig yn nhreftn iachawdwriaeth, mewn perthynas i ddynolryw, yn ddigonol destyn myfyrdod, heb olygu gwrthrychau eraill hefyd, i alluoedd y saint yn y nef, trwy ddiderfyn barhad.—Ymddengys hyn yn eglur, ond i ni fanylu ar rai gwrthrychau a osodir ger ein bron yn nhreftn y prynedigaeth.

Yn y lle cyntaf, gellid sylwi, fod llen o ddirgelwch yn cuddio amrywiol ranau o gynnllun y prynedigaeth. Y mae bod "Duw wedi ymddangos yn y cnawd," ac undeb agos y Duwdod tragwyddol a'r "dyn Crist Iesu," yn ddirgelwch an-mhlymiadwy i feddyliau meidrol. Ond y mae tragwyddoliaeth, hollbresenoldeb, a hollwybodaeth y Duwdod, yn ddirgelwch llawn mor ddyfned â hyny, o blegid y mae y naill mor anolrheiniadwy i bob creadur terfynol â'r llall. Y mae ffurfiad creadur teimladwy, wedi ei gynysgaeddu âg erwig, a chyn-

heddfau priodol at fywyd anifeilaidd, ac eto, heb fod y filfed ran o faintoli gwyfyn, yn wrthrych llawn mor anolrheiniadwy i ni. Y mae y gosodiadau hyn yn ffeithiau sydd raid eu haddef, ar dystiolaeth synhwyr a rheswm, ond eto, y maent oll yn gorwedd tu allan i gylch ein dirnadaeth ni.—Yn awr, ni all gwrthrych a fyddo yn cynwys dirgelwch lanw y meddwl trwy dragwyddoldeb, a'i ystyried yn unig fel peth *anchwiliadwy*, heb fod mewn cysylltiad â gwrthrychau eraill sydd o fewn cylch dirnadaeth creadur terfynol; onid ê, buasai adlewyrchiadau ar dragwyddoliaeth a hollbresenoldeb Duw, ond eu hystyried yn gynullion y meddwl yn drwyndl, yn alluog i foddloni y cynheddffau dealgar, yn y byd dyfodol, i raddau mor uchel â dim ag sydd yn ddirgeledig yn nghynllun y prynedigaeth. Ond y mae yn holol amlwg, nad all adlewyrchiadau parhaus ar gyfwng annherfynol a pharhad tragwyddol, o'u hystyried ar wahan, ddim cynyrchu graddau uchel o fwynhad meddyliol, oddieithr pan eu hystyrier yn eu perthynas â gwrthrychau mwy eglur ac olrheiniadwy. Bydd y fath fyfyr-dodau, pa fodd bynag, yn ddiamheu yn cael eu cymysgu gyda holl olygfeydd ac ymchwiliadau eraill y saint yn y byd nefol. I'r graddau y byddont yn myned yn mlaen trwy oesau dirifedi yn ngyrfa annherfynol parhad, ac i'r graddau y cyrhaeddont olygfeydd mawrion am bellder a maintioli y cyrph lluosog sydd yn britho ardaloedd y bydysawd, y bydd eu drychfeddyliau am gyfwng annherfynol, ac am barhad tragwyddol, yn cael eu hêangu yn ddirfawr. O blegid nis gallwn gyrhaedd drychfeddyliau am derfynau cyfwng, ond wrth gydmaru pell-der a maintioli gwrthrychau sylweddol â'u gilydd,—ac am barhad, trwy y rhes o feddyliau ac yr ydym yn eu tynu oddiwrth wrthrychau teimladwy, y rhai sydd yn myned drwy ein hystyriaethau, a thrwy chwyldroadau cylchynol gwrthrychau sylweddol ag sydd o'n deutu.—Gellid sierhau yr un modd mewn perthynas i bob peth sydd yn ddirgelwch yn nhrefn iachawdwriaeth ;—ac os addefir yr hyn a grybwyllywd yn awr, ymddengys, o ganlyniad, na allai y dirgelion, fel gwirioneddau na ellir eu cynhwys, roddi hyfrydwch parhaus i'r meddwl trwy oesau tragwyddoldeb. Gwrthrychau y gellir eu dirnad a'u cynhwys, ac nid dirgeledigaethau ar wahan, sydd yn ffurfio gwrthrychau myfyrdod priodol i greadur rheymol. O blegid, pe byddai i ni synfyfyrio yn barhaus ar destyn an-pirnadwy, megis tragwyddoliaeth Duw, am filiwn o flynydd-

oedd, byddem mor bell oddiwrth ei gynhwys, neu gyrraedd unrhyw ddrychfeddyliau newydd am dano, yn y diwedda âg yn y dechreu.

Yn y lle nesaf, gellid sylwi fod prynedigaeth, ond ei ystyried mewn cysylltiad â'r ffeithiau perthynol iddo, yn dyfod yn destyn dealladwy a phriodol i alluoedd dyn fyfyrion arno. Y mae y ffeithiau hyn yn perthyn i'r "dyn Crist Iesu, y Cyfrwingwr rhwng Duw a dynion," neu i'r saint, y pwrcasodd efe eu gwaredigaeth. Y ffeithiau cyffredinol perthynol i Grist, tra y bu yn ymdaið yn ein byd ni, ac a gofnodwyd yn y Testament Newydd gan yr Efengylwyr. Y mae y rhai hyn yn cynhwys, ei ymgawnwdoliad gwyrthiol, ac amgylchiadau ei enedigaeth; ei breswyliad neillduedig yn Nazareth; ei deithiau fel athraw cyhoeddus trwy wlad Judea; ei wyrthiau, ei ddioddefiadau, ei groeshoeliad, ei adgyfodiad, a'i esgyniad i'nef. Y mae yn ddiau fod amrywiaeth o ffeithiau hynod, heblaw y rhai a gofnodwyd yn yr Efengylau, y rhai y byddai yn dra dymunol gan y meddwl gael eu gwybod,—megis y modd y treuliodd ei fywyd, o amser cyntaf ymagoriat ei ddeall hyd yr amser y dechreuodd ei weinidogaeth gyhoeddus—yr amrywiol fyfyrddodau a lanwodd ei feddwl,—ei ymarferiadau meddyliol a chorphorol—y gyfeillach a arferai—y testynau ymddiddanion a ddewisai—y difyrwch (os bu y cyfryw) a hoffai—ei ymarferiadau duwio frydig a'i fyfyrddodau aruchel pan yr ymneillduai o blith dynion—ac yn enwedig y goruchwylion pwysfawr yr aeth drwyddynt o'r moment y cuddiwyd ei gorff gogoneddedig o olwg ei ddysgyblion, wedi ei esgyniad oddiar Fynydd yr Olewydd—pa barthau o'r byd defnyddiol yr aeth drwyddynt yn ei esgyniad buddygoliaethus—pa faint o wybodaeth am ei orchestion a gyflwynodd i fydoedd eraill —pa gyfran o'r éangder mawr, neu yn mha fyd defnyddiol y mae ei breswylfol uniongyrchol—pa beth ydyw rhagoriaethau y byd gogoneddus hwnw—pa gymdeithas sydd rhyngddo âg ysprydoedd y cyflawnion y rhai a berfffeithiwyd, âg Enoch ac Elias, y rhai sydd eisoes wedi eu cynsgaedu â chyrph, a chyda graddau eraill o greaduriaid deallgar nefol—pa olygfeydd a symudiadau a gymer le yn y byd hwnw pan y bydd efe ar ddychwelyd i'n byd ni i wysio holl-dylwythau dynion i'r farn gyffredinol. Y mae y ffeithiau perthynol i'r amgylchiadau hyn yn aros i'w hamlygu eto; ac y mae holl hanes y rhyfeddodau hyny yn sicr o fod yn destyn myfyrdod tra

hyfryd i bob un o'r gwaredigion. Ond eto, rhaid addef, pe byddai i fanylion yr hanes am bob un o'r ffeithiau hyn gymeryd mil o flynyddoedd o amser i'w hadrodd drosodd, y dyhysbyddid^o y testyn yn fuan, pe na byddai dygwyddiadau ac amgylchiadau eraill, a dilyniad o oruchwyliaethau Dwyfol gwahanol, i gael eu cyflwyno i'r golwg; a byddai holl ystod y parhad tragwyddol yn amddifad o'r *amrywiaeth a'r newydd-deb golygiad* sydd yn ofynol er sicrhau mwynhad gwastadol.

Y mae y dosparth arall o ffeithiau yn perthyn i'r gwaredigion eu hunain, ac yn cynwys yr amrywiol amgylchiadau cysylltiedig â threfn Rhagluniaeth trwy ba rai y dygwyd hwy i wybodaeth y gwirionedd, ac yr arweiniwyd hwy drwy olygfeydd marwoldeb i fwyniant o fythol ddedwyddwch. Bydd y cyfryw, yn ddiau, yn rhoddi testynau darlithoedd dyddorol, er difyru a bywiogi gwasanaeth y saint yn y nef. Y mae y sylwadau a wnaed yn awr, mewn perthynas i'r ffeithiau eraill a grybwyllyd, yn llawn mor gymhwysiadwy yma. Y mae y rhestr o oruchwyliaethau Dwyfol a gyflawnir tuag at bob dyn, er eu bod yn amrywiol mewn rhai amgylchiadau, yn dra thebyg i'w gilydd ar y cyfan. Ac eto, pe byddai goruchwyliaethau Rhagluniaeth tuag at bob un o'r gwaredigion mor amrywiol ac y byddai yn ddichonadwy iddynt fod, a bod can mlynedd o amser i gael ei gymeryd i adrodd hanes pob un, er hyny, ni byddai i dragwyddoldeb gael ei dreulio ymaithgyda'r cyfan yn nghyd.

Eto, haerwyd yn fynych y bydd i'r saint yn y nef, fwynhau hyfrydwch gwastadol mewn syllu ar ddynoliaeth ogoneddedig Crist. Y mae y darluniadau a roddir o'r amgylchiad weithiau yn debyg i hyn,—gosodir allan luaws dirifedi o edrychwyr yn syllu ar berson disglaer wedi ei dderchafu i le amlwg yn eu canol,—yr hyn sydd yn olygiad tra byr, a drychfeddwel tra anghywir am wasanaeth aruchel y saint yn y nef. Bydd golwg ddisglaer ysblenydd ar "y dyn Crist Iesu," ei sefyllfa dderchafedig yn y byd uchod, y gymdeithas achlysuol a gynhalia â'r saint, y darlithoedd a draddoda ar gynlluniau a gweithredoedd y Duwdod er eu hyfrydwch, a'r golygfeydd prydferth at y rhai y dichon y bydd iddo eu harwain,—ac amrywiol amgylchiadau eraill a gyffrōant ynddynt y teimladau mwyaf derchafedig mewn addoliad i'r Hwn sydd yn "ddisgleirdeb gogoniant ei Dad." Ond yn gymaint â bod corph gogoneddedig Crist yn *sylwedd defnyddiol*, ac o ganlyniad, yn

gyfyngedig i le neillduol, ni ellir barnu y bydd efe yn wastadol o fewn cyrhaedd golwg pob un o breswylwyr y nef; a phe byddai yn bosibl i hyny fod, eto, ni allai disgleirdeb naturiol ei gorff, pa mor ogoneddus bynag y byddai, roddi mwynhad newydd ac amrywiaethol drwy oesau o barhad di-darfyn. Cydnabyddir ef uwchlaw pawb yn *Ben* i holl deulu gwaredigol dyn, "yn yr hwn y mae trysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig," yr hwn a amlyga ddirgel gynghorau Duw yn raddol, ac a hyfforddia y saint am yr amlygiadau o ogoniant Dwyfol â goleuni ar bethau a ddiddana eu meddwl. Ymddengys fod hyn yn cael ei osod allan yn y darluniadau canlynol, "Yr Oen yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfaingc a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain at ffynhonau bywiol o ddwfr." Trwy gyfarwyddo eu sylw at y gwrthrychau yn mha rai y canfyddant fwyaf o amlygiadau o'r perffeithder Dwyfol, a thrwy eu haddysgu am y modd y dylent eu hystyried, a'r casgliadau priodol i'w tynu oddiwrthynt—"efe a bortha" feddyliau ei bobl â Dwyfol wybodaeth, ac "a'u harwain" at y myfyrdodau aruchel hynny, a'u lleinw â "llawenydd annhraethadwy a gogoneddus."

Nid ymddengys oddiwrth y sylwadau hyn, fod y dirgelion na'r ffeithiau mwyaf cyhoeddus perthynol i gynllun iachawdwriaeth, mewn perthynas i ddynolryw, i'w hystyried fel y prif destynau o fyfyrnod yn y sefyllfa nefol, na'u bod yn ddigonol i roddi y mwynhad amrywiaethol sydd yn ofynol er sicrhau dedwyddwch parhaoel i alluoedd cynhyddol y gwaredigion yn y byd dyfodol—er, yn ddiua, y bydd y eyfryw fyfyrnodau yn gymysgedig âg olrheiniadau eraill y saint mewn gogoniant.

Yr wyf yn awr yn myned rhagof at y prif wrthrych mewn golwg, sef i ymofyn pa wrthrychau eraill a fydd yn dwyn sylw dynion da yn y byd a ddaw; a pha oleuni y mae gweithredoedd naturiol Duw, a ddadlenwyd i'n golwg, yn ei daflu ar y testyn hwn.

Fel y mae sylfaen dedwyddwch creaduriaid deallgar y nef wedi ei osod ar ddinestr llwyr pob egwyddor o ddrwg moesol—mewn mwynhad o berffeithrwydd moesol—ac yn symudiad

ymaith pob rhwystr naturiol i arferiad galluoedd y meddwl, bydd y saint wedi eu cyfaddasu at wneud yr olrheiniadau dyfnaf, ac at y myfyrdodau éangaf. Ac y mae yn amlwg mai un o'u prif orchwylion a fydd olrhain, myfyrio, a mawrhau gogoniant priodoliaethau Duw. O herwydd hyn y dywedir i ni yn yr Ysgrythyr, fel un o freintiau y saint yn y goleuni, “*y gwelant Dduw megis ag y mae*”—“*y cant weled ei wyneb*”—“*y gwelant ei ogoniant.*” Y mae yr ymadroddion hyn, a'r cyffelyb, yn dangos yn eglur y bydd iddynt fwynhau golygfeydd cliriach o ogoniant Duw, na dim a welsant yn eu sefyllfa bresenol. Ond, pa fod y mae yr amlygiad hwn i gael ei arddangos? Y mae y Duwdod yn Fôd ysprydol an nefnyddiol, heb yr un ffurf weledig iddo, ac yn “preswylio tragwyddoldeb,” ac yn llenwi yr eithafoedd a'i bresenoldeb—na all ei ogoniant hanfodol fod yn wrthrych *myfyrdod uniongyrchol* creadur deallgar nefol. Ni ellir olrhain ei ogoniant, neu brydferthwch ei briodoliaethau, ond yn yr amlygiadau allanol a wnaeth efe o hono ei hun trwy ei allu anfeidrol yn y greadigaeth ddefnyddiol—yn yr amrywiol raddau o greaduriaid deallgar sydd yn ei boblogi—ac yn ei oruchwyliaethau moesol tuag at y bydoedd a'r bodau y sydd, neu a all fod eto, drwy ei ymerodraeth ddiderfyn.

Y mae ein gwybodaeth am y byd naturiol, yn y golygiad hwn, yn ein cynorthwyo i amgyffred am olygfeydd sefyllfa ddyfodol, ac yn taflu llewyrch goleu ar wasanaeth a hyfrydwch diball y gwaredigion yn y nef. Sicrheir i ni, trwy y darganfyddiadau diweddar a wnaed mewn gwyddoriaeth ddynol, nad yw priodoliaethau Duw wedi eu hamlygu yn unig yn ffurfiad y ddaear hon, a'r nefoedd awyrol sydd yn ei chylchynu, na'r gofal rhagluniaethol yn cael ei gyfyngu at y marwolion sydd yn ei phreswylio, ond eu bod yn ymestyn hyd eithafion creadigaeth. Ni a wyddom fod yr Hollalluog wedi amlygu ei nerth yn ffurfiad bydoedd yn mhell tu hwnt i'n terfynau daearol ni, y rhai sydd yn tra rhagori o ran eu maint a'u disgleirdeb ar y bellen yr ydym ni yn preswylio arni. Y mae yr un-ar-ddeg planedau, sydd gyda'n daear ni yn troi o amgylch yr haul, yn cynwys defnydd sydd ddwy fil a phum cant o weithiau yn fwy na'r ddaear, a'u harwyneb yn ddigon i gynal mwy o drigolion dri chant o weithiau nag sydd yma o le iddynt. Y mae *doethineb* Duw hefyd wedi cael ei amlygu tuag at y bydoedd hyn yn nhrefniad eu syradau, er dwyn

o amgylch *wahanol dymhorau*, a dilyniad rheolaidd *dydd a nos*—wrth gylchynu rhai o honynt â *lleuadau*, a modrwyau llewyrchus o wahanol faint, ac addurno eu nefoedd nosawl, ac adlewyrchu arnynt yn absenoldeb yr haul—yn eu cwmpasu âg awyrgylchoedd, ac amrywiaethu eu harwyneb â mynyddoedd a dyffrynoedd. Y mae y trefniadau hyn, sydd yn arddangos cywreindeb a bwriad, yn dangos fod y cyrph hyn wedi eu hamcanu gan y Creawdwr fod yn breswylfod creaduriaid deallgar, sydd yn cyfranogi o'i haelfrydedd, ac yn dychwelyd eu teyrnged o addoliad a mawl iddo.

Pe na buasai unrhyw wrthrychau wedi cael eu harddangos o flaen ein meddwl, heblaw y rhai a grybwyllywd yn awr, ac a gynhwysir o fewn terfynau ein trefniant ni, eto, byddai yma —yn y cylch bychan hwn o ymerodraeth Jehovah—olygfa fawreddog ac amrywiaethol yn cael ei dangos, yn destyn myfyrdod creaduriaid dealgar nefol rhagllaw. Ond y mae ynffaith na ellir ei wadu, nad yw yr haul, a'r holl blanedau sydd yn ei gylchynu, yn ddim amgen na brycheuyn ar ddarlunlen y bydysawd. Pa mor fawr bynag y gallai y ddaear hon, a'i chyfandiroedd, a'i moroedd ymddangos i'n llygad noeth ni —pa mor ryfeddol bynag y gallai corph mawr Jupiter ymddangos, sydd yn cynwys yn ei grombil fil o fydoedd cymaint â'n daear ni,—ac er mor rhyfeddol ydyw yr ystyriaeth o fod yr haul dros fil o weithiau yn fwy na'r naill a'r llall yn nghyd, eto, pe byddai iddynt, y moment hwn, gael eu dadgysylltu o'u rhodau, a'u dileu o fodolaeth, y mae bydoedd o fewn cylch ymerodraeth yr Hollalluog na wyddent ddim y byddai y fath chwyldroad wedi cymeryd lle. Ie, pe byddai i'r holl ofod sydd yn cael ei feddianu gan gyfundrefn yr haul—gofod o 3,600,000,000 o filltiroedd o drawsfesur—gael ei lanw â chorff cyfan yn cynwys 24,000,000,000,000,000,000,000,000,000 o filltiroedd, ac yn llewyrchu â disgleirdeb rhagorach na'r haul, ac i barhau am fil o flynyddoedd yn y cyflwr ysblenydd hwnw, ac yna i gael ei ddiffodd a'i ddiddymu,—y mae bodau sydd yn preswylio yn y pellderâu, o fewn cyrhaedd trem ein syll-wydrâu, i'r rhai y byddai ei greadigaeth a'i ddinystyr yn hollol anadnabyddus; ac i lygaid a edrychai ar holl gylch natur, gallai fod yn gwbl ddisylw, neu o leiaf, gael ei ystyried fel rhyw wrechionen yn colli mewn congl o'r bydysawd—yn union fel y sylwa edrychyd difater ar golli diferyn o'r eigion, neu dywodyn oddiar làn y môr.

Y mae lluaws o gyrph nefol yn llewyrchu mewn pellder dirfawr oddiwrth ein daear a'n cyfundrefn ni. Y mae éangder y gofod sydd rhwng ein preswylfod ni a sefyllfa y pellenau disglaer hyn, yn dangos eu bod o faintioli anferth, a'u bod yn llewyrchu, nid â goleuni benthyciol, ond â'u llewyrch naturiol eu hunain. Oddiwrth yr hyn a wyddom ni am ddoethineb a dealltwriaeth Duw, gallwn gasglu yn ddiogel, na chreodd efe ddim yn ofer; ac o ganlyniad, na wasgarwyd mo'r bydoedd goleu hyn drwy yr éangderau i fod fel llusernau diles yn unig i oleuo y gwaglœoedd dirfawr. Byddai addef y fath dybiaeth, am foment, yn anghyson â'r arwyddion o ddeall a bwriad sydd yn cael eu harddangos yn holl olygfeydd eraill natur ag sydd o fewn terfynau ein hymchwiliad. Byddai hyny yn gystal â darlunio yr Hollalluog yn ymddifyru mewn teganau disglaer—drychfeddwyl ag sydd yn hollol annheilwng o Fawrhydi y Nef, ac a dueddai yn naturiol i leihau ein parch i'w gymeriad fel yr unig ddoeth Dduw.—Os nad oes unrhyw barth yn ein cyfundrefn ni mewn natur nad ydyw yn ateb rhyw ddyben neil duol, mewn cysylltiad â chreaduriaid synhwyrgar—os ydyw dwfr llwyd corbwll llonydd yn cael ei lanw gan afrifed o drigolion, a amheuwn ni, am foment, nad yw cynnifer o filoedd o fydoedd mawreddog yn dal perthynas â chyfaneddiad a dedwyddwch creaduriaid deallgar? Canys yn mhob part o'r byd naturiol sydd o fewn cylch ymchwiliad manwl, ymddengys fod defnydd wedi cael ei greu er mwyn cyfleusdra creaduriaid synhwyrgar a deallgar. Fel y mae y Creawdwr mawr yn berffaith gyson yn ei holl gynlluniau a'i weithrediadau, y mae allan o bob dadl fod y bydoedd mawrion hyny, sydd yn grogedig yn ngwaglœoedd dirfawr y bydysawd, wedi eu bwriadu at ryw ddybenion ardderchog, teilwng o'r anfeidrol allu, doethineb, a dealltwriaeth, a rodres fodolaeth iddynt. A pha beth a all y dybenion hyn fod? Yn gymaint â bod y bydoedd hyn, gan mwyaf, yn ogymaint, neu fwy na'r haul, ac yn llewyrchu wrth eu goleuni naturiol eu hunain, yr ydym yn cael ein harwain gan debygoliaeth natur, i gasglu eu bod wedi eu hamcanu i ateb rhyw ddyben cyffelyb yn nhrefniant natur—i dywallt goleuni ar fydoedd cylchynol, ac i reoli eu hysgogiadau wrth eu dylanwad at-dyniadol. Felly, gellid ystyried, fod pob un o'r cyrph llewyrchus hyn, nid yn unig yn fyd, ond hefyd megis canol-bwnc deg-ar-hugain, tri-ugain, neu gant o fydoedd, yn mysg

pa rai y maent yn gwasgaru eu gwres, eu goleuni, a'u cysuron.*

Os sylwn yn awr ar yr afried bydoedd rhyfeddol hyn, ni a ganfyddwn y fath faes éang o ymchwiliad pwysig sydd yn ymledu o flaen meddwl pob creadur dealgar santaidd yn y greadigaeth. Pan y derchafwn ein llygaid at yr wybren, ar noswaith glir, canfyddwn lawer o ganoedd o fydoedd mawreddog wedi eu harosod mewn math o afreolaeth, ac yn llewyrchu o bell ar y gongl hon o'r greadigaeth. Ond nid yw nifer y ser gweledig i'r llygad noeth ond ychydig, mewn cydmariaeth â'r lluaws a ganfyddir trwy gymhorth syll-wydrau. Mewn parth mor fychan o'r wybren ag a guddia wyneb y lloer, canfyddwyd mwy o nifer o ser nag a all y llygad noeth eu gweled dros holl wyneb y ffurfafen; ac y mae eu nifer yn cynhyddu beunydd, yn ol fel y byddo rhagoroldeb y syllwydrau a arferir. Ymddengys eu bod wedi eu gosod yn y gwagle o'r tu cefn i'w gilydd, yn ddiddiwedd, hyd i bellder annherfynol, yr hyn sydd yn profi yn ddiamheuol, pe cynhyddid gallu y drych-beirianau fil o weithiau yn fwy na'r hyn ydyw yn awr, y neidai miliynau ar filiynau o ser i'r golwg o newydd ar unwaith, er ein dirfawr syndod. Dywed Syr William Herschel i ni, pan yr oedd yn craffu ar fan neillduol o'r *Llwybr Llaethog*, fod mwy na deng-mil-a-deugain o ser wedi pasio cylch golygiad y drych-beiriant mewn saith mynyd o amser,—ac fe gyfrifwyd fod dros bedwar ugain mil-iwn o ser, o fewn y cylch hwn, yn weledig mewn gwahanol barthau o'r ffurfafen.

Gan hyny, deallir o fewn y terfyn 'hwnw o drem dyn, nid yn unig fod pedwar ugain miliwn o fydoedd yn wel-edig, ond hefyd fod o leiaf gynnifer â hyny *ddeng waith ar hugain* drosodd; o blegid, y mae pob seren, a'i hystyried fel haul, yn cael ei chylchynu gan ddeg-ar-hugain o fydoedd, o

* Bydd gan yr Awdwr achlysur i egluro y testyn hwn yn fanwl, mewn cyhoedd-iad a elwir "GOLYGYFA Y NEFOEDD YN CAEL EI HARDDANGOS, i'r dyben o brosi ac egluro yr athrawiaeth am LUOSOGRWYDD BYDOEDD," yn yr hwn y profir y gosod-iadau a grybwylir yma i fodlonrwydd; ar yr un egwyddorion cyffredinol ag y profwn y Bôd o Dduw ac anfarwoldeb dyn. Yn y gwaith hwnw, dynodir yn fanwl yr holl ffeithiau adnabyddus perthynol i *Seryddiaeth Desgrifiadol*, a threfniant y nefoedd, yn nghyd â sylwadau gwreiddiol, ac ystriaethau moesol a chrefyddol, er ffurio Traithawd cynhwysfawr ar Seryddiaeth Cyhoeddus.

leiaf;* fel y gellir dywedyd fod trefniant gweledig y byd-ysawd, yn ol y cyfrifiad lleiaf, yn cynwys yn ei wagleoedd éang 2,400,000,000 o fydoedd! Y mae wyneb y nef yn dangos y fath olygfeydd ardderchog, fel y mae y meddwl yn cael ei orlenwi â syndod, ac yn gorfol rhoddi i fynu bob cynyg at geisio ffurfio dirnadaeth briodol am nifer a maintiolaeth, sydd gymaint uwchlaw pob olrheiniad cyffredin. Os na ellir ffurfio drychfeddwol priodol am faintoli, amrywiaeth, a threfniad *un* byd, pa fodd y gellir cynwys golygiad cyflawn am *fleoedd* o fydoedd? Os ydyw *un miliwn* o wrthrychau o unrhyw fath yn arddangos dychymyg rhy éang a dwfn i'n cyrhaeddiadau, pa fodd y gellir byth feddwol cynwys gwirthrych cymaint â dwy fil a phedwar cant o filiynau o fydoedd! Nid oes neb llai na'r Meddwl Tragwyddol a all rifo rhifedi y ser, sef yr Hwn a'u galwodd i fodolaeth o ddim, ac a'u trefnodd yn eu gwahanol sefyllfaoedd—yr Hwn y mae ei lygaid yn cynniwair trwy eithafion éangderau y greadigaeth—ac a all ffurfio meddwl amlwg am eu rhifedi, ac am reolaeth a threfniad y dosparth éang hwn o naturiaeth.

Ond gellid sylwi yma, fod hyd yn oed gwendid a thywyll-wch ein hamgyffredion yn tueddu i daflu goleuni ar y testyn yr amcanwn ei egluro. Y mae mawredd annirnadwy y gwirthrych yn dangos i ni y fath olygfeydd amrywiaethol o ogoniant Duw sydd eto i gael eu dadblygu, a'r fath destynau myfyrdod diderfyn a roddant i'r meddwl i'w trafod; a'r fath ddilyniad o ystyriaethau, bythol newydd, a all ganlyn, y naill ar ol y llall, yn ddiball trwy dragwyddol barhad.

Ni a ymdrechwn yn awr i fanylu ar rai o'r gwirthrychau a osodir o flaen ein meddwl, yn y lluaws cysawdau a bydoedd hyn, sydd o fewn cylch tremiad dyn.

Y drychfeddwol cyntaf sydd yn ymgynyg i'n meddwl ydyw, mai *ffurfiâu defnyddiol* ydynt—yn nhrefniad pa rai, y mae anfeidrol ddoethineb a daioni yn cael ei amlygu; ac o ganlyniad, eu bod yn dangos golygfa o gywreindeb rhyfeddol, teilwng o fyfyrdod pob creadur rhesymol. Os ydyw y ddaear

* Y mae cyfundrefn yr haul yn cynwys un-ar-ddeg o brif blanedau, a deunaw o rai llai, yr hyn a wna naw-ar-hugain yn nghyd; heblaw dros gant o ser gwibiog yn ychwanegol; ac y mae yn dra thebyg fod amryw blanedau yn y gofod hwn heb eu canfod eto. Dichon fod cysawdau eraill, yn cynwys nifer ychwanegol o fydoedd, ac efallai rai mwy o faintoli na'r rhai a berthynant i drefniant yr haul.

hon, sydd yn breswylfod dynion cwym piedig, ac yn arddangos llygredigaeth moesol, ac mewn rhai parthau yn dangos olion adfeiliau byd blaenorol—yn nghyd a'r fath olygfa amrywiaethol o fynyddoedd uchel, gwaelodion gwylt, a dyffrynoedd ffrwythlawn; afonydd cwmpasog, llynau tryloyw, ac eigion èang; tir-ddarlungau pryderth, wedi eu haddurno â ffrwyth-ydd â blodau; ac amrywiaeth teg o'r lliwiau pryderthaf, a mil o ragoriaethau eraill yn wasgaredig dros holl wyneb naturiaeth—pa mor ardderchog y gallwn dybio fydd yr olygfa a ymddengys yn y bydoedd hyny, lle nad yw drwg moesol erioed wedi myned i anurddo pryderthwch gweithredoedd y Creawdwr—lle y mae cariad at y Goruchaf, ac at eu gilydd, yn gwresogi mynwesau y trigolion; ac yn derchafu eu moliant a'u haddoliad gwastadol i Achosydd eu holl ddedwyddwch! Gallwn yn naturiol gasglu fod y mwynhad synhwyrgar sydd yn y bydoedd hyny, a'r gwrthrychau o brydferthwch a thegwch a ddangosant i'r golwg, yn tra rhagori ar olygfeydd a mwynhad y byd hwn, fel y mae eu galluoedd moesol a deallgar yn rhagori ar yr eiddo plant dynion.

Yn y lle nesaf, y mae yn dra rhesymol i ni gredu fod *amrywiaeth diderfyn o olygfeydd* trwy yr holl fydoedd sydd yn cyfansoddi y bydysawd; ac nad oes yr un o'r miliynau o gysawdau y crybwyllais am danynt yn awr yn perffaith gyfateb i'r llall yn eu ffurfiad, eu symudiadau, eu trefn, a'u haddurniadau. Y mae yn wir, yr ymddengys fod deddfau naturiol penodol yn perthyn i'r holl gysawdau sydd o fewn cylch golygiad dyn. Y mae yn dra thebygol fod deddfau pwys a thyniad yn estyn eu dylanwad drwy holl ardaloedd y gwagle mawr, lle y mae sylweddau defnyddiol; ac y mae yn ddiámheu fod trefn gwelediad, a'r deddfau wrth ba rai y mae goleuni yn cael ei adlewyrchu yn yr ardaloedd pellaf a olrheiniwyd drwy y drychbeiriant. O blegid, y mae y goleuni sydd yn tanbeidio oddiwrth y seren bellaf (fel y sylwyd yn flaenorol) yn berffaith o'r un natur, ac yn symud gyda'r un cyflymder, ac yn arddangos yr un lliwiau â'r goleuni sydd yn tarddu o'r haul, ac yn cael ei adlewyrchu oddiwrth wrthrychau o amgylch. Rhaid fod cyfrwng gwelediad, gan hyny, yn cael gweithredu arno, ac ermig golwg yn cyflawni yr un swyddau yn yr ardaloedd pellenig hyny, yr un modd ag y mae yn cymeryd lle yn y cysawd o'r hwn yr ydym ni yn ffurfio rhan; neu, o leiaf, mewn modd tra thebyg. Ac y mae yr amgylchiad

wn yn dangos yn amlwg fod y Creawdwr wedi bwriadu i ni ffurfio rhyw ddrychfeddyliau egwan, o leiaf, am rëol gyffredinol natur yn y bydoedd pellenig, er mwyn ein dysgu am olygfeydd ardderchog y bydysawd, hyd yn oed tra y byddom yn cyfaneddu y gongl ddinod hon o'r greadigaeth. Ond eto, er yr ymddengys fod cysawdau gweledig y bydysawd wedi eu cysylltu yn nghyd, âg egwyddorion a deddfau cyffredinol, sydd yn dylanwadu ar y cyfan, eto, y mae yr amrywiaeth didderfyn a ddichon fod y deddfau hyn yn eu derbyn yn mhob trefniant, ar wahan, yn peri bod amrywiaeth diddiwedd mewn amgylchiadau naturiaethol mewn gwahanol fydoedd, fel nad oes yr un ran o'r greadigaeth yn berffaith yr un fath a'r llall. Ac nid yw yn anhawdd i ni ddeall pa fodd y mae y gwahaniaeth hwn yn bod. Mewn perthynas i'n daear ni,—pe byddai i'w hechelau symud fel y pwyntiai at ryw barth arall o'r nefoedd, neu pe byddai i'r ongl y mae hi yn ei ffurfio yn awr, gyda'r cylch, fod yn fwy neu yn llai nac ydyw,—newidai ymddangosiad cyffredin yr wybren, ac ymddangosai ysgogiadau yr haul a'r ser, dydd a nos, a thymhorau y flwyddyn, a lluaws o achosion naturiaethol eraill yn y ddaear a'r nefoedd, yn gwbl wahanol i'r hyn ydynt yn awr. Pe byddai i ddefnyddiau hanfodol yr awyrgylch gael eu newid—pe byddai i'w nerth gwasgiadol gael ei gynhyddu, neu pe byddai fwy o *wres* neu *wefryddiaeth* gael ei gyflwyno iddo,—byddai y gwrthrychau sydd yn amrywio golygfa y ddaear, a goleuadau y nef, yn ymddangos mor wahanol, fel y byddai mewn gwirionedd, yn ol iaith yr Ysgrythyr, yn "nefoedd newydd a daear newydd." Gan hynny, y mae yn hawdd deall, pe yr arferid anfeidrol ddoethineb a gallu tuag at wneyd hyn yma, y byddai pob corph yn y bydysawd a'i berthynasau i ymddangos gyda'i brydferthion priodol ei hun yn unig.

Y mae yn dra thebygol fod y Creawdwr wedi gweithredu fel hyn oddiwrth yr amrywiaeth didderfyn a welwn yn y parthau hynny o naturiaeth sydd yn agored i'n hymchwiliad. Yr ydym yn deall fod yn y *byd anifeilaidd* dros gan mil o wahanol fathau o greaduriaid; a thua'r un nifer yn y *byd llysieuol*; y mae y *byd mînyddol* hefyd yn dangos amrywiaeth o ddaear, cerig, creigiau, delid, gemau, a meini gwerthfawr, yn wasgaredig ar wyneb, a thrwy grumbil y ddaear. O'r holl greaduriaid bywiol, nid oes dim cynnifer â dau yn berffaith yr un fath. O'r wyth gan miliwn o ddynolryw sydd yn pobl-

ogi wyneb y ddaear, a'r holl filiynau eraill a fu ar ei hwyneb o'u blaen, er creadigaeth y byd, o'u cydmaru â'u gilydd, ni cheid dau yn berffaith yr un fath â'u gilydd yn mhob modd. A'r un modd, ni cheir dau farch, dwy fuwch, dau gi, dau lew, na dau gawr fil, nac unrhyw ddaau greadur arall ar y ddaear, yn berffaith yr un fath a'u gilydd. Gellid gwneud yr un sylw mewn perthynas i olygfeydd llynau, afonydd, a mynyddoedd, ac am yr holl dir-ddarluniau amrywiaethol a ddengys wyneb y ddaear a'r dwfr i'r teithiwr, ac i'r myfyriwr ar drefniadau natur.

Os trawn ein golwg oddiwrth y ddaear at y bydoedd eraill, sydd yn cyfansoddi ein trefniant blanedawl ni, canfyddwn lai o amrywiaeth, cyn belled ag y mae ein sylw yn gallu cyrhaedd. Oddiar wyneb un o'r planedau ymddengys yr haul yn *fwy* saith o weithiau, ac oddiar wyneb un arall, ymddengys yn *llai* o dri chant a thri-ugain o weithiau, nac y gwna i ni. Y mae un o'r cyrph hyny heb yr un lleuad; ond oddiwrth ei agwedd rhuddgoch, y mae yn debygol ei fod ef, neu ei awyr-gylch, o natur mor danllyd fel y mae yn cael ei oleuo yn absenoldeb yr haul. Y mae un arall yn cael ei gylchynu gan bedair o leuadau llawer mwy na'r eiddom ni. Y mae gan y trydydd, *chwech*; ac y mae gan y pedwerydd, *saith* o leuadau, a dwy fodrwy ddisglaer i adlewyrchu goleuni yr haul, ac i amrywio golygiad ei awyr. Y mae un o'r bydoedd hyn yn cylchdroi ar ei echelau mewn *deng* awr, ac un arall mewn *tair-ar-hugain-a-haner* o oriau. Y mae un o honynyt yn troi o amgylch yr haul mewn *wyth-a-phedwar-ugain* o ddyddiau; ac un arall, mewn dau gant a phedwar-ar-hugain; y trydydd, mewn deuddeng mlynedd; y pedwerydd, mewn deg-ar-hugain; a'r pumed, mewn dwy-a-phedwar-ugain mlynedd. Oddiwrth yr amgylchiad hwn, a'r ystyriaethau eraill a nodwyd, y mae amrywiaeth ardderchog yn ymddangos, a chan bob planed ei gogoniant priodol ei hun. Hyd yn oed ein lleuad ni, yr hon sydd yn un o'r cyrph nefol lleiaf, ac agosaf atom, ac yn dilyn y ddaear drwy ei rhôdau o amgylch yr haul,—y mae hi yn dangos golygfa gywrain, gwahanol i ddim a welwn ar y ddaear. Y mae uwchder ei mynyddoedd, isder ei dyffrynoedd, hir-grynedd ei chreigiau, a chyfres y bryniau sydd yn amgylchu ei thiroedd, a'r olygfa a ddengys yn y ffurfafen, yn dra gwahanol i'n preswylfod daearol ni, er bod rhyw bethau ynddynt yn gyffelyb. Gan hyny, os ydyw Awdwr natur yn gweithredu

yn debyg yn y cysawdau eraill, i'r modd y gwna yma—yr hyn sydd yn naturiol i ni ei gredu, pan yr ystyriom ei anfeidrol ddoethineb a'i wybodaeth,—a gallwn fod yn sicr fod gan bob un o'r ddwy fil a phedwar can miliwn o fydoedd, sydd yn gynwysedig o fewn cylch golwg dyn, fawredd a gogoniant priodol iddo ei hun, trwy yr hwn y mae yn cael ei wahaniaethu oddiwrth daleithiau eraill yn ymerodraeth Jehofah. Yn yr ystyr hwn y gallwn ddeall iaith yr Apostol Paul, nid wrth adrodd am ymddangosiad yn unig, ond am ffait, " Mai arall yw gogoniant yr haul, ac arall yw gogoniant y lloer, ac arall yw gogoniant y ser, *canys y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant.*" Byddai tybied fod yr Hollalluog wedi treulio ei alluoedd ymaith, ac wedi dangos yr holl ogeniant a all ei briodoliaethau ei amlygu, mewn un cysawd, neu mewn mil o gysawdau, yn gosod terfyn ar ddoethineb a dealltwriaeth yr hwn sydd yn anfeidrol ac anamgyffredadwy. O blegid hyn, y canfyddwn yr ysgrifennwyr santaidd, wrth ffyfrio ar wrthrychau lluosog y greadigaeth, yn tori allan mewn iaith gorfoedd ac yn gwaeddi, " Mor lluosog yw dy weithredoedd! O Arglwydd, gwnaethost hwynt oll mewn doethineb."

Yn y lle nesaf,—Heblaw mawredd ac amrywiaeth bydoedd y greadigaeth, y mae y creaduriaid rhesymol a bywiol sydd yn eu poblogi, yn dangos maes éang o fyfyrddod hyfryd. Ar y testyn cyffredinol hwn, gellid cymeryd y nodiadau canlynol i ystyriaeth.

1. *Y graddau sydd mewn dealltwriaeth, neu yr amrywiol raddau o greaduriaid deallgar sydd yn poblogi trefniant cyffredinol natur.* Gellid profi fod amrywiaeth yn ngraddfesurfa bodolaeth, oddiwrth ystyriaethau cyffelyb i'r hyn a fynegais yn flaenorol. Yr ydym yn canfod fod graddoldeb rheolaidd yn mysg creaduriaid synhwyrgar yn y byd hwn; o'r gragen a'r holl greaduriaid sydd yn y dwfr, ac o'r abwydyn, nes dyfod at y ci a'r eppa, yr afangc a'r cawr fil, nes dyfod o'r diwedd at *ddyn*, yr hwn sydd yn sefyll yn uwchaf, ar ben graddfesurfa creadigaeth, fel arglwydd y byd isod hwn. Yr ydym yn canfod hefyd yn mhllith dynion, amrywiaeth neillduol ran eu galluoedd a'u cynneddfau; yn codi mewn rhan oddiar ffurfiad gwreiddiol y meddwl, ac mewn rhan oddiwrth drefniad ermitig y corph, ac mewn rhan oddiwrth y graddau diwylliad meddwl a gawsant. Ond byddai yn holol afresymol i ni

addef, fod y mwyaf ei athrylith a fu erioed yn mysg dynion, wedi cyrhaedd graddau uwchaf perffeithrwydd. Ar y llaw arall, y mae genym bob lle i gredu, fod dyn, er ei holl alluoedd, yn sefyll tu a'r dosparth isaf, yn ngraddau y creaduriaid rhesymol. O blegid, prin y gellid galw un a fyddai yn llawer is o ran ei ddirnadaeth, a'i farn, yn greadur rhesymol, neu yn gymhwys ar gyfer y sefyllfa uchel y bwriadwyd dyn iddi. Nid oes genym ni yr un *sicruwydd* penderfynol am nifer y graddau sydd yn mhlith y creaduriaid rhesymol, wedi ei gasglu oddiwrth fyfyrdod ar y greadigaeth weledig. Y mae galluoedd meddylgar creaduriaid meidrol, yn alluog i gynhyddu i raddau mor uchel o berffeithrwydd, ac sydd yn ddigonol i ddyrys ein holl ddirnadaeth a'n galluoedd desgrifiadol. Y mae y canlynol, yn ngeiriau athronydd enwog o Switzerland, yn ddigonol i gyflwyno rhyw ddrychfeddwli egwan, am alluoedd rhai o'r creaduriaid deallgar uwchaf :—

"Y mae bod un yn alluog i'w drosglwyddo ei hun o'r naill fan i'r llall, gyda chyflymder fel adenyydd y wawr; i'w amddiffyn ei hun drwy rym natur yn unig, ac heb gymhorth yr un creadur arall; bod yn hollol uwchlaw bod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfnewidiad; bod wedi ei gynysgaeddu â'r synhwyrau mwyaf treiddgar a chyflym; yn meddu gwybodaeth eglur am natur defnydd, a'i holl drefniadau; yn alluog i ddarganfod effeithiau yn eu hachosion; yn gallu ymdderchafu drwy yr ehediad cyflymaf at yr egwyddorion uwchaf; yn canfod yr egwyddorion hyny ar darawiad amrant; ar yr un pryd, yn meddu lluaws o ddrychfeddyliau, heb un math o ddyrys-wch; yn gweled yr hyn a aeth heibio mor eglur a'r pethau sydd, a threiddio i'r amser dyfodol pellaf; a bod yn alluog i arfer y doniau hyn heb flinder: dyma y llinell cyntaf oddiwrth ba rai y gallwn dynu darlun o briodoeddau y creaduriaid uwchaf o ran eu naturiaeth.*

Y mae bôd, a fyddo yn meddu y cyfryw ddoniau, wedi ei godi yn gymaint uwchlaw galluoedd terfynol dyn, ac ydyw dyn uwchlaw yr ymlusgiaid. Y mae yr Ysgrythyrau yn sicrhau i ni, fod bodau cyfagos o ran eu galluoedd a'u priodol-

* Y mae yr ysgrifenydd yn ychwanegu at y sylwadau uchod :—"Bod yn alluog i symud y bydoedd nefol, ac i newid trefniadau naturiaeth; bod yn feddianol ar allu a medrusrwydd i osod defnydd mewn gweithrediad, neu i ffurfio planhigyn, anifail, neu fyd."—Ond rhy brin y gallaf fi feddwl, fod y cyfryw berfeithderau yn briodol i nob ond y Goruchaf ei hun.

eddau, i'r hyn a grybwyllywyd yn awr, y rhai sydd yn cyflawni swyddau pwysig yn llywodraeth yr Hollalluog. Y mae cynneddfau yr angylion, fel y maent yn cael eu darlunio yn yr Ysgrythyr, yn mhell uwchlaw galluoedd dyn. Y maent yn cael eu gosod allan fel yn meddianu ar ddoniau cymhwys i'w galluogi i wneud eu hymdaith o'r naill fyd i'r llall, gyda chyflymder anarferol. O blegid, pan gafodd yr angel Gabriel orchymyn i echedeg yn fuan, tra yr oedd y prophwyd Daniel mewn gweddi, ac a ddynesodd ato cyn iddo orphen gwneud ei erfyniadau. Yn ystod yr ychydig funydau y bu ef yn derchafu ei weddi, disgynodd y cenadwr angylaidd hwn o'r nef i wlad Babilon. Yr oedd y cyflymder hwn uwchlaw ein dychymyg cryfaf ei ddirnad, ac yn brysurach na'r *goleuni*. Y mae ganddynt awdurdod hefyd dros wrthrychau difywyd natur, o blegid, treiglodd un o honyn "y maen oddiar ddrws y bedd" yn amser adgyfodiad Crist. Y maent yn dra adnabyddus o ffynonellau bywyd, a'r llwybrau drwy ba rai y gellir ei atal; o blegid, darfu i un angel, mewn un noswaith, ladd 185,000 o wersyll yr Assyriaid. Y maent yn berffaith adnabyddus o'r holl berthynasau sydd yn mhlith dynolryw, ac yn alluog i wahaniaethu rhwng oed a chymeriad pob dyn, trwy holl dylwythau y ddaear. Adwaenai un o honyn yr holl gyntafanedigion yn ngwlad yr Aipht, gan wahaniaethu yr Aiphtiaid oddiwrth blant Israel, ac arfer ei allu i'w distrywio. Ac felly y maent yn "ysprydion gwasanaethgar i'r rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth," a rhaid fod ganddynt wybodaeth eglur am bersonau a chymeriad y rhai sydd yn wrthrychau ffafir Duw, at y rhai y maent yn cael eu danfon yn achlysurol gyda chenadwri trugaredd.—Y maent wedi cael eu cynysgaeddu â galluoedd naturiol cryfion, canys dywedir eu bod yn "gedyrn o nerth," ac y mae yr ymadroddion, "angel *cryf*," ac "angel *cadarn*," a ddefnyddir am danŷnt weithiau, yn profi y gosodiad hwn. O herwydd hyn, y maent yn cael eu darlunio yn llyfr y Datguddiad, yn "dal pedwar gwynt y nefoedd," ac yn gweinyddu barnau Duw ar ddirmygwyr beilchion ei lywodraeth, ac yn treiglo y mynyddoedd i ganol y môr—yn rhwymo tywysog y tywyllwch â chadwyni, ac yn ei "dafli i'r pydew diwaelod."

Y maent wedi eu cynysgaeddu â ieuengctid anniflanadwy a thragwyddol, ac nid ydynt byth yn treulio eu bywiogrwydd ymaith. O blegid, yr oedd yr angylion a welodd Mair yn

medd ein Hiachawdwr, yn ymddangos fel *gwŷr ieuatingc*, er eu bod y pryd hwnw dros bedair mil o flynyddoedd o oedran. Nid oedd eu bywiogrwydd wedi lleihau dim, yn ysdod y dilyniad o oesau a aethai heibio, er dechreuad y greadigaeth. Y maent wedi eu cynsgaeddus galluoedd deallgar *cyrfion iawn*. Y maent yn cael eu darlunio yn llyfr y Datguddiad, yn "llawn llygaid," hyny yw, yn llawn synhwyr, yn llawn deall, ac yn llawn ymwybodolrwydd; yn troi eu sylw yn mhob ffordd, yn canfod yr holl bethau sydd o fewn cylch eu dealltwriaeth, ar unwaith, ac yn eu dirnad gyda'r golygiadau egluraf." Y mae y doniau eraill a grybwyllywd yn awr, o angenrheidrwydd, yn cynwys eu hamgyffrediad éang; a lle eu preswyliad, a'r swyddau a gyflawnant, ac yn rhoddi lle digonol iddynt i arferyd eu galluoedd. Y maent yn cyfaneddu mewn byd, lle y mae *gwirionedd* yn teyrnasu yn fuddygol, ac nad oes drwg moesol byth yn myned yno; lle y mae gwir wybodaeth yn adeiladu y meddwl, lle y mae dirgeledigaethau sydd o amgylch cymeriad y Duw tragicyddol, yn cael eu dadlenu yn barhaus, a chynlluniau ei ragluniaeth yn cael eu cyflym egluro. Y maent wedi ymwibio drwy ardaloedd dirif y nefoedd, ac ymweled â'r bydoedd pellenig am filoedd o flynyddoedd. Y maent wedi gweled amrywiaeth diddiwedd a lluaws dirifedi o weithredoedd mewn creadigaeth a rhagluniaeth; ac yn ddi-amheu, yn alluog i gydmaru y naill gysawd o fydoedd a'r llall, gyda mwy o gywirdeb nac yr ydym ni yn gallu olrhain pentrefydd, a dinasoedd, a thaleithiau. Fel hyn, y mae eu galluoedd a'u cynneddfau naturiol wedi eu hêangu, a'u bywiogrwydd ei gryfhau; ac o ganlyniad, drwy yr holl amser hwnw, y mae eu cyrhaeddiadau mewn gwybodaeth a doethineb, wedi cynhyddu uwchlaw dim a all galluoedd dyn eu dirnad. Y mae genym hefyd, hysbysiadau sicr, fod *graddau mewn natur a swydd*, yn mhlith y bodau nefol hyn, o herwydd fod yn eu mysg, "seraphiaid, cerubiaid, archangylion, thronau, arglwyddiaethau, tywysogaethau, ac awdurdodau," yr hyn sydd yn gosod allan yn eglur eu gwahanol ddoniau, a'u gwahanol sefyllfaoedd, a'r gwasanaeth at yr hwn y maent wedi eu cymhwys.

Oiddiwrth hyn ymddengys, er na wyddom ni ond ychydig am natur yr amrywiaeth graddau o ddealltwriaeth sydd yn eu plith, fod yr amlygiadau a wnaed yn y gyfrol santaidd, a thebygoliaeth cyffredinol natur, yn ein harwain i ffurfio y drychfeddyliau mwyaf derchafedig am yr amrywiaeth a'r

cynydd rhyfeddol, sydd yn myned yn mlaen drwy y byd deallgar.

2. Nid yn unig, y mae graddau o ran dealltwriaeth, yn mysg y creaduriaid uwchaf, ond hefyd, y mae yn dra thebygol fod graddau cyffelyb o amrywiaeth yn nhrefniad, ac ysgogiadau eu ffurfiad corphorol.

Y ffurfiad dynol, yn enwedig mewn ieuengetid, ydyw y prydferthaf a'r mwyaf cydweddol, o holl ffurfiau y bodau adnabyddus i ni; ac y mae yn bosibl eu bod yn yr ystyr hwn, yn dwyn rhyw fath o debygrwydd i'r eiddo y creaduriaid deallgar eraill. Ond dichon fod amrywiaeth diderfyn mewn bydoedd eraill, o ran ffurf gyffredinol y corph neu y wisg, â pha un y mae eu trigolion wedi eu cynysgaeddu, o ran maint, rhif, a natur yr ermit, a'r swyddau a gyflawnant—disgleirdeb a phryderthwch eu hagwedd, ac yn neillduol, yn nifer a pherffeithrwydd eu synhwyrau. Er fod dros gan mil o rywiogaethau o greaduriaid synhwyrol ar y ddaear, ac yn y dwfr a'r awyr, eto, y maent oll yn dangos gwahaniaeth yn eu ffurfiad corphorol. Y mae y pedwar-carnolion yn gwahaniaethu llawer oddiwrth y pysgod, a'r adar oddiwrth yr ymlusgiaid, a phob dosparth neillduol o anifeiliaid, pysgod, adar a gwybed, yn eu ffurfiad a'u swyddau. Y mae yn dra thebygol, fod amrywiaeth cyffelyb yn ffurfiad corphorol creaduriaid deallgar uwch na ni, wedi eu cyfaddasu ar gyfer y gwahanol ardaloedd a breswyliant, y swyddau a gyflawnant, a'r gwasanaeth y maent ynddo; ac yr ydym yn canfod hyn yn weithredol yn mhob dosparth cyn belled ag y mae ein gwybodaeth yn cyrhaedd. Pan anfonid rhai o'r llwythau angylairod ar genhadaeth i'n byd ni, yr ydym yn deall eu bod yn ymddangos mewn agwedd debyg i ddyn, eto, yn mhob amgylchiad yn gwahaniaethu oddiwrth ddynion. Yr oedd yr angel a welwyd wrth fedd ein Hiachawdwr, yn ymddangos mewn ffurf ddisglaer, "A'i wynebpryd oedd yn ddisglaer fel mellten, a'i wisg yn wen fel eira," yn llewyrchu gyda disgleirdeb rhyfeddol, tu hwnt i ddim a allai llygaid marwol ei oddef. Yr oedd yr angel a anfonwyd i waredu Pedr pan yr oedd wedi cael ei garcharu drwy ormes Herod, wedi ei wisgo mor ddisglaer, fel yr oedd goleuni yn llewyrchu drwy yr holl garchar, er tywylled ydoedd. Y mae gan y bodau hyn ermit llefaru, fel y gallant roddi seiniau eglur, ac ymuno mewn peroriaeth hyfryd, fel y deallwn oddiwrth y geiriau a lefarasant lawer

pryd, ac oddiwrth yr anthem a ganasant yn maesydd Bethlehem, pan y cyhoeddent enedigaeth ein Hiachawdwr. Ymddengys eu bod yn meddu ar fod i'w gwneud eu hunain yn *weledig* pan y mynont; o blegid yr oedd yr angel a ymddangosodd i Zacharias yn nghyntedd y deunl, yn anweledig i'r lluaws oddiallan, yn amser ei fynediad i mewn, a'i ddyfodiad allan o'r "lle santaidd."*

* Y mae yn debygol y bydd gan rai wrthwynebiad i'r hyn a ddywedwyd uchod mewn perthynas i angylion, "fod y creaduriaid dealgar hyn yn *ysprydion pur*, ac yn ymddangos mewn ffurf corporol ar rai achlysuron." Y mae y dybiaeth hon, o'r braidd, yn gyffredinol; ond nid yw yn ddim amgen na haeriad, heb yr un sail resymol nac ysgrifyrrol i'w gadarnhau. Nid wyf fi yn hysbys o'r un ran o'r Ysgrythyd sydd yn dywedyd y fath beth. Y mae Psalm civ. 4. wedi cael ei dyfynu yn fynych i'r dyben hwnnw, "Yr hwn sydd yn gwneuthur ei genhadon yn *ysprydion*, a'i weinidogion yn fflam dàn." Hyd yn oed pe cymerid yr adnod fel y mae hi yn ein cyfeithiad ni, a'i hystyried fel yn cyfeirio at yr angylion, ni phrofai eu bod yn sylweddau pur annefnyddiol; o blegid, tra y dynodir hwy fel *ysprydion*, yr hyn sydd mor briodol i'w gymhwysyo at ddyn, ac at angylion—dywedir hefyd, eu bod yn "dàn fflamlyd," yr hwn sydd yn sylwedd *defnyddiol*. Nid oes yr un cyfeiriad neillduol yn yr adnod hon, at y naill olygiad na'r llall; ond os ydyw yn gosod allan briodoliaethau angylion, y mae yn amlwg mai y meddwl ydyw,—eu bod wedi eu cynysgaeddu à *bywiogrwydd rhyfeddol*—eu bod yn ymsymud gyda chyflymder y gwynt, ac yn gweithredu gyda nerth "tân fflamlyd;" neu mewn geiriau eraill, ei fod Ef, yn ngwasanaeth yr hwn y maent, yn cyfarwyddo eu hysgogiadau, ac yn eu gosod mewn gwasanaeth, "gyda nerthoedd y gwynt, a chyflymder y mellt."

Yn mhob amgylchiad ag y cefnodi angylion eu hanfon ar genadwri at ddynion, y maent wedi dangos galluoedd synhwyrgar. Yr oeddynt yn amlyu ffurf neillduol, i raddau yn debyg i ddyn, ac mewn *lliw a disgleirdeb* oedd yn ganfyddadwy â erミg gwelediad. Yr oeddynt yn rhoddi *seiniau* oedd yñ taro ar y glust—ac yr oeddynt yn rhoddi mwynder *peroriaeth*, ac yn canu eu syniadau aruchel, mewn geiriau eglur, i'w clywed yn amlwg a'u hadnabod gan y personau, at y rhai yr oeddynt wedi cael eu danfon, Luc ii. 14.—ac yr oeddynt yn arfer eu hawdurdod ar synhwyd y *teimlad*; o blegid, darfu i'r angel a ymddangosodd i Pedr yn y carchar "ei daro yn ei ochr, a'i godi i fynu." Yn yr amgylchiadau hyn, yr oedd yr angylion yn amlyu eu hunain i ddynion trwy gyfrwng tri o'r prif synhwyrau à pha rai yr ydym yn adnabod gwrthrychau defnyddiol; a phaham, gan hyny, y tybia neb eu bod yn sylweddau pur annefnyddiol, heb yr un eysylltiad rhwngddynt â'r byd gweledig? Nid oes genym ni unrhyw wybodaeth am angylion, ond a gawsom trwy ddatguddiad; ac y mae yr holl ddarlniadau a rydd yr Ysgrythyd i ni am danynt, yn ein harwain i benderfynu eu bod yn dal perthynas à'r byd defnyddiol, yn gystal à byd y meddwl, ac wedi eu cynysgaeddu â erミg a gwisg wedi eu cyfansoddi o ryw ddefnyddiau pur sydd yn briodol i'w natur a'u gwasanaeth.

Pan yr ymddengys Crist yr ail waith, dywedir i ni ei fod i ddyfod, nid yn unig yn ngogoniant ei Dad, ond hefyd "yn ngogoniant ei holl angylion santaidd," y rhai a'i gwasanaethant, ac a ychwanegant at ddisgleirdeb ei ymddangosiad. Yn awr, rhaid i'r gogoniant a amlyga angylion fod yn *weledig*, ac o ganlyniad, fod yn ddefnyddiol; heb hyny, ni allai fod yn wrthrych myfyrdod trigolion cynulliedig ein byd ni—ni allai ddangos dim gogoniant i'w sylw. Ni byddai cynulliad o fodau ysprydol pur, pa mor luosog bynag y byddai, a pha mor aruchel bynag y byddent

Yn neillduol, y mae genym bob sail i benderfynu fod amrywiaeth rhyfeddol yn nifer a chywreindeb ermid eu synhwyrau. Yr ydym yn canfod llawer o amrywiaeth cyffelyb yn mhith y creaduriaid synhwyrgar sydd ar ein daear ni. Fe ymddengys fod rhai creaduriaid heb ddim ond *un* synhwyd, megis y gragen a'r *zoophytes*; y mae amryw heb ddim ond *dau* synhwyd; a rhai *tri*; ac nid oes gan ddyn, yr anifail perffeithiaf, ddim ond *pump*. Mae y synhwyrau hefyd yn gwahaniaethu mewn amrai greaduriaid o ran bywiogrwydd a nerth. Mae gan y cî gryfach arogliaid, a'r carw gryfach clyw, a'r eryr gryfach golwg, na dyn. Mae yr amrywiaeth hwn hefyd yn moddion a ffurfiad yr ermid synhwyrgar. Mae clust dyn yn seth a ber, ac o'r braidd yn ddiysgogiad; ond y mae clust y march a'r asyn yn hir ac ystwyth. Mae clyw y wadd drwy dwll yn y penglog. Mae gan ddyn *ddau* lygaid; y mae gan y scorpion a'r pryf copyn *wyth*, ac y mae gan y gwybedyn dros *bum mil*.

Y mae yn dra thebygol fod gan greaduriaid uwch, mewn bydoedd eraill, ychwaneg o nifer o synhwyrau nag sydd genym ni; ac y mae hyn i'w weled, os ystyriwn debygoliaeth cyffredin natur, a'r graddau sydd yn mysg creaduriaid synhwyrgar yn ein byd ni. Nid yw ein bod ni yn analluog i ffurfio unrhyw feddwl eglur am y fath synhwyrau, yn un prawf nad ydynt yn bod. Pe buasem ni yn amddifad o synhwyrau y *golwg* a'r *clyw*, ac wedi ein gadael i dynu ein holl wybodaeth, yn unig trwy y teimlad, a'r archwaeth, a'r arogl, ni buasai genym ddim mwy o ddirnadaeth am seiniad iaith, am bereidd-dra cerddoriaeth, prydferthwch y ddaear, a gogoniant y nef, na chragen, neu lysiewyn, neu gareg. Byddai cyfyngu synhwyrau

mewn dealltwriaeth, ond gwagedd, mewn golygfa a fwriadwyd i arddangos mawredd a gogoniant y Duwdod yn *weledig*. Mae gwisgoedd neu gyrph angylion, yn ddiâu, yn llawer purach na chyrph dynion; ond pe byddai iddynt fod yn anweladwy gydag ermid fel yr eiddom ni, ni phrofai hyny eu bod hwy yn amddifad o'r cyfryw ffurfaid corphorol. Mae yr awyr yr anadlwn ynddo yn sylwedd *defnyddiol*, eto yn *anweledig*; ac y mae sylweddau eraill sydd yn ddeengwaith teneuach na'n hawyrgylch ni. Mae ager *hydrogen* yn ddeuddeg gwaith ysgafnach na'r awyr cyffredin. Gan hyny, pe byddai i gorff gael ei ffurfio o ddefnydd tebyg i awyr neu *hydrogen*, byddai yn anweledig yn gyffredinol; ond mewn rhai amgylchiadau adelewyrchau pelydr y goleuni, a deuaï yn weledig, fel y gwna rhai o'r elfenau ysgafnaf weithiau. Mae hyn yn cael ei egluro, os edrychwn ar yr *animalculæ*, y rhai y mae eu cyrph yn anweledig i lygad noeth, ac eto ydynt yn ffurfaid rheoliad o sylweddau defnyddiol, wedi eu cynsgaedu â galluoedd priodol at fywyd, ysgogiad, a mwynhad.

creaduriaid dealgar i'r pump sydd genym ni, yn gosod terfynau ar anfeidrol ddoethineb a chelfyddgarwch y Creawdwr, yr hwn sydd wedi amlygu amrywiaeth diderfyn yn ei holl weithred-oedd, er cwblhau ei ddybenion ei hun. Tra y mae ein golygiadau ni, ar y cylch daearol yr ymsymudwn, wedi eu cyfyngu at bethau *allanol*, ar blanhigion ac anifeiliaid; dichon fod creaduriaid mewn cylchoedd eraill yn alluog i dremio i'w hysgogiadau *mewnol*, (er eu bod yn anweledig i ni) ac i olrhain y ffurffad anifeilaidd drwyddo, o'r anelwig ddefnydd, trwy holl raddau y cynydd yr â drwyddynt, nes cyrhaedd i'w lawn faintiolaeth—ac i ganfod ar un olwg, megys trwy gyfrwng tryloew, holl ranau mewnol yr anifail, ysgogiadau manwl ei beirianwaith cywrain, ymgangheniad rhyfeddol y llestri, a'r modd y mae eu hamrywiol swyddau yn cael eu cyflawni—i adnabod trefniant y cyfansoddiad sydd yn achosi symudiadau yr *animalculum*, a'u llestri cywrain—a chylchrediad y nôdd sydd yn nghorff planhigyn—ac olrhain y gweithrediadau dirgelaidd sydd yn myned yn mlaen yn y byd mŵnyddol; yn nghyd a gweithrediad eu perthynasau fferyllaidd, sydd yn y mân-ronynau defnydd, ac yn achos o'r fath ryfeddodau naturiaethol. Ac yn benaf, y mae yn rhaid fod y synhwyrau sydd gan trigolion bydoedd eraill, yn debyg i'r eiddom ni, ond eu bod hwy mewn graddau uwch o berffeithrwydd. Tra na all ein hermig gwelediad ni ganfod gwrthrychau yn eglur, ond yn unig o fewn terfynau ychydig o latheni neu filtiroedd o'n hamgylch, dichon fod eu hermig hwy wedi eu trefnu yn y fath fodd, ac i'w galluogi i ganfod gwrthrychau gyda'r un eglur-deb, mewn pellder o gan milltir—neu hyd yn oed at olygfeydd y bydoedd pell. Pe buasai ein golwg ni mor fyred a'r eiddo abwydyn neu wyfyn, ni buasai genym yr un dychymyg am gylch presenol ein hardremiad; ac nid yw yn annhebygol, fod creaduriaid, ac y mae eu golwg yn rhagori ar yr eiddom ni, fel y mae ein golwg ni yn rhagori ar eiddo y gwybedyn lleiaf; a'u bod yn abl i ganfod yr amrywiol dir-darlungau sydd yn y bydoedd eraill, a gweithrediadau eu trigolion, mor amlwg ac yr ydym ni yn canfod gwrthrychau ar yr ochr arall i'r afon, neu dros aber fechan o'r môr.

Gwedi i Stephan draddodi ei amddiffyniad ger bron y Sandhelim, dywadir i ni, iddo “edrych i fynu i'r nef, a gweled gogonian Duw, a'r Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Duw; a dywedyd, Wele; mi a welais y nefoedd yn agored, a Mab y dyn,

yn sefyll ar ddeheulaw Duw." Y mae rhai yn barnu fod llygaid Stephan, wedi eu cymhwys o'u nerthu, ar yr amgylchiad hwn, i dreiddio i'r man neillduol o'r nef, lle y pres-wyliai corph gogoneddus Crist yn fwyaf arbenig. Ond pa un bynag ai bod y golygiad hwn yn gywir ai peidio, y mae yn sicr, fod engyl wedi eu cynysgaeddu â synhwyrau neu alluoedd sydd yn eu nerthu i gymeryd golygiad manwl ar gysawd yr haul, a'r rhan fwyaf o'n daear ni, hyd yn oed pan y byddont mewn pellder dirfawr oddiwrthi; heb hyny, ni allent ddeall sefyllfa neillduol y ddaear, yn ei thröadau blynnyddol o amgylch yr haul, wrth ddisgyn ati o'r ardaloedd pellenig, neu gyfeirio eu llwybr at y wlad, y ddinas, neu y pentref penodol, i'r lle y byddont yn cael eu hanfon ar genadwri neillduol.

Y mae yr hyn a ddywedwyd yn awr, mewn perthynas i erwig y golwg, yr un mor gymhwysiadol at offeryn y *clywed*, ac at amryw o'r synhwyrau eraill; a chan y tueddai y fath alluoedd a synhwyrau ac a dybiais yn awr, i amlygu gweithrediadau rhyfeddol yr Hollalluog yn helaethach, a chyffroi mawrhad yn ôm o'i ddoethineb a'i haelfrydedd, y mae yn rhesymol i ni gredu, ei fod wedi eu cyfranu i amryw raddau o greaduriaid, i'r dyben hwn—ac y bydd i ddyn gael ei gynysgaeddu â synhwyrau cyffelyb, pan y cyrhaeddo berffeithrwydd moesol, mewn sefyllfa uwch o fodolaeth.

Heblaw y pynciau y cyfeirias atynt yn awr, sef graddau mewn dealltwriaeth, ac amrywiaeth mewn ffurfiad corphorol —agorir maes helaethach o fyfyrnod eto, yn HANESIAETH yr amrywiol fydoedd gwasgaredig trwy y bydysawd, sy'n cynwys pob peth sydd ardderchog a hyfryd, neu y dygwyddiadau hynod sydd wedi cymeryd lle yn yr amrywiol ororau, lle y cyfanedda creaduriaid rhesymol.

Y rhai canlynol ydynt yr amrywiol bynciau, sydd yn naturiol i ni dybied, a roddant hyfrydwch i feddwl creaduriaid santaidd, sef, y *gwahanol amserau* y daeth yr amrywiol fycedd hyn i fodolaeth—y *cyfnewidiadau a'r paratôadau* yr aethant drwyddynt cyneu poblogi—*nodweddau neillduol* pob graddau o greaduriaid rhesymol—*trefn eu bodolaeth*, eu gwellhad, a'u cymdeithasgarwch—y *drefn arbenig o addoliad* sydd yn eu mysg—y *deddfau cymdeithasol a moesol priodol* i bob

talaeth yn yr ymerodraeth Ddwylfol*—*eu cymydd mewn gwybodaeth*, a'r dafganfyddiadau a ddygasant i oleuni, mewn perthynas i weithredoedd a ffyrdd Duw—*yr amlygiadau neillduol a wnaeth y Bôd Dwyfol o hono ei hun iddynt*, “lawer gwaith a llawer modd”—y *dygwgddiadau gwladol a moesol mwyaf hynod a gymerodd le er amser eu creadigaeth—yr arwyddion gweledig o'r Presenoldeb Dwyfol a amlygwyd ger eu bron—yr hysbysiaeth a gawsant am oruchwyliaethau a llywodraeth foesol bydoedd eraill—yr amrywiol raddau o wellhad y trefnwyd iddynt fyned drwyddyt—y gwahanol ardaloedd o'r bydysawd, y dichon y bydd iddynt gael eu symud, a'r dynged orphenol, i'r hon y maent wedi eu bwriadu.*

Ac yn benaf oll, bydd y ffeithiau cysylltiedig a'u *hanesiaeth foesol*, cyn belled ac y gallant gael eu dadblygu, yn ffurfio testynau pwysig o ddarllithoedd a myfyrdod iddynt. Os ystyr-iwn natur haelfrydig y Duwdod, a'r tystiolaethau sydd genym am hyny trwy holl naturiaeth, gallwn weled, fod yn dra thebygol—fod trigolion y rhan fwyaf o'r trefniant cyffredinol, wedi ymgadw yn y purdeb moesol, yn yr hwn y crewyd hwynt, ac o ganlyniad, eu bod mewn sefyllfa o berffaith ddedwyddwch. Ond yn gymaint a'n bod ni yn gwybod, er ein gofid, fod un byd wedi cilio oddiar lwybr o ufudd-dod i'r Creawdwr, ac wedi ymsutto yn nyfnder drygioni naturiol a moesol; nid yw, mewn un modd, yn annhebygol, fod trigolion amryw fydoedd eraill, wedi eu goddef i syrthio i'r un trueni; a hyny i'r dyben hwn, gyda phethau eraill, fel y byddai i bwysfawrogrwydd

* Y mae deddfau cyffredinol penodol sydd yn gynhwys i bob graddau o greaduriaid rhesymol trwy y bydysawd. Y mae y ddwy egwyddor sydd yn ffurio sylfaen ein *cyfraith foesol* yn gynhwysedig yn hyn:—“Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'r holl galon, ac â'r holl ddeall, a'th gymdog fel ti dy hun.” Ni allwn ni dybied fod y Duw santaidd ac uniawn, byth yn *newid* y deddfau hyn, mewn perthynas i unrhyw ddosparth o fodau rhesymol, nac yn eu rhuddhau oddiwrth rwymau i ufudd-hau iddynt; gan hyny, gellid eu hystyried fel y ddwy egwyddor foesol fawr sydd i reoli serchiadau ac ymddygiadau pob creadur santaidd trwy holl ymerodraeth anfeidrol y Duwdod, ac yn eu huno â'u gilydd, ac â'u Creawdwr hwy oll. Ond dichon fod amrywiaeth o ddeddfau canghenol neillduol, mewn cysylltiad â'r ddwy brif egwyddor, wedi eu cyfaddasu at drefn, amgylchiad, a pherthynasau, priodol i'r holl fydoedd pellenig. Fel y mae genym ni rai deddfau neillduol yn ein *cyfraith foesol*, megis y pumed a'r *seithfed Gorchymyn*, y rhai, yn ol pob tebygolrwydd, nad ydynt yn perthyn i drigolion bydoedd eraill; felly, dichon fod amrai reolau neu ddeddfau neillduol nad ydynt yn gylcheddol i ni yn ein sefyllfa bresenol. Gall y darllenyyd weled eglurhad ar y ddwy egwyddor a grybwyllyd, a'u cymhwysiad at drigolion yr holl fydoedd, mewn gwaith a gyhoeddais yn ddiweddar, a elwir, “*Anianyddiaeth Crefydd*,” neu Eglurhad ar Ddeddfau Moesol y Bydysawd.

trefn foesol gael ei amlygu, ac fel y byddai i ganlyniadau ofnadwy troseddiad deddfau tragicyddol y Nef, gael eu har-dangos yn eglur; ac y byddai i le gael ei agoryd er arddangos uniondeb a thrugaredd Duw, fel Llywodraethwr Moesol y bydysawd. Mewn cyfeiriad at y fath amgylchiadau, (os ydynt yn bod,) y testynau ymofyniad yn naturiol a fyddent,—Pa beth ydyw tynged orphenol y creaduriaid hyn sydd yn ardaloeedd eraill creadigaeth, wedi gwrthryfela fel y gwnaeth dyn? A ydyw y Creawdwr wedi darparu ar gyfer eu gwar-edigaeth, mewn trefn gyffelyb i'r hyn a wnaeth yn mhryned-igaeth dyn? Os ydyw, yn mha bethau y mae y cynlluniau o drugaredd yn gwahaniaethu, ac yn mha bethau y maent yn gytunol a threfn iachawdwriaeth trwy Iesu Grist? Pa olyg-feydd o ddrwg moesol a amlygyd, a pha fodd y goruwch-lywiwyd ac y gwrthweithiwyd pechod yn y bydoedd hyn, trwy oruchwyliaethau rhagluniaethol yr Hollalluog.—Ymgyn-hullia miloedd o holiadau ar y meddwl, oddiwrth y pynciau hyn, a chyfröid lluaws o wahanol deimladau, ac agorid y maes hynotaf o ymchwiliad i'r gwaredigion mewn byd tebyg i'r eiddom ni. Ac y mae yn hawdd canfod, gyda pha fath ystyriaethau a theimladau, a chyd a'r fath lawenydd, y cydnabyddai trigolion adferedig y bydoedd hyn eu gilydd, pe y cyfarfyddent yn nghyd, ac y caniateid iddynt ymuno yn eu derchafiad o foliant i Greawdwr a Gwaredwyr y bydoedd.

Hyd yn oed yn y bydoedd hyn, ac y cadwodd y trigolion eu diniweidrwydd dechreul, gallai fod amrywiaeth diderfyn yn y goruchwyliaethau Dwyfol, mewn pethau moesol a deallawl.—Fel y mae creaduriaid meidrol, wrth gyfansoddiad eu natur yn fodau *cynhyddol*, ac felly, na allant gyrhaedd holl drysorau gwybodaeth a doethineb, a chynwys yr holl amlygiadau a wnaed o briodoliaethau Duw, tra y byddont yn eu sefyllfa gyntaf o fodolaeth—gall fod amrywiaeth modd, yn cyfateb i'w hamgylchiadau neillduol, a graddau gwellhad, drwy yr hyn y gallai y Creawdwr ddadlenu gogoniant ei natur yn raddol iddynt, a'u galluogi i gymeryd golygiad éangach ar fawredd a threfn ei frenhiniaeth. Gall fod rhai o honiwt newydd ymgodi, o egwyddorion cyntaf gwyddoriaeth, fel yr oedd Adda, yn fuan ar ol ei greu, ac heb gyrhaedd ond graddau bychan uwchlaw y cylch o wybodaeth sydd o fewn cyrhaedd golygiad dyn—gall fod eraill wedi cyrhaedd graddau uwch, lle y gallant gymeryd arolygiad éangach ar drefn,

rheol, a pherthynasau bodau defnyddiol a rhesymol,—tra y byddai eraill, ar ol oesoedd o fyfyrnod ar ranau helaeth o'r greadigaeth, mewn un dosparth o ymerodraeth Duw, yn cael eu derchafu i dalaeth newydd a phellenig o'r bydysawd, i fyfyrion ar briodoliaethau y Duwdod, mewn modd gwahanol; ac i olrhain a mawrhau golygfeydd newyddion o ryfeddodau. Os ydyw pob dyn o'i enedigaeth hyd ei farwolaeth, yn myned drwy ddilyniant o amgylchiadau rhagluniaethol, priodol iddo ei hun; y mae yn ymddangos yn dra thebyg, wrth ymresymu oddiar debygoliaeth natur, fel y crybwyllwyd yn barod, ac oddiwrth yr amrywiaeth a welir yn mhob rhan o'r byd naturiol a moesol, fod yn y goruchwyliaethau Dwyfol tuag at bob dosparth o greaduriaid, ryw hynodrwydd neillduol, ac nad ydynt yn gwbl yr un fath a'u gilydd.

Gellid dadlu oddiwrth yr ystyriaethau canlynol, y bydd rhyw gyfran, o leiaf, o hanesion naturiol a moesol, y bydoedd eraill, yn cael ei agoryd fel maes ymchwiliad ger bron y gwar-edigion yn y byd a ddaw,—sef, o herwydd y bydd y fath olygfeydd yn *tueddu i ddadlenu cymeriad moesol y Duwdod*, ac arddangos ei ddoethineb a'i uniondeb, yn nhrefn ei oruchwyliaethau fel Llywodraethwr y bydysawd, yn helaethach i'w greaduriaid deallgar. Y mae genym bob rheswm dros gredu, fod y greadigaeth ddefnyddiol yn cael ei chynal, yn unig er mwyn gwasanaethu creaduriaid synhwyrgar a deallus; a'i bod wedi ei threfnu yn ddosparthau gwahanol, a'i phoblogi âg amrywiol raddau o greaduriaid deallgar, yn benaf er mwyn rhoddi arddangosiad o briodoliaethau moesol Duw, ac egluro yr angenrheiderwydd anhebgorol a'r rhwymedigaeth dragwyddol sydd am i'r deddfau hyn gael eu gosod mewn ymarferiad, er sicrhau dedwyddwch yr holl greaduriaid deallus. Ac os felly y mae pethau, gallwn gasglu yn naturiol, y bydd i gyfran neillduol o'r goruchwyliaethau Dwyfol tuag at greaduriaid rhesymol eraill, yn y diwedd, gael eu hamlygu i ni.—Gellid profi y gosodiad hwn hefyd, oddiwrth y ffaith, o fod creaduriaid deallgar eraill, wedi cael eu gwneud yn hysbys o drefniadau ein byd ni, ac am amcan goruchwyliaethau Duw tuag at ddynion. Y mae yr angylion wedi bod yn cael eu hanfon lawer gwaith ar genadwri i'n byd ni. Ar y cyfryw amgylchiadau, yr oedd ynt yn wastadol, yn dangos eu bod yn adnabyddus o hanes yr helyntion mwyaf pwysig a gymerodd le yn ein plith, a dywedir i ni, mai “ar yr hyn bethau y maent yn

chwenychu edrych," ac y dysgir iddynt oddiwrth y goruchwyliaethau Dwyfol, am "fawr amryw ddoethineb Duw."* Y mae rhai sylwadau ar hanes y creaduriaid hyn, a'u gwasanaeth, a'u tynged, wedi cael eu cyflwyno i ni. Yr ydym yn gwybod eu bod yn llanw lle pwysig yn llywodraeth Rhagluniaeth; a'u bod yn feddianol ar allu a doethineb mawr, bywiogrwydd rhyfeddol, a galluoedd treiddgar; a'u bod yn bur a santaidd o ran eu natur; eu bod yn cael eu defnyddio ar achosion neillduol, fel cenhadau oddiwrth Dduw at ddyn, i weinyddu ei farnau ar y drygionus, ac i wasanaethu i etifeddion iachawdwriaeth; a bod nifer penodol o honynt wedi cwympo o'r sefyllfa uchel yn yr hon y cawsant eu gosod ar y dechreu, a darfod iddynt ymsuddo i gyflwr o bechod a thrueni. Gan hyny, y mae genym achos i gredu, mai rhan o gynllun llywodraeth Duw ydyw, arddangos hanes y naill ddosparth o greaduriaid rhesymol i'r llall, yn y fath fodd, ac ar y cyfryw amser, ac a ymddangoso yn briodol i Anfeidrol Ddoethineb, ac a fyddo yn gweddnu oreu i sefyllfa a chymriad, a gwellhad graddol, ei blant rhesymol ei hun.

Mewn cysondeb â'r hyn a fynegwyd eisoes, yr ydym yn canfod fod y saint yn y nef, yn cael eu darlunio yn derchafu eu caniadau o fawl i Dduw, mewn canlyniad i'r olwg a gawsant ar ei oruchwyliaethau moesol, a'r parch yr oedd hyny yn ei gyffroi ynddynt. "A chanu y maent gân Moses, a chân yr Oen, gan ddywedyd, *cyflawn a chywir yw dy ffyrdd, ti Frenhin y Saint.*" Ac yn ol y graddau y byddo goruchwyliaethau Rhagluniaeth tuag at fydoedd eraill yn cael eu dadlenu, yn ol y graddau hyny y bydd eu golygiadau hwy am "lywodraeth dragwyddol" Jehofah yn cael eu hêangu, ac y bydd bywiogrwydd newydd yn chwyddo eu caniadau o fawl. Y mae gwybodaeth y saint yn y nef yn cael ei osod allan yn gywir a helaeth. O blegid hyn y dyweditr eu bod yn y sefyllfa honno o berfsteithrwydd, "yn adnabod, fel eu hadwaenir." Y mae yr ymadrodd hwn yn ddiau, yn arddangos graddau uchel o wybodaeth mewn perthynas i weithredoedd a ffyrdd Duw; ac o herwydd hyny, y mae yr esbonwyr, gan mwyaf, yn ei egluro, fel yn gynwysedig o wybodaeth mor éang, fel y mae yn dwyn rhyw debygrwydd i'r eiddo y Bôd Dwyfol ei hun, yr hwn sydd yn tremio i ganol pob gwrthrych, ac yn gweled drwy yr

* Gwel Ephes. iii. 10.; 1 Pedr i. 12.

enaid, a phob peth ar unwaith; neu o leiaf, "y bydd eu gwybodaeth am wrthrychau nefol mor sicr, uniongyrchol, a theuluaid ag ydyw unrhyw adnabyddiaeth sydd rhwng cyfillion yn awr."* Ac os addefir yr esboniadau hyn, rhaid fod y wybodaeth hon yn cynwys golygiad manwl ac éang am oruchwyliaethau y Creawdwr tuag at fydoedd eraill, a graddau eraill o ddeiliaid moesol a deallgar.

Mewn perthynas i'r *modd* trwy yr hwn y bydd gwybodaeth am ffurfiad trigolion, a hanesiaeth bydoedd eraill, yn cael eu cyflwyno, nid yw ein gwybodaeth derfynol ni yn alluog o gyrhaedd *sicrwydd*, er adeiladu barn benderfynol arno. Pa fodd bynag, gallwn gasglu yn naturiol y bydd cyfeillach a gohebiaeth yn cael eu hagor yn achlysurol, trwy gyfrwng bodau nefol, wedi eu cynsgaedu â galluoedd ysgogiad cyflym, y rhai a allant gludo manylion yr hysbysiaeth a gânt yn y bydoedd yr arferant ymweled â hwy. Y mae y fath ohebiaeth wedi cymeryd lle mewn rhan yn ein byd ni, trwy gyfrwng y bodau a elwir yn yr Ysgrythyr, "yn angylion," neu "genhadau Duw;" ac y mae yn dra thebygol, pe buasai dyn wedi parhau yn ei sefyllfa wreiddiol o uniondeb, y buasai y fath genhadaethau angylaidd yn llawer mynuchach nac y maent wedi bod, a gallasem fod yn adnabyddus, drwy y ffordd hon, o fras linellau golygfeydd naturiol a moesol bydoedd eraill, ac yn neillduol y rhai a berthynant i'n trefniant ein hunain—am yr hyn y mae yn rhaid i ni yn awr foddloni i fod heb wybod ond o ran, a defnyddio hyny o gymhorth a gawn oddiwrth reswm, a gwyddoriaeth, a sylw, i'r dyben o olrhain rhai o'r llinellau egluraf am eu trefniad naturiaethol. Dyma un o ganlyniadau annedwydd cwmp dyn—na all cre-aduriaid deallgar, wedi eu cynsgaedu â pherffeithrwydd moesol, gynal cyfeillach deuluaid â hil Adda, ond cyn belled ag y byddont yn cael eu defnyddio gan y Creawdwr, i gyflwyno cenadwri achlysurol gyda golwg ar eu hadferiad.† Gallem hefyd dybied, gyda chryn debygolrwydd, fod pob graddau o greaduriaid santaidd, wedi aros am gynnifer o oesau,

* Gwel Doddridge a Guise ar 1 Cor. xiii. 12.

† Y mae yn debygol nad yw y creaduriaid nefol, a fu yn achlysurol yn cynal cymdeithas â dynolryw, oll o'r un graddau, nac yn preswylio yr un ardaloedd; gan eu bod yn cael eu gwahaniaethu yn yr Ysgrythyr wrth wahanol enwau, megis Seraphiaid, Cerubiaid, Thronau, Arglwyddiaethau, Angylion, Archangylion, &c.

mewn rhyw barth neillduol o'r bydysawd, i gael eu cyfleu o un dalaeth o'r greadigaeth, i dalaeth arall, i olrhain golygfeydd newydd o ddoethineb a gallu a amlygir yno,—ac felly yn mlaen, mewn dilyniad parhaus o symudiadau, trwy oesau tragwyddoldeb. Yr ydym yn gwybod fod dyn wedi ei drefnu i gyfnewid ei le felly; ac er fod pechod wedi gwneud y mynledfa o'r naill fydd i'r llall mor alarus a thywyll, er hyny, gall fod yn addysg i ni (er mai mewn ffordd wahanol) am y symudiadau hyny, a gymer le, mewn perthynas i fodau eraill, o'r naill dalaeth o'r greadigaeth i'r llall. Ac nid oes genym yr un rheswm i gredu, mai y lle ein gosodir ni ynddo yn uniongyrchol wedi yr adgyfodiad cyffredinol, a fydd ein preswylfod parhaus a thragwyddol; onid ê, caem ein cadwyno i wared yn dragwyddol, fel yr ydym yn bresenol, mewn un gongl fechan o'r greadigaeth.

Mewn perthynas i drigolion gwaredigol ein byd ni, y mae genym bob rheswm dros gredu y bydd y *Gwaredwyr* ei hun, "yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn trigo," yn un cyfrwng ardderchog, trwy yr hwn y bydd gwybodaeth yn cael ei gyflwyno am ogoniant ymerodraeth bell-enig Jehovah. Ymddengys yn amlwg fod hyn yn cael ei fynegi mewn iaith ffugyrol yn yr ymadrodd canlynol yn llyfr y Datguddiad, "Yr Oen, yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfaingc, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain at ffynhonau bywiol o ddwfr." Gwybodaeth ydyw ymborth y meddwl, ac yn yr ystyr hwn y mae yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yn fynych yn yr Ysgrythyrau:—"Rhoddaf iddynt fugeiliaid (medd Duw) wrth fodd fy nghalon, y rhai a'u *porthant â gwybodaeth* ac â *deall*." "I fugeilio eglwys Dduw," medd yr apostol Pedr, hyny ydyw, ei hyfforddi yn y wybodaeth o wirioneddau crefydd. Gan hyny, wrth gyflwyno gwybodaeth am gynlluniau a gweithrediadau Duw i'w saint, a'u hyfforddi mewn perthynas i'w weithredoedd yn y greadigaeth o amgylch, "yr Oen, yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfaingc, a'u *portha hwynt*," drwy eu galluoedd rhesymol, a diwallu eu dymuniadau am wybodaeth; a bydd y dilyniad o fyfyrdodau aruchel a godant yn y meddwl (ac sydd yn briodol i'w cydmaru i "ffynhonau o ddwfr bywiol" i'r teithiwr sychedig) yn llanw holl alluoedd eu heneidiau â "llawenydd annhraethadwy a gogoneddus."

Efallai nad yw dros derfynau tebygoliaeth i ni gasglu, y

bydd y saint, ar amserau neillduol, yn cael eu casglu yn dorf luosog yn nghyd, ac y bydd Iesu, eu Pen dyrchafedig, yn llywyddu yn eu plith,—y bydd y Person gogoneddus hwnw yn cyfranu gwybodaeth o'r natur uwchaf iddynt, ac yn cyfeirio eu meddwl at ryw amlygiadau disglaer o'r Duwdod, ac yn traddodi iddynt y darlithoedd hynotaf ar weithredoedd a ffyrdd Duw. Byddai hyn yn berffaith unol a'i swydd fel "Cyfngwr rhwng Duw a dynion," ac a'i gymeriad fel "Cennad Duw," ac fel "Datguddiwr" y goruchwykiaethau Dwyfol.

Wrth gyfeirio at ryw fydd pellenig, (yr hwn a all ymddangos, hyd yn oed i olygon craff y nefolion, megis brycheuyn yn mhellder yr awyr) gallem ddychymygu ei glywed yn llefaru wrthynt fel hyn:—"Y mae y byd aew yn ymddangos yn dra gwahanol i'r olwg a fu ar eich byd chwi unwaith, yn benaf, o herwydd purdeb a pherffeithrwydd moesol ei drigolion. *Acw*, y mae y gwrthrychau prydferthaf yn addurno ei gromnen nefol, ac y mae golygiad y cymydogaethau o amgylch wedi eu britho â phob peth sydd yn deg i'r golwg, a dymunol i'r meddwl. Nid oes dim poethder dyddfadwy, nac oerni treiddiol, na rhyferthwy ystormus, i afonyddu tawelwch dedwydd y palasau. Y mae yr awyr bur a anadlir yn rhoddi dymunoldeb parhaus, ac yn bywiogi y deall at ymchwiliad. Y mae trefniad yr awyrgylch sydd yn eu cylchynu yn peri yr effeithiau rhagoraf—weithiau yn dangos tir-ddarlungau hardd, a golygfeydd yn dangos cydweithrediad a pherffeithrwydd moesol—weithiau yn dangos y lliwiau mwyaf amrywiaethol—ac weithiau yn adlewyrchu delw y bydoedd nefol, yn amrywiol raddau eu maintoli a'u hagwedd. Y mae eu byd llysieuol yn llawn o ragoriaethau anadnabyddus i'ch byd blaenorol chwi, wedi eu hamrywio i filoedd o ffurffiau, cysgodion, lliwiau, a pher-aro gl, sydd yn dedwyddu y trigolion o amgylch. Y mae y creaduriaid synhwyrgar is hefyd, yn dra gwahanol, ac yn dangos y fath duediadau tyner a serchus, ac sydd yn bleser i'r creaduriaid rhesymol sydd yn y lle. Y mae ermig eu gwelediad mor graff, fel y maent yn alluog i ganfod, megis trwy wrthrych tryloew, yr holl weithrediadau fferyllaidd sydd yn myned yn mlaen yn barhaus, ar y llwythau hydyfol dirifedi, ac yn ffurfiad cywreiniach y cyrph anifeilaidd; o blegid, y mae y Creawdwr wedi ordeinio, bod iddynt allu trafod ei weithrediadau, a'r dybenion a fwriedir eu cyflawni yn holl barthau naturiaeth, fel rhan o hyfrydwch eu myfyrdodau.

“ Y maent hefyd yn dra hysbys o wyddoriaeth foesol—a pherthynas foesol creaduriaid rhesymol a'u Creawdwr, ac â'u gilydd, ac â llinellau allanol bydoedd eraill; am gwmp dyn, a'i ganlyniadau echrys, a'ch prynedigaeth a'ch adferiad chwi, wedi hyny, i'r dyben o éangu eu meddwl am oruchwyliaethau moesol Duw, ac arddangos uniondeb a haelfrydedd ei lywodraeth. Nid oes yr un llais o anghydfod i'w glywed yn eu cymdeithasau, nac un arwydd o anfoddlonrwydd yn ymddangos, na nwydau cythryblus byth yn afonyddu eu heddwch; ond y mae y cyfan mewn trefn, a thangnefedd a chariad. Y mae eu cynydd mewn gwybodaeth am Dduw, yn gyflym a chywir, o blegid, y maent yn canfod egwyddorion cyntaf pob ymresymiad a gwyddoriaeth, ac heb gam gymeryd, neu dynu cam gasgliad byth; y maent yn eu dilyn gyda chyflymder a sicrwydd, hyd at eu holl ganlyniadau naturiol. Y mae eu cydnabyddiaeth â ffeithiau naturiol a moesol yn helaeth a manwl. O blegid, y mae ganddynt y parch mwyaf i wirionedd, yr hwn na throseddwyd erioed yn eu cymdeithas ddedwydd; ac o herwydd hyny, y mae pob darganfyddiad, a phob athrawiaeth a ffaith newydd a ddygir i oleuni gan ryw un o honynyt, yn cael ei ystyried gan y llall, fel gwirionedd sefydlog, heb achos byth i'w amheu, ac yn eu cynorthwyo yn eu holl ymchwiliadau. Y maent yn gwbl wahanol i'r teithwyr celwyddog a'r athronwyr amheugar, oedd yn eich byd chwi gynt, gyda'u twyll dirfawr, yn dyrsu yr ymofynydd pryderus, ac yn tywyllu pob goleuni,—y mae gwirionedd yn y byd acw, yn cael ei ystyried, y trysor gwerthfawrocaf a mwyaf cysegredig, fel sylfaen dedwyddwch yn y byd moesol, ac fel y sail ar ba un y saif gorsedd y Bôd tragwyddol ei hun; ac felly, drwy ei fod heb ei groesi erioed, gan yr un o honynyt, y mae pob tystiolaeth yn cael ei derbyn gyda hyder diamheuol. Trwy y drefn gyflym o ohebiaeth, sydd wedi ei sefydlu rhyngddynt, y mae eu cyfeillach a'u gilydd yn aml a hyfryd, a'r darganfyddiadau a wnant am anfeidrol ddoethineb a daioni, yn cael eu cylch-daenu yn brysur, yn mhllith y trigolion sydd yn cyf-aneddu yn y breswylfa lonydd acw. Y mae bodau o fydoedd eraill yn ymweled â hwy yn achlysurol, ac yn cyflwyno hanesion o hynodrwydd iddynt, gydag anerchiadau serchog, o'r bydoedd y daethant o honynyt; ac y mae arwyddlun gogoneddus o'r Dwyfol Fawrhydi, wedi cael ei arddangos yn eu ffurfafen, yn ddiweddar; o'r hwn y cyhoeddwyd mewn iaith

aruchel, ond addfwyn a hyfryd—o gymeradwyaeth eu Creawdwr iddynt, ac o'i fwriad i'w trosglwyddo i ardal arall o'i ymerodraeth, i fyfyrion ar amlygiadau newyddion o'i hael-frydedd a'i allu, fel gwobr am eu hufudd-dod iddo.

“Y mae hyn yn gynllun o'r drefn a'r dedwyddwch moesol, sydd yn y rhan fwyaf o'r bydoedd hyn, sydd yn disgleirio o bell, yn y ffurfafen draw, ond sydd yn cael eu gwahaniaethu gan amryw amgylchiadau neillduol, y rhai a ddadlener iddynt ar achlysur arall.”

Gan gyfarwyddo eu golwg at ryw fydd pellenig arall, a ymddangosai fel brycheuyn rhuddgoch, mewn parth dinôd o'r ffurfafen, gallai fyned yn mlaen fel hyn, “Y mae y byd acw hefyd, a'i drefn naturiol, mewn cyflwr gwahanol. Y mae yn fwy, fil o weithiau na'r byd y buoch chwi yn preswylio ynddo, ac yr oedd ar y dechreu wedi ei wisgo â'r holl arddercheg-rwydd a phrydferthwch sydd i'w weled yn holl weithredoedd y Creawdwr. Parhæodd ei drigolion, dros amser penodol, mewn ufudd-dod i'w Gwneuthurwr, ac mewn serchogrwydd at eu gilydd. Ond darfu i rai personau neillduol, oddiar falchder, ac awydd ymgodi i sefyllfa uwch, ryfygu i droseddu rhai o ddeddfa sylfaenol eu Creawdwr,—a thaenodd y gwrthryfel moesol hwn yn fuan o'r naill radd i'r llall, nes o'r diwedd, yr aeth holl luaws y trigolion i'r un yspryd, nes ymsuddo yn nyfnder trueni. Effeithiodd y llygredigaeth hwn mor fawr, nes newid holl agwedd allanol y lle, yr hwn a fuasai o'r blaen gan deceg ag Eden, i fod yn anialwch gwag erchyll. Trowyd yr afonydd o'u rhediad naturiol, gan y creaduriaid gwallgof, fel y gallent droi y tir ffrwythlawn yn gorsydd llaid. Cloddiwyd y ddaear yn byllau ac agenau mawrion, a diwreiddiwyd yr holl lysiau, er dinistr pryderthwch y greadigaeth. Trwy y dinistr hwn, a'r cyffelyb, aeth yr awyr yr anadlent ynddo, ac a wasgarai y fath berarogl dymunol, yn dderbynfa pob peth a fyddai druenus i greaduriaid synhwyrgar. Felly, y mae ei ddisgleirdeb wedi ei gymylu, fel y mae ei haul yn ymddangos drwy ei dawch dirfawr, fel pellen ddu, ac awyr y nos, a fu unwaith yn dangos y bydoedd mwyaf ysblenydd, yn awr wedi ei orchuddio â thywyllwch a thymestl, trwy'r hwn na all yr un byd nefol ddanfon yr un o'i belydr byth. O blegid y mae Creawdwr y bydoedd wedi trefnu pob amgylchiad yn nghyfansoddiad natur, fel y mae pob dyryswh a wnelo bôd configenus ynddo, yn dwyn yr effeithiau mwyaf echrydus yn wastadol.

" Yn lle bod yn cael eu bywiogi â chariad at eu Creawdwr ac at eu gilydd, yr hyn ydyw prif ddyledswydd pob creadur rhesymol, y maent yn cashau eu Gwneuthurwr, ac yn digasog yn cashau eu gilydd. Nid oes dim heddwch, cyflawnder, cydymdeimlad, cyfeillgarwch, na hyder yn eu plith. Y mae y naill yn edrych ar y llall fel gelyn, a'i holl fwriad i'w boen-ydio a'i holl allu. Ac oni ba'i fod eu cyrph wedi eu ffurфio yn *anfarwol*, fel na all dim llai nac anfeidrol allu eu dinystrio,— gwna eu nwydau llidiog iddynt ddistrywio eu gilydd yn fuan, nes difa holl drigolion y byd truenus. Y mae eu cyrph, a fu unwaith yn deg a gogoneddus, yn awr wedi eu gorchuddio â gwrthuni a gwarth. Nid oes ganddynt ddim hyfrydwch mewn myfyrio ar ogont gwaith y Creawdwr, o blegid y maent wedi dinystrio pob prydferthwch a ddangosai y greadigaeth, fel yr oedd pan y daeth gyntaf o law ei Gwneuthurwr; ac y mae y dealltwriaeth a'r ddoethineb oedd ganddynt gynt, yn awr wedi ei ddileu, ac wedi ei droi yn anwybodaeth a ffolineb.

" Anfonwyd cenadwr gan y Llywodraethwr Hollalluog, ar ddechreuaed yr olygfa druenus hon, i'w rhybuddio am y per-ygl, ac i'w hanog i ddiwygiad; ond fel nad oeddynt y pryd hwnw wedi teimlo effeithiau y trueni, i'r hwn yr oeddynt wedi ymsuddo yn gyflawn—ar ol rhai pangfeydd o anobaith, dy-chwelasant drachefn, bob un at ei ffyrdd drygionus ei hun. Anfonwyd creaduriaid santaidd, o fydoedd eraill, yn achlys-urol, i fyfyrion ar eu hagwedd druenus, ac ar ddinistr ofnadwy eu byd, fel y dygent yr hanes yn ol i'r bydoedd yr oeddynt fwyaf cydnabyddus â hwy, ac am yr effeithiau echrydus a ganlynodd eu gwaith yn troseddu y deddfau sydd o dragwyddol uniondeb, ac a osododd y Pen-llywydd i'r bydysawd. Y mae y Creawdwr wedi goddef y drygau naturiol a moesol hyn, er ys llawer o oesau—nid am ei fod yn ymhyfrydu yn nhrueni ei greaduriaid, ond o herwydd ei ofal am ddedwyddwch yr holl greadigaeth resymol. Yn y cyfamser, y mae yn gadael iddynt fwyta o ffrwyth eu gweithredoedd eu hunain, fel y byddai iddynt deimlo effeithiau eu gwrthgiliad yn llawn. Goddefodd iddynt fyned cyn belled a hyn yn eu gwrthryfel a'u llygredigaeth, fel y gwelai y bydoedd o amgylch, yr holl effeithiau sydd yn sicr o ganlyn pob troseddiad ar drefn foesol. Y mae y byd anial hwn, a'i drigolion truenus, wedi eu trefnu i barhau yn eu sefyllfa alarus bresenol, am oesau i ddyfod, hyd oni wnele ar graph dwfn a phwysig ar drigolion

pob talaeth o ymerodraeth Duw, am eu rhwymedigaeth dragwyddol, i gydymffurfio â deddfau ac egwyddorion y gyfundrefn foesol, a sefydlodd ei anfeidrol ddoethineb, er llywyddu y byd deallgar; ac hefyd, fel y byddai i'r creaduriaid truenus eu hunain gael eu cyffroi i ystyriaethau priodol, fel y caffont eu harwain i ymostwng yn ei bresenoldeb, ac i deimlo edifeirwch am eu hymddygiad annuwiol ac anngaredig. Pan y cyflawnir y dybenion hyn, bydd i lewyrch prydferth oleuo yn sydyn ar dywyllwch eu nos, a'u hawyrgylch ei glirio o'i dawch, ac i oleuadau disglaer y nef, eto dywallt eu goleu prydferth arnynt; a'r trigolion a godant eu golwg, mewn syndod, at yr olygfa ryfeddol ac annisgwyliadwy; ac yna daw Cenhadwr Dwyfol, wedi ei wisgo â mawredd anfeidrol, ac a gyhoedda, 'Heddwch o'r nef—Daioni oddiwrth Dduw, i'r byd euog hwn.' Gwneir y genhadaeth ogoneddus hon ar bob oehr i'r glôb. Y cyhoeddiad annisgwyliadwy hwn a enilla sylw y trigolion, ac a adgynheua yn eu mynwes, y gwreichion hyny o gariad, oedd wedi diffodd er cyhyd o amser. Ac i'r dyben o brofi fod y cyhoeddiad yn ddiffuant, bydd gallu y Goruchaf yn cael ei ddangos yn mhuredigaeth yr awyrgylch, er adferu y diffaethwch, ac adnewyddu wyneb natur. Bydd i gyfres o hyfforddiadau moesol ddechreu y pryd hwn, a'u dwyn yn mlaen gyda bywiogrwydd, nes y byddont oll wedi eu cwbl argyhoeddi o'u ffolineb a'u hannuvioldeb. Caiff trefn ei adsefydlu yn raddol, a chyfeillgarwch serchog ddechreu, a bydd argraphiadau anniléadwy o'u hanngaredigrwydd a'u hannuvioldeb, ac am uniondeb a haelfrydedd Duw, wedi ei adael yn dragwyddol ar eu meddwl, yr hyn a'u ceidw rhag gwrthgiliad cyffelyb, ar bob amser dyfodol; a bydd heddwch, gwirionedd, a dedwyddwch, yn teyrnasu yn fuddygol mwy."

Gallem dybied y bydd i'r Gwareddwr ymhelaethu ar destyna u o'r fath, yn achlys urol, yn ei swydd fel Cyfryngwr, gyda hyawdledd anwrthwynebol, pan y bydd yn llywyddu yn nghynulleidfaedd y gwaredigion; a bydd y teimlad a wna y fath gymundeb, yn ddiau, yn eu cyffroi i uno, er derchafu moliant, yn yr olwg ar gymeriad a gweithredoedd Duw, mewn caniadau cyffelyb i'r rhai hyn:—"Halleluia, yr Arglywydd Hollalluog sydd yn teyrnasu. Cywir a chyflawn yw ei farnau. Iachawdwriaeth a gogoniant, anrhydedd a gallu, i'r Arglywydd ein Duw ni. Tei lwn gwy, i dderbyn gogoniant, anrhydedd, a

gallu ; o blegid, ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent ac y crewyd hwynt." *

Yn awr ymdrechais ddangos, fod hyd yn oed y rhan hono o'r bydysawd, sydd o fewn cylch ein golwg ni trwy gynhorhwyon, yn cynwys ynddo, o leiaf, ddwy fil a phedwar can miliwn o fydoedd—ac fel y mae pob un o honynt wedi eu ffurio gan anfeidrol ddoethineb, fod yn rhaid eu bod yn dangos, ar olygiad allanol, wrthrychau teilwng o fyfyrdod pob creadur rhesymol—fod yn dra thebygol oddiwrth ffeithiau, tebygoliaeth natur a datguddiad, fod yn perthyn i bob un o'r bydoedd hyn, olygfeydd neillduol, sydd yn ei wahaniaethu ef a'i berthynasau, oddiwrth y lleill—fod graddau mewn dealltwriaeth, a bodau o wahanol sefyllfa, yn mhlith trigolion y bydoedd hyn—fod yn debygol fod eu ffurfiad corphorol, ac ermig eu synhwyrau hefyd, yn dra gwahanol i'w gilydd—a bod hanesiaeth naturiol a moesol pob un, yn arddangos golygfeydd a goruchwyliaethau gwahanol i'r hyn a ganfyddir yn y lleill. Fel, pan fyddo y meddwl yn ymdrechu i gyrhaedd dros nifer diderfyn y bydoedd a ddangosir yma i'r golwg, ac yr ystyrio y y gwahanol fodd ag y dylid myfyrio arnynt, ni ymddengys i alluoedd terfynol fel yr eiddom ni, y byddai unrhyw derfyn i'n hymchwiliadau, ond yn y gwrthwyneb, y mae yn dra rhesymol i ni farnu, y bydd i'r naill olygfa ogoneddus ddilyn y llall, yn barhaus, tra y byddo oesau tragwyddol yn treiglo ymaith.

Os byddai yn ofynol i greaduriaid wedi eu cynsgaedu â

* Yr wyf yn gobeithio na bydd i neb o'm darllenwyr dybied, fod yr ystyriaeth, y bydd i'r Gwaredrw, yn achlysurol, draddodi darlithoedd ar destynau dwyfol i gynulleidfaeodd y saint yn y nef, fod yn beth anhebygol a disail.—Er pan ysgrifennais y sylwadau uchod, canfyddais fod y duwiol a'r anianyddol *Dr. I. Watts* o'r un golygiad. Yn ei bregeth ar "Ddedwyddwch yr ysprydoedd ymadawedig," pan y darlunia wasanaeth y nef, dywed fel hyn:—"Efallai y galles chwi ddychymyg yna bydd dim o'r fath wasanaeth â gwrando pregethau, a darllen gair Duw yno; ond a ydym ni yn sicr nad oes y fath oruchwylion yn y nef? Ai nid oes darlithoedd ar Ddwylol ddoethineb a gras yn cael eu traddodi i'r ysprydion ieuengaf, gan yr ysprydion o sefyllfa uwch yno? Neu, oni allai fod yr Arglwydd Iesu Grist ei hun yn Athraw tragwyddol ei eglwys? Oni allai efe, ar achlysurom arbenig, wysio yr holl nef i wrando cyhoeddiad rhyw ddarganfyddiad newydd a rhyfeddol na amlwgwyd erioed o'r blaen drwy holl oesau naturiaeth na gras, ac wedi eu cadw er enill sylw, a derchafu hyfrydwch, y saint yn y nef?—Neu ynte, efallai fod gan ein Harglwydd bendigedig (hyd yn oed fel y mae yn ddyn) ryw ffordd anadnabyddus i gyflwyno darlith faith, neu ddilysiad meithion o ddrychfeddyliau a darganfyddiadau, i filoedd o ysprydion gwynfydedig ar unwaith, heb ffurfiau llais nac iaith, ac y bydd iddo, ar ryw amserau nodedig, yn y ffordd honno, hyfforddi a diddanu ei saint yn y nef."

galluoedd cryfach na'r eiddo dyn, gael amryw ganoedd o flynyddoedd i dremio dros y tir-ddarluniau amrywiaethol sydd ar ein daear ni, i olrhain y gweithrediadau fferyllaidd lluosog, sydd yn myned yn mlaen yn y byd anifeilaidd, hydyfol, a mwnyddol, tros wyneb y ddaear, gwaelodion y môr, a'r ardaloedd tanddaearol, er trafod hanesiaeth chwe mil o flynyddoedd i olrhain y trefniant planedawl, sydd yn dangos maes o ymchwiliad ddwy fil o weithiau yn éangach—pa nifer o ganoedd o filoedd o filiynau o flynyddoedd a fyddai yn ofynol i fyfyrto a chwilio yr holl fydysawd gweledig, yn yr holl amrywiaeth y cyfeiriais ato yn barod. Cymerai olrhain y cyrph sydd yn cyfansoddi cysawd yr haul, a'r damweiniau moesol sydd wedi cymeryd lle yn mysg y trigolion, gyfres hir o oesau. Cymerai y cysawd o fydoedd sydd mewn cysylltiad a'r blaned Sadwrn, lawer o ganoedd o flynyddoedd o fyfyr-dod i'w chwilio, er cael golygiad *cyffredinol* ar ei agweddu a'i berthynasau naturiol, moesol a deallo. Gosodir o flaen ein golwg yma, 1. Corph o faintoli dirfawr, digonol i gynwys poblogaeth dros gan mil mwy na'n daear ni. 2. Dwy fodrwy ddirfawr, ac un o honynyt yn cynwys ar bob ochr, wyneb o *wyth mil o filiynau o filltiroedd* ysgwar, a'r llall yn *ugain mil o filiynau o filltiroedd*, ac yn ddigonol, i gynal poblogaeth *gant o deugain* o weithiau yn fwy na'n daear ni, ac iddynt fod mor anaml ac ydynt ar wyneb y ddaear yn bresanol. 3. Saith o leuadau, a phob un o honynyt, yn ddiau, yn gymaint a'n daear ni, a rhai o honynyt efallai yn llawer mwy. Y mae y golygfeydd mawreddog a rhyfeddol, a amlygir ar y blaned hon, mor wa-hanol i bob peth a welir ar ein daear ni, ac y gellir meddwl —y bwäau disglaer sydd yn ymestyn dros ei ffurfaen, fel colofnau mwg y dydd, a thân y nos—yr amrywiol gysgodion sydd yn cael eu taflu weithiau dros ei dir-ddarluniau—ei leuadau yn ymddangos ac yn colli o'r golwg, eu diffygion, a'u gwahanol agweddu, mewn cysylltiad â'u gilydd, ac mewn perthynas i drigolion y blaned ei hun—y golygfeydd a ymddangosai yn y byd anifeilaidd, hydyfol, a mwnyddol—y di-lyniad o ddamweiniau sydd wedi dygwydd yn eu plith, ac amcan y goruchwyliaethau Dwyfol, mewn perthynas, i'w han-esiaeth am y pethau a fu, a'r hyn a ddaw—y mae y rhai hyn, a miloedd o bynciau am y rhai na feddwn un dychymyg eglur, yn destynau a roddai hyfrydwch aruchel i greaduriaid rhe-symol am gyfres o oesau.

Y mae yn debygol hefyd, fod o fewn cylch cysawd yr haul, chwildroadau naturiol a moesol pwysig, wedi dygwydd er amser eu creadigaeth, heblaw y rhai a gyffroisant ein byd ni.— Y mae cyfnewidiadau yn cymeryd lle yn achlysurol ar wyneb y blaned Jupiter, sy'n weledig o'r pellder yr ydym ni yn ddo. Y mae y gwahanol olygfeydd a gafwyd ar y sylwedau a elwir ei *wregys*, o ba beth bynag y maent yn gynwysedig, a pha beth bynag oedd yr achos o honyn, yn awgrymiad cryf fod y cyfnewidiadau mor fawr a phe byddai yr holl gymylau sydd yn grogedig dros Ewrob, a pharthau gogleddol Asia ac America, yn cael eu symud ymaith yn llwyr, a'u crogi uwchben y môr tawelog a môr India—neu pe byddai i ddyfroedd yr Atlantic orlifo dros gyfandir yr America, nes y byddai ei gelloedd dyfnaf yn wag.—Canfyddwyd yn ddiweddar rhwng cylchrodau Mars a Jupiter, bedair o blanedau bychain, y rhai, yn ol tyb resymol y seryddwyr cywreiniaf, a fuont rywbryd yn un corph, yn symud yn yr un ardal, ac a drylliwyd drwyddyt gan ryw nerth rhwygiadol yn cynhyrfu o'r canol. Y mae yr amgylchiad hwn, ac amryw bethau o'r fath, a ddygwyddodd i'r planedau hyn, yn ein harwain yn naturiol i gasglu, fod chwildroadau pwysig wedi cymeryd lle, mewn perthynas i'r bodau sydd yn eu preswylio, ac yn gosod o flaein ein meddwl amrywiaeth o ystyriaethau hynod, am y golygfeydd o lawenydd neu ddychryn, a all gael eu hamlygu rhagllaw. Y mae y blaned Mars, ar lawer o gyfrifon, yn debyg i'n daear ni. Y mae yn gwneud ei gylchdro, agos yn yr un faint o amser a'r ddaear. Y mae osgo ei echel ar gyfer ei gylchrod yn 28 gradd 42 munud, a'r ddaear yn 23 gradd 28 munud. O ganlyniad, rhaid ei fod yn cael tymhorau, a gwahaniaeth hyd dydd y nos, yn debyg i'r ddaear. Dywed Syr William Herschell i ni, ei fod wedi sylwi ar wregys, tua phegynau y planed hwn, sydd yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau cylchynol, a'u bod yn cael eu hachosi trwy doddiad y rhew sydd tua'r pegynau. Y mae ei awyrgylch hefyd yn drwchus a thywyll, yr hyn sydd yn peri ei fod yn ymddangos yn *rhuuddgoch*. Y mae yr amgylchiadau hyn yn dangos fod tebygrwydd mawr yn ei ffurfiad *naturiol* i'r ddaear. Y mae yn anhysbys i ni yn awr, pa un a oes rhyw debygrwydd yn sefyllfa foesol y trigolion ai peidio, a dichon fod hyny yn cael ei adael i'w egluro mewn byd dyfodol. Nid yw rhew ac eira, a chynhulliad pentyrau rhewllyd y pegynau, nosweithiau hirion, y stormydd

gauaf, tywyllwch a dinystr, cymylau brochog, ac awyrgylch trwchus—llawn o ddefnydd rhyferthwy—yn ymddangos yn nodweddian priodol i fydd, lle y mae perffaith ddedwyddwch yn cael fwynhau. Y mae yr Haul, yr hwn yw canolbwnc ein cysawd ni, ac sydd yn goleuo y bydoedd o amgylch a'i belydr, yn fwy o bum cant o weithiau na'r holl blanedau a'r lleuadau yn nghyd. Ac fel yr ydym yn canfod fod cyfnewidiau yn cymeryd lle ar ei wyneb a'i awyrgylch disglaer, y mae yn ddiamheu fod cyfnewidiau rhyfeddol yn ei ranau allanol a mewnol, mor fawr ac mor hynod, fel y byddent yn destynau tra hyfryd i'w chwilio, er derchafu ein meddwl i'r graddau uwchaf am ogoniant yr Hwn “sydd yn trigo yn y goleuni ni ellir dyfod ato.”

Gan hynny, os ydyw trefniant y planedau, nad ydynt yn cymeryd mwy o le nac un o'r ser lleiaf sydd yn disgleirio yn yr awyr, yn ddigonol i ddangos y fath luaws o wrthrychau yn destyn myfyrdod creaduriaid rhesymol am lawer o oesau,—pa fath gynhulliad dirfawr o wrthrychau a damweinbau rhyfeddol, a osodir ger bron yn nhrefn naturiol a hanesiaeth foesol y lluaws cysawdau y bydoedd y cyfeiriwyd atynt, a'r amser dirfawr a fyddai yn ofynol i feddyliau meidrol er olrhain y golygfeydd rhyfeddol hyn! Y mae yr ystyriaeth hwn yn rhoddi i ni ddychymyg am barhad, sydd yn ymddangos i ddeall terfynol fel yr eiddom ni, yn ymylu ar y drychfeddwl am dragwyddoliaeth ei hun. Hyd yn oed, pe gellid profi nad yw creadigaeth yn cyrhaedd dim pellach na'r terfynau eithaf y gall dychymyg dyn dremio iddo,—er hynny byddai y cynhulliad o wrthrychau gogoneddus a gynhwysid o fewn cylch ein golwg naturiol, yn dangos y fath amrywiaeth diderfyn o destynau mwynhad i'r meddwl, y gall y Creawdwr eu caniatâu i'w blant rhesymol; ac fe sicrheir i ni, “na atal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn uniawn.”

Ond, a fyddai yn rhesymol i ni addef, fod ymerodraeth Llywydd cyffredinol yn terfynu o fewn cylch gwelediad dyn? A allwn ni gredu, fod dyn gwag, nad yw ond megis brycheuyn yn nghanol gweithrededd Duw, yn alluog i dremio i derfynau eithaf ymerodraeth yr Hwn sydd yn llanw yr eithafoedd anfeidrol a'i wyddfod? Byddai mor rhesymol i ni dybied y gallai malwoden dreiddio drwy waelod yr eigion, ac âg un golwg dremio drwy ei ogofeydd dyfnaf; neu y gallai y creadur bychan anweledig, sydd wedi ei gyfyngu i ddi-

feryn o ddwfr mewn conglo gareg fechan, ar un golygiad olrhain holl ardaloedd Ewrob, Asia, Affrica, ac America. A allwn ni dybied fod trefniant *gweledig* natur—er mor fawr ydyw—yn balas digonol i'r Duwdod i gyfaneddu ynddo? Na allwn; canys byddai hyny yn gosod yr Hollalluog o fewn terfynau golygiad a chylch myfyrdod dyn. “Wele, y nefoedd, a *nefoedd y nefoedd*, ni allant ei gynwys Ef.” Y mae yr ymadrodd hwn yn dangos, fod “*nefoedd y nefoedd*,” tu hwnt i ddim a all dyn ei olrhain yn y ffurfaen weledig,—éangder sydd yn cynwys wybrenau dirifedi, mor ogoneiddus a helaeth a dim a welsom ni—trwy yr eithafoedd mawr, yn yr hwn y mae y Duwdod yn hanfodol a thragwyddol wyddfodol. Mewn perthynas i bob peth sydd yn weledig â'r llygad noeth, neu gyda y drychbeiriant, yn éangder y nef, gallem ddywedyd ydya'r bardd,—

“O amgeueddfa fawr! O gromnen hardd!
A drefnwyd ti yn drigfa addas Duw?
Na, nid felly fu; y mae 'r dybiaeth fiol
Yn dy anurddo 'n llwyr. Darostwng hyn
Dy uwchder maith; dy orddyfnderau dwg
Yn arwynebion mwy; eyfynga dy
Eangder; a chrebycha 'r eyfan oll,
Gan wneud bydysawd mawr yn *degan* bach.”

Y mae yr éangder diderfyn tu hwnt i gylch golwg creaduriaid marwol, fel na all llygad dyn dremio iddo, na meddwl meidrol ei olrhain. Byddai mor afresymol i ni dybied fod yr éangder mawr sydd yn cylchynu y greadigaeth weledig, yn wagder diles, ac a fuasai i ni haeru, cyn dyfeisio y drychbeiriant, nad oedd dim ser tu hwnt i olwg llygad noeth. Pan yr ystyriom alluoedd terfynol dyn, a phriodoliaethau anfeidrol y Duw traghwyddol, y mae genym y rheswm cryfaf i gasglu, nad oes ond rhan fechan o weithredoedd Duw wedi eu hamlygu eto. “Pe gallech wibio tu draw i'r lloer (meddai un ysgrifennydd adnabyddus) a myned drwy holl gylch y planedau; pe gallech ehedeg hyd at y seren a ymddengys bellaf, a chymeryd eich Gorsaf ar un o binaclau uwchaf y nef, gwelech wybrenau eraill yn ymledu, a haul arall yn gwasgaru pelydr ei ddydd, a ser eraill yn ddilynol, yn goreuro y nos, a chysawdau eraill, rhagorach, efallai, wedi eu sefydlu mewn ardaloedd anadnabyddus o'r éangderau diderfyn. Ac ni therfynai ymeror candraeth y Llywydd cyffredinol *yno*. Ar derfyn y daith hirfaith hon,

ni chanfydddech eich hunain yn ddim pellach nac y mylon greadigaeth—a dim ond wedi cyrhaedd cyffiniau teyrnas fawr Jehovah."

Y mae yn dra thebygol, pe byddai yr oll o'r dwy fil a phedwar can miliwn o fydoedd y cyfeiriwd atynt, a'r pedwar ugain miliwn o hauliau, o amgylch y rhai y maent yn cylchdroi, i gael eu diffodd a'u difodi ar unwaith, ni wnai hyny y fath wagnod yn y greadigaeth, i olwg llygad a allai dremio dros yr holl fydysawd, mwy nac y gwnai dilead y twr tewdws ar olwg ein ffurfafen ni. Gall fod terfynau wedi eu gosod i gylch bodolaeth ddefnyddiol, ond ni ellir canfod y cyfryw derfynau, ond yn unig gan y *Llygad* sydd yn canfod yr holl eangder anfeidrol ar unwaith. Rhaid yr ymddengys yr olwgfa yn wastadol i feddwl *meidrol*, yn annherfynol ac anamgyffredadwy. Pe byddai yn bosibl i ni byth gyrraedd hyd ymylon y greadigaeth, wedi olrhain yr holl fyd defnyddiol, gellid dywedyd ein bod, mewn rhyw raddau, yn gallu cynwys y Creawdwr ei hun; gwedi i ni weled terfynau eithaf ei allu a'i wybodaeth. O blegid, er i ni addef fod priodoliaethau Duw-dod yn *anfeidrol*, eto, nid oes genym fesurau eglur i ddirnad am y perffeithderau hyny, ond yn yr hyn a welwn yn anfeidroedd ei weithredoedd yn y greadigaeth. Ac o herwydd hyny gallem gasglu na ddaw y graddau uwchaf o greaduriaid deallgar, wedi treulio myrdd o oesau mewn ymchwiliad, byth i ben a'r gorchwyl o olrhain gweithredoedd a ffyrdd Duw.

A phe byddai i ni gael allan ryw derfynau penodol i'r greadigaeth, ac wedi miliynau o oesau, fod bôd santaidd wedi gorphen ei olrheiniadau, ac wedi cymeryd taith trwy drefniant cyffredinol natur, fel y mae yn awr,—eto, pwy a all osod terfynau i alluoedd y Duw trogyddol, neu ddywedyd na allai fod cysawdau newyddion wedi cael eu creu, a'r rhai hyny yn wahanol i ddim a welwyd yn flaenorol? Erbyn yr amser y byddai bôd meidrol wedi trafod pob gwrthrych sydd yn awr, ac wedi cyrhaedd gwybodaeth am yr holl chwylröadau moesol a naturiol, a gymerasant le yn mysg y bydoedd sydd yn awr yn addurno y gwagle—gallai cymydogaeth newydd o'r eithafoedd anfeidrol, gael ei dod-drefnu â bydoedd a chreaduriaid newyddion; a phe y dychwelai ef yn ol i'r llecyn, o'r man y cychwynodd, ar ol i nifer o oesau fyned heibio; diamheu y canfyddai, fod cyfnewidiau a chwylröadau lawer wedi cymeryd lle yn y taleithiau hyny o ymerodraeth y Cre-

awdwr—byddai nef newydd—a graddau newyddion o greaduriaid synhwyrgar a deallus, gwahanol i wrthrychau ei sylw blaenorol.

Ymddengys oddiwrth y sylwadau a wnaed ar ymddangosiad naturiaethol y bydoedd nefol, mai nid dychymyg ofer ydyw y gosodiadau, mai hyn yma ydyw cynllun gweithrediadau y Creawdwr. Y mae ser newyddion wedi ymddangos yn y ffurfafen lawer pryd, yr hyn sydd yn brawf amlwg, fod cre-adigaeth yn cael ei dwyn yn mlaen yn barhaus. Y mae rhai planedau wedi ymrwygo drwyddyt yn ddarnau, a ser a fu yn disgleirio am oesau, wedi colli o'r golwg, ac na ellir olrhain eu hanes yn eu sefyllfa gynt.* Y mae y ffeithiau hyn yn dangos yn eglur fod rhyw chwilderöadau pwysig yn cymeryd lle, mewn perthynas i'r bydoedd sydd felly wedi colli o'r golwg. Gwedi rhedeg eu cylch yn mlaen am oesau, naill ai y mae eu cyfansoddiad wedi myned dan gyfnewidiad pwysig, neu ynte, y maent wedi cael eu symud i ryw gymydogoeth arall o'r éangder mawr, i gyflawni rhyw ddybenion eraill yn nhrefniadau gogoneddus yr Hollwybodol. Y mae y sylwadau a wnaed, gan Syr William Herschell, ar ymddangosiad trefn cyd-gysawd y nefoedd, ac ar y cyfnewidiadau y maent yn myned danynt, yn ein harwain i gasglu, fod cysawdau newyddion yn cael eu ffurfio yn raddol yn yr ardaloedd pellenig o'r bydysawd. Ac os ydyw gallu anfeidrol y Creawdwr mewn gweithrediad parhaus yn awr, ac wedi bod felly yn yr oesau a aeth heibio, pwy a feddia honni, na bydd yn parhau i weithredu trwy holl oesau tragwyddoldeb?

Gan hyny, gosodir ger bron ein meddwl yma, gynhulliad o fodau defnyddiol a deallgar, i'r rhai na all meddwl dyn osod unrhyw derfynau, ac sydd yn cynyddu yn barhaus; ac eto, y mae gwagle anfeidrol i dderbyn creadigaethau newydd drwy ddilyniant diderfyn o oesau—cynhulliad o fodau, o ran nifer, maint, ac éangder, sydd yn gyfaddas at dragwyddol barhad. Gan hyny, nid oes genym yr un rheswm i amheu, na bydd "y saint yn y goleuni," yn gwneud darganfyddiadau newyddion yn barhaus ar y gogoniant Dwyfol, ac y bydd golyg-

* Y mae rhai ser wedi eu nodi yn y rhestrau cyntefig, nad ydynt yn awr ar gael, ac eraill yn weledig yn awr, oedd yn anadnabyddus gynt. Y mae rhai wedi cynhyddu yn barhaus yn eu disgleirdeb. Y mae rhai, oedd gynt yn *amrywiaethu*, yn awr yn tywynu gyda disgleirdeb sefydlog, tra y mae eraill wedi bod yn lleihau o ran eu gogoniant yn barhaus.

iadau newyddion ar anfeidrol weithredoedd Duw, a golygfeydd newydd ar unionēb a mawredd ei lywodraeth foesol, ac ychwanegiad beunydd at eu dedwyddwch, a dilyniad newydd a hyfryd o fyfyrnod yn ddiball, cyhyd ac y parhāo tragwyddoldeb.

GORSEDD DUW

Y mae un drychfeddwel yn ychwanegol at yr amrywiol olgyiadau a ddangoswyd uchod, sydd raid ei grybwyl, er derchafu ein meddwel i raddau priodol o fawrhad ar ogoniant Duw, ac am ardderchogrwydd ei weithredoedd.

Y mae yr Ysgrythyr yn wastadol yn cyfeirio at le, amgylchiad, neu amlygiad neillduol, a elwir, *Gorsedd Duw*; megis yn yr ymadroddion canlynol:—“Y nef yw fy *ngorseddfaingc*, a'r ddaear yw lleithig fy nhraed.” “Yr Arglwydd a barotodd ei *orseddfa yn y nefoedd*.” “*Gorsedd uchel ogoneddus*, o'r dechreuan, yw lle dy gyssegr.” “Am hyny y maent ger bron gorseddfaingc Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos, yn ei deml.” “Bendith, ac anrhynedd, a gogoniant, a gallu, a fyddo i'r Hwn sydd yn eistedd ar yr *orseddfaingc*.”—Y mae yr ymadroddion a'r darluniadau hyn a'r cyffelyb, naill ai yn hollol ffugyrol, ai ynte yn cyfeirio at ryw ardal neillduol yn y bydysawd, lle y mae y gogoniant Dwyfol yn adlewyrchu, mewn rhyw fodd disglaer neillduol, oddiwrth wrthrychau defnyddiol, ac y mae amlygiadau o'r cymeriad Dwyfol yn cael eu harddangos egluraf. Os oes cyfeiriad at ddisgleirdeb a mawredd rhyw Barth neillduol, y mae yn rhoddi drychfeddwel seryddol i ni, a all ein cynorthwyo i ffurfio rhyw ddirnadaeth am “yr orsedd ogoneddus uchel” hon, sydd yn breswylfod neillduol y Bôd tragwyddol. Bernir yn awr gan seryddwyr, ei fod yn dra thebygol, os nid yn sicr, oddiar sylwadau a wnaed yn ddiweddar, oddiwrth natur pwys a thyniad, ac amgylchiadau eraill, fod holl gysawdau y bydysawd yn troi o amgylch un canolbwnc cyffredinol,—a bod y canolbwyt hwn yn dal perthynas, o ran maintiolaeth, a'r cynhulliad cyffredinol o gysawdau, mor agos ac y mae yr haul yn ei ddal a'r plaenedaeth sydd yn ei gylchynu. Ac fel y mae ein haul ni yn fwy o bum cant o weithiau na'r ddaear, a'r holl berthynasau eraill, a'u lleuadau yn nghyd,—ar yr un egwyddor, byddai y fath gorff

canolbarthol, yn fwy o bum cant o weithiau na'r holl gysawdau a'r bydoedd sydd yn y greadigaeth i gyd. Gan hyny, gall fod yn fydd sawd mawr ynddo ei hun, ac yn rhagori ar y lleill oll, o ran maintioli, disgleirdeb, a gogoniant, ac yn fyd cyflawn ynddo ei hun. Os ydyw hyn yn bod mewn gwirionedd, gellid ei alw, gyda'r priodoldeb mwyaf, yn *Orsedd Duw*.

Dyma y drychfeddl aruchelaf a all meddwl dyn byth gael ei gynwys. Yr ydym yn teimlo ein syniadau o'r braidd yn cael eu llethu, wrth geisio rhoddi darluniad o hono. Ond pa'r gymaint bynag a allo orlenwi ar ein meddwl, eto ni ddylem roddi i fynu y fath ystyriaeth am ogoniant ac éangder gweithredoedd Duw; o blegid, nid oes dim llai a all ymddangos yn deilwng o Fôd sydd a'i briodoliaethau yn anfeidrol. Gellid ystyried y canolbwnc dirfawr hwn fel Prif-ddinas y bydysawd. Dichon fod cenhadaethau yn cael eu danfon yn achlysuol, o'r canolbwnc ardderchog hwn i'r bydoedd cylchynol, yn mhob cymyogaeth o'r éangder. Yma hefyd, y gall fod anfonedigion o bob byd, yn cyrchu yn achlysuol, a thrigolion gwahanol fydoedd yn cymdeithasu â'u gilydd, ac yn dysgu y prif wersi ar y gweithredoedd naturiol, a'r goruchwyliaethau moesol hynny a gymerant le yn y gwahanol gylchoedd. Yma, y gall fod gwrthrychau o orwychder a gogoniant yn cael eu har-ddangos i luaws dirifedi, ac na chanfyddir mo honint yn yr un ran arall o'r greadigaeth. Yma, gall fod creaduriaid rhesymol o'r radd uwchaf, sydd wedi cyrhaedd uwchder gwybodaeth a rhinwedd, yn ffurfio prif ran poblogaeth y lle gogoneddus. Yma y gall fod corph gogoneddedig y Gwareddwr, wedi cymeryd ei brif sefyllfa, fel pen i'r "holl dywysogaeth au a'r awdurdodau;" ac yma hefyd, y mae yn debygol fod Enoch ac Elias yn preswylio, yn y cyfamser, er dysgu hanesiaeth cynlluniau a gweithredoedd mawreddog y Duwdod, fel y byddont yn alluog i gyflwyno gwybodaeth i'w brodyr o hil Adda, pan y cyfarfyddant hwy eto yn y byd a drefnwyd i fod yn gartref iddynt ar ol yr adgyfodiad cyffredinol. Yma y mae yn bosibl fod **GORFAWREDD** y Duwdod, gogoniant ei berffeithderau naturiol a moesol, ac anfeidroedd ei ymerodraeth, yn taro y meddwl â llewyrch disglaer, ac yn cyffroi teimladau o fododdhad a hyfrydwch, uwchlaw pob peth a amlygir yn mhob tal-aeth arall o'r greadigaeth. Mewn gair, gall y bydysawd canolbarthol éang ac ysblenydd hwn, ffurfio y trigfan ardderchog y cyfeirir ato yn yr Ysgrythyr, dan yr enw, **Y DRYDEDD NEF**—

GORSEDD Y DUW TRAGWYDDOL—NEF Y NEFOEDD—Y GORUCHELDER A'R CYSSÉGR—A'R GOLEUNI GOGONEDDUS NA ELLIR DYFOD ATO.*

Efallai y gallai rhai anghynnefin â'r fath deithiau anturiaethol trwy ardaloedd y byd defnyddiol, ystyried y drych-feddwl dyrchafedig a grybwyllywd, a llawer o'r manylion blaenorol, yn rhy annhebygol, ac felly yn annheilwng o'u sylw difrifol. Mewn atebiad i'r fath amheuaeth, ystyrier yn y *lle cyntaf*, nad oes dim wedi ei fynegi yma, nad yw yn perffaith gyfateb i debygoliaeth natur trwy yr holl fyd, ac â llawer o

* Canfyddwyd o fewn terfynau y 150 blynnyddoedd diweddaf, fod gan y prif ser sefydlog ysgogiad neillduol, yr hwn a ymddengys agos yn unffurf a rheolaidd, ac sydd yn gwbl amlwg i'w ganfod mewn deg-ar-hugain neu ddeugain mlynedd. Er engraiphant, sylwyd fod y seren *Arcturus*, yn symud tri munud a thri eiliad, yn ysdod deunaw-mlyned-ar-thri-ugain. Y mae y rhan fwyaf o'r ser wedi symud tu a'r dehau. Ymddengys fod y ser yn y parthau gogleddol o'r nefoedd yn pellhau oddiwrth eu gilydd, tra y mae y rhai dwyreiniol yn neshau at eu gilydd. Y mae yr ysgogiadau hyn yn awgrymu yn eglur, fod y ddaear a'r holl fydoedd eraill perthynol i gysawd yr haul, yn pellhau oddiwrth y ser sydd yn y part heuol o'r ffurfafen, ac yn neshau at y rhai sydd yn y gogledd. Y mae Dr. Herschell yn barnu, fod y cydmariaeth o'r newidiadau hyn yn dangos, fod yr haul a'i berthynasau, yn symud tu ag at gydser *Herculus*. Y mae y symudiad parhöol a wna ein cysawd ni yn yr èangder mawr, yn ymddangos yn debyg i ran o'r bwa hwnnw, a ddengys yr haul o amgylch *canolbwnc* y *cyd-gysawd* i'r hwn y perthyna; a bod yr haul ser eraill sydd yn perthyn i'r *cyd-gysawd*, yn dangos bwâau cyffelyb. A chan yr ymddengys fod y bydysawd yn cael ei gyfansoddi o filoedd o gyd-gysawdau o ser, ar wahan oddiwrth eu gilydd, y mae yn rhesymol i ni farnu, fod haul ser y bydysawd yn troi o amgylch un *canolbwnc* cyffredinol; yr hwn y mae ei faintoli a'i ddyylanwad at-dyniadol yn gyfartal â maintiolaeth a nifer yr haul gyrrh sydd yn troi o'i amgylch. Yr ydym yn deall fod deddf tyniad yn estyn ei dylanwad o'r haul hyd i'r blaned *Herschell*, mewn pellder o ddeunaw cant o filiynau o filltiroedd, ac i eithafion cylchdröadau y ser gwibiog, sydd yn ymestyn yn mhellach fyfth; ac y mae y lle cryfaf i gredu fod y tyniad hwn yn ffurfio rhwymyn perthynasol rhwng haul gyrrh y bydysawd a'u gilydd, pa mor belled bynag y byddont. Os addefir hyn,—y mae *ysgogiad* y gwahanol gysawdau y cyfeiriwyd atynt yn awr, ac anfeidroedd y corff canol, oddiwrth yr hwn y mae ysgogiad o bob math yn tarddu, er gosod yr haul fydysawd mewn trefn a chysondeb—yn ymddangos yn *angenrheidiol*, i'r dyben o gadw cyfartaedd pwysau yn y trefniant cyffredinol, ac i atal y lluaws bydoedd rhag dynesu yn raddol at eu gilydd, mewn dilyniad o oesau, ac felly i ddybenu mewn ymddyliad cyffredinol.—Yr ydym yn dal perthynas a'r ser pellaef a ganfyddwn â'r drychbeiriant, trwy gyfrwng y *goleuni* sydd yn tarddu oddiwrthynt, ac yn ymgymysgu â phelydr yr haul sy'n treiddio trwy ein hawyrgylch, ac yn effeithio ar ein llygaid, er dangos lliwiau cyffelyb i'r hyn a achosir gan belydr yr haul. Ac y mae genym sail mor gadarn i gredu, fod perthynas rhngom â'r cyrrh hyny trwy at-dyniad, fel y mae y drychfeddwol a grybwyllywd yn barod, pa mor oruchel bynag yr ymddangoso i'n galluoedd byrion ni, yn brofedig trwy sylw a thebygoliaeth natur yn gyffredinol, ac nid fel tybiaeth yn unig.

ymadroddion aruchel, sydd yn y Datguddiad Dwyfol. Y mae ffaith, na ellir ei wadu yn awr gan y rhai sydd yn deall y pwnc, fod y bydysawd defnyddiol, cyn belled ac y gall ein llygad a'r drychau ein cludo, yn gynwysedig o luaws dirifedi o gyrph éang, sydd yn hollol uwchlaw ein galluoedd ni i ffurfio unrhyw ddirnadaeth priodol am danynt. Y mae y ffaith rhyfeddol hwn, sydd o fewn cylch tystiolaeth ein synhwyrau, yn dangos nad yw y meddwl dynol yn alluog i ffurfio drychfeddwl rhy aruchel am y bydysawd, neu ddychymygu fod ei drefniad yn fwy gogoneiddus ac ardderchog na'r peth ydyw mewn gwirionedd.*

Ac yn mhellach, nid oes dim llai na'r fath anfeidroedd a gorfawredd yn ymddangos yn briodol i'r drychfeddwl am Fôd anfeidrol ei berfeithderau, ac o dragwyddol barhad. Os addefwn fod y Bôd Dwyfol yn anfeidrol, yn llanw yr eithafion a'i bresenoldeb, pa ham y byddai yn anhawdd genym addef y drychfeddwl o fod ei Hollalluogrwydd mewn arferiad parhaus, trwy y gwagle diderfyn? o blegid y mae y casgliad yn berffaith naturiol, oddiwrth yr ystyriaeth o anfeidrol ddealltwriaeth. Pa un a ymddengys yn fwyaf cyson â'r meddwl am Fôd anfeidrol, ai credu fod ei allu creadigol wedi ei gyfyngu at y ddaear hon, a'r ychydig wrthrychau disglaer sydd yn gwreichioni yn nghromnen y ffurfafen, ynte addef, ar sail ystyriaeth a thebygoliaeth cyffredinol, ei fod wedi dwyn miliynau o fydoedd i fodolaeth—nad yw yr holl filiynau o gysawdau sydd o fewn cylch ein golwg ni, ond fel gwyltyn wrth yr eigion, pan eu cydmarer â'r llu aneirif sydd yn yr éangder anolrheinadwy—a'r holl gynhulliad o hauliau a bydoedd, sydd yn troi o amgylch canolbwnc cyffredinol y bydysawd, a bod y canolbwnc hwnnw, lle y mae Gorsedd Duw wedi ei sefydlu, yn tra rhagori ar yr holl daleithau eraill sydd yn y greadigaeth, o ran maintioli, prydferthwch, ac ardderchogrwydd? Pwy a feiddiai

* Wrth ddisgyn at wrthrychau lleiaf natur, amlygir ffeithiau *i'n golwg*, sydd yn mhell uwchlaw ein dirnadaeth, ac a fyddai yn anghredadwy, ond fel y maent yn cael eu dwyn i gyrhaedd ein synhwyrau. Y mae diferyn o ddwfr, i'r hwn y byddo graddau o wrthrychau hydyfol wedi dylifo, yn cynwys miliynau o greaduriaid byw, gweledig; ac mewn rhai amgylchiadau, lle y byddo y creaduriaid hyn ym dryloew, y mae hyd yn oed eu llygaid, ac ysgogiad eu hymysgaroedd yn weledig. Y mae manylder y llestri gwaed, a holl ffurfiad y fath greaduriaid, mor rhyfeddol, ac annirnadwy, ar un llaw, ag yw maintiolaeth anfeidrol y bydysawd, ar y llaw arall,—a'r cyfan yn dangos fod anfeidroldeb yn ngwaith y Creawîwr ar bob llaw, na bydd galluoedd terfynol byth yn ddigonol i'w cynwys.

gynyg profi, fod y fath ystyriaethau yn gyfeiliornus, yn anmhosibl, neu yn amheilwng o'r Bôd hwnw sydd yn eistedd ar deyrngadair y bydysawd? Ni byddai cynyg y fath brawf yn ddim amgen na gosod terfynau i Hollalluogrwydd—gosod mesurau i weithrediadau yr Hwn y mae “ei ffyrdd yn anolrheinadwy.”

“A ddirnad dyn uwchlaw gweithredoedd Duw?
 Nid anhawdd dim ond sy'n anmhosibl oll.
 Mor hawdd i Dduw oedd galw'r bydoedd maith
 I fod, a chreu y llychyn lleiaf sydd.
 Dywedai'r gair—a genid bydoedd fil,
 Ié, bydoedd fil! Mae lle i filiynau mwy;
 Pa wagle sydd, lle palla'i *Bydded ef?*
 Na feied neb mo'r dyb naturiol hon,
 Pa ham y beïid y fath dybiaeth dwymn?
 Pa'm na fynwesid tyb, dderchafa'n bryd,
 Mewn gwir fawrhad, ar waith y *Gallu mawr.*”
 Pa'm na choleddid mwy, ei deilwng fawl?
 Po mwyaf dreiddio o'i ogoniant pur,
 Ai nid y lleiaf a adewir fyth,
 I dryblith ac i d'wyllwch nos?”

I mae y golygiadau a'r rhesymau hyn yn cael eu cadarnhau, gan y darluniadau uchel am y Duwdod, sydd yn yr Ysgrythyrau Santaidd.—“A alli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? a elli di gael allan yr Hollalluog i berfeithrwydd.” “Efe yw y Goruchaf, yr hwn sydd yn preswylio tragwyddoldeb.”—“Ardderchog yw o nerth.”—“Y mae efe yn preswylio yn y goleuni ni ellir dyfod ato.”—“Mawr yw yr Arglywydd a galluog iawn, a'i fawredd sydd anchwiliadwy; aneirif yw ei ddeall.”—“A fydd dim yn rhy anhawdd i'r Arglywydd?”—“Ni flina ac ni ddifygia Duw tragwyddoldeb, yr Arglywydd, Creawdwr cyrau y ddaear, ni ellir chwilio allan ei synhwyr ef.”—“Y mae efe yn gwneuthur pethau mawrion, anchwiliadwy, a rhyfeddodau heb rifedi.” “Y mae efe yn mesur y nefoedd a'i rychwant, ac yn cynwys llwch y ddaear mewn mesur.” “Trwy air yr Arglywydd y gwnaethpwyd y nefoedd, a'u holl lu hwynt trwy yspryd ei enau.” “Efe a lafarodd, a hwy a grewyd;—Efe a orchymynodd, a hyny a safodd.” “Efe sydd yn estyn y nefoedd o hono ei hun, ac yn dwyn eu holl lu hwynt allan wrth rifedi.” “Wele, dyma *ranau* ei ffyrdd ef, ond mor fychan yw yr hyn a wyddom ni am dano! ond pwy a ddeall daranau ei gadernid ef.” “Wele y nefoedd,

ie, nefoedd y nefoedd, ni allant ei gynwys ef!" " Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef." " Eiddo ti, O Arglwydd, yw y mawredd, y gogoniant, a'r gallu, o blegid eiddot yw pob peth yn y nefoedd a'r ddaear, a thi a dderchafwyd goruwch pawb oll." " Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd ydynt eiddo yr Arglwydd." " Yr Arglwydd a *baratodd ei orseddfa yn y nefoedd*, a'i frenhiniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth." " Mi a fynegaf am *anrhyydedd gogoneddus dy allu*, ac am dy *weithredoedd rhyfeddol*." " Bendigedig fyddo dy enw gogoneddus, yr hwn wyt dderchafedig uwchlaw pob bendith a mawl." " Tydi, ie, tydi yn unig, wyt Arglwydd ; ti a wnaethost y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, a'u holl lu hwynt, tydi a'u cedwi hwynt oll, a hwy a'th addolant ti." " Pwy a draetha weithredoedd nerthol yr Arglwydd ? pwy a all osod allan ei *holl foliant* ? " " Am yr Hollalluog, ni allwn ni ei gael ef." " Y mae efe yn ardderchog o nerth, a'i ogoniant sydd goruwch y nefoedd a'r ddaear."

Y mae y fath ddarluniadau ardderchog o'r Bôd Dwyfol, sydd yn wasgaredig trwy amrywiol ranau Datguddiad, yn ein harwain i ffurfio y golygiadau aruchelaf am ei allu creadigol, ac yn awgrymu yn amlwg, fod yn anmhosibl i'r creadur uwchaf ei ddeall, lunio drychfeddyliau éangach am fawredd ei ddybenion a'i weithredoedd, na'r hyn ydynt mewn gwirionedd.

Mewn gair, er y dichon nad yw amryw o'r golygiadau uchod yn perffaith gytuno âg ymddangosiad y ffeithiau a welir yn y bydysawd,—er hyny, dylid eu hystyried, a'u dwyn yn gynnefin i'r meddwl, gan eu bod yn agor maes o fyfyrnod mor hynod o'n blaen ; a hyny, yn gymaint ac nad allwn byth chwyddo ein syniadau dros derfynau ymerodraeth Jehovah, na thybio yn wahanol iawn am bethau i'r hyn ydynt mewn gwirionedd. Y maent yn ffurfio maes eglur o fyfyrnod i'r meddwl sefydlu arno, pan y llunier y meddylddrychau uchelaf am wrthrych ein haddoliad. Gellid gosod hyn i lawr, fel egwyddor na ddylid byth ei hanghofio mewn Duwinyddiaeth, —fod *ein dirnadaeth am fawredd Duw, yn berffaith yr un fath, neu o leiaf, yn gyfagos i'n dirnadaeth am fawredd ac éangder ei weithredoedd yn y greadigaeth*. Yr ydym oll yn addef fod y Duwdod yn anfeidrol, mewn perthynas i éangder yn gystal a pharhad. Ond nid yw anfeidrol wagle, neu anfeidrol barhad, o'u hystyried yn briodol, yn cyflwyno drychfeddyliau eglur i

ni, er ein harwain i ffurfio meddyliau amlwg am Dduw, neu unrhyw fodau eraill. Yr unig fod y gall dyn éangu ei olygiadau, a derchafu ei syniadau am yr anfeidrol Jehofah, ydyw, pan yr ystyrio y gwagle, yn ei berthynas a'r lluaws dirif o wrthrychau sydd ynddo, a phan yr ystyrio barhad trawgyddol, mewn cysylltiad â dilyniad gogoneddus o olygfeydd a gweithrediadau sydd yn cael eu cwblhau.

Os addefir y golygiadau hyn, yna, o ganlyniad, rhaid fod y dyn y byddo ei olygiadau wedi eu cyfyngu o fewn terfynau ychydig ganoedd o filltiroedd, neu o fewn cylch y ddaear a breswyliwn, a'i feddyliau mor gyfyng a hyny am y Duwdod anfeidrol ei hun. O blegid nid oes genym ni yr un mesurau naturiol ar briodoleddau Duw, ond y rhai a gasglwn oddiwrth nifer ac éangder ei weithredoedd. Pan y cynhygiom feddwl am dano, heb gynhorhwy ei weithredoedd gweledig, y mae ein meddyliau yn rhedeg i ddyryswn, ac yn suddo mewn gwagader. Ac fel yr ydym yn deall fod gweithredoedd Duw yn anolrheiniadwy, ac o bwysigrwydd dirfawr yn eu gweithrediadau, y mae o'r pwys mwyaf i ni, mewn ystyr grefyddol, fod i'n rheddlwl ymarfer â gwibdeithio trwy éangder creadigaeth,—i olrhain, oddiwrth debygoliaeth i'r pethau a adwaenom, am faintoli, trefniad, ac ardderchogrwydd y gwrthrychau sydd allan o gylch ein golygiad,—i ychwanegu mawredd at fawredd, cysawd at gysawd, ac ysgogiad at ysgogiad, hyd nes y byddo ein meddyliau wedi eu gorlenwi a'r drychfeddwl goruchel. Ac er y gallwn yn achlysurol, lunio syniadau anghywir a chyfeiliornus, wrth fyfyrion ar wrthrychau neillduol, eto, ni raid i ni ofni, y rhedwn byth dros y nôd, o ran rhif, maint, ac amrywiaeth, trwy holl naturiaeth yn gyffredinol; oddigerth i ni dybied y "gall dyn ddirlnad *uwchlau* gweithredoedd Duw." Y mae y fath ddilyniad o fyfyrddodau yn sicr o duellu at éangu a derchafu y meddwl, a dwyn y myfyrdod i agwedd briodol; a thueddu yn naturiol i godi awydd yn y meddwl, am weled amlygadau disgleiriach o fawrhydi y Creawdwr yn y byd trawgyddol.

Gallwn gasglu oddiwrth yr hyn a fynegwyd yn awr, am nifer a mawredd y gwrthrychau sydd yn debyg o gael ei gosod yn destynau myfyrdod y gwaredigion yn y nef—mai prif wrthrychau myfyrdod y creaduriaid nefol, a fydd *Hanesiaeth*

ac *Athroniaeth*. Yn nosparth hanesiaeth, gellid cynwys yr holl fanylion a arddangosir iddynt mewn perthynas i ddechreuad, cynydd, a chwblhad prynedigaeth dyn, a'r hysbysiaeth a dderbyniant am olygfeydd naturiol a moesol, ac amgylchiadau mwyaf cyhoeddus rhagluniaeth yn nhrefniadau bydoedd eraill.

Yn gymaint a bod yn amlwg, fod defnydd wedi ei greu er mwyn creaduriaid synhwyrgar a deallol, y mae yn dra thebygol, os nad yn sicr, fod poblogiad y bydoedd â chreaduriaid rhesymol wedi ei fwriadu i arddangos *cymeriad moesol* y Creawdwr, yn ei oruchwyliaeth rhagluniaethol, ac yn holl ddilyniant ei weinyddiadau moesol, tu ag at y bydoedd lluosog a'r creaduriaid amrywiaethol, sydd o fewn ei ymerodraeth fawr. Ymddengys fod ei holl briodoleddau eraill, ac yn neillduol, ei allu a'i wybodaeth, wedi eu harfer i wasanaethu i'r dyben mawr hwn, ac er gwasgaru dedwyddwch drwy y bydoedd oll. Gan hyny, cyn belled ac y mae ffeithiau, mewn perthynas i'w lywodraeth foesol, mewn bydoedd eraill, yn hysbys i'r gwaredigion yn y nef, cyn belled a hyny, y bydd eu golygiadau am ei briodoleddau moesol, ac am egwyddorion ei lywodraeth ar y byd, yn cael eu derchafu a'u héangu. Yn y darganfyddiadau a dichon gael eu hamlygu yn nilyniad oesau, ar y gwrthrych hwn, yr arddangosir *tragwyddol uniondeb Duw*, a'i *gyfiaunder at-daliadol*, ei "dyner drugaredd," a'i *haelfrydedd diderfyn*, a byddant yn destynau i ryfeddu a derchafu y meddwl, uwchlaw yr hyn a wna mawredd ei weithredoedd naturiol, a chreu parch at ragoriaethau Llywydd Goruchel y byd. Os ydym yn ystyried olrhain arferion a threfniadau cywrain y gwybed yn hyfrydwch—os teimlwn yn ddymunol i ddysgu gwybod hanes y dygwyddiadau a gyfarfu pob cenedl a llwyth o ddynolryw, er dechreuad y byd, ac yn neillduol, y rhai a berthynent i'n rhieni cyntaf yn mharadwys, gwedi eu hesgymundod oddi yno, hyd amser y *cynddiluwiaid*, at ddeg llwyth Israel, at Gristionogion y canriffoedd cyntaf, at y Waldensiaid, yr Assyriaid, y Babiloniaid, ac Indiaid yr Amerig,—mor hyfryd a dymunol, a raid fod dysgu hanes angylion, tywysogaethau, ac awdurdodau; a dyfod yn gydnabyddus a'r prif amgylchiadau a ddygwyddasant yn mysg bodau uwch eu graddau, ac amrywiol eu naturiaethau, gwasgaredig trwy ddeng mil o fydoedd! Er mor fawr a rhyfeddol ydyw hanes ein byd ni, a phrynedigaeth dynolryw; eto, dichon y gall golygiadau llawer rhyfeddach gael eu harddangos yn y

dygwyddiadau a gymer le yn y bythofyd mawr. "Y mae y dydd yn dyfod" (medd un ysgrifenydd enwog diweddar,*) pan y bydd yr holl hanes rhyfeddol hwn, yn wrthrych i edrych yn ol ato, gan lygad coffadwriaeth, ac yr edrychir arno, fel un amgylchiad yn hanes helaeth creadigaeth; a chyda'r holl egluriad, a'r holl ogoniant a deifl ar gymeriad y Duwdod, ac ei gwelir fel gris yn nghyflawniad ei ddybenion; ac er meithed y gall yr amser ymddangos, o weithred gyntaf ein prynedigaeth hyd ei gwbl gyflawniad, ac er mor agos a neillduol y gallwn ystyried sylw Duw arno, gwelwn ei fod wedi rhoddi lle digonol iddo ef, at ei holl drefniadau, ar uchelfanau tragwyddoldeb, nad ydyw ond un o'r darpariadau sydd yn llanw hanes goruchwyliaeth ddiddiwedd."

Yn nosparth *Athroniaeth* dichon y cynwysir yr amlygiadau uchel a ddangosir am éangder, maintioli, ysgogiadau, trefniad, golygfeyddd, trigolion, a ffurfiad cyffredinol cysawdau eraill, a rheolaeth gyffredinol y bydysawd dan lywodraeth yr Hollalluog. Ar y testynau hyn a'r canghenau a godant yn naturiol oddiwrthynt, bydd meddyliau y gwaredigion o'r byd hwn yn canfod lle digonol i arfer eu galluoedd, a thynant fwynhad diorphwys a diddiwedd oddiwrth eu holrheiniadau.

Gellid profi mai y gwrthrychau hyn a ffurfiant orchwylion dynion cadwedig a chreaduriaid rhesymol eraill, mewn sefyllfa ddyfodol, oddiwrth y darluniadau a rydd gair Duw am eu gwasanaeth yn awr. Y mae yr angylion yn cael eu gosod allan yn Llyfr y Datguddiad, dan y gydmariaeth o "greaduriaid byw yn llawn llygaid," a'r "henuriaid," neu gynnrychiolwyr eglwys y gwaredigion, fel yn syrthio i lawr ger bron Gorsedd Duw, ac yn dywedyd, "Teilwng wyt ti, O Arglywydd, i dderbyn gogoniant, anrhynedd, a gallu, o blegid ti a greaist peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent ac y crewyd hwynt." Yma, y mae gweithredoedd naturiol Duw yn cael eu dal allan fel *sail* neu *reswm* am ddiolchgarwch y llu nefol, ac y mae yr ymadroddion yn cynwys yn eglur, mai y gweithredoedd hyn yw testyn eu myfyrdod, eu bod wedi gweled amlygiadau disglaer o'r perffeithderau Dwyfol yn eu ffurfiad a'u trefniad, eu bod yn cael eu hadloni â golygiadau am y gogoniant Dwyfol a amlygir yn y gweithredoedd hyn,—a bod eu calonau yn llawn o fawrhad ac addoliad, ac yn wastadol yn barod i dori

allan i gydnabod “ gogoniant, anrhyydedd, a gallu ” i'r Hwn a ddygodd y fath luaws o greaduriaid i fodolaeth. Mewn golgyfa arall a ddangosir yn yr un llyfr, y mae y saint sydd wedi dyfod allan o'r cystudd mawr, ac wedi cael buddygoliaeth ar eu holl elynion, yn cael eu gosod allan, â thelynau Duw yn eu dwylaw, yn derchafu moliant iddo yn y gân fuddygol hon —“ Mawr a rhyfedd yw dy weithredoedd, O Arglwydd Dduw Hollalluog—cywir a chyflawn yw dy ffyrdd, ti Frenhin y saint.” Gellid ystyried y rhan gyntaf o'r gân hon fel ffrwyth eu myfyrdodau ar adeilad fawreddog y bydysawd, a'r Hollalluogrwydd a amlygir yn ei ysgogiadau, a'r rhan ddiweddaef fel ffrwyth eu myfyrdod a'u hymchwiliadau ar lywodraeth foesol Duw, yn ei drefniadau rhagluniaethol, tuag at ddynion ac angylion, a thuag at yr holl fydoedd y dichon i'w trefniant moesol gael ei amlygu i'w golwg. O blegid, y mae geiriau y gân yn dangos yn amlwg eu bod wedi cyrhaedd y fath olygiadau éang am weithredoedd Duw, ag sydd yn eu cymhell i ddatgan eu bod yn “ fawr a rhyfedd,” a'u bod wedi cyrhaedd y fath olygiadau eglur am y goruchwyliaethau Dwyfol tuag at greaduriaid rhesymol y byd ag sydd yn eu galluogi i ganfod fod ffyrdd Brenhin y nef yn “ gywir a chyflawn.”

Gallwn ddysgu oddiwrth yr hyn a ddywedwyd yn awr, pa beth fydd yn ffurfio un ran o drueni y drygionus yn y byd a ddaw. Fel y bydd un ran o ddedwyddwch y cyflawn yn cynwysedig mewn “ gweled Duw megis ac y mae,” hyny yw, edrych ar y gogoniant Dwyfol, fel y mae wedi ei amlygu yn ei weithredoedd naturiol a moesol yn y bydysawd,—felly, yn ol pob tebygolrwydd, y mae yn ffurfio un defnydd chwerw yn rhan yr anngyflawnion; y byddant yn cael eu dêol yn dragwyddol allan o olygfeydd dynunol gogoniant y Creawdwr, fel y mae yn cael ei amlygu yn nhrefniad rhyfeddol holl gysawd naturiaeth. Gwedi eu caethiwo i un gongl druenus o'r bydysawd, wedi ei gylchynu âg awyrgylch tawchus, neu gynhulliad o gymylau duon, ac wedi eu hesgymuno allan o bob cymdeithas âg ardaloedd perffeithrwydd moesol, a'u hatal rhag myfyrio ar olygfeydd ardderchog ymerodraeth y Creawdwr. Y mae y drychfeddwyl yn cael ei gadarnhau yn ymadroddion yr Ysgrythyr, lle y maent yn cael eu gosod allan wedi eu dêol ymaith o'r “ Jerusalem newydd,” a'u “ taflu i'r tywyllwch eithaf,” a'u cadw yn nghadwyni tywyllwch, oesau ar ol oesau. Ac ni all dim fod yn fwy poeniydiol i feddyliau

wedi eu cynysgaeddu â galluoedd éang, na'r ystyriaeth o fod bythol wedi eu hatal rhag eu harfer mewn myfyrdod ar wrthrychau gogoneddus, a wyddant sydd mewn bod, ond na allant syllu arnynt, na disgwyl unrhyw hysbysiad hyfryd yn eu cylch.

Os un o ddybenion cospedigaeth ddyfodol ydyw dwyn dynion yn ystyriol o'u ffolineb a'u hangharedigrwydd, ac am y trugareddau a'r breintiau a gamarferasant; y mae yn debygol y bydd pob peth wedi ei drefnu yn y byd a'r gymydogeth y byddant wedi eu cyfyngu iddo, yn y fath fodd ag y dygir eu hanghofion am y cysuron a gamddefnyddiasant, a'r daioni Dwyfol a ddirmygasant, i'w dwyn i brofi teimladau gwahanol i'r hyn a deimlent dan drefniadau haelfrydig y cyflwr presenol. Er engraipht, y mae yn nhrefniad naturiol pob un o'r synhwyrau yn bresenol—pob rhan o'r corph, a phob ysgogiad perthynol iddo, a dylanwad yr haul, yr awyrgylch, a phob rhan o natur a effeithia arnom—duedd i gyflwyno hyfrydwch i'r teimlad. Ond yn y byd hwnnw, bydd pob gweithrediad o'r fath yn holol wahanol o ran yr effaith a adawant ar greaduriaid synhwyrgar. Y mae yn perthyn i'r synhwyr o *deimlad* yn awr, filoedd o gyffröadau a barant hyfrydwch; ond *yno*, hydd pob gwrthrych a gyffyrdder yn dwyn y teimlad mwyaf *poenus*. *Yma*, y mae yr amrywiaeth lliwiau sydd yn addurno wyneb natur, yn rhoddi hyfrydwch i'r llygad a'r dychymyg; ond *yno* bydd yr holl wrthrychau erchyll, yn rhoddi golwg alarus ar bob peth o amgylch. *Yma*, y mae y beroriaeth hyfrydaf yn derchafu ac yn lloni y galon, ond *yno*, nid oes dim i'w glywed ond seiniau aflafar "wylofain a rhincian danedd." Gwedi bod yn anniolchgar am y lluaws bendithion a dderbyniasant yn y byd hwn oddiwrth Roddwr haelionus pob daioni, bydd trigolion y lle ofnadwy hwnnw yn gwled eu pechod yn eu cosp wrth gael eu hatal oddiwrth bob hyfrydwch ag a all weinyddu i'r teimlad.

Mewn perthynas i'w *sefyllfa foesol*, bydd effeithiau cyffelyb yn cael eu hamlygu. *Yma*, yr oeddynt yn cashau cymdeithas y rhai cyflawn, ac yn earu ymgymysgu â gweithredwyr an-wiredd, yn eu hynfydrwydd a'u troseddau; *yno*, byddant wedi eu dêol yn dragwyddol o gymdeithas y doeth a'r haelfrydig, ac yn teimlo yr effeithiau chwerw o gael eu cadwyno yn wastadol yn mhllith y dyhirod a fydd yn boenydwyr iddynt byth. *Yma*, yr oeddynt yn ymddigrifo mewn rhoddi llawn

rwysg i'w nwydau a'u chwaeth lygredig; ond *yno*, teimlant yr effeithiau dychrynllyd o lawn arferiad y fath nwydau a chwantau, lle na bydd yr un ffrwyn arnynt gan reswm, na chan awdurdod y gyfraith Dwyfol. Os ychwanegwn at y ffynhonau hyn o alar a chwerwder, yr ystyriaeth y bydd eu meddyliau wedi eu llanw âg egwyddorion malais, llid, casineb, dialedd, a phob elfen arall o ddrygioni, oedd yn llywodraethu ar eu heneidiau tra yr oeddynt yn y byd hwn, yn chwyddo yn ddilywodraeth yn mlaen,—gallwn ffurfio y fath ddychymyg am drueni dyfodol ag sydd yn gwirioneddoli yr holl ymadroddion cydmariaethol â pha rai y maent yn cael eu darlunio yn y Datguddiad Dwyfol, yn annibynol ar bob cosp ychwanegol a gyflwynir yn *uniongyrchol* oddiwrth Dduw. Tra y gadawa hwy i “*fwyta o ffrwyth eu ffyrdd eu hunain, ac i'w llenwi â'u dychymygion eu hunain,*” bydd eu cospedigaeth yn ofnadwy, ac yn mhell uwchlaw pob math o drueni cysylltiedig â sefyllfa bresenol y byd moesol.

Ar y llaw arall, y mae gan yr ystyriaeth am yr amrywiol ffrydiau o ddedwyddwch, at y rhai y cyfeiriwyd ein sylw, duedd cryf i argraphu ar feddyliau y saint syniadau bywiog am natur *annherfynol* Dwyfol haelfrydedd, ac am “gariad Duw tuag at y Gwaredigion.” Mewn cysylltiad â'r fath olygiadau éang am briodoleddau a llywodraeth Duw, yn benaf, y mae cariad Duw tuag at y gwaredigion yn ymddangos uwchlaw pob deall, o blegid y mae yn eu dwyn at olygfa sydd, nid yn unig yn cyfateb i dragwyddol barhad; ond hefyd, sydd yn ddiderfyn o ran cylch gwybodaeth, dedwyddwch, a gogoniant. Gan hyny, yn nghanol gorchwylion eraill y sefyllfa ddyfodol, ni bydd iddynt byth anngofio eu rhwymedigaeth i ras a thrugaredd, heb eu haeddu, a achubodd eu heneidiau o ddisstryw, ond una â'u holl olrheiniadau aruchel—gydnabyddiad o'r “fendith, a'r anrhyydedd, y gogoniant, a'r gallu, i'r Hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen, yn dragywydd.”

Gellid mynegi sylwedd yr hyn a nodais ar y dosparth hwn o'm testyn, yn fyr, yn y crynodeb canlynol:—

Bydd y gwaredigion yn y nef yn mwynhau dedwyddwch gwastadol—bydd y dedwyddwch hwnw yn codi oddiar eu cyflawn ryddhad oddiwrth bechod, a chyrhaeddiad perffeithrwydd moesol—bydd eu galluoedd adferedig yn cael eu harfer i fyfyrion ar y gogoniant Dwyfol—y mae y gogoniant Dwyfol yn gynwysedig mewn amlygiad o'r perffeithderau Dwyfol—bydd

yr amlygiadau naturiol o'r perffeithderau hyn, yn cael eu gwneud yn ngweithredoedd y greadigaeth (yr unig ffordd ag y gellir eu hamlygu) yn y creaduriaid deallgar sydd yn poblogi y byd naturiol, ac yn eu trefniadau, eu graddau, eu hanes, a'u sefyllfa bresenol—yn amrywiaeth y golygfeydd a arddengys trigfanau creaduriaid rhesymol—yn y drefn foesol sydd yn eu mysg—ac yn amrywiol oruchwyliaethau Dwyfol ragluniaeth, mewn perthynas i'r bydoedd a'r graddau o greaduriaid sydd ynddynt.

Mewn perthynas i ddedwyddwch y nef, y mae yr Ysgrythyr yn ein dysgu trwy osodiadau cyffredinol, ac awgrymiadau am ei natur, ei briodoliaethau, a'i wrthrychau, yn nghyd a'r cymhwysderau gofynol er ei fwynhau. Y mae y darganfyddiadau a wnaed trwy wyddoriaeth yn y greadigaeth weledig, yn ffurfio cynnifer o egluriadau ar ymadroddion y Bibl am y testyn, ac y mae yn ddiau mai ein dyledswydd ydyw arfer ein meddyliau, ac éangu ein dirnadaeth am y dedwyddwch dyfodol, trwy bob amgylchiad egluriadol a ellir ei olrhain, yn ngolygfa natur, ar a osododd yr Hollalluog ger ein bron. O blegid rhaid fod gair a gweithredoedd Duw, dan bob amgylchiad, mewn perffaith gysondeb â'u gilydd, ac yn adlewyrchu goleuni, y naill at y llall. Ni all fod dim sydd o fewn y greadigaeth weledig, yn gwrthdar yn erbyn unrhyw osodiad sydd yn y Datguddiad; ond yn hollol wahanol, rhaid eu bod yn cadarnhau eu gilydd. Ac fel yr ydym yn canfod y cynhulliad o wrthrychau rhyfeddol, sydd yn tueddu i dderchafu ein golygiadau am y Bôd Goruchaf, ac am natur aruchel ac amrywiaethol y dedwyddwch dyfodol—y mae yn gweddu i ni olrhain y syniadau hyny, ac y mae tebygoliaeth Natur a Datguddiad yn eu cynyg i'n meddwl, er derchafu ein golygiadau am y dedwyddwch niefel, ac i'n parotoi at fyfyrddodau éangach yn y byd hwnnw, lle y bydd yr holl rwystrau naturiol a moesol sydd yn awr yn atal ein hymchwiliadau, ac yn tywyllu ein golygiadau, wedi eu symud ymaith yn llwyr ac am byth.

Oddiwrth yr oll a fynegwyd ar y dosparth hwn o'n testyn, gallwn ddysgu am *fawr werth enaid dyn, a'r pwysfawredd a ddylid osod ar ein tragwyddol dynged*. O! y fath gysgod yr ymddengys y bywyd presenol, wrth ei gydmaru â golygfeydd y byd tragwyddol! Y fath begwn bychan yr ymddengys treigliadau amser, mewn cydmariaeth â thragwyddoldeb di-darfyn! Y fath olygfa derfynol y mae y byd hwn, a'i holl

ogoniant, yn ei ddangos, wrth ei gyferbynu âg eängder a gogoniant yr Ymerodraeth hono sydd yn ymestyn i anfeidredd, ac i barhau yn dragwyd! Ac, a ydyw dyn i gael ei drosglwyddo i ardaloedd eraill o'r bydysawd, i ymgymysgu â thrigolion bydoedd eraill, ac i ymfodoli trwy ddiderfyn barhad? Y fath egwyddor ardderchog yr ymddengys meddwl dyn, pan yr ystyriom fel y mae wedi ei gymhwys i ddilyn y fath fyfyriadau amrywiaethol, ac i wneud y fath ymchwiliadau er cyrhaedd pegwn uwchaf Perffeithrwydd Moesol, ac i ar-dremio dros ymerodraethau annherfynol yr Hollalluog tra y treiglo oesau tragwyddol yn mlaen! Mor bwysig, gan hyny, y dylid ystyried pob peth sydd yn gysylltiedig â golygfeydd ein tragwyddol dynged! Os addefir y gwirioneddau hyn, yna y mae rheswm a synhwyd cyffredin yn datgan, na all gwrthrych pwysicach byth feddianu calon dyn. Y mae ynddo y fath orddyfnder o bwysigrwydd, ac y mae wedi ei gysylltu a'r fath ganlyniadau mawreddog a gogoneddus, fel y mae yn rhaid fod dyn yn holol ddideimlad, fel y marw, at bob ystyriaeth ardderchog, *cyn y gall fod yn gwbl ddiofal yn ei gylch.*

Pe na buasai ond *tебыголрwydd* yn unig, ar y gred, o fod dyn yn anfarwol, a bod y golygfeydd y cyfeiriais atynt yn bosibl, dylai hyny gyffroi yr ymofyniadau mwyaf pryerus ynom, a deffro holl alluoedd ein heneidiau. O blegid ein dyledswydd a'n lles mwyaf ydyw ymofyn am oleuni a boddlonrwydd, am bwnc, ar yr hwn y mae ein cysur amserol a'n dedwyddwch tragwyddol yn dibynu. Ond os ydyw Goleuni Natur, a gosodiadau Datguddiad yn cyduno i *arddlangos* tragwyddol dynged dynolryw, ni all fod dim yn fwy ynfyd i neb, na chellwair gyda'i leshad tragwyddol, neu gynyg pob dyfais, neu arfer pob gwrthrych dibwys, a fyddo yn dueddol i droi y meddwl ymaith oddiwrth destyn mor ddifrifol. Eto, pa mor fynych yr ydym yn canfod yn mysg llawer dosparth o ddynion, fel y mae yr achosion mwyaf dibwys yn cael mwy o le yn y meddwl na'r golygfeydd o drueni neu ddedwyddwch sydd yn eu haros tu draw i'r bedd. Y mae y pleserau gweigion a geir gyda chŵn a meirch, y dawns a'r chwareudai; tŷru ychydig bunoedd neu sylltau, chwareu damwain neu gardiau, yn llanw meddyliau miloedd; sydd yn proffesu eu hunain yn greaduriaid rhesymol, tra y gwrthodant dreulio *un awr ddifrifol*, mewn myfyrdod ar dynged eu hysprydoedd anfarwol, pan

y byddo eu cyrph wedi syrthio i'r bedd. Ie, cymaint ydyw y difaterwch a'r *dideimladrwydd*, a ddangosir at y pwnc hwn gan ddisparthau neillduol mewn cymdeithas, fel y mae yn cael ei ystyried yn beth an nefodgar, ac mewn rhai amgylchiadau yn sarhad, ei ddwyn yn destyn ymddiddan mewn cyfeillach. "Y mae y difaterwch a ddangosant, mewn pwnc sydd yn cynnwys eu bodolaeth, eu tragwyddoldeb, a'u cwbl oll, (medd un ysgrifenydd Ffrengig nerthol,) y fath, fel y mae yn cyffroi fy eiddigedd, yn hytrach na'm tosturi. Y mae yn rhyfeddol. Y mae yn echrydus. Y mae yn wrthun. Nid wyf yn dywedyd hyn oddiar zel orphwyllog mewn duwiolfrydedd dall. Ond yn y gwrthwyneb, yr wyf yn sierhau, y dylai hunan gariad, hunan les, a'r gradd lleiaf o oleuni rheswm, godi y syniadau hyn ynom ; ac nid oes eisiau ond galluoedd cyffredin dyn at hyn yma. Nid oes eisiau ond ychydig o ystyriaeth, er dangos nad oes yma ddim gwir hyfrydwch sylweddol ; nad yw ein pleserau ond gwagedd, fod trallodion bywyd yn afrifed ; wedi y cyfan, y bydd angau, yr hwn sydd yn ein bygwth bob moment, yn mhen ychydig o flynyddoedd, ac efallai, ychydig ddyddiau, yn ein gosod mewn cyflwr o dragwyddol ddedwyddwch, neu drueni, neu ddiddymiant."

Gan hynny, dyledswydd benodol pob dyn, sydd yn gwneud rhyw broffes o gallineb a rhesymoldeb ydyw, ymdrechu dwyn ei feddwl dan argraph o argyhoeddiad, am wirioneddolrwydd byd dyfodol anweledig, ac ystyried ei bwysigrwydd, a myfyrio yn ngoleuni rheswm a datguddiad, ar y golygfeydd uchel ac ardderchog a ragddengys. Tra yr arhoso unrhyw amheuaeth yn y meddwl mewn perthynas i'r testyn hwn, ni ddylid gor-phwys nes ei symud ymaith. Dylid olrhain pob llwybr ac y byddo goleuni a hysbysiaeth i'w gael ynddo ; dylid chwilio gyda'r un egni ac y chwilia y cybydd am gyfoeth ; ac uwch-law pob peth, dylid myfyrio, gyda'r sylw a'r ymostyngiad mwyaf, ar y datguddiad a gynwysir yn yr Ysgrythyrau Sant-aidd, gyda gweddi daear ar Dduw am oleuni ac arweiniad. Ac os gwneir y fath gais gyda pharch calon, ac yspryd duwiolfrydig, yn nghyd a phenderfyniad meddwl, bydd i bob amheuaeth a dywyllai y meddwl yn flaenorol, gael ei chwalu ymaith yn raddol, fel cysgodion nos o flaen goleuni haul. "Os gwaedi ar ol gwybodaeth, os cyfodi dy lef am ddeall, os ceisi hi fel arian, os chwili am dani fel am drysorau cuddiedig—yna cei ddeall ofn yr Arglwydd, ac y cei wybodaeth am Dduw.

Canys yr Arglwydd sydd yn rhoddi doethineb, allan o'i enau ef y mae gwybodaeth a deall yn dyfod. Yn dy holl ffyrrd, cydnebydd ef; ac efe a hyfforddia dy lwybrau. Yna y tŷr dy oleuni allan fel y wawr, a'th dywyllwch fydd fel haner dydd."

Mewn gair, os ydym wedi ein cwbl argyhoeddi am ein perthynas â byd tragicydol, ein hymdrehch beunyddiol a fydd i feithrin y teimladau a'r rhinweddau nefol hynny, yn nghyd a'r cyfryw ymarferiadau a'n parotôa at fwynderau y sefyllfa nefol. Oblgid, "heb santeiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd," a sicrheir i ni, "nad â dim aflen i mewn trwy byrth y Jerusalem Newydd," ac nad â lladron, na chribddeilwyr, na chybyddion, na gorthrymwyr, na meddwon, nac eilunaddolwyr, i mewn i deyrnas Dduw."

RHAN IV.

AR Y CYMHWYSDERAU MOESOL GOFYNOL ER MWYNHAU
DEDWYDDWCH Y BYD DYFODOL.

NID oes ond odid neb a addefa athrawiaeth anfarwoldeb dyn, nad yw yn meithrin rhyw radd o obaith, y derbynir ef, i fyd dedwyddach, pan yr ehedo ei yspryd ymaith o'r ddaear hon. Y mae hyd yn oed y dyn bydol, a'r halogedig a'r afan, er maint a fyddo eu halogrwydd, a gwrthwynebiad eu serchiadau i Gyfraith Duw, a dyledswyddau bywyd Cristionogol, yn fynych yn cysuro eu hunain, yn nghanol eu halogrwydd, a'u disgwyliadau ofer, na bydd i Greawdwr Holl-drugarog, oddef iddynt, yn y diwedd, suddo i drueni; ond y bydd iddo dosturio wrth eu gwendid a'u ffoledd, a'u derbyn wedi marw, i lawenydd y nef. Ond y mae y fath obaith yn codi oddiar anwybodaeth am gymeriad Duw, ac am yr hyn y mae gwir ddedwyddwch yn gynwysedig ynddo, ac oddiwrth olygiadau cyfeiliornus am arferion y sefyllfa ddyfodol, a natur y mwynhad sydd ynddo. O blegid, mewn trefn i fwynhau dedwyddwch, mewn unrhyw sefyllfa neu unrhyw ardal o'r bydysawd, rhaid fod y meddwl wedi ei gyfaddasu at y gymdeithas, y myfyrion, a'r gorchwylion priodol i'r lle, yn nghyd a dymriad gwresog am gyfranogiad o'r mwynhad a fyddo yno.

Pa blesar a allai cybydd ei gael, yr hwn y mae ei feddwl wedi ei lanw ag awydd i gasglu golud, mewn byd, lle nad oes nac aur, nac arian, nac unrhyw wrthrych arall, i drachwant ei gyrhaedd? Pa hyfrydwch a allai dyn gael, yr hwn y byddai ei brif hyfrydwch gyda'r cŵn a'r meirch, y gwleddoedd a'r gloddest, mewn gwlad, lle y byddo y fath bethau wedi eu tragwyddol ddeol o honi? A ellid tybied y byddai i'r rhai, ac y mae eu pleser penaf yn awr mewn darllen Newyddiant a Chwedleuon, ac mewn gwrandaw ar serthedd a hustyng, deimlo unrhyw fwyniant mewn byd, lle nad oes dim ond gwir sylweddau o'i fewn, a'r man y mae y trigolion wedi ymuno yn

rhwymau y serchiadau puraf?—neu fod y cyfryw, nad yw eu meddwl byth yn codi uwchlaw pleserau chwareu gwystlon a chardiau, a chabledd, a dirmyg, i deimlo unrhyw chwaeth at fwyniant pur, myfyrdodau aruchel, a moliant gwresog trigolion y nef? Rhaid fyddai i'r holl drefniadau nefol gael eu newid, a'r angylion, yr archangylion, a'r gwaredigion, gael eu deol o'u trigfanau, cyn y gallai dynion o'r fath gymeriad byth gael mwyniant cyffelyb i'r hyn a deimlent yn flaenorol. Pe byddai iddynt gael eu derbyn i drigfanau dedwyddwch, eto byddai eu siomedigaeth yn ddirfawr; a theimlent eu hunain mewn sefyllfa gyffelyb i'r barbariad gwylt, pe byddai iddo gael ei arwain i blith cynhulleidfa o dywysogion a gwyr urddasol. Ni chanfyddent ddim cytunol a'u harferion blaenorol; teimlent wrthwnebiad mewnol i holl wasanaeth pur a santiadd y lle, a buan y dymunent ehedeg ymaith i ryw ardaloedd, ac at gydymdeithion mwy cyfaddas at eu golygiadau a'u serchiadau halogedig. O blegid deddf y Nef ydyw,—a deddf sydd yn sylfaenedig ar y cyfreithiau moesol sydd yn llywyddu yr holl greadigaeth resymol, ac fel deddf y Mediaid a'r Persiaid, yr hon ni newidir,—mai "*Heb santeiddrwydd, ni chaiff neb weled yr Arglwydd*,"—ac "nad a neb aflan, nac yn gwneuthur anwired, na chelwyddwyr i mewn trwy y pyrth i'r Jerusalem Newydd."

Y mae sylfaen dedwyddwch yn y byd a ddaw, yn gwbl yr un peth ag sydd yn ffurio sail ein dedwyddwch yn y byd hwn. Pa mor uchel bynag y byddo dyn wedi ei osod o ran ei sefyllfa, pa faint bynag a feddiano o gyfoeth, a pha mor wyched bynag y byddo ei radd a'i osgorff; ni all fwynhau unrhyw ddedwyddwch *sylweddol*, tra y parhao yn gaethwas i'w nwydau a'i serchiadau llygredig; a thra y byddo balchder, cenfigen, a dialedd yn cael y llywodraeth uwchaf ar ei galon. Tra y byddo yn amddifad o gariad aruchel at Dduw, ac o'r rhinweddau hyny sydd yn sylfaen pob gweithrediad moesol, rhaid y bydd y meddwl yn gwbl ddieithr i wir ddedwyddwch, ac i'r golygiadau éang, a'r teimladau dymunol hyny sydd yn derchafu yr enaid uwchlaw pleserau cnawdol, a gofidion a siomedigaeth dibwys y bywyd hwn.

Gellid egluro y gosodiadau hyn, pe byddai yn ofynol, drwy luaws o ffeithiau cysylltiedig â golygfeydd moesol cymdeithas ddynol. O ba le y tardd yr anesmwythder hwnw a deimlir yn y byd rhwysgfawr, yn absenoldeb dawns, gloddest, a di-

fyrwch y chwareudai? O ba le y tardd yr ymrysonau cartrefol, a'r cynhenau teuluaid sydd yn mysg pob graddau, yn chwerwi pob mwynhad? Beth ydyw yr achos fod cynnifer o filoedd o greaduriaid rhesymol, yn gorfod mwythfoddio eu hunain mewn difyrwch plentynaidd, ynfyd, ac anifeilaidd, wrth geisio gwneud baich bywyd yn haws i'w oddef? Hyd yn oed yn mysg y dosparthau mwyaf coethedig o ddynion, y mae llawer sydd yn ymfalchion yn eu rhagoroldeb ar y werin, yn tynu eu prif fwyniant, nid yn unig wrth wneud dinystri ar yr anifeiliaid a'r adar, ond wrth ymgymysgu gyda'r dyhirod sydd yn ymladd ceiliogod, ac mewn edrych ar gwpl o ornestwyr yn ymguro, ac yn gorchuddio eu gilydd âg archollion a gwaed. O ba le y tardd y poenydiau a deimlir mewn canlyniad i falchder a gorymgais gael ei archolli, a pha fodd y dygwydd fod pleidiau mewn cymdeithas, na allant ddedwyddu eu hunain am ddwyawr, heb fod gyda chwareuwyr damwain a chardiau, mewn gwystlon a serthedd, ac mewn chwedleuon cabldraethol? Pa reswm a ellir ei roddi am fod hunan-laddiadau mor fynych yn cael eu cyflawni gan ddynion mewn sefyllfa uchel, y rhai sydd yn cael eu cylchynu gan foethau a gwychder; a bod anfoddlonrwydd, grwgachrwydd, ac aniolchgarwch, mor fynych yn llanw cymeriad yn mysg pob gradd mewn cymdeithas? Y mae yr holl effeithiau hyn yn tarddu o herwydd diffyg o egwyddorion a thuueddiadau Cristionogol, ac o herwydd cyfyngder y gwrthrychau ac y mae eu meddwl yn myfyrio arnynt. Y mae y dyn sydd yn gweithredu oddiar olygiadau a serchiadau Cristionogol, yn edrych i lawr gyda difaterwch a dirmyg ar y gorchwylion dirmygus a enwais, ac y mae ei enaid yn sychedu ar ol gwrthrychau mwy cyd-unol â'i natur resymol ac anfarwol; ac wrth olrhain y rhai hyn, ac arfer y rhinweddau ac y mae crefydd yn eu cymhell, y mae yn mwynhau pleser pur, na all gwen y byd mo'i roddi, na'i wâg ei ddinystro.

Fel y mae yn ofynol wrth alluoedd meddyliau neillduol, er mwynhau dedwyddwch sylweddol yn y byd hwn, felly y mae cymhwysderau moesol neillduol yn *hanfodol*, er ein parotôi i archwaethu mwyniant y byd yn ddaw. Rhaid gosod i lawr sail dedwyddwch y byd dyfodol mewn "edifeirwch tu ag at Dduw, a ffydd tu ag at ein Harglwydd Iesu Grist." Rhaid ein hargyhoeddi o'n pechod, a'n halogrwydd, fel plant yr Adda cynataf, am anhaeddiant ein troseddau, am burdeb difrycheulyd, ac

uniondeb tragwyddol y Bôd ac yr ydym yn euog ger ei fron, ac am y perygl yr ydym yn agored iddo, fel troseddwyr ei gyfraith. Rhaid i ni dderbyn yr Iachawdwriaeth a gynhygir yn yr Efengyl, ac edrych gyda llygad ffydd ar “Oen Duw sydd yn tynu ymaith bechodau y byd.” Rhaid i ni ymddiried yn nghymhorth Yspryd Duw, am nerth i wrthwynebu holl duddiadau drigionus ein natur, ac adnewyddu ein heneidiau ar ddelw Duw, ac i'n gwresogi mewn dymuniad am gynhyddu yn yr “holl ffrwythau cyflawnader sydd er mawl gogoniant Duw.” Rhaid i ni “chwanegu at ein ffydd, wroldeb a phenderfyniad; ac at wroldeb, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymhedrolder; ac at gymhedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwieldeb; ac at dduwieldeb, garedigrwydd brawdol a chariad. O blegid, os ydyw y pethau hyn ynom, ac yn ymhelaethu, ni adawant ni yn ddiffrwyth yn ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist;—ac felly y trefnir yn helaeth i ni fynedfa i deyrnas dragwyddol ein Harglwydd a'n Hiachawdwyr.”*

Gwedi gosod sylfaen crefydd i lawr felly, yn yr ymarferiad o'r grasau Cristionogol; y mae y tueddiadau a'r rhinweddau canlynol, yn mysg eraill, i gael eu meithrin genym, ac i ffurio y cymhwysderan sylweddol, er ein parotoi i fod yn gyfranogion o “etifeddiaeth y saint yn y goleuni.”

1. Cariad aruchel at Dduw, ffynhonell ddechreuel dedwyddwch. Dyma ddyledswydd benaf pob creadur rhesymol, a'r serchogrwydd uwchaf a all feddianu meddwl dyn. Y mae yn disgleirio yn mynwesau angylion ac archangylion, cerubiaid a seraphiaid; ie, nid oes yr un preswylydd yn cyfaneddu yn yr un o fydoedd y greadigaeth, sydd wedi cadw ei burdeb gwreiddiol, nad yw yn llywodraethu yn fuddygol ar ei galon. Y mae yn uno yr holl greaduriaid deallgar santaidd â'r Creawdwyr ac â'u gilydd; ac o ganlyniad, rhaid y bydd iddo ein cymhwys i gynal cymdeithas hyfryd a'r cyfryw fodau, pa le bynag y byddont, ac yn mha Barth bynag o'r greadigaeth y penodir eu cartrefle. Y mae yn bywiogi addoliad yr angylion, pan y datganant, “Teilwng wyt ti, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant ac anrhyydedd, a moliant a gallu.” Y mae yn eu cyffroi yn eu holl wasanaeth nefol; yn eu hysprydoli â theimlad ardderchog i gyflawni gorchymynion eu Llywydd; ac y mae yn cyfaddasu ei feddianydd, i ba fyd bynag y perthyno,

i ddwyn yn mlaen gynllun Haelfrydedd Cyffredinol, tu ag at gwblhad yr hwn; y mae holl drefniadau y Creawdwr yn tueddu, yn y diwedd.

Y mae y serchogrwydd santaidd hwn yn gyd-unol â phob golygiad a allwn ei gymeryd am gymeriad a gweithredoedd Duw; ac y mae y rhwymedigaeth o hono yn amlwg, oddiwrth egwyddorion egluraf *Rheswm*, yn gystal a Datguddiad. Y mae yn sylfaenedig ar bob priodoedd o'r Duwdod, ac ar bob rhan o'i weinyddiadau naturiol a moesol. Y mae ei Hollalluogrwydd yn cael ei arfer bob moment, er cynal y greadigaeth, er dwyn o amgylch ddilyniad dydd a nos, haf a gauaf, pryd hau a chynhauaf, ac i reoli gweithrediadau elfenau Natur, yn y ffordd a weddo i ddedwyddwch dyn. Y mae ei Ddoethineb a'i Ddealltwriaeth yn cael eu dangos, wrth gyfartalu a threfnu pob gwrthrych mewn natur, yn y fath fodd, ag y mae pob peth y cael eu cadw mewn trefn a chysondeb; ac yn ffurfiad cyrph dynion a chreaduriaid eraill, er atal gofid, a chyflwyno pob teimlad dymunol. Y mae ei Ddaioni yn ymestyn dros ei holl weithredoedd, ac yn cael ei ddangos tu ag at bob gradd o greaduriaid synhwyrgar a deallus. Y mae yn ymddangos yn ngoleuni yr haul, yn newidiadau y lloer, yn ngogoniant yr wybren serenol, ac yn mhrydferthwch yr amrywiol liwiau sydd yn addurno wyneb Naturiaeth; yn y planhigion a'r blodau sydd yn gwisgo y maesydd; yn yr awel dyner; yn y gwallaw a'r gwliw sydd yn ffrwythloni y ddaear, ac yn "llenwi calonau dynion â lluniaeth ac â llawenydd." Y mae ei Drugaredd a'i Amynedd tu ag at ddynion, a hyd yn oed y rhai mwyaf halog-edig, drwy eu cynal mewn bod, a'u llwytho a'i fendithion, ie, pan y byddont mewn gweithredol wrthryfel yn ei erbyn. O blegid, y mae efe yn gorchymyn i'w haul godi ar y *drwg* yn gystal a'r da, ac yn gwallio ar y cyfawn a'r *anngyfawn* yr un modd. Y mae yn dangos ei oddefgarwch am flynyddau lawer, tu ag at yr afradlon anystyriol, a throseddwyr ei ddeddf, i arddangos nad ydyw efe yn "ewyllsio marwolaeth yr an-nuwiol, ond dyfod o bawb i edifeirwch."

Y mae bôd, a fyddo yn meddianu y fath briodoeddau, ac yn dangos ei haelfrydedd yn barhaus trwy y greadigaeth, yn teilyngu y serch a'r parch mwyaf, oddiwrth ei holl greaduriaid rhesymol, fel y mae rheswm yn gystal a datguddiad, yn dangos i ni, y dylem, "Garu yr Arglwydd ein Duw a'n holl galon, a'r holl enaid, ae a'r holl nerth. O blegid oddiwrtho ef, fel

ffynhonell ddechreuol dedwyddwch, y mae pob mwynhad i'r meddwl a'r synhwyrau yn deilliaw, ac arno ef yr ydym yn dibynu am yr holl fendithion a'n dilynau yn mhob cyflwr rhagllaw. Y mae cariad at Dduw, gan hynny, y serchogrwydd mwyaf rhesymol a all ddisgleirio yn nghalon dyn, ac yn ysgogiad i bob gweithred rinweddol a phob teimlad dedwydd ynddo. Os yw yr anian dduwiol hon ynom, ni a ymhyfrydw yn ei addoliad, ac a ymostyngwn gyda pharch wrth ei ystoldroed ef; ni a deimlwn hyfrydwch yn ei gymeriad a'i lywodraeth; ni a fyfyriwn gyda mawrhad, ar y wybodaeth annirnad-adwy, y gallu diderfyn, a'r haelfrydedd diddiwedd, a ddangosir yn ysgogiadau nerthol Creadigaeth a Rhagluniaeth; ni a deimlwn y syniadau mwyaf bywiog o ddiochgarwch, am y bendithion lluosog a gyfrana, a byddwn yn ymroddol i'w ewyllys dan bob trefniad Rhagluniaethol; ac ni a hiraethwn am y byd dedwydd hwnnw, lle y bydd gogoniant ei natur, "a'i fawr gariad" yn cael eu hamlygu yn eglurach. Ond y mae y dyn sydd yn amddifad o'r serch dymunol hwn, yn anngymwys at y syniadau uchel hynny, sydd yn bywiogi meddyliau y nefolion, ac yn holol anaddas i ymuno yn eu cymdeithas. Y mae yn wrthryfelwr yn erbyn llywodraeth Duw, yn ysgymuned yn ei greadigaeth, ac o herwydd hynny, yn anngymwys i gyfranogi o wasanaeth a dedwyddwch y saint yn y goleuni.

2. Y mae *cariad at ddynolryw* yn serchogrwydd arall, sydd yn hanfodol i'n cymhwys o gyfranogi o lawenydd y nef. Y mae y cymeriad arbenig hwn o eiddo y saint, yn tarddu yn naturiol, ac o angenrheirwydd oddiwrth gariad at Dduw. "O blegid (medd yr apostol Ioan), pob un sydd yn caru yr hwn a genhedloedd, sydd yn caru yr hwn a genhedlwyd o hono. Os dywed neb ei fod yn caru Duw, ac yn cashau ei frawd, celwyddog yw; o blegid, yr hwn nid yw yn caru ei frawd, yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw, yr hwn nis gwelodd?" Fel y mae y ffrwd yn llifo o'r ffynon, ac yn cyfranogi o'i natur; ac fel y mae y cysgod yn wastadol yn dilyn y sylwedd, ac yn cael ei achosi ganddo, felly y mae cariad at ddyn yn wastadol yn canlyn cariad at Dduw; ac y mae yn cael ei ffurio trwy y dylanwad nerthol, ag y mae yr egwyddor lywodraethol hon yn ei gario ar y meddwl.

Y mae y serch hwn yn gyson âg addysgiadau rheswm, ac yn gyd-unol â thuueddiadau goreu calon dyn. Pan yr ystyriom fod ein cyd-ddynion wedi cael eu bodolaeth oddiwrth yr un

Bôd Hollalluog a'n dygodd ninau i fod—eu bod hwy wedi eu cynysgaeddu â'r un doniau naturiol a ninau, ac â'r un galluoedd moesol a deallgar—eu bod yn chwaethu yr un pleserau a mwynhad, ac yn meddu yr un teimladau, ac yn ddarostynedig i'r un anghenion—eu bod yn yr un llygredigaeth gyffredinol, ac yn agored i'r un profedigaethau a thrallodion—eu bod yn cyd-deithio tu a'r bedd, ac y bydd raid i'n llwch ymgymysgu, yn fuan, gyd a'r eiddynt hwy—pan ystyriom yr amrywiol berthynasau a ddaliwn tu ag at ein brodyr sydd o'n hamgylch, ac at holl drigolion y ddaear—ein dibyniad ar bob gradd o ddynion, ac ar bobl cenedl dan y nef, o'r braidd, am ein mwyniant naturiol; a bod miloedd o honynyt yn teithio môr a thir, yn nghanol peryglon mawrion, i'r dyben o'n diwallu ni â chysuron ac angenrheidiau bywyd—pan ystyriom eu bod oll yn dal perthynas â'r un fodolaeth anfarwol, ac y goroesant ymollyngiad y greadigaeth, ac y cymerant ran yn y golygfeydd pwysig a ymegyr pan na byddo amser mwyach—mewn gair, pan ystyriom fod Tad pawb oll, gyda'r hwn nid oes derbyn wyneb, yn gwneud i'r un awyr gynal bywyd yn eu gwaed, a'r un dwfr i'w golchi a'u hadfywio, a'r un gwlw a gwliw i ffrwythloni eu maesydd, a'r un haul i oleuo eu dydd, a'r un lloer i loni tywyllwch eu nos,—rhaid i ni gael ein hargyhoeddi fod cariad at ein brodyr o ddynolryw, yn ddeddf y Creawdwr, ac yn serchogrwydd mwyaf rhesymol a all fywiogi calon dyn mewn perthynas i'w gydreaduriaid. Y mae yr hwn sydd yn ddiffygiol o'r anwyldeb hwn yn bla ar gymdeithas, yn wrthryfelwr, ac yn frwnt yn nheyrnas Dduw, ac o ganlyniad, yn anghymwys er mwynhau dedwyddwch y nef “O blegid, yr hwn sydd yn cashau ei frawd, *lleiddiau dyn ydyw, a chwi a wyddoch nad oes i leiddiad dyn fywyd tra-gwyddol ynddo.*”*

Ond nid yw ein cariad i gael ei gyfyngu at ein brodyr o hil Adda. Rhaid iddo godi yn uwch at holl fodau rhesymol santaidd y greadigaeth, cyn belled ac y mae eu natur a'u galluoedd yn adnabyddus i ni. Rhaid i ni garu yr angylion yn eu graddau. Y maent yn fodau sydd yn sefyll yn agos i'r gris uwchaf yn y greadigaeth resymol; y maent wedi eu cynysgaeddu â galluoedd rhagorach na'r eiddom ni; y maent yn preswylio yn ngwyddfod gogoneddus Duw, ac yn cael eu

defnyddio fel gweinidogion i arolygu achosion ei lywodraeth. Y maent yn meddu modd i ysgogi gyda chyflymder rhyfeddol, ac yn blodeuo mewn ieuengctid anfarwol. Y maent wedi eu haddurno â pherffaith santeiddrwydd ac uniondeb, â chymmeriad o anwylddeb arbenig. Nid yw balchder a gwagedd, cefigen a malais, llid a dialedd, byth yn chwerwi eu mynwesau. Ni ymddygant byth yn annuwiol nac yn ddirmygus o'r Gwaredwyr, ac ni ddygant unrhyw gynhenau yn erbyn eu brodyr. Y maent yn disgleirio mewn flam o gariad anffoddol at y Creawdwr; y maent yn wastadol yn dangos rhyw weithredoedd o haelfrydedd; y maent yn disgyn yn achlysurol i'n byd ni ar genadwri trugaredd, ac yn "ysprydion gwasanaethgar i'r rhai a gant etifeddu iachawdwriaeth." Y maent yn teilyngu ein parch, ein cymeradwyaeth, a'n serch, o blegid yr holl ystyriaethau hyn. Ac er eu bod yn awr uwchlâu i ni allu dangos unrhyw garedigrwydd tu ag atynt, eto, ar ol hyn, dichon y cawn uno yn eu cymdeithas, a chyd-weithredu â'u llafurus gariad.

Ymddengys fod cariad at ddynolryw, ac at bod gradd o greaduriaid santaidd eraill, yn anhebgorol angenrheidiol fel parotôad i'r nef, pan yr ystyriwn y bydd i ni ymuno yn eu cymdeithas, a dal cyfeillach agos â hwy yn y byd tragwyddol. O blegid y mae trigolion ein byd ni, sydd wedi eu derbyn i'r nef, yn cael eu gosod allan yn yr Ysgrythyr, fel yn ymuno yn "nghymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, ac yspryd-oedd y cyflawn a berffeithiwyd, a myrddiwn o angylion;" ac o blegid hyn y maent yn cael eu harddangos yn llyfr y Datguddiad, megis yn uno âg un galon ac un meddwl, mewn myfyrdod ar weithredoedd y Duwdod, ac yn nerchafiad mawl i'w Harglwydd cyffredinol. Y mae cariad yn meddianu pob mynwes yn y byd bendigaid hwnnw, ac yn parhau i lywodraethu yn fuddygol byth; ac o herwydd hyny y mae pob gwasanaeth a chyfeillach yn cael eu dwyn yn mlaen mewn anwylddeb, cysondeb, a thangnefedd. Yn mysg y drygau a ddeolir allan o'r Jerusalem Newydd, dywedir yn llyfr y Datguddiad, "na bydd yno na *galar* na *christwch* mwyach," neu yn hytrach, "el y dylid cyfieithu y gair, "ni bydd yno nac ymryson na chynhenau mwy," yn codi oddiar egwyddorion maleisus. Ni bydd yno yr un teimlad ymrysongar yn cael ei brofi byth, na'r yr un drwg ewyllys yn cael ei fynegi byth, na'r un llais anfoddog i'w glywed byth, yn mysg holl luaws y creaduriaid

glân. Bydd caredigrwydd, haelfrydedd, a gostyngeiddrwydd yn naturiol i holl drigolion y nef. Heb y cymhwysder hwn, deuai y byd nefol yn un olygfa o annhhrefn bythol, a byldai i ddedwyddwch gael ei gwbl esgymuno o'i derfynau. Gan hyny, os cymhwysir ni i gymdeithasu â'r bodau hyn, ac i gymeryd rhan yn eu gwasanaeth, rhaid i ni feithrin yr un teimladau, a chael ein llywodraethu gan yr un rhinweddau. Oblgid, heb hyny, ni allem brofi hyfrydwch yn nghymdeithas angylion, ac "ysprydoedd y cyflawnion a berfffeithiwyd." Pe byddai i ddyn, a'i galon yn llawn o ddigofaint a chenfigen, sydd yn ymhyfrydu mewn ymryson a chynhen, ac yn arfer ymddial, gael ei dderbyn i'r gymdeithas hono, ni chanfyddai yno gyf-eillion dan ddylanwad yr un teimladau; ac aflonyddai holl gysondeb y côr nefol; a chaffai ei esgymuno yn ddioed, gyda phob arwydd o ddychryndod, allan o'r trigfanau dedwydd. "O blegid, pa gyfeillach sydd rhwng cyflawnader ac anghyfiawnder? pa gymundeb sydd rhwng goleuni a thywylwch? a pha gysondeb sydd rhwng Crist a Belial?" Rhaid fyddai deol y cyfryw ymaith, yn ol deddf sydd yn dylanwadu dros yr holl fyd moesol, yr hon sydd fel deddf pwys a thyniad yn y byd naturiol, yn cysylltu yr holl breswylwyr yn nghyd, yn un gyfundrefn gyson. Ac ar y llaw arall, y mae y dyn y byddo ei galon yn wresog gan gariad at y Creawdwr, ac an-wyldeb tuag at ddyn, a'r holl greaduriaid santaidd eraill, yn sier o dragwyddol ddedwyddwch, fel *canlyniad angenrheidiol* llywodraeth y fath egwyddorion dwyfol ar ei feddwl; a rhaid y mwynhâ ddedwyddwch, tra y parhâo y fath egwyddorion mewn ymarferiad, drwy holl ysdod bodolaeth ddyfodol, ac yn mhob part h o'r bydysawd y dichon iddo gael ei symud iddo.

3. Y mae *gostyngeiddrwydd* yn gymhwysder arall, er mwynhau dedwyddwch y byd dyfodol. Nid oes dim a ymdengys yn amlycach yn nghymeriad y cyffredinolrwydd o ddynol-ryw na *balchder*, yr hwn sydd yn tori allan mewn mil o ffyrdd mewn cymdeithas. Y mae yn cael ei ddilyn yn wastadol ag ymddygiad ffroenuchel, hunanol, a chwyddedig, gyda lluaws o nwydau llygredig eraill. Dyma bla cymdeithas yn gyffredinol, ac achos ymrysonau a chynhenau teuluaid; ac felly, y felidit fwyaf a all ddisgyn ar Eglwys Gristionogol, pan yr ymwthio i feddyliau "y rhai sydd yn chwenych cael y blaen." Y mae yn fath o benyd i'w feddianydd, ac i bawb o'i amgylch; ac o'r holl nwydau digofus sydd yn chwerwi mynwes dyn, dyma y

mwyaf annglyson a'i gymeriad a'i sefyllfa bresenol. Nid yw yn naturiol i neb ond i greaduriaid rhesymol cwympedig; o blegid y mae yn sier, oddiwrth ffurfiad y trefniant moesol, nad oes dim teimladau o falchder a chwydd byth yn cael ei brofi yn mynwesau angylion, na'r un creadur sanctaidd arall; o blegid fod y fath deimladau yn holol annglytunol ag egwyddor cariad at Dduw, ac at ein cyd-greaduriaid.

Mewn cyferbyniad a'r egwyddor hon, sydd yn llywodraethu yn meddyliau dynion cwympedig, ac angylion syrthiedig—y mae *gostyngeiddrwydd* yn gymeriad arbenig, ac sydd yn briodol i feibion Duw, pa un bynag ai ar y ddaear, ai yn y nef. O blegid hyn, dywedir i ni, fod "Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ond yn rhoddi gras i'r rhai *gostyngedig*,"—ac y mae hyd yn oed balchder golwg, yn ffiadd ganddo, tra y mae yn edrych gyda hyfrydwch "ar y *gostyngedig* a'r cystuddiedig o yspryd." O blegid hynny, y dywedir wrthym am "ymdrwsio â *gostyng-eiddrwydd*," ac i "oddef ein gilydd gyda phob *gostyngeiddrwydd* ac addfwynder, gan dybied eraill yn well na ni ein hunain." Y mae *gostyngeiddrwydd* yn gynwysedig mewn ystyriaeth briodol o'n cymeriad a'n cyflwr fel creaduriaid dibynol a dirywiedig, a darostyngedig i'r teimladau cysylltiedig a'r cyflwr hwnw. Pa mor annglymeradwy bynag oedd y fath deimladau gan Hume, ac anffyddwyr eraill, y rhai a'u hystyrient yn niweidiol a dirmygus,—pan yr ystyriom hwy yn eu gwir oleuni, ymddangosant yn deilwng o syniadau goreu ein natur, ac o addysgiadau egluraf rheswm. Pan yr ystyriom ein sefyllfa fel *creaduriaid* dibynol ar y Goruchaf, bob moment, am "fywyd, ac anadl, a phob peth oll,"—pan y myfyriom ar gywreindeb ffurfiad ein corph; y miloedd o wythienau, y rhedweliau, y cyhuriau, yr esgyrn, a'r dyfrnaws, sydd wedi eu cyd-blethu drwy ein cyfansoddiad; ergydion gwastadol y galon yn nghanol y corph, a'r swyddau a'r ysgog iadau eraill a gyflawnir, y rhai nad oes genym ni yr un reolaeth drostynt,—pan y myfyriom ar ein *cymeriad* fel creaduriaid halogedig ac euog, yn ngwyddfod yr Hwn "sydd yn lanach ei lygaid nac y gall edrych ar anwiredd;" ac ar y clefydon, y poenau, a'r gofidiau lluosog, a'r holl ddrygau naturiol yr ydym yn agored iddynt, oddiwrth ryfel yr elfenau,—pan yr ystyriom y bydd ein cyrph, cyn hir, wedi eu troi yn llwch, a'u cyflwyno yn ymborth i bryfaid,—pan y myfyriom ar y sefyllfa isel yr ydym wedi ein gosod yn ddi ar radd-fesurfa

bodolaeth, ac nad ydym ond megis cynnifer o fân-lwch, neu wrthrychau lleiaf trem y chwyddwydr, wrth ein cydmaru â'r lluaws o greaduriaid disglaer sydd yn poblogi ymerodraeth Duw; ac nad yw y ddaear yr ydym yn byw arni, ond " fel defnyn o gelwrn " mewn cydmariaeth â'r miliynau o fydoedd ysplenydd sydd yn treiglo trwy éangder y greadigaeth,—mewn gair, pan yr ystyriom ar ardderchawgrwydd yr Hollalluog, yr hwn y mae ei bresenoldeb yn llanw yr holl eithafoedd, ac yn ngolwg yr Hwn, nad yw holl drigolion y byd ond fel ceil-iogod-rhedyn, ac a gyfrifir fel dim, ac megis gwagedd,—nid oes yr un syniad mwy cyfaddas i deimlad dyn yn ei sefyllfa bresenol, na gostyngeiddrwydd meddwl, na dim yn fwy afresymol na balchder, ac uchder, a genau traws.

Y mae y teimlad dymunol hwn yn ffurfio nodwedd neillduol yn nghymeriad angylion, a chreaduriaid pur eraill. Dyn tlawd, gwag, pechadurus, yn unig sydd yn beiddio ymfalchio yn ymfrostgar. Abwydyn gwrthryfelgar y llwch yn unig (oddi-garth angylion y twyllwch) sydd yn edrych i lawr gyda dirmyg ar ei gydgreaduriaid, ac yn ceisio derchafu ei hun uwchlaw gorsedd Duw. Nid oes dim o'r fath deimladau byth yn myned i fynwesau y creaduriaid glân, a gadwasant eu dechreuad. Mewn cydmariaeth ag éangder eu golygiadau, a'r meddwl uchel a gawsant am lywodraeth Duw—a'r ystriaethau uchel a gyrhaeddasant am gymeriad a phriodoleddau y Crëawdwr,—mewn graddau cyffelyb y mae eu meddyliau wedi eu hysprydoli â gostyngeiddrwydd a pharch. Gwedi cymeryd golwg helaeth dros weithredoedd yr Hollalluog, y maent wedi hedfan i'r bydoedd lluosog, ac wedi canfod gol-ygfeydd o ddoethineb a haelfrydedd, yr hyn nas gwelodd llygad dyn, ac na ddychymygodd ei galon; ac wedi myfyrio ar amlygiadau o wybodaeth a gallu, ag sydd uwchlaw i'w galluoedd hwy eu hunain eu cwbl gynwys, y maent yn canfod eu hunain yn greaduriaid terfynol ac anmherffaith, ac megis yn *ynfydion** yn mhresenoldeb yr Hwn ac y mae ei ogoniant yn anfeidrol, a'i ffyrdd yn anolrheiniadwy. O blegid hyn, y maent yn cael eu gosod allan "yn cuddio eu hwynebau â'u hadenydd," yn mhresenoldeb eu Llywydd, † ac yn llyfr y

* Y mae Eliphias, yn llyfr Job, wrth ddarlunio perffeithderau yr Hollalluog, yn dywedyd, "nad yw y nefoedd yn lân yn ei olwg ef," a'i fod "yn rhoddi ynfydrwydd yn erbyn yr angylion." Job iv. 18; xv. 15.

† Esay vi. 2.

Datguddiad, maent yn cael eu harddangos, “yn bwrw eu coranau ger bron ei orsedd, ac yn dywedyd, Teilwng wyt ti, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant ac anrhydedd, a gallu.”* Y fath gyferbyniad y mae y gyfryw olygfa yn ei ddangos, â balchder ac uchder preswylwyr y bellen hon, y rhai sydd ar yr un pryd yn nyfnder anwybodaeth a ffolineb, ac anfoesau a throsedd!

Yn eu cyfeillachau â thrigolion ein byd ni, a'r swyddau a gyflawnant, fel ysprydion gwasanaethgar i'r rhai a gant etifeddu iachawdwriaeth, y maent yn dangos yr un gostyng-eiddrwydd mewn ymddygiad. Bu un o uwchafion y cenhadau nefol hyn, sef “Gabriel, yr hwn sydd yn sefyll ger bron Duw,” yn ehedeg o'i balas nefol i'n byd truenus ni, ac yn cyfeirio ei lwybr tu ag at un o bentrefi mwyaf distadl Galilea, ac yn myned i mewn i farch-dŷ, lle yr oedd morwyn dlawd, ac yn cyflwyno cenadwri llawenydd, gyda gostyng-eiddrwydd gweddus. Aeth un arall o honynnt, i waelod y carchar, lle yr oedd Pedr yn rhwym mewn cadwyni, ac a ddrylliodd ei lyffeth-eiriau, ac a'i hanerchodd yn yr iaith fwyaf addfwyn, gan ei wared o ddwylaw ei erlidwyr. Pan yr oedd Paul unwaith yn cael ei luchio yn yr ystорм fawr, ar donau y môr, yn mhell o gartref, ac yn garcharor tlawd; ar yr hwn yr oedd mawrion y byd hwn yn edrych gyda dirmyg,—daeth un o'r creaduriaid glân hyn, “ac a safodd yn ei ymyl,” trwy dywyllwch y nos, yn nghanol rhyfel yr elfenau, ac a gysurodd ei feddwl a'r sierwydd o ffafr ac amddiffyniad Duw iddo. Yr oedd Lazarus yn dlawd a dirmygus, yn nghanol cyfyngder a thrallod, ac yn dibynu ar haeloni eraill am ei gynhaliaeth. Gorweddai wrth borth gŵr goludog, heb gyfeillion i'w weini, ac a chwenychai gael ei borthi a'r briwsion a syrthiai oddiar ei fwrdd. Yr oedd ei gorff wedi ei orchuddio â chorngwydd y doluriau, yn noeth yn yr awyr agored, o blegid, “yr oedd y cŵn yn dyfod ac yn llyfu ei gornwyddyd ef.” Pa foneddwr a fuasai yn ymostwng i wneud cyfaill o gyd-greadur yn y fath gyflwr ac amgylchiadau truenus? Pwy, hyd yn oed o'r bobl gyffredin, a fuasai yn derbyn y fath un i'w dy, neu yn dymuno ei gyfeillach? Pwy a fuasai yn ei chyfrif yn anrhydedd, pan y bu farw, i weini i'w gynhebrwng? Pa fodd bynag, yr oedd bodau nefol yn edrych ar amgylchiad, a chymeriad dynion, mewn goleuni tra gwahanol i'r hyn yr ymddangosant i “blant

* Datguddiad iv. 10, 11.

balchder." Ond er mor dlawd a dirmygus oedd Lazarus, eto, disgynodd ôr o angylion o drigfanau gogoniant, i weini iddo ar ei wely angau, ac i ddwyn ei yspryd pur i ardaloedd dedwyddwch.

Wrth hyny, gan yr ymddengys fod angylion, er uwched yw eu seyllfa, ac mor ogoneddus yw eu cymeriad, wedi "ymdrwsio â gostyngeiddrwydd," rhaid ei fod i ffurio nodwedd uchel yn ein cymeriad moesol ninau, os disgwyliwn gael ein derbyn i'w cymdeithas yn y byd r ddaw." O blegid, pa fod y gallem fyned i gyfeillach frawdol a'r creaduriaid glân hyn, pe byddem dan lywodraeth tueddiadau holol groes i'r eiddynt hwy; a pha ddedwyddwch a allai darddu o'r fath gymdeithas, pe byddai y fath beth yn bosibl? Pe caffai dyn balch ei dderbyn i'r nef, ni allai deimlo mwynhad gwastadol yno. Gallai gogoniant allanol y lle roddi difyrwch i'w lygad am dro, eto ni theimlai yr un chwaeth at gymdeithas a gwasanaeth y lle. Ni wnai yr anrhyydedd a roddir ar batrieich, prophwydi, apostolion, ar ardderchog lu y merthyri, na seyllfa dderchafedig cerubiaid a seraphiaid, ddim amgen na chyffroi cenfigen ac eiddigedd ynddo ef; a chyn hir, ymdrechai i hau hadau anghydfod ae ymryson yn mhlith llu y nef. Felly y mae balchder, tra y byddo yn cael ei feithrin yn yr enaid fel egwyddor lywodraethol, yn holol anghytunol a'u derbyniad i ardaloedd undeb a chariad.

Caniataer i mi ofyn i'r dyn, ac y mae balchder a nunan yn llywodraethu ar ei feddwl, a ydyw efe mewn gwirionedd, yn ei ystyried el hun yn ymgeisydd am fywyd o ogoniant ac anfarwoldeb? Ai nid yw efe, ar unwaith, yn gweled yr anghysondeb sydd rhwng y fath feddwl âg addysgiadau rheswm, a natur dedwyddwch dyfodol? Am ba beth y mae ganddo achos i ymfalch? Ai o herwydd ei waed? Ai am ei *hynafiaid?* am ei *gyfoeth?* am ei *seyllfa?* am ei *brydferthwch?* am ei *gyrhaedd-iadau personol?* am ei *ddewrder?* am ei *afradlonedd?* am ei *orchestion milwraidd?* neu am y *milcoedd o ddynion a laddodd mewn brwydr?* A ydyw efe yn falch, o blegid ei ddoniau mewn cerddoriaeth, dawns, ymladd, hela llwynogod, ac mewn gwystl chwareuon? am ei wybodaeth mewn ieithoedd, llythryiant, ac yn y celfyddydau a'r gwyddorion? Neu a ydyw efe yn falch o blegid ei fod yn cael ei lethu gan y caethiwed, y rhwymedd, y *dyfrglwyf*, neu yr *wrwst?*—y bydd ei angladd yn cael ei weini gan res o alarwyr, ac y bydd adail o farmor

yn cael ei chodi yn goffadwriaeth am dano, pan y byddo ei weddillion yn pydru gyda'r pryaif yn y llwch? Tybier ei fod yn cael ei dderbyn i'r palasau nefol—pa un o'r testynau hyn a ddewisai efe i fod yn bwnc ymddiddan arno, ac yn sail ei ymffrost? A gynhygia efe ddifyru y cerub a'r seraph, drwy ddywedyd, pa sawl penaeth y byddai wedi disgyn o honyn, pa nifer o deuluoedd hynafiaethol y byddai yn dal perthynas â hwy, a pha sawl erw o dir a fyddai yn eu meddianu, yn y byd truenus hwnnw, sydd yn fuan i gael ei roddi ar dân? A ddywedai efe wrthynt am ei gywreindeb fel anelydd, am ei enwogrwydd fel meirch-redegydd, neu ei orchestion fel dyrnodiwr, neu ei fedrusrwydd yn trefnu byddin—am y pentrefi a losgodd, a'r trefydd a ysbeiliodd, a'r miloedd o ddynion a gig-yddiodd wrth gymeryd dinas? Ca'i ei fyddaru â bloeddiadau o anngymeradwyaeth, a'i hwtio yn ddioed allan o'r lle.—A ymffrostiai efe mewn gwybodaeth o ieithoedd a hynafiaethau, neu am ei wybodaeth yn y celfyddydau a'r gwyddorion? O! y fath greadur *dwl*, yr ymddangosai yn ngwyddfod Gabriel, angel Duw, yr hwn sydd mor fynych wedi ehedeg o'r nef i'r ddaear, mewn ychydig oriau, ac olrhain ardaloedd y bydoedd dirif! A ymffrostiai abwydyn y llwch, yr hwn y mae cylch ei olygiad wedi ei gyfyngu o fewn ychydig filltiroedd o'i gwmpas, o'i wybodaeth yn mhresenoldeb bodau sydd wedi eu cynsgaedu a'r fath alluoedd èang, ac wedi teithio trwy ran mor helaeth o fyddysawd Duw? Ac os nad oes ganddo ddim arall i ymffrostio o hono, pa ham y byddai yn falch? Y fath ymddangosiad gresynol a wnai yn mysg creaduriaid deallgar pur y nef? Tra y byddo y fath dueddiad yn llywodraethu ar y meddwl, gan hyny, ni all ei feddianydd fwynhau dedwyddwch sylweddol, yn y byd hwn, na'r hwn a ddaw.

Ar y llaw arall, y mae y dyn sydd yn debyg i'r Gwaredrwr, "yn addfwyn a gostyngedig o galon," a chanddo "dystiolaeth ynddo ei hun," ei fod wedi ei wneud yn gymeradwy ger bron Duw, ac ymdebygoli i'r angylion, yn ei dymher a'i serchiadau, a bod egwyddor bywyd tragwyddol wedi ei blanu yn ei enaid; a'i fod, mewn graddau, yn gymhwys i uno yn ngwasanaeth, a mwynhau dedwyddwch y sefyllfa ddyfodol. "O blegid fel hyn y dywed y Goruchel a'r dyrchafedig, sydd yn preswylio tra-gwyddoldeb, a'i enw yn Sanct; y goruchelder a'r cysegr a breswyliaf,—*a chyd a'r truan a'r cystuddiedig o yspryd*, i adnewyddu yspryd y gostyngedig, ac i fwynhau calon y rhai cystuddiol."

4. Y mae *Gweithredol Haelfrydedd*, gyda'i holl rinweddau cysylltiedig, yn nodwedd arall yn y dyn sydd yn cael ei barotôi ar gyfer yr etifeddiaeth nefol. Pa le bynag y mae yr egwyddor o gariad at Dduw a'r gras o ostyngeiddrwydd mewn ymarferiad, arweiniant y dyn a fyddo dan eu dylanwad i "ymhelaethu yn ffrwythau cyflawnder," ac i ymdrechu er ychwanegu cysur a dedwyddwch dynolryw. Efe a ymdrecha, cyn belled ac y byddo ei allu a'i ddyylanwad yn cyrhaedd, i ddiwallu anghenion y tlawd, yr amddifad, a'r weddw, i esmwytho y trallodus, i loni y digysur, i letya y teithiwr diymgeledd, i hyfforddi yr anwybodus; ac i wella cyflwr moesol a naturiol pob gradd o ddynion mewn cymdeithas. Efe a gefnoga bob cynllun y byddo ei ddyben i symud pob drygau ymaith—i gynhyddu cysuron dynion—i wella y tir—i rwyddhau llafur dyn—i symud pob peth annymunol o'r trigfanau—i ddwyn trefn, glanweithdra, a mwyniant teuluaid—i addysgu yr ieuengctid mewn gwybodaeth a rhinwedd—i gefnogi pob gwellhad mewn celfyddydau, ac i ledaenu gwyddoriaethau defnyddiol yn mysg pob gradd. Ac uwchlaw pob peth, efe a ymegrnia, cyn belled ac y byddo ei amgylchiadau yn caniatâu, i gefnogi gwelliant ysprydol, a *thragwyddol ddedwyddwch* dynolryw; ac a amcana ddwyn ei holl ymdrechiadau yn wasanaethgar i'r dyben aruchel hwn. Wrth lafurio i ddwyn yr amcan hwn i ben, efe a gynhorhwyd y bob sefydliad, a phob cynllun rhesymol, i ledaenu gwybodaeth o Ysgrythyrau y gwirionedd, trwy ei wlad ei hun, a broydd eraill, ac i wneud "iachadwriaeth Duw," yn adnabyddus dros yr holl fyd.—Ac efe a barhâ yn ei ymdrechiadau, er pob gwrthwynebiad, drwy ystod ei dymhor ar y ddaear, hyd nes y byddo i angau ei drosglwyddo i gylch uwch o weithrediad a mwynhad.

Ymddengys yr angenrheidrwydd o feithrin haelfrydedd ymarferol, er ein parotôi at wynfyd y sefyllfa ddyfodol, os ystyriwn mai *sefyllfa gymdeithasol* ydyw y nef, a bod rhan fawr o'r dedwyddwch yn gynwysedig, mewn cyd-gyflwyniad o deimladau haelfrydig, a gwasanaeth o gariad. Y mae yn wir na bydd yno ddim gwrthrychau o doldi a thrueni i'w cysuro, na thrallod i'w ddiddanu, na drygau moesol na naturiol i'w gwrthwynebu; o blegid yn y Gaersalem Newydd, "ni bydd yno farwolaeth mwyach, na gofid, nac wylofain, ac ni bydd poen yno mwyach, o blegid y pethau cyntaf a aethant heibio, ac fe a sych Duw ymaith bob deigr oddiar eu llygaid hwy."

Eto, bydd y trigolion mewn gorchwylion o haelfrydedd yn barhaus tu ag at eu gilydd, yn ol eu graddau, a'r amgylchiadau y byddant wedi eu gosod ynddynt. Y mae hyn yn eglur oddiwrth natur *Cariad* sydd yn llywodraethu ar galanau yr holl "dyrfa fawr yr hon na ddichon neb ei rhifo." Ni all cariad gael ei amlygu ond yn ei *effeithiau*, neu mewn gweithredoedd o garedigrwydd, sydd yn tueddu i gyflwyno dedwyddwch i eraill; ac ni ddichon i neb amheu, nad oes miloedd o ffyrdd anhysbys i ni, ac y gall trigolion y byd uchod, fod yn fodion i daenu hyfrydwch trwy fynwesau y creaduriaid rhesymol a fyddo yn eu cylchynu, ac a fydd yn rhan o'r "llawenydd annhraethadwy a gogoneddus." Bydd y cydymdeimlad a ddangosant tuag at eu gilydd, mewn perthynas i'w sefyllfa flaenorol a phresenol, a'r hyfrydwch a gânt wrth wrando hanes eu gilydd, a'r golygfeydd o ddedwyddwch yr arweiniant eu gilydd atynt, testynau pwysig eu hymddiddanion â'u gilydd, y gwrthrychau o brydferthwch a ddangosant i'w gilydd, a'r darlithoedd ar destynau dwyfol, a draddoda y rhai éangaf eu galluoedd, yn nghlyw y brod yr ieuangaf yn "nghynulleidfa y rhai cyntafanedig," a'r hanesion a gyflwyna seraphiaid, ar eu dychweliad o fydoedd pellenig, o'u cenhadaeth o gariad,—yn ffurfio rhan o'r gwasanaeth haelfrydig, yn yr hwn y bydd trigolion y nef yn teimlo yr hyfrydwch penaf. Bydd eu dymuniad gwastadol, a'u pleser tragwyddol, mewn cyflwyno dedwyddwch yn mhob modd, er llawenhau y gymdeithas, a'u hargymhell i dderchafu moliant i "Roddwr pob daioni."

Y mae genym bob rheswm i gredu fod trefniant o Haelfrydedd éang yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy greadigaeth Duw, ac mai gwrthrych penaf ei lywodraeth foesol ydyw gwasgaru dedwyddwch trwy y bydoedd dirifedi.* Wrth ddwyn y gwrthrych hwn yn mlaen, y mae yn defnyddio yr holl greaduriaid deallgar, fel ei weinidogion, i gyflawni ei ddybenion, ac er cyflwyno mwynhad i'w gilydd. Dywedir i ni, gan Paul, am yr angylion, eu bod "yn ysprydion gwasanaethgar, wedi eu danfon i wasanaethu, er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth." Felly yr ydym yn dysgu oddiwrth hanes ysgrythyrol, eu bod wedi gwaredu Pedr oddiwrth gyn-daredd Herod a'r Penaethiaid Iuddewig, a Daniel oddiwrth y llewod gwancus,—Lot o ddinistr Sodom, a Jacob o ddwy-

* Gwel Rhan I, tu dalen 66, 67.

law Esau; eu bod wedi nerthu a chynal Elias yn yr anialwch, ac wedi cysuro Dániel pan yr oedd wedi ymwisgo mewn sachliain a lludw—wedi cyfarwyddo Joseph a Mair yn eu taith i'r Aipht, ac arwain Cornelius at Pedr i dderbyn gwybodaeth o'r iachawdwriaeth; ac wedi cyflwyno y "newyddion da o lawenydd mawr" i Zacharias, tad Ioan Fedyddiwr, ac i Mair y Forwyn, ac i fugeiliaid gwastadedd Bethlehem; ac wedi cysuro calonau y dysgyblion trwy gyhoeddi y newydd am adgyfodiad eu Harglwydd a'u Hathraw;—ac y mae genym bob lle i gredu fod y fath wasanaeth wedi ei drefnu iddynt trwy holl derfynau amser.

Nid yw yn annhebygol fod ysprydoedd y cyflawnion a berfeithiwyd yn cael eu defnyddio mewn gwasanaeth cyffelyb yn achlysurol. Pan y dangoswyd yr olygfa ar y Jerusalem Newydd i Ioan, gan genhadwr nefol, "efe a syrthiodd i lawr i addoli wrth draed y cenhadwr a anfonwyd i ddangos y pethau hyn iddo." Ond gwaharddodd y cenhadwr iddo, gan ddywedyd, "Gwel na wnelych, canys *cyd-was ydwyf fi i ti, ac i' th frodryr y prophwydi*, ac o'r rhai sydd yn cadw (neu yr ymddiriedwyd iddynt) eiriau y llyfr hwn." Y mae y geiriau hyn yn naturiol yn arwain ein meddwl i benderfynu mai sant ymadawedig oedd y cenhadwr hwn, o blegid ei fod yn ei alw ei hun yn *frawd*, yn *brophwyd*, ac yn *gyd-was*. Efallai mai yspryd Moses, neu Dafydd, neu Esaiah, neu Jeremiah, neu Daniel ydoedd, yr hwn a'i hystyriai yn anrhyydedd i gael bod yn ngwasanaeth eu Harglwydd derchafedig. Ond pa un bynag a addefir y fath dybiaeth ai peidio, y mae yn amlwg y bydd y saint rhagllaw, mewn gwasanaeth o haelfrydedd gyda chre-aduriaid santaidd eraill, cyhyd ag y parhâont mewn bodolaeth. O blegid y maent wedi eu derchafu i fod yn "Frenhinoedd ac yn Offeiriad i Dduw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist," ac yn *gyd-weithwyr Duw*, yn nygiad eynlluniau ei lywodraeth yn mlaen.

Felly, gan yr ymddengys fod trigolion y nef yn wastadol mewn gorchwylion o haelfrydedd, y mae y cyfryw arferion, a'r rhinweddau cysylltiedig yn y byd hwn, i'w hystyried fel parotöad a chymhwysder at gylch uwch o weithrediad, i'r hwn y bydd i'r saint gael eu derchafu pan yr ehedont oddiar y belen ddaearol hon i'r ardaloedd fry. Gan hyny, rhaid ystyried y cyfryw nad ydynt byth yn cyflawni "gweithredoedd ffydd a llafurus.gariad," ac yn cael eu llywodraethu gan *hunanoldeb*

yn eu hymddygiad cyffredinol, yn anngymwys i gymeryd rhan yn ngorchwylion haelfrydedd yn y nef.*

Ystyriwn yn awr, am ychydig, y dedwyddwch sydd yn tarddu o gymdeithas creaduriaid rhesymol, wedi eu bywiogi â'r egwyddorion a'r teimladau santaidd, y cyfeiriais atynt.

Y mae un o brif achosion trueni yn y byd hwn yn codi oddiar dueddiadau configenus, ac ymddygiad anfoesgar ei drigolion. Y mae y balchder, yr uchelgais, y nwydau digofus, y twyll, y genfigen, a'r dialedd, sydd yn llywodraethu ar galonau y rhan fwyaf o ddynolryw,—wedi achosi mwy o drueni a dinystr yn mysg dynion nag a wnaeth y rhyferthwy a'r ystorm, y ddaeargrynn a'r rhwygiadau tanllyd, a holl ymryston elfenau natur yn nghyd. Y mae trachwant uchelgais wedi gorchuddio teyrnasoedd â sachliain a lludw, a chyd-raddu dinasoedd â'r llawr—wedi troi trefydd yn garneddi o adfeiliau myglyd—wedi troi tiroedd ffrwythlawn yn anialwch—wedi halogi y ddaear â gwaed dynion—wedi cifyddio miloedd a miliynau o honyn—yn llanw trigfanau dedwydd llawer teulu âg wylofain, a galar, a guae. Y mae *annghyfiawnder* a thrais wedi ysbeilio cymdeithas o'i hiawnderau a'i breintiau, a'r weddw a'r amddifad o'u mwyniant anwylaf. Y mae Coel-grefydd a dialedd gwedi gwneud ebyrth o'u miliynau—wedi ymlid heddwch o'r byd,—ac wedi gŵyrdroi trefn cymdeithas. Y mae gwadu y gwirionedd mewn bargeinion, ac addewidion, wedi suddo cenhedloedd mewn dinystr—wedi dadymehwel sylfaeni llwyddiant y cyhoedd, ac wedi difa enw da a chysur teuluoedd—wedi dyrysu meddyliau miloedd a miliynau, ac wedi taflu dirmyg ar ddatguddiad y nef, a darganfyddiadau gwyddoriaeth. Y mae malais, configen, digofaint, a theimladau cyffelyb, wedi creu cynhenau ac ymrysonau sydd wedi afonyddu heddwch dynion, teuluoedd, a chymydogaethau, a chwergi eu holl fwynhad. Nid yw yn ormod dywedyd, fod mwy na naw rhan o bob deg o'r drygau, y gofidiau, a'r traillodion sydd wedi cyfarfod dynion, wedi cael eu hachosi gan weithrediad yr egwyddorion a'r nwydau dieflig hyn.

* Gellid egluro y testyn hwn yn helaethach; ond fel y mae yr Awdwr wedi cael achlysur i olrhain egwyddorion gweithrediad moesol yn fanylach, yn eu perthynas â thrigolion pob byd, yn ei waith ar "Athoniaeth Crefydd,"—y mae yn cyfeirio ei ddarllenwyr at y traithawd hwnnw, am esboniad helaethach ar y gwahanol byncian, at y rhai y cyfeiriwyd yn fyr, yn y dalenau blaenorol—ac yn neillduol at Pen. I drwyddi, a Pen. II, Dosparth 3, 4, 5, 6, 8, a'r *Casgliadau Cyffredinol*, (2il argraffiad) tu dalen 619, hyd y diwedd.

Pa fath ddedwyddwch, gan hyny, a raid fod wrth uno mewn cymdeithas mewn lle na ddaw y fath deimladau echrys byth i daenu eu dylanwad niweidiol, a'r lle y mae cariad, hedd-wch, a chyd-undeb, parch cydradd, caredigrwydd brawdol, a chariad yn teyrnasu byth! Rhaid y bydd ymadael o fydd, lle y mae hunanoldeb a dygasedd, cynhenau ac ymrysonau, rhyfeloedd a dinystr, mor gyffredinol â myned i olygfa o fwynhad lle y mae gwenau haelfrydedd yn pelydru o olygon creaduriaid gogoneddus, yn ddirifedi, yn derchafu yr enaid i'r llawenydd mwyaf, ac yn sylfaen yr holl "ddigrifwch sydd ar ddeheulaw Duw yn dragwyd."—Hyd yn oed yn y byd hwn, yn nghanol y drygau naturiol sydd yn awr, O! y fath olygfa o ddedwyddwch a welid pe byddai yr holl ddynion dyngarol sydd yn awr, neu a fu, yn addurno ein natur yn yr oesau a aethant heibio, gael eu cynull yn nghyd yn un gymdeithas, ac i gyfeillachu â'u gilydd, yn unig, heb eu blino gan "y byd sydd yn gorwedd mewn drygioni." Tybiwn fod cymdeithas éang yn cael ei ffurfo o gymeriadau fel Moses, Elias, Jeremiah, Daniel, Paul, Iago, a Ioan, yr Efengylwyr, dynion a'i cyfrifent yr anrhydedd mwyaf i ogoneddu Duw, a helaethu iachawdwriaeth dynion,—a'r fath ddyngarwyr â Howard, Clarkson, Venning, a Sharpe, y rhai a ddangosant y serchog-rwydd mwyaf haelionus, ac a dreuliasant eu hoes mewn llafur diflino i wella cyflwr y carcharor—gwaredu y truenus yn mhob gwlaid—rhyddhau y caeth oddiwrth ei orthrymydd—tywallt goleuni ac awyr bywiol i ddaeargelloedd afiachus, a gwasgaru bendithion yn mysyg dynolryw yn mhob man,—y fath athronwyr treiddgar â Locke, Newton, a Boyle, y rhai yr oedd eu galluoedd cryfion yn cofleidio y bydoedd defnyddiol a meddylgar, ac a ychwanegasant at eu cyrhaeddiadau meddyliol, addfwynder, gostyngeiddrwydd, hynawsedd tymher, a haelfrydedd cyffredinol,—y fath dduwinyddion rhagorol â Watts, Doddridge, Bates, Hervey, Edwards, Lardner, a Dwight, y rhai yr oedd eu calonau yn llosgi mewn eiddigedd i ledaenu gogoniant eu Hathraw Dwyfol, ac i helaethu daioni presenol a thragwyddol eu cyd-ddynion. Byddai cymdeithasu yn barhaus gyda'r cyfryw rywbeth yn dynesu yn agos at bardwys ar y ddaear, hyd yn oed gyda'r anmherffeithrwydd a'r gwendidau oedd yn nglŷn wrthynt yn y bywyd hwn.

Ond tybier fod y cyfryw rai wedi eu diosg o bob anmherffeithrwydd meddyliol a moesol, ac wedi eu cynysgaeddu â

phob egwyddor santaidd, a rhinwedd ag y gellir addurno cre-adur â hwy, ac â galluoedd treiddgar mewn ymarferiad gwas-tadol, yn preswylio mewn byd, o'r lle y mae yr holl ddrygau naturiol wedi eu symud ymaith, a phob golygfa o ogoniant yn cyfarfod y llygaid ar bob cam, ac éangder diderfyn yn ymestyn ger bron y meddwl pur.—Tybier yn mhellach am greaduriaid rhesymol wedi eu donio â galluoedd rhagorach—wedi teithio trwy eithafion y greadigaeth, a chyfeillachu â thrigolion deng mil o fydoedd, ac wedi dysgu hanes y gor-uchwyliaethau Dwyfol tuag atynt, ac wedi eu hysprydoli â phob teimlad dynunol, â gostyng-eiddrwydd a chariad,—tybier fod cenhadau o'r desgrifiad hwn yn cael eu hanfon yn achlys-urol i'r gymdeithas nefol hon, o fydoedd eraill, ac yn adrodd fel y mae gweithredoedd nerthol Jehofah yn cael eu hamlygu yn yr ardaloedd hyny,—tybier fod "y dyn Crist Iesu" yn llywyddu yn eu mysg, yn uwchder ei ogoniant, ac yn amlygu ei ragoriaethau uchel i bob llygad,—tybier fod y bodau gogon-eddus hyn mewn ymddiddanion, myfyrdodau, ymchwiliadau, a diolchgarwch, ac addoliad, a gwasanaeth o haelfrydedd, gyda'u gilydd, mewn modd priodol i'r sefyllfa y preswyliant ynddi, ac i urddas eu natur,—ac ni a allwn ffurfio darlun egwan o wynfyd cymdeithasgar y byd nefol. Dyma gym-deithas y nef—cymanfa yr eglwys fuddygoliaethus; a byddai raid ein bod erbyn hyn wedi ein hysprydoli â chwaeth dwyfol, at yr hyn y mae yn rhaid i ni yn awr gael ein parotoi o ran teimlad a thuedd y meddwl, os disgwyliwn gael ein derbyn rhagllaw i'r "tŷ, nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd."

O gymdeithas fendigedig à gogoneiddus! lle nad oes an-nghydfod byth yn codi, lle nad oes yr un yspryd drygnawsaidd byth yn aflonyddu eu cymundeb cyffredinol, lle nad oes drwg-ewyllys byth yn cael ei amlygu, lle nad oes yr un brofedigaeth i gyffroi tawelwch y meddwl, lle nad oes yr un teimlad di-al-gar yn codi yn erbyn yr un o drigolion mwyaf llygredig y byd, lle nad oes anwiredd yn cael ei fynegi, lle nad oes ffolineb, chwerwedd, na chyfeiliornad byth yn dyfod i mewn, lle nad oes gŵg yn eistedd ar ael neb, na chwmwl yn cuddio tywiniad heulwen haelfrydedd,—lle y mae "santeiddrwydd i'r Arglwydd" yn ysgrifenedig ar bob calon, lle y mae yr holl aelodau wedi eu cysylltu yn nghyd yn rhwymau annatodol parch ac anwyldeb, lle y mae cyfeillgarwch wedi ei ddechreu na ddatodir mo hono byth, lle y mae cariad yn disgleirio yn

mhab mynwes, a haelfrydedd yn tywynu yn mhab gwedd, lle y mae rhagoroldeb moesol yn ei uwchder, ac yn amrywiaeth ei ffurfiaw dymunol, lle y mae "tyrfa fawr, na ddichon neb ei rhifo, o bob cenedl, a llwyth, ac iaith, a phobl," yn uno â angylion, archangylion, tywysogaethau, ac awdurdodau, i chwyddo cân iachawdwriaeth i'r Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen a laddwyd, yn dragwydd! Chwychwi, lu gogoneddus y nef, sydd yn gweini i etifeddon iachawdwriaeth ar y ddaear!—chwi, waredigion, o'n byd ni, "y rhai a ddaethant allan o'r cystudd mawr, ac sydd yn awr ger bron Gorsedd Duw, ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml!" Yr ydym yn hiraethu am uno yn eich cymdeithas fendigedig. Yr ydych yn preswylio yn mysg golygfeydd o orfawredd, a disgleirdeb bythol ddydd; yr ydych yn dragwyddol ddiogel oddiwrth bechod a galar, a phob afonyddwch. Y mae eich llawenydd yn ddiball, yn gynhyddol, ac yn fythol newydd,—y mae eich rhagolygiad yn ddiderfyn fel y greadigaeth, a'ch parhad yn sicr fel gorsedd y Duw dragwyddol! Yr ydym ni "yn preswylio mewn tai o glai, a'u sail yn y llwch," yr ydym yn teithio yn ngwlad "y pydewau a'r maglau," ac yn "mro cysgod Angau," yr ydym yn rhodio yn mysg golygfeydd o alar a dioddefaint, ac yn cael ein cylchynu â "phebyll cynhen," ac yn agored i falais "gwefusau twyllodrus a geneuau celwyddog." Yr ydym yn codi ein llygaid o'n "carchar daearol," yn yr hwn yr ydym yn awr fel "carcharorion go-beithiol," at eich trigfanau dedwydd chwi, gyda dymuniad hiraethlawn, gan waeddi, "O na byddai i ni adenydd Seraph, fel yr ehedem ymaith i orphwys yn eich cartrefle dedwydd!" Yr ydym yn hiraethu am gael uno â chymanfa a chynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, a ysgrifenwyd yn y nefoedd—yspryd-oedd y cyflawn a berffeithiwyd—myrddiwn o angylion—Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd, a Duw Barnwr pawb."

Bydded i Dad y trugareddau, yr hwn a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywiol am etifeddiaeth anlygredig, ein nerthu i barhau yn ein gyrrfa Gristionogol, a'n cadw yn ddigwymp, drwy amddiffyniad ei Anfeidrol Allu, trwy ffydd i iachawdwriaeth; ac mewn amser cyfaddas, drefnu i ni fynediad hel-aeth i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. I'r hwn y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

Gallwn ddysgu oddiwrth yr hyn y cyfeiriwyd ein sylw ato yn awr, pa beth a fydd yn cyfansoddi un defnydd chwerw yn y gospedigaeth sydd yn aros y drygionus yn y byd a ddaw. Fel y mae yr egwyddor o gariad, yr hwn sydd yn llanw meddyliau trigolion y nef, a'r holl effeithiau cysylltiedig, yn ffurfio sylfaen yr holl fwynhad yn y nef,—felly y bydd yr egwyddor o ddrygnawsedd sydd yn llywodraethu ar golonau y rhai drygionus, yn ffurfio y rhan fwyaf o'r trueni hwnw, yr hwn y maent wedi eu dedrydu i'w ddioddef yn y byd tragwyddol. Ni allwn lunio darlun mwy echrys o gosp ddyfodol, na thrwy edrych ar egwyddorion ffalsder, twyll, a drygnawsedd, a'r nwydau o falchder, casineb, malais, a dialedd, yn eu rhwysg a flywodraethus. Ni raid i ni ddarlungio i'n meddwl ddim yn fwy echrydus, yn lle cospedigaeth, na thrwy ystyried, fod yr Hollalluog yn goll-wng dynion i roddi llawn rwysg i'w tueddiadau maleisddrwg; a'u gadael "i fwyta ffrwyth eu ffyrdd eu hunain, a'u llanw a'u dychymygion eu hunain." Byddai yr effeithiau a achosid trwy ymarferiad a flywodraethus y fath nwydau ac egwyddorion, yn gyfryw ac a ddengys yn eglur, yr hyn a osodir allan yn yr ymadroddion, "y prif na bydd marw, a'r tân ni ddifydd," yn nghyd a'r canlyniadau o "wylofain a rhincian danedd."*

I'r dyben o egluro y golygiad hwn, a'i argraffu yn ddwysach ar feddwl y darlenydd, mi a ddeholaf ddwy neu dair o ffeithiau, mewn perthynas i bersonau neillduol, y rhai y mae eu henwau yn uchel mewn hanesyddiaeth.

Y mae pob darlenydd hanesiaeth yn adnabyddus o gymeriad a gweithredoedd *Antiochus Epiphanes*, yr hwn y mae ei enw yn sefyll mor amlwg yn nghofnodau annuwioldeb a throsedd. Gwedi gwarchae ar ddinas Jerusalem, efe a'i cymerodd trwy drais, ac yn mhen tua thri diwrnod, yr oedd wedi ei chyflwyno i gynddaredd y milwyr; a gorchymynodd i ddeugain mil † o ddynion i gael eu llofruddio, ac a arferodd bob math o greulondeb tu ag at y dinaswyr, ac a rifodd i'r cleddyf, yn ddidrugaredd, y cyfan a syrthiai i'w ddwylaw, y rhai a ystyriai ef fel ei elynion. Anfonodd Appollonius gyda 22,000 o wyr, gyda gorchymyn i ysbeilio *holl ddinasoedd Judea*, a lladd y gwyr, a gwerthu y gwragedd a'r plant, yn gaethweision. Daeth yn mlaen gyda'i fyddin mewn ymddangosiad heddychol, ac felly

Athroniaeth Crefydd, (2il argraphiad) o tu dalen 622, hyd y diwedd.

+ Y mae Rollin yn gosod y nifer yn 80,000.

neb ei ddrwg dybio gan yr Iuddewon, ac o blegid ei fod yn swyddwr gwladol mewn parth o Palestina. Bu yn gwbl lonydd hyd y Sabbath nesaf, a phan yr oedd pawb yn dawel, rhuthrodd arnynt i'w llofruddio yn annisgwyliadwy. Anfonodd rai o'i wyr i'r temlau a'r synagogau, gyda gorchymyn i gigyddio pawb a lechent yn y lleoedd hyny; tra yr oedd y lleill yn myned trwy heolydd y ddinas, ac yn llofruddio pawb a ddeuai yn eu ffordd. Yna, gorchymynodd i'r holl ddinas gael ei hysbeilio, a'i gosod ar dan; ac a dynodd i lawer yr holl adeiladau gwychion, ac a ddygodd ddeng mil o'r rhai a ffoisant rhag min y cleddyf, yn gaethion. Ond nid oedd Antiochus eto wedi ei ddiwallu â gwaed yr Iuddewon, eithr pendarfynodd gwbl ddinystrio eu crefydd, a difodi yr holl genedl. Anfonodd orchymyn allan i'r holl genhedloedd, i ymwrthod a'u hen grefydd a'u duwiau, ac addoli rhai y brenhin, dan boen y cospau mwyaf creulon. Cyflwynodd deml Jerusalem i Jupiter Olympus, ac a osododd ei ddelw ei hun i fynu, ar allor y poeth offrwm; a chafodd pawb a wrthododd ddyfod i addoliad yr eilun hwn, eu merthyru yn y modd creulonaf, neu gymeryd eu gorfodogi i gydsynio. Rhoddodd un Eleazer i farwolaeth, yr hwn oedd yn un o brif enwogion yr Iuddewon, ac yn hynafwr parchus, tua deg a phedwar ugain oed, doctor o'r gyfraith, "yr hwn yr oedd ei oes yn ddilyniad o fywyd difrycheulyd," ac yn ei ddienyddiad arferwyd y creulonerau mwyaf erchyll. Daliodd y saith brodyr, a elwir y *Macabeaid*, yn nghyd a'u mam, ac a orchymynodd eu fflangellu yn y modd mwyaf didrugaredd, er eu gorfodogi i fwyta cig moch, yr hyn yr oedd eu cyfraith yn ei wahardd, a phan y gwrthodasant, cynddeiriogodd i'r fath raddau, fel y gorchymynodd boethi padellau pres a chrochanau, ac wedi eu gwneud yn eirias, gorchymynodd dori tafod yr hynaf ymaith, a rhwygo croen ei ben, a thori ei ddwylaw a'i draed, yn ngwydd ei fam a'i frodyr. Gwedi ei ddarnio felly, dygwyd ef i ymyl y tan, ac i'w ffrio ar y badell. Gwedi hyny, cymerwyd yr ail frawd, ac wedi tynu ymaith ei wallt a chroen ei ben, efe a arteithiwyd yr un modd a'i frawd—rhoddwyd y pump eraill yn gyffelyb i farwolaeth—a gorchymynodd i'r diweddfaf o honyn, sef yr ieuengaf, gael ei boenydio yn waeth na'r lleill. Ac yn ddiweddfaf oll rhoddwyd y fam i farwolaeth.*

* Gellid gweled, hanes manylach o'r creulonerau hyn yn Rollin's Ancient History, vol. vii.

Cyn hir gwedi hyn, clywodd fod yr Iuddewon wedi codi gwrthryfel, ac efe a gynhullodd ei filwyr, ac a ffurfiodd fyddin gref, ac a benderfynadd ddinystrio yr holl genedl Iuddewig, a sefydlu pobl eraill yn eu gwlaid. Gorchymynodd i Lysias, un o'i gadfridogiyn, eu bwrw ymaith, wreiddyn a changen, fel na adewid yr un Hebreaf yn y tir. Pan yr ydoedd yn Persia, daeth gair ato, fod Lysias wedi ei orchfygu, a bod yr Iuddewon wedi ail gymeryd y deml, a bwrw i lawr yr allorau a'r delwau, a osodasai efe i fynu, ac wedi adsefydlu eu haddoliad cyntefig yno. Gwedi derbyn y newydd hwn, aeth yn wallgof gynddeiriog. Yn mhoethder ei nwyd, troes allan gyda'r fyddin oreu a allai gael, fel yr yspryd drwg, gan fytheirio dialedd yn ei ffordd, a bygwth na byddai dim llai, na chwbl ddinystri ar bob preswylydd yn Judea, a'r oll a berthynai ddynt. Gorchymynodd i'w gerbydv:r yru gyda'r cyflymder mwyaf, fel na chollid dim amser, er mwyn iddo gael boddloni ei gynddaredd ar yr holl genedl Iuddewig, heb adael neb o honynyt yn fyw yn y terfynau. Ond cyfryngodd yr Hollalluog yn yr amgylchiad, yn erbyn rhagluniaeth yr hwn yr oedd wedi cynhyrfu, ac ataliodd ei rwysg ffol. "Daliwyd ef," medd Rollin, "â phoenau dirfawr yn ei ymystgaroedd, ac a phangfeydd rhwymawl echrys." Eto, nid oedd ei gynddaredd wedi ei leddfu; a goddefodd ei gymeryd ymaith yn ei ffyrnigrwydd, gan fytheirio dïal ar wlad Judea a'i thrigolion, a gorchymynodd brysuro ar y daith. Ond fel yr oedd ei feirch yn rhedeg gyda chyflymder mawr, syrthiodd ef allan o'i gerbyd, a drylliwyd ei holl gorff i'r fath raddau, fel y dioddefodd ddygn boenydiau, ac yn fuan wedi hyny terfynodd ei fywyd annuwiol mewn marwolaeth echryslon.

Y mae y Tyrciaid, yn eu rhyfeloedd gyda'r gwledydd cymydogaethol, yn yr amser boreuol a diweddar, wedi bod yn ddiarhebol am eu drwg-anwydau, a'r creulonderau a arferasant at eu gelynion. Nid yw yr hanes a ganlyn ond un o fil a ellid eu crybwyll am y graddau pell yr â dynolryw iddo mewn bradwriaeth a dialedd, pan y byddont dan lywodraeth eu drwgnausedd.

Yn y rhyfel rhwng Turkey a Venice, tu a'r flwyddyn 1571, gwarchaeodd y Tyrciaid ar y Veniciaid, yn ninas Famagosta, yn ynys Cyprus. Trwy newyn, ac o herwydd diffyg arfogaeth, gorfu ar y Veniciaid gynyg amodau heddwch i'r Tyrciaid. Dygwyd hyny i benderfyniad. Cytunwyd ar yr amodau can-

lynol gan y ddwy blaid :—Fod y swyddogion a'r milwyr i fyned allan yn holl ogoniant rhyfel ; y tabyrdau yn euro, baneri yn chwifio, gyd a phump o fagnelau a'u hoffer ; ac i gael eu dwyn mewn diogelwch i Candia, mewn tair o longau y Tyrciaid, a bod y trigolion a fyddai yn aros gael perffaith ryddid i arfer eu crefydd, heb i neb ysbeilio eu heiddo, ac mewn llawn feddiant o'u breintiau. Dranoeth aeth *Bragadino*, cadfridog y Veniciaid, i dalu ei barch i Mustapha, cadfridog y Tyrciaid, gyda rhai o'i brif swyddogion. Ar y cyntaf derbyniwyd hwy yn groesawgar, a gorchymynodd Mustapha i Baragadino eistedd ar ei ddeheulaw. Aethant yn fuan i ymddiddan yn nghylch y carcharorion, ac fel yr oedd Mustapha yn cyhuddo Bragadino am ryw greulondeb a wnaeth ar y milwyr yn amser y gwarchae, Bragadino, yn foneddigaid, a wadodd y cyhuddiad. Ar hyn cododd Mustapha yn ei gyn-daredd, ac a orchymynodd ei rwymo draed a dwylaw, a llofruddio y lleill o flaen ei wyneb, heb sylwi dim ar eu caredig-rwydd, eu gwroldeb, na'r cytundeb, na'u sefyllfa ddiarfogaeth.

Cadwyd Bragadino at driniaeth greulonach,—gwedi ei ddirmyg u'i wawdio â'r iaith atgasaf—gwedi tori ei glustiau, a'i drwyn, a holli ei wefusau—gosodwyd ei wddf ar y pren ; yna mathrai Mustapha ef yn greulon, gan ofyn, pa le yr oedd y *Crist* hwnw yr oedd efe yn ei addoli, a pha ham na buasai yn ei waredu allan o'i ddwylaw ef ? Ar yr un pryd, ysbeilid y milwyr oedd yn y llongau, gan eu rhwymo wrth y rhwyfau. Gwedi gorphen gwaith y dydd, aeth Mustapha i'r ddinas, a rhoddodd orchymyn yn uniongyrchol i ddienyddio Tiepolo, un o'r gwyr mwyaf urddasol yno. Yn mhen ychydig ddyddiau gwedi hyny, cyn i Bragadino wellhau o'i archollion, dygwyd ef mewn dirmyg at yr holl adwyau a wnaethid yn y muriau, wedi ei lwytho â chelyrnau yn llawn o ddwfr a chymrwd, a gorchymynid iddo gusanu y ddaear cyn fynyched ac yr elai heibio i Mustapha ; creulondeb oedd yn codi tosturi hyd yn oed yn nheimlad y milwyr Tyrcaidd, ond ni allai godi yr un teimlad yn nghalon galed Mustapha. Gwedi hyny, cauwyd Bragadino i fynu mewn dellt-garchar a grogid wrth hwylbren un o'r llongau, lle yr oedd ei filwyr wedi eu cadwyno wrth y rhwyfau. Yr oedd yr olygfa o'r braidd yn anoddefol iddynt ; yr oeddynt yn beio gwaeledd a bradwriaeth Mustapha, yr oeddynt yn gwaeddi yn uchel am ddial, ac yn dymuno cael eu rhyddhau er mwyn hyny, hyd yn oed heb

arfau, er gwaredu eu cadfridog enwog, a dychwel y gospedigaeth oedd deilwng am y fath ymddygiad isel, brwnt, a llwfr. Rhoddwyd iddynt eu dymuniad gyda fflangellau creulon. Tynwyd Bragadino i lawr, a dygwyd ef i'r farchnadfa, yn nghanol trwst yr udgyrn, y tabyrddau, a'r offer rhyfel, a *blingwyd ef yn fyw*, dybenwyd ei fywyd, yn derfyn ar ei gymeriad gogoneiddus. Crogwyd ei groen, fel gwobr rhyfel, wrth hwylbren un o'r llongau a hwylid o amgylch y glanau, i wawdio y Veniciaid. Anfonwyd ei ben, gyda'r eiddo Andrea Bragadino, ei frawd, Lodovico, Martinenga, a'r gwrol Quirino, yn anrhigion i Selim, ymerawdwr Turkey.*

A allai yspryd drwg ddyfeisio poenydiau creulonach, neu ymddwyn yn fwy dirmygedig a drygnawsaid, na'r anghenfil creulon hwn? Y fath sefyllfa echrydus a fyddai bod dan lywodraeth y fath yspryd balch a chreulon bob dydd, am un flwyddyn, heb son am ganoedd o filoedd o flynyddoedd! Byddai cynhulliad o'r fath ysprydion, yn cael gollwng rhwysg i'w nwydau dilywodraeth, yn ddigonol i greu trueni yn mysg y rhai a fyddo o'u hamgylch, uwchlaw dim a all meddwl dyn, yn ei sefyllfa bresenol, ei ddychymygu.

Pan yr oedd y Normaniaid, dan William y Gorchfygwr, wedi cymeryd meddiant o Loegr, dangosasant y teimladau mwyaf creulon a llidiog tu ag at y brodorion. Arteithiasant hwy yn mhob modd, gan eu gorfadogi i weithio yn adeiladaeth eu cestyll, ac wedi eu gorphen, gosodent hwy dan lywodraeth plaid o ddynion halogedig a diefflig. Dalient bawb, y tybient fod rhyw feddianau ganddynt—meibion a merched—ddydd a nos; cludent hwy ymaith, gan eu carcharu, a'u llurgunio fel merthyron, er mwyn eu hyspeilio o'u haur a'u harian. Crogid rhai wrth eu traed, eraill wrth y fawd, â thân dan eu traed. Gwesgid penau eraill â charaiau lledr, er dryllio eu hesgyrn, ac ysigo ei hymenydd; teflid eraill i ffosydd llawn o nadroedd, a llyffaint, ac ymlusgiaid eraill; rhoddiid rhai yn y *chambre à crucit*. Dyma yr enw a roddid yn iaith y Normaniaid ar fath o gist fer, fâs, lawn o gerig miniog, i'r hon y teflid y dioddefydd er dinystri ei aelodau. Yr oedd math o beiriant erchyll i'w rhoddi i farwolaeth yn y rhan fwyaf o'r cestyll. Yr oedd hwnw yn swp o gadwynau trymion, mor bwysig fel na allai dau neu dri o ddynion ei godi. Cedwid y truan, ar yr hwn

* Gwel "Modern Universal History," vol. xxvii, tu dalen 405, 406.

eu gosodid, i sefyll ar ei draed, gan fath o gofer haiarn, wedi ei sicrhau wrth bawl, fel na allai nac eistedd, na gorwedd, na chysgu. Gwnaeth i filoedd farw o newyn. Gosododd dreth ar dreth ar y trefi a'r pentrefydd. Pan na byddai gan y dinaswyr ddim yn ychwaneg i'w roddi, yna llosgid y dinasoedd â thân. Gellid teithio diwrnod cyfan cyn canfod yr un dyn byw yn y trefydd, nac un maes gwrteithiedig yn y wlad. Yr oedd y tlodion yn marw o newyn, a'r rhai a feddent ychydig gynt, yn cardota o ddrws i ddrws. Ni thywalltwyd mwy o ofid a gwaes ar yr un wlad erioed, ie, yr oedd y Paganiaid yn dynerach yn eu hymosodiadau! Nid oedd ynt yn arbed y niynwentydd a'r eglwysdai; cymerent yr oll a gaffent, ac yna gosodid yr eglwys ar dâñ. Yr oedd trin y tir mor ofer, ac a fuasai trin y traeth ar làn y môr.*

Y fath olygfeydd o drueni y mae y cyfryw ddiaisiaid beilchion yn ei achosi yn y byd hwn! A ellid tybied fod y fath ysprydion yn cael eu cymhwysio i uno yn nghynulleidfa y rhai cyntaf-anedig, ac i gymeryd rhan yn ngorchwylion haelfrydedd y nef. Os ydynt yn y byd dyfodol mewn gwirionedd, rhaid eu bod mewn trueni yno; a chyhyd ac y byddo y fath nwydau dïeeflig yn parhau i gynddeiriogi, rhaid eu bod yn peri "galar a gwaes," yn mysg y cymdeithion sydd o'u hamgylch. Hyd yn oed o fewn terfynau marwoldeb, y mae y dyn sydd dan lywodraeth balchder, uchelgais, a phob nwyd o'r fath, yn chwerwi pob dedwyddyd a allai ei fwynhau, ac yn poeni meddyliau eraill; ac yn profi colynau yn ei enaid ei hun, cyffelyb o ran eu natur, i'r hyn a deimlai yn ngharchar cosp. Mi a egluraf y gosodiad hwn wrth yr yspryd a'r dymher a ddangosid mewn dau berson arbenig, a ymadausant yn ddiweddar i'r sefyllfa anweledig; yr oedd un yn enwog yn y byd gwleidyddol, a'r llall yn rhagori mewn llythyriant.

Y cyntaf y cyfeiriaf ato ydyw *Napoleon Buonaparte*. Yr oedd y dyn hynod hwn, a fu am tu ag ugain mlynedd, yn disgleirio bro y Dwyrain, fel goruchdân, yn ymddangos fel un yn gweithredu oddiar yr *uchelgais* mwyaf anngymedrol. Er ei fod wedi arfer creulonaderau dirfawr, megis yn Jaffa, a manau eraill, eto nid ymddengys ei fod yn ymhyfrydu mewn gweithredoedd o greulondeb, fel egwyddor lywyddol ei foddwl. Cario ei bwnc o uchelgais oedd ei nôd, yn ei gariad at fuddyg-

* Thierry's "History of the Norman Conquests," 8 vols. 1825.

oliaeth, yn yr anturiaethau rhyfygus a wnaeth, y rhai sydd wedi eu darlunio yn darawiadol, gan M. Segur, yn ei "Hanes Cenhadaeth Napoleon i Rwsia." Pan yr oedd yn Vitepsk, medd M. Segur, ar ei ffordd i Moscow,—"Ni ymddangosai ar y cyntaf yn ddigon gwrol i ymosod ar ei amcan (sef myned yn mlaen yn erbyn Moscow), ond yn raddol fe gryfhäodd yn ddigon nerthol i allu edrych ar y gorchwyl yn ei wyneb. Yna efe a ddechreuodd adystyried, ac yr oedd yr ymrysonau oedd yn ei feddwl fel pe buasent yn effeithio ar ei holl gorff. Sylwyd arno yn gwibio o amgylch ei ystafell, fel pe buasai yn ofni rhyw brofedigaeth beryglus: nid oedd dim yn sicrhau ei sylw; yr oedd bob moment yn dechreu ar ryw orchwyl, ond yn ei adael; rhodai o amgylch heb yr un gwrthrych ganddo mewn golwg; ymofynai am yr awr, ac edrychai ar ei oriadur,— ac megis wedi dihoeni, safai, ac ocheneidai yn drwm, a swniai iddo ei hun, gan gerdded o ddeutu. Yn nghanol ei drallod meddwl, anerhai y rhai a ganfyddai â rhyw haner ymadroddion, megis, 'Wel—Pa beth a wnawn ni?—A aroswn ni yma, ynte a awn ni yn mlaen!—Pa fodd y byddai yn bosibl aros yn nghanol byd mor ogoneddus!' Ni arosai am atebiad, ond gwibiai o amgylch fel pe buasai yn edrych am rywbeth, neu rywun, i derfynu ei anmhenderfyniad!—O'r diwedd, wedi ei orlwytho gan bwys yr amgylchiadau, a'i lethu gan ansicrwydd, taflai ei hun ar un o'r gwelyau a orchymynasai eu taenu yn ei ystafell. Ni allai ei gorff oddef, ond y gorchudd ysgafnaf, gan bwys cynhyrifiadau ei feddwl. Dyma y cyflwr yn mha un y treuliodd ran o ddiwrnod yn Vitepsk."

Yr oedd yr un aflonyddwch meddwl yn ei ddilyn drwy bob cam o'r anturiaeth beryglus hon. "Pan yr oedd yn Borodino," medd yr un ysgrifenydd, "yr oedd ei bryder mor fawr fel na allai huno. Yr oedd yn parhau i holi pa awr ydoedd, ac i ymofyn a glywid dim trwst, ac i anfon rhai i edrych a fyddai y gelynion gerllaw.—Gwedi cael tawelwch am foment, aflonyddwyd ef yn fuan â theimladau gwahanol. Yr oedd yn dychryn wrth edrych ar sefyllfa ddiymgeledd y milwyr, &c. Anfonodd Bessieres, un o'r cadfridogion yr oedd ganddo yr hyder mwyaf ynddo, a galwai ef yn ol lawer gwaith, gan ail ofyn ei gwestiynau pwysig. Codai i fynu eilwaith, gan arswyd rhag bod ei orchymynion heb eu cyflawni, a holai y tall-filwyr oedd yn gwarchod o amgylch mynedfa ei babell, a oedd ynt wedi cael eu darpariadau. Ac wedi cael atebiad bodlonol,

âi i mewn, ac ymollyngai i gwsg. Galwai drachefn yn tuan. Canfyddai blaenor y llu ef yn awr yn cynal ei ben â'i ddwy law; yr oedd y pryd hwn fel pe buasai yn myfyrio ar *wagedl gogoniant*; — ‘*Pa beth yw rhyfel? Trafniadaeth barbariaid, yr hwn y mae ei holl gelfyddgarwch yn gynwysedig mewn dangos pwys sydd gryfaf ar achos penodol.*’ Yna cwynai uwchben ansierwydd tynged, yr hyn a ddechreua ei brofi yn awr. Ymdrechmai drachefn i orphlwys ychydig, ond yr oedd y teithiau a wnaethai gyda y fyddin, a lludded y dyddiau a'r nosweithiau blaenorol, a'i holl ofalon a'i ddisgwyliadau pryderus bron wedi ei wisgo ymaith. Dihoenid ef gan lycheden gyffrous, peswch sych, a syched dirfawr. Ymdrechmai drwy weddill y nos i ddiwallu y syched oedd yn ei ysus.”

Pa ddyn erioed, a fwynhaodd bleserau tawelwch, a genfigenai byth wrth y fath deimlad meddwl ag a ddarluniwyd yn awr, er bod wedi ei amgylchu â gogoniant daearol. Rhaid fod yr uchelgais gwallgof, oedd yn rhwygo ei fynwes ef, yn boenydiol i'w feddianydd, pa le bynag y byddo yn y bydysawd, o dan ei ddylanwad.—Y mae y claerineb gyda'r hwn yr edrych y cyfryw rai ar ddinystrio bywydau dynion, a'r trueni a achosa eu nwydau dilywodraeth ar eu cyd-ddynion, yn cael ei egluro yn y talfyriad canlynol:—

“Gofynnodd i Rapp, a dybiai efe yr enillent y frwydr? ‘Nid oes amheuaeth,’ oedd yr ateb, ‘ond y byddai yn un waedlyd.’ ‘Mi a wn hyny,’ meddai Napoleon, ‘ond y mae genyf 80,000 o wîr; collaf 20,000; âf i Moscow gyda 60,000; yna bydd y godreuon yn uno â ni, a'r catrodau hefyd sydd ar y daith, a byddwn gryfach nac yr oeddym cyn y frwydr.’”

Y person arall y cyfeiriais ato ydyw Arglwydd Byron. Y mae y darluniadau canlynol o'i gymeriad wedi eu codi o “Adgofion am fywyd Arglwydd Byron, o'r flwyddyn 1808 hyd 1818, wedi eu cymeryd o ysgrifau awdurol,” &c., gan R. C. Dallas, Yswain.

“Yr oedd wedi tynu ei hun i lawr o ran ei archwaeth,” meddai Mr. Dallas, “i'r ymborth ysgafnaf—ond yr oedd nwydau ei galon yn rhy gryfion, ac ni feddyliodd erioed am eu gorchfygu *hwyl*. Yr oedd dialedd, a llid, a chasineb yn cael llywodraeth arno; a'i hyfrydwch y pryd hwnnw, oedd llanw ei ysgrifell â bustl yn erbyn personau, ei wlad, y byd, y greadigaeth, a'r Creawdwr — yr oedd casineb a blinder ei fywyd, yn ei arwain i amheuaeth ac annuwioldeb. Heb erioed ymgyd-

nabyddu â chymdeithas benywod, yr oedd yn eu cashau i'r eithaf. Nid oedd ganddo yr un dychymyg am ddedwyddwch teuluaid. 'Y mae teulu mawr, yn fy ngolwg,' dywedai, 'fel defnyddiau gwrthwynebol, wedi eu cymysgu trwy orfod, yn un drwyth, yr hwn ni allaf ei archwaethu.' Yr oedd ganddo y fath gasineb at ei berthynasau, yn enwedig y benywod, fel na fynai eu gweled. 'Yr wyl yn ystyried rhwymau perthynasol,' medd efe, 'yn waith rhagfarn, ac nid yn undeb calon, yr hwn sydd raid ei fod o ddewisiad rhydd.'—Ac yn gyson a'r golygiadau a'r teimladau hyn, yr ymddiddanai am ei garenydd, Iarll Carlisle, gydag eithaf casineb. Gwedi derbyn llythyr cyffrōus oddiwrtho, penderfynai ymddial arno, drwy fwrw yr holl fustl a allai ei gasglu i iaith dychan.' Cyhoeddai yn erbyn pob rhwymau perthynasol, a gwrthodai, hyd yn oed gymdeithas ei chwaer, hyd wedi iddo gyhoeddi ei 'Childe Harold,' pan o'r diwedd y derbyniodd fy nghyngor, ac y dynesodd at dynerwch cymdeithasol.'

Yma yr ydym yn cael darlun o ddyn, yr hwn yr oedd, "dialedd, llid, a chasineb," yn llywodraethu ar ei galon, heb yr un ataliad; yr hwn a ollyngai ei fytheiriad ar y Creawdwr, a'r byd a greodd; yr oedd yn holol gashau ei gydgcadur-iad, ac hyd yn oed ei fodolaeth ei hun; ac fe a wawdai bob rhwymau perthynasol, ac a "wrthodai gymdeithas ei chwaer." Y fath drueni echrydus, a barai dyn o'r desgrifiad hwn, pe na byddai i'w nwydau drygionus gael yr un ataliad gan gyfreithiau dynol yn y byd hwn!

Ni wnaf ond mynegi un esiampl o'r fath yn rhagor, wedi ei gymeryd o "Deithiau Cadben Cochrane yn Rwsia."—"Gwedi dyfod ar gyfer Prwsia," medd y Cadben, "Galwyd am fy nhrwydded, a holid fi, gan ddyhirod cerniog, a'm symudai o'r naill fan i'r llall, fel gwrthrych gwawd i'r swyddogion hunanol; yr oeddwn yn lluddiedig, ac yn awyddus i fyned rhagof, ond ni chaniateid hyn i mi. Gosodwyd fi mewn ystafell fawr, yn llawn o gelfi milwyr, lle yr oedd dwy fainge hir, yn gwasanaethu yn lle cadeiriau, wrth fwrdd hir. Gofynais am swper i wr y tŷ, yr hwn a chwarddai am fy mhen; a phan y gofynnwn am wely, cyfeiriai fi at y llawr yn wawdus, gan wrthod rhoddi i mi ychydig o'r gwellt a ddygid yno i'r milwyr. O'r holl ddiafiaid a fu erioed, neu y dychymygwyd am danynt yn nghrwyn dynion, ystyriwyf wr y gwestŷ hwn y duaf. Meddyliais am Gil Peres ar y pryd, ond buan y suddai hwnnw

yn ddim mewn cydmariaeth â'r adyn oedd ger fy mron, o ran drygnawsedd ac atgasrwydd. Yr oedd ei wyneb wedi ei haner guddio â barf ddu, a blew cernau crych; yr oedd yn llai o faintioli na'r cyffredin, a'i ben yn suddo rhwng ei ysgwyddau, i wneud lle i uwchder ei gefn; ei lygaid wedi eu claddu yn nghydynau ei wallt trwch,—a chyda hyn, yr oedd ei droed clwb, a'i lais ysgrechog, fel dyluan, pan y ceisiai siarad, yn ei osod allan yn rhyfedd, a bellach chwi a ellwch ddychymygu rhywbeth am y dynwared dyn hwn.” Yma, darlunir i ni ddyn, yr hwn yr oedd drygnawsedd ei feddwl, ac anffurfiad ei gorff, yn dwyn tebygrwydd neillduol i'r creaduriaid truenus, na lewyrchodd haelfrydedd i'w mynwesau erioed, ac ni welir ond y gwrthrychau gwrthunaf yn eu haneddau, ac na chlywir ond dychryn a seiniau gwae o'u mewn.

Tybiwn, am foment, fod cynulleidfa luosog o ddynion o'r darluniad hwn wedi ymgynull mewn ardal dywyll. Tybiwn fod llawer o filoedd o filiynau o greaduriaid fel *Nero*, yr hwn a osododd Rufain ar dân, fel y difyrai ei hun yn gwrandeu cri a'u galarnadau, ac a ddirmygai y Nef, wedi offrwm moliant i'r duwiau, a llofruddio ei wraig a'i fam,—a *Tiberius*, yr hwn a ymhyfrydai wrth boenydio ei ddeiliaid, a'u llofruddio yn y modd mwyaf creulon,—a *Caligula*, yr hwn a hynodid am ei ffloedd, ei greulonder, a'i annuwioldeb, ac a lofruddiodd luaws o'i ddeiliaid a'i law ei hun, ac a barodd gigyddio miloedd o rai dieuog,—*Antiochus Epiphanes*, yr hwn a fynodd llofruddio deugain mil o drigolion Jerusalem mewn gwaed oer, gyda'r bwriad o ddinystro holl breswylwyr gwlaid Judea,—*Hamlicar*, yr hwn a daflodd yr holl garcharorion a ddaethant i'w afael, i'w llofruddio gan fwystfilod,—*Asdrubal*, yr hwn a dynodd lygaid yr holl garcharorion Rhufeinig a gymerodd er ys dwy flynedd, ac a dorodd ymaith eu trwynau, eu bysedd, eu coesau, a'u breichieu, ac a rwygodd eu crwyn â chribiniau haiarn ac ogau, ac a'u taflodd dros y mur,—*Jenghiz Khan*, yr hwn a daflodd ddeg-a-thriugain o benaethiaid i beiriau â dwfr berw-edig, ac a ymddyfyrail wrth weled ei fyddin yn torfynyglu can mil o garcharorion ar unwaith,—*Tamarlane*, yr hwn a ddangosodd ei greulondeb yn pwyo tair neu bedair mil o ddynion mewn morter; a'u hadeiladu yn mysg priddfeini a chymrwed mewn mur,—*Mustapha*, yr hwn a fradychodd swyddogion Venice, i'w llofruddio, er eu bod wedi cytuno ar amodau heddwch, ac a edrychodd ar flingo yr enwog Bragadino yn

fyw,—*Buonaparte*, yr hwn yn ei uchelgais gwallgof, a aberthodd gynnifer o filiynau o ddynolryw, a *Lord Byron*,* yr hwn y oedd “dialedd, a llid, a chasineb” yn llanw ei fynwes, ac a wnaeth i’w chwerwder redeg allan “yn erbyn personau, ei wlad, y byd, y greadigaeth, a’r Creawdwr;”—tybiwn fod y fath ddynion wedi cynull yn nghyd, mewn byd lle na byddo yr un gwrthrych dymunol i’r llygaid, nac i loni y galon na’r dychymyg ; a thybier hefyd fod yr egwyddorion drygnaws-ai, a’r nwydau cynhyrfus oedd yn llywyddu ar eu meddyliau, tra yn y byd hwn, yn parhau yn ddiataliad yn eu rhwysg yn wastadol at bawb o’u hamgylch,—ac y mae yn amlwg y parai olygfa o drueni tu hwnt i allu dyn ei feddwl, na’i ddar-lunio. Os achoswyd y cyfryw effeithiau ofnadwy gan y fath nwydau dieffig yn y byd hwn, lle y mae Rhagluniaeth yn gwahardd gweddill cynddaredd dyn, a lle y mae teimladau haelfrydig yn gymysg â’r egwyddorion drwg sydd mor gyffredin, pa beth a fyddai effeithiau *holol ddrwgnausedd* yn llywodraethu yn gyffredinol, heb un teimlad da yn gymsgedig, yn parhaus boenydio ei wrthrychau, ac yn bythol gynhyddu yn ei gynddaredd, heb yr un ataliad gan rwystrau naturiol na moesol arno ! Dyma gymdeithas uffern—dyma hanfod y trueni dyfodol—dyma “y prif na bydd marw, a’r tân ni ddifydd;” a’r effeithiau naturiol a dardd oddiwrthynt, yw trallod ac anobaith,—“wylofain a rhincian danedd.” Os hyn fydd diwedd yr annuwiol, a dirmygwr cyfraith Duw, a chyfoeth ei drugaredd, fel y mae wedi ei amlygu yn Nghrist Iesu, —O mor ofalus y dylem fod i wrthweithio pob tuedd a nwyd ddrygionus, ac mor wresog y dylem uno yn ngweddi y Salm-ydd, a phenderfyniad Jacob ; “Na chasgl fy enaid gyda phechaduriaid, na’m heinioes gyda dynion gwaedlyd.” “Na ddeued fy enaid i’w cyfrinach ; ac na uned fy anrhyydedd â’u cynulleidfa.”

Na thybied neb, o blegid fy mod wedi dethol rhai o’r cymriadau mwyaf echrys mewn hanesyddiaeth, fel dangosiad o

* Hydera yr awdwr na thybia yr un o’i ddarllenwyr am foment, wrth ddwyn yn mlaen y personau a enwyd, fel siamplau o ddrygionus, ei fod yn rhyfgyu penderfynu ar eu tragwyddol dynged. Ei amcan yn unig ydyw dangos, fod y fath deimladau a nwydau drwg, ac a ddangoswyd yn eu bywyd hwy yn gyffredinol, wrth *barhau ynddynt*, yn arwain yn naturiol i drueni. Mewn perthynas i *Buonaparte* a *Lord Byron*, y mae yn cael ei dueddu i feithrin gobaith fod eu tuiddiadau drygionus wedi eu cyfnewis i raddau cyn eu symud i’r byd tragwyddol. Y mae sail y gobaith hwn, ar y golygiad hwn, wedi ei egluro yn yr Attodiad.

effeithiau llygredigaeth,—mai y cyfryw yn unig sydd yn “llestri digofaint wedi eu cymhwys i golledigaeth.” Y mae yr egwyddor o ddygasedd yn gwbl yr un fath yn mhob calon y byddo yn llywodraethu yn benaf, gan nad faint a drwsiader ar ei ymddangosiad gan ragrith, a'r gwahanol gyfrwysedd a arferir yn y byd; ac nid oes eisieu ond ychydig o gyffro i'w gynhyrfu i ymarferiad, yn ei lawn rym, er dwyn yr effeithiau mwyafrif dychrynllyd i'r golwg. Bu amryw o'r cymeriadau echrydus y cyfeiriais atynt yn dangos graddau o haelfrydedd yn nghychwyniad eu bywyd, yn gystal ag amrywiol rinweddu eraill. Dangosai Nero, yn nechreuaned ei deyrnasiad, lawer o arwyddion o hynawsedd a gostyngeiddrwydd, a serchawgrwydd enillgar. Pan y dymunwyd arno arwyddo ei enw wrth restr o ddrwgweithredwyr oedd i gael eu dienyddio, efe a waeddodd, “*O gan Dduw na buaswn yn analluog i ysgrifenu!*” Dechreuodd Caligula ei deyrnasiad gyda phob arwyddion gobeithiol y deuai yn wir dad i'w bobl. Cuddiai Tiberius ei fwriadau ar y cyntaf dan gochl o ddiffuantrwydd mawr. Llywodraethai gyda chymedrollder, ac ymddangosai yn rhagori mewn moesgarwch. Ond yn mhen amser, pan y daeth y dynion hyn i feddiant llawn o awdurdod, ac wedi taflu ymaith bob tuedd uniondeb a gweddeidd-dra, torodd egwyddorion drygnawsedd allan ynddynt yn eu holl lidiawgrwydd, nes y daethant yn fflangell ar ddynolryw. Felly y bydd ar y rhai sydd yn awr yn cuddio eu nwydau drygionus a dïalgar dan fentyll o ddiffuantrwydd a moesgarwch, pan yr elont i'r byd anweledig dan lywodraeth y cyfryw nwydau. Pan y byddo ataliadau cymdeithas, gweddeidd-dra cyffredin, a chyfreithiau gwladol, wedi eu symud ymaith yn llwyr—pan y byddont wedi coll pob gobaith-am drugaredd Duw—pan y byddont wedi eu cylchynu â'u cymdeithion drygionus, a hwy yn unig, a phan y teimlont effeithiau eu malais â'u dialedd uffernol, adgyfyd y nwydau hyny i ymarferiad, ag sydd weithiau yn gorwedd yn llonydd yn y byd hwn, i gynddaredd a flywodraethus yn erbyn pawb o'u hamgylch—“yn erbyn y greadigaeth, ac yn erbyn y Creawdwyr.”

Ac na thybied neb y bydd i Dduw, yn awr angau, drwy ei allu a'i haelfrydedd, ddinystrio egwyddorion pechod, a pharotai y fath ddynion at lawenydd y nef. Byddai y cyfryw beth yn cynwys gwyrth gwastadol ar bob dyn, hollol anghyson â threfn sefydlog llywodraeth Duw, yn gymaint ag y difodai yr

angenrheidrwydd am bob addysg, a rhybudd, a pharotöadau moesol ag y mae Duw wedi eu darparu er *gwneyd* ei bobl “yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni;” ac ataliai adferiad moesol y byd, yr hyn sydd yn cael ei ddwyn yn mlaen yn awr gan y rhai sydd wedi “ymadnewyddu yn yspryd eu meddwl.” Y mae yn wir, fod trugaredd Duw yn anfeidrol, a bod gobaith cyhyd ag y byddo bywyd; fel nad oes achos i'r un pechadur ddigaloni tra y byddo o fewn cylch terfynau y bywyd presenol. Ond am y rhai sydd yn cael eu symud o fyd o amser i dragwyddol fyd, dan lywodraeth amlwg eu nwydau dialgar a llygredig, nid oes genym ond seiliau gweinion i gredu y parotoir hwy byth mwy at ddedwyddwch y nef.

Y mae yn amlwg oddiwrth y cyfan a fynegais ar y rhan hon o'm testyn, fod *dwy sefyllfa wahanol* mewn byd dyfodol: neu mewn geiriau eraill, fod *nef* ac *uffern*; sefyllfa o ddedwyddwch, a sefyllfa o drueni. Os ydyw dynion i fyw mewn unrhyw fodd mewn ardal arall o'r greadigaeth trwy barhad diderfyn, y mae yn angenrheidiol fod gwahaniad i gael ei wneuthur arnynt, o herwydd eu prif dueddiadau a'u cymeriad. Y mae natur pethau, cyfansoddiad moesol y byd, a dedwyddwch y creaduriaid rhesymol, yn gystal â bwriadau y Creawdwr, yn galw am fod i'r fath drefniad gael ei gwblhau. O blegid y mae yn hollol annglyson â deddfau trefn foesol, fod balchder, llid, dygasedd, a dial yn preswylio yn yr un anedd â gostyng-eiddrwydd, haelfrydedd, cyfeillgarwch, a chariad; neu y gallai creaduriaid yn gweithredu dan lywodraeth egwyddorion a serchiadau hollol groes i'w gilydd, ymuno mewn cydweithreddiad yn yr un gorchwylion, a chwaeth, a hyfrydwch. Pe byddai i'r fath gymundeb annglyson gael ei ganiatau, buan y deuai y byd moesol yn un olygfa o annhorefn cyffredinol, a dëolid dedwyddwch o'r holl fydoedd. Fel y mae y ddau gyflwr o anfarwoldeb a ddatguddir yn yr Ysgrythyd yn berffaith gyson âg egwyddorion rheswm, ac â chyhoeddiadau ein Gwareddwr, yr hwn, yn ddifrifol, a sicrhäodd i ni, yr “â y drygionus i gospedigaeth dragwyddol, ond y cyflawn i fywyd tragwyddol.”

ATTODIAD.

Y MAE y ffeithiau a'r cofnodau canlynol, mewn perthynas i Arglwydd Byron, yn ein harwain i feithrin gobaith ei fod wedi cael ei ddwyn i weithredu dan olygiadau a thueddiadau gwahanol i'r hyn a grybwyllir yn y tu dalenau 275, 276, cyn ei farwolaeth.

Gadawodd boneddiges Mr. John Shepherd, o Frome, cyn ei marwolaeth, yn mysg ei phapurau, weddi, yr hon y credai ei gŵr oedd wedi ei chyfansoddi dros y Bardd enwog. Anfonodd Mr. Shepherd yr ysgrif i'w Arglwyddiaeth, ac atebodd yntau fel y canlyn ar ol y llythyr

FROME, SOMERSET, Tachwedd 21, 1821.

At y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Byron, Pisa.

FY ARGLWYDD,—Er ys rhagor na dwy flynedd yn ol, cymherwyd gwraig garuaidd oddiwrthyf, drwy afiechyd dihoenus, gwedi yr undeb bŷr a fu rhyngom. Yr oedd yn meddianu ar hynawsedd a hyder diysgog, a duwioldeb mor wylaidd, fel mai anfynych y caffai ei amlygu mewn geiriau; eto, yr oedd mor dylanwadol ag y parai fod haelfrydedd cyson i'w weled yn ei holl ymddygiadau. Yn awr olaf bywyd, wedi cymeryd golwg ymadawol ar ein hunig faban ieuangc, at yr hwn yr oedd hi wedi dangos serchogrwydd anarferol, ei hymadrodd olaf yn ddistaw ydoedd, “Dedwyddwch Duw! Dedwyddwch Duw!” Gwedi yr ail gylch blynnyddol o gofion am ei marwolaeth, darllenais rai papurau oedd ganddi, nas gwelodd neb mo honynt yn ystod ei bywyd, ac a gynhwysent ei myfyrdodau mwyaf

dirgelaidd. Yr wyf yn teimlo awydd i gyflwyno rhai ymadroddion o'r papurau hyn i'ch Arglwyddiaeth, y rhai, yn ddi-amheu, sydd yn cyfeirio atoch chwi eich hunan; o blegid mi a glywais yr ysgrifenydd yn cyfeirio at y modd y gallech oddef gofid yn dawel ar greigiau Hastings:—

“O fy Nuw, yr wyf yn ymgalonogi, oddiwrth yr anogaeth a geir yn dy air, i weddio arnat, dros un, yn achos yr hwn yr wyf wedi dwys deimlo yn ddiweddar. Bydded i'r hwn yr wyf yn cyfeirio ato (yr hwn sydd yn awr, fel yr ofnwn, mor hynod am ei anystyriaeth o honot Ti ag ydyw am ragoroldeb ei dalentau) gael ei ddeffroi i ystyriaeth o'i berygl ei hun, a'i arwain i ymofyn am y tangnafedd meddwl hwnnw sydd mewn ystyriaeth brïodol o grefydd, yr hwn y mae efe wedi gweled na ddichon y byd hwn mo'i roddi. Caniata fod i'w ymddygiad rhagllaw fod yn foddion i effeithio mwy o ddaioni, nac a wnaeth ei fywyd a'i ysgrifiadau o ddrwg, a bydded i Haul y Cyf-iawnder godi arno mor ddisglaer ag y bu tywyllwch cymylau euogrwydd arno o'r blaen, a rhoddi esmwrythdra cyfatebol i'r trallod a barodd cosp ei ddrygioni arno, yr hyn a hyderwn a fydd ryw bryd rhagllaw. Bydded y gobaith, drwy ddifrifoldeb fy ymdrech fy hun i gyrhaedd santeiddrwydd, a chymer-adwyaeth fy serch at Awdwr crefydd, beri bod y weddi hon yn effeithiol, a phob dymuniad cyffelyb er daioni dynolryw yn fwy dylanwadol—er fy nghysuro yn llwybr dyledswydd; ond na byddo i mi annghofio, tra y caniateir i ni ymwroli i lafurio, trwy bob dyben cyfreithlawn, nad yw y rhai hyn ond y ffrydiau lleiaf a all wasanaethu i chwyddo y llif, ond a sychent i fynu yn fuan yn annibynol ar ffynon fawr daioni, (argyhoeddiad gwirioneddol o bechod, a chrediniaeth ddiysgog yn effeithiolaeth angau Crist, er iachawdwriaeth y rhai a ymdiriedant ynddo, ac a ymdrechant i'w wasanaethu,) gan ein gadael mor ddifygiol o bob rhinwedd ag oeddym o'r blaen.—*Hastings, Gorphenaf 31, 1814.*”

Nid oes dim yn y talfyriad hwn, fy Arglwydd, yn nhrefn ei gyfansoddiad, a all effeithio nemawr arnoch chwi, eto, dichon yr ymddengys yn werth eich ystyriaeth, pa mor ddwfn ac éang yr oedd teimlad dros ddaioni eraill, a ffydd Gristionogol, yn cael eu cyffroi yn nghanol ieuengctyd a hoewder.—Nid oes yma ddim yn awenyddol ac ysblenydd cyffelyb i urddas-

rwydd M. Delamartine; eto, ty mae yma *arddlywysedd*, fy Arglwydd, o blegid y mae yr eiriolaeth hwn wedi ei dderchafu drosoch chwi at Ffynhonell aruchel pob daioni. Cododd o ffydd fwy diysgog na'r eiddo y pryd ydd Ffrengig, ac o gariad, mewn cysylltiad â ffydd, a ddangosai nad oedd ei nerth yn cael ei anmharu yn nghanol trallodion a gofidiau angheuol. Gobeithiwf na bydd gweddi, a dderchafwyd dan deimlad mor ddiffuant, fod yn aflwyddianus.

Ni ychwanegai cymeradwyaeth dyn cyffredin, i'ch rhagoriaethau, ddim at yr enwogrwydd ag y mae eich athrylith wedi ei sicrhau i chwi eisoes. Dewiswn yn hytrach gael fy rhifo gyda'r rhai sydd yn dymuno ac yn gweddio, ar fod i "ddoethineb oddi uchod," a "llawenydd," a "thangnefedd," lanw y cyfryw feddwl.

YR ATEBIAD.

PISA, *Rhagfyr* 8, 1821.

SYR,—Derbynias eich Llythyr. Ni raid i mi fynegi fod y detholiad a gynhwysa wedi effeithio arnaf, o herwydd dangosai y darlleniad o hono mewn difaterwch, hollol ddiffyg o deimlad dynol. Er nad wyf yn hollol sicr mai ataf fi y cyfeiriai yr ysgrifenydd, eto, y mae y dyddiad, a'r lle y cafodd ei ysgrifenu, yn nghyd a'r amgylchiadau eraill a grybwylwch, yn dangos fod y cyfeiriad yn debygol. Ond, pwy bynag yr oedd wedi ei fwriadu iddo, mi a'i darllenais gyda'r holl hyfrydwch a allai godi oddiar destyn mor ddwys. *Hyfrydwch* meddaf, o blegid na ellir myfyrio ar y darluniad byr a dysymal a roddasoch o fywyd un mor ragorol, ac a hyderwyf a gyfarfyddwch eto yn fuan, heb y mawrhad dyledus i'w rhinweddau, a'i duwieldeb pur a gostyngedig. Yr oedd ei munudau diweddaf yn dra tharawiadol. Ac nid wyf yn gwybod i mi ddarllen dim mwy rhagorol o brydferth, yn yr holl hanesion a'r amgylchiadau a welais. Y mae yn ddiamheu fod gan gredinwyr diysgog yr efengyl fantais fawr ar bawb eraill—o blegid y rheswm hwn yn unig, os ydyw yn wirioneddol—cant hwy eu gwobr rhagllaw; ac os nad oes byd ar ol hwn, ni allant ond bod gyda'r anffyddiwr yn ei dragwyddol gwsg, wedi cael cynhorhwy

gobaith uchel drwy eu bywyd, ac heb gael siomedigaeth rhagllaw, o blegid (yn y man gwaethaf) “allan o ddim, ni all dim gyfodi,” ie, hyd yn oed tristwch. Ond nid yw cred dyn yn dibynu arno ei *hunan*; *pwy* a all ddywedyd, *Mi a* gredaf hyn, neu y llall? ac y mae yn neillduol felly am yr hyn na all ei ddirnad. Pa fodd bynag, yr wyf wedi sylwi fod y rhai sydd yn dechreu gyda ffydd ry éang, cyn y diwedd yn ei chyfyngu, megis Chillingworth, Clark, (yr hwn a fu farw fel Arian,) ac eraill; tra ar y llaw arall, nad oes dim mwy cyffredin na bod yr amheuwr boreuol yn diweddu mewn crediniaeth gadarn, megis Maupertius a Henry Kirke White. Ond fy ngorchwyl i ydyw cydnabod eich llythyr, ac nid gwneud sylwadau. Yr wyf yn ddiochgar i chwi am eich dymuniadau da, ac yn neillduol am y talfyriadau o bapurau gwrthrych anwyl, ag y mae ei rhagoriaethau wedi eu dynodi mor briodol genych mewn ychydig eiriau. Gallaf sicrhau i chwi, na wna yr holl enwog-rwydd a dwyllodd ddynoliaeth erioed, i feddyliau uchel am ragoriaethau personol, effeithio cymaint ar fy meddwl â'r teimlad pur a duwiol a gymerai y fath un rinweddol droswyf. Gyda'r golygiad hwn, ni newidiwn weddi yr un ymadawedig droswyf am holl ogoniant unedig Homer, Cæsar, a Napoleon, i'w gosod yn nghyd ar ben y byw.

Y mae genyf yr anrhydedd o fod,

Eich ufuddaf wasanaethwr, &c.,

BYRON.

O.Y.—Nis gwn a ydwyt yn anerch gweinidog, ai peidio; ond yr ydwyt yn tybio na bydd yn sarhad genych os ydwyt yn camgymeryd yn y cyfarwyddiad ar y llythyr. Bydd i un a eglurodd, ac a ddywys deimloedd athrawiaethau crefydd, fy esgusodi yn y cyfeiliornad a'm harweiniodd i gredu ei fod yn weinidog.

Addefa pawb fod y llythyr hwn yn dangos Lord Byron mewn golygiad rhagorach na'r darluniad a roddir o'i gymeriad gan Mr. Dallas, yn flaenorol i'r flwyddyn 1818. Y mae yr hanes canlynol am ei olygiadau ar ei wely angau wedi ei chymeryd o “Ddyddiau Diweddaf Arglwydd Byron.”

Ychydig ddyddiau cyn marwolaeth ei Arglwyddiaeth, dywed Mr. Parry:—

"Yr oedd yn saith o'r gloen prydnaeon pan y gwelais ef, pan y cymerais gadair yn ol ei ddymuniad, ac yr eisteddais wrth ochr ei wely hyd ddeg o'r gloch. Eisteddai ef ar y gwely, ac ymddangosai yn gwbl dawel. Ymddiddanodd â mi ar amrywiol bynciau, mewn perthynas iddo ei hun a'i deulu. Ymddiddanai am angau gyda hunanfeddiant mawr, ac er nad oedd yn credu fod ei ddiwedd mor agos, yr oedd rhywbeth ynddo mor ddifrifol a chadarn, mor ymostyngol a thawel, gwahanol iawn ibob peth a welswn ynddo o'r blaen, fel yr amheuwn ar amserau am ei ddatodiad buan. 'Parry,' meddai efe, pan yr aethum gyntaf ato, 'yr oeddwn yn awyddus iawn am gael eich gweled heddyw. Y mae rhyw deimladau rhyfedd wedi bod droswyf, ond y mae fy mhen yn awr yn well. Nid yw fy meddyliau yn dywyll, ac nid wyf yn amheu na wellâf. Yr wyf yn berffaith dawel—yr wyf yn sicr fy mod yn fy synhwyrau—eto, bydd trymder yn cerdded droswyf weithiau.' Dygai y crybwyliaid am hyny yr ystyriaethau pruddion yn ôl ato, ac yr oedd rhai ymadroddion yn dangos beth oedd yn llanw meddyliau Lord Byron pan y gadewid ef mewn distawrwydd iddo ei hun. 'Fy ngwraig! fy Ada! fy ngwlad! sefyllfa y lle hwn—fy symudiad yn anmhosibl, ac efallai angau—y maent oll yn uno i'm gwneyd yn ddwys. Yr wyf wedi cael fy argyhoeddi am ddedwyddwch teuluaidd. Nid oes yr un dyn ar y ddaear yn parchu mwy ar ferch rinweddol na mi; ac y mae y golygiad am ymneilldu yn Lloegr, gyda fy ngwraig ac Ada, yn rhoddi i mi ddrychfeddwel am ddedwyddwch na phrofais mo hono erioed o'r blaen. Bydd ymneillduad yn bob peth i mi, o blegid y mae einioes wedi bod i mi hyd yma fel yr eigion yn y rhyferthwy. Ni allwch ddirnad y meddyliau rhyfedd sydd yn fy llanw pan y byddo y llycheden yn ymosod arnaf.—Y mae tragwyddoldeb a'r eithafoedd o'm blaen, ond diolch i Dduw, yr wyf yn gwbl dawel ar y pwnc hwn. Y mae y meddwl am fyw byth, ac ail-fywau, yn hyfrydwch mawr. Cristionogaeth ydyw y grefydd buraf a rhyddaf yn y byd; ond y lluaws athrawon sydd yn blino dynion yn wastadol â'u bygythiadau ydyw gelynion penaf crefydd. Yr wyf wedi darllen llyfr Cristionogaeth gyda mwy o sylw na'u haner hwy, ac yr wyf yn cymeradwyo yr egwyddorion cariadlawn gwir haelfrydig a osododd Crist i lawr. Y mae cwestiynau yn perthyn i'r pwnc hwn na all neb ond yr Hollalluog eu hateb. Pwy a all ddirnad amser a gofod? Neb ond Duw—arno ef yr wyf yn ymddiried.'

Pwy a wyr nad gweddi y foneddiges ieuangc ragorol, a grybwyllyd uchod, a fu yn foddion i arwain ei Arglwyddiaeth i fynwesu y fath syniadau, ac ar y cyfan i sicrhau ei ddedwyddwch tragwyddol! "Llawer a ddichon taer weddi y cyfawn." Y mae yr ystyriaethau hyn, nid yn unig yn ein hanog i dderchafu ein gweddiau dros bersonau neillduol, ond hefyd i arfer pob moddion doeth a phriodol—mewn ymddiddan—mewn gohebiaeth—neu ryw foddion arall, i enill sylw y cyfryw, yn neillduol yn mhliith y radd uchaf mewn cymdeithas, sydd yn ymddangos yn ddiofal am "y pethau a berthynant i'w tragwyddol heddwch."

Dywedir fod y llinellau canlynol wedi eu hysgrifenu gan Lord Byron, ac wedi eu cael yn ei Fibr:—

" Mae yn y gyfrol hon i lawr
Ddirgelwch y dirgelion mawr.
Dedwyddaf ddyn o ddynolryw,
Yw'r sawl a gafodd ras gan Dduw,
I ddarllen a gweddio'n ddwys,
I godi'r foltt—myn'd trwy y drws;
Ond gwell pe nas ganesid hwy,
Sy'n darllen er amheuaeth mwy."


Nid oes genym ddim mor foddhäol yn achos *Buonaparte*, ag sydd genym am Byron, a'n harweinia i farnu fod ei olygiadau moesol a chrefyddol wedi cyfnewid er gwell. Pa fodd bynag, yn ei sefyllfa unig yn *St. Helena*, ymddengys fod achos crefydd wedi dwyn ei sylw, yn achlysuol. Y mae yr hanesyn canlynol, a gymerwyd o *La Casas' Journal*, yn dangos y syniadau oedd ganddo am foesgarwch y Testament Newydd:—

Mewn ymddiddan ar achos crefydd, a fu rhyngddo a'i gyfillion yn *St. Helena*, dywedodd, yn mhliith pethau eraill,—

" 'Pa fodd y gall argyhoeddiad gyrhaedd ein calonau, pan y clywn iaith annglyson, ac y gwelwn weithredoedd drygionus, y rhan fwyaf o'r rhai y mae eu swydd i bregethu i ni? Yr ydwyf fi yn cael fy amgylchu âg offeiriad sydd yn pregethu yn wastadol nad yw eu brenhiniaeth o'r byd hwn, ac eto y

maent yn dal gafael yn mhob peth a allont ei gyrraedd. Y Pab ydyw tad y grefydd hono sydd o'r nef, ac nid yw ef yn meddwl dim ond am y byd hwn,' &c. Diweddodd yr ymerawdwyr ymddiddan trwy ddymuno ar fy mab estyn y Testament Newydd iddo, a chan ddarllen o'r dechreuad, efe a barhäodd hyd ddiwedd pregeth Crist ar y mynydd. *Dywedodd ei fod wedi ei daro â syndod a maurhad, at burdeb, arucheledd, a phrydferthwch y moesoldeb a gynhwysai, a phrofasom yr un teimlad oll.*"





With many thanks

Dawn in the
marshy U.P.

LIBRARY OF CONGRESS



0 022 011 678 5





LIBRARY OF CONGRESS



0 022 011 678 5